

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Tri dramodydd cyfoes

Meic Povey, Siôn Eirian ac Aled Jones Williams

Williams, Manon

Award date:
2015

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 20. Jan. 2025

Tri Dramodydd Cyfoes:
Meic Povey, Siôn Eirian ac Aled Jones Williams

Traethawd Ph.D.

Manon Wyn Williams

Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor
Hydref 2015

Datganiad a Chaniatâd

Manylion y Gwaith

Rwyf trwy hyn yn cytuno i osod yr eitem ganlynol yn y gadwrfa ddigidol a gynhelir gan Brifysgol Bangor ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall yr awdurdodir ei defnyddio gan Brifysgol Bangor.

Enw'r Awdur: Manon Wyn Williams

Teitl: Tri Dramodydd Cyfoes: Meic Povey, Siôn Eirian ac Aled Jones Williams

Goruchwyliwr/Adran: Yr Athro Gerwyn Williams, Ysgol y Gymraeg

Corff cyllido (os oes): Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cymhwyster/gradd a enillwyd:

Mae'r eitem hon yn ffrwyth fy ymdrechion ymchwil fy hun ac mae'n dod o dan y cytundeb isod lle cyfeirir at yr eitem fel "y Gwaith". Mae'n union yr un fath o ran cynnwys â'r eitem a osodwyd yn y Llyfrgell, yn amodol ar bwynt 4 isod.

Hawliau Anghyfyngol

Mae'r hawliau a roddir i'r gadwrfa ddigidol trwy'r cytundeb hwn yn gwbl anghyfyngol. Rydw i'n rhydd i gyhoeddi'r Gwaith yn ei fersiwn presennol neu mewn fersiynau i ddod mewn man arall.

Cytunaf y gall Prifysgol Bangor gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Prifysgol Bangor o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

Cadwrfa Ddigidol Prifysgol Bangor

Deallaf y bydd y gwaith a osodir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, yn cynnwys asiantau a pheiriannau chwilio awtomataidd trwy'r We Fyd Eang.

Deallaf unwaith y gosodir y Gwaith, y gellir ymgorffori'r eitem a'i metadata yn y catalogau neu'r gwasanaethau mynediad cyhoeddus, cronfeydd data cenedlaethol theses a thraethodau hir electronig megis EthOS y Llyfrgell Brydeinig neu unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Deallaf y bydd y Gwaith ar gael trwy Wasanaeth Theses Electronig Ar-Lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan y telerau a'r amodau defnydd a ddatganwyd (<http://www.llgc.org.uk/index.php?id=4676>). Cytunaf fel rhan o'r gwasanaeth hwn y gall Llyfrgell Genedlaethol Cymru gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

Datganiad 1:

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd onid fel y cytunwyd gan y Brifysgol ar gyfer cymwysterau deuol cymeradwy.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 2:

Canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, mae maint a natur y cywiriad wedi'i nodi'n glir mewn troednodyn/troednodiadau.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Mae llyfryddiaeth ynghlwm.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 3:

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo, ar gyfer benthyciad rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

ON: Dylai ymgeiswyr y mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo gwaharddiad ar fynediad ar eu rhan, ddefnyddio'r fersiwn canlynol o **Ddatganiad 3:**

Datganiad 3 (gwaharddiad):

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ar ôl i waharddiad ar fynediad ato ddod i ben.

Llofnod (ymgeisydd)

Dyddiad

Datganiad 4:

DEWISWCH **un** o blith y dewisiadau isod

a)	Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, a lle bo angen wedi cael y caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	
a)	Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, pan fydd y gwaharddiad ar fynediad cymeradwy wedi ei godi.	
c)	Cytunaf i gyflwyno fy thesis (y Gwaith) yn electronig trwy gyfrwng system e-gyflwyno Prifysgol Bangor ond rydw i'n dewis peidio â chyflwyno copi electronig i Gadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig ac/neu unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, oherwydd na chafwyd caniatâd i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	

Dylid defnyddio Dewis B dim ond os yw'r Brifysgol wedi cymeradwyo gwaharddiad ar fynediad.

Yn ogystal â'r uchod rydw i hefyd yn cytuno â'r canlynol:

1. Mai myfi yw'r awdur neu wedi cael awdurdod yr awdur(on) i ddod i'r cytundeb hwn a fy mod i felly'n rhoi'r hawl i Brifysgol Bangor i sicrhau bod y Gwaith ar gael yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
2. Bod y copi electronig o'r Gwaith a gadwyd yn y gadwrfa ddigidol ac sydd o dan y cytundeb hwn, yn union yr un fath o ran ei gynnwys â'r copi papur o'r Gwaith a osodwyd yn Llyfrgell Prifysgol Bangor, yn amodol ar bwynt 4 isod.
3. Fy mod i wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y Gwaith yn wreiddiol a, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad yw'n torri unrhyw gyfreithiau – yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â difenwi, enllib a hawlfraint.
4. Fy mod i mewn achosion lle mae eiddo deallusol awduron eraill neu ddeiliaid hawlfraint wedi ei gynnwys yn y Gwaith, a lle bo'n briodol, wedi cael caniatâd eglur i gynnwys y deunydd hwnnw yn y Gwaith, ac yn ffurf electronig y Gwaith fel y ceir mynediad ato trwy'r gadwrfa ddigidol mynediad agored, *neu* fy mod i wedi canfod ac wedi dileu'r deunydd hwn na roddwyd caniatâd digonol a phriodol ar ei gyfer ac na fydd modd mynd ato trwy'r gadwrfa ddigidol.
5. Nad oes unrhyw ymrwymiad gan Brifysgol Bangor i gymryd camau cyfreithiol ar ran y sawl sy'n cyflwyno'r gwaith, neu ddeiliaid hawliau eraill, os digwydd bod hawliau eiddo deallusol yn cael eu torri, neu unrhyw hawl arall yn y deunydd a gedwir.
6. Y byddaf yn indemnio ac yn cadw wedi ei indemnio Prifysgol Bangor a Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhag ac yn erbyn unrhyw golled, atebolrwydd, hawl neu ddifrod, gan gynnwys yn ddigyfyngiad unrhyw ffoedd cyfreithiol a chostau llys cysylltiedig (ar sail indemniad llawn), sy'n gysylltiedig ar unrhyw achos lle'r ydw i wedi torri unrhyw amod yn y cytundeb hwn.

Llofnod: Dyddiad :

Crynodeb

Yn yr astudiaeth hon canolbwyntir ar ddramâu gwreiddiol i'r llwyfan a gyfansoddwyd gan dri dramodydd Cymraeg cyfoes: Meic Povey, Siôn Eirian ac Aled Jones Williams. A'r tri wedi eu geni yn y 1950au, bu eu cyfraniad rhyngddynt i'r theatr Gymraeg er canol y 1970au yn un canolog ac allweddol. Aethant i'r afael yn eofn a phynciau heriol gan eu harchwilio drwy ystod o dechnegau llwyfan.

Y cwestiynau ymchwil y ceisir eu hateb fydd; i ba raddau y mae'r dramodwyr yn tynnu ar brofiad personol wrth ysgrifennu a pha mor theatrig yw gweithiau'r dramodwyr. Er mwyn canfod atebion i'r cwestiynau hyn, canolbwyntir ar bob dramodydd yn ei dro.

Yn y bennod gyntaf, edrychir ar weithiau Meic Povey. Rhoddir cyflwyniad i'w gefndir a'i yrfa, amlinellir plot pob drama a thrafodir amrediad o themâu. Eir ymlaen i ddadansoddi ieithwedd y gweithiau dan sylw, cyn edrych ar dechnegau llwyfannu'r gweithiau yn unol â'r hyn a nodir yn y testunau, yn ogystal â chynrychiadau ohonynt. Dilynir y drefn hon yn y ddwy bennod a ganlyn hefyd; yr ail bennod yn trafod gweithiau Siôn Eirian a'r bennod olaf yn canolbwyntio ar waith Aled Jones Williams.

Sylwir, erbyn diwedd yr astudiaeth, fod y tri dramodydd yn tynnu'n sylweddol ar brofiadau personol wrth gyfansoddi ac adlewyrchir hynny mewn sawl agwedd o'r dramâu gan gynnwys plot, cymeriadau, ieithwedd, themâu a thechnegau theatrig. Fodd bynnag, ni olyga hynny y gellir cyfeirio at y gweithiau fel rhai hunangofiannol.

Cydnabyddiaethau

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i'm harolygwr, yr Athro Gerwyn Williams, am ei gefnogaeth, ei arweiniad a'i gyfeillgarwch trwy gydol y cyfnod ymchwil ac i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ariannu'r prosiect. Diolch yn arbennig i'r tri dramodydd, Meic Povey, Siôn Eirian ac Aled Jones Williams am eu caredigrwydd a'u parodrwydd i gynnal cyfweiliadau ac am eu cymorth yn y broses o gasglu testunau. Bu nifer o unigolion eraill yn hynod o gefnogol a chymwynasgar. Yn hynny o beth, hoffwn ddiolch i Bethan Jones, Siân Summers a Valmai Jones am fod mor barod i rannu eu profiadau hwy o gydweithio gyda'r dramodwyr. Diolch hefyd i'r Athro Hazel Walford Davies, Linda Brown a Chwmni Theatr Bara Caws, Paul Griffiths, Dafydd Guto, Branwen Davies, Arwel Gruffydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Archif Sgrin a Sain Genedlaethol. Yn olaf, carwn hefyd ddiolch i fy nheulu, fy ffrindiau, a'm cyd-fyfyrwyr a fu'n gefnogol ac yn gymorth trwy gydol yr ymchwil, yn enwedig fy chwaer, Heledd Haf Williams, a fu'n darllen y gwaith yn ystod y broses o'i ysgrifennu.

Manon Wyn Williams, Hydref 2015

RHAGAIR	1
PENNOD UN: MEIC POVEY	
1. Cyflwyniad	5
2. Themâu	
2.1 Tynnu ar brofiad personol	14
2.2. Bygythiad i Gymreictod	23
2.3 Y Mynydd a Marwolaeth	38
2.4 Rhagrith	45
2.6 Teulu	57
2.6 Damcaniaethau Naturiolaidd	65
2.7 Casgliad	68
3. Dylanwad Gwenlyn Parry	72
4. Cymeriadau	80
5. Ieithwedd	85
6. Yr elfen theatrig	109
PENNOD DAU: SIÔN EIRIAN	
1. Cyflwyniad	114
2. Themâu	
2.1 Dylanwad Plentyndod	119
2.2 Tabŵ?	132
2.3 Iaith	136
2.4 Pynciau Cyfoes	150
2.5 Gwleidyddiaeth	159
2.6 Cymdeithasol	174
3. Y theatr fel cyfrwng	185
4. Ieithwedd	194

PENNOD TRI: ALED JONES WILLIAMS

1. Cyflwyniad	204
2. Themâu	
2.1 Crefydd a Gwleidyddiaeth	208
2.2 Alcoholiaeth	226
2.3 Portread o'r fam	238
2.4 Portread o'r tad	245
2.5 Marwolaeth a Henaint	249
2.6 Geiriau	253
2.7 Cymreictod	260
2.8 Pynciau llosg	265
2.9 Deuoliaeth: 'Rhwng'	275
2.10 Hunangofiannol	283
3. Cyfrwng ac Ieithwedd	287
4. Yr elfen theatrig	321

CLO	336
------------	-----

ATODIADAU

1. Llyfryddiaeth Gyffredinol	338
2. Llyfryddiaeth: Meic Povey	339
3. Llyfryddiaeth: Siôn Eirian	353
4. Llyfryddiaeth: Aled Jones Williams	359
5. Rhestr o'r testunau a gwybodaeth am gynyrchiadau o ddramâu Meic Povey	370
6. Rhestr o'r testunau a gwybodaeth am gynyrchiadau o ddramâu Siôn Eirian	372
7. Rhestr o'r testunau a gwybodaeth am gynyrchiadau o ddramâu Aled Jones Williams	373

Rhagair

Ym 1961, cyhoeddwyd y gyfrol *Tri Dramaydd Cyfoes: Saunders Lewis, John Gwilym Jones, Huw Lloyd Edwards* gan J. Ellis Williams. Er nad yw awdur y gyfrol yn nodi'n blaen sail ei ddewis o ddramodwyr, mae'n amlwg o'r drafodaeth ei fod yn rhoi i'r tri statws pwysig yn nhwf a datblygiad y ddrama Gymraeg yn y degawdau blaenorol. Dros hanner canrif yn ddiweddarach, cynigia'r gyfrol honno ysbrydoliaeth ar gyfer yr astudiaeth bresennol, model i'w efelychu'n llac drwy ganolbwyntio ar yrfa tri dramodydd cyfoes a fu'n rhan ganolog o'r tirlun theatrig yng Nghymru o ail hanner y 1970au ymlaen: Meic Povey (g. 1950), Siôn Eirian (g. 1954) ac Aled Jones Williams (1956).

Wrth gwrs, y mae pob llenor yn amrywio o ran gweledigaeth, techneg, a'i ymdriniaeth o bynciau. Ond y mae cefndir cyffelyb y dramodwyr dan sylw yn yr astudiaeth hon yn golygu bod sail gref ar gyfer dod â'r tri ynghyd rhwng cloriau'r un traethawd ar gyfer astudiaeth ddadlennol. O ran eu cefndir, y mae'r tri ohonynt o fewn ychydig flynyddoedd i'w gilydd o ran oedran: fe'u ganed ill tri yn ystod y 1950au, y degawd cyntaf ar ôl i'r Ail Ryfel Byd ddod i ben. Fe'u magwyd hefyd ar aelwydydd 'traddodiadol Gymreig' lle rhoddwyd pwys ar ddiwylliant Cymreig, gyda Siôn Eirian yn fab i weinidog ac Aled Jones Williams yn fab i berson plwyf. Y mae'r tri ohonynt hefyd yn rhan o genhedlaeth o ddramodwyr a ddechreuodd ar eu gyrfaedd yn y cyfnod ôl-sensoriaeth lwyfan, hynny yw, ar ôl 1968, ac yn y cyfnod pan sefydlwyd am y tro cyntaf gwmni theatr Cymraeg proffesiynol sef Cwmni Theatr Cymru yn y 1960au ac yna nifer o gwmnïau theatr newydd megis Cwmni Theatr Bara Caws yn y 1970au, a oedd yn golygu bod llwyfan i'w cynnyrch. Yn ystod y 1970au hefyd codwyd nifer o adeiladau theatr newydd a phwrpasol i lwyfannu dramâu ledled Cymru, yn eu plith Theatr Gwynedd ym Mangor, Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, Theatr y Werin yn Aberystwyth a Theatr Sherman yng Nghaerdydd. At hynny, o'r 1960au ymlaen, datblygodd teledu a radio yng Nghymru yn fawr a chynnig cyfleoedd newydd o ran ysgrifennu Cymraeg y gallodd y tri fanteisio arnynt i amrywiol raddau. Nid yn unig y maent ymhlith y dramodwyr mwyaf cynhyrchiol yn y Gymraeg, ond maent hefyd yn dri dramodydd mentrus ac eofn eu hymdriniaeth o bynciau dadleuol sydd rhyngddynt wedi gwthio achos y theatr Gymraeg ymlaen.

Yn yr astudiaeth hon, canolbwyntir ar wahanol agweddau o weithiau pob dramodydd yn ei dro gan dynnu sylw at nodweddion cysylltiol rhyngddynt. Trwy ddadansoddi plotiau'r dramâu, canolbwyntir yn gyntaf ar y themâu cyffredin yr ymdrinnir â hwy o fewn y gweithiau gan ystyried beth yw tarddiad y themâu hynny. Dyma un o'r cwestiynau ymchwil

y ceisir ei archwilio yn yr astudiaeth, sef i ba raddau y mae'r dramodwyr yn tynnu ar brofiadau personol, ac yn arbennig brofiadau personol o'u magwraeth, wrth ysgrifennu ac yn adlewyrchu hynny yn eu themâu. O fewn yr is-adran honno, cyfeirir yn bur aml at adwaith y dramodwyr yn erbyn cymdeithas 'dosbarth canol Cymreig'. Teimlir ei bod yn bwysig nodi mai cyfeirio at ddiffiniad y dramodwyr o'r term hwnnw a wneir yn yr astudiaeth hon gan na chred awdur yr astudiaeth ei bod yn bosibl rhannu cymdeithas i ddsbarthiadau pendant.

Yn ail, rhoddir sylw i natur yr ieithwedd a arddelir gan y dramodwyr gan ystyried dylanwadau posibl ar eu technegau deialogi. Tynnir sylw at ymdriniaeth y dramodwyr o'r ddrama fel cyfrwng a'r gwahanol dechnegau dramataidd a ddefnyddir ganddynt, gan gofio bod y dramodwyr hefyd yn llenorion sy'n pontio sawl cyfrwng llenyddol. Cyfyd hyn y cwestiwn a welir dylanwad cyfansoddi ar gyfer gwahanol *genres* ar y sgrïptiau. Arweinia hynny'r drafodaeth at y cwestiwn ymchwil arall y ceisir ei ateb, sef pa mor theatrig yw gweithiau'r dramodwyr. Dylid nodi, fodd bynnag, yn hynny o beth, na ellir beirniadu'r dramâu yn annibynnol ar sail y cynyrchiadau ohonynt gan fod gweledigaeth y cyfarwyddwr yn chwarae rhan ganolog yn y cynnyrch gorffenedig. Ys dywed Aled Jones Williams, 'cymuned greadigol ydi drama rhwng awdur a'i sgrïpt, actorion a'u doniau, cyfarwyddwraig a'i dychymyg'.¹

Lluniwyd yr astudiaeth ar weithiau llwyfan y dramodwyr hyd 2012, ac eithrio'r ddrama *Garw* (2014) gan Siôn Eirian. Teimlid y dylid cynnwys y ddrama hon yn rhan o'r drafodaeth gan i'r dramodydd fod yn llai cynhyrchiol o ran ei weithiau llwyfan gwreiddiol Cymraeg na'r ddau ddramodydd arall a drafodir, a hefyd er mwyn cynnwys drama gyfoes o'i eiddo.

Wrth greu astudiaeth feirniadol fel hon lle astudir gweithiau awduron sy'n fyw, ceir dau begwn o fethodoleg; y fethodoleg awdur-ganolog sy'n rhoi ystyriaeth lawn i lais y dramodydd a'r pegwn arall nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i lais y dramodydd. Daeth bri ar yr ail fath hwn o fethodoleg yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif ac yn sgil cyhoeddi'r traethawd pryfoclyd, ôl-fodernaidd, *Death of The Author* (1967) gan Roland Barthes. Trafododd rôl, neu yn hytrach, ddiffyg rôl yr awdur wrth astudio testun gan ddweud y dylid diystyru'r awdur yn gyfan gwbl ac y dylid canolbwyntio'n hytrach ar y darlennydd. Dywed 'the birth of the reader must be ransomed by the death of the Author'.² Bwriad y traethawd

¹ Aled Jones Williams, yn Huw Roberts, 'Dramodydd yr isfyd', *Barn*, 410 (Mawrth 1997), 28.

² Roland Barthes (Richard Howard cyf.), *The Death of The Author* (1967), <<http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=2&ved=0CCoQFjABahUKEwi41fnckeXHAhUHjNsKHdBQDsQ&url=http%3A%2F%2Fwww.tbook.constantvzw.org%2Fwp->

hwn gan Roland Barthes oedd troi arferion beirniadol ar eu pennau i lawr gan chwalu'r hen feini prawf o dradyrchafu llais yr awdur ei hun. Gellid dadlau fod hynny'n llesol ar y pryd er mwyn cael golwg ffres ar feirniadaeth lenyddol. Ond bwriad y fethodoleg a arddelais i oedd canfod llwybr canol gan ddod â chydbwysedd yn ôl i feirniadaeth 'lenyddol'. Gyda chwestiwn ymchwil sy'n ymdrin ag agweddau personol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrofiadau'r awduron, credaf ei bod yn hanfodol ystyried llais yr awdur unigol. Mae'r berthynas rhwng awdur a'i waith yn un gref, bersonol ac unigryw gan mai'r awdur yn unig a fu'n rhan o'r daith gyflawn o greu'r gwaith gorffenedig (hynny yw, y sgrïpt) ac am hynny y mae rhoi ystyriaeth i'w lais yn greiddiol i astudiaeth o'r fath hon:

Chi yw'r sawl sy'n creu yn y lle cyntaf ac felly onid oes lle i chi hefyd yn y broses gymhleth o ddatgymalu testun? Heboch chi ni fyddai'r testun wedi gweld golau dydd ac felly hurt o beth fyddai anwybyddu eich bodolaeth yn llwyr, onide?³

Yn wir, mae llais yr awdur yn ffynhonnell berthnasol iawn i'w hystyried o fewn diwylliant bach fel y diwylliant Cymraeg, lle nad oes gormodedd o ffynonellau i'w harchwilio a chan fod perthynas mor agos rhwng awdur a'i gynulleidfa. Ond dywed Tudur Hallam, o ganlyniad i'r ffaith mai diwylliant bach yw'r diwylliant Cymraeg, y rhoddir mwy o sylw i'r awduron ar draul eu gweithiau ac ein bod yng Nghymru yn eilunaddoli ein hawduron:

Bydd angen mwy na theori i ladd yr Awdur yng Nghymru. Nid yn gymaint am fod Roland Barthes wedi hen farw – yr awdur a laddodd y cysyniad o'r Awdur ... ond am fod Cymru'n fyw. Bydd. Bydd angen mwy na theori ... A pham? Am fod gan awduron yma deuluoedd a chyfeillion a chydabod ... A dyma ystyriaeth arall. Mae gan awduron wynebau yng Nghymru. Maen nhw'n bobl.⁴

Yr oeddwn, wrth lunio fy ymchwil, yn ymatal yn fwriadol rhag dyrchafu llais yr awdur uwchlaw lleisiau eraill ac ni ddibynnwyd yn llwyr ar eiriau'r awdur fel ffeithiau digwestiwn. Rhaid oedd ymdrin â'r dystiolaeth hon, fel yn achos unrhyw dystiolaeth eilaidd arall, mewn modd gwrthrychol a heriol. Ond o beidio â defnyddio ffynhonnell unigryw o'r fath sydd ar gael i feirniad sy'n trafod awdur byw, byddai'r ymchwil yn ddiffygiol gan na fyddwn wedi archwilio pob ffynhonnell bosibl. Mae'n bwysig pwysu a mesur cynifer o wahanol safbwyntiau â phosibl ar destun, boed yn safbwynt adolygydd, beirniad, actor, neu

content%2Fdeath_authorbarthes.pdf&usg=AFQjCNHvCdt6FMTe5pA6BtP7ChYusv5MpA&bvm=bv.102022582,d.d24>, t. 6. (Ymwelwyd â'r wefan 7 Medi 2015)

³ Rhiannon Marks, 'Yr Ohebiaeth: Llythyr 1', *'Pe Gallwn, Mi Luniwn Lythyr'* (Caerdydd, 2013), t. 24.

⁴ Tudur Hallam, 'Eilunyddiaeth', *Tu Chwith*, 17 (Haf 2002), 31-2.

gyfarwyddwr o'r gweithiau, yn ogystal â'm darlleniad fy hun fel beirniad, actores a sgrïptwraig, cyn dod i gasgliadau cynhwysfawr. Hyderaf felly, gan fod y ddoethuriaeth hon yn cynnwys cofnod o sylwebaeth y dramodwyr eu hunain ar eu gwaith, fod gwerth ychwanegol i'r ymchwil.

Yr enghraifft fwyaf diweddar o drafodaeth ar y berthynas rhwng awdur a'i waith yn y Gymraeg yw cyfrol Rhiannon Marks, '*Pe Gallwn, Mi Luniwn Lythyr*' (2013), sydd hefyd yn trafod gweithiau awdur sydd yn fyw, Menna Elfyn. Yn y gyfrol, mae'n nodi nad yw beirniadaeth yn rhywbeth statig ond ei bod yn datblygu yn unol â phrofiadau bywyd yr unigolyn:

Ai'r bardd piau dweud a yw cerdd yn 'ffeminyddol' ei gogwydd ynteu ai'r darlennydd sy'n darllen cerdd trwy lygaid ffeminyddol ac yn gosod y fath label arni, neu a yw'r ddau yn cyfrannu at y broses o bennu ystyr cerdd? Dyna agor cil y drws ar y berthynas gymhleth rhwng awdur, testun, darlennydd ac amgylchiadau.⁵

Wrth lunio'i hymchwil, roedd Rhiannon Marks, fel minnau, yn ymwybodol o'r demtasiwn i ildio i lais yr awdur a dod o dan swyn ei eiriau. Ond wrth ymdrin â'r gweithiau, daeth, fel yn fy achos i, yn fwyfwy hyderus wrth drafod a herio llais yr awdur:

Mae'n werth nodi'r gwahaniaeth yn y berthynas rym sydd yn ymhlyg yn y ddwy ohebiaeth: tra bydd y llythyrau cychwynnol at Menna yn cyfleu ymdeimlad digamsyniol o israddoldeb o'm rhan i fel darlennydd oherwydd parchedig ofn tuag ati fel awdur, gydag amser datblyga'r berthynas yn un lle y caf innau sefyll ar yr un gwastad deongliadol â hithau.⁶

Mae'r gyfrol hon, fel fy astudiaeth i, hefyd yn dilyn y llwybr canol o roi ystyriaeth i lais yr awdur mewn modd gwrthrychol a beirniadol, a hynny mewn cyfres o lythyrau at yr awdur. Er mai traethawd ymchwil yw'r astudiaeth hon, yr un yw natur yr astudiaeth a'r un agwedd a gymerwyd at y broses feirniadol. Wrth lunio'i astudiaeth o weithiau'r dramodydd Harold Pinter, dywedodd Michael Billington:

The more I discovered about the plays, however, the more they seemed to be connected to Pinter's recollections of his own experience ... In the end, nothing can explain how a work of art is achieved; biographical information can occasionally open one's eyes.⁷

⁵ Marks, 'Y Cyflwyniad', '*Pe Gallwn, Mi Luniwn Lythyr*', t. 3.

⁶ Marks, 'Y Cyflwyniad', '*Pe Gallwn, Mi Luniwn Lythyr*', t. 13.

⁷ Michael Billington, 'Preface', *Harold Pinter* (London, 1996), tt. x-xi.

Pennod 1: Meic Povey

1. Cyflwyniad

mae'n rhaid ei fod ar viagra creadigol i allu
cynhyrchu cymaint o ddeunydd¹

“Mae'r boi 'na 'di marw, 'dydi – be' 'di 'i enw fo 'fyd – wsti, fo o'dd y copar Cymraeg ar Meindar.” Heblaw am selogion y ddrama Gymraeg (prin fel aur), dwi'n mawr ofni mai fel'na fydda i'n cael fy nghofio, am y pum munud y caniateir i mi gael fy nghofio, pan fyddaf yn ddim ond tocyn o lwch yn cael fy ngwasgaru ar wyneb y môr yng Nghaerdydd a Llanddwyn. Er gwaetha gyrfa amryliw dros ben, fel actor a sgwennwr, bron gyfan gwbl yn fy iaith gynta ... dyna, ym meddwl y mwyafrif llethol, fu fy nghyfraniad pwysica – neu amlyca o leia.²

Magwyd Meic Povey hyd nes oedd yn un ar ddeg mlwydd oed ym Mlaen Nantmor yn Eryri. Yr ardal hon yw gwreiddyn y rhan helaethaf o weithiau'r dramodydd, beth bynnag fo'r cyfrwng a beth bynnag fo'r iaith. Cyfleir dylanwad yr ardal ar y dramodydd ei hun trwy gyfrwng lleoliad, thema, cymeriadau neu blot ei ddramâu, ac er ei fod yn byw yng Nghaerdydd ers dros ddeugain mlynedd bellach, yno, 'wrth droed y Cnicht',³ ar 'fferm yn nhin y mynydd',⁴ y parha ei gartref ysbrydol hyd heddiw:

I'm from Nant Gwynant, Snowdonia, originally, and that's where my spiritual home has always been. Anyone who knows my work can see that it's all based there – or most of it anyway.⁵

Ganwyd Meic Povey yn Nhremadog ym 1950, y pumed o ddeg o blant, ac fe'i magwyd ar fferm anghysbell a didrydan, Gelli Iago, ym mhentref Nant Gwynant yn Eryri lle y treuliodd ddyddiau hapusaf ei fywyd yn ôl ei ddisgrifiad ef ohonynt. Bu'r cyfnod hwn yn ddylanwad mawr arno, nid yn unig fel awdur, ond hefyd fel unigolyn, wrth iddo gael ei fagu ar aelwyd gyfan gwbl Gymraeg a'i addysgu, ynghyd ag oddeutu pymtheg o blant eraill, mewn ysgol fechan yn y pentref, lle nad oedd gair o Saesneg i'w glywed.

Ond y newid mwya brawychus, o ddigon, oedd mynychu Ysgol Gynradd Garndolbenmaen am dymor yr haf 1962, cyn cychwyn ar fy addysg uwchradd yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog. Dychmygwch o ddifri: gadael ysgol glyd, gartrefol,

¹ Dafydd Llywelyn, 'Cyfri mawrion fesul deg', *Barn*, 443/444 (Ionawr 2000), 103.

² Meic Povey, *Nesa Peth i Ddim – Hunangofiant Meic Povey* (Llanrwst, 2010), t. 137.

³ Gwenno Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey* (Cricieth, 2000), t. 4.

⁴ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 10.

⁵ Meic Povey, yn Dafydd Llewelyn, 'Speaking Two Spokes', *New Welsh Review*, 60 (Summer 2003), t. 51.

un-dosbarth Nantgwynant ... a chael fy nhaflu i ganol hanner cant o blant, mwy nag un dosbarth, mwy nag un athro.⁶

Ym 1962, a Meic Povey yn un ar ddeg mlwydd oed, ymadawodd y teulu â'r fferm a mynd i fyw i ffermdy Tŷ Cerrig, rhwng pentref Rhos-lan a Garndolbenmaen, Eifionydd, lle'i haddysgwyd yn ysgol y pentref, cyn mynd i'r ysgol uwchradd ym Mhorthmadog am bedair blynedd. Ond dywed y dramodydd ei fod yn wastad wedi ystyried ei hun 'fel hogyn o Eryri':⁷

Roedd hi'n blentyndod hapus iawn tan i mi gyrraedd 11 mlwydd oed ... Dydi'r cyfnod rhwng 12 a 15 mlwydd oed ddim yn gyfnod dwi'n edrych arno gyda hapusrwydd mawr. Wnes i ddim mwynhau'r ysgol gyfun, gadewais yno'n syth bin. Nid mewn ysgol oedd unrhyw addysg ges i wedyn.⁸

Yn bymtheg oed, ymadawodd ag Ysgol Eifionydd gan fynd i weithio gyda chwmni cyfreithwyr William George a'i Fab, Porthmadog, am ddwy flynedd fel 'junior clerk',⁹ yn ogystal â gweithio ar benwythnosau yng Ngwesty Plas Gwyn, Pentrefelin. Yn ystod ei laslencyndod hefyd, fe'i cymerwyd dan adain 'Uncle Git',¹⁰ chwedl Meic Povey, sef yr actor Gruffydd Ellis Roberts (Guto Robaits) neu Guto Rhos-lan fel y'i hadwaenid yn ei gynefin – un o 'hoelion wyth y byd actio Cymraeg'.¹¹ Fe'i cofir yn portreadu cymeriad Ephraim, 'y fo', yng nghomedi sefyllfa Gwenlyn Parry a Rhydderch Jones, *Fo a Fe*. O dan ei hyfforddiant ef, bu'n adrodd mewn eisteddfodau ac ymhen amser, fe'i cyflwynodd i lwyfan Cwmni'r Gegin, Cricieth, ac am hynny y bydd Meic Povey 'yn fythol ddiolchgar iddo':¹²

pan o'n i tua deuddag, tair-ar-ddeg, dechreuis i adrodd wedyn – o'n i'n casáu hynny, roedd hynny yn cael ei orfodi arna'i. Ond pan o'n i'n bedair ar ddeg oed, ges i gynnig actio yn y Gegin yng Nghricieth.¹³

Yno, bu'n actio mewn dramâu megis *Y Fainc* (W. S Jones), *Esther* (Saunders Lewis), *Priodas y Tincer* (J. M. Synge) a *Gwrach y Botel* (Richard Morris Jones):

⁶ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 26.

⁷ Meic Povey, yn 'Cyfweliad gyda Meic Povey – Rhaglen Dewi Llwyd', <<http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/dewillwyd/pages/meicpovey.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

⁸ Meic Povey, yn Iwan England, 'Dwy ochr i'r un geiniog: Portread o Meic Povey', *Golwg*, 10/51 (3 Medi 1998), 26.

⁹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 45.

¹⁰ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 41.

¹¹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 225.

¹² Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 225.

¹³ Meic Povey, yn 'Cyfweliad gyda Meic Povey – Rhaglen Dewi Llwyd', <<http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/dewillwyd/pages/meicpovey.shtml>>.

Llwyddodd Cwmni'r Gegin i gyplysu plwyfoldeb agos-atoch a hwyl afieithus y theatr amatur gyda gofynion astrus ac eangfrydedd dychymyg y theatr fodern. Llwyddodd, mewn ardal wledig, i ddenu cynulleidfa o theatrgarwyr i wyllo a mwynhau dramâu a oedd yn ddigyfaddawd gymhleth o ran eu dull a'u hystyr, a chymhwysu'r dramâu hynny fel bod i'w gweledigaeth a'u cenadwri flas cwbl Gymreig.¹⁴

Y pedwar aelod a ffurfiai'r cwmni oedd Emyr Humphreys – a oedd yn 'gyfarwyddwr drama radio a theledu i'r BBC, cyn symud i Adran Ddrama Coleg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor';¹⁵ Wyn Thomas – 'pensaer a weithiai yng Nghaerdydd, ond a oedd hefyd yn actor brwd a dawnus';¹⁶ Elis Gwyn Jones – 'athro celf yn Ysgol Ramadeg Pwllheli, ac a ymddiddorai'n fawr yn y theatr fel cyfarwyddwr a dramodydd';¹⁷ a'i frawd yntau, a adwaenir erbyn heddiw fel un o gonglfeini mudiad y ddrama yng Nghymru yn ail hanner yr ugeinfed ganrif – William Samuel Jones. 'Roedd byd yr actor yn denu oherwydd rhamant bywyd actorion y sinema a'r teledu'¹⁸ – dau gyfrwng a gafodd beth dylanwad ar y Meic Povey ifanc. Dywedodd ei fod 'isio bod yn film-star'¹⁹ er pan oedd yn bum mlwydd oed. Oherwydd hynny, ac o ganlyniad i'r profiadau a gafodd yn troedio llwyfan theatr amatur Y Gegin, gwyddai Povey nad bod yn ŵr y gyfraith oedd ei wir alwedigaeth.

Roedd yn gwmni amatur da, yn llawn heavyweights megis Wil Sam, Ellis Wyn, Stewart Jones a Guto Roberts. Yn 14 ar lwyfan y Gegin, y perfformiais i am y tro cyntaf ... I rywun mor ifanc roedd o'n brofiad da iawn, roeddwn i'n lwcus i weithio yno.²⁰

Ac yntau bellach yn ddwy ar bymtheg oed, mudodd i Fangor, gan gychwyn ar ei waith ar 12 Chwefror 1968, fel llwyfannwr cynorthwyol gyda Chwmni Theatr Cymru a sefydlwyd gan Wilbert Lloyd Roberts. Roedd y cwmni hwn yn 'un o'r sefydliadau cyntaf yng Nghymru i gyflogi actorion, dramodwyr a staff technegol yn broffesiynol',²¹ ac o ganlyniad, roedd Meic Povey yn rhan o ddatblygiad newydd ac arloesol yn hanes y ddrama Gymraeg. Yr oedd,

¹⁴ Roger Owen, 'Theatr y Gegin a Cwmni'r Gegin, Cricieth', yn Hazel Walford Davies (gol.), *Llwyfannau Lleol* (Llandysul, 2000), t. 95.

¹⁵ Owen, 'Theatr y Gegin a Cwmni'r Gegin, Cricieth', yn Davies (gol.), *Llwyfannau Lleol*, t. 98.

¹⁶ Owen, 'Theatr y Gegin a Cwmni'r Gegin, Cricieth', yn Davies (gol.), *Llwyfannau Lleol*, t. 98.

¹⁷ Owen, 'Theatr y Gegin a Cwmni'r Gegin, Cricieth', yn Davies (gol.), *Llwyfannau Lleol*, t. 98.

¹⁸ Manon Elis Jones, 'Gweld Llais a Chlywed Llun' (Traethawd Hir B.A. Anghyhoeddedig Adran y Gymraeg Prifysgol Cymru Bangor, 1997), t. 1. (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Astudiaeth o waith Meic Povey 1988-1999, 3/3, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

¹⁹ Meic Povey, yn 'Cyfweliad gyda Meic Povey – Rhaglen Dewi Llwyd', <<http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/dewillwyd/pages/meicpovey.shtml>>.

²⁰ Povey, yn England, 'Dwy ochr i'r un geiniog', *Golwg*, 26.

²¹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 2.

bellach, yn sicr o ba lwybr i'w ddilyn, fel y nododd mewn erthygl yn y *Cambrian News* ar drothwy ei yrfa gyda'r cwmni:

'I am aiming not only at becoming a professional actor but also a playwright.'²²

Yn wir, bu Meic Povey yn ymhél ag ysgrifennu er pan oedd yn ifanc iawn. Bu'n gystadleuwr brwd yng nghystadlaethau barddoni Clwb Dewyth Tom yn *Y Cymro* a bu'n fuddugol ar sawl achlysur:

Mae'n fodlon cyfaddef ei fod wedi ymarfer cryn dipyn ar ei grefft dros y blynyddoedd a'i fod wedi "potchio llawar" cyn dod i adnabod ac i werthfawrogi ei grefft fel dramodydd.²³

Fel rhan o'r cwmni theatr newydd, cychwynnodd Wilbert Lloyd Roberts gynllun hyfforddi. Bwriad y cynllun oedd, nid yn unig meithrin actorion Cymraeg eu hiaith, ond hefyd dechnegwyr, gweinyddwyr, a rheolwyr llwyfan. Roedd Meic Povey, ynghyd â'r actorion Gwyn Parry, Dafydd Hywel, Grey Evans a Dylan Jones, yn rhan o'r cynllun hyfforddi cyntaf hwnnw ym 1968:

CYMRO Cymraeg cyntaf i'w benodi'n brentis o actor dan gynllun Cwmni Theatr Cymru i hyfforddi actorion proffesiynol yw Michael Povey, 18 oed, o Garndolbenmaen.

Dechreuodd actio, rhyw dair blynedd yn ôl pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog, ac mae eisoes wedi ymddangos droeon mewn dramâu a gynhyrchwyd yn y Gegin, y ganolfan gelfyddyd yng Nghricieth.²⁴

O ganlyniad i weledigaeth Wilbert Lloyd Roberts, cychwynnodd Meic Povey ar yrfa broffesiynol ym myd y ddrama a'r theatr, ac o ganlyniad, mawr yw ei ddyled a'i barch i '[d]ad y theatr Gymraeg fodern'.²⁵

Gan gydnabod Wil Sam, Guto, Elis Gwyn *et al.* cyn 1968, Wilbert Lloyd Roberts – cans efe ydoedd – fu'r dylanwad mwy ar fy ngyrfa broffesiynol, nes i mi gwarfod – a gweithio gyda – Gwenlyn Parry a David Lyn. Wilbert agorodd y drws i mi. Y fo hefyd agorodd ddrws (mawr iawn) i Gwenlyn a Dai Lyn tasa hi'n mynd i hynny –

²² Meic Povey, yn dyfynnu ei eiriau yn y *Cambrian News*, Ionawr 1968 yn Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 54.

²³ Jones, 'Gweld Llais a Chlywed Llun', t. 2.

²⁴ Dienw, 'Y Prentis Cyntaf', *Y Cymro* (1968), (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

²⁵ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 61.

trwy lwyfannu *Saer Doliâu*, y ddrama yn anad yr un arall a chwyldrodd y theatr Gymraeg yn y chwedegau.²⁶

Cynhyrhydd gyda'r BBC oedd Wilbert Lloyd Roberts pan gyfarfu Meic Povey ag ef gyntaf mewn clyweliad ym Mangor ym 1967. Aflwyddiannus fu ei ymgais i ymuno â'r criw o actorion proffesiynol a weithiai i'r BBC, gan nad oedd ond yn un ar bymtheg oed. Fodd bynnag, flwyddyn yn ddiweddarach, gadawodd Wilbert Lloyd Roberts y BBC er mwyn sefydlu'r gangen Gymraeg o Theatr Genedlaethol Cymru ym Mangor, a chofiodd 'am yr hogyn o Garn'.²⁷ Fodd bynnag, er ei ddyhead i ddod yn actor proffesiynol, nid dyna fwriad Wilbert Lloyd Roberts ar ei gyfer, gan y byddai'r llanc yn 'llawer mwy gwerthfawr iddo yng nghefn y llwyfan'.²⁸ O'r herwydd, yn Nhachwedd 1970, gadawodd Meic Povey y cwmni, ac ymhen blwyddyn, yn un ar hugain oed, mudodd i Gaerdydd. Er iddo brynu tŷ yn Rachub ym 1973 gyda'r bwriad o ddychwelyd i'r gogledd i fyw, yno yn y brifddinas y mae hyd heddiw. Yn ystod y deugain mlynedd y bu'n byw yno, bu'n gweithio am y tair blynedd cyntaf fel is-olygydd sgriptiau ar y gyfres ddrama *Enoc Huws*, golygydd y gyfres blant, *Pen ei Dennyndyn*, a chyd-storiö ac is-olygu cyfresi cynnar o'r gyfres *Pobol y Cwm* o dan arweiniad Gwenlyn Parry:

BYDD Michael Povey, yr actor 22 oed o Garndolbenmaen, Sir Gaernarfon, yn ymuno ag adran ddrama Teledu BBC Cymru ym mis Ionawr fel golygydd sgriptiau cynorthwyol.

O dan Gwenlyn Parry ... bydd Michael Povey ... yn y swydd newydd hon, yn gyfrifol am chwilio am awduron a deunydd dramau [*sic*] newydd, darllen a pharatoi adroddiadau ar ddramau a dderbynir [*sic*] ynghyd â golygu a chyfaddasu sgriptiau, rhai Cymraeg yn bennaf.²⁹

Ym 1972, roedd yn un o'r criw o actorion ifanc a fu'n gyfrifol am sefydlu Theatr yr Ymylon – cwmni a sefydlwyd yng Nghaerdydd ac a ddaeth yn theatr ddwyieithog yn fuan iawn wedi'i sefydlu. Bu'r theatr mewn bodolaeth am wyth mlynedd, gan gynhyrchu, yng ngeiriau'r dramodydd ei hun, 'ambell berl ond mwy na'i siar o gachu hefyd'.³⁰ Wedi hyn, bu'n gweithio ar ei liwt ei hun fel actor a dramodydd. Yn ogystal â phortreadu cymeriad Jones, 'y copar

²⁶ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 52.

²⁷ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 53.

²⁸ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 59.

²⁹ Dienw, 'Pigion' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³⁰ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 75.

Cymraeg³¹ yn y gyfres dditectif Saesneg *Minder* (1981-88) a leolwyd yn Llundain, bu'n gweithio fel perfformiwr mewn nifer o gynhyrchiadau ar lwyfan a theledu, gan gynnwys:

- *Pibydd Brith* (1968) (llwyfan);
- *Tresarn* (1971) (teledu);
- *Daniel Owen* (1970) (llwyfan);
- *Y Pry'* (1971) (llwyfan);
- *Cadw Reiat* (1971) (teledu);
- *Dibyn Dobyn* (1971) (teledu);
- *Lili'r Grog* (1971) (teledu);
- *Tartuffe* (1971) (teledu);
- *Dinas Barhaus* (1971) (llwyfan);
- *Pryderi and his Pigs* (1971) (llwyfan);
- *Miri Mawr* (1971-2) (teledu);
- *The Regiment* (1972) (teledu);
- *Y Garej* (1972) (teledu);
- *Yr Aderyn* (1972) (llwyfan);
- *Y Rhandir Mwyn* (1972) (teledu);
- *The Inheritors* (1973) (teledu);
- *Heyday in the Blood* (1977) (ffilm deledu);
- *Broc Mor* (1977) (teledu);
- *Dim ond Heddiw* (1977) (teledu);
- *Cofiant y Cymro Olaf* (1978) (llwyfan);
- *Gymerwch Chi Sigaret?* (1979) (llwyfan);
- *Gwen Tomos* (1980) (teledu);
- *Mae'r Gelyn Oddi Mewn* (1980) (teledu);
- *Minder* (1981-88) (teledu);
- *Glas Y Dorlan* (1983) (teledu);
- *Aelwyd Gartrefol* (1983) (teledu);
- *Almanac* (1985) (teledu);
- *Pedwar ar Bedwar* (1985) (teledu);
- *Y Dyn Nath Ddwyn y Dolig* (1985) (ffilm deledu);

³¹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 137.

- *Sul y Blodau* (1986) (teledu);
- *Ac Eto Nid Myfi* (1987) (teledu);
- *Hen Gnoi 'Ma* (1988) (teledu);
- *Teulu'r Mans* (1990) (teledu);
- *Gawain and the Green Knight* (1991) (ffilm deledu);
- *Un Nos Ola Leuad* (1991) (ffilm deledu);
- *Yr Enwog Wmffre Hargwyn* (1995) (teledu);
- *Mae'n Talu Withe/Crime Pays* (1995) (ffilm deledu);
- *Jazz Detective* (1997) (ffilm deledu);
- *Heliwr/Mind To Kill* (1998) (teledu);
- *C'mon Midffild* (2000) (teledu);
- *The Bench* (2001) (teledu);
- *Talcen Caled* (2003) (teledu);
- *Dr. Who* (2004) (teledu);
- *Sebastian* (2004) (ffilm 10 munud);
- *Pobol y Cwm* (2004) (teledu)
- *Emyn Roc a Rol* (2005) (teledu).
- *Scratching* (2006) (ffilm 10 munud).

Yn bump ar hugain oed, ysgrifennodd nofel, *Mae'r Sgwâr yn Wag* (1975) a dyma'r unig nofel o'i eiddo. Mae'n amlwg mai'r ddrama oedd y cyfrwng ysgrifenedig a oedd yn apeilio ato a chaiff ei adnabod fel dramodydd a sgriptiwr cynhyrchiol iawn ar gyfer y sgrin. Mae ei ddramâu a'r ffilmiau teledu yn cynnwys:

- *Nos Sadwrn Bach* (1981);
- *Aelwyd Gartrefol* (1983)
- *Meistres y Chwarae* (1983);
- *Tri Munud* (nas darlledwyd, 1983);
- *Camau Troellog* (1984);
- *Sul y Blodau* (1986);
- *Y Filtir Sgwâr* (1988);
- *Babylon Bypassed* (1988);
- *Yma i Aros* (1989);
- *Nel* (1991) a enillodd wobr BAFTA Cymru iddo ym 1991;

- *A Christmas Story* (1992);
- *Yr Ynys* (1992);
- *Y Weithred* (1995);
- *Ryan a Ronnie* (2008);
- *Reit Tu Ôl i Ti* (2013).

Lluniwyd addasiadau o'r dramâu llwyfan *Fel Anifail*, *Y Cadfridog*, *Wyneb yn Wyneb*, *Tair a Perthyn* hefyd ar gyfer y sgrin. O ran y cyfresi teledu y bu'n gyfrifol am eu sgriptio a'u cyd-sgriptio, y mae:

- *Glas y Dorlan* (1975-88);
- *Dim ond Heddiw* (1978);
- *Taff Acre* (1981);
- *Deryn* (1986-89);
- *Cerddwn Ymlaen* (1994-96);
- *The Dragon and the Rose* (nas darlledwyd, 1996);
- *Talcen Caled* (1997-2007) a enillodd iddo'i ail wobwr BAFTA Cymru yn 2005;
- *Yr Heliwr* (1998);
- *Bob a'i Fam* (2002);
- *Teulu* (2008-13).

Bu hefyd yn gyfrifol am sgriptio amryw benodau o *Pobol y Cwm*. Y mae ei ddramâu radio yn cynnwys oddeutu chwe drama i Radio 4, cyfieithiad o *Fel Anifail*, sef *Like an Animal* (2005), yn ogystal â:

- *Tŷ Haf* (1980);
- *For Real* (1993);
- *You Shouldn't Have Come* (2006);
- *Fire of the Dragon* (2007).

Er ei yrfa lwyddiannus fel sgriptiwr ar gyfer y cyfryngau torfol, y mae ei gyfraniad i'r ddrama lwyfan Gymraeg a Chymreig yn sylweddol ac mae lle i gredu mai ef yw 'dramodydd llwyfan mwyaf cynhyrchiol Cymru'.³² Y mae nifer o'i weithiau i'r llwyfan yn gynnwys comisiynau a fu'n allweddol bwysig yng ngyrfa Meic Povey ac yntau'n ymwybodol iawn na dderbyniodd unrhyw gymhwyster addysgol yn sail i'w yrfa: 'Dwi angen sgwennu i fyw ... Fedra' i ddim gwneud dim byd arall – o werth.'³³ Cyfansoddodd ddwy ddrama lwyfan

³² Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 4.

³³ Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

Saesneg, ond Cymreig eu themâu, sef *Indian Country* (2003), *Life of Ryan ... and Ronnie* (2005). Yn nyddiau cynnar ei yrfa cyfansoddodd ddwy refiw gerddorol hefyd, sef *Mwy Mwy Mwy* (1978) ar ran Theatr Ieuenctid Cymru a *Cofiant y Cymro Olaf* (1979) ar gyfer Cwmni Theatr Cymru yn ogystal â dwy ddrama lwyfan fer, *Y Pry* (1971) ac *Yr Aderyn* (1972):

Mae sgwennu creadigol yn rheidrwydd yn fy mywyd, yn ogystal â bod yn waith bara menynd. Dwi'n grediniol y byddwn yn dal i ymhél â'r grefft taswn i mewn proffesiwn cwbl wahanol – yn fwmbeili neu'n feddyg dyweder, neu'n berchennog gwesty, yr unig alwedigaeth arall i apelio ataf rioed.³⁴

Yn yr astudiaeth hon, canolbwyntir ar ddramâu llwyfan Cymraeg hirion o eiddo'r dramodydd a gyfansoddwyd cyn 2012 (nodir blwyddyn eu hysgrifennu), sy'n cynnwys:

- *Y Cadfridog* (1974);
- *Terfyn* (1978);
- *Chwara Plant* (1983);
- *Gyda Llaw* (1985);
- *Perthyn* (1986);
- *Gwaed Oer* (1992);
- *Wyneb yn Wyneb* (1993);
- *Diwedd y Byd* (1993);
- *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi* (1995);
- *Fel Anifail* (1995);
- *Bonansa!* (1996);
- *Tair* (1998);
- *Yr Hen Blant* (2000);
- *Sylw* (2002);
- *Hen Bobl Mewn Ceir* (2006);
- *Tyner yw'r Lleuad Heno* (2009).

³⁴ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 171.

2. Themâu

2.1 Tynnu ar brofiad personol

y dylanwad mwyaf ar rywun ydy nhw eu hunain.³⁵

Mae yna nifer o themâu yn cael eu cyflwyno yng ngweithiau Meic Povey, ac wrth astudio'i ddramâu fe welir mai'r un themâu sy'n ymddangos dro ar ôl tro yn y gweithiau. Yn ôl Menna Baines, gellir rhannu'r gweithiau'n weddol daclus i ddau focs:

Mae cip yn ôl ar y dramâu diweddar yn dangos bod y ddwy brif ffrwd sydd wedi bod i'w waith o'r dechrau yn dal i lifo'n gryf. Ar un llaw, ceir y dramâu modern eu gogwydd sydd wedi mynd i'r afael â phynciau penodol fel gwrywgydiaeth ac AIDS (*Wyneb yn Wyneb*, 1993) a sgitsoffrenia (*Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, 1995), fel yr oedd *Perthyn*, drama gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog 1987, yn ymdrin â llosgach. Ar y llaw arall, ceir y rhai sy'n tynnu mwy ar gefndir personol yr awdur, boed hynny mewn modd uniongyrchol, fel yn *Diwedd y Byd* (1992), portread o'i blentyndod ei hun, neu anuniongyrchol, fel yn *Fel Anifail* (drama gomisiwn Eisteddfod Bro Colwyn, 1995), lle mae'r co' am fore oes wedi'i weithio i mewn i stori am gwpwl oedrannus.³⁶

Yn wir, er i Meic Povey afael 'yn ddewr yn sgrepan rai o bynciau mwyaf sensitif ein hoes'³⁷ mewn amryw o'i ddramâu, ni ellir dianc oddi wrth ardal magwraeth y dramodydd. Yn ôl Meic Povey, mae pob dramodydd yn tynnu oddi ar ei brofiadau ei hun wrth ysgrifennu, ac mae'r elfennau hunangofiannol yn ei waith ef yn rhai cryfion iawn:

Os nad ydw i'n medru ysgrifennu amdana'i fy hun, ac am be' sydd wedi digwydd i mi dros y blynyddoedd, yna 'tydw i ddim yn meddwl ei bod hi'n ddrama werth ei chael.³⁸

Er y dylanwad a gafodd Guto Roberts, Wilbert Lloyd Roberts, W. S. Jones a Gwenlyn Parry ar Meic Povey, dywed, '[a]r ddiwedd y dydd, y dylanwad mwyaf ar rywun ydy nhw eu hunain'.³⁹ Wrth drafod y broses greadigol o ysgrifennu, dywedodd:

³⁵ Meic Povey, yn 'Dawn dweud yn dod o'r galon' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³⁶ Menna Baines, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 407/408 (Rhagfyr 1996 / Ionawr 1997), 88-9.

³⁷ Jones, 'Gweld Llais a Chlywed Llun', t. 33.

³⁸ Meic Povey, yn 'Adolygiad o Wyneb yn Wyneb', *Nene – Papur bro Rhosllannerchrugog, Ponciau, Penycae a Johnstown* (30/03/93), 5.

Cwestiwn a ofynnir yn aml ydi: ble i ddechrau? Yr ateb yn syml ydi: wrth eich traed. Dylai'r sawl sydd â diddordeb ac yn mynd ati am y tro cyntaf chwilio am stori sydd yn adlewyrchu eu bywyd nhw ar y pryd, sef rhywbeth y medrant uniaethu ag o ... Edrychwch o'ch cwmpas, ar ffrindiau a theulu; cloddiwch yno. Mae'r ddyfais o ddefnyddio teulu, boed eich teulu eich hun neu beidio, yn medru bod yn effeithiol iawn.⁴⁰

Y mae hefyd o'r farn y dylai dramodwyr ifanc ar ddechrau eu gyrfa ysgrifennu i oed, hynny yw, ysgrifennu am gymeriadau o'r un genhedlaeth â hwy eu hunain, er iddo ef ei hun gynnwys cymeriad canol oed yn *Y Cadfridog*, sef y ddrama gyntaf a ysgrifennodd ef pan roedd yn wyth ar hugain mlwydd oed. Dywed, 'y mae'n amhosib, ddywedwn i, i berson yn ei ugeiniau cynnar ddeall heb sôn am gydymdeimlo â pherson yn ei chwe degau'.⁴¹ Ond oni fyddai hynny'n arwain at ddiffyg amrywiaeth o fewn dramâu o ran y cymeriadau, eu safbwyntiau, eu daliadau a'u hieithwedd? Onid yw cael amrywiaeth yn oedran cymeriadau yn fodd o greu gwrthdaro, sy'n elfen mor hanfodol o fewn cyfrwng dramatig?

Y mae'r dyfyniad isod o eiddo'r dramodydd, bellach yn ugain mlwydd oed:

Ers tua pum mlynedd, dwi'n mynd yn ôl fwy a mwy a mwy i'r gorffennol ac nid fy ngorffennol diweddar. Er 'mod i'n byw yn Nghaerdydd ers 20 mlynedd, faswn i byth yn sgwennu dim byd am Gaerdydd achos, er mod i'n hapus iawn yn byw yno, dydw i ddim yn perthyn yno.

Taswn i wedi aros yn fy nghynefin, faswn i'n sgwennwr gwahanol iawn. Wnes i adael cartre yn 1968 a dydw i ddim yn ystyried fod gen i orffennol go iawn ar ôl hynny.⁴²

Cofier, fodd bynnag, iddo gyfansoddi'r gweithiau teledu, megis *Taff Acre* (1981) oedd yn ymwneud â bywydau trigolion mewn pentref golfaol yn ne Cymru, ac felly ddim yn ymwneud yn uniongyrchol ag ardal ei fagwraeth. Ond o astudio'i weithiau llwyfan, ymddengys i'r cyfnod hwnnw yn Nant Gwynant gael dylanwad sylweddol arno fel awdur. Yno y cafodd y 'cefnidir amaethyddol, ynysig, sy'n amlwg mewn dramâu fel *Diwedd y Byd a Fel Anifail*⁴³ a *Tyner yw'r Lleuad Heno*. Ac ymddengys mai yno hefyd y mae gwreiddiau nifer o ddigwyddiadau, cymeriadau a straeon a geir yn y dramâu:

³⁹ Meic Povey, yn 'Dawn dweud yn dod o'r galon' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁴⁰ Meic Povey, 'Ysgrifau Dramodwyr: Meic Povey' (ysgrif ar gyfer y modiwl Sgriptio, Prifysgol Aberystwyth).

⁴¹ Povey, 'Ysgrifau Dramodwyr: Meic Povey'.

⁴² Meic Povey, yn Dylan Iorwerth, 'Chwarae plant?', *Golwg*, 6/4 (23 Medi 1993), 23.

⁴³ Baines, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 89.

Gofynnir i mi yn aml pam fy mod yn teimlo rheidrwydd i ddychwelyd i Eryri a'i chyffiniau dro ar ôl tro i gloddio am syniadau neu stori. Nid 'mod i'n gorfod cloddio yn ddwfn iawn 'chwaith, gan fod yr un mlynedd ar ddeg y bŵm yn byw yno, ar fferm Gelli Iago ym Mlaen Nantmor, yn gymaint rhan o'm hymwybyddiaeth byth ers hynny.⁴⁴

Diwedd y Byd oedd y ddrama gyntaf o eiddo Meic Povey iddo'i chyfarwyddo ei hun:

But it is unlikely I shall ever direct again, though not because I have not enjoyed the experience ... But since I have already written plays for this company, and knew the actors for whom I was writing, it seemed a unique opportunity.⁴⁵

Ym 1993 actiodd Maldwyn John, Merfyn Pierce Jones, Siân James a Catherine Aran yn y perfformiad cyntaf o'r ddrama fel rhan o Gwmni Theatr Bara Caws. Tynnodd y dramodydd lawer ar ei brofiad ei hun wrth gyfansoddi'r ddrama hon – o ran y cymeriadau, yr iaith, y digwyddiadau a'r lleoliadau. Yn wir, cyfaddefa Meic Povey, mai'r ddrama hon ynghyd â'r ddrama Saesneg, *Indian Country* (2003) – drama wedi'i gosod ym 1958 yn seiliedig ar y digwyddiad pan ffilmwyd y ffilm *Inn of the Sixth Happiness*, y serennai'r actores Ingrid Bergman ynddi, yn Nantmor – yw'r gweithiau mwyaf hunangofiannol iddo eu hysgrifennu:

Mae'n ddrama bersonol iawn ... Y peth mwya' personol yr ydw i wedi ei sgwennu erioed a faswn i byth yn rhoid y ddrama yma i neb i'w chyfarwyddo.⁴⁶

Hanes pedwar plentyn, sy'n byw mewn ardal anghysbell yn Eryri – Nant Gwynant – yn gwersylla ar y mynydd ar ddiwrnod olaf eu gwyliau haf ym 1962, cyn cychwyn yn yr ysgol uwchradd, a geir yn *Diwedd y Byd* – Rhi a Deio sy'n frawd a chwaer ac yn blant i dirfeddiannwr, a Mags ac Em, sydd hefyd yn frawd a chwaer, ac yn blant i un o'i denantiaid. Yn amlwg, mae'r plant yn ymwybodol o'r gwahaniaeth yn eu statws cymdeithasol, ac adlewyrchir hyn yn eu chwarae ar lethrau'r mynydd, wrth i Deio, 'sy'n penderfynu ymhle y dylent godi eu pabell',⁴⁷ fynnu mai ef a ddylai chwarae rhan Wil, y Sheriff, ac mai rhan ei was, Jêc, a gâi Em.

⁴⁴ Meic Povey, 'Rhagair', *Tyner yw'r Lleuad Heno* (Llandysul, 2009), t. 5.

⁴⁵ Meic Povey yn 'Writer Meic tried hand at directing latest play' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁴⁶ Meic Povey, yn Iorwerth, 'Chwarae Plant?', *Golwg*, 22.

⁴⁷ Gwenno Hughes, 'Astudiaeth o ddramâu Meic Povey: er 1985' (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru Bangor, 1985), t. 91.

Chwarae y mae plant y ddrama. Chwarae ar fod yn gowbois ac Indiaid a'u Saesneg wedi ei benthg o fyd ffilmiau John Wayne. Maen nhw'n chwarae gêmâu hwyliog, maleisus, bygythiol sy'n awgrymu mwy nag sy'n cael ei ddweud. Y bechgyn yw'r cowbois ac mae'n rhaid i'r merchaid fodloni ar fod yn *halfbreeds*.⁴⁸

Mae'r ddrama wedi'i gosod yng ngwanwyn 1962, sef y cyfnod pan oedd Meic Povey ei hun yr un oed â'r cymeriadau ac ar fin cychwyn ar ei addysg uwchradd ym Mhorthmadog. Dysgw'n am ofnau'r cymeriadau a'u pryderon wrth feddwl am yr hyn sy'n eu disgwyl y dydd Llun canlynol:

Maen nhw ar fin croesi'r trothwy i'r ysgol 'fawr' ac i'r byd mawr. Mae'r teitl yn cyfeirio at ddiwedd eu byd bach nhw, a gan fod y ddrama wedi'i seilio yn 1962, sef adeg y creisus yn Ciwba, mae hefyd yn cyfeirio at ddiwedd y byd go iawn.⁴⁹

Er hyn, pwysleisia Meic Povey 'nad drama boliticaidd mohoni',⁵⁰ ond yn hytrach, drama yn seiliedig ar ei blentyndod ei hun gyda'r tensiynau byd-eang yn symbol o'r tensiynau a'r gofid y mae'r plant yn eu teimlo.

Mae'r ddrama yn ein hatgoffa o'r ddrama deledu Saesneg, *Blue Remembered Hills*, gan Dennis Potter a ddarllledwyd ym 1979. Criw o blant saith oed yn chwarae yn ystod haf 1943, yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd, a geir yn y ddrama. Ond daw'r ddrama i ben wrth i un o'r plant losgi i farwolaeth o galyniad i weithredoedd y cymeriadau eraill. Un o nodweddion mwyaf trawiadol y ddrama, a nodwedd a ddefnyddiwyd sawl tro gan y dramodydd, oedd mai oedolion oedd yn actio rhan y plant. Dylanwadodd y ddrama honno'n fawr ar *Diwedd y Byd* gyda'r ddau ddramodydd yn cyplysu sefyllfa bersonol a gwleidyddol:

Y ddrama honno roddodd y syniad i mi o ddefnyddio oedolion i chwarae plant, yn enwedig gan fy mod yn gwybod o flaen llaw mai myfi fy hun fyddai yn cyfarwyddo y cynhyrchiad gwreiddiol.⁵¹

Y mae *Diwedd y Byd*, fel y disgwylid o ddrama fwyaf hunangofiannol y dramodydd, yn frith o gymeriadau, is-gymeriadau, digwyddiadau, hanesion a sgrysiâu gwirioneddol a ddeilliodd o blentyndod Meic Povey:

⁴⁸ Meleri Wyn Jones, 'Mwy na Chwarae Plant', *Golwg*, 6/7 (14 Hydref 1993), 22.

⁴⁹ Meic Povey, yn 'Llwyfan Newydd i Ddramâu Arloesol', <<http://www.thefreelibrary.com/Llwyfan+newydd+i+ddramxu+arloesol.-a078776396>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

⁵⁰ Siôn Eirian, 'Trwy lygaid plant', *Barn*, 369 (Hydref 1993), 27.

⁵¹ E-bost gan Meic Povey (10 Rhagfyr 2014).

Mae'r cymeriadau'n seiliedig ar bobol go iawn. Wrth gwrs, mae yna elfen o dwyllo achos ydw i'n gwybodBe [sic] ydyn nhw rwan. By [sic] ydw i wedi'i wneud ydi mynd yn ôl ... dwi'n gwybod sut bobol ydyn nhw, sut blant unarddeg fasan nhw – a hynny ar ben be dwi'n gofio beth bynnag.⁵²

Y mae'r gair 'seiliedig' yn bwysig yn y dyfyniad uchod gan mai portread o'r cymeriadau o safbwynt y dramodydd a gyflwynir yn y ddrama ac nid portread gwirioneddol o'r cymeriadau go iawn a gawn gan na fyddai'n bosibl i'r dramodydd lwyr adnabod y cymeriadau hyn o'i blentyndod cystal ag y dylai adnabod cymeriadau ei ddrama.

Yn wir, ceir sawl enghraifft o gymeriadau, sgyrsiau a digwyddiadau a edrydd amdanynt yn *Diwedd yn Byd* sy'n seiliedig ar rai gwirioneddol o blentyndod Meic Povey. Y mae cymeriad Miss Williams, yr athrawes, yn seiliedig ar Miss Eleri Williams – yr athrawes yr oedd Meic Povey wedi gwirioni cymaint arni yn Ysgol Nant Gwynant:

Mynychais Ysgol Nant rhwng 1956 a 1962. Ar y mwya, toedd yno ond tua dau ar bymtheg o blant yn y cyfnod y bûm i yno, ac un athrawes: Miss Kate Jones, Caethro, i gychwyn, ac wedyn Miss Eleri Williams, oedd yn ferch ifanc iawn ar y pryd. Mae'n debyg fy mod i'n naw, ddeg oed pan gyrhaeddodd hi ac yn naturiol roeddwn wedi disgyn dros fy mhen a 'nghlustia mewn cariad â hi cyn medrach chi ddeud 'tweis won tw, tweis tw ffor'.⁵³

Y mae'r cyfeiriad yn y ddrama at 'Musus Will Will a'i beic Injan' a ddôi i'r ysgol i wobrwyo'r plant am eu gwaith, hefyd yn deillio o ddigwyddiad go iawn. Enghraifft arall yw cymeriad Rhi sy'n seiliedig ar Rhian Hafod Llan, merch a oedd yn gyd-ddisgybl i Meic Povey. Roedd hi'n ferch i dirfeddiannwr lleol (fel cymeriadau Rhi a Deio yn y ddrama) a oedd yn berchen ar Gelli Iago, cartref Meic Povey, ac arferai ei dad weithio iddo:

DEIO: 'Sgin ti ddim ranch siŵr!

EM: Oes, ma' gin i. Dacw hi, 'fan'cw...

DEIO: ...'Nhad sy' pia fo, Em! Sbïa! O Fwlch y Gwyddal i gopa'r Geuallt, ar draws i Lam y Trwsgwl, yn ôl tuag at Foel y Diniewydd, ac heibio i Lynnau Cerrig y Myllt am filltiroedd! Heb sôn am be' sy' pia fo yn Sir Fôn! 'Nhad sy' pia fo'i gyd, mê, 'sdim tir ar ôl i neb arall, hyd yn oed 'tasa gin dy dad ti bres i brynu peth!

EM: Dad sy' pia cae dan tŷ.

DEIO: Naci, 'nhad i sy' pia hwnnw hefyd! Rhoi 'i fenthyg o i dy dad ti mae o, mi fedar o'i gymryd o oddi arno fo unrhyw adag lecith o!⁵⁴

⁵² Meic Povey, yn Iorwerth, 'Chwarae plant?', *Golwg*, 22.

⁵³ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 17.

⁵⁴ Meic Povey, *Diwedd y Byd ac Yr Hen Blant* (Caerdydd, 2000), tt. 23-4.

Caiff diffyg dealltwriaeth Meic Povey pan oedd yn fachgen ifanc o ferched hefyd ei gyfleu yn sgysiau Em a Deio – ‘Dirgelwch gwraig fagina’⁵⁵ – a chyflëir diniweidrwydd cymeriad Em o’i gymharu â Deio yn y dyfyniad isod, sy’n seiliedig ar hanes Magwen, chwaer Meic Povey:

DEIO: Pwy ddododd “thys”? Tyrd yn dy flaen, pwy aeth i siop Mistyr Grîn a gofyn am “pown o thys! yn lle “pown o lifyr”?”⁵⁶

Boed yn perthyn i’r garfan o ddramâu sy’n tynnu ar gefndir personol y dramodydd neu’r dramâu mwy modern eu gogwydd, y mae holl gymeriadau Meic Povey yn tueddu i ymhyfrydu ‘mewn cymharu gogoniannau’r gorffennol gwych â’r presennol gwael’.⁵⁷ Ystyrier cymeriad Morlais yn *Gyda Llaw* (1985) sy’n hiraethu am ei gyfnod yn ymladd yn y rhyfel; Tom ar ddechrau’r ddrama *Perthyn* (1986-7) yn edrych i lawr ar ei gartref, ar y ‘ffnestri a’r drysa a giât wedi’u peintio’n goch’;⁵⁸ Laura yn *Wyneb yn Wyneb* (1993) yn pitïo ‘na fysa nhw’n blant am byth’;⁵⁹ y mae’r cwpl yn *Fel Anifail* (1995) yn treulio eu dyddiau yn ail-fyw’r gorffennol, a chymeriad y Nain yn *Tair* (1998) yn cofio am dripiâu Ysgol Sul a Grace a Modryb Elin yn galw bob nos Sadwrn i ganu o amgylch y piano. Ond a yw Meic Povey ei hun yn euog, fel ei gymeriadau, o ramantu am y gorffennol yn ardal ei fagwraeth wrth ysgrifennu, yn enwedig ac yntau wedi ‘mudo oddi yno mor ifanc a byth wedi dychwelyd’?⁶⁰ Yn wir, dywed Meic Povey fod ei blentyndod yn Nantmor yn ymddangos yn un delfrydol ar y pryd. Yr hyn a gawn yn y dramâu, felly, yn ôl Eifion Lloyd Jones, yw ‘blas pridd Eifionydd [neu Eryri yn hytrach] wedi’i dreulio ym mwg Caerdydd’.⁶¹ Yn *Diwedd y Byd*, er enghraifft, dywed Dylan Iorwerth i Meic Povey ddechrau:

gyda’i atgofion ei hun ond fod y rheiny ... wedi eu profi gynta’ trwy hanner-niwl, hanner-ffantasi sy’n rhan o fywyd plentyn. Ar ben yr haen o atgofion, mae 30 mlynedd o brofiad a chreffft dramodydd sydd hefyd am ddiddanu cynulleidfa.⁶²

Yn wir, cyfaddefa Meic Povey ei fod yn euog o ramantu am ardal ei blentyndod wrth gyfansoddi ac nid yw’r ymddiheuro am hynny:

⁵⁵ Povey, *Diwedd y Byd ac Yr Hen Blant*, t. 56.

⁵⁶ Povey, *Diwedd y Byd ac Yr Hen Blant*, t. 29.

⁵⁷ Hughes, ‘Astudiaeth o ddramâu Meic Povey: er 1985’, t. 77.

⁵⁸ Meic Povey, *Perthyn* (Llanrwst, 1995), t. 17.

⁵⁹ Meic Povey, *Wyneb yn Wyneb* (Caerdydd, 1995), t. 6.

⁶⁰ Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

⁶¹ Hughes, *Perthyn: Astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 4.

⁶² Iorwerth, ‘Chwarae Plant?’, *Golwg*, 23.

Dwi'n euog, mae'n siŵr, o ramantu am ardal fy mhentyndod ... Ond mae pob awdur, yn wir, pob unigolyn, pan yn sôn am fore oes yn rhamantu. Mae o'n gyfnod diniwed, hapus achos mae bywyd yn mynd yn anos fel ti'n mynd yn hŷn. Mae'r cof yn ddeholus, ac mi rwyd ti isio cofio'r bits da ... mi rydw i yn rhamanteiddio, ond ddim yn eithafol.⁶³

Ar wahân i *Diwedd y Byd*, mae llawer mwy o gymeriadau dramâu Meic Povey a'r sefyllfaoedd y mae'r cymeriadau hynny ynddynt wedi'u sbarduno gan brofiadau gwirioneddol, ys dywedodd am y ddrama *Yr Hen Blant*:

When I visited the area I was born in, Nant Gwynant, I saw my old school nearly in ruins and that inspired me to write the follow up and I used school as a stage for that.⁶⁴

Saith mlynedd wedi i Meic Povey orffen ysgrifennu *Diwedd y Byd*, ail-lwyfannwyd y ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, 2000, o dan gyfarwyddyd Siân Summers ar ran Sgript Cymru, gyda thri aelod newydd i'r cast, Gwenno Elis Hodgkins, Betsan Llwyd a Dafydd Dafis yn ogystal â Maldwyn John a ymddangosodd yn y cynhyrchiad gwreiddiol. Ond, yn wahanol i'r llwyfaniad cyntaf, cafwyd, y tro hwn, ddilyniant i'r stori mewn drama arall o eiddo Meic Povey, *Yr Hen Blant*, a gyfarwyddwyd gan Bethan Jones ac a lwyfannwyd yn syth ar ôl y perfformiad o *Diwedd y Byd* gan yr un actorion:

“Mae'n rhywbeth cyffrous iawn i'w wneud, ac yn rhywbeth reit arbennig,” meddai Meic Povey, “achos dydi o byth yn digwydd yng Nghymru bod yna ddwy ddrama yn cael eu perfformio gan yr un actorion ar yr un noson. Mae o'n rhywbeth sydd wedi bod gen i ers blynyddoedd, bron ers y perfformiad gwreiddiol, ac yn sicr mae o wedi dod yn naturiol o ran cymeriadau.”⁶⁵

Ddeng mlynedd ar hugain wedi'r diwrnod hwnnw yn chwarae ar lethrau'r mynydd, ar noson stormus yn adeilad eu hen ysgol gynradd, sydd bellach wedi bod yng nghau ers deng mlynedd, cyfarfyddwn â Dei, Rhi, Em a Mags unwaith eto, ynghyd â Mel, artist sydd wedi dod i fyw i'r ardal ac wedi dysgu Cymraeg. Y mae cyfarfod cyhoeddus wedi'i drefnu yn yr

⁶³ Cyfweiliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

⁶⁴ Meic Povey, yn Karen Price, 'Arts and Media Correspondent' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁶⁵ Meic Povey, yn 'Diwedd y Byd ...eto' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

hen ysgol er mwyn ceisio dod i benderfyniad ynglŷn â dyfodol yr adeilad: ‘Mae defnyddio’r ysgol yn cadw’r cyswllt holl bwysig hwnnw â’r gorffennol’.⁶⁶

Y mae’r pedwar cymeriad bellach wedi dilyn eu llwybrau eu hunain – llwybrau tra gwahanol. Wrth iddynt ailgyfarfod am y tro cyntaf ers blynyddoedd, cânt eu hatgoffa o’r amser a dreuliasant gyda’i gilydd yng nghyfnod yr ysgol gynradd a daw sawl ysgerbwd o’r gorffennol i’r wyneb.

Y mae Deio, a oedd mor hyderus fel plentyn, bellach, yn byw mewn carafán, yn alcoholig ac wedi suro gyda phawb a phopeth ac yn ymdebygu o ran pryd a gwedd i drempyn. Mudodd Rhi i Loegr wedi iddi briodi â Tom, gan fagu’i phlant yn Saeson, cyn dychwelyd i’w hardal enedigol ac agor ysgol farchogaeth wedi i fusnes y teulu fynd i’r wal yn Stevenage. Y mae Mags yn briod ag Edgar ac yn dal i fyw yn y ‘topia ’cw’.⁶⁷

Ems yw’r cymeriad sy’n cael y mwyaf o drafferth wrth ddod i delerau â’r gorffennol ac ef sy’n gweithredu fel catalydd i’r hel atgofion ac i’r weithred rywiol dreisgar sy’n cloi’r ddrama.⁶⁸

Y mae Em bellach yn byw yn Llundain, wedi iddo ddianc yno (fel Tom yn *Wyneb yn Wyneb*) a sefydlu’i hun fel gŵr busnes llwyddiannus mewn siop lyfrau, gan y gwyddai na fyddai ei hoywder yn cael ei groesawu yng nghymdogaeth Gymreig, ragrithiol ei blentyndod. Ef oedd y cymeriad gwannaf yn *Diwedd y Byd*, ond dychwela yn y ddrama hon yn gryfach na gweddill y cymeriadau a chanddo fwriad i ‘setlo petha’,⁶⁹ setlo hen gyfrinach sydd wedi ei boenydio ar hyd y blynyddoedd er pan oedd yn blentyn – cyfrinach y mae’r cymeriadau eraill yn gwrthod ei hwynebu, sef eu camdriniaeth o blentyn anabl, Gareth Bach Tŷ Isa, yng Nghoed yr Eryr. Ond wrth godi hen grachen, ânt yn ôl i’w plentyndod ac ail-fyw’r weithred gan ymosod ar Mel.

Gellir olrhain tarddiad cymeriadau’r ddrama *Tair* i brofiad personol y dramodydd hefyd:

Yn yr un modd mae’n teimlo mai’r profiad o gael mam, gwraig a merch sydd y tu ôl i *Tair*. Ond mae’r tebygrwydd yn darfod yn y fan honno, meddai. Wedi’r sbardun gwreiddiol, mae’r ddrama yn datblygu ei chymeriad ei hun.⁷⁰

⁶⁶ Gwenan Mared Roberts, ‘Dwy ddrama, un act’, *Barn*, 453 (Hydref 2000), 54.

⁶⁷ Povey, *Diwedd y Byd ac Yr Hen Blant*, t. 102.

⁶⁸ Roberts, ‘Dwy ddrama, un act’, *Barn*, 54-5.

⁶⁹ Povey, *Diwedd y Byd ac Yr Hen Blant*, t. 173.

⁷⁰ Nia Wyn Jones, ‘Tensiwn rhwng Tair’, *Golwg*, 10/46 (30 Gorffennaf 1998), 24.

Nid ei fam na'i fam-yng-nghyfraith yw cymeriad Nain yn y ddrama, ac nid ei wraig yw'r Fam ac nid ei ferch ef yw cymeriad y Ferch, er mai hi a bortreadodd y cymeriad yn y llwyfaniad cyntaf o'r ddrama. Yn hytrach, y berthynas rhwng y cymeriadau sy'n bwysig. Yr un modd gyda'r ddrama *Fel Anifail*. Gweld ei fam a'i dad yn heneiddio oedd y sbardun, ond nid ei fam a'i dad yw Mair a Defi. A stori Martin Roberts o Rydybenllyg oedd y sail i stori *Wyneb yn Wyneb*, gan fod Martin, fel Tom yn y ddrama, yn dioddef o AIDS a'r ddau o'r herwydd, yn cael eu barnu gan bobl eu milltir sgwâr.

2.2 Bygythiad i Gymreictod

Ond mi ydan ni gyd yn euog. Pob un ohonom ni.⁷¹

Un o brif themâu cyffredin *Diwedd y Byd* ac *Yr Hen Blant* yw ‘diflaniad Cymreictod a ffordd o fyw’⁷² yn sgil bygythiad estron, trefol i gymunedau gwledig.

Sgwennwr Cymraeg a Chymreig ydw i, ac mae’n rhaid i bob dim dwi’n eu sgwennu gael rhyw fath o angor yng Nghymru.⁷³

Y mae’r ddwy ddrama uchod yn pontio deugain mlynedd yn hanes y cymeriadau, ond hefyd yn amlygu gwerth deugain mlynedd o ddirywiad Cymreictod yn ardaloedd cefn gwlad:

Nid yw plant *Diwedd y Byd* prin yn medru Saesneg ... Mae eu sgwrs ddiniwed yn troi o amgylch ‘blwmars’ a’r Ysgol Sul ac mae eu Cymraeg yn lân a chroyw. Erbyn *Yr Hen Blant* mae’r ddeialog yn frith o Saesneg gyda chymeriad newydd Mel yn symbol o’r dylanwad estron sydd wedi meddiannu hen ffermdy teulu Rhi a Deio.⁷⁴

Yn wir, gellir ystyried y thema o fygythiad y mewnlifiad ynnddi’i hun yn thema hunangofiannol. Mae’n bwnc sy’n peri loes enaid i Meic Povey. Daeth y dramodydd, fel y pedwar plentyn yn *Diwedd y Byd*, yn ymwybodol o’r bygythiad hwn yn gynnar iawn yn ei fywyd:

DEIO: Sori, wir! Chei di ddim chwara’ yn ’rysgol fowr dydd Llun ’sti, Em! ... Mynd yno i ddysgu fyddwn ni. Mynd yno’i ... neud syms anodd ... ac... ac enwi gwledydd poethion ... yn Affrica a llefydd felly. Yn Susnag, mêt!

EM: ’M’ots, nach’di. Dwi’n medru Susnag. Mus Wiliams wedi ’nysgu i.

DEIO: Susnag! Chdi?!

EM: Mi rydw’i!⁷⁵

Er mai ychydig iawn o Saesneg a glywyd yn ardal ei fagwraeth, roedd saith o’r wyth tŷ fferm a oedd o fewn milltir i Gelli Iago yn dai haf neu’n ail gartrefi:

⁷¹ Meic Povey, *Chwara Plant* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1983), t. 105.

⁷² Eirian, ‘Trwy lygaid plant’, *Barn*, 27.

⁷³ Meic Povey, yn ‘Diwedd y Gân’, *Wales Review* (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁷⁴ Roberts, ‘Dwy ddrama, un act’, *Barn*, 55.

⁷⁵ Povey, *Diwedd y Byd ac Yr Hen Blant*, t. 29.

roedd y bygythiad i'n hiaith a'n ffordd o fyw yn digwydd reit o dan fy nhrwyn yn Eryri'r pumdegau, er nad oeddwn yn ymwybodol o hynny ar y pryd.⁷⁶

Y mae nifer o'i weithiau, beth bynnag fo'r cyfrwng, yn ymwneud â bygythiad mewnlifiad estron i ardaloedd Cymreig a Chymraeg eu hiaith a'r 'diffyg cyfathrebu rhwng brodorion a phobl ddwâd'.⁷⁷ Ystyrier yr enghreifftiau isod: y dramâu teledu *Sul y Blodau* a *Nel*; y ffilmiau, *Y Weithred*, a ganolbwyntia ar yr ymgyrch yn erbyn adeiladu argae yng Nghwm Tryweryn yn y 1960au, ac *Aelwyd Gartrefol*, a oedd yn ymwneud â'r ymgyrch losgi tai haf; y gyfres Saesneg ar gyfer HTV na chafodd erioed mo'i darlledu, *The Dragon and the Rose*, a oedd wedi'i lleoli 'mewn tref lan môr yng ngogledd orllewin Cymru ... ac... yn ymwneud ag effaith y mewnlifiad i'r ardaloedd hynny'.⁷⁸ O ran y gweithiau i'r llwyfan, y mae Mel yn *Yr Hen Blant* yn ymgorfforiad o fygythiad estron nad yw'n perthyn sydd wedi mudo i'r wlad i fyw. Hawdd fyddai llwytho'r holl fai am ddirywiad yr iaith ar fewnfudwyr fel Mel:

MEL: Will you let me go? Your hurting my fucking arm!

EM: 'Iaith'! 'Dim rhyfadd bod cefn gwlad yn mynd a'i ben iddo!⁷⁹

Ond nid Mel a'i thebyg sydd dan y lach yn nramâu Meic Povey mewn gwirionedd:

Nid at y Saeson – sydd wedi dysgu'r Gymraeg – fodd bynnag, y mae Povey yn pwyntio'r bys, ond at Rhi [*Diwedd y Byd*] a'i thebyg sydd wedi priodi Sais a magu plant sy'n 'methu hyd yn oed d'eud ei henw'.⁸⁰

Mewn nifer o'r dramâu, ceir cymeriad sydd wedi ymadael â chartref yng nghefn gwlad gogledd Cymru, ac sy'n dychwelyd yno yn ystod y ddrama a cheir teimlad o euogrwydd ar eu rhan hwy yn ogystal ag elfen o feirniadaeth tuag atynt gan y cymeriadau a arhosodd yn eu milltir sgwâr:

Brwydro'n feunyddiol am oroesiad y mae teuluoedd Meical Povey ac y mae ... yn ei elfen yn dangos mor fregus ydyw'r tylwyth pan fygythir yr hafan gan rym allanol, boed hwnnw'n ddieithryn neu'n hyd yn oed aelod afradlon o'r un teulu.⁸¹

⁷⁶ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 14.

⁷⁷ Baines, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 89.

⁷⁸ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 190.

⁷⁹ Povey, *Diwedd y Byd ac Yr Hen Blant*, t. 183.

⁸⁰ Roberts, 'Dwy ddrama, un act', *Barn*, 55.

⁸¹ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 10.

Ystyrier Olwen yn *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, math o chwaer i'r Olwen a geir yn y ddrama deledu *Nel*, yn enghraifft arall, er i Aled Islwyn awgrymu mai ystrydeb bellach yw'r math yma o gymeriad 'a gododd i rengoedd y dosbarth canol gan ymbellhau oddi wrth ei gwreiddiau mewn cocŵn o dai moethus a Volvos'.⁸²

Comisiynwyd, a pherfformiwyd y ddrama *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi* gyntaf gan Gwmni Bara Caws yn Theatr Seilo, Caernarfon ar 11 Ebrill 1995, cyn mynd ar daith ledled Cymru. Ac er iddo ddweud wedi iddo gyfarwyddo *Diwedd y Byd* y byddai'n annhebygol y byddai'n cyfarwyddo'i waith ei hun eto, ef fu'n gyfrifol am gyfarwyddo'r ddrama hon hefyd.

Hanes teulu arall a gawn yn *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi* – Derec, ei chwaer Olwen, ei frawd Glyn a'i wraig yntau, Elin. Egyr y ddrama wrth i'r cymeriadau ddychwelyd i'w cartref genedigol wedi iddynt fod yn angladd eu mam. Y mae'r ddrama'n troi o amgylch y drafodaeth rhwng Olwen a Glyn ynglŷn â phwy a ddylai gymryd y cyfrifoldeb o ofalu am Derec, eu brawd iau, sy'n dioddef o sgitsoffrenia, nawr fod eu mam wedi marw:

Glyn: Derec!! Be' sy'n mynd i ddigwydd iddo fo! Be 'dan ni – fel teulu, Olwen – yn pasa neud efo fo!

Olwen: Mi dwi'n fodlon gneud fy siâr, Glyn ...

Glyn: Wyt, gobeithio!⁸³

Wedi i Olwen adael cartref i briodi John, 'peiriannydd prysur a chyfoethog',⁸⁴ ac ymsefydlu fel elusenwraig 'dosbarth canol' uchel ei pharch ymhlith ei chyfoedion yn Great Budworth ger Northwich, prin iawn fu ei hymweliadau â'i chartref a'i theulu, ac o'r herwydd, nid adnabu Derec hi – ddim ond fel '[d]ynas. Dynas ddiarth'.⁸⁵

Doedd ei chwaer Olwen ... heb fod i'w weld ers hydoedd a dim lle yn ei bywyd dosbarth canol ar y Wirral i frawd sy'n llenwi ei drôns a hithau bron wedi ei pharlysu gan y dilema. Dynes oer, nid o ran natur ond o ran dosbarth – sy'n medru bod yn waeth ... Roedd y brawd arall, Glyn ... wedi dewis aros ym mro ei febyd a'i rwystredigaethau a'i genfigen wedi creu dyn tanllyd, treisgar ... Mae ei wraig, Elin, yn glwtyn llawr ... angylaidd o oddefgar.⁸⁶

⁸² Aled Islwyn, 'Lleisiau ac Adleisiau', *Barn*, 388 (Mai 1995), 35.

⁸³ Meic Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi* (Llanrwst, 2000), t. 55.

⁸⁴ Elinor Wyn Reynolds, 'Tebyg at ei Debyg', *Y Ddraenen*, 10 (11 Mai 1995), 15.

⁸⁵ Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, t. 39.

⁸⁶ Jon Gower, 'Yn Debyg Iawn i Ti a Fi', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/04-yn-debyg-jon.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

Wedi hir ddadlau ac edliw, deuir i'r penderfyniad mai rhannu'r cyfrifoldeb fyddai'r 'ateb Cristnogol',⁸⁷ gyda Derec yn byw chwe mis o'r flwyddyn yn ystod yr haf yn y garafán yng nghowt Glyn ac Elin, ac yn treuluo'r chwe mis arall – a thros dymor y Nadolig – yn Great Budworth gydag Olwen, er ei bod yn gwbl amlwg mai dyletswydd ac euogrwydd yw'r unig resymau pam ei bod yn cynnig gwneud ei siâr. Ond gŵyr Glyn na allai Olwen ymdopi â chyflwr ei brawd, ac wedi iddo rygnu ymlaen ac ymlaen am sut y byddai presenoldeb Derec ar ei haelwyd yn gwyrddroi ei chartref dedwydd, ni all Olwen oddef rhagor:

Elin: Mae o'n medru bod lawar gwaeth ... Arfar, dyna 'di hannar o ...
Olwen: Fedrwn i ddim.
Elin: Medrat, mi fedrat ti!
Olwen: Na fedrwn, Elin! Gwranda arna'i: fedrwn i byth. Waeth gin i amdanat ti. Waeth gin i ... gyfadda ddim.
Glyn: Chwara teg 'ti wir. O'r diwadd.⁸⁸

Codir nifer o gwestiynau yn ystod y ddrama ynglŷn â dyletswyddau teuluol, gofal yn y gymuned, a dyletswyddau cymdeithasol a diwylliannol. Ond y mae un cwestiwn yn atseinio'n uwch na'r gweddill: er bod cymeriadau y tri aelod o'r teulu yn ymddangos yn gwbl wahanol ar y dechrau, yn ystod y ddrama daw'n amlwg pa mor debyg yw'r ddau frawd a chwaer a chyfyd y cwestiwn pwy, mewn gwirionedd, sy'n wallgof.

Glyn: 'Wrach 'yn bod ni'n debycach i'n gilydd na 'dan ni'n 'i feddwl!
Olwen: 'Wrach.⁸⁹

Ail-lwyfannwyd y ddrama naw mlynedd yn ddiweddarach yn 2004 fel perfformiad cyntaf Theatr Genedlaethol Cymru, gyda Cefin Roberts wrth y llyw y tro hwn a theimlodd Meic Povey anrhydedd fawr yn enwedig o ystyried y dylanwad a gafodd y Cwmni Theatr Cymru gwreiddiol ar ei yrfa. Dywedodd Dafydd Llywelyn ei fod yn llawn haeddu'r fraint honno:

Meic Povey yw'r dramodydd Cymraeg mwyaf llwyddiannus a thoreithiog sydd gennym heddiw, ac roedd yn gwbl briodol a haeddiannol mai ei waith ef a lwyfannwyd i ddynodi pennod newydd yn hanes y theatr Gymraeg⁹⁰

⁸⁷ Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, t. 64.

⁸⁸ Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, tt. 68-9.

⁸⁹ Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, t. 74.

⁹⁰ Dafydd Llywelyn, 'Yn Debyg Iawn i Ti a Becks', *Barn*, 498/499 (Gorffennaf/Awst 2004), 88.

Dyweddod Cefin Roberts mai prif thema'r ddrama yw 'pwy sy'n aros adra i ofalu am ein cymunedau ni, ein cymdeithas ni, ein diwylliant ni a phwy sy'n hedfan dros y nyth a ddim yn poeni ddim un iot am eu milltir sgwâr'.⁹¹

Yn ôl Gwenno Hughes yn ei hastudiaeth o'r ddrama *Perthyn*, ceir tebygrwydd rhwng gweithiau Meic Povey a dramâu Saunders Lewis. Dywed mai '[d]ychweliad meibion afradlon llygredig, a sefyllfaoedd teuluol cyffelyb sy'n mynd â bryd'⁹² y ddau ddramodydd. Beirniadaeth ar y gymdeithas Gymreig a Chymraeg ei hiaith sydd yma a cheisia Meic Povey amlygu'r rhagrith o fewn y gymdeithas honno:

Mae Povey hefyd yn edrych ar wreiddiau a beth sydd yn digwydd pan fo rhai yn brwydro yn erbyn y gwreiddiau hyn. Traddodiad yr un modd.⁹³

Nid Meic Povey, fodd bynnag, yw'r unig awdur i gyflwyno'r thema hon yn ei weithiau, a gellir dadlau ei bod yn thema ddiosgoi i lenorion Cymraeg yn gyffredinol, fel yr awgrymir yn y disgrifiad hwn o ddramâu Huw Lloyd Edwards:

Enaid cenedl, sef ei hiaith, ei diwylliant a'i chymdeithas sydd yn bwysig i Huw Lloyd Edwards, a phoenir ef gan y ffaith mai ychydig yw'r rhai sydd yn ymboeni am hynny.⁹⁴

Bygythiad y mewnlifiad yw thema ganolog *Chwara Plant* hefyd. Mei Jones, cyfaill i Meic Povey a chyd-sgriptiwr *Dim ond Heddiw a Deryn*, a gyfarwyddodd y ddrama hon ar ran Cwmni Theatr Bara Caws ym 1983. Roedd y cast yn cynnwys Elliw Haf a bortreadai gymeriad Nesta, Elfed Dafis fel ei gŵr, Gareth, a Beryl Williams a Stewart Jones fel eu cymdogion – Bet a Wil. Yr arferiad gan y cwmni oedd i actorion ymgynnull i lunio'u sgript eu hunain ar gyfer cynhyrchiad, ond am y tro cyntaf, penderfynodd Cwmni Theatr Bara Caws gomisiynu sgriptiwr proffesiynol i lunio sgript a oedd yn gam pwysig yn natblygiad y cwmni, ac roedd ganddynt syniadau pendant ynglŷn â thema'r ddrama.

Y thema a roddwyd i Michael Povey oedd 'Addysg yng Ngwynedd' a chynhyrchoedd ef ddrama yn hytrach na'r sioeau arferol a gysylltir â Bara Caws ...

⁹¹ Cefin Roberts yn 'Ffatri Freuddwydion: Dyddiadur Theatr Bryn Fon', *S4C, S4C 1 Digidol* (21 Medi 2004).

⁹² Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 8.

⁹³ Dienw, 'Hwb: Dysgu Digidol i Gymru', <<http://www.ngfl-cymru.org.uk/echelgais/elwa/content.asp?lo=1.3.2.8.1>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

⁹⁴ Nia Wynn Tomos, 'Cyfeiriadau newydd yn y ddrama Gymraeg c. 1950-1980, gyda sylw arbennig i weithiau Huw Lloyd Edwards, W. S. Jones a Gwenlyn Parry' (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1983), t. 94.

Er ei bod yn ymwneud â phlant, nid drama i blant yw hon ac er bod sŵn a phresenoldeb plant i'w deimlo ynddi ni welir plant ar y llwyfan.⁹⁵

Lleolwyd y ddrama mewn pentref yng Ngwynedd ym 1993, ddeng mlynedd i'r dyfodol o ddyddiad llwyfannu'r ddrama. Canolbwyntiwyd ar sefyllfa'r Gymraeg o fewn y gymuned a rhoddwyd cipolwg i gynulleidfaeod y cyfnod o'r hyn a allasai ddigwydd i'r iaith yn y dyfodol agos. Y mae Gareth, sy'n weddol uchel ei safle yn ei waith gyda chwmmi Huddersfield, ei wraig, Nesta, a'u plant Carys ac Aled newydd ddod i fyw i gartref Gareth wedi iddo golli ei fam. Cyflëir y thema o ddirywiad yr iaith trwy gyfrwng eu perthynas hwy gyda'u cymdogion. Y mae Beti – sy'n cadw 'fisitors' ac yn gwybod hanes pawb ym mhob man, yn dipyn o snob ac yn rhoi pwys mawr ar safle a swydd unigolion wth eu barnu. Er bod ei gŵr, Wil, sy'n gymeriad diwylliedig a thyner, yn sylweddoli mai 'difrawder a llwfrdra pobl fel ef yn y gorffennol'⁹⁶ sy'n rhannol gyfrifol am sefyllfa druenus yr iaith erbyn hyn ac iddo ymgyrchu ryw ychydig dros yr iaith flynyddoedd yn ôl, cred Beti mai bod yn 'ignorant'⁹⁷ yw peidio â siarad Saesneg. Ar ddechrau'r ddrama, mae Aled ar fin cychwyn yn ei ysgol newydd lle mae ei fam, Nesta, wedi cael swydd yn gweithio yn y ffreutur. Ond, yn amlwg, nid yw'r swydd yn ddigon uchel ei statws gan Beti na Gareth ei gŵr, ychwaith:

BETI: A be' ydach chi rwan ddeudsoch chi?
NESTA: Yn y gegin.
BETI: Nid lle ydach ch – be' ydach chi? Hed cwc, siwperfeisyr, be'?
NESTA: Helpu am wn i. Dwn i ddim.
BETI: O, mi ddaw gwell, yn siwr i chi.⁹⁸

Clyw Beti si fod peth helynt wedi bod yn yr ysgol wrth i griw o blant '[p]obl ddwad'⁹⁹ brotestio yn erbyn cael gwersi Cymraeg o unrhyw fath. Ni wêl Beti unrhyw fai arnynt. Yn ei thyb hi, Saesneg, ac nid Cymraeg, sydd ei angen i ddod ymlaen yn y byd, ac mae unrhyw un a frwydra dros yr iaith yn 'Welsh Nash'.¹⁰⁰ Dyma esbonio pam bod ei merch, sy'n byw yn un o'r tai cyngor yn y pentref – 'ond mond yno nes ceith Jimmy waith'¹⁰¹ – wedi magu ei phlant yn Saesneg. Mae hyn, yn ogystal â'r ffaith bod ei phlant ei hun yn troi i siarad Saesneg

⁹⁵ Dienw, 'Cip ar y Dyfodol gan Bara Caws', *Y Cymro* (29 Tachwedd 1983), 11.

⁹⁶ Dienw, 'Neges sy'n argyhoeddi' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁹⁷ Povey, *Chwara Plant*, t. 20.

⁹⁸ Povey, *Chwara Plant*, tt. 8-9.

⁹⁹ Povey, *Chwara Plant*, t. 42.

¹⁰⁰ Povey, *Chwara Plant*, t. 57.

¹⁰¹ Povey, *Chwara Plant*, t. 9

gyda'u cyfoedion, yn peri poendod i Nesta. Yr unig ffordd i adfer y sefyllfa a sicrhau addysg Gymraeg i blant yr ardal yw cael llais ar fwrdd rheoli'r ysgol. Perswadia Gareth i ymgeisio, gan ei fod yn uchel ei barch yn yr ardal, yn gyfaill i nifer o'r rhieni di-Gymraeg, ac yn hogyn o'r ardal. Fodd bynnag, nid yw Gareth yn rhannu'r un egwyddorion â'i wraig. Ar ddiwedd y ddrama, mae Nesta wedi cael swydd fel gweinyddwraig feithrin yn yr ysgol. Y mae'r ergyd yn ei haraith glo i'r plant yn cael ei hanelu yn fwiadolol at aelodau'r gynulleidfa, gyda'r bwriad i bigo'u cydwybod a pheri iddynt holi'u hunain a ydynt oll fel Nesta am gael statws teilwng i'r hiaith a'r diwylliant Cymreig, ond yn cael eu gorfodi i ildio pan ddaw'r pwysau yn ormod:

NESTA: Now then, children ... what are the Welsh people made of? ... Yes, that's right. They're mental cripples ... Nevertheless, lets not forget that they did speak a beautiful old language in this part of the world once. Yes ...? Welsh.¹⁰²

Er mai cyflwr addysg yng Ngwynedd oedd y thema a roddwyd i'r dramodydd gan y cwmni llwyfannu, Cwmni Theatr Bara Caws, 'mae'r ddrama yn ymwneud â maes llawer ehangach gan roi darlun Orwelaidd, bron iawn, i ni o Gymru 1993 gyda'r Gymraeg ar drengi dan gysgod y Brawd Mawr, y Saesneg'.¹⁰³ Y mae'r cymeriadau – Cymry Cymraeg – yn caniatáu ac yn annog hynny i ddigwydd, gan eistedd yn ôl a gwyllo'r cyfan o'u cadeiriau esmwyth:

WIL: Ffaith amdani ydi, mae 'na laweroedd yn y'n plith ni ...o Gymry, yn y'n plith ni ... sy'n malio dim oll os bydd yr iaith Gymraeg fyw neu farw ... Dwn i ddim be ddylid wneud â rhai felly ... Ond mi ydan ni gyd yn euog. Pob un ohonom ni.¹⁰⁴

Mae hyd yn oed Nesta, sydd mor frwd dros barhad addysg Gymraeg i blant yn yr ysgol gynradd, yn euog am iddi ddewis i'w merch, Carys, dderbyn ei haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Saesneg, a phan ddywed Nesta wrth Aled, ei mab, am siarad Cymraeg gyda'i ffrind, etyb ef trwy ddweud 'Ti'n siarad Susnag hefo'i fam o'.¹⁰⁵

¹⁰² Povey, *Chwara Plant*, t. 108.

¹⁰³ Dienw, 'Neges sy'n argyhoeddi' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

¹⁰⁴ Povey, *Chwara Plant*, t. 105.

¹⁰⁵ Povey, *Chwara Plant*, t. 105.

Un peth sydd yn fy ngwylltio i ydi diffyg rhai rieni yn y Gymru sydd ohoni, a thu hwnt, i basio'r iaith Gymraeg trwy esgeulustod, trwy fwriad, trwy ddifaterwch – dwi ddim yn gwybod.¹⁰⁶

Yr un yw'r neges yn *Terfyn*, yn ogystal:

Terfyn ar briodas, terfyn ar berthynas, a therfyn ar yr iaith Gymraeg yw'r darlun tywyll a geir yng nghynhyrchiad diweddar a' Cwmni Theatr yr Ymylon.¹⁰⁷

Yr oedd dramâu yn ymwneud â sefyllfaoedd cyplau priod yn boblogaidd yng Nghymru'r 1970au: cyfieithodd John Ogwen y ddrama *Alpha Beta* i'r Gymraeg a llwyfannwyd drama Gwenlyn Parry, *Y Tŵr*. O ganlyniad i'r ymateb cadarnhaol a fu i'r *Cadfridog*, efelychodd Meic Povey – a oedd erbyn hyn, o ganlyniad i lwyfaniad ei ddrama hir gyntaf, yn 'controversial figure'¹⁰⁸ – ffasiwn y cyfnod wrth ysgrifennu *Terfyn*, yr ail ddrama hir iddo'i hysgrifennu. Fel *Y Cadfridog*, ei rhagflaenydd, fe'i llwyfannwyd gan Theatr yr Ymylon a hynny ym 1978 gyda Mei Jones ac Eiliw Haf yn actio o dan gyfarwyddyd Gruff Jones. Er hyn, nid dyma oedd dyhead gwreiddiol y dramodydd:

Mi sgwennis *Terfyn*, fy ail ddrama hir, yn benodol ar gyfer John Ogs a Mo; fy mreuddwyd oedd y byddai Cwmni Theatr Cymru – o dan gyfarwyddyd y meistr ei hun, efallai – yn ei llwyfannu, gan fod gan John a Mo gysylltiadau cryf â'r cwmni ar y pryd. Roeddynt newydd wneud taith llwyddiannus [*sic*] â'r ddrama *Alpha Beta*, ac yn berffaith ar gyfer rhannau Dafydd a Lois yn *Terfyn*. Ond mi ddaru Wilbert bopeth yn ei allu i roi pob rhwystr yn ein ffordd, nes yn y diwedd toedd dim amdani ond rhoi'r ffidl yn y to.¹⁰⁹

Gogleddwyr yw Dafydd a Lois, wedi mudo i Gaerdydd oherwydd gwaith Dafydd fel P.A. i gwmi cynhyrchu rhaglenni plant yn y Gymraeg. Athrawes Gymraeg yw Lois wrth ei galwedigaeth, ac er bod Dafydd yn dymuno iddi gael swydd, nid oes gan Lois unrhyw fwriad o weithio mewn ardal sy'n llawn o ddylanwadau Seisnig. Y mae hi'n deisyfu byw bywyd yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg ac o fewn y diwylliant Cymreig, a beirniada'r math o

¹⁰⁶ Meic Povey, yn 'Cyfweliad gyda Meic Povey – Rhaglen Dewi Llwyd', <<http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/dewillwyd/pages/meicpovey.shtml>>.

¹⁰⁷ Dylan Iorwerth, 'Drama gignoeth o onest' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

¹⁰⁸ Arthur Williams, 'Tension in the home' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

¹⁰⁹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 62.

raglenni teledu a gynhyrchir gan y cwmni sy'n cyflogi ei gŵr am eu bod yn 'stwyff poblogaidd sy'n dilyn ffasiwn yr oes ac yn gwastrodi chwaeth diwylliannol'.¹¹⁰

asgwrn y gynnen rhyngddynt trwy gydol y ddrama yw'r gwrthdaro ynghylch safonau diwylliannol¹¹¹

Y mae diffiniad y cymeriadau o ystyr Cymreictod yn amlwg yn bur wahanol i'w gilydd:

Fel yr awgryma'r teitl mae'r briodas yn wynebu ei therfyn ond wedi i wae i mewn i hynny mae terfyn posib Cymru ... Tra bo'r briodas yn simsanu mae cyflwr simsan Cymru yn hofran yn y cefndir beunydd.¹¹²

Y mae eu priodas mewn trafferth ers iddynt fudo yno o'r gogledd, ac er bod Dafydd yn hapus yn ei waith a'i olygon ar ddyrchafiad o fewn ychydig flynyddoedd, mae cyfeiriadau rheolaidd Lois at fywyd dedwydd eu ffrindiau yn Llanystumdwy, Sian a Cled, yn tanlinellu ei chenfigen tuag atynt a'i hiraeth am ei theulu a'i chynefin yng ngogledd Cymru:

LOIS: Tydi'o ddim yn gartrefol yn yr un modd a ma' tŷ Cled a Sian ...
DAFYDD: Ia wel ... fedrith Sian a Cled wneud dim o'i le wrth gwrs. Mae Cled a Sian yn byw yn Llanstycs – yn i bro naturiol Gymraeg ... yn magu i plant ar Aelwyd Gymreig. 'Sa ti ddim yn sbio ddwywaith arnyn' nhw tae nhw'n byw yng Nghaerdydd...
LOIS: ... Mae'r dŵr yn bur yn Llanstymdwy ...¹¹³

Oherwydd ei hanniddigrwydd, ceisia Lois berswadio Dafydd i ymgeisio am swydd darlithydd mewn Celfyddydau Gweledol yng Ngholeg Gogledd Cymru. Pan wrthyd Dafydd, mae Lois yn bygwth ei adael, ac o ganlyniad dônt i gytundeb: os caiff Dafydd gynnig y swydd – sy'n hynod annhebygol yn ei dyb ef – yna byddai'n fodlon dychwelyd i'r gogledd i fyw, ond os na chaiff y swydd, yna raid i Lois fodloni ar fyw yn y ddinas.

Y mae chwe mis wedi pasio erbyn dechrau'r ail act. Erbyn hyn, mae'r cwpl yn byw yn Eifionydd wedi i Dafydd gael cynnig y swydd ddarlithio. Y mae Lois i'w gweld yn hapus iawn ei byd erbyn hyn yn byw yn y fro Gymraeg gyda Chymry Cymraeg, yn ymwneud â'r

¹¹⁰ Sian Rhisiart, 'Agweddau ar waith Michael Povey' (Traethawd Hir Prifysgol Cymru Bangor, 1988), t. 22. (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Astudiaeth o waith Meic Povey 1988-1999, 3/1, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

¹¹¹ Sian Rhisiart, 'Agweddau ar waith Michael Povey', t. 21.

¹¹² Dienw, 'Am Helyntion Priodas' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

¹¹³ Meic Povey, *Terfyn* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1978), tt. 36-7.

'Pethe' Cymreig – pictiwr o berffeithrwydd sydd, yn ei golwg hi, heb ei lygru gan y bygythiad Seisnig a diwydiannol fel ag yr oedd Caerdydd. Serch hyn, nid yw eu priodas mewn gwell cyflwr 'nawr nag ydoedd ddau fis ynghynt. Dafydd yw'r un sydd bellach yn hiraethu am fywyd prysur y ddinas a'i swydd ddelfrydol a'i 'gyd-gyfryngis' wrth i Lois wthio'i delfryd o fywyd gwirioneddol Gymreig ar ei gŵr trwy geisio ei orfodi i fynychu dosbarthiadau cynganeddu:

Adlewyrchir y gwahaniaeth gwleidyddol rhyngddynt mewn cyfres o olygfeydd yn y gwely, lle dangosir hwynt yn rhywiol anghymharus ... Tybed ai'r gwrthdaro gwleidyddol arweiniodd at fethiannau rhywiol a chwalfa briodasol, neu fel arall oedd hi?¹¹⁴

Ceisio Dafydd agor llygaid ei wraig i'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd o dan yr wyneb yn eu hardal, ac nad yw popeth yn fêl i gyd fel yr hoffai hi gredu:

DAFYDD: Ydyn Lois. Ma' petha wedi newid cymint fel mod i isio beichio crio ar adeg.
SAIB.
Ma'r lle yma wedi Seisnigeiddio ... ddigon a torri calon dyn.¹¹⁵

Daw'r ergyd derfynol pan genfydd Dafydd fod Sian a Cled yn bwriadu mudo i Queensferry gan fod Cled wedi cael cynnig 'joban well'¹¹⁶ yno. Daw Dafydd i'r penderfyniad ei fod am ddychwelyd i Gaerdydd ar ei ben ei hun a cheir awgrym cryf ar ddiwedd y ddrama fod Lois, y wraig 'sy'n arddel safonau traddodiadol a cheidwadol',¹¹⁷ yn cael ei gorfodi i gyfaddawdu i'r bygythiad estron i'w bro Gymraeg:

LOIS (PETRUSGAR): Yes Mr. Etheridge ... yes, yes ... (SAIB FER). We would like to use in on Monday nights ... indeed. Yes, if that's possible.
(SAIB) Oh I see ... Thursday nights it is then ... thank you Mr. Etheridge ... thank you very much. Good-bye ...
DAFYDD: Pwy oedd ar y ffon [*sic*]?
LOIS: O ... Mr. Etheridge. Wyst ti ... y chap 'na sy' wedi prynnu'r [*sic*] neuadd ... Hen foi clen (SAIB FER) O'dd o isio inni symud noson y mama o nos Lun i nos Iau ... Ma'r Commodore wedi cychwyn dosbarthiadau hwylio ...¹¹⁸

¹¹⁴ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 127-8.

¹¹⁵ Povey, *Terfyn*, t. 66.

¹¹⁶ Povey, *Terfyn*, t. 75.

¹¹⁷ Rhisiart, 'Agweddau ar waith Michael Povey', t. 22.

¹¹⁸ Povey, *Terfyn*, t. 80.

Denodd *Terfyn* ymateb cryf a chymysg, gyda'i chynnwys, 'o ran gweithred ac iaith, yn eitha beiddgar ar y pryd'.¹¹⁹ Teimlai llawer fod y ddrama yn rhoi gogwydd negyddol a beirniadol iawn o'r Cymry a statws y Gymraeg. Yn wir, gwan iawn fu'r gefnogaeth i'r ddrama. Mewn erthygl yn *Y Faner* ym mis Mawrth 1981, awgrymodd Rhydwen Williams 'nad oedd y Gynulleidfa Gymraeg – "eisteddfodol, Anghydfurfiol a digon piwritanaidd" yn barod am ddrama Michael Povey'.¹²⁰ Â cyn belled â dweud mai methiant fu'r ddrama ac y bu i'w llwyfannu gan Theatr yr Ymylon gyfrannu at y ffaith i'r cwmni ddirwyn i ben yn sydyn. Fodd bynnag, cafwyd ateb i'r erthygl gan Jennie Eirian Davies yn y rhifyn canlynol o *Y Faner*. Dyma wraig a oedd yn ymgorfforiad o'r 'Pethe' ei hun, hynny yw, un â'i bywyd cyhoeddus a phersonol yn cylchdroi o amgylch diwylliant Cymreig. Ond roedd hefyd yn fam i'r dramodydd Siôn Eirian sy'n nodedig am wrthryfela'n erbyn diwylliant Cymreig:

Ond fel menter arbrofol y bwriedid Theatr yr Ymylon yn ei hanfod, a disgwyliid iddi estyn y ddrama Gymraeg, ei hystwytho a'i datblygu ... Swm y cyfan hyn [y feirniadaeth negyddol] yw fod y drysau yn cau, un ar ôl y llall, ar waith arbrofol mentrus yn yr iaith Gymraeg. A thristwch mawr yw hynny – oherwydd mae celfyddyd sy'n aros yn ei hunfan yn siŵr o farw.¹²¹

Yn y ddrama hon, fel yn nifer o weithiau llwyfan a theledu eraill y dramodydd, y mae'r chwalfa deuluol yn symbol o 'adfeiliad cyffredinol cymdeithas':¹²²

mae cymeriadau drama Michael Povey yn gwasgu eu plorod priodasol yn ddeheuig ac yn eu cyflwyno fel symptomau o'r cancr terfynol sy'n ysu'r genedl Gymraeg ... Alegori gyfoes ydy '*Terfyn*' yn cymryd y sefyllfa o briodas sy'n ymddatod fel darlun o argyfwng cenedl sy'n prysur ddinistrio ei hunan.¹²³

Er nad yw'r thema hon gyn amlyced o fewn ei holl ddramâu, llwydda Meic Povey i gynnwys haenen o'r thema yn gyfrwys o dan yr wyneb yn y rhan helaeth o'i waith. Wrth ystyried y dramâu hynny sy'n ymwneud â phynciau llosg y dydd, yr hyn a wna yw 'eu trin o fewn cyd-destun Cymreig gan dynnu daearyddiaeth a chymdeithaseg Cymru i mewn'¹²⁴ i'r cyfanwaith. Ystyrier *Wyneb yn Wyneb* a *Gwaed Oer* fel dwy enghraifft:

¹¹⁹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 127.

¹²⁰ Jennie Eirian Davies yn dyfynnu geiriau Rhydwen Williams, "'Y Gynulleidfa Gymraeg'", *Y Faner* (3 Ebrill 1981), 2.

¹²¹ Jennie Eirian Davies, "'Y Gynulleidfa Gymraeg'", *Y Faner*, 2.

¹²² Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 10.

¹²³ Bob Roberts, 'Terfyn', *Y Faner* (1 Mehefin 1979), 9.

¹²⁴ Mari Jones-Williams, 'Gosod llwybr ac yna dilyn y lleisiau i'r llwyfan' (cynwysedig ym *Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007*, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

In depicting the family, Povey also portrays a community's decline – morally and culturally – as families lose contact and turn their backs on traditional Welsh values.¹²⁵

Ond, wrth ystyried y ffaith bod y thema hon o fygythiad i Gymreictod, yr iaith a diwylliant o ganlyniad i ragrith y genedl yn cael ei chyflwyno mewn cynifer o'i weithiau, a ellir dadlau bod y neges hon yn oramlwg ac yn cael ei gwthio'n ormodol o bob cyfeiriad ar gynulleidfaedd Meic Povey? Wedi'r cwbl, onid ei fwriad yw peri i'w gynulleidfa edrych yn y drych ac ystyried a ydynt hwythau hefyd yn euog o'r rhagrith hwn? Er iddo ef ei hun nodi mai difyrru yn fwy nag unrhyw beth arall yw ei brif amcan wrth ysgrifennu, ac '[o]s oes ryw neges bach yn gwthio i'r wyneb, siort ora',¹²⁶ efallai bod elfen bregethwrol o ran y Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i'w weithiau, yn enwedig ei weithiau cynharaf, megis *Terfyn* a *Chwara Pant*. Efallai mai arwydd o ddramodydd dibrofiad yw hynny. Â Gareth Miles cyn belled ag awgrymu bod y gweithiau Saesneg eu hiaith, ond sydd 'wedi'u trwytho'n hynod o ddwfn yn niwylliant a psyche y gymdeithas Gymraeg',¹²⁷ *Indian Country*, a'r ddrama a edrydd hanes perthynas y ddeuawd gomedi boblogaidd Gymraeg, *Life of Ryan ... and Ronnie*, yn gymaint gwell na gweddill ei ddramâu gan fod eu hawdur yn 'ymryddhau o afael y biwritaniaeth forbid a'r neo-Galfiniaeth ddyngasäol sy'n nodweddu ei ddramâu Cymraeg'.¹²⁸

Ynghlwm wrth y thema o Gymreictod y mae thema arall sy'n frith trwy weithiau'r dramodydd, sef dyletswydd, boed hynny'n ddyletswydd at unigolion, megis yn y dramâu *Wyneb yn Wyneb*, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi a Hen Bobl Mewn Ceir*, neu'n ddyletswydd at gymdeithas, fel a geir yn *Yr Hen Blant*. Ond wrth ystyried y thema o ddyletswydd genedlaethol, cyfyd y cwestiwn ynghylch beth yw hunaniaeth Gymreig a phwysigrwydd gwreiddiau i'r Cymry. Yn wir, gellir ystyried y cwestiwn hwn ar ei ben ei hun yn thema o fewn y gweithiau. Dyma oedd thema ganolog y refiw gerddorol, *Cofiant y Cymro Olaf* yn ogystal â'r ddrama *Terfyn*, dwy ddrama a oedd yn cydreddeg yn ystod 1979, ac mae lle i gredu fod pleidlías datganoli 1 Mawrth y flwyddyn honno yn gefnlen i'r gweithiau. Yn y ddrama, aeth Meic Povey ati i archwilio thema gwrthdaro a geir rhwng hunaniaeth Gymreig ogleddol wledig a hunaniaeth Gymreig ddeheuol ddinesig – hynny yw, 'Y Fro v Y Ddinas'.¹²⁹

¹²⁵ Dienw, 'Abuse and lust set to pull crowds', *Caernarfon Herald*, (25 Medi 1992), 25.

¹²⁶ Meic Povey, yn Gareth Wiliam Jones, 'Holi Meic Povey', yn Meic Povey, *Perthyn* (Llanrwst, 1995), t. 11.

¹²⁷ Dafydd Llywelyn, 'Effeithiolrwydd Syml', *Barn*, 527/528 (Rhagfyr 2006 / Ionawr 2007), 80.

¹²⁸ Gareth Miles, 'Pobl Gyffredin', *Barn* 515/516 (Rhagfyr 2005 / Ionawr 2006), 102.

¹²⁹ Dienw. (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Dro ar ôl tro, mae wedi tynnu ar y tyndra rhwng “purdeb” un math o fywyd Cymraeg, gwledig a chyfaddawd “butrach” ein bywydau modern.¹³⁰

Y mae tensiwn amlwg rhwng y de dinesig a'r gogledd gwledig yn ei weithiau, ac awgryma Menna Baines fod hyn yn deillio o'r 'newid byd cynnar a brofodd Meic Povey, wrth adael ardal mor wledig â Chwm Pennant am Borthmadog ... ag ar y symud diweddarach o'r gogledd i Gaerdydd'.¹³¹ Yn wir, wrth astudio'r gweithiau ac ystyried y ffaith bod Meic Povey wedi dychwelyd i'w ardal enedigol a'i gartref ysbrydol trwy gydol ei yrfa am ysbrydoliaeth, ni ellir llai na themlo rhyw elfen o euogrydd ar ran y dramodydd am adael ei gynefin i fyw fel 'cyfryngi'¹³² yng Nghaerdydd a'r 'iaith ym marw yn Rhoslan'.¹³³

A minnau wedi fy magu yng nghefn gwlad Gogledd Cymru ond wedi dewis gwneud fy nghartref a magu fy mhlant yng Nghaerdydd, mae'r busnes alltudiaeth yma, a'r holl faich o deimladau sydd ynghlwm â hynny, yn rhywbeth sy'n dod yn ôl ac yn ôl yn y gwaith.¹³⁴

Cofir yma am y ddrama deledu a fu'n drobwynt yng ngyrfa Meic Povey fel dramodydd, *Sul y Blodau*. Hon oedd y 'ddrama deledu gyntaf o bwys iddo' i hysgrifennu',¹³⁵ gan mai dyma pryd y teimlodd y dramodydd ei fod yn 'dechrau ffeindio'r ffordd i ddweud stori'n iawn',¹³⁶ drwy sylweddoli pwysigrwydd y teulu fel cyfrwng i gyflwyno'r sefyllfa oedd a'r themâu. Y mae dau frawd yn y ddrama, Owain a fudodd i weithio ym Manceinion a Geraint, '[c]enedlaetholwr eithafol'¹³⁷ a gaiff ei arestio ar amheuaeth o gymryd rhan yn yr ymgyrch losgi tai haf. Y mae Owain wedi gadael ei gynefin pan oedd yn ifanc, fel y gwnaeth Meic Povey, a Geraint wedi aros gartref. Yn ystod y ddrama, dychwela Owain adref un penwythnos a'i gariad uniaith Saesneg gydag ef. Yn ôl y dramodydd, agweddau arno ef ei hun yw'r ddau gymeriad:

Calon y ddrama ydi'r berthynas rhwng y ddau frawd. Mae'n gwbl amlwg – er i mi fynd ati yn anymwybodol ar y pryd – mai un person ydynt, sef myfi fy hun. Geraint

¹³⁰ Dienw, 'Yn ôl i'w Ynys ei Hun: gwaith a bywyd Michael Povey', *Golwg*, 4/23 (20 Chwefror 1992), 20.

¹³¹ Menna Baines, 'Pethau Poveyaidd',

<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=166:pethau-poveyaidd&catid=68:hydref&Itemid=293>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

¹³² Meic Povey, yn Baines, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 89.

¹³³ Meic Povey, yn Baines, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 89.

¹³⁴ Meic Povey, yn 'Pwy sy'n Wallgo?', *Barn*, 386 (Mawrth 1995), 26.

¹³⁵ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 5.

¹³⁶ Anna Michelle Davies, 'Astudiaeth o ddramâu teledu unigol Meic Povey' (Traethawd M.A., Prifysgol Bangor, 2007), t. 77.

¹³⁷ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 167.

oedd y person yr hoffwn i gredu y byddwn i wedi medru bod taswn i wedi aros yn Eifionydd.¹³⁸

Yn y ddrama, y mae'r ffaith 'i Geraint gyfeirio'n chwerw at ei frawd, Owain, fel y "mab afradlon", "cachwr", a "Dic Sion Dafydd",¹³⁹ yn awgrymu mai ato ef ei hun y mae Meic Povey yn anelu ei wn. Mae'r euogrwydd hwn ynglŷn ag ymadael â chartref yn wastad wedi codi'r cwestiwn i Meic Povey sut ddramodydd a fyddai petai wedi aros yn y gogledd.

Erbyn hyn, fodd bynnag, y mae'r dramodydd yn gwrthod teimlo'n euog am ymadael â bro ei febyd:

Mae yna syniad y basa rhyw Fro Gymraeg yn golygu bod y bobol yno'n well, yn burach – dydw i ddim yn credu hynny.¹⁴⁰

Ychwanega gan ddweud, wedi'r holl flynyddoedd, na fyddai bellach yn 'perthyn i nunlla fanno [y gogledd] chwaith'.¹⁴¹ Y tensiwn hwn rhwng hunaniaeth Gymreig ogleddol wledig a hunaniaeth Gymreig ddeheuol drefol sy'n gyfrifol am chwalfa briodasol y cwpl yn *Terfyn*. Adlewyrchiad o'r tensiwn hwn yw'r gwrthdaro amlwg a geir rhwng cymeriadau deheuol Meic Povey a'i gymeriadau gogleddol yn ogystal â rhwng ei gymeriadau gwledig a'i gymeriadau trefol. Y mae'r ddrama *Sylw*, er enghraifft, yn 'gymysgfa ddiddorol iawn yn ieithyddol ac yn ddaeryddol, ac mae hynny weithiau'n cael ei ddefnyddio i greu tensiwn'.¹⁴²

LEWIS: 'Wy'n casáu'r tŷ 'ma! 'Wy'n casáu'r ddinas 'ma! 'Wy bron marw isio mynd 'nôl i gefen gwlad! ...
BAZ: Der mlân te! West Walian ponce!
LEWIS: Ffansio dy hun 'yt ti? Valley scum!¹⁴³

Yn yr un modd, ceir tensiwn naturiol rhwng Rhydian a Bob yn *Bonansa!*:

BOB: (*Reit ddifrifol*) Wyt ti wedi teimlo 'rioed fel rhoi dy ben mewn pobdy?
RHYDIAN: Jelys ...? Bob! ... Rosina 'da llais fel nant y mynydd. Llais chithe fel crawc y frân ... Jest jocan!
BOB: Splendid.
RHYDIAN: Jest jocan, 'na'i gyd!

¹³⁸ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 167.

¹³⁹ Jones, 'Gweld Llais a Chlywed Llun', t. 5.

¹⁴⁰ Meic Povey, yn 'Yn ôl i'w Ynys ei Hun: gwaith a bywyd Michael Povey', *Golwg*, 21.

¹⁴¹ Meic Povey, yn 'Yn ôl i'w Ynys ei Hun: gwaith a bywyd Michael Povey', *Golwg*, 21.

¹⁴² Rhian Price, 'Pawb Eisiau Sylw' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

¹⁴³ Meic Povey, *Sylw* (Caerdydd, 2003), t. 33.

BOB: Hiwmor y De. Arbennig.
 ROSINA: Peidiwch â mynd i ffraeo!
 BOB: 'Dw'i 'di byw yn y dre 'ma drw' f'oes thenciw. Ma' gin i hawl.
 RHYDIAN: A sda fi ddim am bo fi o'r tu fâs, dyna 'chi'n weud, Bob?¹⁴⁴

Cofier, hefyd, am y cymeriadau deheuol dinesig sy'n ymddangos yn aml yng ngweithiau Meic Povey. Cred y dramodydd fod 'gwahaniaeth seicolegol'¹⁴⁵ rhwng gogleddwyr a deheuwr:

I also feel that the stereotype or the mythology about the differences between people from the south and people from the north on the whole is true. Certainly the literal distinction offers the opportunity to create a different kind of character, with a mentality that is completely alien to someone from the north.¹⁴⁶

Mae'r cymeriadau deheuol dinesig hyn yn gweithredu fel catalyddion yn y dramâu, yn taro bywydau ymddangosiadol ddof y cymeriadau gwledig fel ton gan godi hen grachod cyfrinachau sydd wedi cael eu cadw dan glo ers blynyddoedd, megis cymeriad *Mared yn Tyner yw'r Lleuad*:

the conflicting emotions that come to light when city dwellers and country folk come together.¹⁴⁷

Enghraifft arall yw Steff yn *Wyneb yn Wyneb*:

Mae Steff fel bygythiad sinistr Pinteraidd yn dod i mewn i fyd y teulu cyfyng ac yn effeithio ar bawb sydd ynddo.¹⁴⁸

2.3 Y Mynydd a Marwolaeth

Ac ar lethrau y Cnicht ... y des i'n ymwybodol
o farwolaeth am y tro cyntaf erioed¹⁴⁹

¹⁴⁴ Meic Povey, *Bonansa* (Caerdydd, 2001), tt. 20-1.

¹⁴⁵ Meic Povey, yn Non Tudur, 'Povey a drama'r De', *Golwg*, 19/6 (12 Hydref 2006), 26.

¹⁴⁶ Meic Povey, yn 'Meic Povey on Hen Bobl Mewn Ceir', <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=1982>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

¹⁴⁷ Dienw, <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=12B5761B2494A790&p_docnum=13&p_queryname=15>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

¹⁴⁸ Emyr Edwards, 'Wynebu'r Gwir' (cynwysedig ym *Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007*, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Yn ei ragair i *Tyner yw'r Lleuad Heno*, dyfynnodd Meic Povey ran o'r soned 'Moelni' (1931) gan T. H. Parry-Williams – bardd a hanai o ardal gyfagos i Flaen Nantmor:

A thros fy magu, drwy flynyddoedd syn
Bachgendod yn ein cartref uchel ni,
Ymwasgai henffurf y mynyddoedd hyn,
Nes mynd o'u moelni i mewn i'm hanfod i.¹⁵⁰

Y mae pwysigrwydd y 'mynydd' yn nramâu Meic Povey yn pwysleisio dylanwad ardal fynyddig ei lencyndod arno. Yn wir, gellir ystyried presenoldeb 'y mynydd' fel cymeriad ychwanegol cwbl hanfodol yn y gweithiau, sy'n goruchwylio'r holl ddigwydd ac yn taflu cysgod dros fywydau cymeriadau ei ddramâu:

Mae mynyddoedd wedi chwarae rhan bwysig yn nifer o 'nramâu. Pam fod y mynydd yn bwysig mewn drama neu ffilm? Wel, yn ôl Robert Mckee (dwi bron yn siŵr), 'achos fod pethau yn digwydd ar fynydd'.¹⁵¹

Wedi llwyddiant *Wyneb yn Wyneb* roedd perthynas gref wedi ei sefydlu rhwng Meic Povey a chwmini Dalier Sylw, ac, o ganlyniad, yn Eisteddfod Bro Colwyn 1995, fe lwyfannwyd y ddrama *Fel Anifail*, cyn iddi fynd ar daith o amgylch Cymru. Bethan Jones oedd unwaith eto wrth y llyw ac roedd y cast yn cynnwys Christine Pritchard ac Owen Garmon:

"dwi ond yn ysgrifennu am bethe sy'n cnocio ar 'y nrws i," meddai Meic Povey. "Mae'n rhaid i fi gael syniad ac roedd *Fel Anifail* yn 'y mhen i am ryw ddwy neu dair blynedd cyn i mi ei dechrau."¹⁵²

Gweld ei fam a'i dad ei hun yn heneiddio a ysbrydolodd y dramodydd i gyfansoddi'r ddrama, ac ynddi ceir mewnwelediad i fywyd gŵr a gwraig oedrannus sy'n byw ar fferm mewn ardal fynyddig yng Ngwynedd. Y maent ill dau wedi cyrraedd oed yr addewid a Mair wedi trefnu i arwerthwr ddod i'r fferm i gynnig pris iddynt am eu cartref. Y mae hi o'r farn y dylent dreulio gweddill eu dyddiau mewn byngalo, fel y gwnaeth Ifan a Madge, diweddar ffrindiau

¹⁴⁹ Meic Povey, yn 'Ar y mynydd gyda Meic', <<http://www.walesonline.co.uk/showbiz-and-lifestyle/cymraeg/erthyglau/2009/09/26/ar-y-mynydd-gyda-meic-91466-24779456/>> (26 Medi 2009). Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

¹⁵⁰ T. H. Parry-Williams, 'Moelni', *Detholiad o Gerddi*, (Llandysul, Awst 1972), t. 34.

¹⁵¹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 22.

¹⁵² Dienw, 'Cwrdd â'r awdur toreithiog: Drama rymus gan Meic Povey', *Y Cymro* (29 Medi 1999), 14.

oes i'r pâr. Aros ar y fferm gyda'i atgofion yw dymuniad Defi, fodd bynnag. Oherwydd eu gwahanol ddyheadau, y mae agendor yn bodoli rhyngddynt. Y mae'r ddrama hon yn ein hatgoffa o ddrama deledu o eiddo'r dramodydd, *Nel* (1991). Yn wahanol i'r ddrama lwyfan, brawd a chwaer ddibriod yw'r ddau brif gymeriad yn y ddrama deledu, sy'n byw ar fferm anghysbell. Ond y brawd y tro hwn sydd â'i fryd ar symud i fyngalo yn y dref a'r chwaer am aros yn ei chartref fel y mae wedi ei wneud ar hyd ei hoes.

Wrth i'r ddrama lwyfan fynd rhagddi daw'n amlwg bod rhywbeth dyfnach o lawer na gwahaniaeth barn yn sail i'r gwrthdaro. Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, bu farw eu hunig anedig blentyn, Arwyn, wrth iddo lithro ar lethrau'r mynydd a disgyn i'r llyn islaw:

They both had their part in the tragic events. Each blames the other while conscious that their own consciences are far from clear.¹⁵³

Ni wŷr neb yn sicr beth ddigwyddodd y diwrnod hwnnw. 'Wrth fynd i oed, mae'r cof yn dethol a beth sydd yma ydy dwy fersiwn o'r un stori.'¹⁵⁴ Ai oherwydd iddi gredu bod ei gŵr yn cael perthynas gyda merch arall, a'u bod ill dau ar y mynydd gyda'i gilydd y diwrnod hwnnw, yr anfonodd Mair ei mab i fynd i chwilio am ei dad yn un-swydd er mwyn iddo ei ddal yn godinebu? Ac oherwydd yr hyn a welodd, fe redodd y bachgen oddi yno cyn disgyn i'w farwolaeth. Ynteu ai mynd i hel defaid i'r mynydd a wnaeth Defi y diwrnod hwnnw, ac wrth chwilio am ei dad, daeth Arwyn ar draws dafad wedi'i llarpio, ac yn ei ddychryn rhedodd yn ôl am y fferm?

MAIR: O, be welodd o! Be' welodd y truan pan gyhaeddodd o; pan safodd ar wal y gorlan a galw am ei dad!
DEFI: Dafad wedi'i llarpio! Dyna welodd yr hogyn!
MAIR: Darn o ddefnydd cotwm, gwyn yn ddiferol o waed, darn o ddefnydd a rwygwyd gan law feiddgar, ddi-dostur eiliadau ynghynt. Bloedd a gwaedd, wrth i'r angerdd lifo, wrth i'r ysfa gael ei mygu o'r diwedd.¹⁵⁵

Ond er yr holl flynyddoedd o chwerwder rhyngddynt, y maent ill dau yn ddibynnol ar ei gilydd, yn enwedig nawr ar ddiwedd eu hoes a hwythau wedi colli pawb a fu'n agos iddynt.

Y mae'r mynydd, a'u hatgofion am y drychineb honno a ddigwyddodd ar y llethrau ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, yn parhau i reoli a gormesu bywydau Defi a Mair yn *Fel*

¹⁵³ Iorwerth Roberts, 'Pain and guilt of a dark secret', *Daily Post* (Februrary 19, 1996) (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

¹⁵⁴ Dienw, 'Cwrdd â'r awdur toreithiog: Drama rymus gan Meic Povey', *Y Cymro*, 14

¹⁵⁵ Meic Povey, *Fel Anifail* (Caerdydd, 1997), tt. 32-3.

Anifail. Mae'n eu gorfodi i ail-fyw eu hunllef yn feunyddiol, ac ni allant ddianc rhagddo. Ar y mynydd, hefyd, y treulia'r plant yn *Diwedd y Byd* eu diwrnod olaf cyn cychwyn yn yr ysgol uwchradd. Ar y mynydd y lladdwyd Alun, y tad yn *Indian Country*, yn ogystal. Ac y mae *Tyner yw'r Lleuad Heno* yn dilyn yr un patrwm.

Yn groes i'r disgwyliadau, nid 'oes a wnelo *Tyner yw'r Lleuad Heno* ddim oll â Hedd Wyn. Dewisodd [Meic Povey] y llinell o waith R. Williams Parry yn deitl am ei bod yn adlewyrchu naws y ddrama'.¹⁵⁶ Ac er i'r broses o ysgrifennu'r ddrama hon gymryd oddeutu tair blynedd, mewn cyfnodau, ac i'r dramodydd ei chwblhau ar gyfer cynhyrchiad Theatr Genedlaethol Cymru ohoni yn 2009, negyddol iawn fu'r ymateb iddi, fel yr awgryma'r geiriau diamwys hyn:

Roedd yn gynhyrchiad gwan o ddrama ystrydebol nad oedd yn haeddu bod yn gynhyrchiad gan ein Theatr Genedlaethol.¹⁵⁷

Fel amryw o'i ddramâu eraill, Meic Povey ei hun a oedd wrth y llyw yn cyfarwyddo'r cast o saith, a gynhwysai Owen Arwyn, Ffion Dafis, Owen Garmon, Arwyn Jones, Merfyn Pierce Jones a Tonya Smith. Ond, y tro hwn, roedd y profiad o gyfarwyddo ei waith ei hun hyd yn oed fwy personol, gan fod ei chwaer, Buddug Povey, wedi'i chastio ar gyfer rhan Emma yn y ddrama:

This is the first time I've worked with Buddug. She's the youngest in our family. I didn't have anybody in mind when I was writing the play, but gradually the part became suited to her. The play is very different from the first draft I wrote two years ago and casting Buddug was a gradual thing ... I decided in the end that Emma was the right part for Buddug. She's the right age, and is a very good actress, though I've known that all along. Before now, the right part wasn't there for her in my plays and now it is and our relationship is pure actor/director.¹⁵⁸

Mae'r ddrama wedi'i lleoli yn y presennol ac yn olrhain hanes teulu amaethyddol, ar fferm Garn Fach ar lethrau Eryri:

¹⁵⁶ Baines, 'Pethau Poveyaidd',

<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=166:pethau-poveyaidd&catid=68:hydref&Itemid=293>.

¹⁵⁷ Sioned Williams, 'Y Theatr Gymraeg yn y Glorian',

<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=181:y-theatr-gymraeg-yn-y-glorian&catid=70:rhagfyr&Itemid=295>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012. (Gweler hefyd Sioned Williams, 'Y Theatr Gymraeg yn y Glorian', *Barn*, 563/4 (Rhagfyr/Ionawr 2009/10), 82-4.

¹⁵⁸ Meic Povey, yn,

<http://infoweb.newsbank.com/iwsearch/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=12B5761B2494A790&p_docnum=13&p_queryname=15>.

Garn Fach yw'r fferm yn y ddrama hon, ac efallai y bydd ei henw yn gwneud i ambell un feddwl mai cydnabod ardaloedd Garndolbenmaen ac Eifionydd yr wyf, nid dyna'r gwirionedd.¹⁵⁹

Y mae tensiynau amlwg rhwng y cymeriadau. Ceir tad y teulu, Prysor, sy'n ddifrifol wael o ganlyniad i ganr ar yr ysgyfaint; ei fab diniwed, Llew, a arhosodd gartref i ffermio; ei ferch, Elinor, sy'n ddigymar ac wedi 'morol am y teulu ers marwolaeth ei mam; mab arall iddo, Owain, sy'n ddydd busnes aflwyddiannus a'i wraig drefol, Emma; eu mab hwythau, Dafydd, sydd yn fyfyrwr yng Nghaerdydd, a'i ffrind deheuol, plaen ei thafod, Mared. Mae'r teulu bach yn celu un gyfrinach dywyll – cyfrinach y mae pawb ond Dafydd yn gwybod amdani.

Lleolir y ddrama yng ngardd gefn y ffermdy, ar brynhawn Sadwrn ddiwedd mis Gorffennaf, ar ddydd pen-blwydd Prysor yn bump a thrigain mlwydd oed. Wedi clywed fod Lloyd, y cyfreithiwr, wedi ymweld â Prysor, y mae Owain ac Emma ar binnau, yn ofni y byddent ar eu colled yn ariannol be byddai Prysor yn penderfynu newid ei ewyllys a'u hegor ohoni. Y mae arian yn chwarae rhan bwysig ym mywydau'r ddau: yn berchnogion Yr Angor a'r hwch ar fin mynd trwy'r siop a galwadau ffôn amheus Toby Jug a Sean Donaldson yn awgrymu difrifoldeb ei sefyllfa ariannol, y mae Owain â'i fryd ar fenter newydd a fydd, y mae'n gobeithio, yn eu codi'n ôl ar eu traed, sef codi fferm wynt ar y llechwedd sy'n eiddo i'w dad. Ar y llechwedd hon y disgynnodd ei fam i'w marwolaeth union ugain mlynedd yn ôl i'r diwrnod pan aeth i grwydro yn rhy agos i ymyl y ceunant:

Felly yn y ddrama hon, mae'r mynydd yn tra-arglwyddiaethu, gyda'i bresenoldeb bygythiol yn ddyddiol atgoffa teulu Garn Fach o'r gyfrinach erchyll sydd yn gyrru ac yn eu rhwygo ar yr un pryd.¹⁶⁰

Pan ddaw Prysor i'r golwg ym mraich Elinor, sydd wedi gofalu amdano dros y blynyddoedd a thrwy gydol ei salwch, y mae'r hen ŵr yn ffafrio Emma, ei ferch yng nghyfraith, i'w helpu:

Gŵyr pawb fod y diwedd yn agos iddo, ac mae ei feibion ... ei ferch ... ynghyd â'i ferch yng nghyfraith ... yn cystadlu yn erbyn ei gilydd er mwyn sicrhau eu cyfran hwy o'i ewyllys.¹⁶¹

¹⁵⁹ Povey, 'Rhagair', *Tyner yw'r Lleuad Heno*, t. 5.

¹⁶⁰ Povey, 'Rhagair', *Tyner yw'r Lleuad Heno*, t. 6.

¹⁶¹ Roger Owen, 'Teyrn yw'r Lleuad', *Barn*, 562 (Tachwedd 2009), 34.

Y cwestiwn cyntaf a ofynna yw a yw Dafydd, ei wŷr, wedi cyrraedd eto, a phan gyrhaedda ef wedi siwrnai o Gaerdydd, gyda Mared ei ffrind i'w ganlyn, y mae'n amlwg cymaint o feddwl sydd gan y ddau o'i gilydd. Trwy gydol y ddrama, cymer Prysor ddiddordeb mawr yn Mared, ac mae anniddigrwydd Emma gyda'r sefyllfa hon yn amlwg. Mared, er nad yw'n aelod o'r teulu, sy'n cynhyrfu'r dyfroedd, er bod y tensiwn yn cronni dan yr wyneb eisoes. Oherwydd ei hagwedd fodern, ffeministaidd, y mae'n cwestiynu swyddogaethau y cymeriadau o fewn y teulu, a gofyn cwestiynau na feiddiodd neb eu gofyn cyn hynny. Am y rheswm hwn y mae Dafydd, yn ogystal â'i fam, yn anesmwytho gyda'i phresenoldeb ac yn ceisio ei hannog i ymadael:

Tyner yw'r Lleuad Heno – comedi ddu gan Meic Povey sy'n edrych ar y gwrthdaro emosïynol all ddeillio o gyfarfod rhwng pobl y ddinas a thrigolion cefn gwlad.¹⁶²

Mared sy'n agor llygaid Elinor i'r ffaith ei bod wedi aberthu ei bywyd ers blynyddoedd i ofalu am y teulu, a hynny yn gwbl ddiddiolch, ac wrth i honno fentro hawlio'i hannibyniaeth er mawr syndod i weddill aelodau ei theulu, fe ddatgelir cyfrinach y teulu fesul haenen. Yn ei chynddaredd, datgela Elinor nad damwain oedd marwolaeth ei mam, ond, yn hytrach, lladd ei hun a wnaeth hi, o ganlyniad i odineb ei gŵr. Ni allai wynebu bywyd gan wybod ei fod wedi cenhedlu plentyn gyda gwraig arall – yn enwedig gyda geneth un ar bymtheg oed a oedd yn canlyn ei fab. Dyma'r gwir reswm dros hoffter amlwg Prysor o Emma, a'r rheswm pam bod Owain, er ei holl fethiannau busnes, yn wastad yn cael ei achub gan arian ei dad, wrth iddo buteinio ei wraig iddo dros y blynyddoedd bob tro y byddai mewn trafferth ariannol. Dyma'r rheswm hefyd pam mae gan Prysor gymaint o feddwl o Dafydd, sydd mewn gwirionedd yn fab iddo, a bwriada adael y fferm iddo ef yn ei ewyllys – rhywbeth a fyddai wrth fodd Emma a deimla ei bod yn haeddu ei gwobrwyo am ei haberth dros y blynyddoedd, yn enwedig a hithau bellach yn ddigartref wedi i Owain ddychwelyd o'i gyfarfod gyda Toby a Sean, yn friwiau drosto, ei ddillad wedi eu rhwygo a goriadau'r Angor wedi eu trosglwyddo i'r ddau wŷr busnes. Ceisia Prysor, mewn un ymgais olaf cyn iddo ymadael â'r byd, ofyn maddeuant Dafydd am oes o dwyll a chelwyddau. Ac wrth weld y boen a achosodd yn ymateb y llanc ifanc iddo, gofynna'r hen wŷr un ffafr derfynol, sef i Dafydd roi cymorth iddo i roi diwedd i'w gystudd:

¹⁶² Dienw, <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=12AE71C3024738B0&p_docnum=18&p_queryname=22>.

*Daw Prysor ato. Rhy Dafydd freichiau amdano a'i ddal yn dynn, gan bwyso ei wyneb i'w fynwes. Wedi ennyd, Prysor yn ceisio ei ryddhau ei hun, ond gafael Dafydd yn mynd yn dynnach – a mwy penderfynol. O'r diwedd, Prysor yn llonyddu. Mae ei ffon yn disgyn i'r llawr.*¹⁶³

Gweler felly fod cysylltiad agos iawn rhwng y mynydd a marwolaeth yng ngweithiau Meic Povey:

Ac ar lethrau y Cnicht, yn blentyn wyth oed, y des i'n ymwybodol o farwolaeth am y tro cyntaf erioed, pan ddywedodd fy mam na fyddai hi 'yma am byth'.¹⁶⁴

Fe leferir yr atgof uchod gan gymeriad Nel yn y ddrama deledu o'r un enw.

Er mai dychmygol yw'r enghreifftiau uchod o'r dramâu, cyfeiria Meic Povey hefyd at rai digwyddiadau gwirioneddol o'i blentyndod lle chwaraeodd y mynydd ran ganolog yn y digwydd. Cofia'r dramodydd y digwyddiad yr edrydd Rhi amdano yn *Diwedd y Byd* pan laddwyd dringwyr ar lethrau Moel Druman ar ddiwrnod ffair. Roeddent hwythau fel plant yn paratoi i fynd i'r ffair ac arhosodd eu tad i sgwrsio â thri dringwr. Erbyn iddynt gyrraedd adref o'r ffair, roedd dau o'r dringwyr wedi eu lladd. Gellir, felly, osod y thema hon o farwolaeth hefyd o dan yr ambarél hunangofiannol.

Wrth sôn am ei ddrama *Fel Anifail*, dywedodd Meic Povey:

Y llinyn cryfa' yn y ddrama ydi marwolaeth, ac ofn marwolaeth, ac mae hynny'n adlewyrchu un o 'nheimpladau cryfa' i fel plentyn.¹⁶⁵

Dylanwadodd y profiad o golli ei frawd, David, yn bymtheg oed mewn damwain car pan oedd Meic Povey ond flwyddyn yn hŷn nag ef, yn fawr ar y dramodydd:

Dysgodd imi peth mor frau ydi bywyd, ac os oes unrhyw werthoedd o gwbl yn perthyn imi maent yn deillio o'r digwyddiad yma.¹⁶⁶

Yn y ddrama *Fel Anifail* y cyflwynir y thema o farwolaeth amlycaf, a chyfeiriad at y thema a geir yn nheitl y ddrama 'wrth i farwolaeth sleifio fel anifail di-dostur heb unrhyw gydwybod, yn nes ac yn nes'.¹⁶⁷

¹⁶³ Meic Povey, *Tyner yw'r Lleuad Heno* (Llandysul, 2009), t. 92.

¹⁶⁴ Meic Povey, yn 'Ar y mynydd gyda Meic', <<http://www.walesonline.co.uk/showbiz-and-lifestyle/cymraeg/erthyglau/2009/09/26/ar-y-mynydd-gyda-meic-91466-24779456/>> .

¹⁶⁵ Meic Povey, yn Baines, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 89.

¹⁶⁶ Meic Povey, yn Jones, 'Holi Meic Povey', yn Povey, *Perthyn*, t. 9.

¹⁶⁷ Dienw, 'Cwrdd â'r awdur toreithiog: Drama rymus gan Meic Povey', *Y Cymro*, 14.

Dau mewn oed sydd yma: cysgod marwolaeth yn nesáu, ac o raid yn eu gwthio at ei gilydd – ond fod marwolaeth arall, yn ôl yn y gorffennol, yn fwllch enbyd rhyngddynt, yn gwneud cyffwrdd yn atgas a gwir glosio yn amhosibl.¹⁶⁸

Law yn llaw â'r thema hon, cyflwynir thema arall yn y dramâu: mewn nifer o'r gweithiau, megis *Y Cadfridog*, *Perthyn*, *Wyneb yn Wyneb*, *Fel Anifail*, *Tair*, *Sylw*, *Hen Bobl Mewn Ceir*, a *Tyner yw'r Lleuad Heno*, ceir cysylltiad amlwg rhwng y thema o farwolaeth a'r thema o ryw, gan mai dyna, yn ôl y dramodydd yw'r 'unig ddau beth sy'n bwysig yn yr hen fyd yma'.¹⁶⁹ Ystyrier plotiau y dramâu a restrwyd uchod a sut y mae digwyddiadau rhywiol yn chwarae rhan allweddol yng nghwmp y cymeriadau a marwolaeth anwyliaid.

Mae'r ddrama [*Tyner yw'r Lleuad Heno*] yn ymhél â dau o'm hoff synfyfyrion – sef rhyw a marwolaeth. Ni cheir yr ail heb y cyntaf wrth reswm, a thra bod un i'w groesawu, mae'r llall gyfystyr â'r bwcedaid ystrydebol honno o chwd oer.¹⁷⁰

¹⁶⁸ Meg Elis, 'Chwarae Saff – a Da', *Barn*, 392 (Medi 1995), 30.

¹⁶⁹ Llywelyn, 'Effeithiolrwydd Syml', *Barn*, 82.

¹⁷⁰ Povey, 'Rhagair', *Tyner yw'r Lleuad Heno*, t. 5.

2.4 Rhagrith

be' ddyfyd pobol¹⁷¹

Ar yr olwg gyntaf, nid ymddengys bod y dramâu sy'n trafod pynciau llosg mwy modern yn deillio o brofiadau personol – rhywbeth, yn nhyb Meic Povey, sydd yn hanfodol i bob stori. Ond wrth gloddio'n ddyfnach fe ganfyddir nad yw'r dramâu hyn chwaith yn ymwrthod â'r elfennau hunangofiannol:

hyd yn oed pan dwi'n sgwennu pethau modern, achos mae 'na rai pethau modern dwi di'u sgwennu ond mae 'meddylfryd i'n y gorffennol.¹⁷²

Mae *Wyneb yn Wyneb* yn enghraifft o ddrama fwy cyfoes.

Yn ei hunangofiant, *Nesa Peth i Ddim* (2010), nodâ Povey ddigwyddiadau 12 Tachwedd 1987 fel a ganlyn:

i Fwthyn y Felin, Rhydybenllyg, rhwng Rhos-lan a Chricieth, i gwarfod Martin Roberts a'i bartner Ashley. Brodor o dre Caernarfon oedd Martin yn wreiddiol, a threuliodd flynyddoedd lawer yn byw a gweithio yn Llundain. Ei hanes o, yn bennaf, ddaru ysbrydoli'r ddrama lwyfan *Wyneb yn Wyneb ...* Roedd Martin gig a gwaed yn union yr un sefyllfa â Tom dychmygol.¹⁷³

Comisiynwyd Meic Povey i ysgrifennu drama ar unrhyw bwnc gan gwmni Hwyl a Fflag, ond o ganlyniad i'r ffaith nad oedd y syniad yn 'mynd i nunlla',¹⁷⁴ ni ddatblygwyd mo'r sgrïpt. Flynyddoedd yn ddiweddarach, soniodd am y syniad wrth Bethan Jones, cyfarwyddwraig artistig cwmni Dalier Sylw. Wedi iddi ddarllen y ddrama, awgrymodd mai stori'r fam, Laura, oedd hi, yn hytrach na stori ei mab, Tom:

Mwya sydyn, disgynnodd y darnau i'w lle. Dysgais wers werthfawr iawn yn y broses – sef pwysigrwydd penderfynu i bwy mae'r stori'n perthyn ... Hyd yn oed mewn drama gyda hanner dwsin o gymeriadau, a'r rheini'n weddol gyfartal o ran maint, mae'n hanfodol fod 'taith' – ac uchelgais – un ohonynt yn fwy na'r gweddill.¹⁷⁵

¹⁷¹ Povey, *Wyneb yn Wyneb*, t. 26.

¹⁷² Meic Povey, yn 'Diwedd y Gân', Wales Review (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

¹⁷³ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 177.

¹⁷⁴ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 179.

¹⁷⁵ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 179.

Atega'r dramodydd eiriau Will Dunne yn ei gyfrol, *The Dramatic Writer's Companion: Tools to Develop Characters, Cause Scenes and Build Stories*, wrth iddo yntau bwysleisio pwysigrwydd gwybod stori pwy sy'n cael ei hadrodd:

Choosing a character focus for a dramatic story is one of the most fundamental and important decisions a writer makes. Sometimes the choice is easy – an inherent part of the story concept – and other times it is a challenge that requires a lot of thinking and rethinking ... For example, the writer sets out to write one character's story and ends up writing another's.¹⁷⁶

Ym 1993 cafwyd portreadau o'r cymeriadau gan Olwen Rees, Dafydd Dafis a Danny Greham yn y llwyfaniad cyntaf o'r ddrama:

thema dychweliad y mab afradlon a geir yn *Wyneb yn Wyneb*. Troir y confensiwn traddodiadol wyneb i waered fodd bynnag, wrth i'r achubydd disgwylidig ddychwelyd adref nid i achub ond i anniddigo a chyffroi yr hen aelwyd.¹⁷⁷

Yn y ddrama hon, ailymwelodd Meic Povey â thestun y cyffyrddodd ag o yn *Y Cadfridog*, a thestun hefyd y canolbwyntiwyd arno yn nrama Siôn Eirian, *Wastad ar y Tu Fas* (1978), sef hoywder. Mam barchus a chonfensiynol gul yw Laura, sy'n ceisio dod i delerau â'r ffaith bod ei hannwyl, unig anedig fab, Tom, yn hoyw, er ei bod hithau wedi breuddwydio ers blynyddoedd ei fod am ganlyn Valerie, merch rheolwr y banc lle bu ei gŵr yn gweithio. Y mae'r ofn sydd ganddi o'r 'gwarth'¹⁷⁸ a 'be' ddyfyd pobol'¹⁷⁹ yn peri iddi wadu difrifoldeb perthynas Tom, ei mab, a Steff, artist ifanc. Dychwela Tom adref o Lundain, lle mae'n gweithio fel llyfrgellydd, a chanfu ei fod yn dioddef o AIDS. Yn wyneb gwaeledd ei mab, mae Laura a'i hunan-dwyll yn 'ildio'.¹⁸⁰

Mae ganddi'r cryfder i wynebu'r gwirionedd ac mae hi yn dewis arddel ei mab alltudiedig gerbron cymdeithas Gristnogol, honedig faddeugar.¹⁸¹

¹⁷⁶ Wil Dunne, 'Whose Story is it?', *The Dramatic Writer's Companion: Tools to Develop Characters, Cause Scenes and Build Stories* (Chicago, 2009), t. 199.

¹⁷⁷ Hughes, 'Astudiaeth o ddramâu Meic Povey: er 1985', t. 31.

¹⁷⁸ Povey, *Wyneb yn Wyneb*, t. 26.

¹⁷⁹ Povey, *Wyneb yn Wyneb*, t. 26.

¹⁸⁰ Povey, *Wyneb yn Wyneb*, t. 27.

¹⁸¹ Hughes, 'Astudiaeth o ddramâu Meic Povey: er 1985', t. 32.

Ni chaiff Laura unrhyw gefnogaeth gan y gymdeithas Gristnogol, ragrithiol a bortreadir yn y ddrama. Mae ei chyfeillion agosaf yn troi eu cefnau arni: Mr Lloyd yn ei gwrthod fel ei bartner chwist a hynny er eu bod wedi bod yn bartneriaid ers chwarter canrif; pan wêl Valerie, y mae honno'n troi ei chefn arni; a phan aiff Laura i ymweld â'r gweinidog a'i wraig a bocs o siocled i'w chanlyn, dewisia ei wraig y siocled sydd wedi'i lapio, rhag ofn iddi hithau gael ei heintio. Roedd y stori honno wedi deillio'n uniongyrchol o hanes Martin Roberts:

Dywedodd Martin ei hun stori fendigedig am y gweinidog lleol – oedd, mae'n siŵr gin i, fel pob gweinidog, yn ymgorfforiad o ragrith – yn galw i'w weld. Cynigiodd Martin siocled iddo, o focs oedd eisoes wedi'i agor. Gofalodd y cyfaill mai siocled yn dal yn ei bapur lapio ddewisodd o. Dest rhag ofn.¹⁸²

Os yw Laura am ofalu am ei mab yn ystod ei waeledd, y mae'n rhaid iddi, nid yn unig dderbyn ei rywioldeb, ond hefyd dderbyn Steff i'w chartref:

Mae'r garwriaeth rhwng Tom a Steff yn 'anghonfensiynol' – beth yw ystyr 'confensiynol' yn y byd sydd ohoni, Duw a wyr – ond nid yw'r cariad sy'n bodoli rhwng y ddau yn ddim llai angerddol na'r cariad sy'n bodoli rhwng Laura a Tom, sef cariad mam a mab, yr un mwyaf grymus ohonynt i gyd o bosibl. Y brif sialens i Laura – a chalon y ddrama – yw derbyn bod cariad Steff tuag at Tom yr un mor arwyddocaol a dilys ac [*sic*] ydy ei chariad hi tuag ato fo. Dyna'r bont enfawr mae'n ofynnol iddi hi ei chroesi.¹⁸³

Dyfais yw defnyddio hoywder ac AIDS fel pynciau'r ddrama er mwyn datgelu un o brif themâu'r dramodydd sef rhagrith o fewn teulu yn ogystal â rhagrith y gymdeithas glòs, gapelyddol gul, Gymreig mewn ardal wledig, sydd, yn yr achos yma, yn troi'i chefn ar Tom oherwydd ei rywioldeb a'i waeledd. Dywedodd y dramodydd:

A 'nghefnidir i ydi hwnna i gyd – y rhagfarnau a'r gwerthoedd oedd yn rhan o'r gymdeithas ges i fy magu ynddi ... A deud y gwir, mae enaid bob dim dwi wedi'i sgwennu yn y gorffennol.¹⁸⁴

Cyfaddefa Meic Povey ei fod ef ei hun yn euog o'r math hwn o ragrith:

¹⁸² Povey, *Nesa Peth i Ddim*, tt. 177-8.

¹⁸³ Meic Povey, 'Rhagair', *Wyneb yn Wyneb*, t. 5.

¹⁸⁴ Meic Povey, yn Baines, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 89.

Fel y soniais eisoes, dwi'n llwfrgi wrth reddf, ac er fy mod yn cysidro fy hun yn eangfrydig iawn, rhaid bod gwaddod y rhagrith a oedd yn gymaint rhan o'm plentyndod yn dal i loetran – mewn gair, roedd meddwl am ymweld ag o [Martin Roberts] yn ei gartra ei hun yn codi ofn arna i ... Yn achos Martin, be' tasa rhai o'r straeon llawr gwlad yn wir, be' tasa dyn yn medru cael ei heintio trwy fod yn yr un stafell ag o, neu drwy ysgwyd llaw neu yfed o'r un gwpan ag a ddefnyddiwyd ganddo? Nid fod rhagfarnau tebyg wedi fy synnu erioed; maent yn bur nodweddiadol o'r gymdeithas 'gartrefol', glòs, Gymraeg ei hiaith, homoffobig, hiliol sydd, ar y cyfan, yn byw yn y 'Fro' heddiw.¹⁸⁵

Ond a yw'r dramodydd yn cyffredinoli'n arw yn y dyfyniad ysgubol uchod o'i eiddo wrth gyfeirio at y gymdeithas Gymreig, wledig, draddodiadol fel un sy'n nodweddiadol ragrithiol a'i phortreadu mewn golau mor anffafriol? Efallai'n wir fod rhai aelodau o'r gymdeithas honno, fel pob cymdeithas arall, yn euog o'r rhagrith hwn ond nid teg yw awgrymu mai dyma natur y mwyafrif. Pan gyfeirir felly at 'ragrith Piwritanaidd y gymdeithas Gymreig', cyfeirio a wneir at ddisgrifiad cyffredinol y dramodydd o'r gymdeithas honno.

Y mae cymeriad Laura yn y ddrama yn ymgorfforiad o'r hyn yr ystyria'r dramodydd yn rhagrith Piwritanaidd Cymreig. Er ei bod yn ymwybodol o rywioldeb Tom, nid yw'n fodlon cyfaddef na chydabod hynny iddi'i hun na neb arall:

TOM: Mi dan ni'n byw ar wahanol blanedau, y'n dau.

LAURA: Deall dim a'n't ti.

TOM: Ydach, mi rydach chi! Ond y'ch bod chi'n smalio fel arall. Wedi smalio, wedi gwadu, wedi ... cymryd arnoch ar hyd y blynyddoedd.¹⁸⁶

Y mae'r ddrama *Tair* hefyd yn adlewyrchu'r 'rhagrith Piwritanaidd Cymreig' hwn, a cheir awgrym yn y ddrama honno, fel yn *Wyneb yn Wyneb*, ein bod, fel cenedl, bellach yn 'fwy agored, yn fwy digywilydd o hunanol ac yn llai rhagrithiol'¹⁸⁷ nag oeddem yng nghenedlaeth y Nain a chenedlaeth Laura.

'God, saethwch fi pan dwi'n thirty!'¹⁸⁸ Dyna un o hoff linellau Meic Povey – llinell a leferir gan gymeriad Y Ferch yn y ddrama *Tair*, a bortreadwyd am y tro cyntaf gan ferch y dramodydd ei hun, Catrin Powell. *Tair* cenedlaeth o'r un teulu a geir yn y ddrama hon – Nain (Lisabeth Miles), Mam (Betsan Llwyd) a Merch. Comisiynwyd y ddrama gan gwmni Dalier Sylw fel Drama Gomisiwn Eisteddfod Bro Ogwr ac fe'i perfformiwyd gyntaf ar 3 Awst 1998 yn Ysgol Pencoed, gyda Bethan Jones, am y drydedd waith, yn cyfarwyddo

¹⁸⁵ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, tt. 177-8.

¹⁸⁶ Povey, *Wyneb yn Wyneb*, tt. 22-3.

¹⁸⁷ Aled Islwyn, 'Ffraeo a phryfocio', *Barn*, 429 (Hydref 1998), 13.

¹⁸⁸ Meic Povey, *Tair* (Caerdydd, 1999), t. 66.

drama gan Meic Povey. Y mae'r tri chymeriad, y tair ohonynt, yn amrywio o ran eu sefyllfaoedd, eu hegwyddorion, eu natur, daliadau gwleidyddol a chrefyddol, eu hagwedd a'u hieithwedd, ac, o'r herwydd, y mae gwrthdaro rhwng y cenedlaethau yn elfen anhepgor o'r ddrama. Ond, er gwaethaf eu hanghydweld, pan ddatgelir hanes a chyfrinachau pob cymeriad 'dan chwyddwydr di-drugaredd',¹⁸⁹ sylweddolant fod ganddynt fwy yn gyffredin nag yr hoffant gyfaddef; thema a archwilwyd eisoes yn y ddrama *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*:

Y NAIN, Y FAM, Y FERCH – y tair yn tynnu'n groes. Tair menyw, tair cenhedlaeth, tri bywyd gwahanol iawn ... ond pa mor wahanol yw y tair mewn gwirionedd? Faint bynnag dymument wadu neu osgoi eu cyfrifoldeb, mae gwaed yn dewach na dŵr, ac yn sicrhau fod y tair yn rhan annatod o orffennol a dyfodol ei gilydd, ac y byddant felly trwy gydol eu hoes.¹⁹⁰

Y mae'r stori yn troi o amgylch bywydau a sefyllfaoedd carwriaethol a rhywiol y cymeriadau. Gwraig weddw yw'r Nain, sy'n beirniadu ei merch (Y Fam) nad oedd yn wraig ddigon da i'w gŵr, ac, o ganlyniad, fe'i gadawodd am ferch ifanc ddeniadol a oedd yn disgwyl ei blentyn. Y mae Y Ferch, sy'n cael perthynas gyfrinachol gyda'i darlithydd yn y coleg, yn meddwl ei bod yn feichiog, ac yn ymfalchïo yn ei choncwest. Y mae'n grediniol fod Duncan am adael ei wraig er ei mwyn. Y mae Y Fam, wrth gwrs, yn ceisio bod yn gefnogol i'w merch, ond ar yr un pryd yn ei chymharu gyda chariad ei chyn-ŵr – yn dwyn gŵr priod oddi ar ei wraig:

Y FAM: 'Toes gyno fo mo'r help, mae o'n benderfynol o brofi'i hun yn ddyn, unwaith cyn 'r eith o'n hen! 'I wraig, dyna iti pwy mae o'n 'i garu, nid y **chdi** siŵr! Dyna fel dylai fod, dyna'r drefn! Efo hi bydd o'n diwadd, gei di weld! "Mewn cyfoeth a thlodi ... Yn glaf ac yn iach ... hyd oni wahaner ni gan angau ..."

Y FERCH: Jôc ydi hynna, mam.

Y FAM: (*Cysidro cyn ildio*) Ia, jôc **ydi** hynna. ¹⁹¹

Y mae Y Nain draddodiadol, gul, yn ffeiddio at ei hwyres am ei diffyg parch tuag at briodas fel sefydliad a thuag at ddisgwyliadau traddodiadol cymdeithas. Tuag at ddiwedd y ddrama, fodd bynnag, datgelir fod y Taid yntau wedi bod yn anffyddlon, ond oherwydd daliadau'r oes a'i chywilydd, fe gadwodd ei chyfrinach ynghudd drwy'r holl flynyddoedd gan amddiffyn enw da ei gŵr ar bob achlysur.

¹⁸⁹ Dienw, 'Archif Sioeau Dalier Sylw: Tair', <<http://www.users.globalnet.co.uk/~dalsylw/archif/tair.htm>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

¹⁹⁰ Povey, *Tair*, t. clawr ôl.

¹⁹¹ Povey, *Tair*, tt. 44-5.

Y FAM: Blydi hell, peidiwch â'i **amddiffyn** o gymaint! Pam **ydan** ni?! ... yn 'u hamddiffyn nhw gymaint? Hyd yn oed pan ma' nhw'n sathru arnom ni!

Y FERCH: Bai pwy arall ta?

Y NAIN: Noson honno yn unig. Munud wan, dyna'r oll! Gafodd ddiod yno hefyd. (*Wrth Y FAM*) Wneith hynny o gyfaddefiad y tro iti?

Y FAM: Ond ...! Mi 'dach chi'n dal i gelu'r gwir ... Mi gafoch chi (*Y NAIN*) fwy nag un cyfla i ail-gydio ynddi, ond na – roedd yn well gyno chi lynu fel gelain i'r hen foesau dyletswyddol, traddodiadol, yn 'toedd? Mor gyfleus oeddau nhw; mor gyfleus ydyn nhw wedi bod ar hyd y blynyddoedd ... A chditha (*Y FERCH*) – wrth dy fodd yn chwara' dy gêm beryglus, ffasiynol; wrth dy fodd yn denu sylw at yr “artaith” wyt ti'n 'i ddiioda. Ond nid gêm ydi o imi, dallta – ffasiynol neu fel arall. Mae o'n **bod**.¹⁹²

Ac wedi'i holl gecru a'r dadlau, Y Fam oedd yn iawn ac nid oedd gan Duncan unrhyw fwriad o adael ei wraig er ei mwyn, ac, er mawr ryddhad iddynt oll, nid yw'r Ferch yn feichiog wedi'r cwbl.

Easy categorisation of the characters of Nain, Mother and Daughter into symbols of repressive non-conformist history and a rebellious and amoral present soon breaks down as all the women are shown to have contradictory histories, demonstrating that the links that bind them are as significant as the circumstances that separate them.¹⁹³

Gan fod cynifer o'i weithiau wedi'u plannu mor ddwfn yn iaith a diwylliant Cymru, mae *Tair* yn enghraifft brin o ddrama gan Meic Povey sy'n gyfieithadwy gan fod ei themâu, sy'n cylchdroi o amgylch perthynas tair cenhedlaeth o'r un teulu yn hytrach na chanolbwyntio ar themâu Cymreig, yn oesol ac yn rhyngwladol. Wedi llwyddiant cynhyrchiad cwmni Dalier Sylw o'r ddrama hon 'gyda chynulleidfaoedd mawr yn heidio pob nos',¹⁹⁴ fe'i cyfieithwyd i bump o brif ieithoedd Ewrop a hynny mewn cydweithrediad gyda'r Royal Shakespeare Company a'r Union des Theatres de L'Europe, gan gynnwys cyfieithiad Saesneg ohoni gan Simon Harris o dan y teitl *Three Women*, ac fe'i llwyfannwyd gan gast Albanaidd yn Theatre Traverse yng Ngŵyl Fringe Caeredin.

Dywedodd Meic Povey mai un rheswm pam y ffafriai ysgrifennu ar gyfer y llwyfan dros ysgrifennu ar gyfer y sgrin yw oherwydd bod y llwyfan yn cynnig mwy o ryddid i fentro

¹⁹² Povey, *Tair*, tt. 64-5.

¹⁹³ Dienw, 'Tyner yw'r Lleud Heno', <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=3269>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

¹⁹⁴ Dienw, 'Archif Sioeau Dalier Sylw: Tair,' <<http://www.users.globalnet.co.uk/~dalsylw/archif/tair.htm>>.

a llai o gyfyngiadau na theledu (yn enwedig gyda 'sianel ganol y ffordd fel S4C').¹⁹⁵ O ganlyniad, gallai ddefnyddio pynciau llosg cyfoes fel cyfrwng i gyflwyno themâu llawer mwy oesol.

Taboo subjects were once avoided by theatre companies, worried that their audience might be a tad conservative.

That mould has long been broken in the Welsh language, helped along by Meic Povey's soul-searching play, *Perthyn*.¹⁹⁶

Ym 1985, ysgrifennodd Meic Povey y ddrama deledu *Sul y Blodau* ac yn sgil honno ysgrifennodd *Perthyn*, a gomisiynwyd ym 1986 gan Gymdeithas Theatr Cymru ar ran Cwmni Whare Teg. Fel yn *Sul y Blodau*, stori am deulu a gawn yn y ddrama ddwy act, *Perthyn*, hefyd, a mabwysiadwyd y ddrama fel drama gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog, 1987, a'i pherfformio yn Theatr Arudwy, gydag Ian Saynor, Olwen Rees, Ifan Huw Dafydd a Nia Edwards yn actio o dan gyfarwyddyd David Lyn:

Mae'n wir dweud fod ffeithiau moel stori *Perthyn* yn seiliedig ar hanes go iawn a ddeilliodd o Fro Morgannwg, ac a roddwyd i mi gan ffrind o seiciatrydd.¹⁹⁷

Dyma ddrama sy'n ymdrin â llosgach a chamdrin plant yn rhywiol, sy'n feysydd hynod o sensitif. Y mae'r ddrama yn cylchdroi o amgylch tri aelod o'r un teulu; Mari, merch un ar bymtheg oed; ei mam, Gwen; a'i thad, Tom. Mae dau aelod arall i'r teulu hefyd, sef Edward, brawd hŷn Mari, a Sara, ei chwaer ieuengach. Ar ddechrau'r ddrama ceir golygfa ôl-fflach gyda Mari a'i thad, ynghyd â Gwen, yn chwarae pêl. Ymddengys perthynas y tad a'r ferch yn un gariadus wrth iddo gyfarch ei 'lwlan'¹⁹⁸ mewn modd annwyl a chynnes. Ond daw'r cam-drin yn amlycach trwy gydol y ddrama, gyda Tom yn mynnu bod Mari yn 'chwara mwncwns'¹⁹⁹ a 'chwara gorwadd'²⁰⁰ ag ef ar sawl achlysur. Y mae plot y ddrama yn cychwyn ar ddiwedd y stori – ar drothwy achos llys yn ymwneud â honiadau Mari fod ei thad wedi bod yn ei cham-drin yn rhywiol ers pan oedd yn bedair blwydd oed. Y mae ef a'i wraig bellach wedi gwahanu. Ni wyddom, ar y dechrau, ai gwir ai peidio yw honiadau gwreiddiol Mari yn erbyn ei thad, gan ei bod, erbyn hyn, yn gwadu'r cyhuddiadau hynny gan ddweud ei

¹⁹⁵ Meic Povey, yn 'P'nawn Da', *Agenda/Tinopolis* (21 Ionawr 2005).

¹⁹⁶ Ian Parry, 'Theatrical taboo broken in fine style' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

¹⁹⁷ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 172.

¹⁹⁸ Povey, *Perthyn*, t. 20.

¹⁹⁹ Povey, *Perthyn*, t. 20.

²⁰⁰ Povey, *Perthyn*, t. 29.

bod ond wedi adrodd y ‘stori ddagra’²⁰¹ wrth ei hathrawes rhag cael ffrae ganddi am driwanta. Ond yn ystod y ddrama, trwy gyfrwng sesiynau gyda seiciatrydd, fe’n tywysir yn ôl i’r gorffennol a chawn gipolwg ar blentyndod Mari. Trwy gydol y gamdriniaeth, mae cymeriad y fam, er yn ymwybodol o’r hyn sy’n digwydd o dan ei tho, yn cau ei llygaid i weithredoedd gwyrddoedig ei gŵr:

Mari: Mi ’dach chi’n saff o fod yn gwybod. Fel oeddach chi efo fi. Fedrwch chi ddim smalio fel arall am byth!... A chitha’n *fam!* Yn cau deud, yn chwara dall, yn troi cefn ar eich plant!²⁰²

Fe’n hatgoffir yng nghymeriad Gwen o gymeriad mam Patric yn y ddrama *Tiwlips* (2000) gan Aled Jones Williams, sydd hefyd yn cau ei llygaid i gamdriniaeth Yncl Jo o’i mab. Fodd bynnag, dysgwn mai’r rheswm dros ddistawrwydd y fam yw oherwydd iddi hithau hefyd gael ei chamdrin. Y mae ei natur rywiol oeraidd tuag at ei gŵr a’i godinebu yn peri i Tom bellhau oddi wrthi a nesu at ei ‘lwlau’²⁰³ annwyl i gael cysur, sy’n ein harwain ninnau i feio Gwen am yr hyn a ddigwydd i’w merch a theimlo rhywfaint o dosturi tuag at Tom. Erbyn diwedd y ddrama dychwelwn i’r man cychwyn, ddiwrnod cyn yr achos llys, gyda Mari’n parhau i wadu’r cyhuddiadau ac yn beio’i hun am yr holl sefyllfa: ‘Crisielir nodweddion y dioddefwr ym Mari’r ferch yn ogystal â hunan werth, mewnblygrwydd, iselder ac artaith ingol a ddaw yn sgil bradychu’r patriarch.’²⁰⁴ Y mae hi bellach yn ysu am gael ei thad yn ôl ar yr aelwyd, er mwyn dychwelyd i’r hyn a adwaenai hi fel ‘normalrwydd’.

Mari: Mi leciwn farw weithia achos bod teimlo’n euog am rhywun arall yn gorfod talu yn waeth na marw.²⁰⁵

Daw i sylweddoli’n raddol fod ei thad wedi troi ei olygon at ei chwaer fach, Sara, erbyn hyn, sy’n gwisgo ‘dau bâr o byjamas, tair jympar a chagŵl’²⁰⁶ i fynd i’w gwely. Er bod Mari yn amddiffynnol ohoni ac yn ceisio ei harbed rhag yr hyn a brofodd hi, gan ddweud nad oes ‘[r]aid iddi [Sara] chwara mwncwns, na chwara gorwadd’²⁰⁷ gan mai ei ‘job’²⁰⁸ hi yw hynny, y mae eto’n genfigennus o’r sylw a gaiff gan ei thad.

²⁰¹ Povey, *Perthyn*, t. 26.

²⁰² Povey, *Perthyn*, t. 76.

²⁰³ Povey, *Perthyn*, t. 20.

²⁰⁴ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 12.

²⁰⁵ Povey, *Perthyn*, t. 64.

²⁰⁶ Povey, *Perthyn*, t. 61.

²⁰⁷ Povey, *Perthyn*, t. 68.

²⁰⁸ Povey, *Perthyn*, t. 68.

Rhaid oedd hyd yn oed dod i delerau â Mari wrthodedig gan ei thad am ei bod yn rhy hen a Sara y ferch iau bellach yn gymar calon a chnawd. Gwastraff fu deng mlynedd o garu ei thad i Mari ac roedd ei haberth yn un enbyd.²⁰⁹

Pan gyhudda Mari Gwen o ‘beidio ag achub Sara’,²¹⁰ unig ymateb Gwen yw:

Wyt ti’n pasa gwneud y banad ’na ’ta dwyt ti ddim?²¹¹

Ceir awgrym cryf yn llinellau olaf y ddrama fod Tom, gan ddarogan dedfryd y llys yn ei erbyn ymhen deuddydd, yn rhoi terfyn ar ei fywyd – fel a ddigwyddodd mewn gwirionedd yn yr achos ym Mro Morgannwg:

Lluniwyd y cyfan ar ffurf llys barn: – ni hwyrach yn y pen draw oedd o flaen ein gwell, a ni ar waethaf ein holl gydymdeimlad â Tom ar ddiwedd y rhan gyntaf oedd yn teimlo’n annifyr anghyfforddus yn gwybod fel Mari bod yna “dwtshiad a thwtshiad” o’r tu fewn i bob cyfathrach.²¹²

Yn 2002, bymtheng mlynedd wedi’r perfformiad cyntaf o’r ddrama, ail-lwyfannwyd *Perthyn* gan Gwmni Mega, gyda’r cast yn cynnwys Bryn Fôn, Sue Roderick, Iola Hughes a Christine Pritchard y tro hwn o dan gyfarwyddyd Dafydd Hywel. Ond gyda chymaint o amser wedi mynd heibio ers y perfformiad cyntaf o *Perthyn*, yr oedd hi’n anochel y byddai’r ail-lwyfaniad hwn yn cael ei gymharu â’r casgliad helaeth o weithiau a gyfansoddwyd gan Meic Povey yn y cyfamser:

Ond wrth wyluo ail gynhyrchiad proffesiynol y ddrama, fe’n hatgoffir mai gwaith cyw dramodydd i raddau helaeth yw *Perthyn* sydd, o’i gymharu â’i waith aeddfed, cryno, yn hirwyntog ac yn ansicr ei ffocws ar adegau. Gwaith pontio yw *Perthyn*, yn meddu ar lawer o rinweddau cyfarwydd, ond sydd hefyd yn dwyn i gof sioc theatrig y ddrama gynnar *Y Cadfridog*.²¹³

Y mae’r sylwadau uchod yn awrymu i grefft Meic Povey fel dramodydd aeddfedu gryn dipyn yn ystod yr un mlynedd ar bymtheg rhwng y llwyfaniadau o *Perthyn* ac i ddisgwyliadau’r

²⁰⁹ Elin Mair, ‘Dramâu Bro Madog’, *Y Faner* (28 Awst 1987), 6.

²¹⁰ Hughes, ‘Astudiaeth o ddramâu Meic Povey: er 1985’, t. 83.

²¹¹ Povey, *Perthyn*, t. 76.

²¹² Mair, ‘Dramâu Bro Madog’, *Y Faner*, 6.

²¹³ Nic Ros, ‘Chwerthin anaddas’, *Barn*, 477 (Hydref 2002), 50.

gynulleidfa ohono fel dramodydd gynyddu wrthi iddo yntau fagu profiad a chynhyrchu gwaith o safon uwch.

Ailymwelodd Meic Povey â phwnc a thema *Perthyn* chwe blynedd wedi iddo'i chyfansoddi, a'r canlyniad oedd *Gwaed Oer*: 'Wnaiff syniad da fyth dy adael di. Mae o fatha fannodd. Mae o'n dal yno.'²¹⁴ Llwyfannwyd y ddrama ym 1992 gan Gwmni Whare Teg gyda Bryn Fon, Sue Roderick, Eric Wyn, Dafydd Emyr a Lowri Mererid yn perfformio o dan gyfarwyddyd Dafydd Hywel.

Byw uwchben dibyn emosiynol y mae teulu Les a Gloria. Mae Gwenno'n dyheu am ddianc o'r hualau beunyddiol a Dic a Les mewn gwrthgyferbyniad yn crefu am sefydlogrwydd.²¹⁵

Dilyn trywydd teulu cyffredin sy'n byw mewn ardal glan-y-môr yng ngogledd-orllewin Cymru a wna'r ddrama – Les y tad, Gloria y fam, Dic tad Gloria, Gwenno, merch Les a Gloria, a Terry, cariad Gwenno. Y mae enwau'r cymeriadau yn gyfarwydd i wylwyr y gyfres deledu, *Talcen Caled* (1999 – 2004), a gyfansoddwyd gan Meic Povey flynyddoedd yn ddiweddarach, gan mai datblygiad o'r ddrama lwyfan hon oedd sbardun y gyfres:

Teulu digon cyffredin ydi teulu Les efallai, ond tu cefn i ddrysau caedig y cartref, mae yna dwyllo a chamdrin yn bodoli mewn teulu sydd wedi diflasu hefo'u gilydd ac yn dyheu am dorri'n rhydd.

Does na ddim owns o gariad yn cael ei ddangos drwy gydol y ddrama – dagrau diflastod a hunan-dosturi yn unig sy'n cael eu tywallt yn nhy [*sic*] Les.²¹⁶

Y mae gan bawb yn y ddrama eu cyfrinach: y mae Dic yn aros gyda Gloria a'i theulu byth ers iddo golli'i wraig yn lled ddiweddar, ac oherwydd ei unigrwydd, yn ceisio canfod rhywfaint o bleser, nid yn unig yng ngwaelod potel, ond wrth ymweld ag ystafell wely Gwenno, ei wyres. Nid oes ganddo unrhyw syniad am gynlluniau Gloria i'w roi mewn cartref henoed gan dwyllo ei dwy chwaer i gael ei bachau ar gartref ei thad fel y byddai ganddi hi a'i chariad ifanc, Steve, do uwch eu pennau unwaith y gadawa Les. Ond nid Gloria yw'r unig un â chyfrinach. Y mae Les wedi colli ei waith yn y ffatri bowdwr lle y bu'n gweithio trwy gydol ei oes, ond ni all fagu'r plwc i ddweud wrth Gloria. Oherwydd ei ddiflastod, y mae yntau hefyd yn defnyddio Gwenno fel ffurf o gysur.

²¹⁴ Meic Povey, yn Gwenno Hughes, 'Cyfweliad â Meical Povey, Medi, 1993', *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 15.

²¹⁵ Hughes, 'Astudiaeth o ddramâu Meic Povey: er 1985', t. 23.

²¹⁶ Non Griffith, 'Drama'n llawn o wirioneddau hyll' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Y mae Gwenno newydd adael yr ysgol, ac wedi diflasu ar ei bywyd gartref. Terry, ‘rapsgaliwn amheus o gariad’,²¹⁷ yw’r unig un a all ddod â chyffro i’w bywyd; ‘Mae hwnnw’n awchu lawn cymaint am yr arian y gall Gwenno ei swyno gan ei thad ag am ei chorff.’²¹⁸ Trefna Gwenno i fynd i wersylla gydag ef am benwythnos i Flaen Nanmor – i’r un man lle y bu Les a Gwenno yn gwersylla flynyddoedd ynghynt lle ymyrrodd yn rhywiol â’i ferch. Pan glyw Les am y trefniadau, mae’n gandryll. Y mae Gwenno ar dân eisiau mynd i ganlyn Terry i’r Alban a phiodi yn Gretna Green, a blacmelia ei thaid er mwyn cael digon o arian ar gyfer y cynllun. Ond gan nad yw eisiau colli ei ferch fach, rhydd Les bum can punt i Terry i gadw draw, a chytuna yntau. Ond wrth glywed sŵn peiriant beic modur newydd Terry y tu allan i’r tŷ pan ddaw i nôl Gwenno ar ei ffordd i’r Alban, sylweddola Les at ba bwrpas y gwariwyd ei arian.

Mae pob cymeriad, yn ei dro, yn twyllo a bradychu’r gweddill; yr unig un sy’n aros yn driw i Gwenno yn y pen draw, ac yn groes i bob disgwyl, yw Terry, a hynny trwy ddryllio rhagrithiau’r gweddill.²¹⁹

Er mai deillio o *Perthyn* a wna *Gwaed Oer*, y mae’r ddrama hon yn fwy ei sylwedd ond yn llawer cynilach ei hymdriniaeth o’r thema na’i rhagflaenydd:

Ar yr olwg gyntaf, ymddengys *Perthyn* a *Gwaed Oer* yn ddau eithriad i’r patrwm o ddramâu a’u gwreiddiau’n rhai hunangofiannol gan nad oedd gan Meic Povey brofiad uniongyrchol o’r pwnc o losgach.

ar y cyfan profiad anghysurus oedd ei sgwennu; roedd realiti’r sefyllfa, a sylweddoli bod digwyddiadau o’r fath yn weddol gyffredin (ia, hyd yn oed yn y Gymru Gymraeg, sioc, arswyd) yn peri poen meddwl yn aml iawn.²²⁰

Ond nid llogach mo’r thema ganolog yn y gweithiau. Yn hytrach, yr hyn a geir yw cyfuniad o nifer o’r gwahanol themâu a drafodwyd eisoes, megis rhagrith cymdeithas Gymraeg. Y mae Gwen, y fam yn *Perthyn*, yn gwadu unrhyw gyhuddiadau yn erbyn ei gŵr yng ngŵydd y Seiciatrydd ‘er mwyn cadw delwedd foesol y teulu’.²²¹ Dywedodd Elin Mair yn hadolygiad o *Perthyn* ym 1987:

²¹⁷ Rhiannon Tomos, ‘Pobl, nid sbesimens’, *Barn*, 358 (Tachwedd 1992), 18.

²¹⁸ Tomos, ‘Pobl, nid sbesimens’, *Barn*, 18.

²¹⁹ Tomos, ‘Pobl, nid sbesimens’, *Barn*, 18.

²²⁰ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, tt. 172-3.

²²¹ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 15.

Yn ddi-os, mae'n gyfraniad pwysig tu hwnt i'r drafodaeth barhaus ar ein gwerthoedd ac yn gam mawr i ddileu'r rhagrith trahaus sy'n rhan mor annatod o wead ein ffordd Gymraeg o fyw.²²²

²²² Mair, 'Dramâu Bro Madog', *Y Ffôn*, 6.

2.5 Teulu

roedd darnau yno o filoedd o deuluoedd²²³

Yn ogystal ag amlygu'r rhagrith Piwritanaidd Cymreig yr honnai'r dramodydd sy'n bodoli yn 'y fro Gymreig', yr hyn a wna Meic Povey gyda'i ddramâu mwy 'modern eu gogwydd'²²⁴ (er bod llogach yn bwnc a gyflwynir cyn belled yn ôl â'r Theatr Roegaid), yw defnyddio'r pynciau llog fel cyfrwng i arddangos ymateb teuluoedd i sefyllfaoedd argyfyngus. Dyma a wna gyda'i ddramâu mwy 'traddodiadol' eu hymddangosiad hefyd megis *Fel Anifail*, *Diwedd y Byd*, *Yr Hen Blant*, a drama mor ddiweddar â *Tyner yw'r Lleuad Heno* hyd yn oed:

O dor-perthynas i AIDS i losgach, nid trafod pynciau er mwyn rhoi clusten o sioc i gynulleidfa y mae Povey ond yn hytrach trafod pynciau o fewn perthynas pobl â'i gilydd.²²⁵

Ys dywed Meic Povey ei hun pan ofynnwyd iddo mewn cyfweiliad gyda Gareth Wiliam Jones, 'pam ysgrifennu drama â llogach yn gefndir iddi?':²²⁶

Dim rheswm arbennig. Mae perthynas deuluol (yn enwedig edliw) yn fy niddori'n fawr; ymateb teulu i broblem rhywiol cudd, hefyd. Taro ar y pwnc llogach yn ddamweiniol wnes i ar ôl misoedd lawer o ymbalfalu am oleuni o rhywle.²²⁷

A chan fod *Gwaed Oer* yn deillio'n uniongyrchol o *Perthyn*, gellir priodoli'r dyfyniad uchod i'r ddrama honno yn ogystal – 'the moral and cultural decline of the family':²²⁸

Mae teips o ddramâu – *Diwedd y Byd*, *Fel Anifail* ... – yn perthyn i'r un stabl. Yna'r dramâu trefol, fel *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, *Tair*, ac *Wyneb yn Wyneb*, yn rhyw berthyn i'w gilydd. Ond ydw, dwi'n tynnu'n ôl i'r un teip o stori. Teulu fel arfer a'r tensiynau o fewn teulu.²²⁹

²²³ Gwenlyn Parry, 'Rhagymadrodd' yn Povey, *Perthyn*, t. 13.

²²⁴ Baines, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 88.

²²⁵ Jones-Williams, 'Gosod llwybr ac yna dilyn y lleisiau i'r llwyfan' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

²²⁶ Jones, 'Holi Meic Povey', yn Povey, *Perthyn*, t. 11.

²²⁷ Meic Povey, yn Jones, 'Holi Meic Povey', yn Povey, *Perthyn*, t. 11.

²²⁸ Dienw, 'Extraordinary problems of an 'ordinary' family' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

²²⁹ Meic Povey, yn Non Tudur, 'Ni allaf ddiac rhag hon – Meic Povey "ddim yn arafu"', *Golwg*, 21/49 (20 Awst 2009), 24.

Yr un modd, nid y ffaith bod y teulu yn *Bonansa!* yn ennill y Loteri sy'n bwysig yn neges y ddrama; nid yngenir y term sgitsoffrenia unwaith yn *Yn Debyg Iawn i Ti Fi*, ac yn *Wyneb yn Wyneb*, 'er mai dyn hoyw yn diodde' o AIDS sydd yng nghanol stori'r ddrama, stori'r fam hen-ffasiwn sydd yma mewn gwirionedd – sut mae hi'n ymdopi'.²³⁰ Cyfrwng yw'r stori a ddefnyddir i fynegi thema lawer iawn fwy beiddgar yn aml:

Os yw pynciau Meic Povey weithiau'n ymddangos fel petaen nhw'n dod o benawdau bras y papurau dyddiol, mae themâu yn amlach na pheidio yn eu bychanu, gan ddangos aeddfedrwydd amgenach na'r hyn a awgrymwyd gan y peiriant marchnata.²³¹

Mae dramâu Meic Povey oll yn deillio o ddi-ddordeb yr awdur mewn teulu ac ymateb yr uned glòs honno pan y'i gosodir dan bwysau aruthrol, fel a ddigwydd yn *Perthyn*:

roedd deinameg a gwleidyddiaeth deuluol yng nghyswllt sefyllfa mor ffrwydrol a dinistriol yn fy niddori yn fawr.²³²

Yr hyn sy'n wirioneddol ganolog i'r holl ddramâu mewn gwirionedd yw'r thema o deulu a sut mae gwahanol sefyllfaoedd yn effeithio ar deuluoedd. Efallai y gellir ystyried y thema hon o deulu hefyd yn hunangofiannol, a mai y ffaith ei fod yn rhan o deulu mor fawr ei hun sy'n rhannol gyfrifol am ymdriniaeth helaeth Meic Povey gyda theuluoedd a'i '[g]rebwyll eithriadol o helyntion a thensiynau parhaus bywyd teuluol'.²³³ Awgryma Manon Elis Jones fod cryn debygrwydd rhwng gweithiau Meic Povey a gweithiau'r dramodydd, Rhydderch Jones:

Gwn fod arddull y ddau ddramodydd yn dra gwahanol, ond credaf fod y ddau yn ysgrifennu am yr un math o bobl, yn yr un math o gymdeithas. Mae magwraeth a dyletswydd i gefndir yn cael lle pwysig o fewn dramâu'r ddau, yn yr un modd ag y mae'r prif gymeriadau oll yn mynd a dod o fewn y gweithiau. Yn ogystal, ni ellid anwybyddu'r tebygrwydd yng ngwaith y ddau ynglŷn â Chymreictod a'n dyletswydd i Gymru ... Rhaid cofio'r ffaith i Rhydderch Jones a Meic Povey adael eu cartrefi yn ddeunaw oed, ac na ddaethant fyth yn ôl i'w hen gynefin.²³⁴

²³⁰ Meic Povey, yn Baines, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 89.

²³¹ Islwyn, 'Lleisiau ac Adleisiau', *Barn*, 35.

²³² Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 172.

²³³ Jones, 'Gweld Llais a Chlywed Llun', t. 17.

²³⁴ Jones, 'Gweld Llais a Chlywed Llun', tt. 8-9.

Ond yn ogystal â'r elfennau uchod sy'n gyffredin yng ngweithiau'r dramodwyr, rhydd y ddau hefyd bwyslais eithriadol ar yr uned deuluol yn eu dramâu. Wrth drafod drama deledu Rhydderch Jones, *Broc Môr*, dywedodd Meic Povey:

Drama am helbulon un teulu ydi hi, a hwyrach i mi gnesu ati gan fy mod yn dechrau darganfod mai'r ffordd orau i gyflwyno cynfas eang ydi trwy brofiadau criw bach o bobl, gorau'n byd os ydyn nhw'n perthyn.²³⁵

Mae'r thema hon o 'deulu' yn gyfrwng i gyfleu'r themâu eraill. Cyfeiriwyd eisoes at y dylanwad a gafodd ysgrifennu *Sul y Blodau* ar Meic Povey fel dramodydd. Dyma'r cyfnod y sylweddolodd rym y teulu i gyflwyno ei sefyllfaoedd a'i themâu, a'r hyn a wnaeth yn y ddrama oedd '[c]anolbwyntio ar effaith y cyrch ar un teulu, a'u gwneud nhw'n feicrocosm o'r stori fawr':²³⁶

Tyf themâu Povey allan o fyd y teulu a'r gwewyr a gyfyd o'r problemau y mae'r unigolion yn eu tynnu i mewn i'r uned honno. Canlyniad trist a thruenus yn aml iawn sydd i'r problemau hynny.²³⁷

O ganlyniad, ni fyddai Meic Povey yn fodlon gweld unrhyw un o'i weithiau a gyfansoddwyd cyn cyfnod *Sul y Blodau* yn cael eu llwyfannu unwaith eto:

Dim fod gen' i gywilydd ohonyn nhw, ac mi roedden nhw'n iawn yn eu dydd ... Toeddan nhw ddim yn rwtsh o bell ffordd ond dramâu prentis odda nhw. Dwi'n well 'sgwennwr erbyn heddiw.²³⁸

Pan oedd yn ifanc, derbyniodd Meic Povey gyngor gan y sgriptiwr Wilfred Greatorex 'na ddylai neb drafferthu i ysgrifennu nes ei fod yn ddeugain oed am na fyddai ganddo ddim i'w ddweud cyn hynny. Hwyrach ei fod yn iawn'.²³⁹ Roedd Meic Povey o fewn pedair blynedd i'w ben-blwydd yn ddeugain pan ddarllledwyd *Sul y Blodau*. Ond sut arall y mae dramodydd i fwrw ei brentisiaeth, magu profiad a hyder oni bai ei fod yn ymarfer ei grefft dros gyfnod o flynyddoedd?

²³⁵ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 118.

²³⁶ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 166.

²³⁷ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 21.

²³⁸ Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

²³⁹ Meic Povey, yn Jones, 'Holi Meic Povey', yn Povey, *Perthyn*, t. 10.

Brwydro'n feunyddiol am oroesiad y mae teuluoedd Povey a hynny yn wyneb cymdeithas front, anfaddeugar. Erbyn yr wythdegau a'r nawdegau gwêl Povey y teulu yn ffenomen llawer mwy treisgar, cignoeth ac wrth i'r ganrif ddirwyn i ben, mae yna awgrym yn ei waith fod y ddynoliaeth yn dychwelyd at ei greddfau a'i chwantau cyntefig dinistriol.²⁴⁰

Cyflwynir pynciau sensitif megis sgitsoffrenia, AIDS a llosgach i'r gynulleidfa yng nghyswllt yr uned deuluol ac adlewyrchir yr effaith a gaiff y pynciau sensitif hyn ar yr uned glòs honno. Ymdriniaeth ar lefel bersonol iawn a gawn felly o'r pynciau uchod sy'n ennyn cydymdeimlad y gynulleidfa – pob un ohonynt yn profi'r digwydd o safbwynt teuluol. Ac o fewn pob un uned deuluol y mae gwrthdaro yn bodoli, sy'n elfen anhepgor o bob stori. Ys dywedodd Gwenlyn Parry am *Perthyn*, 'roedd darnau yno o filoedd o deuluoedd'.²⁴¹ Dadleuir felly nad dramodydd achosion mo Meic Povey. Er ei fod yn effro i faterion llosg ei gyfnod, fel Siôn Eirian yntau, yn eu heffaith ar yr uned deuluol y mae diddordeb Meic Povey.

Y mae *Tair* yn enghraifft berffaith yn hyn o beth. Yr hyn a gyflwynir yma yw'r tensiynau a geir rhwng tri aelod o'r un teulu. Er, efallai, nad yw'n bosibl i ni uniaethu â phob un o'r cymeriadau, gallwn uniaethu â'u sefyllfaoedd mewn perthynas â gweddill y cymeriadau. Nid pob mam ganol oed a all uniaethu â sefyllfa cymeriad y Fam yn y ddrama gyda'i gŵr wedi'i gadael, ond gall mamau ledled y wlad uniaethu â sefyllfa'r Fam mewn perthynas â'i merch:

Un peth pwysig i mi ydi nad oes gan gymeriadau *Tair* enwau. I mi, maen nhw'n cynrychioli pob nain, pob mam, pob merch.²⁴²

Mae bron iawn pob un o'r gweithiau yn rhoi portread o deulu, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac mae gan bob un o'r teuluoedd Cymraeg hyn gyfrinach:

Mae 'na rhywbeth folcanig am waith Meic Povey – tensiynau a chyfrinachau'n ffrwtian dan yr wyneb, yn mud-ferwi nes bo pethau'n rili chwythu'i fyny.²⁴³

Rhydd Meic Povey bwyslais ar bwysigrwydd cefndir unigolyn wrth liwio a siapio eu presennol a'u dyfodol. Y mae gan bob un o'i gymeriadau gyfrinach dywyll i'w chuddio, un ai

²⁴⁰ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 11.

²⁴¹ Parry, 'Rhagymadrodd' yn Povey, *Perthyn*, t. 13.

²⁴² Meic Povey, yn Jones-Williams, 'Gosod llwybr ac yna dilyn y lleisiau i'r llwyfan' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

²⁴³ Jon Gower, 'Yn Debyg Iawn i Ti a Fi', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/04-yn-debyg-jon.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

oddi wrth weddill y cymeriadau – eu teuluoedd gan amlaf – neu oddi wrthynt eu hunain. Dywed Bethan Jones nad yw cymeriadau Meic Povey yn barod i agor caead y bocs ar eu cyfrinachau, ‘ond mae Meic yn agor y bocs ac yn mynnu bod pobl yn sbïo ynddo fo ac wedyn mae’r “ach” i gyd yn dod allan’.²⁴⁴ Y mae’r cyfrinachau hyn yn ddull pwerus i adeiladu tensiwn rhwng y cymeriadau trwy gydol y dramâu. Cyrhaeddir uchafbwynt dramatig pan ddatguddir y cyfrinachau i weddill y cymeriadau ac i’r gynulleidfa. Pan fo’r cymeriadau yn cael eu gorfodi yn y pen draw i wynebu’r gwirionedd a’u cyfrifoldebau, y mae’r cyfrinachau hyn yn gyfrifol am y chwalfa o fewn teuluoedd Meic Povey. Ond y mae’r cyfrinachau hefyd yn ‘[c]adw teulu’n un – yn deyrngar, yn ofnus, yn euog ac yn bwysicach fyth, yn fud’.²⁴⁵ Y mae’r cyfrinachau yn rhoi rhywbeth yn gyffredin rhwng y cymeriadau a beth bynnag fo’u hamgylchiadau presennol, y mae’r gyfrinach yn bŵer anweledig sy’n eu tynnu yn ôl ynghyd ac nid oes modd torri’r cysylltiad oni ddatgelir y gyfrinach:

EM: ail-ymweld ag atgofion bore oes; proc bach i’r hen gydwyl ar yr un pryd.²⁴⁶

Eu camdriniaeth o Gareth Bach Tŷ Isa yng Nghoed yr Eryr yw cyfrinach gyffredin y cymeriadau yn *Yr Hen Blant*:

EM: Dyna ’dw’i wedi bod yn drïo ddeud. Gneud ... fel pawb arall. Chwara teg ...! ydi’r oll ’dw i’n ofyn amdano fo. Dydi’m ots gin i dderbyn fy siâr o’r bai. Pawb yn gyfartal euog – be’ amdani, hogs?²⁴⁷

Cyfathrach Prysor ac Emma ar y Llechwedd lle cenhedlwyd Dafydd yw’r gyfrinach yn *Tyner yw’r Lleuad Heno*, yn ogystal â’r ffaith nad damwain oedd marwolaeth gwraig Prysor, ond hunanladdiad; yr amheuaeth o odineb a arweiniodd at farwolaeth ei fab yw cyfrinach Defi yn *Fel Anifail*; perthynas anghyfreithlon rhwng aelodau’r teulu yw cyfrinach y teulu yn *Perthyn* ac yn *Gwaed Oer*; y ffaith bod Tom yn hoyw ac yn dioddef o AIDS yw’r gyfrinach y mae’r cymeriadau yn gwrthod ei hwynebu yn *Wyneb yn Wyneb*; nid yw’r cymeriad yn *Tair* yn rhydd o gysgodion tywyll y gorffennol ychwaith:

Y FAM: Er, cyfrinacha’ sy’n gwneud bywyd yn gynhyrfus wedyn. O guddio cyfrinacha’ mae’r annisgwyl yn mynd i ddigwydd iti yn hwyr neu’n hwyrach.²⁴⁸

²⁴⁴ Cyfweliad gyda’r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

²⁴⁵ Povey, *Tyner yw’r Lleuad Heno*, t. gefn.

²⁴⁶ Povey, *Diwedd y Byd ac Yr Hen Blant*, t. 174.

²⁴⁷ Povey, *Diwedd y Byd ac Yr Hen Blant*, t. 179.

Y FAM: Peidiwch â bod mor barod i farnu, da chi! Ma' gynna ni gyda y'n cyfrinacha', 'toes mam? ...
Y NAIN: Am Emrys wyt ti'n sôn? Ia, mwn ...²⁴⁹

Pwy sydd wedi cysgu gyda phwy yw'r cyfrinachau sy'n gyffredin rhwng cymeriadau y ddrama *Sylw*.

Yn wahanol i weddill y dramâu, comisiynwyd *Sylw* ar gyfer cast penodol o fyfyrwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, a llwyfannwyd y perfformiad cyntaf ohoni yn Theatr Bute ar 2 Chwefror 2002, cyn mynd ar daith fer o amgylch Cymru. Roedd y cast yn cynnwys Gareth John Bale, Heledd Baskerville, Gemma Rhys Jones, Gareth Pierce, Huw Rhys a Dylan Williams ac fe'u cyfarwyddwyd gan Eryl Huw Phillips. Tra'n ysgrifennu'r ddrama, roedd Meic Povey yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd y perfformiad i'r actorion ifanc:

Mae'r myfyrwyr ar ddechrau eu gyrfaedd, felly mae yna bobol yn dod i'w gweld nhw'n perfformio, a dwi wedi ei sgwennu fo â hynny mewn golwg.²⁵⁰

Chwe myfyriwr yn eu hugeiniau yn byw gyda'i gilydd a gawn yn *Sylw*; Baz, Ruth, Lewis, Sei, Proff a Tammy. Ar ddechrau'r ddrama, maent oll yn paratoi i fynd i briodas – priodas John a Jane – dau gymeriad arall a fu'n byw yn y tŷ. Y mae pob un o'r chwe chymeriad yn wahanol iawn i'w gilydd. Nid yn unig y maent yn amrywio o ran acen, ardal enedigol a chefnidiroedd, ond mae ganddynt hefyd wahanol agweddau, safbwyntiau ac egwyddorion. Y mae Baz, sy'n wreiddiol o'r Cymoedd, yn gymeriad uchel iawn ei gloch ac yn llac iawn ei dafod ac yn dueddol o gynnwys cyfeiriadau rhywiol ym mhob sgwrs. Ei gyfaill pennaf yw Sei, neu yn hytrach, cyfaill pennaf Sei yw Baz. Y mae Sei yn eilunaddoli Baz. Ceisia'i blesio trwy gydol yr amser trwy siarad yr un mor ddi-chwaeth ag ef a'i gefnogi mewn unrhyw ddadl, a phan ddaw un o'r cymeriadau eraill yn agos at Baz, y mae cenfigen Sei yn amlwg. 'West Walian'²⁵¹ yw Lewis, a cheir peth amwysedd yn ystod y ddrama ynglŷn â'i dueddiadau rhywiol ac yn enwedig felly ei deimladau tuag at John. Ystyria Lewis ei hun fel ffrind gorau i John, ond pan dynna unrhyw un ei goes gan awgrymu fod ei deimladau tuag at John yn rhywbeth amgenach na chyfeillgarwch, caiff ei gythruddo i'r eithaf. Y mae Ruth yn gymeriad sinigaidd iawn, ac awgrymir mai un rheswm dros hyn yw oherwydd i'w mam a'i thad

²⁴⁸ Povey, *Tair*, t. 33.

²⁴⁹ Povey, *Tair*, t. 54.

²⁵⁰ Meic Povey, yn Rhian Price, 'Pawb eisiau *Sylw*' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

²⁵¹ Povey, *Sylw*, t. 33.

wahanu pan oedd yn ifanc. Y mae yna elfen slei i'w chymeriad a ganddi hi mae'r llaw uchaf ar weddill y cymeriadau yn aml, wrth iddi roi awgrym yma ac acw ei bod yn ymwybodol o gyfrinachau gweddill y criw. Tammy yw'r unig ferch arall, ac y mae hi, am y rhan helaethaf o'r ddrama, yn ymddangosiadol ddiniwed a pharchus. Y mae ei hegwyddorion wedi'i sylfaenu ar air y Beibl, ac o'r herwydd, nid yw'n hoff o'r iaith gref a ddefnyddia gweddill y cymeriadau, yn enwedig Baz, ac nid yw ychwaith yn deall amryw o'i gyfeiriadau rhywiol. Dywed fod John a Jane am iddi fynd i fyw atynt ryw ddiwrnod er mwyn gofalu am eu plant. Y mae hi'n cael perthynas gudd gyda Proff, gogleddwr snobyddlyd a diflas sy'n dyfynnu adrannau o'r Beibl ac sy'n fab i gyfreithiwr.

Trwy gydol y ddrama, y mae cyfrinach ar ôl cyfrinach yn cael ei datgelu ynglŷn â pherthynas y cymeriadau â'i gilydd. Yn gyntaf, dysgw'n fod John yn ymwybodol bod ei ddarpar wraig wedi bod yn cael perthynas gydag un o'i ffrindiau. Yr ail gyfrinach yw bod Jane yn feichiog. Y mae gweddill y stori yn troi ar echel y cyfrinachau hyn:

Chwe chyfaill – neu elynion – i gyd yn ymladd am sylw. Pwy sy'n dweud y gwir? Pwy sy'n dweud celwyddau? A phwy yw tad y babi? Dyna, yn fras, blot y ddrama²⁵²

Er na chyfarfyddwn â John a Jane, yn ystod golygfa'r briodas, clywn lais John yn cyflwyno ei araith ac yn cyhoeddi ei fod yn gwybod bod un o'i ffrindiau wedi bod yn cysgu gyda'i wraig. Y mae wyneb Lewis yn berffaith welw yn ystod yr olygfa hon, a diflanna o olwg y gynulleidfa. Dyma'r cyfarwyddiadau llwyfan:

SŴN CERBYD YN GYRRU; YN SGRIALU; YN TARO CLATCH YN ERBYN COEDEN NEU WAL. SŴN SEIREN PLYSMYN/AMBIWLANS ... TRY'R DDAWNS BRIODAS YN ORYMDAITH HEBRYNGOL.²⁵³

Y mae John a Jane wedi'u lladd mewn damwain ar y ffordd o'u priodas a hynny yng nghar Lewis. Dywed Tammy iddi weld Lewis yn gorwedd o dan y car yn ystod y neithior tra oedd hi, y ferch ymddangosiadol ddiniwed a pharchus, wedi diflannu i gael ychydig o lonydd gyda Proff. Ai Lewis a oedd yn gyfrifol am eu marwolaeth? Pam y byddai'n dymuno i'r ddau gael eu lladd? Ai er mwyn sicrhau na châi rhyw gyfrinach ei datgelu y cynllwyniodd y ddamwain? Wedi'r angladd, dengys Ruth dâp fideo i weddill y cymeriadau, a gafodd, yn ei hôl hi, gan yr heddlu gyda gweddill eiddo eu ffrindiau. Ar y tâp, mae cyfrinachau'r cymeriadau i gyd yn

²⁵² Price, 'Pawb eisiau Sylw' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

²⁵³ Povey, *Sylw*, t. 42.

dod yn fyw wrth i'r gynulleidfa wyllo delweddau a chlywed synau o'r gwahanol garwriaethau a fu rhwng y cymeriadau: Lewis a Jane, Tammy a John, Proff yn chwilio am Jane yn ei hystafell wely, Jane a Tammy. Daw'n hysbys fod Baz hefyd wedi bod yn cael perthynas â Jane a datgelir beth ddigwyddodd rhwng Lewis a John wrth i'r ddau guddio yn y cwpwrdd dillad. Nid yw Ruth 'chwaith yn ddieuog, gan mai hi oedd yn gyfrifol am osod y recordydd fideo yn ei le a'i ddangos i John cyn y briodas. Ond y mae'n haws gan y cymeriadau feio John a Jane am yr holl gamweddau na wynebu eu cyfrifoldebau, gan na allent hwy amddiffyn eu hunain, a phenderfyna'r cymeriadau sgubo popeth o dan y carped gan ddewis anghofio am yr helyntion a byw mewn byd sy'n ddedwydd ond yn llawn cyfrinachau tywyll:

RUTH: Sawl un o chi sy'n cofio mor ddedwydd o'dd hi yrnon ni, cyn i nhw'i dou symud miwn?
TAMMY: O'dd pawb yn ffrindie ...
RUTH: Ma' hwanna'i gyd o fewn y'n cyrredd ni 'to – os y'n ni rili moyn e.²⁵⁴

O'i chymharu â gweddill gweithiau'r dramodydd, y mae'r ddrama hon yn syrthio'n isel ar y rhestr o ran safon. Y mae ôl brys a diffyg dyfnder dirfawr i'w gweld yma ac efallai fod gwybod mai myfyrwyr yn hytrach nag actorion proffesiynol a fyddai'n llwyfannu'r ddrama a hynny i gynulleidfa gyfyngedig wedi chwarae rhan yn hynny o beth. Os dyna'r achos, rhaid bod safon y ddrama wedi cyfyngu'r actorion. Mae'r plot sy'n canolbwyntio'n unig ar fywydau carwriaethol y cymeriadau yn rhoi ymdeimlad sebonllyd, anaeddfed ac arwynebol i'r ddrama ac er bod amrywiaeth o gymeriadau i'w cael ynnddi, teimlir nad oes dyfnder yn perthyn i'r un cymeriad. O ganlyniad nid ydym fel cynulleidfa yn 'malio' am yr un cymeriad mewn gwirionedd - elfen sy'n hollbwysig mewn drama yn nhyb y dramodydd. Efallai fod y ffaith fod cynifer o gymeriadau yn y ddrama wedi cyfrannu at hynny ac y byddai'r ddrama'n rhagorach pe byddai'r dramodydd wedi canolbwyntio ar lai o gymeriadau gan roi sylw teilwng i bob un. Fodd bynnag, roedd Meic Povey yn ysgrifennu i gast penodol wrth ysgrifennu'r ddrama ac felly rhaid oedd cadw at y canllawiau.

²⁵⁴ Povey, *Sylw*, tt. 67-8.

2.6 Damcaniaethau Naturiolaid

‘Doedd ’nhad inna fawr gwell.
A Mam, wedyn, fel cadach.’²⁵⁵

Wrth drafod y ddrama, *Tair*, dywedodd Meic Povey ei fod yn ‘dod yn ôl yn y pen draw, fel yn y rhan fwyaf o bethau dwi’n sgwennu, at y ffaith bod pwy wyt ti yn ddibynnol iawn ar dy gefndir a dy deulu di.’²⁵⁶ Y mae’r thema hon, sef y ffaith bod teulu yn chwarae rhan allweddol wrth siapio cymeriad yn thema a berthyn i’r theatr Naturiolaid ac i’r cyfeiriad hwnnw y gwyr dramâu Meic Povey:

Ond rydw i wedi mynd yn ôl ac yn ôl dros y blynyddoedd at y naturiolaid am mai dyna sy’n fy siwtio i. Efo hynny yr ydw i fwyaf cyfforddus a dyna’r ffordd rydw i’n medru dweud stori orau.²⁵⁷

Elfen o’r arddull naturiolaid hon yw pwysigrwydd y teulu o fewn y dramâu. Canolbwyntir ar y thema hon yng ngweithiau Aled Jones Williams yntau a ddywed fod y teulu yn ‘lle i feithrin, ond mae o’n lle hefyd sy’n caethiwo.’²⁵⁸ Yn wir, portreadir y teulu fel ‘melltith gaethiwus ... i lenorion Naturiolaid’.²⁵⁹ Y rheswm am hyn yw oherwydd mai damcaniaeth sylfaenol theatr Naturiolaid yw fod pawb yn gaeth i’w gromosomau a’i amgylchedd.

Datblygodd Naturoliaeth fel mudiad theatrig yn Ewrop yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yn fath o theatr a oedd yn ymgeisio at greu rhith o realaeth a chyflwyno sleisen o fywyd trwy gyfrwng gwahanol dechnegau theatrig megis llwyfannu realaid, cymeriadau credadwy, y defnydd o iaith ‘bob dydd’ ac arddull perfformio a oedd yn ceisio creu’r argraff o realaeth. Roedd y mudiad hefyd yn seiliedig ar theori Charles Darwin am esblygiad ac felly gellid esbonio ymddygiad dynol trwy wyddoniaeth. Arweiniodd y theori hon at y cysyniad fod cymeriad unigolyn yn cael ei ffurfio o gyfuniad o etifeddeg ac effaith yr amgylchedd arnynt, sy’n golygu nad yw ewyllys rydd yn bodoli a bod tynged pawb wedi ei bennu: “This meant that ordinary citizens, including workers and the poor, (who had traditionally played at best supporting or comic roles in literature, particularly drama) became

²⁵⁵ Povey, *Perthyn*, t. 50.

²⁵⁶ Meic Povey, yn Gwenan Roberts, ‘Y Ddrama Gomisiwn’, *Barn*, 426/427 (Gorffennaf/Awst 1998), 10.

²⁵⁷ Meic Povey, yn Anna Michelle Davies, ‘Holi Meic Povey’, yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, XXVIII (Llandysul, 2009), t. 11.

²⁵⁸ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

²⁵⁹ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 6.

the protagonists, and attention focussed on the family”.²⁶⁰ Y Ffrancwr, Emile Zola, oedd un o’r llenorion cyntaf ac amlycaf i arddel cysyniadau naturiolaid wrth ysgrifennu ac ef oedd y cyntaf i ddefnyddio’r term yn y cyd-destun hwn:

“Naturalism” and “Realism” are frequently interpreted in the broadest sense as synonymous, referring to an objective portrayal of daily life that appears true to the spectator or reader’s actual experience. The commonly accepted criteria for a realistic work are that it deals with contemporary subjects, presented in a recognizable social context and stressing ordinary details that accurately reflect the way people of the time actually live, without editorializing or external commentary.²⁶¹

Ystyrir dramodwyr megis Henrik Ibsen, awdur *Ty Dol* (1979) ac August Strindberg, awdur *Miss Julie* (1888), yn ddau o ddau’r Theatr Naturiolaid yn Ewrop ac, yng Nghymru, arddelai John Gwilym Jones y ddamcaniaeth yn ei weithiau yntau, yn arbennig felly yn y ddrama *Ac Eto Nid Myfi* (1976):

Byrdwn dramâu John Gwilym Jones fel dramâu Naturiolwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw na all dyn osgoi ei deulu na’i ddylanwad. Gall y teulu, o ganlyniad, fod yn rym dinistriol yn ei ddramâu.²⁶²

Gall y dyfyniad uchod fod yr un mor berthnasol i weithiau Meic Povey. Ceir nifer o enghreifftiau o’r math yma o gymeriadau sydd ar drugaredd etifeddeg yn ei ddramâu. Yn *Tair*, er bod y cymeriadau ar yr olwg gyntaf yn gwbl wahanol i’w gilydd, ‘gwelir fod rhai o nodweddion y nain wedi eu hymgorffori’n gryf yn y ferch’:²⁶³

Y FERCH: Clwydda. Dwi’n gwbod pryd briodist ti; dwi’n gwbod pryd ges i ’ngeni; dwi’n medru gneud fy syms.
Y FAM: Clyfar iawn.
Y FERCH: Dwi’n gwbod pryd briododd Nain hefyd – a phryd gest **ti** dy eni ...
Y FAM: (*Tynnu mymryn o wyneb*) Clyfrach fyth ...
Y FERCH: ... Twyll a rhagrith “wall to wall”. ’Sdim rhyfadd mod i ’run fath.²⁶⁴

Yr un modd, awgrymir yn ogystal mai cynnyrch etifeddeg yw Tom a Gwen yn *Perthyn*. Dysgwn yn ystod y ddrama fod ‘natur wyrgam yn nhad Tom’,²⁶⁵ a oedd yn ferchetwr, ac iddo dreisio merch ysgol:

²⁶⁰ C. D. Innes (gol.), ‘Theoretical Approaches’, *A Sourcebook on Naturalist Theatre* (London, 2000), t. 6.

²⁶¹ Innes (gol.), ‘Theoretical Approaches’, *A Sourcebook on Naturalist Theatre*, t. 4.

²⁶² Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 9.

²⁶³ George Owen, ‘Heb deitl heb ddrama’ (cynwysedig ym *Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007*, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

²⁶⁴ Povey, *Tair*, tt. 41-2.

Roedd Etifeddiaeth ac Amgylchedd ill dau yn ei garcharu ac yn gwneud ei fywyd yn anodd. Roedd y ddrama'n portreadu ei drasiedi ef cymaint â thrasiedi Mari.²⁶⁶

Awgrymir hefyd fod Gwen, fel ei merch, Mari, wedi'i cham-drin gan ei thad, ac na wnaeth ei mam hithau ddim mwy nag a wnaeth Gwen i geisio arbed ei merch:

GWEN: Doedd 'nhad inna fawr gwell. A Mam, wedyn, fel cadach. Byth yno pam o'n i 'i hisio hi fwya.²⁶⁷

Ceir adleisiau hefyd o'r modd y mae Gloria yn ymateb i'w thad, Dic, yn *Gwaed Oer* pan fo'n bygwth ei tharo, yng ngeiriau Gwenno pan fo Gloria'n bygwth ei tharo hithau:

DIC: Y gnawas!!
DIC, WEDI CYNHYRFU, YN GWNEUD OSGO I DARO GLORIA
GLORIA: Ia, g'newch! G'newch, ac mi geith y dre 'ma wbod cythral mor frwnt ydach chi!!²⁶⁸

GLORIA: Be' ddudist ti? W't t'isio clustan, dw't ti ddim wedi mynd 'rhy hen!
GWENNO: Deria'i chi!
GLORIA YN BYGWTH RHOI WAROG I GWENNO; GWENNO YN EI HWYNEB YN EOFN.
GWENNO: Deria'i chi! Dowch 'laen, marciwch fi, a mi geith pawb wbod ma' chi ddaru!²⁶⁹

Ni ellir beio'r cymeriadau uchod yn llwyr am eu ffaelecteddau, gan mai wedi eu hetifeddu gan eu tadau, eu teidiau a'u cyn-deidiau y maent. Y mae neges y gweithiau yn glir – nid yw'n bosibl i unrhyw un ddianc oddi wrth ei dylwyth. Ond, '[p]erygl gwastadol yr athroniaeth fodd bynnag, yw'r cyfle mae'n ei roi i ddyn daflu'r bai am ei ymddygiad ar rymoedd sydd y tu hwnt i'w reolaeth'.²⁷⁰ Yn hyn o beth, y mae Mae Meic Povey yn llinach dramodwyr Ewropeaidd megis Henrik Ibsen ac August Strindberg.

²⁶⁵ Gwyn Wheldon, 'Y Ddrama Gomisiwn', *Barn*, 296 (Medi 1987), 340.

²⁶⁶ Wheldon, 'Y Ddrama Gomisiwn', *Barn*, 340.

²⁶⁷ Povey, *Perthyn*, t. 50.

²⁶⁸ Meic Povey, *Gwaed Oer* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1992), t. 76.

²⁶⁹ Povey, *Gwaed Oer*, tt. 80-1.

²⁷⁰ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 20.

2.7 Themâu: Casgliad

Pethau Poveyaidd²⁷¹

Ni ellir, felly, osod gweithiau Meic Povey mewn dau focs taclus. Ys dywed y dramodydd ei hun, '[d]wy ffrwd yn llifo i'r un afon ydyn nhw';²⁷² un yn deillio o'r pen a'r llall yn deillio o'r galon. Ai gwir dweud, felly, y gellir ystyried dramâu llwyfan Meic Povey yn fformwlëig? Ai'r hyn a wna'r dramodydd yw gosod teulu mewn sefyllfa argyfyngus er mwyn arddangos rhagrith a rhagfarn y gymdeithas Gymreig yng nghefn gwlad Cymru, sy'n prysur ddirywio o ganlyniad i fygythiad estron cyn cyplysu'r cyfan ag elfennau hunangofiannol? Ai dyna'r gwirionedd? Os dyna'r gwir, gellir awgrymu mai'r un ddrama mewn gwirionedd a geir ganddo dro ar ôl thro.

Yn wir, cydnabu'r dramodydd ei hun mai '[d]im ond un ddrama dw i'n ei hysgrifennu yn y bôn'²⁷³ ond eto fod y dramâu hynny'n 'cymryd sawl ffurf mewn gwirionedd'.²⁷⁴ Yn ei dyb ef, nid yw ddim gwahanol i unrhyw ddramodydd arall, gan fod pob dramodydd yn dueddol o ysgrifennu mewn un ffordd sy'n gweddu iddynt hwy:

Mae plotiau yn waith caled, achos mae unrhyw blot neu stori drama newydd – wel, mae o'n newydd tydi? Tydi o ddim fel ffeindio fformiwla a dweud 'reit dwi wedi dysgu sut i neud hwnna ... Mae gan bawb un peth sy'n eu gyrru nhw, ond tydi o ddim yn llythrennol wir am bob dim maen nhw yn ei 'sgwennu ... Dim ond hyn a hyn o themâu elfennol sydd gen' ti. Maen nhw'n dweud mai ond saith plot sydd yna yn y byd. Mae pawb yn 'sgwennu am wrthdaro ac emosiynau a phobl yn y bôn. Dyna ydi drama yn y bôn. Felly dwi'n meddwl fod pawb yn 'sgwennu yr un ddrama. Mae teulu yn gyrru lot ohonyn nhw ... Dwi ddim yn meddwl fy mod i'n fformwlëig. Dwi'n cloddio yn yr un lle ond mae pob stori yn wahanol.²⁷⁵

Ategir ei eiriau gan Bethan Jones pan ddywed fod 'y rhan fwyaf o ddramodwyr yn tindroi – Tennessee Williams yn un – yr un themâu sydd yn ei ddramâu o sef perthynas teuluoedd'.²⁷⁶ Yr un modd, yn ei hymateb i adolygiad o *Tyner yw'r Lleuad Heno*, dywedodd Elin Llwyd Morgan: 'Na, toedd hi ddim yn stori arbennig o wreiddiol, ond pa stori sydd? Toes na ddim

²⁷¹ Baines, 'Pethau Poveyaidd',

<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=166:pethau-poveyaidd&catid=68:hydref&Itemid=293>.

²⁷² Meic Povey, yn Baines, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 89.

²⁷³ Meic Povey, yn Jones-Williams, 'Gosod llwybr ac yna dilyn y lleisiau i'r llwyfan' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

²⁷⁴ Meic Povey, yn England, 'Dwy ochr i'r un geiniog: Portread o Meic Povey', *Golwg*, 26.

²⁷⁵ Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

²⁷⁶ Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

byd newydd dan haul'.²⁷⁷ Yn nhyb Meic Povey, '[m]ae cynulleidfa, ar y cyfan, yn hoff o'r "cyfarwydd" yn eu hawduron' fel ag ym mhopeth arall'.²⁷⁸

Dychmygwch weld Cliff Richards mewn consart ... a fynta ddim, ar ryw adeg yn y noson, yn canu 'Batchelor Boy'. Siom fydda dŵad o gonsart Mary Hopkins heb glywed 'Those Were the Days' o leia ddwywaith, ac oni chaech sioc ar eich tin tasa drama gan Saunders Lewis yn ymwneud ag ymdrechion gŵr trawsrywiol i gael llawdriniaeth i newid ei gyflwr, yn hytrach na'r dogn arferol o dranc y genedl a gwacter ystyr.²⁷⁹

Wrth olrhain hanes y ddrama Gymraeg, gellir dweud bod Meic Povey yn llinach dramodwyr megis John Gwilym Jones, dramodydd naturiolaid, a Gwenlyn Parry, a'i weithiau yntau yn ymdrin yn rhannol â'r thema abswrdaidd, argyfwng gwacter ystyr, i enwi ond dau. Ystyrir y dramodwyr hyn yn arloeswyr ym myd y ddrama Gymraeg, a derbyniasant sylw haeddiannol am eu gweithiau. Oherwydd y math o arddull, deialog a themâu a arddelai'r ddau ddramodydd uchod wrth ysgrifennu, y mae'n bosibl labelu eu gweithiau a'u labelu hwythau fel dramodwyr. Dyma ddramodwyr a'u gweithiau yn perthyn i fudiad ac iddo enw a diffiniad pendant. Yn cydoesi â hwy yr oedd y dramodydd Huw Lloyd Edwards. Yr oedd yn ddramodydd hynod gynhyrchiol, a thrwy gyfrwng ei ddramâu ymdriniodd â nifer o bynciau mawrion y cyfnod a'u cyflwyno trwy gyfrwng 'ystod eang o ddulliau theatrig'.²⁸⁰ O ganlyniad, nid oedd yn perthyn i unrhyw fudiad theatrig fel ag yr oedd ei gyd-ddramodwyr, ac nid mor hawdd labelu ac adnabod ei weithiau. O ganlyniad, ni dderbyniodd gydnabyddiaeth deilwng am ei waith yn ystod ei yrfa nac yn ddiweddarach ychwaith. Wrth ystyried hyn, a ellir, felly, beirniadu Meic Povey am lynu at y cyfarwydd – yr arddull 'Poveyaidd' hwn y cyfeiria Menna Baines ato yn ei herthygl ac a ddisgrifir gan Iwan England fel gweithiau sy'n 'ymwneud â theulu, bro, cefndir, traddodiad, dyletswydd, alltudiaeth, a rhyw euogrwydd neu anifyrrwch [*sic*] am symud i ffwrdd'?²⁸¹ Wedi'r cwbl, efallai i hynny, sef y gallu i adnabod gwaith awdur yn ôl ei arddull a'i ymdriniaeth o themâu penodol, fod yn rhannol gyfrifol am boblogrwydd ei ragflaenwyr ym myd y ddrama Gymraeg.

²⁷⁷ Elin Llwyd Morgan, 'Adolygiad o Tyner Yw'r Lleuad Heno gan Meic Povey', <<http://www.gairrhydd.com/features/taf-od/905/adolygiad-o-tyner-yw-r-lleuad-heno-gan-meic-povey>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

²⁷⁸ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 211.

²⁷⁹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 211.

²⁸⁰ Llywelyn, 'Cyfri mawrion fesul deg', *Barn*, 101

²⁸¹ England, 'Dwy ochr i'r un geiniog: Portread o Meic Povey', *Golwg*, 26.

Serch y ddamcaniaeth uchod, noda Meic Povey ei bod yn ‘ddyletswydd i sgwennwr i chwilio am ffyrdd newydd o’i fynegi ei hun, neu mae peryg iddo sefyll yn ei unfan’.²⁸² Yn wir, dywed iddo geisio arbrofi gydag amryw o’r dramâu megis y ddrama Saesneg ei hiaith, *Indian County*; yr elfennau Brechtaidd a geir yn *Bonansa!*; y ‘drasiedi gefn-llwyfan’,²⁸³ *Life of Ryan ... and Ronnie*; yr elfennau absŵrd yn *Gyda Llaw; Fel Anifail* gyda’i ‘ffin denau rhwng realiti a cho’ a dychymyg’;²⁸⁴ ieithwedd *Wyneb yn Wyneb* ‘[g]yda’r iaith yn pendilio rhwng y llafar cryno a’r barddonol, geiriog, ... [gan] [g]efnu ar realaeth naturiolaid gwaith cynharach’;²⁸⁵ a *Hen Bobl Mewn Ceir*, sef unig ddrama’r dramodydd sy’n gyfan gwbl yn nhafodiaith y de. Fodd bynnag, daeth y dramodydd i’r casgliad nad oedd yr arbrofi hwn yn ‘gweithio’²⁸⁶ iddo. Pan feirniadwyd y dramâu mwy arbrofol hyn, cred Meic Povey mai’r rheswm dros hynny oedd oherwydd iddo ‘feiddio cyfeiliorni, a mentro i borfeydd diarth ... am nad oedd ... yn llinach *Perthyn, Diwedd y Byd* ac *Fel Anifail*’.²⁸⁷ Ond pa mor ddieithr oedd y porfeydd mewn gwirionedd?

Roedd o yn fater o deimlo y dylwn i symud ymlaen ... Eto mae’r un math o gefndir yn fy nhynnu fi nôl. Ni allaf ddianc rhag hon ydi hi.²⁸⁸

Yn wir, os yw’r fformiwla wedi gweithio cyhyd ac yn plesio’r gynulleidfa, pam newid ac arbrofi er mwyn arbrofi?

[E]r efallai nad yw’n datgelu unrhyw wirioneddau mawr, nac yn torri tir newydd, ni ddylid o reidrwydd ystyried hynny fel gwendid. Yn yr oes gan milltir yr awr sydd ohoni, mae’n braf weithiau cael eistedd yn ôl a gwylio drama gonfensiynol dda, a chael dianc rhag treialon bywyd dyddiol.²⁸⁹

Ac ys dywed Meic Povey ei hun, difyrru yw ei brif amcan wrth ysgrifennu. Cydnabu’r dramodydd mai ‘[p]roses o ailsgwennu ydi sgwennu yn y bon’.²⁹⁰ Nid yw ei ganmoliaeth o waith Ed Thomas yn peri unrhyw syndod, felly:

²⁸² Meic Povey, yn Baines, ‘Cloddio Haenau’r Co’, *Barn*, 89.

²⁸³ Tudur, ‘Ni allaf ddianc rhag hon – Meic Povey “ddim yn arafu”’, *Golwg*, 24.

²⁸⁴ Meic Povey, yn Baines, ‘Cloddio Haenau’r Co’, *Barn*, 89.

²⁸⁵ Baines, ‘Cloddio Haenau’r Co’, *Barn*, 89.

²⁸⁶ Meic Povey, yn Davies, ‘Holi Meic Povey’, yn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, XXVIII, t. 11.

²⁸⁷ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 211.

²⁸⁸ Meic Povey, yn Tudur, ‘Ni allaf ddianc rhag hon – Meic Povey “ddim yn arafu”’, *Golwg*, 24.

²⁸⁹ Dafydd Llewelyn, ‘Hen Bobl Mewn Ceir: Skoda ynteu Ferrari?’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/henbobol.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

²⁹⁰ Meic Povey, *Nesa Peth i Ddim – Hunangofiant Meic Povey* (Llanrwst, 2010), t. 96.

Gwn fod ei iaith a'i arddull yn wahanol, ond mae'r gwaith gorffenedig yn wych! Mae o fel pe bai o'n ysgrifennu am yr un peth dro ar ôl tro, ond mewn ffyrdd amrywiol sy'n denu.²⁹¹

A chan iddo gydnabod hefyd fod 'bron popeth yr ydw i yn ei sgwennu yn seiliedig ar fy nghefnidir i',²⁹² cyfyd y cwestiwn, felly, o ba mor gyfoes yw ei ddramâu erbyn heddiw a pha mor berthnasol ydynt i gynulleidfa gyfoes, gan fod y rhan helaethaf o'i gymeriadau a'r gymdeithas yng nghefn gwlad Cymru a gyflwynir i ni yn y dramâu yn deillio o'r 1950au a'r 1960au. Ac efallai i'r dramodydd ei hun ystyried hyn yn dilyn yr ymateb hynod feirniadol a fu i un o'i ddramâu Cymraeg diweddaraf, *Tyner yw'r Lleuad Heno*, a oedd yn ailymweld, unwaith yn rhagor, â'i themâu, lleoliadau a chymeriadau cyfarwydd:

Yn achos *Tyner yw'r Lleuad Heno* – mae hi bendant yn enghraifft o a *bridge too far*. Ddylwn i ddim fod wedi 'sgwennu honno. Ro'n i wedi gwneud y penderfyniad mai dyma'r tro diwethaf ro'n i am 'sgwennu'r teip yma o ddrama, ond mi ddylwn i fod wedi dweud na – mi ddylwn i fod wedi dod i'r penderfyniad yna cyn ei 'sgwennu hi i fod yn onest. Dwi jesd yn meddwl fy mod i wedi mynd yn ôl i'r un peth un waith yn ormod a wnaeth o ddim gweithio. Roedd o'n uffar o fistêc.²⁹³

Mae lle i gredu, felly, ein bod wedi gweld yr olaf o'r dramâu Poveyaidd eu fformiwla, ac efallai nad drwg o beth mo hynny. I awdur mor doreithiog sydd wedi cyfrannu cymaint o weithiau safonol i fudiad y ddrama Gymraeg, byddai'n drueni mawr iddo gael ei ystyried fel awdur a gloddiodd yn ormodol yn yr un lle hyd nes i'w ffynhonnau grebachu a'i gynulleidfa ddiflasu. Efallai ei fod bellach yn rhy gyfforddus gyda'r deunydd crai sydd mor nodweddiadol ohono hyd nes iddo, yn achos *Tyner yw'r Lleuad Heno*, orffwyso'n ormodol ar ei rwyfau gan droi'n ddramodydd dioglyd. Efallai y dylai fanteisio ar y cyfle hwn i'w ail-ddiffinio ei hun fel dramodydd ac ailwampio ei awen theatrig gan ailgynnau'r cynnwrf a'r ffresni a grëwyd gan *Y Cadfridog*.

²⁹¹ Manon Elis Jones, yn 'Sgwrs â Meic Povey' (26 Hydref 1996), yn Jones, 'Gweld Llais a Chlywed Llun', t. 6.

²⁹² Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 96.

²⁹³ Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

3 Dylanwad Gwenlyn Parry

[t]ad y ddrama deledu Gymraeg.²⁹⁴

Dim ond rhyw hanner dwsin sydd wedi dylanwadu arnaf yn bersonol erioed. Roedd Gwenlyn yn un ohonyn nhw.²⁹⁵

I sicrhau bywoliaeth lwyddiannus, rhaid i bob awdur wrth hunanddisgyblaeth lem, a gallai Huw Roberts, a gydweithiodd â Meic Povey fel sgriptiwr a storïwr ar gyfresi cynnar o *Pobol y Cwm*, dystio i ‘ymroddiad a disgyblaeth ei agwedd tuag at ei waith’.²⁹⁶ Bu’r cyfnod hwnnw o dair blynedd yn gweithio yn y BBC o dan adain y ‘saer geiriau ei hun’,²⁹⁷ Gwenlyn Parry, a gyfansoddodd y dramâu llwyfan *Saer Doliau* (1966), *Tŷ ar y Tywod* (1968), *Y Ffin* (1973), *Y Tŵr* (1978), *Sál* (1982) a *Panto* (1986), yn amhrisiadwy i Meic Povey yn ddiweddarach yn ei yrfa fel dramodydd:

Mae’r broses o ’sgwennu i mi yn seiliedig ar ddisgyblaeth. Os na ’sgynna chi ddisgyblaeth tydi’r gwaith ddim yn cael ei neud.²⁹⁸

Tra’n cydweithio gyda Gwenlyn Parry y dysgodd y prentis ifanc bwysigrwydd disgyblaeth a safbwynt wrth ysgrifennu:

Roedd Gwenlyn yn ddylanwad mewn ffordd hollol wahanol [i Wil Sam]. Toedd o ddim yn ddylanwad arna’i fel ’sgwennwr theatr. Roedd o’n ’sgwennwr theatrig iawn, cynhyrfus iawn, roedd o’n ddyfeisgar iawn fel ’sgwennwr. Ond lle’r oedd o yn ddylanwad oedd yn fy ngwaith teledu fi ... Ond dwi ddim yn meddwl ’mod i ddim byd tebyg iddo fo fel dramodydd.²⁹⁹

Tra’n actio yn y gyfres *Tresarn* i’r BBC y daeth Meic Povey i gysylltiad proffesiynol gyda Gwenlyn Parry gyntaf, a oedd yn olygydd sgriptiau ar y gyfres, er ei fod wedi ei gyfarfod flynyddoedd cyn hynny ‘[m]ewn parti ym Mangor – yn fflat Ioan Banks, Gwladus Lake yn *Pobol y Cwm*’.³⁰⁰ Fodd bynnag, roedd Meic Povey yn gyfarwydd â’i weithiau i’r

²⁹⁴ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, tt. 92-3.

²⁹⁵ Michael Povey, ‘Os Mêts: Michael Povey ac ysbrydolwr a ffrind’, *Golwg*, 4/11 (14 Tachwedd 1991), 8.

²⁹⁶ Huw Roberts, ‘Rhagymadrodd’ yn Povey, *Perthyn* (Llanrwst, 1995), t. 7.

²⁹⁷ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 92.

²⁹⁸ Meic Povey, yn ‘Sioe Gelf’, *Cwmni Da* (28 Chwefror 1997).

²⁹⁹ Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

³⁰⁰ Povey, *Nesa Peth i Ddim – Hunangofiant Meic Povey*, t. 92.

llwyfan cyn hynny, gan mai *Tŷ ar y Tywod* oedd un o'r dramâu cyntaf iddo weithio arni fel llwyfannwr gyda Chwmni Theatr Cymru tua 1968. Ond ni ddaeth i'w adnabod yn iawn, fel cydweithiwr a chyfaill agos, am bum mlynedd wedi hynny pan dderbyniodd swydd fel golygydd sgriptiau cynorthwyol:

Chydrig a wyddwn i ar y pryd gymaint o ddylanwad fyddai Gwenlyn ar fy ngyrfa fel sgwennwr ... Gwenlyn, fel dramodydd llwyfan, oedd yn bennaf cyfrifol am chwyldroi'r theatr Gymraeg ei hiaith yn ystod y chwedegau a'r saithdegau, gan swyno a sbarduno llawer ohonom i ddilyn ôl ei droed. Roedd o hefyd yn arloeswr ym myd teledu; mi fyddwn i'n bersonol yn dweud ei fod yn haeddu cael ei alw yn 'dad y ddrama deledu Gymraeg fodern'. ... Dim ond heddiw, hwyrach, y medrwn lawn werthfawrogi ei ddylanwad.³⁰¹

Diddorol yw nodi na chydnabu Siôn Eirian yntau, a gamodd i esgidiau Meic Povey wedi iddo adael y BBC, ddylanwad Gwenlyn Parry arno fel dramodydd llwyfan. Dywed, fodd bynnag, fod 'Meic yn adlais perffaith o'r hiwmor a dawn dweud oedd 'da Gwenlyn. Iaith gryf, werinol gyda Gwenlyn. O'dd Meic fel epil i Gwenlyn fan'na'.³⁰² Cofier hefyd, bum mlynedd wedi i Meic Povey ddechrau gweithio ochr yn ochr â Gwenlyn Parry yn y BBC, y cyfansoddodd Meic Povey ei ddrama hir gyntaf ar gyfer y llwyfan, sef *Y Cadfridog* (1978). Dywed Meic Povey y gellir gweld dylanwad dramâu absŵrd y dramodydd Eugène Ionesco, y bu'n gweithio arnynt gyda Chwmni Theatr Cymru, ar *Y Cadfridog*. Ond tybed a oes dylanwad theatr absŵrdaidd Gwenlyn Parry ar y ddrama yn ogystal â bod lle i gwestiynu geiriau Meic Povey uchod pan ddywed na fu Gwenlyn Parry yn ddylanwad arno fel dramodydd llwyfan?

Bathwyd y term Theatr yr Absŵrd gan Martin Esslin ym 1962 ei gyfrol *Theatre of the Absurd*. Datblygodd y math hwn o theatr yn Ffrainc wedi'r Ail Ryfel Byd a hynny yn y 1950au a'r 1960au: "Gellir esbonio'r ffrwydrad sydyn o absŵrdiaeth Ffrengig yn rhannol fel adwaith nihilaid i'r erchyllterau diweddar, y siambrau nwy a bomiau niwclear rhyfel."³⁰³ Cysylltir gweithiau dramodwyr megis Eugène Ionesco, Samuel Beckett, Jean Genet, Arthur Adamov, a gweithiau diweddarach Harold Pinter gyda'r mudiad. Mae'r dramâu yn arddel yr athroniaeth a amlygwyd gan y Ffrancwr Albert Camus yn ei draethawd *The Myth of Sisyphus* (1942) lle diffiniodd y sefyllfa ddynol fel un ddiystyr. Canolbwyntia dramâu Theatr yr

³⁰¹ Povey, *Nesa Peth i Ddim – Hunangofiant Meic Povey*, tt. 92-3.

³⁰² Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

³⁰³ J. L. Styan (addasiad Annes Glyn), 'Theatr yr Absŵrd: Beckett a Pinter', *Y Ddrama Gyfoes: Damcaniaethau ac Arferion: Symbolaeth, Swrealaeth a'r Absŵrd* (Llandysul, 2007), tt. 153-2.

Abswrd felly ar bortreadu'r ochr dywyll i fywyd gyda dyn yn chwilio am ystyr i fywyd gan wybod nad oes ystyr i'w chanfod. Er mwyn cyfleu'r thema hon o undonedd a diffyg pwrpas, ni cheir plot, cymeriadau na deialog gonfensiynol o fewn y dramâu fel y ceir yn y dramâu realaidd:

Theatre of the Absurd strives to express its sense of the senselessness of the human condition and the inadequacy of the rational approach by the open abandonment of rational devices and discursive thought ... The Theatre of the Absurd has renounced arguing *about* the absurdity of the human condition; it merely *presents* it in being – that is, in terms of concrete stage images.³⁰⁴

Wedi'r darlleniad cyntaf o sgript *Y Cadfridog* yn Theatr y Sherman, Caerdydd, uchel iawn oedd y disgwyliadau ar gyfer perfformiad cyntaf *Y Cadfridog* gan Theatr yr Ymylon yn Theatr y Werin, Aberystwyth, ddydd Gŵyl Ddewi 1978, cyn iddi fynd ar daith o amgylch theatrau Cymru. Y cyfarwyddwr oedd Meredith Edwards. Ysgrifennwyd y ddrama ym 1974 ar gyfer ei chyflwyno yng nghystadleuaeth Tlws y Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, 1975. Dyfarnwyd y ddrama yn ail yn y gystadleuaeth gyda'r ddrama *Geraint Llywelyn* gan William R. Lewis yn fuddugol. Dywedodd Hefin Wyn amdani ym 1978 fod 'lle i gredu y medr y ddrama hon ddenu llawer yn ôl i'r theatr Gymraeg'.³⁰⁵ Ar wahân i'r ddwy ddrama fer, *Y Pryf* a lwyfannwyd ym 1971 i lansio Theatr Ddieithr ac *Yr Aderyn* a lwyfannwyd flwyddyn yn ddiweddarach i lansio Theatr yr Ymylon, hon oedd y ddrama gyntaf o eiddo Meic Povey i gael ei llwyfannu, ac o'r herwydd, honnir mai dyma'r 'digwyddiad pwysicaf'³⁰⁶ yng ngyrfa'r dramodydd ifanc hyd hynny. Fe'i gwobrwywyd gan y beirniad, John Gwilym Jones, oherwydd iddo gael ei 'swyno gan newydd-deb beiddgar y gwaith'.³⁰⁷ Ystyrid John Gwilym Jones fel un o hoelion wyth y ddrama Gymraeg, gyda chynifer â phymtheg o'i ddramâu wedi'u cyhoeddi dros gyfnod o ddeugain mlynedd.

With the exception of Saunders Lewis, few modern Welsh twentieth-century writers have commanded as much veneration in their own lifetime as did John Gwilym Jones.³⁰⁸

³⁰⁴ Martin Esslin, 'Introduction', *The Theatre of the Absurd* (London, 1962), tt. 17-18.

³⁰⁵ Hefin Wyn, 'Ceisio sgwennu i ddiddanu, heb fod yn uchel ael', *Y Cymro* (28 Chwefror 1978), 8.

³⁰⁶ Wyn, 'Ceisio sgwennu i ddiddanu, heb fod yn uchel ael', *Y Cymro*, 8.

³⁰⁷ John Gwilym Jones, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Ddrama Hir', yn T. M. Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, 1975* (Llandysul, 1975), t. 141.

³⁰⁸ William R. Lewis, *John Gwilym Jones* (Cardiff, 1994), t. 1.

Yr oedd arddull naturiolaid themâu, cymeriadau a deialogi ei ddramâu yn herio daliadau a ffydd cynulleidfaoedd y cyfnod a oedd wedi arfer â'r hen ddramâu cegin traddodiadol, neu weithiau'r dramodydd 'clasurol-greadigol',³⁰⁹ Saunders Lewis, a roddai bwyslais aruthrol ar werth traddodiad yn ei ddramâu. Syndod felly iddo hefyd nodi yn ei feirniadaeth ar *Y Cadfridog*, y byddai'n synnu 'i weld unrhyw gwmni yn ddigon mentrus i ddewis "Y Cadfridog"³¹⁰ i'w llwyfannu yn bennaf oherwydd y pwnc yr ymdrinir ag ef yn y ddrama sef perthynas rywiol rhwng dau ddyn; sylwadau sy'n tanseilio holl bwrpas drama fel cyfrwng gweledol:

Nid yw'r cyhoeddi mor bwysig â hynny gan mai rhywbeth i'w gweld, rhywbeth i ymuno ynddi yw drama i mi ... Byddai'n drueni aruthrol petai ein ceidwadaeth ddiwylliannol arferol wedi ein rhwystro ni rhag cael y pleser o weld y ddrama drawiadol hon, ond does dim o'r diolch yn ddyledus i'r 'Steddfod am hynny. Pam ar y ddaear cael cystadleuaeth ddrama, gwobrwyo'r goreuon ac yna ceisio atal y gweithiau hynny rhag gweld golau dydd? Os ydy awdur yn sgrifennu drama dda, dyletswydd y 'Steddfod, dybiwn i, yw gwneud pob dim yn ei gallu i sicrhau fod y ddrama yn cael ei pherfformio, ac os gall mympwy beirniad newid hynny, yna gwell fyddai dileu'r gystadleuaeth. Safaf wrth hynny yng nghyd-destun unrhyw ddrama, ond wedi gweld *Y Cadfridog* ni allaf yn fy myw ddeall sut y medrai'r Dr John Gwilym Jones fod mor ysgubol.³¹¹

O'r herwydd, i lawer, roedd 'ei llwyfannu yn garreg filltir o bwys yn hanes y Theatr Gymraeg',³¹² gyda'r gobraith y byddai'r ddrama Gymraeg fel cyfrwng yn blaguro yn ei sgil. Ac er i lawer leisio barn yn erbyn cynnwys y ddrama, teimlwyd hefyd ei bod yn 'torri cwys newydd yn hanes y Theatr drwy ddianc o grafangau'r Biwritaniaeth Gymreig'.³¹³

Ond un rhinwedd na fedrai'r cwynwyr a'r canmolwyr anghytuno yn ei gylch oedd newydd-deb a ffresni'r gwaith. Yng nghyd-destun theatr Gymraeg roedd '*Y Cadfridog*', gyda'i ddeialog fyrlymus a'i ensyniadau o berthynas wrywgydiol rhwng dau gymeriad, yn gyffrous a beiddgar. Yng nghyd destun theatr Saesneg byddai llwyfannu'r ddrama yn ddigwyddiad ceidwadol. Roedd '*Y Cadfridog*' yn gyhoeddiad o ymddangosiad dawn gyffrous newydd ar ffurfafen y theatr Gymraeg.³¹⁴

³⁰⁹ John Rowlands, *John Gwilym Jones* (Caernarfon, 1988), t. 23.

³¹⁰ Jones, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Ddrama Hir', yn Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, 1975*, t. 143.

³¹¹ Rhodri Williams, 'Perfformiad *Y Cadfridog*', *Barn*, 184 (Mai 1978), 187.

³¹² Eifion Glyn, 'Beth yw pwynt '*Y Cadfridog*'? ... beth yw'r ots, mae'n ddifyr!', *Y Cymro* (14 Mawrth 1978), 9.

³¹³ Glyn, 'Beth yw pwynt '*Y Cadfridog*'? ... beth yw'r ots, mae'n ddifyr!', *Y Cymro*, 9.

³¹⁴ Dienw, 'Cofiant y Cymro Olaf', *Y Cymro* (24 Ebrill 1979), 8.

Mae'r ddrama wedi'i lleoli mewn 'pencadlys milwrol, tanddaearol'³¹⁵ a ymdebyga i fyncer rhyfel, rhyw dro yn y dyfodol ('ond heb fod yn hwyrach na diwedd yr ugeinfed ganrif').³¹⁶ Dau gymeriad sydd yn y ddrama – y Cabden canol oed a bortreadwyd yn y cynhyrchiad gwreiddiol gan Stewart Jones, a'r Milwr ifanc, a bortreadwyd gan Ian Saynor. 'Aelodau o fyddin gwrthryfel Cymru yw'r ddau filwr.'³¹⁷ Y mae'r Saeson newydd orchfygu'r Cymry mewn rhyfel niwclear, ac mae'r Cabden yn grediniol mai hwy ill dau yw'r unig oroeswyr. Er lles eu diogelwch, penderfyna'r uwch-swyddog, yn groes i ddymuniadau'r Milwr, mai doeth o beth fyddai aros yn y bynker hyd y credai ei bod yn ddiogel iddynt agor y drws mawr ac ymadael.

Egyr y ddrama gyda'r ddau gymeriad yn deffro i sylweddoli fod eu cydymaith – milwr arall – wedi agor y drws a dianc o'r bynker yng nghanol y nos gan adael dim ond hwy ill dau ar ôl. Ond y mae'n amlwg nad yw'r Cabden eisiau ymadael mewn gwirionedd, gan iddo saethu'r trosglwyddwr radio – eu hunig obaith o gysylltiad gyda goroeswyr eraill. Maent yn cyd-fyw yno am gyfnod o dros flwyddyn ac 'yn ceisio diddanu eu hunain yn niflastod y bynker'.³¹⁸ Yn ystod yr amser hwn y mae perthynas y ddau ohonynt yn datblygu'n garwriaeth. Ar ddechrau'r ddrama, y mae cymeriadau'r ddau'n cyd-fynd â'u statws proffesiynol – y Cabden yn gymeriad ymddangosiadol hyderus a phwerus o'i gymharu â'r Milwr ifanc ufudd ac ansicr. Ond erbyn yr ail act, gyda blwyddyn gyfan wedi mynd heibio, y mae'r Milwr wedi 'datblygu'n ddigon hyf i fanteisio ar wendidau ei gymar canol-oed'.³¹⁹ Y mae'r ddau ohonynt yn chwarae gemau seicolegol â'i gilydd ac yn actio sefyllfaedd dychmygol gan esgus byw mewn byd ffantasiol. Y mae'r Milwr yn dyheu am ymadael â'r bynker i ganfod ei deulu, a manteisia ar ddibyniaeth y Cabden arno i'w dwyllo i agor y drws er mwyn iddo gael dianc cyn iddo ei saethu'n gelain. Yn ei adolygiad o'r perfformiad o'r ddrama, dywedodd Siôn Eirian:

Ar ddechrau'r ddrama fe welwn ddau berson digon cyffredin yn ymateb i'w hamgylchiadau mewn ffordd eithaf disgwyladwy. Erbyn y diwedd mae'r ddau wedi diosg eu masgiau, wedi cael gwared â'r ddwy ddelwedd allanol gynnar a thrwy hynny wedi ildio'r haenau cymdeithasol oedd yn eu hamddiffyn rhagddynt eu hunain. Nawr mae'r gwendidau a'r cryfderau cudd wedi dod yn amlwg ac mae'r ddau'n cyrraedd y sefyllfa lle mae e wedi rhoi gormod ohono'i hunan i'r llall.³²⁰

³¹⁵ Michael Povey, 'Stori Serch' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³¹⁶ Meic Povey, *Y Cadfridog* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1974), t. heb ei rhifo ar ddechrau'r sript.

³¹⁷ Glyn, 'Beth yw pwynt 'Y Cadfridog'? ... beth yw'r ots, mae'n ddifyr!', *Y Cymro*, 9.

³¹⁸ Davies, 'Astudiaeth o ddramâu teledu unigol Meic Povey', t. 83.

³¹⁹ Siôn Eirian, 'Y Cadfridog', *Y Faner* (5 Mai 1978), 12.

³²⁰ Eirian, 'Y Cadfridog', *Y Faner*, 12.

Cofier i'r adolygydd ei hun flwyddyn yn ddiweddarach, fynd ati i gyfnasoddi'r ddrama radio *Wastad ar y Tu Fas* (1978), a oedd hefyd yn ymdrin â hoywder a oedd yn bwnc hynod ddadleuol yn y cyfnod. Wrth drafod *Y Cadfridog*, dywedodd Dylan Iorwerth:

Undoubtedly this is the first time a homosexual relationship has been portrayed so openly in Welsh.³²¹

Fodd bynnag, nid drama am hoywder mo *Y Cadfridog*, ond, yn hytrach, cyfrwng yw'r hoywder i fynegi themâu llawer dyfnach a lechai o dan yr wyneb. Ond gwyddai y byddai'r ddyfais hon o gynnwys yr elfen o hoywder yn y ddrama yn siŵr o dynnu sylw:

Cafodd y ddrama gryn sylw, yn bennaf am fod portreadu cariad agored rhwng dau ddyn, ar lwyfan Cymraeg ac mewn iaith dafodieithol, yn ddigwyddiad prin, os digwyddiad o gwbl cyn hynny. Wrth edrych yn ôl, erys yr amheuaeth yn fy meddwl a fyddai'n gweithio heddiw. Beryg mai drama ei chyfnod ydoedd, ffrwyth llafur egin-ddramodydd oedd â llawer iawn i'w ddysgu eto, ac a oedd o bosibl yn malio mwy am y sioc a gâi'r gynulleidfa wrth ei gwyllo na'r awydd i sgwennu rhywbeth o safon.³²²

Ym 1984, chwe blynedd wedi'r llwyfaniad cyntaf o'r ddrama, gwelwyd Clive Roberts a Gwyn Vaughan yn perfformio yn yr addasiad sgrin o *Y Cadfridog* ar S4C o dan gyfarwyddyd Alan Clayton.

Y mae'r arddull abswrdaidd a geir yn y ddrama hon yn elfen gwbl ddieithr yng ngweddill gweithiau llwyfan Meic Povey ac eithrio'r ddrama *Gyda Llaw* (1985), sef y bedwaredd ddrama o eiddo'r dramodydd. Yn y ddrama hon, archwilir yr arddull hon ymhellach.

Ym 1985, lanswyd Cwmni Whare Teg. Llwyfannwyd dwy ddrama mewn taith fer yng Nghanolfan y Chapter yng Nghaerdydd ac yng Nghaerfyrddin: *Llygad y Mynydd* gan David Lyn, a gyfarwyddwyd gan Islwyn Morris, a drama gomisiwn gan Meic Povey, *Gyda Llaw*, a gyfarwyddwyd gan William Thomas, gyda'r cast yn cynnwys Christine Pritchard, Ernest Evans, Dafydd Hywel a Siwan Jones.

Dau gymeriad yn eistedd ar fainc mewn parc cyhoeddus a gawn ar ddechrau'r ddrama – Morlais, deheuwr trigain oed eithaf ffwndrus, a'i wraig, gogleddwraig bymtheg ar hugain oed, Jean. Wrth i'r ddau fwyta'u picnic yn ystod awr ginio Jean (sy'n gweithio mewn siop

³²¹ Dylan Iorwerth, 'Welsh drama milestone' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³²² Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 120.

lyfrau) gwrandawant ar fand pres ‘yn chwarae tiwniau milwrol yn y cefndir’,³²³ a hiraetha Morlais am ei gyfnod yn y rhyfel lle’i anafwyd yn ystod cyflafan fawr 1944. Cawn yr ymdeimlad yn syth ar ddechrau’r ddrama nad yw perthynas y cwpl yn un hapus wrth i Jean gywilyddio wrth ymddygiad Morlais:

JEAN: G’neud sôn amdanat mewn lle cyhoeddus. ’Steddai [*sic*] lawr.³²⁴

Tra â Jean i gaffi cyfagos i nôl paned ffres i’w gŵr, gwêl Morlais ferch ysgol chweched dosbarth, Lili, sy’n chwilio am ei chi, Toss. Anfona Morlais hi i gyfeiriad y llwyn rhododendron, lle gwelodd gwpl yn diflannu i’r coed ychydig funudau ynghynt. Pan ddaw Jean yn ei hôl, dywed Morlais ei fod angen mynd i’r tŷ bach, a chyfeiria Jean ef i gyfeiriad y llwyn rhododendron. Yn ei absenoldeb, daw cymeriad arall i’r parc – Mac Adam – yn loncian mewn cylch o amgylch y fainc, ac yn chwilio am ddyn mewn siwt ddu ac esgidiau duon. Camgymerir ef gan Jean am Dic, actor enwog a welodd ar y teledu sydd mewn perthynas ag actores enwog, Gwenffrew Biwben – gwraig rywiol iawn sy’n hoffi gwisgo gwisg ysgol a chanddi gi o’r enw Toss. Gwada Mac Adam mai ef yw’r seren, ond wrth sylweddoli nad oes argyhoeddi ar Jean, y mae’n ildio ac yn gadael iddi gredu mai ef yw’r actor enwog. Gofynna i Jean a fyddai’n fodlon rhoi lifft iddo o’r parc yn nhrwmbal ei char, gan nad yw eisiau i gasglwyr llofnodion ei ddilyn. Ond cyn iddynt gael cyfle i ymadael, daw Morlais yn ei ôl a rhed Mac Adam ymaith. Cyfyd Jean ar ei thraed yn barod i fynd, ond yn y pellter, gwêl gi mawr, du, blewog, a chyffroa drwyddi wrth feddwl am y posibilrwydd o gyfarfod Gwenffrew Biwben y diwrnod hwnnw hefyd, yn ogystal â Dic. Yn sydyn, daw cymeriad arall atynt – Ditectif Sarjant Condor. Y mae’r heddwys yn amheus iawn o Morlais ac yn plannu amheuan am onestrwydd ei gŵr ym meddwl Jean. Y mae’n ei amau o lusgo merch ifanc mewn gwisg ysgol i’r llwyn rhododendron a’i threisio. Y mae Jean yn ffieiddio wrth ei gŵr, sydd ar fin cael ei arestio am y drosedd, ac yn barod i roi tystiolaeth yn ei erbyn. Ond wrth i Morlais godi stŵr, ac erfyn ar aelodau’r band i’w achub, caiff y ditectif lond bol ac ymadael mewn tymer, gan adael Morlais ar drugaredd ei wraig, sy’n grediniol bod Morlais wedi’i thwylllo dros yr holl flynyddoedd a’i hamddifadu’n rhywiol:

JEAN: ’Rhosa di imi dy gâl di adra ...
MORLAIS: Ei?

³²³ Meic Povey, *Gyda Llaw* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1985), t. 1.

³²⁴ Povey, *Gyda Llaw*, t. 2.

JEAN: Dy ‘gâl’ di, Morlais. Adra.
 MORLAIS: O, na!
 JEAN: O, ia! Heb ffon, nag unrhyw beth arall i dy gynnal.
 MORLAIS: Ond un gôs sda fi!
 JEAN: Un ydw’i isio! (MAE’N EI LUSGO I FFWRDD)³²⁵

Y mae’r ddrama hon yn gwahaniaethu oddi wrth weddill gweithiau Meic Povey (ar wahân i elfennau o *Y Cadfridog*) oherwydd yr elfennau cryfion o theatr yr absŵrd a geir ynddi, o’i chymharu ag elfennau naturioliaidd gweddill y gweithiau. Nid yn unig y mae’r plot yn absŵrd, ond y mae deialog y ddrama hefyd yn wahanol iawn i ieithwedd y ddeialog ‘bob dydd’ sydd mor nodweddiadol o weddill gweithiau Meic Povey. Yn wir, y mae’r elfen absŵrd sydd i’r ieithwedd gyn gryfed nes bod y ddeialog yn llawn siarad gwag, amherthnasol wrth i gymeriadau gyfuno gwahanol sgysiau ar yr un pryd. O ganlyniad, gorchwyl anodd yw dilyn rhediad y digwydd ar adegau, yn ogystal â cheisio dadansoddi beth yn union yw themâu’r ddrama:

JEAN: Ydach chi’n ddyn band?
 MAC ADAM: Banc? Nid dyna ngwaith i.
 JEAN: Mi fyddai’n dŵad a’r gŵr yma bob pnawn Gwener, hâ’ a gaea’.
 Fyddwch chi’n dŵad yn aml?
 MAC ADAM: Hei, wy wedi gweud wrthoch chi unweth: nag wy’n gwitho mewn banc.
 JEAN: O! Dyna dd’udis i? Banc? O, maddeuwch i mi ...!
 MAC ADAM: Popeth yn ôlreit.
 JEAN: Nghlyw i! Dyna dd’udis i? O, maddeuwch i mi ...!
 MAC ADAM: Geso i gynnig swydd miwn labordy, ddeng mlynedd yn ôl.³²⁶

Wrth ddarllen y corff helaeth o weithiau llwyfan a gyfansoddwyd gan Meic Povey, nid yn unig y mae arddull y ddrama hon yn ei gosod ar wahân ond fe’i gosodir ar wahân oherwydd ei safon yn ogystal. Edmygir yr awdur am fentro i borfeydd dieithr ac arbrofi gyda’i gyfrwng ond efallai i’r ffaith nad ysgrifennodd Meic Povey ddrama abswrdaidd wedi hynny awgrymu i’r dramodydd ei hun sylweddoli bod *Gyda Llaw* yn wannach drama o ran ei phlot, ei strwythur, ei chymeriadau, a’i deialog.

³²⁵ Povey, *Gyda Llaw*, tt. 61-2.

³²⁶ Povey, *Gyda Llaw*, tt. 22-3.

4 Cymeriadau

Fy niddordeb mwyaf ydy pobl, a sut mae
nhw'n cyfathrebu a'i gilydd.³²⁷

Dwi wedi fy mendithio efo clust dda iawn. Mae deialog, i mi, yn dod yn naturiol. Mae o'n dalent. Mi wna'i fod yn ddigon o ben mawr i ddweud! Ond tydi o'n da i ddim byd os nad wyt ti'n mynd i'w briodi fo efo stori, a strwythur a chymeriadau cryf ... A tydi cymeriadau ddim yn dod yn syth.³²⁸

Y mae'r broses o greu cymeriadau unigryw, amlhaenog yn broses a gymer beth amser wrth i'r cymeriadau ddatblygu'n naturiol. Ar ddechrau'r broses, y dramodydd 'sy'n gwthio'r cymeriadau, yn dweud wrthyn nhw ble i fynd a beth i'w wneud. Ond yn raddol bach, dros gyfnod, os ydi pethau yn gweithio fel dyla nhw mae'r cymeriadau yn dechrau³²⁹ ei wthio ef: 'yn sydyn, nhw sy'n tywys a fi sy'n dilyn.'³³⁰

I'r un pwrpas â'i ddefnydd o ieithwedd bob dydd, naturiol, pobl gyffredin yw cymeriadau llwyfan Meic Povey. Gall cynulleidfa 'gyffredin', hynny yw, cynulleidfa o gefndiroedd cyffredin, nad ydynt, o reidrwydd, wedi eu trwytho mewn celfyddyd ac ym myd y ddrama, (yr hyn a ystyrir yn ystrydebol fel cynulleidfa 'ddosbarth gweithiol') sef cynulleidfa darged Meic Povey, uniaethu'n well â chymeriadau o'r un anian â hwy eu hunain. Ni honnaf, fodd bynnag, fod pethau gyn symled â dweud mai dyma unig gynulleidfa'r dramodydd ac na cheir aelodau o bob mathau o wahanol gefndiroedd o fewn cyfansoddiad cynulleidfa. Yng Nghymru, yn gyffredinol, ystyrir mwyafrif cynulleidfa'r theatr Gymraeg fel aelodau o'r 'dosbarth canol'. Pan gyfeirir at gynulleidfa'r theatr Gymraeg o fewn y traethawd hwn, gwneir hynny er mwyn cyfeirio at y mwyafrif o'r gynulleidfa honno er bod awdur yr astudiaeth yn ymwybodol ei bod yn cyffredinoli gan nad yw'r ffiniau mor bendant â hynny. Dywed Meic Povey ei bod yn haws ganddo dreiddio i feddwl ac ieithwedd pobl o'r 'dosbarth gweithiol', fel y cymeriadau a gafwyd ganddo yn y gyfres *Talcen Caled*, gan y teimlai y gall 'uniaethu mwy efo nhw' yn hytrach na chymeriadau 'dosbarth canol' fel y ceir yn y gyfres *Teulu*:

³²⁷ Meic Povey, yn Gwennlian Pierce Lewis, 'Yr Enwog Michael Povey' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³²⁸ Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

³²⁹ Povey, 'Ysgrifau Dramodwyr: Meic Povey'.

³³⁰ Povey, 'Ysgrifau Dramodwyr: Meic Povey'.

Fwy nag unwaith fe gymerodd bwnc trafod ... a'i wyntyllu trwy ddarlunio ei effaith ar fywydau nifer o gymeriadau digon cyffredin ... rhai tebyg iawn i ti a fi, yn wir.³³¹

Ystyrir cymeriad Laura yn *Wyneb yn Wyneb* fel enghraifft o'r math hwn o gymeriad: 'O ran cymhlethdod y cymeriadau ac archwiliad yr awdur o'r werin, gapellog, draddodiadol mae Michael Povey ar ei aeddfetaf yma'.³³² Eironig ddigon yw'r ffaith i'r dramodydd ei hun, yn wahanol i'w gymeriadau, fwynhau moethau bywyd 'dosbarth canol' y brifddinas trwy gydol y rhan helaethaf o'i fywyd. Yn hynny o beth, ymdebyca i Siôn Eirian, dramodydd gwleidyddol sydd hefyd yn amlygu rhagrith aelodau o'r 'dosbarth canol' Cymreig yn ei weithiau, ond yn wahanol iddo ef dywed Meic Povey:

sgen i ddim llawer o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Fy niddordeb mwyaf ydy pobl, a sut mae nhw'n cyfathrebu a'i [*sic*] gilydd.³³³

Eto i gyd, onid yw dirywiad y Gymraeg a chymdeithas Gymreig o ganlyniad i fewnlifiad, sy'n destun amlwg iawn yng ngweithiau Meic Povey, hefyd yn enghraifft o destun cymdeithasol wleidyddol?

Dywed y dramodydd mai'r hyn sy'n hollbwysig iddo wrth gyfansoddi yw ei fod yn adnabod ac yn medru uniaethu gyda'i gymeriadau. Ac nid yw hynny'n syndod o ystyried sawl cymeriad o fewn y gweithiau sydd wedi'u sylfaenu ar gymeriadau gwirioneddol. Yn wir, y mae'n arferiad gan Meic Povey, yn ystod cyfnod ymarfer nifer o'i ddramâu, i fod yn bresennol ac wrth law i ateb unrhyw ymholiad gan yr actorion ynglŷn â'r cymeriadau. Ond nid yw dod i adnabod ei gymeriadau yn unig yn ddigon i'r dramodydd. Y mae'n rhaid iddo hefyd '[f]alio'³³⁴ amdanynt.

Tra'n gwylio un o brif gymeriadau'r gyfres deledu boblogaidd *Z. Cars* yn boddi pan oedd yn bedair ar ddeg oed, y daeth Meic Povey yn ymwybodol gyntaf o'r hyn a gred ef yw'r 'gair pwysicaf mewn unrhyw sgwennu dramatig, sef "malio"'.³³⁵ Os yw dramodydd yn llwyddo i beri i'w gynulleidfa falio am ei gymeriadau a bod ganddynt wir gonsŷrn am eu tynged, yna y mae'r ddrama yn bendant o gael mwy o effaith ar y gynulleidfa honno, ac mae ergyd y ddrama'n taro'n galetach. 'Os nad ydi'r gynulleidfa yn malio – am o leiaf y prif

³³¹ Islwyn, 'Lleisiau ac Adleisiau', *Barn*, 35.

³³² Aled Islwyn, 'Gwasgu cymaint o boen i cyn lleied o amser', *Y Cymro* (24 Mawrth 1993), 7.

³³³ Meic Povey, yn Lewis, 'Yr Enwog Michael Povey' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³³⁴ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 34.

³³⁵ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 34.

gymeriad – yna waeth i chi roi'r ffidl yn y to ddim'.³³⁶ Ond ni olyga hyn ei bod yn rheidrwydd i ni fod yn hoff o'r cymeriad er mwyn malio amdano:

Shakespeare's Richard III is one of the most unpleasant characters in literature ... Yes most of us find ourselves engaged by him, just as Shakespeare must have. We may not have the urge to become his best friend, but neither would we avoid spending three hours in the theatre with him.³³⁷

Yn wir, gall cynulleida falio rhyw gymaint am gymeriadau sy'n cyflawni'r gweithredoedd mwyaf ffiadd. Yn *Perthyn*, dysgwn am orffennol Tom a Gwen a'r modd y'u camdrinwyd hwythau hefyd pan oeddent yn blant. Y mae cymeriad Tom, yn enwedig, yn gymeriad pathetig, ond mae'r ffaith iddo gael ei wrthod yn rhywiol gan ei wraig, a'r tynerwch a ddengys wrth siarad â Mari yn peri i ni deimlo rhyw anwyldeb tuag ato. Haws fyddai i ni ei gasáu drwyddo draw o'r dechrau i'r diwedd, ond oherwydd ei natur, rydym yn malio amdano.

Deillio o gymeriad Tom a wna Les yn *Gwaed Oer*: '[M]ae yntau'n rhamantu'n ddall am ogoniannau'r gorffennol gan ddiystyru'r ffaith mai'r un oedd, yw ac a fydd y sefyllfa'.³³⁸ Ond ni allwn lai na chydymdeimlo gydag ef ychwaith – 'yn ddiwaith yn ddiotwr',³³⁹ ei wraig yn cael perthynas gyda bachgen yn ei ugeiniau, a'i ferch, Gwenno, yn defnyddio ei gamdriniaeth ohoni i'w flac-melio. Er ei weithredoedd treisgar yn erbyn Gwenno, y mae rhyw elfen ohonom yn tosturio wrtho. Mae cymeriad Defi yn *Fel Anifail* hefyd yn cyffwrdd â'n calonnau. Er ei fod yn gwadu cyhuddiadau ei wraig mai caru gyda merch arall ar lethrau'r mynydd yr oedd y diwrnod pan aeth eu mab i chwilio amdano a disgyn i'w farwolaeth, gwyddom ei fod wedi'i ysu ag euogrwydd ers y diwrnod hwnnw. Yr un modd, y mae cariad Prysor yn *Tyner yw'r Lleuad Heno* tuag at Dafydd, ei wŷr, neu yn hytrach, ei fab, yn meddalur casineb a deimlwn tuag ato am feichiogi cariad ei fab a hithau ddim ond yn un ar bymtheg oed.

Ond nid cymeriad y tadau yn unig sy'n achosi'r chwalfa deuluol o fewn y dramâu. Yn wir, er nad yw'n amlwg ar yr olwg gyntaf, gall cymeriad y fam yn y gweithiau fod yn llawer mwy dinistriol na'r tad:

³³⁶ Povey, 'Ysgrifau Dramodwyr: Meic Povey'.

³³⁷ Stuart Spencer, *The Playwright's Guidebook* (New York, 2002), t. 182.

³³⁸ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 16.

³³⁹ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 16.

Mae'n arferol i fenywod Povey ddefnyddio diawlineb i geisio gwireddu eu dymuniadau.³⁴⁰

Mae gweithredoedd y tadau yn gwbl amlwg i'r gynulleidfa. Ond mae diffyg gweithredoedd y fam pan yw ei phlentyn mewn angen yn mynd yn groes i'r disgwyliadau o bersona'r fam. Dyma thema yr ymdrinir â hi'n helaethach yng ngweithiau llwyfan Aled Jones Williams:

Mae elfen gref o ddiawledigrwydd ym mamau llwyfan Meical Povey. Portreadau oeraidd ydynt ac mae'r mamau hyn un ai'n hynod ddinistriol neu'n sianelu'r grym dinistriol hwn i bwrpas positif. Maent wastad yn feirniadol, edliwgar, yn gïaidd a brwnt, yn arbenigwyr ar hunanoldeb a hunan dwyll. Ond, er gwaethaf eu hamryfal wendidau, perthyn rhyw gryfder iddynt oherwydd hwy, er gwaethaf popeth, sy'n cadw'u teuluoedd ynghyd, boed hynny er gwell neu er gwaeth.³⁴¹

Er nad i'r un graddau, gall y dyfyniad uchod fod yn berthnasol i gymeriad Laura yn *Wyneb yn Wyneb* hefyd, ond yn wahanol i Gwen (*Perthyn*) a Gloria (*Gwaed Oer*), mae cariad Laura at ei phlentyn yn gryfach nag unpeth arall. Yn gyffredinol, felly, mae creadigaethau benywaidd Meic Povey yn gymeriadau cryfion iawn – llawer cryfach na chymeriadau'r dynion. Ystyrier cymeriad Lois yn *Terfyn*. Hi sy'n mynnu cael ei ffordd a dychwelyd i'r gogledd i fyw. O'r holl gymeriadau yn *Sylw*, mae Ruth i'w gweld yn gadarnach ac yn fwy cyfforddus gyda hi ei hun na gweddill y cymeriadau. Mae Rhi yn *Diwedd y Byd* yn gryfach ac aeddfetach cymeriad na gweddill y plant a Mared yn *Tyner yw'r Lleuad Heno* sy'n rheoli'r digwydd.

Dwi wedi 'sgwennu lot i ferchaid ... Os ti'n sgwennu trwy lygaid merch, mae o'n wahanol ... Mae yna lot o rannau i ferchaid, rhannau da a diddorol, a rhan amlaf maen nhw yn fwy diddorol na'r dynion – mi fedri di neud mwy efo nhw.³⁴²

Yn wir, cafodd Meic Povey ei ganmol am ei ymdriniaeth gredadwy o dair cenhedlaeth o ferched yn y ddrama *Tair*:

“Mi wyt ti wedi mynd i mewn i feddwl merch”. Dyma, yn ôl yr awdur, y clod mwyaf y gall obeithio amdano; os yw pobl yn eu hadnabod eu hunain neu bobl ‘go iawn’ yn ei gymeriadau ef, mae wedi llwyddo.³⁴³

³⁴⁰ Hughes, ‘Astudiaeth o ddramâu Meic Povey: er 1985’, t. 42.

³⁴¹ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 14.

³⁴² Cyfweiliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

³⁴³ Roberts, ‘Y Ddrama Gomisiwn’, *Barn*, 11.

Y mae bywyd yn frwydr barhaus i gymeriadau Meic Povey. Maent wedi'u gosod ar wahân i weddill cymdeithas, wedi'u caethiwo, ac maent oll yn gyfrifol am eu cwmp eu hunain. 'Cawn weld pob math o rinweddau dynol yn ei gymeriadau – rhagrith, hunanoldeb, creulondeb, yn ogystal a'r [sic] hwyl a'r miri.'³⁴⁴ Maent oll yn deipiau o gymeriadau y mae'r gynulleidfa yn hen gyfarwydd â hwy, ond mae sawl haenen wedi'i chladdu yn ddwfn o dan yr wyneb, ac nid yr un cymeriadau a welwn ar ddechrau a diwedd y dramâu. Ys dywed Bethan Jones, 'Mae cymeriadau Meic fel elyrch yn nofio ar yr wyneb ... ond o dan yr wyneb mae pob dim yn corddi'.³⁴⁵ Nid oes yr un ohonynt yn ddi-fai – y maent oll yn euog o rywbeth:

Yn y diwedd, rhannau o Michael Povey ydyn nhw i gyd ac mi fyddai o'n dweud bod hynny yn anorfod i unrhyw sgrifennwr. Ond, os yw'n llwyddo, fe fydd hefyd wedi dangos rhannau ohonon ni i gyd, Gymry Cymraeg amrywiol diwedd yr 20fed ganrif.³⁴⁶

³⁴⁴ Jones, 'Gweld Llais a Chlywed Llun', t. 20.

³⁴⁵ Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

³⁴⁶ Dienw, 'Yn ôl i'w Ynys ei Hun: gwaith a bywyd Michael Povey', *Golwg*, 21.

5 Ieithwedd

‘Ifas y Tryc, local boi’.³⁴⁷

Dwedodd Meic Povey:

Decini bod llu o ddramodwyr (ynghyd â bywyd bob dydd) yn dylanwadu’r isymwybod. Y dylanwad mwyaf arnaf ydi myfi fy hun³⁴⁸

Fy mwriad yn y traethawd hwn yw archwilio i ba raddau y mae’r datganiad uchod yn wir, ond gan roi ystyriaeth i ddylanwadau eraill a fu ar y dramodydd yn ogystal:

Rwyf yn edmygu gwaith sawl dramodydd: Pinter, Ionesco, ‘Wil Sam’ Jones, Dennis Potter, Edward Albee a Saunders Lewis, i enwi ond rhai.³⁴⁹

Ar lwyfan theatr Y Gegin yng Nghricieth y daeth Meic Povey o dan ddylanwad William Samuel Jones am y tro cyntaf, ac yn nhyb Roger Owen, roedd Wil Sam yn un elfen a oedd ‘yn sail i gamp Cwmni’r Gegin’.³⁵⁰ Yno y cafodd Meic Povey ei brofiad cyntaf o berfformio mewn drama lwyfan – drama o eiddo W. S. Jones – *Y Fainc*:

A bod yn onest, ar y pryd, tra oeddwn i’n byw trwy’r profiad, roeddwn i’n gwbl anymwybodol fy mod yn rhan o rywbeth cynhyrfus, a chwyldroadol i raddau. Yn bedair ar ddeg oed (nes oeddwn i’n ddwy ar bymtheg), tipyn o hwyl oedd o a toedd neb yn ymgorffori’r hwyl hwnnw yn fwy na Wil Sam ... erys y ffaith mai cof plentyn a hogyn ifanc s’gin i ohono fo. Neu dyna pryd wnaeth o fwy o argraff arna i – nid fel un o ddramodwyr pwysicaf yr iaith a gwladgarwr heb ei ail ond fel rhywun oedd yn sbort i fod yn ei gwmi.³⁵¹

I Meic Povey, fel Wil Sam yntau, y mae greddf naturiol awdur i ysgrifennu megis galwedigaeth gan fod ysgrifennu yn ‘rhywbeth sydd yng nghyfansoddiad rhywun’.³⁵² Medd Meic Povey, ‘fedrwch chi ddim dysgu neb i ’sgwennu mwy nag y medrwch chi ddysgu rhywun i actio’.³⁵³ Mae’n rhan anhepgor o fodolaeth pob awdur:

³⁴⁷ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 41.

³⁴⁸ Meic Povey, yn Jones, ‘Holi Meic Povey’, yn Povey, *Perthyn*, t. 10.

³⁴⁹ Meic Povey, yn Jones, ‘Holi Meic Povey’, yn Povey, *Perthyn*, t. 10.

³⁵⁰ Owen, ‘Theatr y Gegin a Cwmni’r Gegin, Cricieth’, yn Davies (gol.), *Llwyfannau Lleol*, t. 95.

³⁵¹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 40.

³⁵² W. S. Jones yn ‘Holi Wil Sam – Mecanicia a llenyddda’, *Barn*, 371/372 (Rhagfyr 1993 / Ionawr 1994), 70.

³⁵³ Meic Povey, yn ‘Sioe Gelf’, *Cwmni Da* (28 Chwefror 1997).

Fedrwch chi ddim dysgu rhywun i sgwennu ... Rhaid cael tân yn y bogel. Roedd o ynddo i erioed. Roeddwn i'n sgwennu barddoniaeth yn ifanc ac yn fuan wedyn daeth y diddordeb i sgwennu i'r llwyfan.³⁵⁴

Nid yw'n syndod felly iddo nodi ei fod yn 'teimlo'n anniddig iawn os nad ydw i wedi ysgrifennu dim mewn diwrnod'.³⁵⁵ Yn wir, yn ôl Bethan Jones, mae cryfder Meic Povey fel dramodydd 'yn y geiriau',³⁵⁶ a dywed y dramodydd ei hun mai'r ddeialog yw'r elfen bwysicaf o fewn unrhyw ddrama yn ei dyb ef a'r 'unig ran greadigol o'r broses sy'n rhoi mwynhad'³⁵⁷ iddo. Dywed mai prif arf unrhyw ddramodydd yw ei glust a'i allu i sylwi ar iaith ac ieithwedd pobl o'u cwmpas ac yn hynny o beth ymdebyga i Harold Pinter:

Pinter undoubtedly has an uncannily accurate ear for the linguistic solecisms of the English vernacular spoken by ordinary people.³⁵⁸

Nid ar chwarae bach felly y mynegodd Meic Povey ei edmygedd o Wil Sam fel dramodydd, ac yn arbennig felly fel deialogwr, trwy ddweud mai 'fo ydi'r deialogwr gorau yng Nghymru, does dim dwywaith am hynny'.³⁵⁹ Awgryma Manon Elis Jones '[e]fallai mai wrth sylwi ar arddull hamddenol a realistig Wil Sam y daeth Povey'n ddramodydd mor gelfydd ei hun'.³⁶⁰ Er iddo gydnabod ei fod yn 'sgwennu yn wahanol i bawb arall, yn sicr o ran fy neialog',³⁶¹ wrth gymaru ieithwedd orliwiedig naturiol gweithiau Wil Sam law yn llaw â deialog cymeriadau Meic Povey, ni ellir gwadu effaith dylanwad y gŵr hynaws hwn ar y llanc ifanc pedair ar ddeg mlwydd oed ar lwyfan Y Gegin yn ddiweddarach yn ei yrfa fel dramodydd:

O ran ieithwedd, wrth gwrs fod Wil Sam wedi bod yn ddylanwad mawr, ond nes i 'rïoed drïo' i efelychu fo fel dramodydd.³⁶²

Credai Wil Sam 'fod perthynas artist â'i fro ei hun yn allweddol bwysig i'w einioes ac i'w gynnyrch',³⁶³ ac wrth astudio cynnyrch Meic Povey yntau, gwelir dylanwad ardal ei fagwraeth yn Eryri, ac yn ddiweddarach yn Eifionydd, yn gryf ar ei weithiau yntau:

³⁵⁴ Meic Povey, yn England, 'Dwy ochr i'r un geiniog: Portread o Meic Povey', *Golwg*, 26.

³⁵⁵ Dienw, 'Cwrdd â'r awdur toreithiog: Drama rymus gan Meic Povey', *Y Cymro*, 14.

³⁵⁶ Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

³⁵⁷ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 170.

³⁵⁸ Martin Esslin, 'Language and Silence', *Pinter: A Study of His Plays* (London, 1970), t. 210.

³⁵⁹ Meic Povey, yn Gerwyn Wiliams, 'Dyn y Deryn sy'n Perthyn i'r Cadfridog', *Barn*, 318/319 (Gorffennaf/Awst 1989), 22.

³⁶⁰ Jones, 'Gweld Llais a Chlywed Llun', t. 9.

³⁶¹ Roberts, 'Y Ddrama Gomisiwn', *Barn*, 11.

³⁶² Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

Yn ‘rhythma’ sgwrs yr actorion y ceid gogoniant y theatr Gymraeg ym marn Wil Sam, yn y siarad egnïol, plwyfol hwnnw a glywid trwy Gymru Gymraeg benbaladr, ar y stryd mewn tref a phentref ac yn y wlad rhwng llwyn a pherth – yr iaith y ceisiodd yntau, drwy gydol ei yrfa, ei chymhwyso ar gyfer y llwyfan.³⁶⁴

Pan berfformiwyd drama gyntaf Meic Povey, *Y Cadfridog*, rhyfeddwyd at ba ‘mor rhwydd, naturiol, anfarddonol, [ac] anllenyddol,’³⁶⁵ oedd ieithwedd y ddeialog gyda ‘[d]im o’r brawddegau ymdrechgar a’r cymalau-llond-ceg sy’n wendid cyffredin ar lwyfannau Cymru’³⁶⁶ – rhinwedd gweddol brin yn y 1970au, ar wahân i weithiau Wil Sam a Gwenlyn Parry. Dywed Gerwyn Wiliams fod adleisiau o’i weithiau ef i’w clywed yn ‘iaith fyw ac idiomatig’³⁶⁷ Meic Povey:

ond diamau ei fod yn deg dweud nad oes neb wedi rhoi mwy o ysbrydoliaeth i Michael na’r athrylith hwnnw o’i gynefin, Wil Sam. Y mae dialog Wil Sam mor naturiol a syml yn fynych fel y gellir twyllo prentis mai peth rhwydd yw ei efelychu, ond nid efelychu a wna Michael Povey, ond astudio nes deall y dechneg ac y mae’n gryn dipyn o fardd hefyd nes bod ei ddialog yntau yn rhedeg fel y dŵr yn afon Dwyfor.³⁶⁸

Iaith lafar, naturiol ardal ei fagwraeth a glywir gan y mwyafrif o gymeriadau Meic Povey, fel Wil Sam yntau, gan mai yn ei dafodiaith naturiol yn mae’n ‘lecio ’sgwennu’.³⁶⁹ Ystyrier yr enghreifftiau isod o weithiau Wil Sam a Meic Povey:

I Bant y Bwgan:

TOMOS: Rhyngoch chi a fi ... mi rydw i’n llawiach efo Wiliams a Robat Rhos Bach yma. Mi fyddai’n cael dwad yma i saethu amser fynna i, a thrwy’r rhyfel mi fyddwn yn cael pwys o fenyn yma bob wsnos. Talu amdano fo wrth reswm ... menynd da oedd o hefyd a chysidro nad oedd yma ddim pwt o ddynes. Dagrau fel barrug ar ei wyneb o. Mi fasa’r hen bresiar yma wedi cael y gora arna i ers talwm oni bai am fenyn Robat a Wiliams.³⁷⁰

³⁶³ Owen, ‘Theatr y Gegin a Cwmni’r Gegin, Cricieth’, yn Davies (gol.), *Llwyfannau Lleol*, t. 98.

³⁶⁴ Owen, ‘Theatr y Gegin a Cwmni’r Gegin, Cricieth’, yn Davies (gol.), *Llwyfannau Lleol*, t. 114.

³⁶⁵ Dienw (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³⁶⁶ Eirian, ‘Y Cadfridog’, *Y Faner*, 12.

³⁶⁷ Wiliams, ‘Dyn y Deryn sy’n Perthyn i’r Cadfridog’, *Barn*, 22.

³⁶⁸ Dienw (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³⁶⁹ Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

³⁷⁰ W. S. Jones, ‘I Blant y Bwgan’, *Pum Drama Fer* (Aberystwyth, 1963), tt. 31-2.

Yn Debyg Iawn i Ti a Fi:

Elin: Sôn amdanat ti. Deud fel ma' newid trefn yn medru dy ypsetio ditha' wethia'. Llynadd ddwytha, pan newidion nhw 'i shifft o, mi a'th yn gacwn gwyllt, fel tincar hyd y fan 'ma am wythnosa', methu'n glir â setlo, drysu'n lân ...

Glyn: ...Nag oeddwn! ...

Olwen: ...Cadw reiat; ffagio; tynnu llanast; gneud dryga' – mi laddodd Mam druan.³⁷¹

Hyd yn oed yn y ddrama Saesneg ei hiaith o eiddo Meic Povey, *Indian Country*, 'mae patrymau'r iaith yn dal yno rhywsut',³⁷² – mae presenoldeb ieithwedd a thafodiaith ardal ei gynefin yn rhan anhepgor o'r ddrama:

Generally speaking, I'm not really interested in writing in English for the stage, and that's because I'm a Welsh-speaking Welshman: I write in Welsh, and the language and dialect are integral parts of my plans. In *Indian Country*, two of the characters are Welsh-speaking, and I can empathise with them linguistically, so in that context this play is no different from my other work.³⁷³

Gyda'r iaith a'r dafodiaith yn chwarae rhan ganolog yn niwylliant, themâu a chymeriadau'r ddrama, pam, felly, y dewisodd y dramodydd droi at y Saesneg i'w chyflwyno, yn enwedig o gofio bod elfennau hynod hunangofiannol i'r ddrama? Ceisir cynnig ateb i'r cwestiwn hwn isod.

Yn ail i ddifyrru, ceisia Meic Povey addysgu ei gynulleidfa trwy gyfrwng ei ddramâu. Dywed fod 'Cymru yn gyffredinol yn dal i gael ei phortreadu fel ystrydeb y tu allan i Glawdd Offa'.³⁷⁴ Un o'r ystrydebau hyn yw bod pob Cymro yn arddel acen ddeheuol:

Bob tro y mae Cymreictod Saesneg yn cael ei bortreadu y tu allan i Gymru, deheuol ydi o ... unrhyw Gymreictod ac ydach chi'n cael 'Look you, boyo' a'r meinars yn canu yn y bath ... Dyna sut y mae Saeson yn gweld Cymry.³⁷⁵

Felly trwy ysgrifennu drama a oedd mor ogleddol ym mhob agwedd ohoni trwy gyfrwng y Saesneg, gallai addysgu cynulleidfa ddi-Gymraeg '[f]od yna bobl yn byw yng ngogledd

³⁷¹ Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, tt. 38-9.

³⁷² Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

³⁷³ Meic Povey, yn Llewelyn, 'Speaking Two Spokes', *New Welsh Review*, 52.

³⁷⁴ Meic Povey, yn Lewis, 'Yr Enwog Michael Povey' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³⁷⁵ Meic Povey, yn Rhian Price, 'Pan ymwelodd Ingrid Bergman ...', *Golwg*, 15/33 (1 Mai 2003), 22.

Cymru ac mae gynno nhw iaith a ffordd o fyw ac acen wahanol'.³⁷⁶ Eironig ddigon yw'r sylw uchod o ystyried i Meic Povey mewn cyfweliad gyda Gerwyn Williams ym 1989, amddiffyn ei benderfyniad i arddel acen ddeheuol wrth bortreadu cymeriad Jones, yn y gyfres Saesneg, *Minder* rhwng 1981-88:

gwaith oedd o i miac rwy'n mwynhau ei wneud o ... Adloniant ydio – dydi-o'n ddim mwy na hynny ... 'Stage Welshman' ydi Jones, ac mae pawb arall yn y gyfres yn cael yr un driniaeth ... Mae pawb yn cael eu portreadu yn ôl rhagfarn y Saeson yn erbyn pobol eraill. Un ai yr oedd yn rhaid derbyn hynny a'i wneud o, neu beidio a'i wneud o. Dydw i ddim yn groen-denau – fe welais i beth oedd y job, fe'i gwnes i hi, a does gen i ddim cydwybod o gwbl ynglŷn â'r peth.³⁷⁷

Fodd bynnag, wrth edrych yn ôl ar y cyfnod hwnnw, ymddengys i'r dramodydd newid ei feddwl gan iddo ddweud, 'I would think very hard before playing another Welshman as seen through the eyes of an English writer.'³⁷⁸

Cred Meic Povey fod 'sŵn ac ynganiad gair yn hollbwysig wrth awgrymu cymeriad'.³⁷⁹ Gan mai dramâu gogleddol yw'r rhan helaethaf ohonynt, '[m]ae strwythur a rhythm ei ddeialog mor gryf ac mor naturiol, os oes actor yn colli gair neu bwyslais mae'r ystyr yn newid'.³⁸⁰ Yn wir, dywed Bethan Jones na all actor aralleirio'i sgrïptiau gan fod rhythmau y ddeialog yn chwarae rhan mor bwysig yng nghyfanwaith y ddrama:

Dwi'n meddwl bod rhythmau ei ddeialog o heb eu hail.³⁸¹

Nid yw'n syndod, felly, fod nifer o actorion, megis Stewart Jones, Beryl Williams, Bryn Fôn, Gwenno Ellis Hodgkins, Betsan Llwyd, Maldwyn John, Catherine Aran a Merfyn Pierce Jones, wedi actio mewn sawl drama o'i eiddo, gan eu bod yn gyfarwydd ag ieithwedd y dramodydd ac yn dod 'o'r un math o gefndir â Meic ei hun'.³⁸²

³⁷⁶ Meic Povey, yn Rhian Price, 'Pan ymwelodd Ingrid Bergman ...', *Golwg*, 22.

³⁷⁷ Williams, 'Dyn y Deryn sy'n Perthyn i'r Cadfridog', *Barn*, 19.

³⁷⁸ Meic Povey, yn 'Life after Arfur' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³⁷⁹ Meic Povey, yn 'Cyfweliad â Meical Povey, Medi, 1993', yn Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 18.

³⁸⁰ Dienw, 'Hwb: Dysgu Digidol i Gymru', <<http://www.ngfl-cymru.org.uk/echelgais/elwa/content.asp?lo=1.3.2.8.1>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

³⁸¹ Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

³⁸² Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

Mae'n mynd yn gynyddol anoddach, meddai, i gael hyd i actorion Cymraeg sy'n abl i lefau'r ddeialog y mae'n chwysu cymaint uwch ei phen gan fod cynifer o actorion Cymraeg heddiw heb y cefndir a'r adnoddau ieithyddol i wneud hynny.³⁸³

Mae'r ffaith i Meic Povey ei hun weithio fel actor am flynyddoedd o gymorth iddo wrth ddeialogi, gan ei fod yn cyfansoddi, nid yn unig o safbwynt dramodydd, ond hefyd o safbwynt actor, gan sicrhau bod rhythmau'r brawddeg yn effeithiol ar lafar yn ogystal ag ar bapur:

Rydw i'n credu na fasa dim gwahaniaeth o gwbl o ran cymeriadu petawn i wedi bod yn glown yn y syrcais at hynny, ond o ran deialogi, rydw i'n siŵr fod actio wedi bod yn help. Pan ydw i'n ysgrifennu rydw i'n actio'r rhan allan fy hun. Rydw i'n mynd dros y golygfeydd yn uchel, yn eu hactio nhw, achos mae fy nghlust i fel actor yn gallu dweud wrtha'i beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio – y rhythmau a phatrymau'r ddeialog ac yn y blaen.³⁸⁴

Y mae nifer o actorion sydd wedi portreadu ei gymeriadau wedi tynnu sylw at naturioldeb deialogi Meic Povey ac yn arbennig felly at rythmau'r siarad. Daeth Beryl Williams â nifer o gymeriadau'r dramâu yn fyw o flaen ein llygaid, ar lwyfan ac ar deledu, ac enillodd ei phortread o Nel yn y ddrama deledu o'r un enw wobr BAFTA Cymru iddi ym1991:

Mae symylrwydd a gonestrwydd ei sgwennu yn apelio ...[Mae] rhythmau ei frawddegau yn gwneud ei waith yn ddiymdrech i'w ddysgu a'i gofio ... [Caf] rhyw deimlad od mai y fi sydd wedi creu y geiriau, ac nid Meical.³⁸⁵

Y mae cynildeb '[d]eialog di-drimings'³⁸⁶ Meic Povey yn un o brif rinweddau ei weithiau. Nid yw'n gwastraffu geiriau. Y mae pob gair yn gyforiog o ystyr ac yn atgyfnerthu'r cymeriadau a themâu'r gweithiau. Yn wir, mae ei feistrolaeth ar ddeialogi yn estyn trwy ei holl weithiau, beth bynnag fo'r dafodiaith, ys dywed yr actor Alun ap Brinley am ieithwedd y ddrama *Hen Bobl Mewn Ceir*:

Mae'n sgrifennu'n gymalog iawn, fel chwarae darn *staccato*. Mae nhw fel ymarferiadau tynn iawn, yn mynnu bod rhywun yn chwarae pob nodyn ... Mae e'n

³⁸³ Baines, 'Pethau Poveyaidd',

<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=166:pethau-poveyaidd&catid=68:hydref&Itemid=293>.

³⁸⁴ Meic Povey, yn Davies, 'Astudiaeth o ddramâu teledu unigol Meic Povey', tt. 74-5.

³⁸⁵ Beryl Williams, yn 'Holi Beryl Williams (Chwefror 1997)', yn Jones. 'Gweld Llais a Chlywed Llun', t. 12.

³⁸⁶ Iwan England, 'Iwan England a'r dramâu' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

siarad yn gynnwyl iawn, a falle bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y ddeialog. Does dim lle ar gyfer bloneg.³⁸⁷

Daeth y sbardun i ysgrifennu *Hen Bobl Mewn Ceir* o ymweliad Meic Povey â pherthynas yng nghyfraith iddo mewn cartref henoed yn Llangefni, Ynys Môn, ac nid felly, fel y dywed, 'o unrhyw dreialon personol a ddaeth i'm rhan'.³⁸⁸ Dau gymeriad yn gweithio mewn cartref henoed yng Nghlydach a geir yn *Hen Bobl Mewn Ceir*, 'sy'n credu bod eu bywydau yn fwy truenus na'r cleifion llesg sydd dan eu gofal'.³⁸⁹ Y mae Roy, a bortreadwyd gan Alun ap Brinley, yn gweithio fel nyrs yn yr hosbis, ac oherwydd gwaeledd un o'i gydweithwyr, cyfarfu â Ceri a ddaw yno i weithio fel nyrs gynorthwyol. 'Wrth i'r ddau ddod i adnabod ei gilydd, mae'n amlwg fod y ddau'n gaeth i'w sefyllfaoedd'.³⁹⁰ Perfformiwyd y ddrama gan gwmi Sgript Cymru yn 2006 gydag Elen Bowman yn cyfarwyddo:

Tydi gofalu am fodau oedrannus sy'n aros y trê olaf ddim yn nefoedd, yn enwedig pan does fawr gwell yn aros amdanoch chi adref. Mae Roy a Ceri yn crefu rhywbeth gwell, rhywle neis, cyfeillgarwch, cwtsh. Yng nghanol rhialtwch gofalu am bobl mewn oed, mam alcoholig a gŵr anffyddlon oes modd i'r ddau anghofio'r cyfan a chipio'r cyfle i ddianc?³⁹¹

Gŵr trigain oed sy'n byw gyda'i fam alcoholig, fethedig yw Roy. Y mae, ar hyd ei oes, wedi gwadu ei rywioldeb ac yn breuddwydio am fywyd gwell. Gwraig oddeutu deugain mlwydd oed sy'n 'anhapus yn ei phriodas ddi-blant'³⁹² a di-ryw gyda'i gŵr anffyddlon yw Ceri, a bortreadwyd gan Eiry Hughes:

Fel hen bobl mewn ceir, profi'r byd o bell yw hanes Roy a Ceri: ef yn breuddwydio am gariad coll; hithau'n gaeth i un weithred feddw. Ond pan gyfarfu'r ddau rhy'r galon naid, a daw gobaith annisgwyl am serch.³⁹³

³⁸⁷ Alun ap Brinley, yn Non Tudur, 'Y ddrama galed i'w gwyllo', *Golwg*, 19/9 (2 Tachwedd 2006), 25.

³⁸⁸ Meic Povey, 'Rhagair', *Hen Bobl Mewn Ceir* (Caerdydd, 2006), t. xi.

³⁸⁹ Llewelyn, 'Hen Bobl Mewn Ceir: Skoda ynteu Ferrari?', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/henbobol.shtml>>.

³⁹⁰ Paul Griffiths, 'Colofn Paul Griffiths yn Y Cymro', <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=2128>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

³⁹¹ Dienw, "'Happy Days Bois Bach!'", <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=1949>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

³⁹² Tudur, 'Povey a drama'r De', *Golwg*, 26.

³⁹³ Meic Povey, *Hen Bobl Mewn Ceir* (Caerdydd, 2006), t. clawr ôl.

Ond, ar ddiwedd y ddrama, ni lywydda eu perthynas i gynnig unrhyw atebion nag unrhyw lun o ystyr i'w bywydau. Dyma '[d]dau bechadur yn ceisio gwneud synnwyr o'r poitsh, fel mae'n rhaid i ni i gyd'.³⁹⁴

Hen Bobl Mewn Ceir yw'r unig ddrama o eiddo'r dramodydd sydd wedi ei hysgrifennu'n gyfan gwbl mewn tafodiaith ddeheuol. Y mae'r ddrama hon yn enghraifft o ymgais ar ran y dramodydd i arbrofi gyda'i gyfrwng a'i arddulliau (gor-gyfarwydd, efallai), er mwyn sicrhau ffresni ac elfen o newydd-deb yn ei waith:

Ro'n i'n teimlo mod i ella yn rhy gyfforddus â'r ieithwedd o'n i'n ei ddefnyddio. Rhag ofn troi'n fy unfan o fewn lleoliad a theip o sefyllfaoedd. Ro'n i eisie mwy o sialens i fi fy hun.³⁹⁵

Ond ac yntau wedi byw yng Nghaerdydd am y rhan helaethaf o'i fywyd ac yn adnabod nifer o bobl a hanai o ardal Abertawe – fel cymeriadau ei ddrama – daeth y dasg o ddeialogi'n rhwyddach nag y tybiai. Yn wir, pwysig yw rhoi cydnabyddiaeth deilwng i'r gweithiau hynny nad ydynt, drwyddynt draw, yn arddel acen Gymreig ogleddol Eifionydd:

Ac mae hynny'n dod â ni at un arall o'r pethau sy'n ei yrru fel dramodydd, sef ei ddiddordeb ysol mewn iaith ac mewn tafodiaith. Boed hi wedi'i lleoli yn y gogledd trefol neu wledig, neu mewn rhannau eraill o'r wlad ... mae'n gweld pob drama fel cyfle i arbrofi'n ieithyddol.³⁹⁶

Cofier yma am y cymeriadau deheuol, dinesig ac estron hynny a gyflwynir mewn dramâu 'gogleddol' er mwyn amlygu'r thema o wrthdaro rhwng y de a'r gogledd, megis Steff yn *Wyneb yn Wyneb*, Rhydian yn *Bonansa!*, a Mared yn *Tyner yw'r Lleuad Heno*, yn ogystal â chymeriadau'r ddrama *Sylw* a gyfansoddwyd ar gyfer cast penodol ac y ceir ynddi '[g]lytwaith o dafodieithoedd'³⁹⁷ o ganlyniad.

Dywed Meic Povey mai un gwendid cyffredin mewn sgriptiau cyfoes yw bod pob cymeriad yn dueddol o siarad yn union yr un fath:

³⁹⁴ Povey, 'Rhagair', *Hen Bobl Mewn Ceir*, t. xi.

³⁹⁵ Meic Povey, yn Tudur, 'Povey a drama'r De', *Golwg*, 26

³⁹⁶ Baines, 'Pethau Poveyaidd',

<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=166:pethau-poveyaidd&catid=68:hydref&Itemid=293>.

³⁹⁷ Price, 'Pawb eisiau Sylw' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Mae gan yr awdur ddawn brin i fathu deialog mewn iaith gyffredin sy'n gweddu'n union i bob cymeriad.³⁹⁸

Yn ôl Stewart Jones, a berfformiodd mewn nifer o weithiau a gyfansoddwyd gan Meic Povey, megis *Y Cadfridog*, *Gwaed Oer*, y dramâu teledu *Sul y Blodau* a *Nel* a'r gyfres deledu *Talcen Caled*, mae Meic Povey yn ddramodydd sy'n 'meddu ar ddawn i roi geiriau i gymeriad sydd yn berthnasol i'r cymeriad hwnnw, a'r cymeriad hwnnw'n unig':³⁹⁹

STEFF: Grindwch, sdim yn bod yrno fe rili. Ffliw trwm, 'na'i gyd, Mrs Davies! Gorffwys am gwpwl o fisoedd nawr a fydd e'n reit gewch chi weld.
LAURA: Ydach chi'n mynd i fod yma cyhyd â hynny?
STEFF: Dim ond os yw e fy moyn i ...
LAURA: ... Nhŷ i ydi o. 'Nghartra i a Tom.
STEFF: Fair enough. Lan i'r ddou o'chi te.⁴⁰⁰

Ystyrier yma, hefyd, yr ystod o ieithweddau a gyflwynir gan gymeriadau *Tair*, er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt:

Y FERCH: Sgin i ffyc ol i wisgo!
Y FAM: Iaith!
Y NAIN: (*galw*) Lle ma' fy weirles i?!
Y FAM: Fyny'ch tin chi os na watsiwch chi.⁴⁰¹

Dywedodd Wil Sam mai 'bod ymysg pobl sy'n bwysig i mi. Mae rhywun yn cymryd ffordd o ddeud a geiria pobl ac yn eu *dwyn* nhw, does yna ddim gair arall amdano fo'.⁴⁰² Dyna paham y cyfeiriodd, yn hynod wylaidd, ato'i hun fel copïwr yn hytrach nag awdur, gan mai'r hyn a wnâi oedd cofnodi sgorsiau bob dydd trigolion ei gynefin. Dyma dechneg a oedd yn nodweddiadol o'r dramodydd Gwyddelig, John Millington Synge (1871), a oedd hefyd yn adnabyddus am ei ysgrifennu realaidd a ymwnaï â bywydau'r 'werin'. Dywedodd:

... no drama can grow out of anything other than the fundamental realities of life.⁴⁰³

³⁹⁸ Owen, 'Heb deitl, heb ddrama' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

³⁹⁹ Stewart Jones, yn 'Holi Stewart Jones (Hydref 1996)', yn Jones, 'Gweld Llais a Chlywed Llun', t. 13.

⁴⁰⁰ Meic Povey, *Wyneb yn Wyneb* (Caerdydd, 1995), tt. 38-9.

⁴⁰¹ Meic Povey, *Tair* (Caerdydd, 1999), t. 35.

⁴⁰² W. S. Jones, yn 'Holi Wil Sam – Mecanicia a llenyddda', *Barn*, 71.

⁴⁰³ David H. Greene, Edward M. Stephens, 'The Aran Islands', *J. M. Synge 1871-1909: Revised Edition* (New York, 1989), t. 157.

Wedi cyfnod anghynhyrchiol a barodd bum mlynedd, penderfynodd y llenor J. M. Synge ymweld â'r Ynys Aran i gael ysbrydoliaeth i ysgrifennu.

If Aran could not provide him with material for journalistic pieces, it could at least offer him the opportunity to live with Irish speakers and carry on his study of Gaelic.⁴⁰⁴

Roedd ganddo eisoes ddiddordeb mewn iaith a lleferydd pobl 'gyffredin' a chredai fod llawer o weithiau Shakespeare wedi eu hysbrydoli gan ddywediadau pob dydd y cyfnod. Credai y gallai ef ganfod yr un ysbrydoliaeth yn iaith bob dydd y werin Wyddeleg:

Synge listed in his notebook the words and idiomatic expressions which he was hearing for the first time ... "I feel more every day that it is criminal to deprive these people of their language and with it the unwritten literature which is still as full and distinguished as in any European people."

He was interested in the people and in every aspect of their lives ... and for this he developed quickly a scrupulous regard, and unerring ear and eye, for the actualities of the life he was observing.⁴⁰⁵

Enghraifft o lwyddiant y dechneg uchod a ddefnyddia W. S. Jones o 'ddwyn' nodweddion ieithyddol pobl o'i gwmpas oedd poblogrwydd y cymeriad teledu lliwgar hwnnw, Ifas y Tryc. Drama radio o eiddo Wil Sam oedd *Y Dyn Swllt* ac fe'i troswyd ar gyfer y teledu a'r llwyfan. Pan ofynnwyd iddo gan Jack Williams, cynhyrhydd y rhaglen adloniant ysgafn, *Stiwedio B*, i greu cymeriad newydd ar gyfer y rhaglen, dywedodd ei fod eisiau '[r]hywbeth tebyg i'r Dyn Swllt',⁴⁰⁶ a'r canlyniad oedd cymeriad Ifas. Roedd y Dyn Swllt a'r 'Dyn Tryc'⁴⁰⁷ ill dau yn ganlyniad i ddiddordeb Wil Sam mewn pobl:

Mi gofis i am ryw hen fachgen rownd Llan 'ma, a ro'n i'n dynwarad hwn i bob pwrpas wrth ei sgwennu o.⁴⁰⁸

Pwysig nodi nad bratiaith a olygir wrth iaith naturiol. Nid techneg syml o gofnodi iaith lafar yn union fel ag y mae hi yn unig yw'r broses o ddeialogi i Meic Povey fel Wil Sam yntau, ond yn hytach ceisio cyfleu iaith lafar. Nid dramâu gair am air yw eu gweithiau gan fod elfen greadigol gref yn perthyn i'r ddeialog wrth i'r dramodwyr olygu, tocio a thynhau iaith lafar

⁴⁰⁴ Greene, Stephens, 'The Aran Islands', *J. M. Synge 1871-1909*, t. 80.

⁴⁰⁵ Greene, Stephens, 'The Aran Islands', *J. M. Synge 1871-1909*, t. 84.

⁴⁰⁶ W. S. Jones, yn dyfynnu Jack Williams yn 'Holi Wil Sam – Mecanica a llenyddia', *Barn*, 69.

⁴⁰⁷ W. S. Jones, yn 'Holi Wil Sam – Mecanica a llenyddia', *Barn*, 371/372 (Rhagfyr 1993 / Ionawr 1994), 70.

⁴⁰⁸ W. S. Jones, yn 'Holi Wil Sam – Mecanica a llenyddia', *Barn*, 70.

bob dydd. Cred Meic Povey mai diddanu yw ei swyddogaeth fel dramodydd, ac er bod ‘dirywiad ieithyddol’⁴⁰⁹ yn rhywbeth sy’n peri poendod iddo, nid ‘achub yr iaith’⁴¹⁰ yw ei fwriad wrth ysgrifennu:

Dwi’n anwybyddu dirywiad iaith ... Wrth sgwennu deialog, dydi rhywun ddim yn atgynhyrchu dirywiad iaith, yn atgynhyrchu bratiaith yn union fel mae o, ond yn hytrach yn trio dod o hyd i ryw ffordd o’i adlewyrchu o⁴¹¹

Wrth gwrs, ceir eithriadau yn ei weithiau. Gan mai dyfodol yr iaith yng nghefn gwlad Cymru yw un o brif themâu’r ddrama *Chwara Plant*, wrth i’r ddrama fynd rhagddi, y mae’r iaith yn fwriadol yn cynnwys mwy a mwy o ddefnydd o’r Saesneg a bratiaith er mwyn adlewyrchu dirywiad safon yr iaith yn ogystal â’r dirywiad yn y defnydd o’r Gymraeg mewn sgwrs o ddydd i ddydd.

BETI: Go brin, mae o’n edrach yn ddyn reit rhesymol i mi. Rwan ta, synnwn i ddim bod ’na rei o’r tai cownsil ’na yn ’i plith nhw – Jimmy an’ Janet ecscliwdded, wrth reswm – gweitiad am fynglo ma’ nhw. Naci, y niw brid, Mrs. L. J. – y riff raff sydd wedi powlio ’lawr y lon newydd ’ma, sydd wedi inter pethma hefo’n genod ni a setlo lawr ’ma wedyn. Lets ffes ut, ’dydi’r teip yna ddim yn malio botwm am dradisiyns ni’r Cymry, nach’dyn?⁴¹²

I’r un pwrpas y cynhwyswyd bratiaith fwriadol cymeriad y Ferch yn *Tair* yn ogystal â chymeriad Emma yn *Tyner yw’r Lleud Heno*, gyda’u ‘Chill Out’⁴¹³, ‘God knows’⁴¹⁴, ‘Thanks’⁴¹⁵, ‘No way’⁴¹⁶, ‘Leave it’⁴¹⁷, ‘Whatever!’⁴¹⁸ a’u ‘God, get a life!’⁴¹⁹. Y mae’r defnydd o wahanol ieithweddau hefyd yn adlewyrchiad o’r diffyg cyfathrebu rhwng cymeriadau’r gweithiau a’r ffaith nad ydynt yn medru deall ei gilydd, yn llythrennol felly.

⁴⁰⁹ Baines, ‘Pethau Poveyaidd’,
<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=166:pethau-poveyaidd&catid=68:hydref&Itemid=293>.

⁴¹⁰ Baines, ‘Pethau Poveyaidd’,
<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=166:pethau-poveyaidd&catid=68:hydref&Itemid=293>.

⁴¹¹ Meic Povey, yn Baines, ‘Pethau Poveyaidd’,
<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=166:pethau-poveyaidd&catid=68:hydref&Itemid=293>.

⁴¹² Povey, *Chwara Plant*, t. 53.

⁴¹³ Povey, *Tair*, t. 27.

⁴¹⁴ Povey, *Tair*, t. 34.

⁴¹⁵ Povey, *Tair*, t. 19.

⁴¹⁶ Povey, *Tair*, t. 44.

⁴¹⁷ Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, t. 61.

⁴¹⁸ Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, t. 75.

⁴¹⁹ Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, t. 21.

Ond nid gorchwyl diymdrech yw ymddangos, ar yr wyneb, yn ddiymdrech; ‘Camp y crefftwr yw cuddio’r ymdrech.’⁴²⁰ Ys dywed Wil Sam, ‘fasa waeth ichi sgwennu rhestr o rifa teliffon fel arall’.⁴²¹ Yn hytrach, yr hyn a wneir yw ‘cymryd pobl gyffredin a phetha bob dydd a’u gwneud nhw’n wahanol, yn anghyffredin. Mi ddywedodd rhywun wrth Shaw, gan gyfeirio at ei waith o, “Nid fela mae bywyd.” Mi atebodd yntau rywbeth fel hyn: “Wel naci gobeithio, neu fysa pobl ddim isio talu swllt i ddod i weld fy mhetha i.”’⁴²² Y mae’r dyfyniad isod o eiddo Meic Povey yn ategu geiriau damcaniaethol Shaw a Wil Sam yntau:

Mae ’na ffordd i ysgrifennu yn Gymraeg sy’n ymddangos yn gwbl naturiol. Pan mae pobol yn dweud bod iaith bob dydd mewn drama, ia, iaith bob dydd ydi hi ond mae ’na ffordd o sgwennu’r iaith honno fel nad ydi hi’n iaith bob dydd go-iawn; dyna lle mae crefft sgwennu yn dod i mewn iddi.⁴²³

Pam, felly, y rhydd Meic Povey, fel George Bernard Shaw a Wil Sam o’i flaen, gymaint o bwyslais ar naturioldeb eu deialog?

Yn ei adolygiad o gynhyrchiad Cwmni Theatr Bara Caws o *Chwara Plant*, dywed Marged Dafydd fod y profiad o wyllo’r perfformiad yn ‘brifo am fod yr iaith yn gyfarwydd. Weithiau’n sathredig, ond yn gynnill felly, heb ferwino clustiau neb. Yr hyn sydd yn torri i’r byw yw’r hyn a ddywedir. Mae’r dramodydd wedi clywed a gwranddo ar iaith pob-dydd pobl Gwynedd’.⁴²⁴ Y mae’r defnydd yma o iaith pob dydd sydd mor gyfarwydd i gynulleidfa yn gwneud y sefyllfaoedd a geir yn y dramâu yn fwy real ac yn fwy perthnasol iddynt. Yn ei erthygl ar *Y Cadfridog*, dywedodd Rhodri Williams, ‘gallai’r ddrama’n hawdd fod wedi methu â tharo deuddeg oni bai am natur y ddeialog – deialog gwbl naturiol sy’n fodd i’n tynnu ni’r gynulleidfa i ganol y ddrama yn hytrach na’n gwahanu ni a’n cadw ni hyd braich o’r chwarae’.⁴²⁵ Mae’r iaith yn cau’r agendor rhwng realiti’r gynulleidfa a ffuglen y llwyfan. Y mae’n haws i gynulleidfa uniaethu â chymeriadau sy’n rhannu’r un ieithwedd â hwy, a thrwy uniaethu a malio am y cymeriadau y mae neges y ddrama’n taro’n galetach. Mae’n iaith a leferir gan gymeriadau ‘cyffredin’ sy’n apelio at gynulleidfa ‘gyffredin’ – at y mwyafrif, a hwy, yn ôl Siân Rhisiart, yw cynulleidfa darged Meic Povey:

⁴²⁰ Jones, ‘Gweld Llais a Chlywed Llun’, t. 12.

⁴²¹ W. S. Jones yn ‘Holi Wil Sam – Mecanica a llenydd’, *Barn*, 71.

⁴²² W. S. Jones yn ‘Holi Wil Sam – Mecanica a llenydd’, *Barn*, 71.

⁴²³ Meic Povey, yn Williams, ‘Dyn y Deryn sy’n Perthyn i’r Cadfridog’, *Barn*, 20.

⁴²⁴ Marged Dafydd, ‘Iaith Bob Dydd?’ (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁴²⁵ Williams, ‘Perfformiad *Y Cadfridog*’, *Barn*, 187.

[C]eisio ysgrifennu'r 'stwyff poblogaidd' sy'n apelio at y mwyafrif yw ei nod, nid at y lleiafrif dethol, elitaidd.⁴²⁶

Nid bod yn nawddoglyd yw hyn ac nid awgrymaf na all y gynulleidfa hon ddeall a gwerthfawrogi gweithiau nad ydynt yn arddel ieithwedd realaidd fel y gwna gweithiau Meic Povey, megis dramâu mydryddol Shakespeare a Saunders Lewis. Ac er y gellid uniaethu a chydymdeimlo â sefyllfaoedd rhai o'u cymeriadau hwy hefyd nid eu bwriad wrth ysgrifennu oedd creu rhith o realaeth trwy gyfrwng eu hieithwedd. Y mae cynulleidfa Meic Povey yn cael ei chyflyru i feddwl eu bod yn adnabod y cymeriadau gan eu bod yn adnabod cymeriadau sy'n arddel ieithwedd gyffelyb – neu ieithwedd gyffelyb ar yr wyneb o leiaf.

Gellir awgrymu fod ieithwedd deialog fachog ond cwbl naturiol Meic Povey sydd hefyd yn llawn 'priod-ddulliau Cymraeg rhywiog, tafodiaith bob dydd'⁴²⁷ yn rhannol gyfrifol am lwyddiant y gyfres *Talcen Caled*. Fodd bynnag, beirniadwyd Harold Pinter, dramodydd arall a arddelai'r un technegau deialogi, am 'ei sgysiau di-sgwrs a'r geiriau di-gyswllt, wedi eu cysylltu â seibiau'.⁴²⁸ Ond onid seibiadau yw un o arfau mwyaf pwerus unrhyw ddramodydd? Gall fynegi llawer mwy nag a all deialog mewn ffordd lawer fwy effeithiol a dramatig. Yn *Wyneb yn Wyneb*, er enghraifft, rhydd y gyfarwyddwraig, Bethan Jones, '[g]ymaint o bwys ar ddistawrwydd y ddrama ag ar y geiriau a leferir':⁴²⁹

cryfder mawr y ddrama yw cynildeb y ddeialog gyda seibiadau ar adegau yn cyfleu cyfrolau o emosiwn a chuddio'r gwirionedd.⁴³⁰

O bryd i'w gilydd, yn yr hyn na ddywedir y ceir gwir thema drama yn hytrach nag yn yr hyn a ddywedir:

STEFF: Ofynson n'w r'wbeth byti fi?
TOM: Cer i'w gweld nhw, os wyt ti'n poeni. Dyna fydda ora iti.
STEFF: Fi? No wê, pal! Sdim yn bod yrno i, Tom. Ti sy'n dost, nage fi.
Ysbaid
TOM: Wyt ti'n cofio Rob? Jim a Rob, buon nhw yma i swpar unwaith, cofio?
'Ddigwyddis daro ar Rob pan oeddwn i'n gadael gynna. Newydd fod yn gweld Jim oedd o. Mae o i fewn ers tua deufis rwan, medda fo...
STEFF: ... Ni i gyd yn yr un cwch, frawd!

⁴²⁶ Rhisiart, Agweddau ar waith Michael Povey', t. 29.

⁴²⁷ Parry, 'Rhagymadrodd' yn Povey, *Perthyn*, t. 12.

⁴²⁸ Dafydd, 'Iaith Bob Dydd? (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁴²⁹ Islwyn, 'Gwasgu cymaint o boen i cyn lleied o amser', *Y Cymro*, 7.

⁴³⁰ William Gwyn Jones, 'Adlewyrchiad, nid pregeth', *Barn*, 363 (Ebrill 1993), 40-1.

TOM: Ydan, debyg. I gyd yn yr un cwch.
*Ysbaid go hir, gyda'r ddau yn llonydd fyfyrgar.*⁴³¹

Wrth blicio'r haenau oddi ar y 'sgyrsiau di-sgwrs' a ymddengys fel sgwrs bob dydd, fe welir crefft y dramodydd ar ei gorau.

The author's aim is not to reproduce everyday language, but rather to portray it; to raise it from banality to the language of a play ... Accent, vocabulary, word emphasis – they are key tools for any good author.⁴³²

Yn wir, dywed Bethan Jones fod ieithwedd gweithiau Meic Povey yn naturiol, ond ni olyga hynny mai efelychu iaith bob dydd yn union fel ag y mae a wna ac â cyn belled â dweud bod yr ieithwedd, ar brydiau, yn eithaf barddonol:

Mae'n swinio'n hawdd i'r glust, mae'n swinio'n gyffredin, ond mae'n eithaf barddonol hefyd – tydi o ddim yn iaith *Pobol y Cwm*.⁴³³

Ystyrier y dyfyniad isod o un o fonologau Mair yn *Fel Anifail*:

MAIR: Ond nid dyna'r tro cynta! Bu cyfarfod cyn hynny, wrach y cymerodd hi fwy nag un haf cyn cyrraedd unrhyw benderfyniad. Dau neu dri o hafau, pwy a wŷr, a'r ysfa yn cynyddu, ac yn hel meddyliau trwy'r gaeafa' oer, yn ail-danio'r haf canlynol, nes bod yr hyn ddigwyddodd yn anorfod.
Tân oddi mewn i chi oedd yn wenfflam, yr ysfa yn stwmp yn y'ch stumog chi ers pan gytunwyd yn derfynol ar amser a lle yn y sêl y diwrnod cynt.
Cyrraedd adra yn hwyr, arogl diod ar y'ch gwynt chi, cydwybod yn procio, gwneud y'ch dyletswydd cyn troi i gysgu. Deffro'n fora, yr ysfa yn drech na chi bron, fel anifail, Defi, prin medrach chi fyw yn y'ch croen.⁴³⁴

Yn hynny o beth, ymdebyga unwaith eto i Harold Pinter, gyda'i ieithwedd ymddangosiadol naturiol sydd wedi ei strwythuro'n gelfydd:

⁴³¹ Povey, *Wyneb yn Wyneb*, tt. 35-6.

⁴³² Llewelyn, 'Speaking Two Spokes', *New Welsh Review*, 56.

⁴³³ Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

⁴³⁴ Povey, *Fel Anifail*, tt. 29-30.

Their finely judged use of idiom; the disciplined rhythm, the pauses, silence, timing and pacing of lines like musical phrases.⁴³⁵

Ond, yn gwbl groes i'r ieithwedd uchod sy'n arddel rhythmau a nodweddion barddonol, megis cyferbynnu, 'hel meddyliau trwy'r gaeafa' oer, yn ail-danio'r haf canlynol' a chyffyrddiadau cynganeddol, 'yr ysfa yn stwmp yn y'ch stumog chi', fe geir hefyd ddefnydd o iaith sathredig o fewn y dramâu:

LEWIS: Ie, Dai Jones rules for fucking ever 'fyd! A meiddia di awgrymu 'to bo fi, neu John – neu Dai fucking Jones! – yn 'nancy boy' ac mi roa'i dy ben di yn y mincer, was, a dy fwydo di i'r moch!⁴³⁶

Y mae presenoldeb iaith o'r fath yn y dramâu yn ychwanegu at naturioldeb y dweud. Ond yn ogystal â hyn gall defnydd cynnil a phwrpasol o iaith sathredig fod 'yn rhan hanfodol o'r hwyl'⁴³⁷ gan ychwanegu at hiwmor sefyllfa yn ogystal, ac y mae hiwmor yn elfen anhepgor o weithiau Meic Povey. Yn hynny o beth, mae'n ymdebygu i Beckett a gynhwysa elfen gref o gomedi yn ei weithiau, megis clownio, slapstic a chymeriadau'n siarad ar draws ei gilydd, gan y credai fod hiwmor yn ffordd o ddygymod â sefyllfaoedd a fyddai fel arall yn annioddefol. Er yr elfen gref o hiwmor, golyga hyn nad comediau mo dramâu Beckett, gan mai modd o gyfleu gwir dristwch y sefyllfa yw'r defnydd o gomedi yn ei weithiau.

Dywedodd Meic Povey:

Dwi'n licio ysgrifennu hiwmor ... Ewch chi fyth i weld drama theatr rydw i wedi ei sgrifennu heb chwerthin rywdro yn ystod y perfformiad.⁴³⁸

Er mor doreithiog yw ei weithiau i'r llwyfan, trwy gydol ei yrfa fel dramodydd, ysgrifennu ar gyfer y sgrin fu prif ffynhonnell incwm Meic Povey, boed hynny trwy gyfrwng dramâu unigol neu gyfresi. Gan mai fferm ddirydan oedd Gelli Iago, wedi i'r teulu fudo i Dŷ Cerrig y cafodd Meic Povey'r cyfle i brofi dramâu teledu Cymraeg gyntaf. Roedd cydwylio dramâu a drafodai 'emosiynau realistig yn *Gymraeg*'⁴³⁹ a hynny yng nghwmni ei frodyr a'i chwirydd yn ogystal â'i rieni yn 'brofiad lletchwith'⁴⁴⁰ iawn i fachgen ifanc.

⁴³⁵ Richard Allen Cave, 'Body Language in Pinter's plays', yn Peter Raby (gol.), *The Cambridge Companion to Harold Pinter: Second edition* (Cambridge, 2009), t.124.

⁴³⁶ Povey, *Sylw*, t. 33.

⁴³⁷ Gwyn Griffiths, 'Corwynt loteri yn chwa o awyr iach' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁴³⁸ Meic Povey, yn Davies, 'Astudiaeth o ddramâu teledu unigol Meic Povey', t. 79.

⁴³⁹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 41.

⁴⁴⁰ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 41.

Daeth rhyddhad, fodd bynnag, ar ffurf dychan a chomedi y rhaglen *Stiwdio B*, ac yn enwedig felly yng nghymeriad ‘Ifas y Tryc, local boi’.⁴⁴¹ Ymhen rhai blynyddoedd, wedi cyd-droedio llwyfan Y Gegin yng nghwmni’r gŵr a ddaeth â bywyd i greadigaeth Wil Sam, daeth Stewart Jones yn ‘arwr pennaf’⁴⁴² i Meic Povey, ac y mae’n falch o gael dweud iddo fod yn ‘[d]dylanwad drwg iawn’⁴⁴³ arno. Nid yw’n syndod, felly, o ystyried pwysigrwydd presenoldeb Ifas ym mhentyndod Meic Povey, iddo ddatgan mai Wil Sam ‘ydy’r dramodydd comedi a’r dramodydd deialog gore yng Nghymru.’⁴⁴⁴

Dywed Meic Povey mai un rheswm dros gynnwys elfen o hiwmor yn ei waith yw oherwydd fod ‘pobl isio laff, achos mae bywydau yn anodd ... Felly yn hynny o beth toes yna ddim digon o gomedïau yn cael eu sgwennu’.⁴⁴⁵ Gellir olrhain tarddiad comedi i ddechrau tarddiad y theatr Roegaidd a gellir creu cysylltiad rhwng poblogrwydd y *genre* a sefyllfa ac amgylchiadau bywyd pobl mewn cyfnod penodol o amser. Bu’n gyfrwng poblogaidd iawn ddiweddd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er enghraifft, yng nghyfnod y chwyldro diwydiannol - cyfnod y melodramâu cynnar:

They wanted to forget the drudgery and drabness of everyday life and escape into a more colourful, less complex and plainly perfect world: where startling and marvellous adventures could arouse the most elemental feelings and loyalties without making any tiresome demands upon the mind.⁴⁴⁶

Fodd bynnag, *Bonansa!* yw’r unig ddrama lwyfan o’i eiddo y’i bwriadwyd fel drama gomedi, ac mae’r ddrama yn ymylu ar fod yn ffars:

IORI: Be’ cadwodd di?

BOB: Damwain.

IORI: Taw!

BOB: Hen wreigan yn camu i’r lân, fflot yn rhoi slap iddi nes oedd hi’n bowndian.

IORI: Nefi!

BOB: Blydi niwsans. A wêl neb o. ’Fydd wedi ’stwffio rhwng y whist dreifs a’r marwolaetha’ gei di weld. ’Shifft i yn darfod hefyd ...

IORI: Frifodd hi?

BOB: Torri ’choes ...

IORI: O, ddim rhy ddrwg ’lly ...

BOB: ’Thorri hi, Iori. I ffwr’. Yn y fan a’r lle.

⁴⁴¹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 41.

⁴⁴² Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 174.

⁴⁴³ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 40.

⁴⁴⁴ Meic Povey, yn ‘Actor ifanc, aflonydd’ (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁴⁴⁵ Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

⁴⁴⁶ James L. Smith, *28 Melodrama* (London, 1971), t. 17.

IORI: Nefi las!
BOB: Na, jôc.⁴⁴⁷

Y mae'r ddrama yn llawn i'r ymylon o enghreifftiau cyffelyb o straeon ysgafn, ac mae'n amlwg mai adlonni ei gynulleidfa a cheisio gwneud iddi chwerthin oedd prif fwriad Meic Povey wrth ei hysgrifennu. Dyma hefyd y ddrama y cafodd y dramodydd y mwyaf o fwynhad wrth ei hysgrifennu:

Yn ystod Chwefror [1996], agorodd y ddrama *Bonansa!* yn y Chapter, Caerdydd. Hon oedd y drydedd ddrama o'm heiddo i mi ei chyfarwyddo, ac roedd ynndi gast o lewion dibynadwy, yn eu plith Mal John, Merfyn 'Stiwpid Boi' Pierce Jones a Gwenno Hodgkins ... – drama y gwnes i wirioneddol fwynhau ei sgwennu.⁴⁴⁸

Dywedodd y dramodydd ei bod yn ddrama amserol gan ei bod hi wedi'i llwyfannu ychydig dros flwyddyn wedi i'r Loteri Genedlaethol ddechrau ym Mhrydain:

Nid y fi ffeindiodd *Bonansa!* ond hi ffeindiodd fi mewn ffordd achos mi roedd y pwnc yna'n barod ... Comedi ydi *Bonansa!*. Mae yna laffs ynndi hi, digon ohonyn nhw, ond eto mae yna rywbeth dyfnach na hynny i bobl sydd ei isio fo, sef pobl gyffredin yn cael eu wynebu efo sefyllfa anghyffredin.⁴⁴⁹

Edrydd hanes criw o bobl gyffredin (tri ohonynt yn aelodau o'r un teulu) a drigai yn nhref Caernarfon, yn ennill y Loteri, ac effaith ddinistriol hynny ar eu perthynas â'i gilydd. Y mae Rhydian, Hwntw sydd â'i fryd ar fod yn actor enwog ac uchel ei barch, yn byw gydag Iori, gyrrwr bws Crosville, ei wraig Rosina sy'n gweithio mewn siop esgidiau ac, oherwydd ei thalent gyda'r peiriant carioci, â'i bryd ar gael gyrfa fel cantores broffesiynol, a'u merch Anwen sy'n gweithio mewn siop trin gwallt – merch â chalon onest, garedig ac yn byw a bod yng nghanolfan Anifeiliaid mewn Angen. Y mae cymeriad arall yn y ddrama hefyd, sef Bob, gohebydd i bapur newydd yr *Herald* sydd, er yn un o ffrindiau pennaf Iori, mewn perthynas gyda Rosina. Y mae'n gymeriad rhagfarnllyd iawn, yn enwedig tuag at Rhydian, gan ei weld fel diogyn o Hwntw sy'n manteisio ar haelioni Iori a'i deulu:

BOB: (am **RHYDIAN**) Ydi'r rhodyn yma wedi ca'l smel o rw bath eto?
IORI: Chwara teg, mae o'n trio'i ora.

⁴⁴⁷ Povey, *Bonansa*, t. 10.

⁴⁴⁸ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 211.

⁴⁴⁹ Meic Povey, yn 'Sioe Gelf', *Cwmni Da* (28 Chwefror 1997).

BOB: Chwara teg bwy dwch? Mae o'n y'ch blingo chi'n fyw.

IORI: Twt lol, mae'r hogyn yn iawn siŵr ...

BOB: Sud medar o fod yn "iawn"? Dydi'o ddim yn siarad 'run fath â ni gychwyn.⁴⁵⁰

Egyr y ddrama gyda'r criw yn cyfarfod yng nghartref Iori a'i deulu er mwyn cyd-wyllo canlyniadau'r Loteri Genedlaethol gyda'i gilydd. Y mae trefniant wythnosol rhyngddynt i dalu punt yr un i Anwen (sy'n rhyw lun o drysorydd), ac yna rhannu unrhyw enillion a gânt. Fodd bynnag, nid yw Rhydian na Bob wedi talu eu cyfraniad hwy. Addawa Rhydian dalu'r wythnos ganlynol, ond dywed Bob nad yw'n bwriadu cymryd rhan mwyach ac na fyddai eisiau'r arian pe byddai'n ennill. Ond pan ymddengys y rhifau ar y sgrin sy'n eu hysbysu eu bod wedi ennill tair miliwn o bunnoedd rhyngddynt, buan iawn y newidia Bob ei feddwl.

Ond y mae digon o dyndra rhwng y criw yma'n barod, ac mae ennill y loteri yn amlygu'r tensiynau hynny. Roedd gan bob un freuddwyd, ond mae cael y cyfle i'w wireddu yn eu gorfodi i wynebu'r dewisiadau anodd mewn bywyd.⁴⁵¹

Cytunent i gadw'n dawel am eu henillion, ond wrth ddathlu'u hariangarwch gyda sawl diferyn yn ormod, daw'r gath o'r cwd. Y mae gweddill y ddrama yn rhuban o ddigwyddiadau sy'n enghraifft berffaith o wir ystyr y term 'ffars':

The word farce derives from old French, meaning 'stuff' or 'stuffing' and may have originated in the comic interludes of medieval French religious plays serving as light-hearted stuffing in between more serious drama. Historically, the term meant a literary or artistic production of little merit. Farce is a type of comedy that uses absurd and highly improbable events in the plot. Situations are humorous because of their ludicrous and often ridiculous nature.⁴⁵²

Penderfyna Anwen na ddylai Bob na Rhydian dderbyn cyfran o'r arian gan nad oeddent wedi talu am eu tocyn. Ond yng nghanol yr holl firi, sylweddola Anwen na chofia ym mhle y cadwodd y tocyn er diogelwch ac o ganlyniad i'r sioc a'r helbul, fe'i trewir yn ddall yn y fan ar lle! Gan nad yw'n cael siâr o'r arian, mae Rhydian yn blacmelio Rosina gan fygwth dweud wrth Iori ei bod yn cael perthynas gyda Bob, ond gan nad oedd Bob yn fodlon rhedeg i ffwrdd gyda hi, try Rosina ei golygon at Rhydian. Yr unig ddymuniad sydd gan Iori yw i bopeth aros fel ag yr oedd:

⁴⁵⁰ Povey, *Bonansa*, tt. 10-11.

⁴⁵¹ Kate Crockett, 'Bonansa! yn taro'r jacpot' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁴⁵² Justin Cash, 'Farce', *The Drama Teacher* <<http://www.thedramateacher.com/farce/>>. Ymwelwyd â'r wefan 7 Medi 2015.

Ysywaeth, y natur ddynol ydi'r natur ddynol ac mae'r Loteri yn brawf pendant (os buo angen prawf erioed) mai rhywogaeth ddiiflanedig fyddwn ni yn y pen draw. Ond pan ddaw hi'n ddydd o brysur bwysu, pan ddaw hi'n amser cloriannu, pa iws fydd ticed Loteri gwerth deng miliwn i ddyn bryd hynny, ysgwni?⁴⁵³

Felly pan genfydd Anwen y tocyn coll, a sylweddoli mai dyma achos yr holl gecru, meddylia am ddull o'i waredu:

ANWEN: Felly, mi gês i ddymmp iawn a sychu nhin efo fo a'i fflyshio fo lawr y pan.⁴⁵⁴

Yr wythnos ganlynol, mae'r cymeriadau i gyd yn ôl o flaen y teledu yn syllu ar y rhifau. Wedi'r cwbl, chwedl Anwen, 'y trïo sy'n hwyl te?'.⁴⁵⁵

Pan gyferchir y gynulleidfa yn ystod y perfformiad, nodwedd sy'n ddieithr yng ngweddill gweithiau llwyfan y dramodydd, y mae'n amlwg bod y gwylwyr yn ogystal â'r cymeriadau o dan y chwyddwydr yn y ddrama hon:

Drama gomedi a'i neges yn ddigon amlwg i bawb, ond chewch chi ddim eistedd yn ôl a mwynhau yn llwyr. "The spotlight's on you" wrth i oleuo clyfar ein taflu ni ar ein pennau i'r loteri theatraidd.

Pwy sy'n gwyllo pwy? Y ni sy'n gwyllo portreadau dawnus a digrif y pum actor, ynteu ...?⁴⁵⁶

Er i Meic Povey fwynhau ei chyfarwyddo, yn ôl Dafydd Llywelyn, '[n]id oedd ei gynnig ar gomedi, *Bonanza*, yn llwyddiant ysgubol'.⁴⁵⁷ Mae Meic Povey yn ddramodydd sy'n meddu ar ddawn naturiol i ysgrifennu deialog hwyliog ond efallai bod yr hiwmor yn y ddrama hon yn oramlwg ar brydiau ac yn tynnu sylw'n ormodol at ymgais ar ran y dramodydd i fod yn ddoniol. Yn wir, cyfaddefa'i hawdur ei hun nad oedd y ddrama 'at ddant pawb',⁴⁵⁸ ond yn ei dyb ef y rheswm dros hynny oedd oherwydd iddo 'feiddio cyfeiliorni, a

⁴⁵³ Povey, *Bonansa!*, t. clawr ôl.

⁴⁵⁴ Povey, *Bonansa!*, t. 75.

⁴⁵⁵ Povey, *Bonansa!*, t. 77.

⁴⁵⁶ Gwenan Mared, 'Syniadau cynnil ond cyfoeth o chwerthin' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁴⁵⁷ Llywelyn, 'Cyfri mawrion fesul deg', *Barn*, 103.

⁴⁵⁸ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 211.

mentro i borfeydd diarth ... am nad oedd ... yn llinach *Perthyn, Diwedd y Byd ac Fel Anifail*.⁴⁵⁹

Ond mae hiwmor yn dechneg effeithiol iawn wrth geisio apelio at gynulleidfa ac yn arbennig felly cynulleidfa newydd na fyddai, o reidrwydd, yn dewis gwyllo perfformiad theatrig. Y mae llwyfannu dramâu megis *Bonansa!* ac, yn wir, y sioeau clybiau sy'n nodweddiadol o Gwmni Theatr Bara Caws, megis *Owain Mindwr* a ysgrifennodd Meic Povey yn 2004, yn cynnig profiad theatrig i gynulleidfa na fyddai o reidrwydd yn dewis gwyllo drama gonfensiynol arferol. Ac yn hynny o beth, y mae Meic Povey yn fwy amrywiol ei weithiau o'i gymharu â Siôn Eirian ac Aled Jones Williams gan iddo roi cynnig ar fath mwy 'masnachol' o ysgrifennu ac nid yw hynny'n rhywbeth i'w feirniadu. Wedi'r cwbl, ys dywed J. Ellis Williams, '[n]id eiddo clic cul mohono [y theatr]: y mae'r sawl sy'n fodlon gwario deuswllt ar ddwyawr o chwerthin â chymaint o hawl yno â'r uchaf ei ael. Y mae'r theatr, fel groser, yn gorfod cofio gofynion ei holl gwsmeriaid. Y mae lle ar silffoedd y groser i'r caws ac i'r caviare; ac y mae lle yn y theatr i'r gomedi ysgafn ac i'r drasiedi ddwys.'⁴⁶⁰

Ond nid yw hiwmor ffraeth Meic Povey wrth fodd pawb ymhlith ei gynulleidfaedd:

Ond trist efallai, er y chwerthin, oedd gorfod troi at gymaint o puns rhywiol a rhegfeydd amrwd er mwyn diddanu. Ydi, mae theatr Cymru wedi ei ryddhau ers tro o'r hen lyffethair Piwritanaidd, ond mae'r pwynt wedi ei brofi bellach, ydi o ddim?⁴⁶¹

Rhannai Bob Roberts y safbwynt uchod. Yn ei adolygiad o berfformiad o *Terfyn*, dywedodd fod y ddeialog yn:

frith o gyfeiriadau at y weithred rywiol a'r tabŵs eraill sy'n peri i bobl chwerthin lle nad oes achos chwerthin. Mae lle i'r hyn a ystyrir yn anwedus mewn drama, yn arbennig drama sy'n rhoi perthynas gŵr a gwraig a dan chwydd-wydr megis. Er hynny, efallai fod y confensiwn yn cael ei or-wneud yn y ddrama hon. Wrth ei or-arfer, mae'n colli ei rym a'i addasder'.⁴⁶²

Ac er i John Gwilym Jones, yn ei feirniadaeth o *Y Cadfridog*, ganmol y ddrama gan ddweud bod y 'ddeialog yn anarferol o fywiog a chlust yr awdur yn effro i rythmau siarad ... [a] bod

⁴⁵⁹ Povey, *Nesa Peth i Ddim*, t. 211.

⁴⁶⁰ J. Ellis Williams, *Tri dramaydd cyfoes: Saunders Lewis, John Gwilym Jones, Huw Lloyd Edwards* (Dinbych, 1961), t. 92.

⁴⁶¹ Gwenan Roberts, 'Y Chwarae Sy'n Bwysig', *Barn*, 410 (Mawrth 1997), 37.

⁴⁶² Roberts, 'Terfyn', *Y Faner*, 9.

yn rhaid wrth y dafodiaith sathredig a'r geiriau "aflednais",⁴⁶³ un o'r rhesymau pam nad oedd y beirniad am i'r gwaith gael ei gyhoeddi oedd oherwydd yr 'iaith arw',⁴⁶⁴ a fyddai'n sicr o '[g]odi gwrychyn y gynulleidfa Gymraeg'⁴⁶⁵ yn y cyfnod. Gellir deall pam y byddai'r sylwadau hyn wedi siomi'r dramodydd buddugol, yn enwedig o ystyried i sensoriaeth lwyfan ddod i ben ym 1968.

Un elfen o hiwmor nodweddiadol gweithiau Wil Sam oedd 'dangos ei gymeriadau'n cloffi dros eiriau neu droi at Saesneg clogyrnaidd o bryd i'w gilydd'.⁴⁶⁶ Cofier am ddywediadau Ifas megis 'sgersli bilif', 'embaras' a 'sitiwesion sefyllfa', sydd, bellach, wedi dod yn rhan o ymadroddion y Gymraeg. Fel ei ragflaenydd ym myd y ddrama, defnyddia Meic Povey'r dechneg hon yn ei weithiau hefyd. Ond, yn wahanol i Wil Sam, nid creu hiwmor oedd ei unig fwriad, ond yn hytrach atgyfnerthu'r thema o Gymreictod a ddiffyg Cymreictod ei gymeriadau o fewn cymdeithas sy'n prysur Seisnigeiddio:

The truth is this: there are tens of thousands of people in north-west Wales – my mother and late father among them – who struggle to speak English ... The community in Nant Gwynant was Welsh-speaking, with only fifteen children in the school. The education was in Welsh and English was very alien to me, and that's reflected in my plays ... I have inherited the ability to hear the subtleties in the way people talk to each other.⁴⁶⁷

Ystyrier y dyfyniad isod o'r ddrama *Chwara Plant* sy'n enghraifft o ymgais ar ran un o gymeriadau Meic Povey i siarad Saesneg:

BETI: Dont iw boddyr widd ddy Wlesh, dyna ddeudodd mam 'slawar dydd.
Wil tich ddat at hom. Jest get on widd tichin hyr English. Ddat is wat
shì nid wen shì gos owt intw ddy big weid wyrld.⁴⁶⁸

Fodd bynnag, gellir dadlau nad yw'r dramodydd yn cynnig cyfle i gynulleidfa ddianc i fyd ysgafnach, mwy hwyliog ym mhob un o'i weithiau, ac yn arbennig felly y gweithiau hynny sy'n trafod pynciau llosg dwys. Yr hyn a geir yn yr achosion hynny yw hiwmor lleddf:

⁴⁶³ Jones, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Ddrama Hir', yn Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, 1975*, tt. 141-2.

⁴⁶⁴ Jones, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Ddrama Hir', yn Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, 1975*, t. 143.

⁴⁶⁵ Williams, 'Perfformiad Y Cadfridog', *Barn*, 187.

⁴⁶⁶ Owen, 'Theatr y Gegin a Cwmni'r Gegin, Cricieth', yn Davies (gol.), *Llwyfannau Lleol*, t. 116.

⁴⁶⁷ Meic Povey, yn Llewelyn, 'Speaking Two Spokes', *New Welsh Review*, 56.

⁴⁶⁸ Povey, *Chwara Plant*, t. 59.

Rydw i'n lecio comedi du, a sgrifennu'r math yna o gomedi, ac weithiau rydych chi ei angen o achos weithiau mae pethau'n mynd yn rhy drwm.⁴⁶⁹

Ai dylanwad Wil Sam a welir yma unwaith yn rhagor?

Cefais fy magu dri lled cae oddi wrth Wil ... Does dim yn drwm yn ei ddramâu. Maent yn medru peri rowlio chwerthin, ac eto mae ysgytiad ddifrifol ynddynt sydd yn eich taro ar eich talcen.⁴⁷⁰

Fe gyflwynir themâu difrifol am sefyllfa cymdeithas o dan wyneb pob un o weithiau Meic Povey. Dywed ei bod yn 'haws i gynulleidfa dderbyn petha' trwy hiwmor'.⁴⁷¹ Ceir enghreifftiau o 'hiwmor slei'⁴⁷² mewn dramâu mor sensitif â *Wyneb yn Wyneb* hyd yn oed.

LAURA: Pwy gwelodd chi? Os gofynnith rhywun, deudwch ma' lodjiar ydach chi ...

TOM: Mam!

LAURA: Neu stiwdant! Deudwch ... deudwch ma' gweithio i'r cyngor ydach chi! Syrfeior – ia, dyna fo – prentis syrfeior, mi basiwch am beth felly'n rhwydd. Deudwch bo chi'n talu am y'ch lle!⁴⁷³

Y mae'r ffin rhwng y llon a'r lleddf yn un denau iawn o fewn y gweithiau hyn a '[d]au fab i'r un fam'⁴⁷⁴ yw chwerthin a chrio mewn gwirionedd:

Eitha teg yw ei ddisgrifio [Meic Povey] fel 'hen law ifanc' sy'n fistar corn ar y trwm a'r ysgafn, ar drasiedi a chomedi fel ei gilydd.⁴⁷⁵

Yn wir, cyfaddefa'r awdur, er ei fod yn 'berson joli iawn'⁴⁷⁶ mai pesimist, ac nid optimist, ydyw:

Mae'r ffordd rydw i'n ei gweld hi'n aml yn ddu ac yn besimistaidd iawn, ond mae yn elfen o hynny ym mhob dramodydd neu fasa nhw ddim yn sgrifennu. Does mo'r ffasiwn beth â drama neu stori hapus. Mae'n rhaid i chi gael gwrthdaro. Heb wrthdaro

⁴⁶⁹ Daives, 'Astudiaeth o ddramâu teledu unigol Meic Povey', t. 79.

⁴⁷⁰ Meic Povey, yn Wyn, 'Ceisio sgwennu i ddi-ddanu, heb fod yn uchel ael', *Y Cymro*, 8.

⁴⁷¹ Jones, 'Tensiwn rhwng Tair', *Golwg*, 24.

⁴⁷² Islwyn, 'Gwasgu cymaint o boen i cyn lleied o amser', *Y Cymro*, 7.

⁴⁷³ Povey, *Wyneb yn Wyneb*, t. 42.

⁴⁷⁴ Tomos, 'Pobl, nid sbesimens', *Barn*, 19.

⁴⁷⁵ Dienw, 'Camp Michael' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁴⁷⁶ Meic Povey, yn England, 'Dwy ochr i'r un geiniog: Portread o Meic Povey', *Golwg*, 26.

does gennych chi ddim drama, felly er mwyn cael gwrthdaro mae angen elfen o anhapusrwydd a duwch a phesimistiaeth.⁴⁷⁷

Pe diffiniwn y term comedi lleddf fel cyfrwng sydd yn peri i ni chwerthin yn uchel ar brydiau ond y tu ôl i'r dweud doniol y mae themâu dwys a difrifol yn cuddio, yna gellir dadlau fod pob un o ddramâu Meic Povey yn perthyn i ryw raddau i'r cyfrwng. Mae camp y dramodydd yn ei allu i arwain ei gynulleidfa i chwerthin mewn sefyllfaoedd o anobaith gan beri iddynt, o'r herwydd, anesmwytho. Ac mae'r hiwmor ar brydiau yn eithriadol o agos i'r asgwrn:

Glyn: A be' wedyn? Lle'r eith o wedyn pan fydd o wedi sadio mymryn, wedi aildddechra' cymryd 'i dabledi yn hogyn da, lle'r eith o pan helian nhw fo adra? Lle ma' 'i adra fo!

(Llygadu Olwen yn bwrpasol)

Wneith dychmygu'i fod o'n ddu a llwglyd, a'i alw'n Ndabadingi a gyrru pum swllt y mis iddo fo mo'r tro. Ma' gofyn am fymryn bach mwy o ymroddiad yn 'r achos yma ma' 'rna' i ofn.⁴⁷⁸

Cuddio y mae cymeriadau Meic Povey, cuddio y tu ôl i hiwmor er mwyn osgoi cyfathrebu gyda'i gilydd ac ymdrin o ddifrif gyda'u sefyllfaoedd argyfyngus. Ond nid tu ôl i'r hiwmor yn unig y maent yn cuddio ond y tu ôl i eiriau yn gyffredinol gan '[dd]efnyddio iaith fel gêm barhaus i guddio eu gwir emosiynau'?'⁴⁷⁹ Dyma nodwedd Pinteraidd arall a ellir ei phriodoli i ddramodwyr Ewropeaidd troad yr ugeinfed ganrif:

It was only gradually that a certain defectiveness of communication between characters – who talk past each other rather than to each other – was introduced by dramatists like Strindberg or Wedekind; and that 'oblique' dialogue in which the text hints at a hidden sub-text was brought in by Chekhov ... Pinter's technique continues Chekhov's use of such 'oblique' dialogue, but carries it much further.⁴⁸⁰

Ei ddeialog yw cryfder y dramodydd a rhydd fwy o bwys ar y ddeialog rhagor unrhyw elfen arall o ddrama. Gellir dadlau felly mai dramâu geiriol yw gweithiau Meic Povey ac yn ei thraethawd ar weithiau dramodydd, cyfyd Gwenno Hughes y cwestiwn 'a oes yma briodas gymharus rhwng yr iaith glywedol a'r iaith weledol',⁴⁸¹ hynny yw, a oes cydbwysedd rhwng

⁴⁷⁷ Meic Povey, yn Davies, 'Astudiaeth o ddramâu teledu unigol Meic Povey', t. 72.

⁴⁷⁸ Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, tt. 55-6.

⁴⁷⁹ Hughes, *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey*, t. 21.

⁴⁸⁰ Esslin, 'Language and Silence', *Pinter: A Study of His Plays*, t. 212.

⁴⁸¹ Hughes, 'Astudiaeth o ddramâu Meic Povey: er 1985', t. 22.

yr elfen eiriol a'r elfen theatrig o fewn y dramâu? Archwilir hyn ym mhennod nesaf y traethawd.

Be rydach chi i fod i neud ydi gwranddo arnyn
... Tyda chi ddim angen dim byd arall.⁴⁸²

Yn yr adran hon, felly, canolbwyntir ar draws-doriad o weithiau'r dramodydd gan geisio pwyso a mesur sut theatr yw theatr Meic Povey. Gan gofio mai prentisiaeth mewn ysgrifennu ar gyfer y teledu a fwriodd Meic Povey o dan adain Gwenlyn Parry, a ellir gweld dylanwad ysgrifennu ar gyfer y sgrin ar waith llwyfan Meic Povey? A yw ei waith ar gyfer y teledu, sy'n gyfrwng gweddol strwythedig a fformwlëig, wedi ei ffrwyno fel dramodydd llwyfan, ac a yw ei ddramâu llwyfan, o'r herwydd, yn llai theatraidd?

Yn nhyb Hazel Walford Davies, dyna'r achos. Dywed fod y dramâu llwyfan Meic Povey yn 'dilyn patrwm episodig a theledyddol ac mae iddynt arddull sebonaidd gref. Dramâu teledu ar gyfer y llwyfan ydynt yn y bon'.⁴⁸³ Ac efallai i'r ffaith i'r dramâu llwyfan, *Y Cadfridog*, *Perthyn*, *Wyneb yn Wyneb*, *Fel Anifail*, a *Tair* gynnig eu hunain ar gyfer eu trosi ar gyfer y sgrin ac i'r ddrama *Gwaed Oer* gael ei throsi'n gyfres deledu, gefnogi dadl Hazel Walford Davies. Ond ai'r ffaith fod y dramodydd yn rhoi lle mor ganolog i'r teulu a gwrthdaro o fewn teulu sy'n rhoi lle i gredu fod y gweithiau yn sebonaidd? Neu ai naturioldeb y ddeialog sy'n gyfrifol am hynny, efallai? O ran eu strwythur, nid nifer o olygfeydd byrion sy'n nodweddu sgriptiau teledu a geir ynddynt, ond golygfeydd hirion ac mewn amryw o'r gweithiau, digwydd y ddrama mewn un lleoliad yn unig.

Dywed Bethan Jones, a gydweithiodd yn glòs iawn â Meic Povey tra'n cyfarwyddo pedair o'i ddramâu, *Wyneb yn Wyneb*, *Fel Anifail*, *Tair* ac *Yr Hen Blant*, mai camgymeriad hawdd i'w wneud yw dod i'r un casgliad â Hazel Walford Davies. Ategir ei barn gan Nic Ros:

A dylanwad y sgrîn fach mor amlwg ar ei waith, camgymeriad hawdd yw gweld Povey fel dramodydd llwyfan naturiolaid.⁴⁸⁴

Dywed Bethan Jones mai'r cynhyrchiadau salaf a welodd o waith Meic Povey oedd y rhai a oedd wedi eu llwytho â 'stwyff naturiolaid'⁴⁸⁵ megis yr ail lwyfaniad o *Yn Debyg Iawn i Ti a*

⁴⁸² Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

⁴⁸³ Cyfweliad gyda Hazel Walford Davies (24 Ionawr 2012).

⁴⁸⁴ Ros, 'Chwerthin anaddas', *Barn*, 50.

⁴⁸⁵ Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

Fi, sef cynhyrchiad cyntaf Theatr Genedlaethol Cymru, a'r llwyfaniad o *Tyner yw'r Lleuad Heno*:

rydach chi'n gwneud cam mawr â nhw [y dramâu] wrth drïo'i stwffio nhw i mewn i bedair wal a sofffa a dwy gadair. Os ydach chi'n gwneud hynny, maen nhw'n mynd yn llai nag ydyn nhw ... mae'n tynnu oddi ar bŵer y geiriau.⁴⁸⁶

Gan ei bod wedi gweithio yn agos iawn gyda Meic Povey yn ystod y broses o ailddrafftio'r dramâu y bu'n gyfrifol am eu cyfarwyddo, cred Bethan Jones ei bod yn 'gwneud lles iddo fo [Meic Povey] gael rhywun i weithio efo fo'.⁴⁸⁷ Serch hyn, cofier bod Meic Povey wedi cyfarwyddo pedair o'i ddramâu ei hun – *Diwedd y Byd*, y llwyfaniad cyntaf o *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, *Bonansa!* yn ogystal â *Tyner yw'r Lleuad Heno*. Yn wir, mae'r ddadl hon ynglŷn ag a ddylai dramodwyr gyfarwyddo eu gweithiau eu hunain yn un barhaus. Wrth astudio hanes y theatr, sylwer nad yw'n arfer anghyffredin ymhlith dramodwyr. Roedd y Groegwyr yn nodedig am wobrwyo dramodwyr-gyfarwyddwyr mewn gwyliau drama a cheir sawl enghraifft fwy diweddar hefyd o ddramodwyr yn cyfarwyddo eu gwaith eu hunain, gan gynnwys Shakespeare, Molière, George S. Kaufman, Bertolt Brecht, John Gwilym Jones, Joshua Logan, Harold Pinter, Alan Ayckbourn, Mary Zimmerman a Neil LaBute. Dywedodd Meic Povey, wrth gyfeirio at y profiad o gyfarwyddo *Tyner yw'r Lleuad Heno*:

I fi mae hi'n fantais mai fi sy' wedi sgwennu'r ddrama, yn ei dilyn o a i z, yn gallu mynd â syniad i'w ben draw.⁴⁸⁸

Fodd bynnag, beirniadwyd sawl agwedd o'r ddrama hon yn llym gan yr adolygwyr a'r gynulleidfa am fod yn arwynebol. O ran ei chynnwys, fe'i disgrifiwyd 'fel braslun i ddrama sebon',⁴⁸⁹ gyda'r holl gecru am arian a godineb ymysg aelodau'r teulu. Ond roedd yn wan iawn o ran ei chymeriadau yn ogystal. Yn arferol, nifer fechan sy'n rhan o gast dramâu Meic Povey 'ac mae'r ddrama yn ei hanfod yn syml ac yn dynn iawn'.⁴⁹⁰ Ond nid dyma'r achos gyda *Tyner yw'r Lleuad Heno*. Gyda chynifer â saith cymeriad ar y llwyfan, ni theimlir i'r dramodydd roi sylw teilwng i bob un ohonynt yng nghwrs y ddrama a'r canlyniad 'oedd fod

⁴⁸⁶ Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

⁴⁸⁷ Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

⁴⁸⁸ Meic Povey, yn 'Povey'n cyfarwyddo Povey', *Golwg*, 22/5 (1 Hydref 2009), 26.

⁴⁸⁹ Gareth Miles, yn 'Ymateb Gareth William Jones, Gareth Miles, Roger Owen i Tyner yw'r Lleuad Heno', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/adolygiadau/povey-tyner-gwilym.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

⁴⁹⁰ Dienw, 'Cwrdd â'r awdur toreithiog: Drama rymus gan Meic Povey', *Y Cymro*, 14.

y mwyafrif o'r cymeriadau yn rhai ymylol'.⁴⁹¹ Ac wrth edrych yn ôl ar y cynhyrchiad, cydnabu Meic Povey na themlai ei fod yn adnabod ei gymeriadau yn ddigonol – nodwedd y rhydd ef fel dramodydd bwys aruthrol arno:

Nes i lot o waith ar y ddrama yn ystod yr ymarferion – toedd hynny ddim yn arwydd da.⁴⁹²

Rhwng dau a phedwar o gymeriadau sydd ar y llwyfan yng ngweddill ei ddramâu, ac o'r herwydd, dywedodd Meic Povey wrth drafod *Tyner yw'r Lleuad Heno* fod 'lot fwy o beli i'w cadw yn yr awyr. Mae hi'n saith taith, mewn ffordd, ac yn dipyn mwy o waith'.⁴⁹³ Creodd hyn beth trafferth yn dechnegol hefyd gan nad oedd gofod i rai o'r cymeriadau gael sgysiau preifat heb i weddill y cymeriadau eu clywed. Cydnabu hefyd ei bod yn bwysig iddo gael barn ddiuedd cynhyrchydd wrth edrych ar y gwaith gan ei bod, medd ef, yn 'amhosibl i mi, fel awdur, i gyfarwyddo fy ngwaith fy hun a bod yn wrthrychol'.⁴⁹⁴ Roedd set y cynhyrchiad yn brysur iawn yn weledol ac yn hynod naturiolaid:

Gardd aeddfed, naturiol, a dwy goeden afalau neu dair; hen fwrdd gardd a meinciau yn sownd wrtho; ambarel yn y canol, wedi gweld ei ddyddiau gwell. Yma ac acw, heb fawr o drefn, bêls o wair i bobl eistedd arnynt. Ar un ochr y llwyfan, mae conservatory, sydd yn arwain i weddill y tŷ. Ynddo cedwir diodydd, a bwydiach ar gyfer y bbq. Ar ochr arall y llwyfan, yn rhannol o'r golwg (am resymau ymarferol), ond fel y medrwn weld digon ohono i'w adnabod, safle bbq.⁴⁹⁵

Gan ystyried i Meic Povey hefyd gyfarwyddo y cynhyrchiad gwreiddiol o *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi* gyda llwyfan ag ond '[c]adair foel arni',⁴⁹⁶ mae'n anodd deall ei resymau dros lwyfannu *Tyner yw'r Lleuad Heno* yn y modd y gwnaeth. Beirniadwyd y cynhyrchiad yn hallt a'i gyffelybu i '[dd]rama neuadd bentref 30 mlynedd yn ôl'.⁴⁹⁷

Yn syml iawn, rwy'n argyhoeddedig nad Povey ei hun oedd yr un i gyfarwyddo'r ddrama hon.⁴⁹⁸

⁴⁹¹ Owen, 'Teyrn yw'r Lleuad', *Barn*, 35.

⁴⁹² Cyfweiliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

⁴⁹³ Meic Povey, yn 'Povey'n cyfarwyddo Povey', *Golwg*, 26.

⁴⁹⁴ Cyfweiliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

⁴⁹⁵ Povey, *Tyner yw'r Lleuad Heno*, t. 13.

⁴⁹⁶ Reynolds, 'Tebyg at ei Debyg', *Y Ddraenen*, 15.

⁴⁹⁷ Gareth Miles, yn 'Ymateb Gareth William Jones, Gareth Miles, Roger Owen i Tyner yw'r Lleuad Heno', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/adolygiadau/povey-tyner-gwilym.shtml>>.

⁴⁹⁸ Owen, 'Teyrn yw'r Lleuad', *Barn*, 35.

Ond dywed Bethan Jones fod drafftiau cyntaf y sgriptiau a dderbyniodd gan Meic Povey hefyd yn cynnwys disgrifiadau o lwyfannau a setiau cymharol brysur yn weledol ac yn cynnwys llawer iawn o gelfi. Roedd llwyfan *Tair*, er enghraifft, wedi'i rhannu'n dair ardal – un ar gyfer pob cymeriad. Ond yr hyn a wnaeth y gyfarwyddwraig gyda'r ddrama hon, fel a wnaeth gyda'r dramâu eraill a gyfarwyddodd, oedd 'stripio hwnna i gyd o'na',⁴⁹⁹ a'r hyn a geir yn y disgrifiad o'r llwyfan ar ddechrau'r sgript gyhoeddiedig o *Tair* yw 'GOFOD; TAIR CADAIR'.⁵⁰⁰ Prin iawn, hefyd, yw symudiadau'r cymeriadau ar y llwyfan o fewn y ddrama, a'r un modd yn *Fel Anifail*: 'Eistedd Defi a Mair led bwrdd oddi wrth ei gilydd bron gydol y ddrama',⁵⁰¹ ac o ran safbwynt gweledol roedd *Wyneb yn Wyneb* hefyd 'yn syml iawn – bwrdd, pedair cadair, dwy ffôn a dau sgets o luniau clasurol – propiau hanfodol a dim byd arall'.⁵⁰²

Dramâu 'llwyfan gwag' ydynt i gyd, hynny yw heb fod yn ddibynnol ar setiau cymhleth a thriciau theatrig. Y geiriau sy'n bwysig, a'r ymadwaith rhwng y cymeriadau sy'n cynnal diddordeb ac yn denu actorion a chynulleidfaoedd at y gwaith.⁵⁰³

Un o gryfderau'r dramâu, yn nhyb Bethan Jones, yw eu hiaith a rhythmau'r ddeialog. Wrth gyfarwyddo mor gynnil a minimalistig ac ymwrthod â'r setiau mawreddog, cymhleth, canolbwyntiodd y gyfarwyddwraig yn llwyr ar drosglwyddo themâu ac emosiynau'r ddrama trwy gyfrwng y ddeialog i'r gynulleidfa, gan wneud y cymeriadau yn ganolbwynt y ddrama:

Cryfder Povey yw ei ddeialog di-drimings, ac fe gafodd hynny ei adlewyrchu yn y sét moel. Cyfeiriwyd ein sylw'n llwyr at y cymeriadau.⁵⁰⁴

Ai cyd-ddigwyddiad, felly, yw'r ffaith bod y dramâu 'llwyfan gwag' hyn a gyfarwyddwyd gan Bethan Jones yn cael eu hystyried fel dramâu mwyaf llwyddiannus Meic Povey?

Y rheswm maen nhw'n gweithio [y dramâu] ydi achos tyda chi ddim angen unrhyw beth arall efo nhw. Mae'r dramâu eu hunain mor gryf, mae'r ddeialog yn gryf, mae'r strwythur, y seibiadau, y ffordd maen nhw wedi'u sgwennu ... Be rydach chi i fod i

⁴⁹⁹ Cyfweiliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

⁵⁰⁰ Povey, *Tair*, t. 5.

⁵⁰¹ Aled Islwyn, 'Wynebu anobaith a thristwch o gwmpas y bwrdd' (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

⁵⁰² Jones, 'Adlewyrchiad, nid pregeth', *Barn*, 41.

⁵⁰³ Bethan Jones, 'Cyflwyniad', yn Povey, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, t. 9.

⁵⁰⁴ England, 'Iwan England a'r dramâu', (cynwysedig ym Mhapurau Meic Povey – Deunydd Printiedig 1968-2007, 4, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

neud ydi gwranddo arnyn nhw a gwylio'r cymeriadau. Tyda chi ddim angen dim byd arall efo nhw.⁵⁰⁵

Sicrhau fod y denyddiau crai elfennol o fewn drama yn ddigon cadarn, sef y cymeriadau, y ddeialog a'r plot: dyna sy'n gyfrifol am lwyddiant drama yn y bôn ac yn sicrhau profiad theatrig o safon. Er mai cyfrwng gweledol yw drama, ni olyga hynny fod angen unrhyw elfennau gweledol mawreddog a chymhleth a all dynnu oddi ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, sef perthynas y cymeriadau â'i gilydd – yno mae'r ddrama'n bodoli. Ys dywed Dafydd Llewelyn:

Y dyddiau hyn ceir ryw obsesiwn ynglŷn â phwysigrwydd torri tir newydd, gan osod bri ar ymdrechion i fod yn arbrofol ac astrus. Ambell waith, mae'n fwy effeithiol i rywun geisio cadw'r cyfan yn syml, yn wir mae'n fwy o grefft cynnal drama syml yn hytrach na gorfod troi at effeithiau gweledol trawiadol ac arbennig er mwyn diddannu'r gynulleidfa.⁵⁰⁶

⁵⁰⁵ Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

⁵⁰⁶ Llewelyn, 'Effeithiolrwydd Syml', *Barn*, 82.

Pennod 2: Siôn Eirian

1. Cyflwyniad

once I'd started indulging my passion for theatre
... I lost the discipline to do anything else.¹

Adwaenir Siôn Eirian fel bardd, dramodydd, sgriptiwr a nofelydd. Fe'i ganed ym 1954 yn fab i'r Parch. Eirian Davies a Jennie Eirian Davies. Hanai o Hirwaun ond fe'i magwyd ym Mrynaman a'i addysgu yn Ysgol Gynradd Brynaman, ac yna, o 1962 ymlaen, yn yr Wyddgrug yn Ysgol Glanrafon ac Ysgol Maes Garmon. Roedd yr aelwyd yn un Gristnogol a thraddodiadol Gymreig a'i fam a'i dad yn ymgorfforiad o'r 'Pethe' gyda'u bywydau yn cylchdroi o amgylch diwylliant Cymreig. Yn wir, chwaraeai diwylliant Cymreig ran ganolog ym mhob agwedd o fywyd y teulu. Yr oedd ei dad, y Parch. Eirian Davies, yn fardd; gradd yn y Gymraeg oedd gan ei fam, Jennie Eirian, ac fe'i hyfforddwyd fel athrawes. Hi oedd yr ymgeisydd seneddol cyntaf dros Blaid Cymru yng ngorllewin Caerfyrddin ym 1955 a hefyd ym 1957. Bu hefyd yn Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr am ddwy flynedd ac yn olygydd nifer o gylchgronau, cyn ei phenodi'n olygydd yr wythnosolyn Cymraeg, *Y Faner*, ym 1979:

Personolai Gymreictod diwylliannol ei dydd, nid am ei bod yn athrawes Gymraeg, yn feirniad adrodd a llên, yn deledreg, yn areithreg, yn wleidydd o genedlaetholreg, yn awdur ac yn olygydd, ond am iddi, gyda'i hafiaith cwbl anghyffredin, wefreiddio popeth yr oedd hi ynglŷn ag ef.²

Graddiodd Siôn Eirian mewn Cymraeg ac Athroniaeth o Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth ym 1975. Dair blynedd yn ddiweddarach, ym 1978, dechreuodd ar ei yrfa fel dramodydd proffesiynol a hynny fel awdur preswyl cyntaf Theatr Clwyd gan lunio addasiad llwyfan Saesneg o'r nofel *Hunangofiant Rhys Lewis: Gweinidog Bethel* (1885) gan lenor enwocaf yr Wyddgrug, Daniel Owen. Ar hyd y blynyddoedd bu'n llenor hynod gynhyrchiol, yn 'pontio sawl cyfrwng',³ ac yn parhau yn weithgar iawn fel aelod o bwyllgor Cymru o Undeb yr Ysgrifenydd y pwyllgor am sawl blwyddyn, ac ef, bellach, yw eu prif negydwr cytundebau. Ym 1971, ei stori fer hir, 'Trobwynt', a enillodd iddo Goron

¹ Siôn Eirian, yn Hazel Walford Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 8/29 (1995), 65.

² Derec Llwyd Morgan, 'Y Marworyn Rhudd', yn Gwyn Erfyl (gol.), *Cyfrol Deyrnged Jennie Eirian Davies* (Caernarfon, 1985), t. 51.

³ Dienw, 'Sion Eirian', <<http://www.echelgais.org.uk/elwa/content.asp?lo=1.6.3.5.1>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Abertawe. Saith mlynedd yn ddiweddarach, ym 1978, ac yntau ond yn bedair ar hugain mlwydd oed, enillodd ei ddilyniant o gerddi, ‘Profiadau Llencyndod’, Goron Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd iddo, a pharha i fod ymhlith yr ieuengaf erioed i ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth.⁴ Ym 1975, cyhoeddodd gyfrol o gerddi, *Plant Gadara*, ac yna, ym 1979, cyhoeddwyd nofel o’i eiddo, *Bob yn y Ddinas*. Fodd bynnag, ei waith fel dramodydd a sgriptiwr sydd wedi sicrhau bara menyn iddo yn ystod ei yrfa gan iddo gyfansoddi gweithiau gwreiddiol yn y Gymraeg a’r Saesneg, ar gyfer y llwyfan, radio a theledu yn ogystal â sgriptio addasiadau a chyfieithiadau yn y ddwy iaith. Serch hyn, er iddo fod yn aelod o Theatr Ieuencid Sir y Fflint, ni fu llawer o gyfleoedd iddo ymwneud â byd y theatr yn ystod ei blentyndod yn yr Wyddgrug:

There were no theatres as buildings or as centres of pilgrimage then. Theatr Clwyd wasn't there when I was growing up in Mold. The drama we saw in the late 1960s and early 1970s was what took place in the school hall in Ysgol Maes Garmon or Mold Alun School.⁵

Cafodd, fodd bynnag, gyfle i ymweld â theatrau Llundain, Lerpwl a Chaer ar dripiâu teuluol yn ystod ei fagwraeth. Ymgwymerodd â gweithgarwch theatrig hefyd yn ystod ei gyfnod fel myfyriwr yn Aberystwyth, er iddo ddweud nad oedd llawer mwy o gyfleoedd iddo brofi theatr yno nag oedd yn y Wyddgrug, mewn gwirionedd. Cynorthwyodd gyda’r coluro ar gyfer cynyrchiadau ei gyd-fyfyrwyr yn Theatr y Werin, theatr newydd a agorwyd ym 1972 yn un o’r rhwydwaith o theatrau a agorwyd yn ystod y 1970au gan gynnwys Theatr Gwynedd ym 1975 a Theatr Clwyd ym 1976. Cyfieithodd ambell sgript hefyd ar gyfer Theatr y Werin yn ogystal â pherfformio mewn un ddrama.

Er ei ddiddordeb mewn athroniaeth, ac iddo ymholi am waith ôl-radd yn yr Adran Athroniaeth yn y Brifysgol wedi iddo raddio, ymadawodd ag Aberystwyth gan fynd i Goleg Cerdd a Drama Caerdydd i hyfforddi am flwyddyn fel actor. Treuliodd y flwyddyn ganlynol yn gweithio fel actor i Gwmni Theatr Cymru ym Mangor:

It was at the end of that year that I realised I was a god-awful actor, and I had to look yet again for something else.⁶

⁴ Ystyrir Caradog Pritchard, a enillodd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1927 pan oedd yn 23 mlwydd oed, a Guto Dafydd, a enillodd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 2014, yn 24 mlwydd oed, hefyd ymlith yr ieuengaf i gyflawni’r gamp.

⁵ Siôn Eirian, yn Davies, ‘The dialect of dialogue’, *New Welsh Review*, 64.

⁶ Siôn Eirian, yn Davies, ‘The dialect of dialogue’, *New Welsh Review*, 66.

Ond roedd y ddrama fel cyfrwng wedi cydio ynddo a'i ddiddordeb yn y maes wedi datblygu yn un cryf:

The difficulty for me was that, once I'd started indulging my passion for theatre – mainly writing, but with some acting as well – I lost the discipline to do anything else. I could not then work from nine to five, I couldn't even be a teacher, because I'd lost that self-discipline totally.⁷

Gwyddai hefyd, yn fuan iawn yn ei yrfa, mai ysgrifennu ar gyfer y theatr a'r teledu oedd yr 'unig gyfryngau a all gynnal sgrifennwr amser llawn yng Nghymru'.⁸ Rhwng 1979 a 1985, bu'n gweithio fel golygydd sgrïptiau gyda'r BBC yng Nghaerdydd gan darllen ac ymateb i sgrïptiau oedd yn cyrraedd yr adran ddrama. Ynghyd â golygu sgrïptiau o *Pobol y Cwm*, bu'n gweithio ar sgrïptiau o ddramâu unigol Cymraeg, megis *Marathon* gan Dewi Wyn Williams a *Nos Sadwrn Bach* gan Meic Povey, a'r gyfres ddrama *Ennals Point* gan Alun Richards. Ym 1983, bu hefyd yn gweithio am gyfnod o rai misoedd yn Llundain yn golygu sgrïptiau gydag Adran Ddrama Radio 4 dan ofal John Tydeman. Ers hynny, bu'n gweithio fel sgrïptiwr llawrydd ac er iddo nodi mai ychydig iawn o ddramâu a ddarllena ei hun,⁹ y mae, erbyn heddiw, wedi bod yn gyfrifol am gynhyrchu casgliad helaeth o weithiau. Cyfansoddodd bedair o ddramâu gwreiddiol yn y Saesneg ar gyfer y llwyfan:

- *Crash Course* (cynhyrch cyntaf cwmni Made in Wales, 1982);
- *Kipper* (Theatr Clwyd, 1983);
- *City!* (Made in Wales, 1984);
- cydgyfansoddi *The Rising* gydag Alan Osborne, Gwyn Alff Williams a Geoff Moore (*Moving Being*, 1987);
- *Dracula* (Cwmni Theatr Sherman, 1991);
- cydgyfansoddi *A Generation Arises* gyda Greg Cullen, Kelly Evans, Tim Rhys, Linda Quinn, Charles Way a Roger Williams (Sherman, 1994).

Yn ogystal â'r rhain, ysgrifennodd y *libretto* ar gyfer opera jazz, *The Bridge* (ensemble Paula Gardiner, Pontypridd, 2006). Ymysg ei addasiadau a'i gyfieithiadau mae:

- cyfieithiad o *Largo Desolato* gan Vaclav Havel (Dalier Sylw, 1990);
- *Woman of Flowers*, cyfieithiad Saesneg o *Blodeuwedd* gan Saunders Lewis (Actors Touring Company a Sherman, 1992);

⁷ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 65.

⁸ Siôn Eirian, yn 'Rhoi Siôn dan Goron ein Gŵyl', *Barddas*, 22 (Medi 1978), 2.

⁹ Siôn Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan* (ysgrif ar gyfer y modiwl Sgrïptio, Prifysgol Aberystwyth).

- *Sibrwd yn y Nos*, addasiad o *Whispers in the Dark* gan Noel Greig (Theatr Iolo a Theatr Gwent, 1998);
- addasiad Saesneg newydd o *The Soldier's Tale* gan Igor Stravinsky (Music Theatre Wales, 1998);
- *Pa Mor Uchel yw Fyny?*, cyfieithiad Cymraeg o *How High Is Up?* gan Brendan Murray (Gwent Young People's Theatre, 2000);
- *Shadow of the Sickie*, cyfieithiad Saesneg ac addasiad radio o nofel Islwyn Ffowc Ellis, *Cysgod y Cryman* (Radio 4, 2000);
- *Y Ddraig Hud*, cyfieithiad o *The Magic Dragon* gan Mike Kenny (sioe Nadolig i blant, Sherman Cymru, 2000);
- *Y Sgam*, cyfieithiad Cymraeg o *The Scam* gan Peter Lloyd (Cwmni'r Frân Wen, 2001);
- *Nia Ben Aur*, addasiad o'r ddrama roc (Theatr na N'og, 2003);
- *Cysgod y Cryman*, addasiad Cymraeg o'r nofel wreiddiol (Theatr Genedlaethol Cymru (2007);
- *The Royal Bed*, cyfieithiad Saesneg o *Siwan* gan Saunders Lewis (Radio 4, 1993; Theatr Pena, 2015).

Fe'i comisiynwyd hefyd gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i lunio nifer o gyfieithiadau o destunau clasurol a berthyn i'r theatr Orllewinol:

- *Y Fam*, cyfieithiad o *The Mother* gan Bertolt Brecht (Caerdydd, 2001);
- *Tŷ Dol*, cyfieithiad Cymraeg o *A Dolls House* gan Henrik Ibsen (Caerdydd, 2003);
- *Arolygydd y Llywodraeth*, cyfieithiad Cymraeg o *The Government Inspector* gan Nikolai Gogol (Caerdydd, 2003);
- *Dros bont Brooklyn*, cyfieithiad o *View from the Bridge* gan Arthur Miller (Caerdydd, 2003).

O ran ei waith ar gyfer y radio yn y Gymraeg, bu'n gyfrifol am ysgrifennu'r canlynol:

- drama radio, *Wastad ar y Tu Fas* (1979);
- drama radio, *Marwolaeth yr Asyn o Fflint* (1981);
- fersiwn radio o'r ddrama, *Crash Course* (Radio 4, 1984);
- drama radio, *Pridd a Gwaed* (1999);
- cyfres radio, *Dani* (2001);
- drama radio, *Dyddiau Hope Street* (2008);
- drama radio, *Onestrwydd* (2012);

- drama radio, *Peintio Heol Sardis* (2012).

Mae ei ffilmiau a'i ddramâu teledu yn cynnwys:

- *Y Graith* (1983);
- *Marwolaeth yr Asyn o Fflint* (1983);
- ffilm arswyd, *Ysbryd y Nos Taliesin* (1985);
- cyd-ysgrifennodd *Dyddiau Bonner* gyda John Hefin (1987);
- y ffilm, *Mwg Glas, Lleuad Waed* (1989);
- *Noson Yr Heliwr* a'r cyfieithiad Saesneg, *A Mind to Kill* a gydysgrifennodd gyda Lyn Ebenezer (1991);
- *Gadael Lenin* (1993) a'r cyfieithiad Saesneg, *Leaving Lenin* a gydysgrifennodd gydag Endaf Emlyn (1994), ac a enillodd Wobr y Gynulleidfa yng Ngŵyl Ffilm Llundain ym 1993 a Ffilm Orau Gŵyl Ffilm a Theledu Celtaidd 1994.

Ymhlith y cyfresi teledu y bu'n gyfrifol neu'n rhannol gyfrifol amdanynt mae:

- tair cyfres gyflawn o'r gyfres dditectif, *Bowen a'i Bartner* (1985-8);
- cyfres gomedi, *Sidni* a gydysgrifennodd â T. James Jones (1987);
- penodau o *Mwy na Phapur Newydd* (1990-4);
- penodau o *Nightshift* (1993);
- pennod o *The Lifeboat* (1994);
- lluniodd y strwythur ar gyfer cyfres *Yr Heliwr*, a ddeilliodd o'r ffilm *Noson Yr Heliwr*, a sgrïotiodd bennod ohoni, *Gameboys* (1994);
- lluniodd y gyfres *Y Glas*, a sgrïotio amryw benodau o'r ddwy gyfres (1997-8);
- *Mostyn Fflint 'n Aye!* (2004);
- cydysgrifennu *Pen Talar* gydag Ed Thomas (2010).

Yn yr astudiaeth hon, canolbwyntir ar weithiau gwreiddiol Cymraeg Siôn Eirian ar gyfer y llwyfan:

- *Wastad ar y Tu Fas* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1986);
- *Elvis, Y Blew a Fi* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1988);
- *Epa yn y Parlwr Cefn* (1995);
- *Paradwys Waed* (2000);
- *Cegin y Diafol* (2001);
- *Hedfan Drwy'r Machlud* (teipysgrif anghyhoeddedig, 2006);
- *Garw* (2014).

2. Themâu

2.1 Dylanwad Plentyndod

They fuck you up, your mum and dad.
They may not mean to, but they do.¹⁰

Mewn cyfweiliad gyda Hazel Walford Davies ym 1995, nododd Siôn Eirian ei fod yn parhau i archwilio'r un themâu ag ydoedd ddeng mlynedd ynghynt wrth gyfansoddi ei ddramâu. A gellid dadlau, wrth astudio'i weithiau, fod nifer o'r themâu yr ymdrinnir â hwy, fel yn achos Meic Povey ac Aled Jones Williams hwythau, yn deillio o orffennol a magwraeth y dramodydd. Fodd bynnag, deillio o ymgais ymwybodol ar ran y dramodydd i ymwrthod â'r dylanwadau hynny o'i fagwraeth ac i adweithio yn eu herbyn a wna'r themâu:

I certainly didn't see anything dramatically alive or vibrant in my background that I could associate with when I was writing. The writing was more to do with what I escaped from.¹¹

Y mae'n aml wedi dyfynnu damcaniaeth y gwyddonydd Isaac Newton wrth gyfeirio at ei fagwraeth a'i waith: 'To every action there is an equal and opposite reaction'. Ond mwy perthnasol, medd ef, wrth edrych yn ôl ar ei blentyndod, yw dyfyniad o gerdd a gyfansoddwyd ym 1971 gan y bardd a'r nofelydd Saesneg, Philip Larkin, 'This Be The Verse' o'r gyfrol *Collected Poems* (1990):

They fuck you up, your mum and dad.
They may not mean to, but they do.
They fill you with the faults they had
And add some extra, just for you.¹²

Er nad ystyriai Siôn Eirian ei fagwraeth fel un ffaeledig ac na'i rhwystrwyd ef rhag gwneud unrhyw beth yn ystod ei blentyndod a'i laslencyndod gan ei fagwraeth, fe'i mygwyd gan gaethiwed yr hyn a welai ef fel culni'r gymdeithas y'i magwyd ynddi a disgwyliadau'r gymdeithas honno arno fel mab i'w rieni:

¹⁰ Philip Larkin, 'This Be The Verse' yn Anthony Thwaite (gol.), *Collected Poems* (London, 1990), t. 180.

¹¹ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 64.

¹² Larkin, 'This Be The Verse' yn Thwaite (gol.), *Collected Poemst*, 180.

there was a lot of baggage that came with growing up in a manse, not just of a religious kind but also in terms of Welsh culture.¹³

Ac eto, yn ddwy ar bymtheg oed, yn y cyflwyniad iddo yn *Rhyddiaith y Goron: Stori Fer-Hir, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru*, nodâ:

Teimla'n ddyledus i rai o'i athrawon ond yn fwyaf arbennig i awyrgylch y cartref lle mae beirdd a llenorion yn galw ar eu tro i drin a thrafod llenyddiaeth. Rhoddir pwyslais ar ddiwylliant yn ei ystyr ehangaf yn y cartref.¹⁴

Ond wedi iddo aeddfedu ac edrych yn ôl ar y cyfnod hwnnw, dywed Siôn Eirian fod yna 'gymaint o bethau i adweithio yn eu herbyn nhw yn Gymraeg',¹⁵ a phan aeth i'r Brifysgol, dyna'n union a wnaeth. Dywed ffrind iddo yn y Brifysgol:

Ddoth Siôn i'r coleg ar ôl deunaw mlynedd o gael ei drwytho yn y pethau Cymreig. Nid yn unig mewn Capel ac Eisteddfod ond i chi gofio ei fod o'n nabod llawer o'r beirdd a'r llenorion yma'n bersonol ... enwau oedd y rhain i'r gweddill o'r myfyrwyr o bosib ond roedd Siôn yn grwn ac yn gyfan yn y diwylliant hwnnw ... ac roedd o, felly, yn gallu gwrthryfela yn fwy hyderus yn erbyn agweddau mwy cysurus a cheidwadol y dosbarth canol, llenyddol, Cymreig hwn.¹⁶

Fel amryw o bobl ifanc, ac yn arbennig plant i weinidogion a phersoniaid, gwrthryfelodd 'yn erbyn uniongrededd a chydymffurfiaeth ei fagwraeth'.¹⁷ Rhoddodd y gorau i fynd i'r capel wedi iddo benderfynu ei fod yn anghrediniwr pan oedd yn dair ar ddeg mlwydd oed, ac er i'r Eisteddfod chwarae rhan flaenllaw yn ei fagwraeth, ac iddo ennill coron Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol yn ddiweddarach, ymwrthododd ag Eisteddfod fel syniadaeth:

Pam yffarn dwi'n cystadlu fan hyn i drïo cael tri beirniad i roi sêl bendith? I beth? Mae'r holl sindrom yn ddwl os ti isio bod yn sgwennwr proffesiynol.¹⁸

¹³ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 65-6.

¹⁴ Dienw, yn *Rhyddiaith y Goron: Stori Fer-Hir, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru* (Aberystwyth, 1971), t. 2.

¹⁵ Siôn Eirian, yn Gerwyn Williams, 'Tad Elvis a Bowen a Bob', *Barn*, 307 (Awst 1988), 15.

¹⁶ Dyfyniad gan gyfaill i Siôn Eirian, yn 'Nabod', *BBC Radio Cymru* (2 Medi 1988).

¹⁷ Gerwyn Williams, 'Epil Blin y Mans', *Taliesin*, 88 (1994), 42.

¹⁸ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

Mynegir dyhead Siôn Eirian i ymryddhau o gaethiwed ei fywyd cynnar a'r 'ias a ddaw i lanc anturus o geisio bywyd helaethach na chyfyngiadau'r gymdeithas Gymraeg'¹⁹ yn y gerdd 'Tyfu' o'r gyfres 'Profiadau Llencyndod':

ecsodus y meibion
sy'n hedfan ymaith
o gyrraedd y maglau cynefin,
yn wenoliaid ffyrnig, yn Luftwaffe tyner.

ein heiddo ni yw'r ddaear nawr,
ei harddwch a'i hacrwch,
wrth inni godi'n haid adeiniog
uwchlaw'r labyrinth lwyd a'n cenhedlodd,
gan yrru'n wallgo tuag at y belen dân.²⁰

Nid yn unig y teimlai fod y bywyd 'Cymreig' hwn y magwyd efo ynddo yn ddiffygiol ond na allai'r Gymraeg fel iaith ychwaith fynegi ei wir deimladau o rwystredigaeth. Cydnabu iddo fedru uniaethu mwy â gweithiau beirdd Saesneg cyfnod ei lencyndod, megis Adrian Henri, Roger McGough, Spike Hawkins, Brian Patten, Henry Graham a Michael Horovits a geiriau caneuon pop ddiwedd y 1960, na chyda gweithiau beirdd Cymraeg a roddai fwy o bwyslais, yn ei dyb ef, ar grefft eu gweithiau yn hytrach na'u cynnwys:

cyn cysgu, darllen barddoniaeth
gan chwilio am adlais i'm hing,
ond rhaid oedd dianc i ddyfroedd bywiol
y Saeson hirwallt esgeulus
rhag ffwendro ym mhlaniau manwl-gywir
y penseiri Cymraeg.

crwydro i gysgod Anfield,
gwrando ar hwiangerddi'r Kop,
gweld beirdd ifainc Lerpwl
yn tynnu eu miwsig
o wifrau dur eu hamgylchfyd,
a'u bysedd yn waed.

y mae 'na bethau
nad oes gennym ni yng Nghymru
eiriau amdanynt ...²¹

¹⁹ Alun Llywelyn-Williams, 'Beirnaidaeth Cystadleuaeth cerdd hir neu ddilyniant o gerddi yn portreadu llencyndod', yn W. Rhys Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978* (Llandysul, 1978), t. 27.

²⁰ Siôn Eirian, 'Profiadau Llencyndod', yn W. Rhys Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978* (Llandysul, 1978), t. 29.

Yn wahanol iawn i Aled Jones Williams, a wêl gysylltiad rhwng yr eglwys a gwaith ei dad fel person plwyf a'r ddrama fel cyfrwng, ac er y ceir gwahaniaethau sylfaenol rhwng gwasanaeth eglwysig ac un capelyddol, dywed Siôn Eirian na chyfrannodd y ffaith iddo gael ei fagu fel mab i weinidog (sylwer nad mab i'w dad a olygir yma) mewn unrhyw fodd at ei ddawn greadigol. Yn wir, i'r gwrthwyneb:

To me, the chapel was something so deadly that, now I look back on it, it simply begged to be caricatured, hated even. That sounds a Caradoc Evans point of view. But what I found in that upbringing as the son of a minister, with the regulation two or three attendances on Sunday, was that it stultified anything creative ... When I was studying, there were little private enclaves of the mind that I would escape to, to create my own little daydreams and fantasies, and that's what theatre was about, it seemed to me, not what you have to attend and be dressed up for in the regulation starched shirt and tie. So my work is a movement away from that.²²

Ond onid yw'r frawddeg olaf o'r dyfyniad uchod o eiddo Siôn Eirian yn gwrthddweud rhan gyntaf y dyfyniad? Yn anuniongyrchol efallai, ond fe gyfrannodd y ffaith ei fod yn fab i weinidog at ei ddawn greadigol gan iddo gyfaddef ei fod yn ymwybodol ac yn bwriadol ogwyddo oddi wrth amgylchiadau ei fagwraeth yn ei weithiau. Tybed a fyddai wedi gogwyddo cymaint i'r cyfeiriad hwnnw pe na fyddai wedi ei fagu yn fab y mans?

Cynigiodd athroniaeth, a astudiodd fel rhan o'i radd ym Mhrifysgol Aberystwyth, sylfaen gref i Siôn Eirian fel awdur, yn enwedig un na fu arno ofn erioed fynd i'r afael â themâu dyfnion cymdeithas. Dyma faes sydd o ddiddordeb arbennig i Aled Jones Williams, yntau, wedi'r cwbl, 'gwyddor syniadaeth yw athroniaeth':²³

O'n i'n hoff iawn o athroniaeth fel pwnc. Roedd e'n agor pethe mas yn y meddwl oedd ddim i'w gael yn y cwricwlwm ysgol bryd hynny ... roedd e'n fodd i ymgiprys â chwestiynau moesol, crefyddol, gwleidyddol. Mewn ffordd roedd e'n barhad o'r math o drafod a dadle o'n i wedi'i gael ar yr aelwyd ers blynyddoedd, achos roedd trafod pethau moesol a chrefyddol a gwleidyddol ar yr aelwyd ers pan wy'n cofio.²⁴

Ond, yn eironig o ystyried y dyfyniad uchod, trwy gyfrwng athroniaeth y canfu'r llenor ffordd i ymryddhau oddi wrth hualau ei fagwraeth:

²¹ Eirian, 'Profiadau Llencyndod', yn Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978*, tt. 30-1.

²² Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 64.

²³ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

²⁴ Siôn Eirian, yn 'Beti a'i Phobol', *BBC Radio Cymru* (Mehefin 1991).

Studying philosophy at university was a way of trying to disentangle myself from the Sargasso Sea of any preconceived ideas, not just the religious ones of my own background.²⁵

Gellir dadlau, felly, mai'r gwrthryfela hwn yn erbyn cymdeithas ei fagwraeth sydd i gyfrif am y ffaith fod Siôn Eirian, beth bynnag fo'i gyfrwng, wedi '[l]lusgo llenyddiaeth Gymraeg ar hyd ffyrdd cefn',²⁶ ys dywed Menna Baines, ac mai cymeriadau a phynciau tabŵaidd, isfydol sy'n mynd â'i fryd. Yn wir, cydnabu'r llenor ei fod yn bwriadol geisio tynnu nyth cacwn i'w ben a siocio'r gynhedlaeth hŷn wrth gyfansoddi ac, o ganlyniad, o bryd i'w gilydd, mae naws dywyll ac astrus yn perthyn i'w weithiau:

Dyma awdur nad yw erioed wedi bod ofn peri i ni, y gynulleidfa, anesmwytho. Rhyw eistedd yn anghyfforddus mewn sêth theatr fu'r profiad o wyllo dramâu Siôn Eirian erioed, wrth iddo ymrafael â phynciau dadleuol a heriol, a hynod o gymhleth.²⁷

Syndod, felly, yw ei glywed yn adrodd yr hanes amdano yn ystod ei ardegau cynnar yn gweld 'copi o nofel John Rowlands, *Ieuenctid* [sic] yw *Mhechod* a darllen y tudalennau sy'n sôn am dda [sic] gorff noeth o flaen y tân. Ac mi es i â photel o inc, a'i arllwys e dros y tudalennau yna nes eu bod nhw wedi'u gludo at ei gilydd – roeddwn i'n meddwl ei fod e'n ofnadwy bod gan fy rhieni rywbeth fel yna ar yr aelwyd. Dyna oedd fy ymateb cynta' i, a dyna fy unig weithred i o sensoriaeth erioed! Dwi wedi mynd ymhell i'r cyfeiriad arall ers hynny!²⁸ Fe'n hatgoffir yma am stori gyffelyb yn ieuenctid Aled Jones Williams, ond fod ymateb y ddau ddramodydd i'r hyn a welsant yn dra gwahanol, wrth i Aled Jones Williams gyffroi'n lân wrth ganfod copi o'r gyfrol *Lady Chatterley's Lover*²⁹ yng nghwprdd llyfrau ei dad.

Er iddo wrthryfela yn erbyn cymdeithas ei fagwraeth a'r hyn a gynrychiolidd gan ei rieni, gan fynd ati'n fwriadol i drafod pynciau tywyll mewn modd amrwd, diddorol yw'r ffaith iddo dderbyn sêl bendith ei dad wrth wneud hynny, sy'n amlygu agwedd ryddfrydig Eirian Davies:

²⁵ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 65.

²⁶ Menna Baines, 'Drama Parlwr Cefn', *Barn*, 380 (Medi 1994), 29.

²⁷ Kate Woodward, 'Technoleg Wybodaeth', *Barn*, 458 (Mawrth 2001), 58-9.

²⁸ Siôn Eirian, yn Baines, 'Drama Parlwr Cefn', *Barn*, 30.

²⁹ Nofel serch gan D. H. Lawrence a gyhoeddwyd gyntaf ym 1928 ond nas cyhoeddwyd yn agored ym Mhrydain hyd 1960. Nofel yw am berthynas rhwng gŵr o'r dosbarth gweithiol a gwraig o ddosbarth cymdeithasol uwch. Roedd y nofel yn unigryw yn ei chyfnod oherwydd ei hymdriniaeth o ryw a'i defnydd o dermau rhywiol.

Mae e'n cael ei feio weithie am 'sgrifennu petha amheus neu bethau di-chwaeth. Ry'n ni'n genedl gul, ond fel gweinidog o'n i'n dweud wrtho fe, er mod i'n weinidog, iddo fe beidio ag ymwrthod â phynciau oherwydd fy mod i'n weinidog. Am iddo fe ysgrifennu am unrhyw beth oedd e isie. Dwi'n meddwl mai gwaith dramodydd yw dehongli bywyd a disgrifio bywyd fel mae o nid sôn dim ond am y pethe neis neis mewn bywyd ond cymryd bywyd yn gyfan grwn a sôn am bopeth.³⁰

Pan roddodd y gorau i fynd i'r capel, derbyniodd ei dad hynny ac ni cheisiodd ei orfodi i fynychu, er y gwyddai fod aelodau'r capel yn trafod y mater ymhlith ei gilydd. Yn wir, ystyrid Eirian Davies ei hun yn dipyn o rebel yn ystod ei ieuentid a'i gyfnod fel myfyriwr yn Aberystwyth yn ystod y 1940au. Pregethai o bulpud mewn tei goch yn hytrach na choler gron gan godi gwrychyn nifer o barchusion y capeli:

Yng ngeiriau Robin Williams, 'Eirian Davies, y Bohemiad mwyn, gyda'i grys fflamgoch a'r sanau melyn, a'r hirwallt dros ei ysgwyddau fel Hwfa Môn'.³¹

Yn wir, etifeddodd sawl nodwedd gan ei rieni gan gynnwys y natur wrthryfelgar hon gan ei dad. Derbyniodd ganddo hefyd yr anian greadigol. Ond dywed Siôn Eirian iddo etifeddu mwy oddi wrth ei fam nag oddi wrth ei dad. Gyda hi yr arferai drin a thrafod materion o bwys: 'Roedd hi'n gweithio'n galed ac roedd ei meddwl hi ar waith trwy'r adeg'.³² Ganddi hi yr etifeddodd ei anniddigrwydd meddyliol a'i obsesiwn dadansoddiadol. Roedd hi'n wraig gref, ddiwyro, a thybed nad adlewyrchir hynny yng nghymeriadau benywaidd Siôn Eirian? Dywed y gŵyr mai dyneiddwraig oedd ei fam mewn gwirionedd a'i bod yn fwy o ddyneiddwraig nac o Gristion:

Felly roedd y gwerthoedd ar yr aelwyd yn rhyw wyro tamaid bach oddi wrth uniongred Gristnogol. Dwi ddim yn credu mewn crefydd gonfensiynol a gwyrthie a bywyd ar ôl marwolaeth – toedd hwnna ddim yn cael ei bregethu i fi.³³

Wrth astudio cerddi Siôn Eirian, gellir gweld dylanwad gweithiau'r Genhedlaeth Bît yn America arno fel bardd, megis y gerdd 'Diweddgan' o'r casgliad 'Profiadau Llencyndod'. Rhannai'r gerdd yr un teitl â chyfieithiad Gwyn Thomas o ddrama'r dramodydd absŵrd Samuel Beckett, *Fin De Partie* (1957), a gyhoeddwyd ym 1969:

³⁰ Dyfyniad gan Eirian Davies, 'Nabod', *BBC Radio Cymru* (2 Medi 1988).

³¹ Dyfynnwyd yn Gerwyn Wiliams, 'Epil Blin y Mans', *Taliesin*, 49-50.

³² Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

³³ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

fel Crist i'r diffeithwch,
deuthum innau yma
i ofyn cwestiynau a gwrthod atebion,
yn fastard meseia
heb Dad a heb nef.³⁴

Mudiad llenyddol a fodolai yn ystod y 1950au a oedd yn arbrofi gyda chyffuriau, rhyw a gwleidyddiaeth oedd y Genhedlaeth Bît ac yr oedd cyffuriau a chrefydd yn themâu canolog yn eu gweithiau. Criw bohemaidd Americanaidd oeddent, ac yn eu plith William S. Burroughs, Jack Kerouac, Anne Waldman, Michael McClure ac Irwin Allen Ginsberg. Yn y gyfrol *Plant Gadara* ceir cerdd yn dwyn y teitl 'Nhad Versus Ginsberg'. Nid portread o gymeriad eangfrydig, rhyddfrydol a gwrthryfelgar, fodd bynnag, a gawn o Eirian Davies yn y gerdd:

pan feddyliaf fod Allen Ginsberg (g.1926)
yn wyth a deugain oed eleni, ychydig iau na 'nhad,
cofiar ben

cofiar gerdd fyrlymus
This
Form
Of Life
Needs
Sex

cofiar fardd a welwn yn brydydd ifanc,
yn broffwyd ifanc,

a rhyngddo ef a'r bardd clên o Gymro,
yr eisteddfodwr, y saer pwyllgor,

mae cefnfor.³⁵

Câi'r criw hwn o lenorion eu cysylltu gyda'r garfan o lenorion adain chwith a fodolai yn Lloegr yn y 1950au, megis John Osborne a Kingsley Amis, a fedyddiwyd yn *Angry Young Men*. Roedd y criw yma o nofelwyr a dramodwyr yn mynegi anfodlonrwydd gyda gwerthoedd cymdeithasol, moesol, gwleidyddol a deallusol y dydd ac o'r herwydd, er mai yn y 1970au y dechreuodd Siôn Eirian ysgrifennu, gellir cyfeirio ato yntau hefyd fel 'Angry

³⁴ Eirian, 'Profiadau Llencyndod', yn Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978*, t. 35.

³⁵ Siôn Eirian, 'Nhad Versus Ginsberg', *Plant Gadara* (Llandysul, 1975), t. 30.

Young Man'. Gwêl Gerwyn Wiliams ef fel 'Epil Blin y Mans' a'i gymharu gyda chymeriad Dewi, a oedd hefyd yn fab y mans, yn nrama Saunders Lewis, *Cymru Fydd* (1967) a chymeriad Jimmy Porter o ddrama John Osborne, *Look Back in Anger* (1956).³⁶ Dywed y dramodydd na ddylai gicio yn erbyn y tresi fod yn 'fffenomenon ifanc'³⁷ yn unig, ac wrth astudio ei weithiau, gwelir ei fod yn ymdrechu i arddel y syniadaeth honno. Yn hynny o beth, ymdebyga i Aled Jones Williams, mab i berson plwyf sydd hefyd yn nodedig am adweithio yn erbyn ymneilltuaeth a diwylliant Anghydfurfiol Cymraeg, gan ysgrifennu am bynciau tabŵaidd, isfydol a chymeriadau sy'n byw ar gyron cymdeithas. Efallai i Siôn Eirian ei hun ystyried ei hun, i ryw raddau, fel rhywun nad oedd yn perthyn i gymdeithas. Ys dywed ei ffrind amdano yn y coleg, 'roedd o fel tasa fo'n patrymu'i hunan ar alltudion cymdeithas, pobl fel Oscar Wilde neu Dylan Thomas neu Allan Ginsberg yn un o'i arwyr o, neu David Bowie – pobl oedd yn wahanol i'r cyffredin'.³⁸ Byddai'n gwrthod cydymffurfio ac yn bwriadol dynnu'n groes i'r graen er mwyn ennyn ymateb gan wneud hynny mewn dulliau eithafol ar brydiau:

Mi roedd o'n ddwfn iawn a phan oedd bywyd weithia'n colli dipyn o'i ddrama, mi fydda fo'n creu ei ddrama'i hun drwy dorri'i arddyrnau yn aml iawn. Ac wedyn mynd â fo i'r ysbyty a'r nyrs yn ei weld o'n mynd i mewn i fan'no ac yn gofyn iddo fo os oedd o'n iawn. A'i ymateb yntau: 'The universe yawns at my existence'.³⁹

Ni chredai y dylai byd bardd fod yn un cysurus na diogel a byddai'n wastad yn chwilio am ddrama mewn bywyd a gorau oll pe byddai'r ddrama honno yn un amrwd:

Fasa chi byth yn ei farddoniaeth o yn clywed Siôn yn sôn am 'sipian medd oddi ar fin ei anwylyd', ond yn hytrach yn 'ei lledu hi dros wely priodasol ei thad'. Barddoniaeth ddramatig oedd o'n sgwennu. Toedd 'na'm byd synhwyrus ynddo fo.⁴⁰

Yn ei waith, ymdrinia â chymeriadau, sefyllfaoedd a phynciau a oedd yn ddieithr iddo yn ystod ei fagwraeth, ac, fel dramodydd, nid yw ar ei ben ei hun yn hynny o beth:

Many of us have grown up on coming to the city because we've found a place where we can turn our back on something else. Michael Povey has come from Porthmadog, Gareth Miles is from Waunfawr and Wreccsam, but the point is that all of us have

³⁶ Wiliams, 'Epil Blin y Mans', *Taliesin*, 51.

³⁷ Siôn Eirian, yn Wiliams, 'Tad Elvis a Bowen a Bob', *Barn*, 15.

³⁸ Dyfyniad gan gyfaill i Siôn Eirian, 'Nabod', *BBC Radio Cymru* (2 Medi 1988).

³⁹ Dyfyniad gan gyfaill i Siôn Eirian, 'Nabod', *BBC Radio Cymru* (2 Medi 1988).

⁴⁰ Dyfyniad gan gyfaill i Siôn Eirian, 'Nabod', *BBC Radio Cymru* (2 Medi 1988).

come to seek something, something more real, relaxed and lovely than this ‘Welsh’ upbringing has given us.⁴¹

Dywed ei fod wedi ei ddenu at fywyd a chymeriadau'r isfyd fwyfwy gan ei fod yn fyd mor waharddedig yn ystod ei fagwraeth gapelyddol draddodiadol. Ceir enghraifft o gymeriad ‘dieithr’ yng nghymeriad ditectif Jim Bowen o'r gyfres ddrama *Bowen a'i Bartner* a ddarledwyd ar S4C rhwng 1985-8. O ganlyniad, bu'n rheidrwydd i'r awdur wneud ymchwil helaeth wrth gyfansoddi gan neidio'n ôl a blaen o'i fywyd dosbarth canol ei hun i fywydau isfydol ei gymeriadau benthyg:

Tan i mi fynd i'r coleg, dwi ddim yn meddwl 'mod i wedi 'nabod neb oedd yn butain, o'n i ddim yn 'nabod heddweision ... roedd e'n rhywbeth oedd y tu fas i rychwant fy mhrofiad i a dwi'n meddwl mai syndrom mab y mans yw e – mae e bron yn ddisgwyliedig yng Nghymru bod mab y mans yn rhannu'i amser rhwng ennill coronau, meddwi'n gachu a chwympo i gysgu mewn gwteri. Dwi wedi mynd gam ymhellach mewn ffordd broffesiynol, trwy fod â diddordeb afiach, efallai, yn ochr fwy bas ac amrwd bywyd. Mae fy nramâu i wedi archwilio a thrio deall sut mae bywydau pobl y tu fas i'm magwraeth i yn gweithio, a beth yw ystyr hynny.⁴²

Atega Jon Gower ei eiriau gan ddweud:

mae Siôn Eirian wedi bod yn sylwi ar amryfal haenau cymdeithas. Ef yn anad neb yw dramodydd Cymraeg yr isfyd, a'i gymeriadau yn aml yn rhai na fyddent yn t'wyllu drws capel na maes 'Steddfod.⁴³

Er bod Siôn Eirian yn cydnabod ei fod yn ysgrifennu am ‘grwpiau o bobol sy wedi'u hymylu’⁴⁴ gan gymdeithas, dywed fod y ‘consyrn canolog yn ymwneud â hawl unigolyn a hawl carfan o fewn cymdeithas eang’;⁴⁵ carfan leiafrifol, fel y gwelir yn y ddrama *Wastad ar y Tu Fas*, sy'n canolbwyntio ar gymeriadau hoyw a'r modd y'u triniwyd gan gymdeithas dros y blynyddoedd:

mae'n ddyletswydd arnom ni i gyd i sylweddoli fod yna leiafrifoedd yn ein plith ni o hyd – fel roedd y Cymry yn teimlo yn y chwedegau a'r saithdegau cyn cael mymryn mwy o hawliau.⁴⁶

⁴¹ Siôn Eirian, yn Davies, ‘The dialect of dialogue’, *New Welsh Review*, 69.

⁴² Siôn Eirian, yn Baines, ‘Drama Parlwr Cefn’, *Barn*, 29.

⁴³ John Gower, ‘Llwyfan Rhwng Cloriau’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manyllion.asp?barnID=119>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

⁴⁴ Siôn Eirian, yn Williams, ‘Tad Elvis a Bowen a Bob’, *Barn*, 16.

⁴⁵ Siôn Eirian, yn Williams, ‘Tad Elvis a Bowen a Bob’, *Barn*, 16.

⁴⁶ Siôn Eirian, yn Williams, ‘Tad Elvis a Bowen a Bob’, *Barn*, 19.

Fodd bynnag, nid ystyria Siôn Eirian ei hun y cymeriadau hyn fel pobl sy'n byw ar gyrron cymdeithas, ac yn hynny o beth y mae'n gwahaniaethu oddi wrth Aled Jones Williams, sy'n cyfeirio at ei gymeriadau ef fel pobl yr ymylon. Cred nad yw'r ffaith nad oedd y cymeriadau hyn yn bresennol yn ystod ei fagwraeth yn golygu nad ydynt yn chwarae rhan ganolog o fewn cymdeithas yn gyffredinol:

The idea of some experiences being on the fringe of things – I don't know if that is a particularly Welsh view or not ... these things are central to me in my understanding of how society organises itself, how values, including sexual values, are put in place ... I grew up in that field where these things were meant, for me too, to be outside my world. But I'm trying to get out of that in a big and fast way. I would rather the company of prostitutes and gays than of people in suits and the 'big seats' in chapels.⁴⁷

Ceir enghreifftiau o'r mathau hyn o gymeriadau yn y ddrama *Epa yn y Parlwr Cefn*:

Eithriad yw'n cymdeithas ni ym Mhrydain sy'n tueddu edrych ar buteiniaid fel rhan o wehil ein trefi a'n dinasoedd. Mae'n [*sic*] nhw bellach yn rhan o'r "underclass" mawr difreintiedig ar waelod pyramid ein cymdeithas anghyfartal.⁴⁸

Wedi'r siom a ddaeth yn sgil yr ail ddrama lwyfan wreiddiol yn Gymraeg a gyfansoddodd Siôn Eirian, *Elvis, y Blew a Fi*, ac yntau'n flin ag ef ei hun am yr hyn a welai'n fethiant, ni fentrodd ysgrifennu drama lwyfan Gymraeg arall am chwe blynedd gan fod ganddo 'ofon mynd yn ôl at y theatr Gymraeg'.⁴⁹ Wedi'r seibiant hwn, teimlai ei fod yn barod unwaith yn rhagor i roi cynnig ar ddrama lwyfan yn y Gymraeg, a chanlyniad hyn oedd cyfansoddi *Epa yn y Parlwr Cefn*. Cafwyd y llwyfaniad cyntaf o'r ddrama ym 1994 gan gwmni Dalier Sylw gydag Eryl Phillips yn cyfarwyddo. Bu Siôn Eirian, ynghyd â Peter Edwards, Bethan Jones ac Eryl Phillips, yn gyfrifol am sefydlu'r cwmni ym 1988 'i ateb yr angen am gwmni theatr Cymraeg yn y Brifddinas'.⁵⁰ Roedd cast gwreiddiol y ddrama yn cynnwys Medi Evans, Sian Rivers, Maria Pride a Steffan Rhodri. Yr un flwyddyn â'i llwyfannu, enillodd y ddrama wobwr am y gwaith Cymraeg gorau yn seremoni wobrwyo y *Liverpool Echo / Daily Post*. Dyfarnwyd Siôn Eirian hefyd yn Artist y Flwyddyn yng

⁴⁷ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 68-9.

⁴⁸ Siôn Eirian, 'Rhagair', *Epa yn y Parlwr Cefn* (Aberystwyth, 1995), t. 4.

⁴⁹ Siôn Eirian, yn Baines, 'Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian', *Barn*, 29.

⁵⁰ Dienw, 'Dalier Sylw', <http://www.theatre-wales.co.uk/companies/company_details.asp?ID=51>.

Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

ngwobrau celf BBC Cymru am ei waith fel awdur *Epa yn y Parlwr Cefn* ynghyd â'r ffilm *Gadael Lenin* a'i gyfieithiad o'r ddrama *Siwan* gan Saunders Lewis sef *The Royal Bed*, ar gyfer Radio 4. Cafwyd llwyfaniad arall o *Epa yn y Parlwr Cefn* ddeng mlynedd yn ddiweddarach, yn 2004, gan gwmni 3D, gyda Catrin Wyn Jones, Nia Wyn Jones, Hannah Wynn Jones a Trystan ab Ifan yn perfformio o dan gyfarwyddyd Gareth John Bale.

Yr oedd Siôn Eirian eisoes wedi cydweithio ag Eryl Phillips ar gynhyrchiad o ddrama lwyfan Saesneg, sef addasiad Cymreig o'r nofel *Dracula* (1897) gan Bram Stoker, a lwyfannwyd gan gwmni Sherman ym 1991; Eryl Phillips oedd yn chwarae rhan Dracula. Ni fu'r cynhyrchiad hwnnw, ychwaith, yn llwyddiant yn nhyb yr addaswr, a hynny oherwydd prinder adnoddau technegol a oedd yn elfen mor ganolog o'r cyfanwaith. Bu Siôn Eirian ac Eryl Phillips yn trafod y syniad o 'gydweithio ar rywbeth fyddai'n uchelgeisiol yn dechnegol, gyda chanfas mawr, ond yn glos ac yn atmosfferig'.⁵¹ Roedd hefyd yn fwriad creu drama a oedd yn cynnig y prif rannau i ferched oherwydd prinder rhannau i ferched mewn dramâu Cymraeg. Cafodd syniad am ddrama a ganolbwyntiai ar fywydau tair putain a'u landlord.

Dywed Siôn Eirian i'r byd hwn ennyn ei chwilfrydedd ers blynyddoedd a chyn mynd ati i gyfansoddi *Epa yn y Parlwr Cefn*, roedd eisoes wedi gwneud peth ymchwil i fywyd puteiniaid ar gyfer prosiect teledu yr oedd yn ymchwilio iddo a oedd yn canolbwyntio ar waith yr heddlu. Darlledwyd y gyfres *Nightshift* a oedd yn dilyn dau heddwes yn gweithio gyda'r nos yn ardal dociau Caerdydd ar BBC Wales ym 1993. Yn ystod y broses ymchwilio, roedd yn mynd allan gyda'r nosau gyda heddwesion o orsaf heddlu Stryd Bute. Agwedd gyson o'u gwaith oedd ymdrin â gwahanol fathau o buteinio; o ferched ifanc yn gweithio ar gorneli strydoedd neu dai preifat i ferched mwy profiadol yn gweithio mewn tafarndai. Ond er mwyn cael y safbwynt mewnol o'r busnes, roedd Siôn Eirian yn awyddus i gyfarfod â phuteiniaid er mwyn sgwrsio â hwy a dysgu am eu harfeion gwaith. Oherwydd prinder puteiniaid a oedd yn fodlon cyfarfod ag ef, rhaid oedd iddo ddibynnu ar nifer fechan o ferched. Roedd yn adnabod rheolwraig pedwar parlwr tylino yn ardal Caerdydd a Chaerfyrddin ac aeth hi ag ef i gyfarfod â rhai o'r merched a oedd yn gweithio iddi. Cyfarfu hefyd â gwraig a oedd yn gweithio fel putain o'i chartref ac yn byw yno gyda'i merch fach a'i mam a arferai fod yn butain hefyd. Darganfu hefyd fod puteindy ar Stryd Donald, a oedd yn agos iawn at ei gartref yn ardal y Rhath yng Nghaerdydd, lle'r oedd tair putain yn gweithio. Cafodd fynd yno ddwywaith i'w cyfarfod yn sgil ffrind iddo (ynghyd â photeli gwin a thâl i'r rheolwraig) a oedd wedi bod yno yn y gorffennol ac felly'n adnabod y gwragedd, a chafodd y

⁵¹ Siôn Eirian, yn Baines, 'Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian', *Barn*, 29.

cyfle i eistedd gyda hwy ym mharlwr cefn y tŷ gan ddysgu am eu hamodau gwaith a'u trefn ddyddiol. Seiliwyd llawer o *Epa yn y Parlwr Cefn* ar y tŷ hwn.

Mae eironi enw'r puteindy yn y ddrama, 15 Horizon View, yn amlwg, gyda'r cymeriadau oll yn gaeth i'w sefyllfaoedd ac wedi bod ers peth amser ac ni welant unrhyw opsiwn arall. Ym mharlwr cefn y tŷ, lle saif epa maint llawn yn un gornel o'r ystafell, y mae'r rhan helaethaf o'r ddrama wedi'i lleoli. Yno y mae Mary, Linda a Bethan yn byw ac yn gweithio. Mae cymeriad arall yn y ddrama hefyd sef Sammy Scoot, perchennog y tŷ. Daw o deulu ymddangosiadol barchus lle chwaraeai diwylliant Cymreig le blaenllaw, a gwêl ei hun fel tipyn o fardd:

SCOOT: Saer odd dadcu. Grosyr odd Nhad. A dipyn bach o fardd, a boi steddfoede. Landlord ydw i. Boi busnes, ond â blas at bethe gore bywyd. Celf – a capital.⁵²

Y mae'n siarad yn annwyl gyda'i fab ar y ffôn gan luchio arian tuag ato i leddfu'i gydwybod. Ymgorfforiad yw'r cymeriad hwn o ragrith dosbarth canol Cymreig sy'n thema gyson yng ngweithiau Meic Povey ac Aled Jones Williams hwythau. Gwelir yma enghraifft o Siôn Eirian, fel y gwnâi yn ei gerddi cynnar, yn '[c]odi dau fys yn wyneb parchus yr hen-ffordd-Gymreig-o-fyw'.⁵³ Yn wir, dywed y dramodydd mai drama am ragrith yw hon mewn gwirionedd a cheir ynddi feirniadaeth ar aelodau o'r gymdeithas ddosbarth canol, ddiwylliedig Gymreig y magwyd ef ynddi:

MARY: Pob dyn, yn landlord, yn ficer, yn flaenor, yn sant ... yn mwytho'u coce yn yr orie cudd, rhwng hanner nos a gole dydd.⁵⁴

Fe'n hatgoffir yn y ddrama hon o eiriau Saunders Lewis mewn llythyr ynghylch Catholigiaeth yn *Y Llenor* ym 1927:

Colled i lenyddiaeth yw colli pechod. Heb bechod ni cheir fyth ddim oddieithr barddoniaeth delynegol megis y sydd yng Nghymru heddiw, ac a geir hefyd, mi glywais ddweud, yn y nefoedd, gwlad arall sy'n brin o bechaduriaid. Ond a ninnau ar y ddaear, dylem barchu ein hetifeddiaeth a gwneud yn fawr o bechod. Hwn yw deunydd trasiedïau goreu'r byd, gwaith Shakespeare a Racine.⁵⁵

⁵² Siôn Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn* (Aberystwyth, 1995), t. 20.

⁵³ Williams, 'Epil Blin y Mans', *Taliesin*, 47.

⁵⁴ Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn*, t. 59.

⁵⁵ Saunders Lewis, 'Llythyr ynghylch Catholigiaeth', *Y Llenor* (Haf 1927), 75.

Mae'r portread o'r merched yn y ddrama yn llawer anwylach na'r portread a gawn o Scoot, megis pan yw Mary'n cyfeirio at y tro y treuliodd amser gyda gŵr heb freichiau er mwyn rhoi rhywfaint o bleser iddo:

Ond beth sydd fwyaf anfoesol tybed – galwedigaeth Mary a Linda neu uchelgais unigolyn dienaidd sy'n meddu ar werthoedd barus ffasiynol tebyg i'r landlord, Scoot?⁵⁶

Y mae triniaeth Scoot o'r merched yn sarhaus ac ni ddengys unrhyw barch tuag atynt. Y mae'n feirniadol o'u ffordd o fyw ond eto'n fodlon cymryd yr arian a wneir o'r busnes fel arian rhent ac edrycha ar y merched gyda chleientiaid drwy dwll yn y wal a phleseru ei hun. Ni ofala o gwbl am y tŷ gan y gŵyr na fyddai'n bosibl i'r merched ganfod unlle arall i fyw. Y mae'n fwriad ganddo werthu'r tŷ yn y flwyddyn newydd ond ni phoena am effaith hynny ar y merched.

Putain brofiadol iawn yw Mary sy'n gymeriad mamol a cheisia ofalu am y ddwy arall drwy eu bwydo a rhoi cyngor iddynt. Awgrymir mai'r rheswm dros agwedd famol Mary tuag at y merched eraill yw oherwydd iddi golli ei merch ei hun o ganlyniad i'w dibyniaeth ar gyffuriau, ond nid yw Mary'n fodlon derbyn bod ei merch wedi marw. Daw o gefndir breintiedig, cefn gwlad a derbyniodd addysg breifat. Ymddengys fod ei gwaith fel putain ers dros ugain mlynedd wedi'i chaledu ac yn arbennig felly ei hagwedd tuag at ddynion, ond dan yr wyneb y mae ganddi galon fawr. Y mae'n cynorthwyo'r heddlu lleol gyda'u hymholiadau er mwyn iddynt hwythau droi llygad ddall at yr hyn sy'n digwydd yn y tŷ. Ar ddiwedd y ddrama, wedi iddo fod yn annerch yng nghinio Nadolig dynion busnes lleol, daw Scoot i'r tŷ ac fe'i hudir gan Mary i gysgu gyda hi ac o ganlyniad y mae hi'n adennill pŵer gan adael Scoot yn ddyn gwan, pathetig. Cymeriad oeraidd yw Linda a gafodd ei cham-drin gan ei thad, ei brodyr a'i hewythr pan oedd yn ferch ifanc. Gwêl ofal Mary drosti fel ymyrraeth. Yfa yn drwm a cheisia ddianc i'w hatgofion o'r gorffennol am waredigaeth o'i sefyllfa druenus. Ond dysgw'n mai byd ffantasi yw'r gorffennol hapus y breuddwydia amdano gyda'i chariad Sigi, a arferai ei churo. Myfyrwraig yw Bethan ac, fel Mary, daw o gefndir gweddol gyfforddus. Mae wedi troi at buteinio er mwyn talu am ei lle yn y coleg. Gwêl Mary hi ar ei noson gyntaf ar y stryd a chymer hi dan ei hadain gan ddod â hi yn ôl i 15 Horizon View i ddod yn rhan o'r busnes.

⁵⁶ Eirian, 'Rhagair', *Epa yn y Parlwr Cefn*, t. 4.

2.2 Tabŵ?

I would rather the company of prostitutes and
gays than of people in suits and the 'big seats' in chapels.⁵⁷

Nid bwriad gwreiddiol Siôn Eirian wrth gyfansoddi *Epa yn y Parlwr Cefn* oedd ysgrifennu drama am buteiniaid. Y bwriad oedd iddo ef ac Eryl Phillips gydweithio ar ddrama a ganolbwyntiai ar seicoleg Sigmund Freud a'r berthynas â'i gydweithiwr Ernest Jones a oedd yn Gymro ac yn ŵr i'r gantores Morfudd Llwyn Owen. Byddai'r ddrama yn ymdrin â themâu seicoleg rywiol a rhywioldeb:

Wrth bellhau oddi wrth y syniad o ddrama "hanesyddol" am Ernest Jones a Morfudd, fe ddes i i sylweddoli fod yr holl faes yma (seicoleg rhywiol) yn ganolog i fywyd merched oedd ar y gem [*sic*]. Roedd y "power politics" rhwng dynion a menywod, eroticiaeth, ac agweddi treisiol ar rywioldeb yn rhan bob dydd o alwedigaeth y merched yma.⁵⁸

Yn wir, mae rhyw, seicoleg rhyw a phŵer rhywiol yn themâu cyson yng ngweithiau Siôn Eirian; themâu a ystyrid pan gyfansoddwyd y gweithiau yn niwedd yr ugeinfed ganrif yn rhai cymharol fentrus, isfydol a heriol, ond y maent yn themâu sydd yn amlwg o ddiddordeb mawr i Siôn Eirian ac nid ystyriai ef hwynt fel pynciau tabŵaidd: 'mae'r weithred rywiol, a iaith "gwrs", wedi stopio bod yn nofeli mewn sgrifennu Cymraeg'.⁵⁹ Dywedodd mewn ysgrif ar y broses o gyfansoddi *Epa yn y Parlwr Cefn*:

pan o'n i'n sgrifennu'r uchod roedd ambell 6ed dosbarth yn astudio'r ddrama ... Ond ers hynny mae'r hinsawdd wedi newid a does na'r un ysgol yn ystyried astudio drama fel hon bellach. Mae yna obsesiwn biwritanaidd wedi gafael ynglyn a [*sic*] rhywioldeb/pobl ifanc/plant hyn [*sic*] ... yn ogystal a [*sic*] sgil-ffeithiau ymchwiliad Clywch ar ôl troseddau John Owen, felly mae'r holl faes yn tabw [*sic*].⁶⁰

Mae dramodwyr dros y blynyddoedd wedi defnyddio'u cyfrwng fel llwyfan i gyflwyno pynciau heriol nad ydynt yn aml yn cael eu trafod yn agored. Ystyrier y ddrama *Ghosts* (1881) gan Ibsen fel enghraifft. Dyma ddrama a oedd yn ymdrin â phynciau a themâu hynod fentrus yn y cyfnod megis y ddadl o blaid cariad rhydd, ymosodiad ar grefydd, a chyfeiriadau

⁵⁷ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 68-9.

⁵⁸ Siôn Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn* (ysgrif anghyhoeddedig a dderbyniwyd o law Sion Eirian).

⁵⁹ Siôn Eirian, yn Baines, 'Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian', 30.

⁶⁰ Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn* (ysgrif anghyhoeddedig).

at siffilis a llogach, ac o ganlyniad, gwaharddwyd y ddrama rhag cael ei pherfformio'n gyhoeddus yn Lloegr am bron i bum mlynedd ar hugain. Ond trwy godi ymwybyddiaeth o bynciau gwahareddig cyffelyb a'u trin a'u trafod mewn modd mor gyhoeddus â'r ddrama, daeth pynciau a ystyrid yn dabŵaidd yn fwy cyffredin a llai sioclyd. O'r herwydd, chwaraeodd y ddrama fel cyfrwng ran flaenllaw o fewn esblygiad cymdeithasol.

Y mae rhyw, seicoleg rhyw a phŵer rhywiol yn themâu amlwg yn y ddrama *Epa yn y Parlwr Cefn* gyda'r gemau pŵer rhywiol y chwaraeai'r cymeriadau er mwyn eu hamddiffyn eu hunain. Er nad yw dramâu eraill Siôn Eirian yn ymdrin â themâu rhywiol mor amlwg ag *Epa yn y Parlwr Cefn*, ceir enghreifftiau o gymeriadau yn camddefnyddio rhyw a phŵer rhywiol er eu buddiannau eu hunain ym mhob un o'i ddramâu gan gynnwys y ddrama Saesneg, *Dracula*. Y mae rhyw a grym yn mynd law yn llaw ym mherthynas amryw o gymeriadau yn *Paradwys Waed* hefyd, er enghraifft, Graves a'i feistres Laura Riding, Richard a'r ferch sy'n gweithio yn swyddfa Reuters, a Gronw a Carla. Y mae Carla yn gwerthu'i hun i Gronw er mwyn cael arian i ddianc gan eu bod ar ffo am lofruddio'i thad a fu'n ei cham-drin. Yn y ddrama hon 'mae rhyw yn arf, ond mae'n profi gwendid yr un pryd, ac nid yw fyth yn hawdd dweud gan ba ochr y mae'r gwir rym'.⁶¹ Yn *Wastad ar y Tu Fas*, mae'r Swyddog yn y gwersyll yn cosbi Steffan mewn modd erchyll trwy ei orfodi i gysgu gyda'r butain a hynny er mwyn iddo ef gael eu gwyllo yn ddirgel yn cyfathrachu. Gwerthu ei chorff i ddynion mewn ffordd wahanol a wna Dizzy yn *Hedfan Drwy'r Machlud* trwy ymddangos ar gloriau cylchgronau i ddynion, ond ar ddiwedd y ddrama caiff ei threisio a'i llofruddio gan ffigwr o ddyn ac awgrymir mai Luis, plentyn siawns y Cesar, sy'n gyfrifol gan iddo dreisio dwy ferch arall cyn hynny. Yn *Cegin y Diafol*, er nad yw'r stori hon yn cael ei harchwilio mewn unrhyw ddyfnder yn y ddrama, y mae Greta yn gweithio fel newyddiadurwraig ac ar drywydd stori am ferched yn cael eu hallforio o wledydd Dwyrain Ewrop i weithio fel puteiniaid yng ngwledydd y Gorllewin. Yn eu tro, mae pob un o'r merched yn *Cegin y Diafol* yn defnyddio Nimrod, sef unig gymeriad gwrywaidd y ddrama, er eu pleser eu hunain trwy gysgu gydag ef. Nid yw ef yn ymatal, ond nid yw ychwaith yn annog y merched mewn unrhyw ffordd.

Diddorol yw'r ffaith mai beirniadaeth ar ei ryw ef ei hun a geir yng ngweithiau Siôn Eirian, ar wrywod, a chydymdeimlad tuag at y cymeriadau benywaidd. Yn *Epa yn y Parlwr Cefn*, sy'n canolbwyntio ar un o'r diwydiannau hynaf yn y byd, trwy gyfrwng cymeriad Scoot sy'n rheoli'r amodau busnes a'r elw, llwyddodd y dramodydd i fynegi'r thema ein bod

⁶¹ Menna Baines, 'Ceisio Paradwys yn y Swt a Sbaen', *Barn*, 450/451 (Gorffennaf/Awst 2000), 106.

yn byw mewn byd ‘patriarchaidd’ iawn, a’r modd y mae dynion wedi rheoli merched dros y canrifoedd a’u rheibio:

Mae’r ddrama’n bras-gyffwrdd â’r syniad yma, sef bod y gwaelod yna, yr hyn sy’n rhoi i berson ei rym a’i le mewn cymdeithas, yn rhywbeth gwrywaidd ofnadwy o hyd. Mae yna frwtaleiddio wedi digwydd a’r ochr wrywaidd sydd wedi gorfodi hyn.⁶²

Mynegir hyn, nid yn unig trwy gyfrwng cymeriad Scoot a gwaith y merched, ond cyfeiria Mary hefyd at y modd y camdriniwyd Linda pan oedd yn ferch fach gan aelodau gwrywaidd ei theulu, a sut y bu i ferch Mary, Debbie, farw o ganlyniad i ddynion yn ei phwmpio â chyffuriau. Mae ein cydymdeimlad yn wastadol gyda’r merched yn y ddrama:

SCOOT: Pennill i’r Ferch,
Diben merch yw byw yn deidi,
Diben merch yw tyfu’n ledi,
Gwaetha’r modd ma lot yn ffaelu ...
Wedyn ma dyn yn ’u trin,
Ddim gwell, ddim gwa’th, na ma nhw’n haeddu.⁶³

Ond golyga’r rheibio diystyriol hyn mai’r gwrywod, mewn gwirionedd, yw’r rhyw wannaf a’r ffordd y maent yn ‘llwyddo’ yn y byd yw trwy ddefnyddio grym. Yn gyffredinol, mae merched yn cael eu portreadu yn llawer cryfach na’r dynion yng ngweithiau Siôn Eirian. Mynegir hyn yn y modd y mae Mary yn llwyddo i hudo Scoot mor rhwydd ar ddiwedd *Epa yn y Parlwr Cefn* gan ddisodli unrhyw bŵer a oedd ganddo:

MARY: Beth wede Miriam, Sammy? A dy ffrindie di yn y clwb cinio?
SCOOT: Mond ti a fi sy’n gwbod. A sdim ots da ti. Ti yn deall.
MARY: Wy yn deall. Nid mochyn wyt ti Scoot – ond mwydyn. Yntyfe?
Mae MARY’n araf yn arllwys y gwin o botel dros gorff a phen SCOOT, sy’n dal i duchan fel plentyn.
Drych Scoot, Ti’n llipa. Mwydyn bach, yn siwps yn y glaw ... Ti’n ddim Scoot. Heb yr arian yn dy gownt banc di, heb y gwenwyn yn dy galon di, ti’n ddim. Ti’n ddim byd.⁶⁴

Dywed Siôn Eirian mai tair arwres yw’r tair putain yn y ddrama ac mai Scoot yw’r cymeriad gwenwynig. Merched hefyd yw’r cymeriadau cryfaf yn *Cegin y Diafol* a Nimrod, yr unig gymeriad gwrywaidd, yw’r cymeriad gwannaf. Dywedodd Branwen Davies, a bortreadai

⁶² Siôn Eirian, yn Baines, ‘Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian’, *Barn*, 30.

⁶³ Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn*, t. 17.

⁶⁴ Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn*, t. 60.

Greta yn y ddrama, ei bod yn braf i aelodau benywaidd y cast gael portreadu cymeriadau benywaidd cryfion.⁶⁵

⁶⁵ Branwen Davies, 'Cegin y Diafol' (gohebiaeth, 5 Mehefin 2014).

2.3 Iaith

Ry'n ni'n rhannu planed,
ond heb fyth rannu profiad⁶⁶

Y mae'r thema o'r modd y mae dynion wedi defnyddio eu grym i reibio yn estyn ymhellach na rheibio rhywiol yn unig. Yn y ddrama *Hedfan Drwy'r Machlud*, er enghraifft, cyflëir sut y mae dyn wedi bod yn rheibio ac wrthi'n ecsbloetio yn ddaearyddol ac yn ddiwylliannol hefyd ar hyd yr oesau:

Wedyn yn *Hedfan Drwy'r Machlud*, rwy wedi creu rhyw fath o ddameg estynedig yn edrych ar siwd mae teithio di-ymdrech a marchnad global yn chwalo ffiniau nid yn unig gwledydd ond hefyd ddiwylliannau oedd yn ddigynnewid am gannoedd o flynyddoedd tan newidiadau anferth y degawd diwethaf 'ma.⁶⁷

Comisiynwyd *Hedfan Drwy'r Machlud* gan Goleg Cerdd a Drama Cymru a hynny mewn cydweithrediad â Sgript Cymru. Fe'i llwyfannwyd gyntaf yn Theatr y Bute yn 2006. Roedd y cast yn un cwbl fenywaidd gyda Catrin Morgan, Nadine Beaton, Catherine Evans, Ffion Williams, Elen Rhys, a Siân Alwen yn perfformio o dan gyfarwyddyd cyfarwyddwr gweddol ddibrofiad bryd hynny, Arwel Gruffydd, a ddisgrifiodd ei hun yn rhaglen y cynhyrchiad fel 'tipyn o brentis'.⁶⁸ Y mae ef, bellach, yn Gyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru. Cafwyd yma enghraifft o gydweithio llwyddiannus rhwng y dramodydd a'r cyfarwyddwr, a derbyniodd Siôn Eirian gymorth cyson gan Arwel Gruffydd i ailwampio ac ailddrafftio'r sgript bedair neu bump o weithiau ac, o ganlyniad, cymerodd y broses oddeutu wyth mis i'w chwblhau.

Fe wnes i gyfarwyddo *Hedfa Drwy'r Machlud* yn weddol gynnar yn fy ngyrfa fel cyfarwyddwr. Bu i Sion sgwennu sawl drafft, ac fe wnes i gwrdd ag o ar ôl pob un er mwyn rhoi iddo fy sylwadau. Roedd hon yn broses gweddol newydd i mi, a deuthum i ddeall yn well bob tro yr hyn yr oedd Sion yn ceisio ymgynraedd tuag ato gyda'i ddrama, a'r ddau ohonom yn adeiladu perthynas weithiol gadarnhaol iawn wrth fynd yn ein blaenau.⁶⁹

⁶⁶ Siôn Eirian, *Cegin y Diafol* (Caerdydd, 2001), t. 72.

⁶⁷ Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

⁶⁸ Dafydd Llewelyn, 'Yr ifanc a wŷr', *Barn*, 519 (Ebrill 2006), 52.

⁶⁹ Arwel Gruffydd, 'Hedfan Drwy'r Machlud' (gohebiaeth, 15 Medi 2014).

Ysbrydolwyd Siôn Eirian i gyfansoddi'r ddrama gan lyfr y llenor, y cyflwynydd teledu a'r athronydd Alain de Botton, *The Art of Travel* (2002). Dyma awdur a'i weithiau yn trafod amrywiaeth o bynciau a themâu cyfoes a pherthnasedd athroniaeth mewn bywyd beunyddiol. Gan ddefnyddio'r llyfr hwn, edrychodd Siôn Eirian 'ar sut mae teithio gor-rwydd yn chwalu'r union baradwysau bach sy'n gyrchfan i'r teithio'.⁷⁰ Y mae'r ddrama yn pendilio rhwng dwy stori a'r gyntaf yn ymwneud â rhai o drigolion pentref mewn ardal ddiarffordd yn nyffryn y Lima, Estoraos, yng ngogledd Portiwgal. Y mae'r pentref, y ffordd draddodiadol o fyw, diwylliant yr ardal a chrefydd y trigolion o dan fygythiad gan y ffordd ddeuol a datblygiad newydd sy'n cael eu hadeiladu ryw bum milltir o'r pentref. Mae Consuela a Luzia yn gweithio ym mhlasty'r Villa Patria, plasty Doctor Cesar Torres. Consuela yw goruchwylwraig y stad. Mae'r ddwy chwaer, Isabela ac Isaura, yn byw mewn tyddyn bychan tloidaidd iawn yn y pentref ac yn gyfrifol am lanhau'r bythynnod sy'n perthyn i'r plas. Y mae Isabela yn fam i Luzia ac mae ganddi fab hefyd, Luis. Ni chyfarfyddwn â Luis yn ystod y ddrama, ond dysgw'n nad yw'n gymeriad dymunol iawn a'i fod yn yfed yn drwm ac yn drwgweithredu'n gyson. Caiff ei amau o werthu cyffuriau ar y safle adeiladu ac o dreisio merch ifanc. Treisiwyd merch flwyddyn ynghynt hefyd, a chuddiodd Luis am dridiau wedi hynny. Â Consuela i gael gair gydag Isabela yn ei gylch ac er y gwŷr hithau a'i chwaer o'r gorau sut un yw Luis, y maent yn arbed ei gam gan ddweud fod y datblygiad newydd wedi dod â llawer o drybini yn ei sgil ac nad oes gan weithwyr y safle unrhyw barch at yr ardal, ac mai hwy sydd wedi dylanwadu ar Luis:

Isaura A ma'r holl bobol ddieithr ma'n dod a [sic] ffyrdd estron. Drygioni newydd. Meddwi mowr, cyffurie, hudo pobol ifenc yr ardal ma ... A rhoi o'r pethe erill o'dd Luis yn dod nol 'ma. Weles i nhw yn 'i stafell e ... tapie o bethe treisiol, rhyw geme gwaedlyd ... yn 'u ca'l nhw wrth y bois ar y seit.⁷¹

Yn wir, y mae Luzia hefyd, a gynrychiola'r to iau, yn cael ei denu i yfed mewn dawnsfeydd ar y safle. Gwelant fai ar Cesar am werthu'r tir i'r datblygwyr ond ymetyb Consuela gan ddweud ei fod wedi gwneud hynny er mwyn dod â gwaith ac arian i'r ardal. Ond mae hynny, wrth gwrs, ar draul y diwylliant brodorol:

Consuela ... Ond nid Estoraos fydd Estoraos cyn bo hir.⁷²

⁷⁰ Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

⁷¹ Siôn Eirian, *Hedfan Drwy'r Machlud* (teipysgrif anghyhoeddedig, 2006), t. 26.

⁷² Eirian, *Hedfan Drwy'r Machlud*, t. 50.

Ond dysgwn mai'r rheswm dros gonsŷrn Consuela am Luis a pham ei bod mor barod i arbed cam Cesar yw oherwydd mai Consuela yw mam fiolegol Luis a Cesar yw ei dad. Pan oedd yn ddeunaw oed ac yn y coleg yn Oporto, cafodd berthynas odinebus â Cesar ac esgorodd ar fab. Roedd gan Isabela blentyn eisoes, Luzia, a oedd yn blentyn siawns, a rhoddodd Consuela ei mab iddi i'w fabwysiadu. Erbyn hyn, y mae Cesar yw ŵr gweddw ac ar fin dychwelyd i Estoraos a gobeithia Consuela y bydd yn dychwelyd ati hithau hefyd. Ond nid dyna fwriad Cesar. Mewn monolog ar ddiwedd y ddrama, dywed Consuela ei fod wedi gwerthu'r plasty i'r datblygwyr er mwyn ei droi'n westy. O ganlyniad, ni fydd ganddi hithau unlle i fyw a bwriada dychwelyd i Oporto i weithio yn y brifysgol.

Yn cydreddeg â'r plot hwn y mae stori dwy Gymraes, Dizzy a Kate, sy'n hedfan ar awyren i bentref bach yn nyffryn y Lima, Ponte de Lima, i greu hysbyseb ar gyfer gwin drud a wneir yn nyffryn Lima, Vinhos Mertos, a gyfieithir i 'win y meirw'. Ffotograffydd yw Kate a model yw Dizzy sydd wedi ymddangos ar gloriau nifer o gylchgronau i ddynion a chanddi dipyn o feddwl ohoni'i hun. Wedi glanio, teithia'r ddwy mewn car ond ânt ar goll ac wrth ddadlau a ydynt wedi pasio'r troead neu beidio, â'r car i'r ffos. Y mae'n dechrau troi'n stormus ac nid oes ganddynt dderbyniad ffôn. Nid oes unrhyw beth amdani, felly, ond cychwyn cerdded ac â Kate i chwilio am gymorth tra erys Dizzy gyda'r car. Ond ceir diwedd dramatig i'w stori, wrth i Dizzy gael ei chrogi a'i threisio gan ddyn a cheir awgrym cryf mai Luis sy'n gyfrifol. Dyma enghraifft, unwaith yn rhagor, o ddyn yn rheibio. Ond yma mae'r sefyllfa'n cael ei throi ar ei phen gan mai un o'r twristiaid sy'n cael ei threisio gan un o'r brodorion.

Wrth i'r cyntefig ddod i wrthdrawiad â'r ôl-fodern, daw canlyniadau erchyll, a dadlennir tableau hynod bwerus sy'n croniclo'r ddrama gyfan, lle daw crefydd a chwant, dyheadau a cholled, a dwy ffordd o fyw i wrthdrawiad poenus a gwaedlyd.⁷³

Y mae'r byd yn mynd yn llai ac yn llai a mwy o gyfle i dwristiaid brofi amrywiol ddiwylliannau cyntefig nag erioed. Ond, yn eironig, y pris sy'n rhaid ei dalu am hynny yw'r bygythiad i'r union draddodiadau brodorol sy'n eu denu yn y lle cyntaf:

⁷³ Kate Woodward, 'Hedfan Drwy'r Machlud', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Hedfan%20Drwy%92r%20Machlud&company=Royal%20Welsh%20College%20of%20Music%20and%20Drama>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

- Isaura Pan ddaw'r holl lefydd newydd ... y siope anferth, y llefydd bwyd 'na, a'r ffordd fowr fishi ... fyddwn ni'n dala i glywed cloch yr eglw's ar draws y dyffryn?
- Isabela Siwr byddwn ni. Fyddan nhw'n parchu galwad yr hen gloch do's bosib.
- Isaura Byddan wrth gwrs.⁷⁴

Yn wahanol i weddill gweithiau Siôn Eirian, oherwydd y thema o fygythiad i ddiwylliant brodorol, y mae crefydd yn chwarae rhan ganolog ym mywydau rhai o'r cymeriadau. Yn yr achos hwn, mae crefydd yn cynrychioli'r hen draddodiadau a'r hen werthoedd. Mewn sefyllfaoedd o anobaith a thlodi a chyda'r bygythiadau i'w diwylliant, troent at Dduw am nerth:

- Kate Fasa'n well i ti beidio gwisgo'r dillad sgimpi 'na o gwmpas y lle. Ddim drwy'r amser, liw dydd.
- Dizzy O?
- Kate Nenwedig a fory'n Sul. Waeth ni ddechre yn weddol weddus. Yr asiantaeth o'dd yn deud. Mae'r bobl leol yn ffyrnig o grefyddol.
- Dizzy Ti'n siarad a [*sic*] croten fach o gefen gwlad Shir Aberteifi. Wy wedi arfer.
- Kate Y genhedlaeth hyn [*sic*]. A'r menywod. Rhai ohonyn nhw'n dal nol [*sic*] yn yr Oesoedd Canol 'nol pob tebyg. Rhai o'r genhedlaeth iau yn wahanol ...
- Dizzy Be? Partis gwallgo ...?
- Kate Lot o brobleme'n dechre lledu, alcohol, cyffurie ...⁷⁵

Awgryma Arwel Gruffydd a gyfarwyddodd *Hedfan Drwy'r Machlud*, mai 'alegori o Gymru'⁷⁶ yw'r hyn a ddigwydd ym Mhortiugal y ddrama. Tranc cenedl fechan a geir yma gyda bygythiad i'r ffordd draddodiadol o fyw a diwylliant y wlad. Dyma elfen eironig wrth ystyried ymwrthodiad ymwybodol Siôn Eirian â chymdeithas ei fagwraeth ei hun. A yw'r ddrama hon, felly, yn arwydd o agwedd fwy tosturiol y dramodydd tuag at ddiwylliant Cymreig wrth iddo aeddfedu ac na all ddianc oddi wrth ei wreiddiau? Yr un modd, y diwylliant Cymreig sydd o dan fygythiad yn y ddrama *Cegin y Diafol* hefyd; drama arall sy'n ymdrin â'r thema o wrthdaro diwylliannol. Yn y ddrama hon hefyd, archwilir y syniad fod y byd yn mynd yn llai a diwylliant dan fygythiad, a hynny, yn yr achos hwn, o ganlyniad i dechnoleg fodern:

⁷⁴ Eirian, *Hedfan Drwy'r Machlud*, t. 49.

⁷⁵ Eirian, *Hedfan Drwy'r Machlud*, t. 19.

⁷⁶ Gruffydd, 'Hedfan Drwy'r Machlud'.

ENGELHART: Dilyn trywydd stori. Rhan o gyfres am sut mae mythau a ffantasiâu yn tramwyo o wlad i wlad, o ddiwylliant i ddiwylliant, yn coloneiddio a chaethiwo ... Yn yr hen ddyddiau roedd ymerodraeth yn coloneiddio drwy rym corfforol. Heddiw mae ymerodraeth newydd yn coloneiddio drwy rithio diwylliannau a rhwydo dychymyg.⁷⁷

Fel *Hedfan Drwy'r Machlud*, comisiynwyd Siôn Eirian i ysgrifennu *Cegin y Diafol* ar gyfer Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn 2001. Esgorodd ar berthynas glòs rhyngddo a'r sefydliad gan iddo gyfieithu ac addasu nifer o ddramâu ar ei gyfer yn ddiweddarach megis *Y Fam*, *Tŷ Dol*, *Dros Bont Brooklyn* ac *Arolygydd y Llywodraeth*. Dywed y dramodydd nad ar hap y dewisiodd ysgrifennu'r ddrama hon ar gyfer y Coleg. Gwyddai fod gan y sefydliad fynediad at yr adnoddau gorau a chyllideb hael a oedd yn caniatáu llwyfannu gwaith theatrig o safon uchel iawn heb y pwysau o orfod bodlonni corfforaethau ariannu allanol fel yn achos cwmnïau proffesiynol. Perfformiwyd y ddrama gyntaf ar 7 Chwefror 2001 yn Stiwdio Caird. Tim Baker oedd yn gyfrifol am gyfarwyddo criw o fyfyrwyr ifanc sydd bellach yn gweithio'n broffesiynol ym maes y ddrama, gan gynnwys Catrin Mara, Elen Gwynne, Branwen Davies, Kate Jarman ac Aled Pugh:

Trysor o beth i actorion Cymru bellach yw sgript newydd sbon. Galluoga hyn yr actorion a'r cyfarwyddydd i fentro i dir nas troediwyd erioed o'r blaen; rhyw fath o wlad newydd. Ond sgript newydd gan Siôn Eirian? Bron y gallaf ddychmygu Tim Baker a myfyrwyr ifanc Coleg Cerdd a Drama Cymru yn glafoerio uwch ei ben, wrth arbrofi gyda'r tir difrycheulyd hwnnw. Mae'n siŵr y byddai actorion mwyaf profiadol a phroffesiynol Cymru yn awchu am gael y profiad hwnnw; i archwilio'r amrywiol haenau mewn drama gan ŵr a ddaeth â *Wastad ar y Tu Fas*, *Elvis*, *Y Blew a Fi*, *Epa yn y Parlwr Cefn* a *Paradwys Waed* i'n theatrau, a chwythu anadl i gymeriadau sydd wedi bodoli ar bapur yn unig.⁷⁸

Ceir pum cymeriad yn y ddrama: Gwylan, Nimrod, Pam, Sophie a Greta. Y mae Gwylan wedi dychwelyd o deithio'r byd i redeg caffî o'r enw Y Dafol sydd i fod i agor ymhen rhai dyddiau, ond nid yw pethau'n argoeli'n dda gyda bocsys wedi eu gosod ymhob man a'r paent ar arwydd y caffî wedi rhedeg i lunio'r enw Y Diafol. Er nad yw wedi agor eto, nid yw tynged y caffî yn edrych yn addawol wrth i Gwylan ddisgwyl ymwelydd yno sydd, gobeithio, am roi benthyg arian iddi. Mae un cymeriad yn y ddrama sy'n hollbresennol trwy gydol yr amser, er nad ydym fel cynulleidfa yn ei gyfarfod, sef Appleman. Ef sy'n

⁷⁷ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 54.

⁷⁸ Woodward, 'Technoleg Wybodaeth', *Barn*, 58.

penderfynu tynged y caffi ac yn rheoli'r holl ddigwydd, fel math o Dduw, a chanddo bŵer dros y cymeriadau ac iddo ef y maent yn atebol:

daw yn amlwg ein bod mewn bwyty sy'n bodoli yn y byd seibr yn unig ... Gwylan yw'r '*web-master*' sy'n gofalu am safle'r Dafol, ond '*net-master*' yw Appleman ac mae ganddo ef gynlluniau ar gyfer y safle.⁷⁹

Gweithio yn y gegin a wna Nimrod ac mae'n driw iawn i Gwylan, ei reolwraig, ac fe'i cyferchir ganddo fel 'Miss', ac mae'r ddau yn cael rhyw yn achlysurol. Daw Pam a Sophie i'r caffi gyda bagiau yn llawn offer trydanol i ymochel rhag y glaw ac i geisio cael cysylltiad â'r we. Cymeriadau arwynebol a materol ydynt gan eu bod yn byw eu bywydau'n slafaid trwy gyfrwng y dechnoleg newydd ac yn gaeth iddi, fel y mae eu henwau yn awgrymu; Pam a Sophie, a enwyd fel teyrnged i'r actores Pamela Anderson Lee a'r fodel Sophie Dahl. Rhaid iddynt syrffio trwy eu meddyliau yn union fel y gwneir ar gyfrifiadur. Mae eu byd yn cylchdroi o amgylch bywydau 'enwogion' a'r ddelwedd ddiweddaraf a derbyniant wybodaeth am bynciau yn syth wrth iddo gael ei ryddhau ar y we. O ganlyniad, mae unrhyw rith o bersonoliaeth ac unigolyddiaeth a feddent wedi pylu. Ymgorfforiad ydynt o systemau a 'bywyd' y we. Wrth iddynt newid eu dillad gwlyb am ddillad gweini, cred Nimrod eu bod yno ar gyfer y swyddi gweini yn y caffi. Dywed y ddwy gelwydd eu bod yn gweithio i Appelman a'i fod wedi eu hanfon yno i gynorthwyo yn y caffi, am gyflog wrth gwrs, ond mae Gwylan yn ddrwgdybus o'u cymhelliad yno. Yng nghwrs y ddrama mae Nimrod yn cael rhyw gyda Pam a Sophie yn eu tro. Nid yw Nimrod erioed wedi dweud celwydd wrth ei feistres o'r blaen, ond mae Pam a Sophie yn ei orfodi i wneud hynny er mwyn ceisio tawelu amheuan Gwylan ynglŷn â'u perthynas.

Wrth ddadbacio, egyr Nimrod un o'r bocsys, ac ohono daw merch a chyflwynna ei hun iddo fel Engelhart. Gohebydd newyddiadurol rhyngwladol i bapur newydd adnabyddus ydyw ac wedi ei hyfforddi yn yr Almaen. Bu'n gweithio'n gudd fel perfformwraig mewn clwb yn Soho yn Llundain ar drywydd stori yn ymwneud â choloneiddio o fewn gwahanol ddiwylliannau, a'r modd y mae merched ifanc o Ddwyrain Ewrop yn cael eu cipio i weithio fel puteiniaid yng ngwledydd y Gorllewin. Yn ei dillad rhywiol, llusga Engelhart Nimrod yn ôl i mewn i'r bocsi ati lle maent yn cael cyfathrach. Pan ddaw Gwylan yn ei hôl, a chlywed synau rhyfedd yn dod o gyfeiriad y bocsi, sylweddola mai ei chyfeilles o'r gorffennol, Greta

⁷⁹ Phil ap Iorwerth, 'Swnio'n gymhleth? Drama fel'na oedd hi!', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/0102cegin.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

Engelhert, y bu'n teithio'r byd yn ei chwmni, ydyw'r ferch. Esbonia Greta ei bod wedi gorfod dianc a chuddio mewn bocs mewn warws danddaearol a dyna sut y cyrhaeddodd y caffi:

Cymeriad hynod o bwysig, er nad ymddangosodd tan ail hanner y ddrama, oedd Greta (Branwen Davies). Dyma'r cymeriad a rydd oleuni i ni ar gymeriad Gwylan, cymeriad sy'n rhoi cyd-destun iddi, yn rhoi gorffennol, ac sy'n gwneud i ni ei gweld hi mewn ffordd gwbl wahanol ... Gwelwn Gwylan mewn golau newydd – dyma rywun sydd wedi 'byw' i'r eithaf, wedi gweld rhyfeddodau'r byd. Rhywun a fu gynt yn rhydd ac sydd wedi profi bywyd yn ei holl ogoniant.⁸⁰

Canfu Pam a Sophie, ar wefan Appelman, ei fod wedi rhoi'r caffi ar y farchnad gan newid ei enw i Trem y Criafol neu Ash Grove a'i fod yn cynllunio i'w droi'n gartref henoed a rhannant y wybodaeth â Gwylan. Ond canfu hithau nad yw'r ddwy yn gweithio i Appelman mewn gwirionedd ac iddynt dderbyn yr holl wybodaeth am y cwmni a'r bwyty oddi ar y we. Y mae Gwylan wedi colli pob gobaith bellach a phenderfyna aros yno, yn Ash Grove, gyda Pam a Sophie'n gofalu amdani, gan ddal ei gafael ar ei hatgofion a byw yn ei gorffennol.

Y mae'r ddrama hon yn ein hatgoffa o'r garreg filltir o ddrama abswrdaidd Gymraeg, *Saer Doliau* (1966) gan Gwenlyn Parry, sy'n canolbwyntio ar ŵr canol oed, Ifans, sy'n gweithio fel trwsigr doliau. Digwydd y ddrama yng ngweithdy Ifans ac yn eu tro, daw dau gymeriad ato i'r gweithdy: merch, a llanc sy'n dod yno i weithio fel prentis. Y mae'r ddau ohonynt yn troi ei fyd ben i waered gan geisio moderneiddio'r lle. Pan gyfyd problem, cysyllta Ifans â'r Giaffar ar y ffôn – cymeriad, fel Appelman yn *Cegin y Diafol*, nad yw'n bresennol ar y llwyfan. Yn wir, ceir amryw o elfennau cyffelyb yn y ddwy ddrama. Dyma'r unig ddrama lwyfan Gymraeg o eiddo Siôn Eirian ac iddi gyffyrddiadau abswrdaidd, megis cymeriad yn dod allan o focs; y mae'r ddeialog ar brydiau yn abswrdaidd; nid oes trefn amser resymegol ar ddiwedd y ddrama; ac mae diffyg ystyr i fywyd rhai o'r cymeriadau. Diwedda *Saer Doliau* gyda'r ffôn yn canu er nad yw wedi ei gysylltu; ceir parodi o hynny yn *Cegin y Diafol*, gyda sŵn ffôn yn canu'n ddi-baid, er nad yw'r ffôn yn y caffi wedi ei gysylltu, hyd nes i Gwylan ganfod mai ei ffôn symudol sy'n canu. Gellir priodoli'r dyfyniad isod sy'n cynnig dehongliad o ystyr *Saer Doliau* i *Cegin y Diafol*:

Un dehongliad yw mai portread o'r ddynoliaeth sydd yma ... ac mai Duw yw'r Giaffar y mae Ifans yn galw arno am gymorth. Y gynulleidfa sydd i benderfynu a oes rhywun y pen arall i'r ffôn.⁸¹

⁸⁰ Woodward, 'Technoleg Wybodaeth', *Barn*, 60.

⁸¹ Dienw, 'Gwenlyn Parry – y dramâu', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/pobl/gwenlyn-dramau.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

Â pherthynas glòs iawn wedi bodoli rhyngddynt wedi i'r ddau gydweithio yn y BBC, gellir dadlau bod arddull theatraidd Gwenlyn Parry wedi dylanwadu ar Siôn Eirian fel dramodydd. Fodd bynnag, dywed awdur *Cegin y Diafol*, er ei fod wedi bod yn ddylanwad anferth arno fel person, na ddysgodd fawr ddim am grefft ysgrifennu ar gyfer y llwyfan na theledu gan Gwenlyn Parry, yn wahanol felly i Meic Povey a gydnabu ddylanwad Gwenlyn Parry ar ei waith fel sgriptiwr ar gyfer y teledu. Dywed, er bod gweithiau Gwenlyn yn rhai 'difyr tu hwnt' ac yn 'werth eu hatgyfodi', ni theimla 'eu bod yn ddramâu mawr'.⁸² Dywed hefyd, ac eithrio'r ddyfais o'r ffôn yn canu, a oedd, medd y dramodydd, yn 'gyfeiriad wrth basio at *Saer Doliau*'⁸³ er mwyn amlygu'r ffaith 'fod Nimrod yn rhan o'r hen fyd Cymraeg', nad dylanwad theatr abswrdaidd Gwenlyn sydd ar *Cegin y Diafol*. Y rheswm iddo gynnwys elfen abswrdaidd yn y ddrama hon, medd ef, oedd yn rhannol oherwydd ei fod yn ei hysgrifennu ar gyfer criw o fyfyrwyr ac felly am fod yn fwy arbrol, ond yn bennaf oherwydd fod yr arddull yn cyfleu un o brif themâu'r ddrama, sef fod strwythur naturiol, rhesymegol, synhwyrol ar goll yn y byd rhithiol hwn.

Ceisiodd Siôn Eirian gyplysu syniadaeth y gerdd 'O Bridd' gan Waldo Williams yn rhan o'r ddrama hon. Dyma fardd a fu'n ddylanwad arno yn ystod ei ieuenctid, a dywed Siôn Eirian fod llawer o'r delweddau a geir yn y ddrama yn deillio o'r gerdd:

Geiriau Waldo yw catecism cymeriad Nimrod sy mond yn gallu diffinio'i hunan yn nhermau ei filltir sgwar di-amser. Ond mae delweddau'r gerdd yn plethu drwy glebran dwy ferch grwydrol, Pam a Sophie, sy'n byw trwy'r delweddau a'r ffantasiau sy ar wefannau diwylliant poblogaidd y dydd.⁸⁴

Yn ei gerdd, y mae gweledigaeth Waldo ynghylch y ddaear yn un ddofn ac eang er ei fod yn byw o fewn ffiniau cyfyngedig. Gwneir cymhariaeth rhwng disgrifiad Waldo o Begwn y De a bywyd ar y we. Dyfynnir llinellau o'r gerdd gan Nimrod yn ystod y ddrama sy'n gweld y we fel byd hollol ddieithr. Diwedda'r ddrama gyda llinellau olaf y gerdd:

O bridd, tua phegwn y de
Y mae ynys lle nid wyt ti,
Un llawr o ia glas yw'r lle,
A throed ni chyrhaedda na chri
I'w pherffaith ddiffeithwch oer,

⁸² Cyfweiliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

⁸³ E-bost gan Siôn Eirian (4 Medi 2015).

⁸⁴ Siôn Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

Ond suo'r dymestl gref
A'r un aderyn ni wŷyr
Dramwyo diffeithwch ei nef,
Lle mae'r nos yn goleuo'r niwl
A'r niwl yn tywyllu'r nos,
Harddach nag ydoedd fy haul
Mabol ar ryddid fy rhos
Er chwipio'r gwyntoedd anghenedl
Ar wyneb di-iau yr ia
A churo'r cesair dianadl
Heb wneuthur na drwg na da.
Tu hwnt i Kerguelen mae'r ynys
Lle ni safodd creadur byw,
Lle heb enw na hanes,
Ac yno yn disgwyl mae Duw.⁸⁵

Mewn cymhariaeth â byd Waldo, y mae'r rhyngryd, sy'n rhan ganolog o *Cegin y Diafol*, yn fodd o ehangu gorwelion y cymeriadau ond dewisant hwy gyfyngu eu hunain trwy obsesu am bynciau arwynebol ac, o ganlyniad, y mae gwacter ystyr i'w bywydau. Y mae Pam a Sophie yn gaeth i'r we ac fe'i defnyddiant er mwyn canfod gwybodaeth am unrhyw bwnc a gyfyd, ond mae eu gwybodaeth yn gyfyngedig iawn mewn gwirionedd ac eironig yw eu geiriau, 'Knowledge is power'.⁸⁶ Nid ydynt yn bodoli mewn realiti mewn gwirionedd, ond mewn rhith-realiti ac, o ganlyniad, nid yw'r cymeriadau yn rhai real chwaith: 'eiconau yw'r cymeriadau, meddai Siôn; symbolau sy'n crwydro drwy sefyllfaoedd swreal',⁸⁷ a chyfeiria at y ddrama fel cartŵn. Y mae gan Nimrod, y cymeriad symlaf a diniweitiaf o'r cwbl, weledigaeth lawer enangach na'r ddwy uchod gan ei fod ef yn meddu ar wreiddiau – gwreiddiau Cymreig, sef rhywbeth sy'n absennol o fywydau Pam a Sophie. Arwyddocaol felly yw ei enw, Nimrod, sef cymeriad Beiblaidd o bwys a oedd yn deyrn ac yn wŷyr i Ham a gor-wŷyr i Noah ac a roddodd ei enw i ddinas a sefydodd yn Iraq:

A dyna pam mae hi'n abswrdaidd achos tynna di'r gwreiddiau oddi ar gymeriad a gadael iddynt nhw fflotio, wel ti mewn drama abswrdaidd yn syth.⁸⁸

Mae'r cymeriadau oll yn amlwg yn deisyfu perthynas agos gydag unigolyn arall a'u hymgeision hwy i fodloni eu hawch am hyn yw cael cyfathrach rywiol â Nimrod. Nid yw'r

⁸⁵ Waldo Williams, 'O Bridd', *Dail Pren* (Aberystwyth, 1956), tt. 84-5.

⁸⁶ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 46.

⁸⁷ ap Iorwerth, 'Swnio'n gymhleth? Drama fel'na oedd hi!', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/0102cegin.shtml>>.

⁸⁸ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

gallu i gyfathrebu a chreu perthnasau â bodau dynol eraill ganddynt mwyach ac, o ganlyniad, mae'r weithred rywiol yn gwbl ddiystyr.

'Un sy'n aml yn defnyddio drama fel arf ar gyfer rhybuddio'⁸⁹ yw Siôn Eirian, ac mae'r rhybudd a geir yn y ddrama hon yn un amlwg. Cynrychiola Pam a Sophie y math o fywyd seibroffod, ffug, y mae cymaint o bobl ifanc heddiw yn ei arddel. Y mae ganddynt ffordd newydd o gyfathrebu â'i gilydd trwy gyfrwng y we ond maent yn colli'r gallu i gyfathrebu wyneb yn wyneb. Ys ddywed Greta:

ENGELHART: Ry'n ni'n rhannu planed, ond heb fyth rannu profiad. Credu ein bod yn rhannu iaith, gallu cymharu ystyr, deall a chyd-ddyheu. Cyffwrdd fel cariadon. Ond pan archwiliwn ogofâu dyfnaf ein bod, rydym ar ein pennau ein hunain ...⁹⁰

Y mae'r neges hon yn estyn yn ehangach gan gyfeirio at ddynoliaeth yn gyffredinol. Fe'n hatgoffir hefyd o eiriau Siwan o ddrama Saunders Lewis o'r un enw, wrth iddi ddisgrifio'i pherthynas â Llywelyn ei gŵr:

SIWAN: Dwy blaned yn rhwym i'w cylchau;
'chlywan nhw mo'i gilydd fyth.⁹¹

Atgyfnerthir geiriau Greta uchod yn y modd y mae'r cymeriadau oll yn siarad ar draws ei gilydd ar ddiwedd y ddrama:

ydi system dechnolegol fel y we yn creu newid graddol yn y ffordd ry'n ni'n profi realiti hefyd? Edrychwch ar y ffordd mae cenedlaeth newydd nawr yn helaethu ei gallu i gyfathrebu ond a'i gallu i gymdeithasu (yn y dull confensiynol) yn crebachu.⁹²

Cyfyd y cwestiwn, felly, ynglŷn â goblygiadau'r cyfryngau digidol ar iaith, diwylliant a gallu pobl i feddu ar hunaniaeth a chreu perthnasau ag eraill, ac yn ei dro, goblygiadau hynny i wareiddiad a dyfodol dynoliaeth:

How language shapes experience, and shapes perception, is still an issue in much of my work.⁹³

⁸⁹ Woodward, 'Hedfan Drwy'r Machlud', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Hedfan%20Drwy%92r%20Machlud&company=Royal%20Welsh%20College%20of%20Music%20and%20Drama>.

⁹⁰ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 72.

⁹¹ Saunders Lewis, 'Siwan', *Siwan a Cherddi Eraill* (Llandybie, 1982), t. 83.

⁹² Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

Cymharer ieithwedd farddonol, drosiadol ac athronyddol Gwylan a Greta, sydd wedi profi bywyd gwirioneddol cyn hyn, ag iaith sathredig Pam a Sophie, sy'n frith o eiriau Saesneg:

SOPHIE: (WRTH PAM) Ydw i'n rong – ne odi hwn yn byw mewn nerd-space?
PAM: Ia. Mae o like, sort of, y'know? ... uh-huh? Tydi?⁹⁴
ENGELHART: Minnau hefyd. I grwydro'r gwledydd eto. I geisio mynegi tranc mynegiant. Rwy'n ddehonglwraig Gwylan, ond yn ddibwêr i newid dim bellach. A oes modd trechu tranc?⁹⁵

Gall Engelhart siarad sawl iaith ond ni all Pam a Sophie fynegi eu hunain yn llwyddiannus mewn un iaith. Y mae eu hiaith yn dadfeilio. Dyma thema gref yn nofel ddiweddaraf Jerry Hunter, *Ebargofiant* (2014), lle mae gwareiddiad, fel yr ydym ni yn ei adnabod, wedi dod i ben ac felly hefyd unrhyw ffurf strwythiedig o iaith. Yn *Cegin y Diafol*, cyflëir y modd y mae'r dechnoleg newydd, nid yn unig yn cael effaith ar y gallu i gyfathrebu, ond hefyd yn cael effaith andwyol ar safon y Gymraeg. Pair hyn i thema'r ddrama fod yn arbennig o berthnasol i'r Cymry yn ogystal â meddu ar arwyddocâd rhyngwladol.

Nid y cynnwys yn unig oedd yn sialens ond hefyd yr iaith a'r delweddau a'r cyferbyniad rhwng y [*sic*] iaith ffurfiol, barddonol a'r bratiaith [*sic*]. Heb os fod naws Gymreig i'r ddrama ond roedd hefyd yn agor Cymru i'r byd ac yn gwneud Cymru yn berthnasol mewn darlun ehangach oedd i ni yn gyffrous ac yn newydd.⁹⁶

Cyflëir y thema hon o erydiad iaith yn y newid cyson i enw'r bwyty o Y Dafol, Y Diafol, Trem y Criafol ac Ash Grove. Y mae dylanwad y bywyd seibrofod hwn yn amlwg yn llygredig a chyflëir hynny pan ofynna Pam a Sophie i Nimrod ddweud celwydd wrth Gwylan, ei feistres, rhywbeth nad yw erioed wedi ei wneud o'r blaen. Mynegir sut y mae'r bywyd hwn yn esgor ar dwyll a brad ac yn chwalu perthnasau.

Y mae iaith yn thema gref o fewn y ddrama, ac nid yn unig bosibiliadau iaith ond mynegir hefyd fod iaith yn medru bod yn ddiffygiol. Cyfeiriwyd eisoes at y dyfyniad o'r gerdd 'Dysgu' o'r gyfres 'Profiadau Llencyndod', sy'n awgrymu anallu'r Gymraeg i fynegi gwir deimladau'r llenor yn ystod ei ieuenctid:

⁹³ Siôn Eirian, yn 'Siôn Eirian', Hazel Walford Davies (ed.) *Now you're Talking: contemporary Welsh dramatists in conversation with Hazel Walford Davies* (Cardigan, 2005), t. 70.

⁹⁴ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 21.

⁹⁵ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 70.

⁹⁶ Davies, 'Cegin y Diafol'.

y mae 'na bethau
nad oes gennym ni yng Nghymru
eiriau amdanynt ...⁹⁷

Ceir dyfyniad cyffelyb gan Gwylan yn *Cegin y Diafol*:

GWYLAN: O, ffrwydwefriad ... Gair Cymraeg am orgasm syr, ne falle mai fi ddychmygodd o ... Bathu nhw fy hun weithie ... Pan fo'r iaith yn brin o ... Sori Syr.⁹⁸

Ond a yw'r Gymraeg yn ddiffygiol mewn gwirionedd yn yr achos hwn, ynteu ai anwybodaeth ydyw ar ran y cymeriadau? Dyna a awgrymir yn y ddrama *Garw*:

LLEW Hyb olwyn car o'dd y jellyfish yn y tywod. 'Na'r agosa all y frawddeg 'na ddod at Gymra'g tweld. Ddim yn fai i yw bo dim gire da ni ife...
JERRY: ... Both olwyn modur o'dd y slefren fôr yn y tywod.
Mae LLEW yn syllu arno.
JERRY: Wedodd Lowri. 'Na beth fydde'r frawddeg. Yn Gymra'g.
LLEW: Cymra'g yw 'na i ti walle. Gobbledygook yw e i fi.⁹⁹

Yn ei herthygl ar *Cegin y Diafol*, gwêl Kate Woodward gysylltiad rhwng meddylfryd Siôn Eirian a'r Americanwr, Neil Postman, yn ei lyfr *Amusing Ourselves To Death* (1985) sy'n archwilio'r newidiadau cymdeithasol a ddaeth yn sgil dyfodiad y teledu. Dywed mai'r hyn sydd gan y ddau awdur yn gyffredin yw'r gred fod y 'ffyrdd o gyfathrebu sydd gan gymdeithas yn ddylanwad cryf ar dueddiadau deallus a chymdeithasol y diwylliant hwnnw'.¹⁰⁰ Yn *Cegin y Diafol* y mae'r bygythiad i ddiwylliant Cymreig yn amlwg. Nid cyddigwyddiad mo'r ffaith i Siôn Eirian ddewis enwau dau o gymeriadau o nofel Islwyn Ffowc Elis, *Cysgod y Cryman* (1953),¹⁰¹ a ddyfarnwyd yn llyfr Cymraeg mwyaf poblogaidd yr ugeinfed ganrif ym 1999 gan Gyngor Celfyddydau Cymru, fel enwau i'r ddwy gyfeilles yn y ddrama sef Gwylan a Greta. Cofier, hefyd, i Siôn Eirian addasu'r nofel hon yn ddrama lwyfan ar gyfer Theatr Genedlaethol Cymru yn 2007. Trwy ddefnyddio enwau'r cymeriadau,

⁹⁷ Eirian, 'Profiadau Llencyndod', yn Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978*, t. 31.

⁹⁸ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 48.

⁹⁹ Siôn Eirian, *Garw* (Caernarfon, 2014), tt. 34-6.

¹⁰⁰ Woodward, 'Technoleg Wybodaeth', *Barn*, 458, 59.

¹⁰¹ Nofel o eiddo Islwyn Ffowc Elis a gyhoeddwyd ym 1953, wedi ei lleoli yng nghefn gwlad Sir Drefaldwyn. Mae'r nofel yn olrhain hanes teulu ar fferm deuluol fawr, Lleifior, a'r gwrthdaro rhwng dwy genhedlaeth a gyfyd yn sgil penderfyniad mab y teulu i fod yn gomiwnydd.

yr oedd Eirian yn ddibynnol ar ddealltwriaeth y gynulleidfa o ddiwylliant Cymreig, sef yr union beth sydd yn y fantol yn y ddrama.

- GWYLAN: Mae'r Genedlaethol yn dwad i'r ardal ym mis Awst. Sut 'chi'n ffansio cydadrodd y fwydlen, a gneud dawns y glocsen wrth gario'r bwyd i'r byrdde?
- SOPHIE: Dans y beth?
- PAM: Gwisgo clogs? I ddawnsio? No way ...
- GWYLAN: C'mon ... A Gwylan ydw i, Greta 'di enw hithe, be am i ni gael theme nights ffycin Lleifior tra ydan ni wrthi. Blas ar ddiwylliant Cymraeg go iawn ...¹⁰²

Wrth gwrs, ni ddealla Pam a Sophie'r gyfeiriadaeth, mwy nag a ddeallent mai dyfynnu o waith Waldo a wna Nimrod, gan fod eu diwylliant Cymreig hwy wedi colli'r frwydr yn erbyn eu diwylliant Eingl-Americanaidd a rhwng yr holl straeon materol am 'enwogion' y foment. Llefarant yn Saesneg â'i gilydd fel pe baent yn dyfynnu adrannau o wefannau gan esgus mai enwogion ydynt. A chanlyniad hyn oll? Y posibilrwydd fod y byd seibrofod hwn yn ein coloneiddio ni fel dynoliaeth gan goloneiddio ein hiaith, ein diwylliant a'n hunaniaeth. Yn ystod y ddrama, daw Y Llais i dorri ar y ddeialog yn achlysurol gan roi enghreifftiau o wahanol fathau o goloneiddio:

LLAIS: Coloneiddio.

Enghraifft Pedwar.

Mangre:

Myrdd bocsys tegannau dewiniaid bach di-ri

Yr alcemyddwyr silicon

Sy nawr yn caethiwo cyfandiroedd

O bobl gegrwrth, a'u clymu

At olau glas annynol eu sgriniau tryloyw.

Felly tramwyaf y tywyllwch

Yn twrio am wreiddiau y triffid technolegol

Rhoddwyr gwybodaeth, rheibiwr ymwybyddiaeth,

Chwiliaf etymoleg y rhu sy'n gryndod drwy'r seiliau

Datrys hyn, os oes datrys bellach yn bosib.¹⁰³

Dywed Gwylan, 'Ella mai dyna fydd raid. Cyfaddawdu er mwyn goroesi'.¹⁰⁴ Ond y rhybudd yw mai canlyniad hynny fyddai creu cenhedlaeth newydd afreal sy'n meddu ar 'virtual

¹⁰² Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 63.

¹⁰³ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 46.

¹⁰⁴ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 54.

identities'¹⁰⁵ yn unig a chyflëir hynny yn y modd y mae Nimrod, ar ddiwedd y ddrama, wedi cyrcydu fel ystum baban yn y groth a gwifren drydan y cyfrifiadur fel petai'n dod o'i grombil, fel llinyn bogail:

ENGELHART: A'r pla ola ... sy wedi coloneiddio cortecs y blaned bwdwr ... sugno celloedd y meddwl drwy dyllu gwythiennau diwylliant, drwy ddwyn iaith, a throi ystyr yn fregliach dieirfa ... A dyma'r un pla y medraf gofnodi ei ddyfod, ond heb arf yn y byd i wrthsefyll ei ddifrod.¹⁰⁶

O ran syniadaeth a themâu, mae'r ddrama hon yn dreiddgar a difyr ac yn sicr yn gorfodi'r actorion, a oedd yn fyfyrwyr prifysgol, o dir cyfarwydd. Byddai'n ddifyr, fodd bynnag, gwybod sut ddrama fyddai *Cegin y Diafol* pe byddai Siôn Eirian wedi ei hysgrifennu ar gyfer criw o actorion proffesiynol heb orfod ystyried ei fod yn ysgrifennu ar gyfer cast penodol. Wrth ddarllen y sgript, teimlir nad yw mawredd y themâu yn cael eu cyfleu yng nghynnwys y ddrama cystal ag y mae yng ngweddill ei weithiau, gan gynnwys *Hedfan Drwy'r Machlud* a oedd hefyd wedi'i chyfansoddi'n unswydd ar gyfer myfyrwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Ni ellir lai na themlo, wrth ddarllen *Cegin y Diafol*, fod y dramodydd yn orymwybodol mai ar gyfer myfyrwyr yr oedd yn ysgrifennu a'i fod am eu plesio gyda chynnwys ei ddrama ac mai eilbeth iddo oedd trosglwyddo neges y gwaith. Mae presenoldeb cryf yr elfennau rhywiol sy'n ymddangos yn ddiangen ar brydiau yn ein hatgoffa i ryw raddau o anaeddfedrwydd y ddrama *Sylw* gan Meic Povey a ysgrifennwyd hefyd ar gyfer myfyrwyr.

¹⁰⁵ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 69.

¹⁰⁶ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 69.

2.4 Pynciau gyfoes

gwneud i'r Gymraeg wynebu'r byd sydd ohoni.¹⁰⁷

Y mae *Cegin y Diafol* yn canolbwyntio ar bwnc cyfoes iawn a dywedodd Branwen Davies fod y ffaith fod y ddrama yn ymdrin â phwnc cyfoes yn rhan ganolog o apêl y ddrama i'w chast ifanc:

Yr hyn oedd yn apelio i ni ar y pryd oedd y modd roedd Siôn Eirian wedi creu byd afreal gyda naws di-amser ac eto gyda chyffyrddiadau amserol. Roedd yna synnwyr o gyffro a pheryg ac arbrofi gyda thechnoleg a chyffyrddiadau i gymdeithas ac obsesiwn gydag edrychiad a rhyw a chyffuriau. Roedd yn ddrama oedd yn adlewyrchu cyfnod a hynny yn rhan o'i phwêr ac yn ei gwneud yn berthnasol ar y pryd yn fy marn i.¹⁰⁸

Wedi iddo gipio coron Eisteddfod Genedlaethol 1978, cyfeiriodd Siôn Eirian at ei brofiad pan oedd yn laslanc o frysio adref o'r ysgol, lle byddai'n astudio gweithiau beirdd traddodiadol Cymraeg, i ddarllen gweithiau beirdd Saesneg ddiwedd yr 1960au, gan eu bod hwy yn ysgrifennu cerddi a oedd yn 'son [*sic*] am serch a gwleidyddiaeth fy nghenedlaeth'.¹⁰⁹ Wrth drafod dylanwad gweithiau '[c]yfnodol'¹¹⁰ y beirdd Saesneg hyn arno fel llenor, dywed na ddylid diystyru gwerth a safon gweithiau amserol a chyfnodol o'r fath:

Fy nadl i yw na ddylid wfftio'r gwaith sy'n apelio at gynulleidfa gyfoes ac yn derbyn telerau'r gynulleidfa honno ... Wrth i ni baratoi unrhyw ddeunydd yn y Gymraeg, i ba raddau bynnag, mae arnom ddyletswydd i sicrhau fod i'r deunydd berthnasedd cyfoes.¹¹¹

Yn ei feirniadaeth ar gystadleuaeth y goron, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978, dywedodd Gwyn Thomas fod gwaith *Aman Bach* (Siôn Eirian) yn 'gwneud i'r Gymraeg wynebu'r byd sydd ohoni'.¹¹² Yn wir, y mae mynd i'r afael â phynciau cyfoes wrth ysgrifennu a thrafod pynciau llosg sydd o berthnasedd i gynulleidfa'r cyfnod yn ganolog i'w

¹⁰⁷ Gwyn Thomas, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth Cerdd hir neu ddilyniant o gerddi yn portreadu llencyndod', yn Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978*, t. 26.

¹⁰⁸ Davies, 'Cegin y Diafol'.

¹⁰⁹ Siôn Eirian, yn 'Rhoi Siôn dan Goron ein Gŵyl', *Barddas*, 2.

¹¹⁰ Siôn Eirian, yn 'Rhoi Siôn dan Goron ein Gŵyl', *Barddas*, 2.

¹¹¹ Siôn Eirian, yn 'Rhoi Siôn dan Goron ein Gŵyl', *Barddas*, 2.

¹¹² Thomas, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth Cerdd hir neu ddilyniant o gerddi yn portreadu llencyndod', yn Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978*, t. 26.

hanfod fel llenor. Yn ystod blynyddoedd cynharaf S4C, bu Siôn Eirian yn eithaf beirniadol o gynnwys rhaglenni'r sianel. Un o'i brif gwynion ynglŷn â'r sianel newydd oedd nad oedd yn darlledu rhaglenni a oedd yn berthnasol i wylwyr ifanc nac yn ymdrin â phynciau cyfoes:

Mae'r rhelyw o gynyrchiadau a chyfresi byr rywsut wedi'u gosod mewn rhyw gyfnod diamser a dibroblem braidd ac i wyliwr ifanc dwi'n meddwl bod hynny'n rhan o'r cwyno cyson – nad oes yna ddigon o ddarpariaeth i raglenni sy'n gweld y byd cyfoes ifanc. Dydw i ddim yn sôn am arlwy ddinesig ond yn hytrach am y byd cyfoes ifanc trwy Gymru mewn rhyw bersbectif ifanc real.¹¹³

Wrth edrych ar amryw o weithiau Siôn Eirian, gwelir ei fod yn ymrafael â phynciau llosg y cyfnod, megis y gyfres ddrama ar gyfer y radio, *Dani*, a oedd yn ymdrin â Chymru gyfoes. Ni olyga hynny, wrth gwrs, fod y dramâu bob amser wedi'u gosod ym mhresennol cyfansoddi'r gweithiau, ond, yn hytrach, fod iddynt berthnasedd cyfoes ac amserol. Wrth astudio ei weithiau, gwelir un dechneg sy'n ymddangos droeon sef y modd y mae'r dramodydd yn cydreddeg storiâu cysylltiol o'r gorffennol a'r presennol neu rhwng gwahanol leoliadau neu wahanol ddiwylliannau er mwyn cymharu sefyllfaoedd a chryfhau neges y ddrama. Dyma dechneg a ddefnyddiodd Siôn Eirian mewn dramâu megis *Elvis*, *Y Blew a Fi*, *Paradwys Waed*, *Hedfan Drwy'r Machlud* a hefyd yn y ddrama lwyfan Gymraeg gyntaf o'i eiddo, *Wastad ar y Tu Fas*.

Llwyfannwyd *Wastad ar y Tu Fas* ym 1986 gan gwmni Hwyl a Fflag gyda'r cast yn cynnwys Wyn Bowen Harris, Tom Richmond (Dafydd Dafis), Mei Jones, Dewi Rhys a Sioned Mair. Gyda'r ddrama hon, gwyddai Siôn Eirian yn union beth yr oedd am ysgrifennu yn ei gylch a llwyddodd i'w hysgrifennu yn gyflym a than bwysau. Datblygodd y ddrama o ddyhead cyffredin rhwng Siôn Eirian a chyfarwyddwr y ddrama, Gruff Jones, i lwyfannu drama am gymeriadau hoyw yn y 1980au.

Fel drama radio y cyfansoddwyd *Wastad ar y Tu Fas* yn wreiddiol a hynny ym 1979. Fodd bynnag, nid oedd yr elfen hanesyddol a berthyn i'r ddrama yn gynwysedig yn y fersiwn honno ac o ganlyniad dywed Siôn Eirian fod y sgript lwyfan yn llawer ehangach ei maes a'i thestun na'r un ar gyfer y radio. Y mae hanner y ddrama lwyfan wedi ei gosod yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd ond gwelai'r dramodydd gysylltiad amlwg rhwng hanes y cyfnod hwnnw a'r sefyllfa bresennol pan gyfansoddwyd y ddrama a oedd yn golygu bod i'r ddrama berthnasedd cyfoes:

¹¹³ Siôn Eirian, yn Williams, 'Tad Elvis a Bowen a Bob', *Barn*, 15.

Wedyn dod ar draws y rhan yna o hanes. Roedd e'n hanes ysgytwol pan ddarllenes i gyntaf am yr hyn oedd wedi digwydd. Toeddwn i ddim yn gwybod fod y fath gyflafan wedi digwydd yn yr Almaen i wrywgydwyr. Ac o'n i'n ei weld o'n rhoi *perspective* hanesyddol i'r hyn sy'n digwydd heddiw i raddau llai. Felly achos ei fod o'n cydlynu gyda stori gyfoes, dyna pam wnes i ei gynnwys e, nid er mwyn trio rhoi rhyw effaith ddramatig.¹¹⁴

O ganlyniad, y mae dwy stori'n cydreddeg o fewn y ddrama a'r ddwy canolbwyntio ar brofiadau cymeriadau hoyw a'u brwydr barhaus i fyw'n agored mewn cymdeithasau beirniadol, gwrth-hoyw.

Yn gyntaf, fe'n cyflwynir i fywydau Martin a Heddwyn, cwpl hoyw sy'n cyd-fyw yng Nghymru'r 1980au pan fo Thatcher mewn grym. Labrwr yw Heddwyn sy'n colli ei waith ac yn treulio ei ddyddiau yn ei wely ac yn gwneud rhywfaint o waith tŷ tra bo'i gymar, Martin, yn cael dyrchafiad o fod yn ymchwilydd mewn gorsaf radio i fod yn gyflwynydd rhaglen radio newydd ac yn derbyn codiad cyflog sylweddol. Daw Heddwyn yn ffrindiau â Beck, sydd hefyd yn hoyw, ac yn weithgar gyda'r Gay Support Group. Nid oes gan Martin lawer i'w ddweud wrth Beck ond â Heddwyn i un o gyfarfodydd y grŵp i wrando arno'n traddodi darlith am y modd y triniwyd dynion hoyw yn yr Almaen yn ystod teyrnasiad Hitler: llofruddiwyd can mil o ddynion hoyw yng ngwersylloedd llafur y Natsïaid, ond nid yw'r llyfrau hanes yn cofnodi eu dioddefaint ac ni chyfeirir at y mater mewn ysgolion ychwaith. Wrth i Beck draddodi ei ddarlith, neidiwn yn ôl mewn amser i'r 1940au a chyfarfyddwn â Steffan a'i fam, Frau Krankl, sy'n Gatholigion Almaenig. Myfyriwr ifanc hoyw yw Steffan sy'n astudio yn y brifysgol ac mae ei rieni'n gefnogol iddo. Y mae mewn perthynas â gŵr ifanc o'r enw Karl. Un dydd, gorchmynnir Steffan i ymweld ag aelod o'r Gestapo ac fe'i cyhuddir o fod yn hoyw, a'i anfon i wersyll llafur lle y dioddefa driniaeth erchyll. Câl'r hoywon eu trin yr un mor ffaidd â'r Iddewon a'r sipsiwn. Nid yn unig y caiff Steffan ei gosbi'n gorfforol ond fe'i gorfodir i gysgu â merch ifanc a oedd yn cael ei defnyddio fel putain yn y gwerysll. Y mae'n arferiad gan swyddogion yr S.S. hefyd i saethu nifer o'r dynion hoyw rhag i eraill feddwl eu bod hwy eu hunain yn hoyw. Wedi dioddef y fath artaith, rhydd llawer o'i gyd-garcharorion derfyn ar eu bywydau trwy gerdded, yn gwbl fwriadol, yn rhy agos at ffens allanol y gwerysll gan wybod y byddent yn cael eu saethu gan y milwyr. Pan wna Steffan yr un modd, gwêl wyneb Karl mewn arfwisg yn syllu'n ôl arno. Caniatawyd i Karl fod yn rhydd ac ymuno â'r fyddin gan ei fod yn nai i Uwch-swyddog yn y Sturmabteilung, Ernest Rohn, a oedd yn ffrindiau mawr â Hitler. Pan roddir pwysau ar Karl i

¹¹⁴ Siôn Eirian, yn 'Arolwg', *HTV Cymru* (24 Mawrth 1986).

saethu Steffan, try y gwn ato'i hun. Erbyn i'r Americanwyr ddod i achub Steffan a'i gyd-garcharorion, roedd ei dad wedi lladd ei hun oherwydd gwawd y gymdeithas bod ei fab yn hoyw. Dihangodd aelodau'r S.S. a rhyddhawyd y carcharorion, ond ni dderbyniodd Steffan na gweddill y gwŷr hoyw unrhyw iawndal am eu camdriniaeth, fel y cafodd gweddill y carcharorion, oherwydd, yn llygad y gyfraith, parhaent i fod yn droseddwyr.

Er gwaetha'r ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr yn ystod y 1960au, gyda'r Ddeddf Troseddau Rhywiol yn cael ei chymeradwyo ym 1967 a oedd yn didroseddu gweithredoedd hoyw yn y dirgel rhwng dynion dros un ar hugain oed, awgrymir gan y ddrama na fu cymaint â hynny o ddatblygiad o ran rhyddid a hawliau hoywon rhwng y 1940au a'r 1980au nac yn y ffordd y'u triniwyd gan gymdeithas. Yn ôl yng Nghymru, nid yw Martin yn onest gyda'i gydweithwyr yn yr orsaf radio, Louis a Cath, nac ychwaith gyda'i wrandawyr am ei rywioldeb gan yr ofnai y byddai'n colli ei wrandawyr ac yn colli ei swydd pe byddai'n dweud ei fod yn hoyw. Nid ydyw ychwaith yn fodlon ysgrifennu erthygl ar gyfer pamffled y mae Beck yn ei gydlynu sy'n cefnogi hawliau hoywon. Yr hyn a wna yw cyfrannu arian at yr achos. Ond eto, mae'n fodlon rhoi cyhoeddiad ar y radio am gynhadledd Efengylaidd leol – enwad na fyddai, o bosibl, yn cytuno â'i berthynas ef a Heddwyn. Derbynia gynnig ei gydweithiwr i gyflwyno rhaglen radio arwynebol ei chynnwys yn hytrach na chynnig i gyflwyno rhaglen a fyddai'n trafod pynciau dadleuol, rhag i'r gwirionedd gael ei ddatgelu. A phan glywa fod Heddwyn wedi cytuno i siarad am ei ddaliadau rhywiol ar y rhaglen radio am bynciau dadleuol, poena Martin am ei yrfa. Teimla nad yw Heddwyn yn deall ei sefyllfa waith, yn enwedig ac yntau, bellach, wedi cael cynnig swydd fel cyflwynydd rhaglen deledu ac felly'n gorfod cadw proffil dilychwin. Ond ymateb Heddwyn yw cyhuddo Martin o fod yn rhagrithiwr a dywed y bydd eu perthynas yn y fantol pe na byddai'n ei arddel yn gyhoeddus:

- MARTIN Ti'n falch? Peryglu'n job i. Ynyfodol [*sic*] i. Sioe newydd yn y fantol. Bod ni'n colli'r lle 'ma ella.
- HEDDWYN ... Bod yn onest, u'n [*sic*] yn perthynas ni, o flaen pobl erill, dyna be ddyla fod yn bwysig.
- MARTIN O flaen pobl fel Lois ia? Fedra i jest i weld o'n y clwb rwan, efo'i fets. Martin Morgan, uffar o foi clen. Biti fod o'n bwfftar.¹¹⁵

Ar ddiwedd y ddrama, gwelwn Heddwyn wedi pacio'i bethau ac yn ymadael.

¹¹⁵ Siôn Eirian, *Wastad ar y Tu Fas* (teipysgrif anghyhoeddedig ym meddiant y dramodydd, 1986), tt. 83-4.

Er y cydnabu Nic Ros fod dylanwad drama Martin Sherman, *Bent*, i'w weld ar *Wastad ar y Tu Fas*, y mae'n dadlau bod Siôn Eirian yn haeddu pob clod am lwyddiant y ddrama:

This truly revelatory work, for a Welsh-language audience at least, succeeds on its own terms despite an obvious debt to Martin Sherman's *Bent*.¹¹⁶

Llwyfannwyd *Bent* gyntaf yn Llundain ym 1979 gan y Royal Court Theatre. Canolbwyntia'r ddrama hon hefyd ar y modd y triniwyd hoywon yn y gwersylloedd crynhoi yn yr Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ond yn wahanol i *Wastad ar y Tu Fas*, y mae'r holl ddrama wedi'i gosod yn y cyfnod hwnnw. Cyfeirir at yr un gamdriniaeth o hoywon ag a wneir yn nrama Siôn Eirian. Max yw'r prif gymeriad yn y ddrama a chrëwyd y cymeriad gyda'r actor Ian McKellen mewn golwg. Y mae'n rhaid iddo ef a'i gariad, Rudy, ffoi rhag iddynt gael eu dal gan y Gestapo, ond ofer yw eu hymdrechion. Cânt eu cludo ar drên i wersyll ac ar y daith, ymosoda Swyddog ar Rudy. Y mae carcharor arall ar y trên gyda hwy, Horst, sy'n gwisgo gwisg carcharor â thriongl binc arni i nodi ei fod yntau hefyd yn hoyw; fe'i dalwyd wedi iddo arwyddo deiseb i wneud hoywder yn gyfreithlon. Cynghora ef Max i beidio â cheisio achub Rudy na chydabod ei fod yn ei adnabod neu fe gaiff yntau hefyd ei lofruddio. Gwada Max ei fod yn hoyw, ond gan ei fod yn Iddew, rhaid iddo wisgo gwisg â seren felen arni. O'r herwydd, caiff ei drin yn llawer gwell na Horst. Disgynna'r ddau mewn cariad â'i gilydd ond rhaid iddynt gadw eu perthynas yn gudd neu fe'u llofruddir. Pan ymosoda Horst ar Gaptin yn y gwersyll, caiff ei saethu'n farw a gorchmynnir Max i gario'i gorff i'r bedd agored. Wedi gwneud hynny, neidia Max i'r bedd gan ymddangos drachefn yn gwisgo siaced Horst â'r thriongl binc arni cyn cerdded, o'i wirfodd, tuag at y ffens drydanol a lladd ei hun.

Cydnabu Siôn Eirian fod peth tebygrwydd rhwng *Bent* a *Wastad ar y Tu Fas*. Fodd bynnag, dywed nad oedd wedi gweld nac wedi darllen y ddrama Saesneg cyn iddo gyfansoddi'r fersiwn radio a'r fersiwn lwyfan o *Wastad ar y Tu Fas*. Chwaraeodd Gruffydd Jones, a fu'n gyfrifol am gyfarwyddo'r ddrama lwyfan, ran fawr yn y symbyliad o drosi'r ddrama radio yn ddrama lwyfan, a'i syniad ef oedd ychwanegu'r elfen hanesyddol, a oedd yn absennol o'r ddrama radio, yn rhan o'r ddrama lwyfan, ac yr oedd ef wedi gweld *Bent*. Anogodd Siôn Eirian i ganfod cyfodiad rhwng cyfnod presennol y ddrama a chyfnod yr Ail Ryfel Byd gan roi benthyg y llyfr *The Man With The Pink Triangle* (1972) i Siôn Eirian fel

¹¹⁶ Nic Ros, 'New writing on the Welsh-language mainstage 1979-1995', yn Anna-Marie Taylor (ed.), *Staging Wales* (Cardiff, 1997), t. 21.

rhan o'i ymchwil. Profodd y ddyfais hon o gyd-redeg dwy stori yn llwyddiannus ac fe'i defnyddiwyd gan y dramodydd sawl tro wedi hynny. Trwy gynnwys y stori hanesyddol yn ogystal â stori yn y presennol, mynegir y neges fod rhagfarnau yn parhau i fodoli ac nad yw cymdeithas wedi datblygu cymaint â hynny, mewn gwirionedd. Ni fyddai'r neges honno wedi ei chyfleu cyn gryfed pe na chynhwyswyd yr elfen hanesyddol i'r ddrama.

Y mae *Wastad ar y Tu Fas* yn enghraifft wych o allu Siôn Eirian i gyflwyno pynciau heriol a phynciau cyfoes yn ei ddramâu. Ym 1986, ystyrid hoywder yn bwnc trafod dadleuol iawn a phrin iawn oedd yr achosion lle'r ymdriniwyd â'r pwnc mewn modd cyhoeddus ac agored. Yn achos y ddrama lwyfan Gymraeg, cyffyrddwyd ar y maes yn nrama gyntaf Meic Povey, *Y Cadfridog* (1978) ond *Wastad ar y Tu Fas* oedd y ddrama gyntaf i ymdrin yn gyfan gwbl â'r testun. A phrin iawn yw'r dramâu llwyfan Cymraeg sydd wedi trafod hoywder mewn modd mor agored ag y gwnaeth Siôn Eirian wedi hynny. Gellir ystyried *Wyneb yn Wyneb* (1993) gan Meic Povey a *Llwyth* (2010) gan Dafydd James yn enghreifftiau prin. Ni ddaeth materion megis homoffobia a phynciau a gysylltid yn y cyfnod gyda hoywder, megis HIV/AIDS (a alwyd yn wreiddiol yn GRID, sef Gay Related Immune Disorder), yn bynciau trafod tan yn ddiweddarach gyda dyfodiad ffilmiau dylanwadol Hollywood megis *Longtime Companion* (1989) a *Philadelphia* (1993) a geisiai addysgu pobl am hoywder a chwalu'r ystrydebau a'r damcaniaethau chwedlonol. O ganlyniad i ffilmiau cyffelyb, ciliodd yr adwaith negyddol a fodolai yn erbyn hoywon a hawliau hoywon ryw ychydig a chafwyd cynnydd yn y niferoedd a ddatganai eu bod yn hoyw, gan gynnwys gwleidyddion a wynebau adnabyddus o'r cyfryngau, ac esgorwyd ar drafodaethau llawer mwy agored am rywioldeb.

Yr oedd hawliau hoywon yn bwnc a oedd yn agos iawn at galon Siôn Eirian yng nghyfnod cyfansoddi'r ddrama ac y mae'n parhau i fod felly. Rhwng ei fuddugoliaeth yn Eisteddfod Genedlaethol 1978 a diwedd y 1980au, ni fu'r llenor yn gynhyrchiol iawn o ran ei waith fel bardd a dim ond llond llaw o gerddi a gyfansoddodd. Fodd bynnag, roedd un o'r cerddi hynny yn ymdrin â Chymal 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 yn glŷn â hyrwyddo hoywder. Dyma gymal a oedd yn nodi na fyddai awdurdod lleol yn portreadu hoywder yn fwriadol nac fel rhywbeth cadarnhaol o fewn y celfyddydau nac o fewn unrhyw sefydliad a ddarparai addysg. Ymddangosodd y gerdd, 'Disgwyl y Barbariaid', yn y gyfrol o gerddi *A Sydd am Afal* (1989) a olygwyd gan Aled Islwyn ac a gyhoeddwyd er mwyn codi arian ar gyfer elusennau a gefnogai unigolion gydag AIDS. Bu Undeb yr Ysgrifenydd yn weithgar iawn yng Nghymru yn gwrthwynebu'r cymal hwn a chymerodd Siôn Eirian ei hun, a chanddo nifer helaeth o ffrindiau hoyw, ran weithredol mewn gorymdaith hawliau hoyw trwy Gaerdydd, ynghyd ag oddeutu chwe chant o bobl eraill. Credai ei bod yn ddyletswydd ar

unigolion i adweithio yn erbyn grym y llywodraeth a bod llenorion fel Aled Islwyn, Meic Povey ac yntau yn bwriadol fynd ati i greu gweithiau a oedd yn bleidiol i hawliau hoyw:

pan fo llywodraeth a statud yn dweud wrthyt ti na chei di ddim gwneud hyn, na chei di ddim hyrwyddo gwrywgydiaeth, nid yn unig y mae'n demtasiwn i roi rhyw fath o sialens i hynny i weld ble yn union y mae ffiniau y ddeddf yn gorwedd, ond rwy'ti'n teimlo bron fod yna ryw ddyletswydd ar rywun, os wyt ti, dywed, yn weithgar gyda hawliau hoyw ... Ryn ni nawr ym Mhrydain yn gweld y gymdeithas fel mae Thatcher yn ei gweld hi, – yn meddwl fod yna ryw berygl i sylfaeni moesoldeb a chywirdeb cymdeithasol trwy wrywgydiaeth.¹¹⁷

Ddwy flynedd cyn pasio Cymal 28, cyfansoddodd Siôn Eirian *Wastad ar y Tu Fas*. Yr oedd, felly, o flaen ei amser yn yr ymdrech i chwalu'r rhagfarnau o fodolai yn erbyn hoywder; y rhagfarnau a fu'n gyfrifol am artaith miloedd ar filoedd o Iddewon; y rhagfarnau a wthiodd tad Steffan i ladd ei hun; y rhagfarnau a olygodd na chafodd Karl iawndal am ei gamdriniaeth gan fod bod yn hoyw yn erbyn y gyfraith; a'r rhagfarnau sy'n atal Martin, fel Dafydd yn *Elvis*, *Y Blew a Fi* a Robert Graves yn *Paradwys Waed*, rhag cydnabod ei rywioldeb ar goedd:

MARTIN Mewn byd perffaith mi fyddwn i'n ddigon hapus i ti fynd yn dy flaen a deud wrth y byd am y'n cariad ni. Wrth gwrs baswn i ...
HEDDWYN Mewn byd perffaith fasa dim raid i ti na fasa. A dyna'n union pam ma'n byd ni mor amherffaith rwan, – am fod arna ni ofn Mart. Tria ddallt nei di. Os na newn ni ryw ymdrech neu aberth heddiw – ella na fydd yna fory. I ni – ne i'r rhai neith ddilyn.¹¹⁸

Y mae'r ddrama hon hefyd yn amlygu un o themâu mwyaf nodedig gweithiau Siôn Eirian, sef rhagrith. Ceir enghraifft o ragrith rhywiol wrth i Martin wrthod cydnabod ei rywioldeb ar goedd gan ei fod yn gofidio am ei swydd. Ac er bod Heddwyn yn gweld bai arno, ni fu ef yn gwbl onest â'i gydweithwyr pan oedd yntau yn gweithio ar y ffordd chwaith:

HEDDWYN Wsti be wyt ti? Blydi rhagrithiwr.
MARTIN Wn i. Wn i.
HEDDWYN Pan wyt ti'n cyhoeddi dy breffrensus rhywiol, twyt ti'm yn u cyhoeddi nhw i'r byd nac wyt. Na. Gwadu fasat ti'n neud o flaen dy hen gyhoedd Cymraeg di. Ti'n byhafio i ateb gofyn cynulleidfa. Drwy'r amser.
MARTIN Hedd, wrth **gwrs** mod i'n ymwybodol o nghynulleidfa.

¹¹⁷ Siôn Eirian, yn Williams, 'Tad Elvis a Bowen a Bob', *Barn*, 19.

¹¹⁸ Eirian, *Wastad ar y Tu Fas*, t. 84.

HEDDWYN Ond am y rhesyma anghywir, dyna be dwi'n ddeud.
MARTIN Paid rwdlian nei di. Heria i titha fod yn hollol agored, o flaen pawb. Cerdda di fewn i unrhyw un o dy dafarna canol dre, troi at un o'r labrwrws wrth y bar a deud 'scuse me a minute, mate, mind if I explain to you my preferences for boys?'. Fasad ti'n landio ar dy din ynghanol y Fenai cyn ti orffen dy frawddeg. Cyn ti fedru deud Tom Robinson. Ti'm o ddifri'n disgwl i mi fynd trw'r rwtin fach fasocistaidd yna w't ti?¹¹⁹

Cofier hefyd i Karl, cariad Steffan, a oedd yn nai i Ernest Rohm a oedd hefyd yn hoyw, gael ei arbed gan fod ei ewythr yn Uwch-swyddog yn y Sturmabteilung ac yn gyfaill i Hitler. Yn wir, yr oedd gan nifer o'r Uwch Swyddogion eu 'bechgyn anwes' eu hunain. Ond cyflwynir math arall o ragrith yn y ddrama hefyd; yr un math o ragrith a ymgorfforir gan gymeriad Scoot yn *Epa yn y Parlwr Cefn*, sef rhagrith dosbarth canol Cymreig. Awgrymir na fyddai rhai o'r gynulleidfa Gymraeg ei hiaith sy'n gwranddo ar raglenni radio Martin yn gwranddo arno pe gwyddent ei fod yn hoyw. Dyma, unwaith eto, feirniadaeth ar y Cymry Cymraeg, a'r hyn a wna Siôn Eirian yw cyflwyno'r feirniadaeth honno i'r union bobl hynny a fyddai'n rhan o gynulleidfa ei ddrama:

Os y'ch chi'n derbyn mai un o swyddogaethau drama yw addysgu, nid mewn ffordd bregethwrol na dim, ond cynnig safbwyntiau newydd, wel wrth gwrs, mae rhywun am i bobl ddod i wylio drama nad y'n nhw o blaid derbyn gwrygydwyr ac nad y'n nhw'n oddefol tuag at wrygydwyr. A dyna ran o bwrpas unrhyw ddrama yw bod chi'n trio torri tir newydd a dechrau deialog newydd gyda'r gynulleidfa.¹²⁰

Ond unwaith eto, fel yn achos Meic Povey, ai teg yw cyffredinoli fel hyn am aelodau o'r 'dosbarth canol Cymraeg diwylliedig Capelyddol' a fyddai'n gwranddo ar raglenni radio Cymraeg ac yn rhan o gynulleidfa'r theatr Gymraeg? Yr un math o ragrith a gawn yn stori Dafydd yn *Elvis, Y Blew a Fi* hefyd pan gyfaddefa wrth Gwydion i'w dad, 'heddychwyr o ddiagon ar i bensiwn',¹²¹ ei daro wedi iddo ei ganfod yn caru gyda dyn arall:

DAFYDD: Flwyddyn cyn hynny, chwe deg saith, rodd y mesur di basio yn cyfreithloni gwrwgydiaeth ond dodd hynny ddim yn golygu llawer i ni hoggia cig a gwaed ... O ia, chditha, hogia'r Gymdeithas, cyw sosialwyr ... Eistedd yn ych plith chi ar aml i sesiwn hwyliog yn nhafarna'r dre a phawb yn bloeddio canu Rwyf yn homo rwyf yn homo rwyf yn homo'n gwisgo pais. Ond ma'n well gin i fod yn homo nac yn ffycin basdad Sais ... jest pan ma pobl wedi dysgu elwa ar ddeddf chwe deg

¹¹⁹ Eirian, *Wastad ar y Tu Fas*, tt. 42-3.

¹²⁰ Siôn Eirian, yn 'Arolwg', *HTV Cymru* (24 Mawrth 1986).

¹²¹ Siôn Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi* (teipysgrif anghyhoeddedig), t. 74.

saith a dysgu dwad allan a byw bywyda normal, fod llywodraeth rwan yn dwad a deddfa i'n gyrru ni gyd nol fewn a'n gneud ni'n abnormal eto.¹²²

Ceir yma hefyd feirniadaeth, unwaith yn rhagor, o'r Cymry traddodiadol, a'r tro hwn o'r Cymry blaengar, gwladgarol, radical sy'n haeddu pob edmygedd am fynnu hawliau i'w gwlad a statws i'w hiaith. Ond, er iddynt brofi gormes eu hunain, nid ydynt yn dangos unrhyw gydymdeimlad tuag at garfannau lleiafrifol eraill.

Y mae rhagrith, boed yn rhagrith dosbarth canol Cymreig, fel y cyfeiriwyd ato eisoes, yn rhagrith cymdeithasol neu'n rhagrith gwleidyddol fel a geir yng nghymeriad Richard yn *Paradwys Waed*, yn thema ganolog yng ngweithiau'r dramodydd, fel y cydnabu mewn cyfweliad gyda Derec Llwyd Morgan ym 1986:

DEREC LLWYD MORGAN: Ydi dinoethi rhagrith yn rhyw fath o genadwri gyda chi fel llenor?

SIÔN EIRIAN: Ie, i raddau, byddwn i'n derbyn fod hynny'n dipyn bach yn obsesiwn gen i ac efallai mai dyna pan mae Daniel Owen yn hoff lenor i mi. Dwi'n mynd yn ôl o hyd at lyfrau Daniel Owen achos, yn ei ddydd, roedd ganddo fo ddiddordeb mawr yn y lefelau o ragrith. John Gwilym Jones ddywedodd mai rhagrith yw'r olew ar olwynion cymdeithas, neu rywbeth, rhyw ddatganiad fel'na. Ac mae e'n hollol wir ac mae hynny'n rhan o'n natur ni i gyd. Ry'n ni i gyd yn rhagrithio ac rwy'n cael hynny'n ddiddorol iawn.¹²³

Yn wir, cymaint fu dylanwad Daniel Owen arno fel llenor, iddo enwi prif gymeriad ei nofel, *Bob yn y Ddinas*, a'r ôl Bob Lewis o'r nofel *Hunangofiant Rhys Lewis, Gweinidog Bethel* (1885); y mae'r nofel yn destun cyfeiriadol. Cofier hefyd mai addasiad Saesneg o'r gyfrol hon ar gyfer y llwyfan oedd y sgrïpt gyntaf iddo'i llunio fel dramodydd proffesiynol ym 1978:

Diwedd Bob o'dd, wrth iddo fe farw, be allodd e ddweud o'dd 'It is broad daylight'. Roedd e wedi cael ei weledigaeth fawr – nid mynd i'r nefoedd, ond gweld yn glir fod beth o'dd e wedi ei wneud yn iawn. Yn fy nghymeriadau i i gyd, chwilio am y 'broad daylight' ydw i. Am ryw wirionedd.¹²⁴

¹²² Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi*, tt. 74-5.

¹²³ 'Arolwg', *HTV Cymru* (24 Mawrth 1986).

¹²⁴ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

2.5 Gwleidyddiaeth

mae cymaint o bethau y mae'n rhaid eu rhoi mewn drama
– sef gwleidyddiaeth gyffredinol a gwleidyddiaeth bersonol ac yn y blaen.¹²⁵

A'i fam yn ymgeisydd ar ran Plaid Cymru ym 1955 a 1957, chwaraeodd gwleidyddiaeth ran ganolog ym mywyd cynnar Siôn Eirian. Arferai drafod materion gwleidyddol, megis y sefyllfa wleidyddol ym Mharis yn y 1960au, Cymdeithas yr Iaith a'r rhyfel yn Fiet-nam, gyda'i gyfeillion yn yr ysgol ac roedd trafod brwd ar yr aelwyd hefyd, yn enwedig rhyngddo a'i fam. Dywed cyfaill iddo yn y brifysgol ei fod yn 'berson sydd efo daliadau cryf – gwleidyddol, cymdeithasol – ac sydd yn barod i ddadlau o'u plaid nhw a sefyll ei dir os ydi o'n credu ei fod o'n iawn'.¹²⁶ Y mae dylanwad y cefndir gwleidyddol hwn yn amlwg wrth astudio ei weithiau ac ni ellir anwybyddu'r ffaith fod elfennau gwleidyddol yn perthyn, mewn rhyw fodd, i holl ddramâu llwyfan Cymraeg Siôn Eirian. Dywed mai gwleidyddiaeth yw man cychwyn pob drama o'i eiddo a'i fod yn bwriadol geisio mynegi rhyw neges yn ei weithiau:

Dwi'n dechrau o bwynt hollol wrthwynebus, sef gwleidyddiaeth. Dwi isio thesis gwleidyddol. Dwi isio gwybod beth mae'r ddrama'n mynd i ddweud. A pam. Felly, mewn ffordd, mae e fel dechrau traethawd i fi.¹²⁷

Mewn cyfweliad gyda Gerwyn Williams ym 1988, dywedodd Siôn Eirian 'dydw i ddim yn meddwl y gallwn i – neu y dylwn i – dreulio gormod o amser yn sgwennu dim byd sy ddim yn wleidyddol'.¹²⁸ Yn ystod y 1970au a'r 1980au, sef blynyddoedd cynharaf gyrfa Siôn Eirian, dylanwadwyd ar nifer o ymarferwyr theatr ifanc gan fath arbennig o theatr gymdeithasol ac asgell chwith eithafol wleidyddol a oedd yn uniongyrchol iawn ei neges. Ceir enghreifftiau nodedig o'r math hwn o theatr, a elwir yn theatr *agitprop*, yng ngweithiau cwmnïau radical megis 7:84, Pip Simmons a chwmmi Moving Being y cydgyfansoddodd Siôn Eirian ddrama Saesneg ar eu cyfer, *The Rising*, a oedd yn ymwneud â hanes terfysg Merthyr a'r Siartwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Datblygodd y math hwn o theatr yn Ewrop yn y 1920au cyn lledu i'r Unol Daleithiau ac ystyrir gweithiau Bertolt Brecht fel enghreifftiau nodedig. Dywed y dramodydd mai o ganlyniad i ddylanwad y theatr honno arno yr oedd yn

¹²⁵ Siôn Eirian, yn Williams, 'Tad Elvis a Bowen a Bob', *Barn*, 14.

¹²⁶ Cyfaill i Siôn Eirian, yn 'Nabod', *BBC Radio Cymru* (2 Medi 1988).

¹²⁷ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

¹²⁸ Siôn Eirian, yn Williams, 'Tad Elvis a Bowen a Bob', *Barn*, 16.

‘sgrifennu am bynciau dadleuol penodol yn yr 80au’,¹²⁹ megis Cymal 28 yn *Wastad ar y Tu Fas*, ac o’r herwydd gellir cyfeirio ato fel dramodydd polemig:

BECK Glywist ti’r newyddion
HEDDWYN Be?
BECK Llywodraeth ’ma. Os cawn nhw’u hail-ethol, medda nhw, ma’ nhw’n cysidro o ddifrif diddymu’r ddeddf. Deddf mil naw chwe saith sy’n caniatáu i Martin a chditha fyw fo’ch gilydd. Sy’n gadael i ni’n dau i fwynhau trafod fanma, a sgwrsio. Peth digon anigonol [*sic*] wn i, ond fe gafodd hi ’i hennill drw gariad, aberth, a dewder. A wsti be ma’ nhw’n ddeud? Ambo ni di mynd yn rhy bell, am bo ni’n manteisio ar ’u haelioni nhw ... O, iawn i ni gyfarfod, fesul dau, yn slei bach, yn y tywyllwch ne stafall ... ond dangos y’n cariad mewn gola dydd? I gyfarfod a chymdeithasu. Na. Ffieidd-dra ’di rw bath felly.¹³⁰

O ran dramodwyr unigol gwleidyddol eu naws a fu’n ddylanwad ar Siôn Eirian, gellir ystyried David Hare (g. 1947)¹³¹ ac yn arbennig Howard Brenton (g. 1942)¹³² gyda’i weithiau ef yn archwilio agweddau o drais a rhywioldeb, ac yn fwy diweddar, gweithiau Simon Stephens (g. 1971).¹³³

Cyfeiria Siôn Eirian at faterion gwleidyddol yn ei farddoniaeth hefyd, megis yn ‘Ymgais i weithredu’ o’i gasgliad ‘Profiadau Llencyndod’, a gyfeiria at fudiadau protest a hawliau sifil megis CND; hawliau’r duon a Fiet-nam yn Unol Daleithiau America; Cymdeithas yr Iaith a’r Arwisgiad yng Nghymru’.¹³⁴ Ceir enghreifftiau cyffelyb yn ei gerddi cynharach o’r gyfrol *Plant Gadara* yn ogystal:

B – 52

NIGARAGUA
daeargryn
yn y brifddinas
danfonwn awyrennau
i gario bwyd dillad a moddion
yn anrhegion nadolig medd NIXON

¹²⁹ Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

¹³⁰ Eirian, *Wastad ar y Tu Fas*, t. 76.

¹³¹ Cyfarwyddwr ffilmiau a dramodydd Saesneg gwleidyddol sy’n ysgrifennu ar gyfer y llwyfan a’r sgrin, ond mae’n fwyaf nodedig am ei ddramâu llwyfan. Sefydlodd gwmi ffilm ym 1982, Greenpoint Films, a bu hefyd yn gweithio fel Cyfarwyddwr Cysylltiol y Theatr Genedlaethol ym 1984.

¹³² Dramodydd Saesneg gwleidyddol a anwyd yn fab i weinidog Methodistaidd. Ar ddechrau ei yrfa, bu’n gweithio fel actor yn ogystal â dramodydd. Y mae hefyd yn ysgrifennu ar gyfer y sgrin.

¹³³ Dramodydd Saesneg a’i weithiau’n cael eu llwyfannu ledled Prydain, Ewrop a’r Unol Daleithiau. Mae ei weithiau yn perthyn i fath o theatr a adwaenir fel theatr In-yr-face, sef gweithiau sioclyd, heriol a ddatblygwyd gan ddramodwyr ifanc yn ystod y 1990au.

¹³⁴ Williams, ‘Epil Blin y Mans’, *Taliesin*, 45.

yn anrhegion nadolig medd NIXON
i gario bomiau dros y gogledd
danfonwn awyrennau
yn y drafodaeth
trafferth
FIETNAM¹³⁵

Bu'r ffaith ei fod yn awdur gwleidyddol o fudd iddo wrth lunio'r addasiad llwyfan o'r nofel *Cysgod y Cryman* ar gyfer Theatr Genedlaethol Cymru ym 2007; nofel am ŵr ifanc, Harri Vaughan, etifedd i stad Lleifior yn Sir Drefaldwyn yn y 1950au, sy'n cicio yn erbyn y tresi ac yn mabwysiadu syniadau Comiwnyddol.

Fodd bynnag, wrth barhau i ddarllen cerddi 'Profiadau Llencyndod', synhwyrir fod y bardd yn aeddfedu'n wleidyddol ac yn sylweddoli nad yw pethau cyn symled ag y tybiai'n wreiddiol. Y mae tân gwleidyddol ei ieuenctid cynnar yn distewi a daw i'r casgliad mai ofer fu'r holl brotestio:

y byd du a gwyn
o ystrydebau hawdd blynyddoedd y blodau,
lle brwydrai'r byddinoedd denim
i adeiladu paradwys amryliw
gyda'u cariad rhad a'u cyffuriau drud ...

chwifio baneri yn y glaw
a gwylio'r paent yn rhedeg ar ein placardiau;
gweld y fflam yn diffodd
a'r lludw'n chwalu'n ddim
dros goncrit y palmentydd.¹³⁶

Cydnabu'r llenor ei fod, bellach, wedi newid ei feddwl am amryw o faterion. Dywed fel yr arferai weld gwleidyddiaeth mewn modd du a gwyn. Arferai gredu bod gan ei genhedlaeth ef y gallu i newid y byd er gwell a bod holl helyntion y byd i'w priodoli i'r genhedlaeth flaenorol: 'y llanast gwâr a grewyd cyn fy ngeni'.¹³⁷ Fodd bynnag, hyd yn oed mor fuan a'i ddauddegau canol, sylweddolodd nad dyna'r achos a gwelodd bethau mewn termau mwyfwy cymhleth. Dywedai ei bod yn hawdd bod yn wrthsefydliadol tra'n fyfyrwr yn y coleg, ond wrth aeddfedu a dynesu at ganol oed, sylweddolodd fod pob cenedlaeth ifanc yn ei thro yn cyfaddawdu:

¹³⁵ Siôn Eirian, 'B – 52', *Plant Gadara*, t. 33.

¹³⁶ Eirian, 'Profiadau Llencyndod', yn Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978*, tt. 31-2.

¹³⁷ Eirian, 'Profiadau Llencyndod', yn Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978*, t. 36.

Ers hynny, i fi, pylodd apel gwleidydda uniongyrchol dros achos arbennig neu bortreadu du a gwyn sefyllfa drwy gyfrwng drama ... i mi mae ein heddiw yn llawer rhy gymhleth a gwirioneddau'n rhy amwys – yn wir yn reit newidiol yn amal – i rywun dreio pregethu am “hyn sy'n iawn” mewn drama, ac mewn gwirionedd beth yw pwynt atgyfnerthu rhagfarn diog cynulleidfa mor unlliw ei phlu a chyfforddus ei byd a mynychwyr theatr Gymraeg.¹³⁸

Cyflëir yr aeddfedu gwleidyddol hwn a welir yn ei gerddi yn y ddrama lwyfan *Elvis, y Blew a Fi*:

Mae hi'n rhyw fath o odyssey bersonol yn dilyn hynt a helynt cymeriad o'r enw Gwydion ac rym ni'n ei weld e ym 1958, 1968, 1978 a 1988. Fesul degawd, rydan ni'n gweld twf meddyliol a diwylliannol y person yma.¹³⁹

Elvis, y Blew a Fi oedd drama gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd ym 1988 ac fe'i llwyfannwyd gan Gwmni Hwyl a Fflag. Yr actorion oedd Edward Thomas (Ed Thomas), Tom Richmond (Dafydd Dafis), Gwen Ellis, Siân Summers, Nia Edwards ac Ian Saynor a'r cyfarwyddwr oedd Gruffudd Jones. Y mae'r ddrama'n ymdrin â'r un materion gwleidyddol a phrotestiadol a fodolai yn ystod y 1960au y cyfeiria Siôn Eirian atynt yn ei gerddi:

Roedd y cyffro gwleidyddol reit trwy'r 60au yng Nghymru – o ffurfio Cymdeithas yr Iaith ymlaen tan yr arwisgo wrth gwrs – y cyfnod mwyaf cyffrous a dadleuol yn hanes gwleidyddiaeth yng Nghymru. Tu allan i Gymru hefyd yn wleidyddol ac o ran newid mewn moesau, roedd e'n gyfnod aruthrol o gyffrous i fod yn ifanc ynddo fe ... yn y 60au a dechre'r 70au roedd 'na rebels yn – nid jest yn eu buchedd allanol – ond yn wleidyddol, yn troi yn erbyn yr holl gyfundrefn o'u cwmpas nhw yng Nghymru a'r tu allan.¹⁴⁰

Ystyria Sion Eirian y 1960au fel oes aur. Cyfeira Siôn Eirian at Meic Povey fel dramodydd sydd yn wastad yn dychwelyd at gynefin ei fagwraeth wrth gyfansoddi, ond gan na theimla fod ganddo ef wreiddiau yn unman penodol, dychwelyd at gyfnod arbennig y 1960au a wna ef. Roedd yn gyfnod o bwys gwleidyddol a chyfnod o newid o ran agweddau tuag at ryw, moesoldeb ac awdurdod. Ond yn ystod y cyfnod hwn hefyd y daeth sensoriaeth brint i ben a llenorion, o ganlyniad, yn meddu ar ryddid mynegiant, sy'n elfen mor hanfodol o weithiau Siôn Eirian. Ym 1968 daeth sensoriaeth lwyfan i ben hefyd:

¹³⁸ Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

¹³⁹ Siôn Eirian, yn Williams, 'Tad Elvis a Bowen a Bob', *Barn*, 18.

¹⁴⁰ Siôn Eirian, yn 'Beti a'i Phobol', *BBC Radio Cymru* (Mehefin 1991).

DAFYDD Ugain mlynedd nol hefyd gneud ffwrdd a sensoriaeth mewn dramau.
Yr Arglwydd Chamberlain ... Cynan ... cic owt. Rhyddid newydd.¹⁴¹

Nid yw'r ddrama'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y cyfnod hwn, fodd bynnag, ond wedi ei gosod, fel y ddrama a'i rhagflaenodd, mewn gwahanol gyfnodau ac yn neidio'n ôl ac ymlaen yn gronolegol, gyda'r rhan fwyaf o'r hanner cyntaf yn digwydd ym 1968 a'r ail hanner yn digwydd ym 1988:

Mae'n cymharu'r math o wleidyddiaeth a'r math o obeithion a oedd yn bod ym 1968 gyda'r hyn sy'n digwydd i'r un genhedlaeth ym 1988. Fel y soniais i gynau, sut mae persbectif cymdeithas a phersbectif unigolion wedi newid erbyn heddiw, ar ôl deng mlynedd o Thatcheriaeth; sut mae hynny wedi effeithio ar bobol oedd yn meddwl eu bod nhw'n newid y byd er gwell yn '68.¹⁴²

Hanes dau ffrind a gawn, Gwydion a Dafydd. Y mae'r ddau wedi eu magu ar aelwyd Gristnogol, draddodiadol, ddiwylliedig Gymreig, fel Siôn Eirian ei hun, ac yn gydfyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth ym 1968. Y mae Gwydion mewn perthynas â Nerys a theithia o amgylch y wlad gyda grŵp pop, Y Blew, gan gynorthwyo ar yr ochr dechnegol. Ymgolla'r ddau gyfaill mewn trafodaethau gwleidyddol amrywiol. Y mae diddordeb Dafydd mewn gwleidyddiaeth ryngwladol a bwriada gymryd rhan mewn protest yn Grosvenor Square yn erbyn rhyfel Fiet-nam. Canolbwyntia Gwydion fwyfwy ar wleidyddiaeth Gymreig:

DAFYDD: Chwara plant, a hogia chwildrins a chwd yn bwysicach na'r chwyldro.
GWYDION: Da ni'n ran o'r chwyldro. Y Blew, yr hogs, finna ...¹⁴³

Ceir plethwaith o wleidyddiaeth ryngwladol a gwleidyddiaeth Gymreig yn y ddrama: clywn ohebydd newyddion ar y radio yn trafod helyntion Fiet-nam ac yna'n parhau drwy sôn am gynlluniau'r Tywysog Siarl i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth y flwyddyn ganlynol. Penderfyna'r ddau lanc deithio o amgylch Ewrop gyda'i gilydd gan weithredu mewn protestiadau ym Mharis ac ym Merlin. Ymhen amser, diflasa Gwydion ar y teithio a'r protestio a dymuna ddod adref tra mae Dafydd yn ysu am fwy o weithredu:

¹⁴¹ Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi*, t. 76.

¹⁴² Siôn Eirian, yn Williams, 'Tad Elvis a Bowen a Bob', *Barn*, 19.

¹⁴³ Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi*, tt. 24-5.

GWYDION: ... Yli – ma gen i betha i’w gneud nôl yng Nghymru. Aros di fama, mewn dinas estron, mewn brwydr estron, yn gneud modela papier mache allan o dy gynddaredd.¹⁴⁴

Fe’n hatgoffir gan y dyfyniad hwn o gymal o’r gerdd ‘Ymgais i Weithredu’ yn y gyfres ‘Profiadau Llencyndod’:

fy awyren bapur
â’i hadenydd coch a du,
yn llatai di-gyfeiriad
a hedfanodd ar ymchwydd y gwynt
cyn plymio’n ôl a glanio’n blet o’r blaen.¹⁴⁵

Dychwel Gwydion adref gan ddechrau gweithio ym myd y cyfryngau. Y mae dylanwad y byd hwnnw arno ers oedran ifanc iawn pan welodd glipiau o Elvis yn canu ar y teledu. Cymaint oedd dylanwad y profiad hwnnw arno, hyd nes iddo ymweld â chartref Elvis yn Nashville flwyddyn wedi ei farwolaeth.

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, ym 1978, ymwêl Gwydion, sydd bellach yn gweithio gyda’r BBC yng Nghaerdydd, â Dafydd sydd wedi ymgartrefu yn Llundain, ond nid yw’n hapus yno. Parhaodd i gymryd rhan mewn protestiadau ond methiannau fu’r rheini. Dywed nad yw pethau’n dda rhyngddo a’i rieni a dysgwn, yng nghwrs y ddrama, mai un rheswm dros hynny yw oherwydd nad yw ei rieni’n gefnogol i’r ffaith ei fod yn hoyw. Y mae Gwydion ar y llaw arall yn parhau i gael perthynas â Nerys, sydd erbyn hyn yn gweithio fel actores, er ei fod ef yn briod. Daw ei wraig i wybod am y berthynas, ac fe’i gadawa gan fynd â’u mab gyda hi. Yf Gwydion yn drwm ar gorn hynny. Darllena stori i’w fab sy’n crisialu ei fywyd:

GWYDION: Yna fe ddechreuodd Harold dynnu llun ysgol dal a’i greion piws – ysgol hud fyddai’n ei alluogi i ddringo fyny allan o oerni’r dre at wres y lloer. Ond ar ol esgyn ychydig risiau fe dorrodd y creion hud, ac fe syrthiodd i ganol y cysgodion islaw.¹⁴⁶

Y mae hanner arall y ddrama yn digwydd ym mhresennol cyfansoddi’r ddrama, ym 1988. Y mae Gwydion yn gweithio fel cyfarwyddwr ar ffilm a sgriptiwyd gan Dafydd, drama

¹⁴⁴ Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi*, t. 36.

¹⁴⁵ Eirian, ‘Profiadau Llencyndod’, yn Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978*, t. 31.

¹⁴⁶ Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi*, t. 54.

am y system wleidyddol yn yr Ariannin ddiwedd y 1970au. Y mae Dafydd hefyd yn actio yn y ffilm ynghyd â Nerys ac actores arall, Siân. Mae dau gymeriad arall yn gweithio ar y ffilm hefyd, sef cwpl, Dai a Rhian. Y mae gan y cyfarwyddwr a'r awdur wahanol syniadau am ddiweddglo'r ffilm ac mae Dafydd yn wallgof fod Gwydion am newid y diweddglo gan dynnu sylw oddi wrth brif thema wleidyddol y ddrama. Try'r ffræe at ddaliadau gwleidyddol presennol y ddau a rhy Dafydd ergyd i gyfeiriad Gwydion trwy ddweud fod protestwyr ifanc y 1960au wedi derbyn swyddi yn y cyfryngau yng Nghaerdydd a bod hynny wedi eu distewi a'u dofi. Yn ei gynddaredd, dinistria Dafydd y ffilm. Wedi'r ffræe, yf Gwydion yn drwm gan annog Rhian i yfed hefyd, er ei bod yn disgwyl. Ond ymhen ychydig amser, canfu Sian Rhian yn crïo a'i dillad wedi eu rhwygo, ac awgrymir mai Gwydion sydd wedi ymosod arni gan ei hysgwyd yn frwnt cyn diflannu. Y mae'n gofidio ei bod am gollu'r plentyn, ei phlentyn hi a Gwydion efallai, gan iddynt gysgu â'i gilydd rai misoedd ynghynt a dyna sut y cafodd Rhian y swydd ar y ffilm. Gŵyr Dai, ei chymar, am hyn ac mae am waed Gwydion, ond perswadia Rhian ef i beidio â mynd i chwilio amdano gan eu bod angen y cyflog. Canfu Nerys Gwydion a'i rybuddio fod Dai am ei waed ac nad yw'n ddiogel iddo aros yno. Dychwel Gwydion ymhen deuddydd er mwyn cwblhau'r ffilm, gan ddiystyru'r diweddglo gwreiddiol.

Y mae'r ddrama hon yn tystio bod Siôn Eirian, fel y rhan fwyaf o lenorion, gan gynnwys Meic Povey ac Aled Jones Williams, yn ddramodydd sy'n defnyddio profiadau personol fel sbardun i'w ysgrifennu. Ond yr hyn a wna ef, yn wahanol i'w gyd-ddramodwyr, yw ceisio gosod ei brofiad ef fel Cymro yn erbyn cefndir rhyngwladol ehangach. Ni ellir dweud bod y ddrama hon, *Elvis, Y Blew a Fi*, yn ddrama hunangofiannol, ond, yn sicr, y mae'r sefyllfaoedd a'r cymeriadau yn rhai cyfarwydd i'r rhai sy'n ymwybodol o fywyd a gwaith y llenor:

Mae'r teitl, *Elvis, Y Blew a Fi*, yn awgrymu rhyw fath o hunangofiant ... mae'n siŵr fod y ffaith ei fod o wedi gweithio gyhyd yn y BBC a gyda'r cyfrynge wrth gwrs yn rhan o'r profiad mae o wedi rhoi i mewn i'r cynhyrchiad yma ond faswn i ddim yn dweud mai hunangofiant pur ydi o.¹⁴⁷

Y mae'r ddau brif gymeriad yn y ddrama, Gwydion a Dafydd, wedi eu magu ar aelwydydd cyffelyb i gartref Siôn Eirian, ond er mwyn i'r cymeriadau fod mewn oed ymgyrchu yn ystod cyfnod cythryblus y 1960au, rhaid oedd iddynt fod yn hŷn na'r dramodydd, mewn gwirionedd. Fodd bynnag, gellir adnabod elfennau o Siôn Eirian o dan wyneb y ddau

¹⁴⁷ Cyfaill i Siôn Eirian, yn 'Nabod', *BBC Radio Cymru* (2 Medi 1988).

gymeriad a gellir dadlau eu bod yn cynrychioli gwahanol agweddau ohono: yr hyn ydoedd a'r hyn y gallai fod wedi bod pe bai wedi dilyn gwahanol lwybr yn ystod ei fywyd. Dramodydd gwleidyddol yw cymeriad Dafydd a fu'n gweithredu yn erbyn anghyfiawnderau gwleidyddol yn ystod ei ieuenctid gan gymryd rhan mewn protestiadau a chymryd cyffuriau. Dywed yng nghwrs y ddrama ei fod wedi aeddfedu yn wleidyddol, fel y cydnabu Siôn Eirian iddo yntau ei wneud:

DAFYDD: **Ti** sy di colli golwg ar wleidyddiaeth, ar ddelfryda, nid fi ... Mi fethodd chwe deg wyth am fod y rhan fwy o'r myfyrwyr a'r arweinwyr a'r ffigura 'pop' oedd yn llais iddyn nhw, yn dod o gefndir reit freintiedig. Meibion a merched y sefydliad oedd lot ohonyn nhw, yn sgrechian yng nghlustie'r sefydliad oedd di rhoid addysg iddyn nhw a phres yn u pocedi nhw.¹⁴⁸

Y mae ei dân gwleidyddol ef yn parhau ynghyn, ond ni ellir dweud yr un modd am Gwydion, a arferai deithio gydag ef i brotestiadau. Fe'i magwyd yntau ar aelwyd ddiwylliedig, draddodiadol Gymreig a gwrthryfelodd yn erbyn hynny:

GWYDION: Sdim isio ti esbonio'r angst wrtha i. Dwi inna di cael fy magu yn swm [sic] cora a cywydda, y Rhodd Mam a gwichian y sgidia dy-Sul.¹⁴⁹

Mae bellach yn byw bywyd gweddol gysurus fel cynhyrhydd annibynnol, fel cyfryngi, yng Nghaerdydd ac yn yfed yn drwm, ac mae'n hysbys fod y dramodydd ei hun yn yfed yn sylweddol yng nghyfnod cyfansoddi'r ddrama.¹⁵⁰

A diffuantrwydd, o'i wrthgyferbynnu â chyfaddawd yw'r maes llafur mae'r ddrama'n ymdrin ag e. Ein gwrs ni'r prynhawn ma: "Nid yw'r rhai sy'n berchen ar ddychymyg a diffuantrwydd yn medru dal gafael ar bwer. Nid yw'r rheini sy'n gafael yn awenau pwer bellach yn meddu ar ddychymyg na diffuantrwydd."¹⁵¹

Ond os bwriad Siôn Eirian oedd rhoi ergyd i gyfeiriad y gynulleidfa, a fyddai'n cynnwys aelodau canol oed a arferai fod mor danbaid yn eu hieuenctid ond a oedd bellach wedi eu dofi, fel Gwydion, yna, roedd yn tanio'r gwn ato'i hun yn ogystal. Y mae'r ddau gymeriad, Gwydion a Dafydd, yn cyfleu'r ddeuliaeth a berthyn i Siôn Eirian, deuoliaeth a oedd yn

¹⁴⁸ Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi*, tt. 89-90.

¹⁴⁹ Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi*, t. 38.

¹⁵⁰ Cyfweliad gyda Siân Summers (29 Hydref 2014).

¹⁵¹ Siôn Eirian, Rhaglen cynhyrchiad cwmni Hwyl a Fflag o *Elvis, Y Blew a Fi*.

esgor ar densiwn mewnol a dywed Siân Summers, a bortreadai gymeriad Sian yn y ddrama, fod ‘ffieidd-dod ac efallai hunan dosturi’¹⁵² o du’r dramodydd tuag at hunanoldeb y byd modern, a thrwy hynny, ef ei hun, yn berwi i’r wyneb yng nghwrs y ddrama:

Roedd o’n gyfnod arbennig dwi’n meddwl. A dyna oedd o’n drïo cael gafael arno, dwi’n meddwl, oedd sut oedd delfrydiaeth y 60au jesd wedi ildio i’r *consumerism* yna yn niwedd yr 80au. Ac mi roedd o. A be sy’n cymhlethu pethau ydi bod yr awdur ei hun yn rhan o’r byd cyfalafol, cyfryngol yna yng Nghymru.¹⁵³

Y mae hyn yn un o’r rhesymau pam nad atgofion cadarnhaol sydd gan Siôn Eirian o’r ddrama, gan ei bod yn ei atgoffa o gyfnod anodd yn ei fywyd pan oedd ar groesffordd ac euogrwydd yn amlwg yn ei anniddigo:

Yn waeth byth, y bobl oedd yn ifanc yn y 60au oedd yn mwynhau’r rhyddid a’r eofndra yna o daclo’r sustem ac o wneud rywbeth gwahanol ... dyna’r union bobl sydd wedi mynd â ni oddi ar y rêls ... Toedd pres ddim yn bwysig, jest cael dy neges drosodd a thanseilio’r sefydliad. Ond mi ddaethom ni i’r sefydliad yn lle yr hyn wnaethom ni ei danseilio ... Mae’n beth hyll ti’n gwbod. Ma ’da fi lot o bres nawr. Dwi ddim yn gyfoethog ond dwi’n gyfforddus. A pham dwi wedi diweddu lan fan hyn pan o’n i mewn denims allan yn rhedeg y strydoedd gyda placards?¹⁵⁴

Ymdebyga’r ddrama hon mewn sawl ffordd i’r ddrama gyfres *Pen Talar* (2010) a gydygyfansoddwyd gan Siôn Eirian ac Ed Thomas a oedd yn aelod o gast gwreiddiol y ddrama lwyfan. Perthyn eflen hunangofiannol gref i’r ddrama a’r gyfres hefyd, sydd hefyd yn neidio nôl a blaen rhwng y presennol a ieuencid y ddau brif gymeriad, dau ffrind, gyda chwyldro’r ifanc yn chwarae rhan ganolog o fewn y plot. Ond efallai i’r elfen bersonol gref a berthyn i’r ddrama lwyfan, gymylu safbwynt gwrthrychol y dramodydd tuag at ei waith, a’i bod, o’r herwydd, yn tueddu i fod yn bregethwrol ar brydiau wrth i’r gynulleidfa fod ymwybodol mai safbwyntiau’r dramodydd sy’n cael eu gwthio arnynt. Yn y ddrama hon, teimlir fod y wleidyddiaeth, nid yn unig yn oramlwg, ond hefyd ychydig yn amrwd ac anhreuliedig. Ceir cyffyrddiadau felly yn y ddrama *Paradwys Waed* hefyd. Teimlir bod y cymeriadu wedi eu creu o amgylch y wleidyddiaeth ac mai pypedau ydynt i gyflwyno’r wleidyddiaeth yn hytrach na bod y wleidyddiaeth yn deillio’n naturiol o sefyllfaoedd y cymeriadau.

Y mae *Elvis*, *Y Blew a Fi* yn ddrama sy’n ymdrin, nid yn unig â themâu sydd o berthnasedd i’r Cymry, ond hefyd â themâu sydd o berthnasedd rhyngwladol. Yn wir, un o

¹⁵² Cyfweliad gyda Sian Summers (29 Hydref 2014).

¹⁵³ Cyfweliad gyda Sian Summers (29 Hydref 2014).

¹⁵⁴ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

brif rinweddau Siôn Eirian fel dramodydd, fel Huw Lloyd Edwards a Saunders Lewis o'i flaen, yw ei allu i gyflwyno pynciau rhyngwladol ac oesol trwy lygaid Cymreig ac arddangos effaith y materion rhyngwladol hynny ar y Cymry, y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Dyma arwydd o hyder ac uchelgais Siôn Eirian fel dramodydd. Dyna a wna ym mhob un o'r dramâu a astudir yn y traethawd hwn: rhagfarn cymdeithas yw un o brif themâu *Wastad ar y Tu Fas*; rhagrith dosbarth canol a geir yn *Epa yn y Parlwr Cefn*; effaith y we fyd-eang ar wareiddiad a welwn yn *Cegin y Diafol*; grym dynol dinistriol yw canolbwynt *Hedfan Drwy'r Machlud*; a phrofa cymeriadau *Garw* newidiadau gwleidyddol a chymdeithasol enfawr. Arddengys y dramodydd hefyd wybodaeth am wahanol ddiwylliannau a materion rhyngwladol, un ai trwy gymeriadau sydd wedi teithio a phrofi gwahanol ddiwylliannau ac sydd yn hyddysg mewn materion rhyngwladol, megis Greta a Gwylan yn *Cegin y Diafol*, a Dafydd a Gwydion yn *Elvis, Y Blew a Fi*, neu drwy gynnwys cymeriadau sy'n hanu o wledydd tramor megis Steffan yn *Wastad ar y Tu Fas* neu drigolion Estoraos yn *Hedfan Drwy'r Machlud*. Yn Sbaen y lleolir y rhan helaethaf o'r ddrama *Paradwys Waed* sy'n canolbwyntio ar y Rhyfel Cartref yn Sbaen yn ystod y 1930au.

Ar 5 Medi 1999, darlledwyd drama radio o eiddo Siôn Eirian o'r enw *Pridd a Gwaed* ar Radio Cymru. Drama ydyw am ddau Gymro, Gronw Ellis o ogledd Cymru a Richard Stevens o'r Waen, Ynysybwl, sy'n gweithio fel newyddiadurwyr yn Sbaen yn ystod Rhyfel Cartref y wlad yn y 1930au. Rai misoedd yn ddiweddarach, ar 1 Ebrill 2000, gwelwyd y perfformiad cyntaf o'r ddrama lwyfan, *Paradwys Waed*, gan Gwmni Theatr Bara Caws yn Theatr y Werin, Aberystwyth. Ian Rowlands oedd yn cyfarwyddo a'r actorion oedd Dafydd Dafis, Betsan Llwyd, Dyfrig Wyn Evans ac Alys Thomas. Addasiad o'r ddrama radio yw'r ddrama hon mewn gwirionedd. Y mae wedi ei lleoli, fel y ddrama radio, yn rhannol yn Barcelona rhwng 1936 a 1939 ac yn rhannol yng Nghymru yn yr un cyfnod, ond nid yn ardal Y Waen y tro hwn ond yn ardal Rhosllannerchrugog. Roedd Siôn Eirian eisoes wedi gwneud gwaith ymchwil sylweddol i'r Rhyfel Cartref yn Sbaen ar gyfer prosiect arall, gan gyfsweld nifer o Gymry a oedd wedi bod yn gweithio fel nysrus a newyddiadurwyr yn y wlad yn ystod y cyfnod. Bu hefyd mewn cysylltiad agos â Patricia Langdon-Davies, gweddw John Langdon-Davies, sef prif newyddiadurwr y Rhyfel Cartref, a chafodd fynediad at ei lyfrgell bersonol.

Hanes dau newyddiadurwr a gawn eto, sy'n gweithio i wahanol bapurau newydd Prydeinig yn Sbaen. Derbyniodd Richard Stevens, sy'n hanu o Rosllannerchrugog, ei addysg yn Rhydychen a bellach, gweithia i'r papur newydd adain chwith, y *Daily Worker*. Y mae wedi ei anfon i Sbaen er mwyn ysgrifennu erthygl am ymladd teirw. Y mae ei gymeriad yn

ein hatgoffa o eiriau Dafydd yn *Elvis, Y Blew a Fi*, pan ddywed fod y sosialwyr a oedd yn protestio yn blant y sefydliad ac wedi derbyn addysg aruchel:

JENNY ... Mi gafodd o addysg. Y gore. Oxford...
ALUN A felly?
JENNY A felly mi o'dd pob dewis gynno fo, pob drws yn agored ... A rŵan mae o'n peryglu'i fywyd mewn rhyw ryfel sy'n golygu dim i neb.
ALUN Golygu rhywbeth i mi. Herio ffasgiaeth. Gwarchod sosialaeth.¹⁵⁵

Y mae rhieni Richard yn parhau i fyw yn y Rhos ac fe'i magwyd ar aelwyd dosbarth gweithiol gyda'i dad yn gweithio yn y pwll glo. Ysgrifennu i bapur newydd adain dde, y *Daily Telegraph*, a wna ei gyd-Gymro, Gronw Ellis, sy'n wreiddiol o Fethesda. Yno i ysgrifennu erthygl am y bardd, Robert Graves, a addysgwyd yn rhannol yng Nghymru, a fudodd i ardal baradwysaidd Deya y mae ef. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod y ddau yn Sbaen, mae'r rhyfel cartref yn dechrau a cheisia amryw ffoi o'r wlad, gan gynnwys Gronw, Graves a'i feistres, Laura Riding. Ond fe gymerir papurau swyddogol Gronw gan yr Anarchwyr ac, o ganlyniad, ni all ddychwelyd adref:

RICHARD Yr anarchwyr yn llosgi lleianod yn fyw? Taflu offeiriad o ben clochdai eglwys ...?
GRONW Y ffasgwyr yn saethu plant bach, treisio mamau ...?
RICHARD O lle uffern ma dy bapurau di'n cael y straeon ma Gronw?
GRONW O lle uffarn wyt ti'n cael dy rai di?¹⁵⁶

Yn ogystal â gwahanol ddaliadau gwleidyddol y ddau brif gymeriad a'r gwahanol safbwyntiau a fynegir yn eu herthyglau, mae natur cymeriadau Richard a Gronw yn dra gwahanol i'w gilydd. Y mae Gronw yn yfwr trwm, yn ildio i chwantau cnawdol ac ar dân i ddychwelyd adref o berygl y rhyfel. Ceisia ddianc ar long gyda merch sydd wedi gwerthu ei hun iddo, Carla, ond y mae ef wedi dotio arni. Fodd bynnag, gollyngir bom ar y llong. Goroesa Gronw ond nid felly Carla. Yr unig obaith o ddianc sydd ganddo yn awr yw mynd, gyda Richard, i faes y gad. Fodd bynnag, gan nad yw'n ysgrifennu o blaid yr Anarchwyr rhaid iddo gymryd gofal. Y mae Richard, ar y llaw arall, yn benderfynol o aros yno er mwyn cofnodi'r hyn a ddigwydd fel bod trigolion Prydain yn gwybod y gwir am yr helyntion yno. Y mae Richard, fel ei dad, Alun, yn Sosialydd huawdl ac ysgrifenna lythyrau i'w dad ac erthyglau ar gyfer *Baner ac Amserau Cymru* yn cofnodi'r hyn sy'n digwydd ac yn annog y

¹⁵⁵ Eirian, *Paradwys Waed*, t. 13.

¹⁵⁶ Eirian, *Paradwys Waed*, t. 22.

Cymry i wirfoddoli a chefnogi'r Anarchwyr trwy ymuno â'r gwrthryfel yn Sbaen. Ac yntau'n byw ac yn gweithio o dan amgylchiadau hynod beryglus, poeni am les ei mab a wna Jenny, mam Richard. Ond cyneuodd llythyrau ac erthyglau Richard yr un tân gwleidyddol yn ei dad yntau. Y mae'n frwd dros yr achos ac anercha ei gyd-lowyr a thrigolion y fro gan ledaenu cenadwri ei fab a chasglu arian tuag at yr achos yn Sbaen:

ALUN “A beth yw effaith penderfyniad llywodraeth Prydain i beidio cymryd ochr yn y rhyfel tyngedfennol yma? Fe alla i ddweud wrthoch chi, bobl y Rhos, beth yw yr union effaith.
Ar un ochr, y Ffasgwyr, sydd am ddymchwel democratiaeth, yn cael yr arfau diweddera a mwya dychrynlyd wrth Adolf Hitler a Benito Mussolini, bomiau torpedo newydd i'w gollwng yn gawodydd ar wragedd a phlant.
Yn erbyn hynny gynnau a phistolau hen ffasiwn yn nwylo'r werin ... Dyna be mae Richard yn ddeud yn y llythyr anfonodd o adre o Barcelona wythnos ddwetha. Dyna medde fo ydi effaith niwtraliaeth honedig Prydain a Ffrainc. Da chi, frodyr, ma angen cymorth ychwanegol ar Sbaen ddemocrataidd – pob cymorth posib – ac mae 'i angen o ar fyrder frodyr. Rŵan!¹⁵⁷

Ceir tensiwn rhwng Alun a'i wraig gan na wêl Jenny pam y dylai ei chymdogion gyfrannu eu harian prin tuag at achos sydd ddim oll i'w wneud â hwy. Ysgrifenna lythyr at ei mab yn dweud cymaint o effaith a gaiff ei lythyrau ar y gymdogaeth. Ond y mae llawer eisoes wedi gwirfoddoli o ganlyniad i'w anogaeth gan gynnwys merch ifanc o'r ardal, Helen, sy'n mynd yno i wirfoddoli fel nyrs. Yn ei gwaith, gwêl hithau erchyllterau'r rhyfel ar eu gwaethaf ond nid yw Richard yn fodlon derbyn ei sinigaeth wrth i'w obeithion gwleidyddol ei ddallu i'r ffaith fod miloedd o bobl gyffredin yn cael eu lladd gan yr Anarchwyr:

Mae gwerthoedd Richard tu chwith, achos mae e'n rhoi gwerthoedd haearnaidd uwch law gwerthoedd dynol.¹⁵⁸

Cyfyd y cwestiwn faint o'r gwir mewn gwirionedd y mae Richard yn ei gofnodi yn ei erthyglau:

HELEN A falle mai caru'r geiria 'u hunen wyt ti bellach. Geirie wedi cymryd lle y gwir ... Dewch draw atan ni, i ymladd yn y rhyfel gyfiawn ... Ni,

¹⁵⁷ Eirian, *Paradwys Waed*, tt. 18-19.

¹⁵⁸ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

sy'n amddiffyn gwareiddiad, amddiffyn cyfiawnder ... Ti'n mynd i recriwtio mwy o ddynion i berygu 'u bywyde allan ma ...¹⁵⁹

Er gwaethaf barn ei wraig, y mae Alun yntau'n penderfynu ymuno â'r frwydr o blaid yr achos. Ond fe'i hanefir yn ddifrifol ac nid oes gobaith iddo. Caiff Gronw gyfle i ddychwelyd adref, ond penderfyna Richard aros yno. Ceir enghraifft yng nghymeriad Richard o ragrith gwleidyddol. Ysgrifenna erthyglau yn apelio am wirfoddolwyr i ymladd o blaid yr achos yn Sbaen ond eto, nid oedd am i'w dad ei hun farw dros yr achos.

Paradwys Waed, ynghyd â *Garw*, yw'r unig ddramâu o eiddo Siôn Eirian sydd wedi'u gosod yn gyfan gwbl yn y gorffennol. Ond mae'r ddrama hon yn ymdrin â phynciau amserol iawn yn y byd sydd ohoni, sef '[d]elfrydau a phropaganda',¹⁶⁰ sydd hefyd yn bynciau rhyngwladol ac oesol. Ceir rhai gwahaniaethau rhwng y ddrama radio a'r ddrama lwyfan. Ychwanegwyd cymeriad Robert Graves a'i gymar at y ddrama lwyfan, a hynny wedi i Siôn Eirian ddarllen hanes ei fywyd a'r modd y bu raid iddo ddianc o Miorca wedi i'r Ail Ryfel Byd dorri:

Roedd fy ngwybodaeth i am yr *International Brigades* a'r bobl o'dd wedi mynd allan o Gymru wedi dechre cael ei 'impio' ar Maiorca, Roberts Graves a'r gymdeithas *expat* o'dd yn trio creu paradwys yna a daeth Rhyfel Cartref Sbaen ac wedyn yr Ail Ryfel Byd ar draws y ddau beth. Ffasgiaeth. So rywle fan'na o'dd y thesis rhwng dau fyd gwahanol.¹⁶¹

Gwahaniaeth arall yw mai deheuwr yw cymeriad Richard yn y fersiwn radio ac ysgrifennu llythyrau at ei frawd, Dei, a wna, yn hytrach nag at ei dad, ac ymuna yntau â'r fyddin i ymladd o blaid yr achos yn Sbaen ond caiff ei ladd yno. Fodd bynnag, mae Richard y ddwy ddrama yn hanu o ardaloedd diwydiannol y pyllau glo, a thynnir sylw at uffern yr amodau gwaith yn y pwll yn y dramâu, fel y gwneir hefyd yn nrama ddiweddaraf Siôn Eirian, *Garw*. Yn wir, mae cydymdeimlad Siôn Eirian yn wastad gyda chymeriadau adain chwith, gweriniaethol cymdeithas a'u safbwyntiau hwy a fynegir yn aml o fewn y gweithiau, megis yn *Elvis*, *Y Blew a Fi* hefyd:

GWYDION: Dwy noson o wrthdystio ac ymladd di-dor. Myfyrwyr a gweithwyr yn chwalu concrit y cerrig pafin a'i hyrddio at y fliques ... Ar ôl hynny ma unrhywbeth yn bosib. Ma De Gaulle yn ofni'r gwaith, ma'r

¹⁵⁹ Eirian, *Paradwys Waed*, t. 31.

¹⁶⁰ Dienw, 'Siôn Eirian', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/author_playlist.asp?author=Siôn%20Eirian>.

Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

¹⁶¹ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

chwyldro'n mynd i ledu i'r ffatrioedd, o fewn wythnos mae nhw'n gobeithio bydd na streic drw'r wlad.¹⁶²

Fodd bynnag, er yr elfennau gwleidyddol cryfion a berthyn i'w weithiau, dywed Siôn Eirian mai gogoniant y ddrama *Blodeuwedd* (1948), gan Saunders Lewis, y bu ef yn gyfrifol am lunio cyfieithiad Saesneg ohoni, yw fod 'Saunders wedi gadael y gwaith o dynnu cymariaethau a moeswersi i eraill',¹⁶³ sy'n golygu bod y ddrama, yn ei farn ef, yn rhagori ar weithiau mwy gwleidyddol y dramodydd. A'i ddramâu mwyaf gwleidyddol yntau, megis *Wastad ar y Tu Fas*, er ei rhagoriaeth, *Elvis*, *Y Blew a Fi* a *Paradwys Waed*, yw ei ddramâu mwyaf anghynnil o ran y modd y cyflwynir ei neges. Wrth gyfansoddi *Epa yn y Parlwr Cefn*, ymataliodd Siôn Eirian rhag cynnwys unrhyw ergyd gwleidyddol yn y ddrama, fel y gwnaeth yn y rhan helaethaf o'i ddramâu cyn ac wedi hynny, gan nad 'dogfen drafod gymdeithasol yw'r ddrama'.¹⁶⁴ Ei fwriad gydag *Epa yn y Parlwr Cefn*, yn hytrach, oedd cyflwyno sefyllfa heb gynnig atebion iddi. Yn hynny o beth, ymdebyga i Aled Jones Williams, sydd hefyd yn rhoi pwys ar godi cwestiynau yn hytrach na chynnig atebion. Dyma pam, medd Siôn Eirian, mai awduron ydynt yn hytrach na gwleidyddion neu ddadansoddwyr gymdeithasol:

fel Crist i'r diffeithwch
deuthum innau yma
i ofyn cwestiynau a gwrthod atebion¹⁶⁵

Fodd bynnag, y mae canran helaethach o weithiau Siôn Eirian yn dilyn y trywydd gwleidyddol amlwg yn hytrach na'r patrwm o gyflwyno sefyllfa yn unig fel a wneir yn *Epa yn y Parlwr Cefn*.

Y mae gan Siôn Eirian, wrth gwrs, ei farn ei hun am buteindra, a chred y dylai puteindra, fel un o ddiwydiannau hynaf y byd, gael ei gyfreithloni ac y dylid dangos urddas tuag at y diwydiant fel y gwneir mewn amryw wledydd tramor:

ond i mi, ac i lot o bobl bellach, nid anghyfreithloni a stigmatiddio'r menywod sy'n gweithio yn y busnes yw'r ffordd o daclo'r broblem. A dweud y gwir dydw i ddim yn meddwl dylai'r gyfraith fod a [sic] lle ganolog [sic] yn yr ateb o gwbl.¹⁶⁶

¹⁶² Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi*, t. 31.

¹⁶³ Menna Baines, 'Trosi Byd Blodeuwedd', *Barn*, 357 (Hydref 1992), 9.

¹⁶⁴ Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn* (ysgrif anghyhoeddedig).

¹⁶⁵ Eirian, 'Profiadau Llencyndod' yn Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978*, t. 35.

¹⁶⁶ Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn* (ysgrif anghyhoeddedig).

Ond ni ddefnyddiodd y dramodydd y ddrama i wthio'r farn honno ar y gynulleidfa. A dyma paham, efallai, y mae *Epa yn y Parlwr Cefn* yn ogystal â *Garw* yn rhagori ar weddill y gweithiau, gan mai'r cymeriadau sy'n hawlio sylw. Drama yn canolbwyntio ar bedwar cymeriad ydynt o'u cymharu â naw cymeriad yn *Paradwys Waed*, deg cymeriad yn *Wastad ar y Tu Fas* a saith cymeriad yn *Elvis, Y Blew a Fi*. Nid ydynt ychwaith yn ddramâu am ddigwyddiadau hanesyddol na dramâu sy'n cyflwyno gwahanol faterion gwleidyddol a phersonol i'r dramodydd (er bod materion hanesyddol a gwleidyddol yn gefndir i'r hyn a ddigwydd yn *Garw*): 'Turning away from the obvious biographical influences which forged, *Elfis [sic]*'.¹⁶⁷ Wrth ganolbwyntio'n llwyr ar lai o gymeriadau, llwyddodd y dramodydd i greu cymeriadau crwn, amlhaenog a threiddiodd yn ddyfnach o dan eu crwyn nag a wnaeth gyda chymeriadau ei ddramâu eraill gan hawlio cydymdeimlad y gynulleidfa. Y mae'r testun ac agenda bersonol a gwleidyddol y dramodydd yn tueddu i hawlio sylw'n ormodol oddi wrth y cymeriadau yng ngweddill y gweithiau. Gyda'r dramâu hyn, y mae'r dramodydd fel pe bai wedi llwyddo i 'sianelu'i ddieter yn fwy cywrain',¹⁶⁸ ys dywed Dafydd Llewelyn yn ei adolygiad o *Garw*, nag y gwnaeth yn ei weithiau eraill. Yn ogystal â hyn, sylwer nad yw'r ddwy ddrama uchod yn arddel y dechneg o gyd-redeg straeon cysylltiol, sy'n codi'r cwestiwn a yw'r dramâu yn gadarnach wrth i'r dramodydd ganolbwyntio ar un stori'n unig gan gadw'r strwythur yn weddol syml. Ys dywed y dramodydd Alan Ayckbourn yn ei erthygl, 'How to Write a Play?':

The fewer the locations, the shorter the time frame, the fewer the characters, the less dialogue, the less scenery, the less everything, the better.¹⁶⁹

¹⁶⁷ Ros, 'New writing on the Welsh-language mainstage 1979-1995', yn Taylor (ed.), *Staging Wales*, t. 21.

¹⁶⁸ Dafydd Llewelyn, 'Torri'r glo mân yn glapia ...', <<http://dafyddllewelyn.wordpress.com/2014/10/02/torrir-glo-man-yn-glapia/>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Hydref 2014.

¹⁶⁹ Alan Ayckbourn, 'How to Write a Play?', *The Telegraph*, <<http://www.telegraph.co.uk/culture/theatre/drama/3581622/How-to-write-a-play.html>>. Ymwelwyd â'r wefan 7 Medi 2015. (Gweler hefyd Alan Ayckbourn, *The Crafty Art of Playmaking* (Llundain, 2004)).

2.6 Cymdeithasol

Bysedd bach. Bysedd bishi.
Bysedd menyw chi'n gweld. 'Na'r dyfodol.¹⁷⁰

Hawlia Siôn Eirian mai alegoriau yw'r rhan helaethaf o'i weithiau mewn gwirionedd. Alegori, er enghraifft, a geir yn *Epa yn y Parlwr Cefn*, gyda pharlwr cefn 15 Horizon View yn cynrychioli'r parlwr cefn ym meddyliau pobl, ac yn enwedig dynion, lle nad oes llawer o ymwelwyr yn cael mynediad. Cymhara Siôn Eirian y parlwr cefn hwn gyda pharlwr cefn y mans yn ystod ei fagwraeth: 'Dim ond ffrindiau go iawn oedd yn dod i'r parlwr cefen, a hynny trwy ddrws y cefen yn hytrach na'r drws ffrynt.'¹⁷¹ Alegori hefyd a geir yn *Cegin y Diafol* am fywyd wedi ei osod mewn rhithofod sy'n esgor ar broblemau cyfathrebu. Er bod elfennau gwleidyddol i themâu'r gweithiau hyn, fel pob drama arall o eiddo'r dramodydd, canolbwyntia Siôn Eirian fwyfwy ar yr effeithiau cymdeithasol a ddeillia o'r materion gwleidyddol, yn hytrach felly nag ar y sefyllfa wleidyddol ei hun. Er enghraifft, awgryma yn *Epa yn y Parlwr Cefn* mai amodau cymdeithasol dinistriol sy'n gyfrifol an gynydd puteinio. Canolbwyntio ar faterion cymdeithasol a wna yn *Hedfan Drwy'r Machlud* hefyd:

Ond bellach mae gwleidyddiaeth fwy trwblus heddiw yn ymwneud a'r [sic] ffordd mae unigolion ynysig yn ymwneud a'r [sic] gymdeithas sifig, sy wedi dechre chwalu. A sut mae cyrhaeddiad marchnad ryngwladol a chyfathrebu di-ffiniau yn negyddu sicrwydd y llwyth a'r genedl, a'r gymdeithas fach leol.¹⁷²

Codi cwestiynau cymdeithasol a wna drama ddiweddaraf Siôn Eirian hefyd, *Garw*. A hithau'n ymwneud â theulu mewn ardal lofaol yn ne Cymru flwyddyn wedi i Streic y Glowyr ddod i ben ym 1986, ac o gofio ei bod wedi gosod yn rhannol yn yr un flwyddyn â *Wastad ar y Tu Fas*, gellid yn hawdd ddod i'r casgliad mai naws wleidyddol amlwg a fyddai i'r ddrama. Ac er bod cyfeiriadau gwleidyddol i'w cael yn y ddrama, gyda chyfeiriadau at bolisiâu'r llywodraeth ar amrywiol faterion, a'r ffaith bod y ddrama wedi ei gosod mewn cyfnod o newid o ran arweinyddiaeth, canolbwyntiwyd, yn hytrach, ar yr elfennau cymdeithasol a ddeilliai o'r sefyllfaoedd gwleidyddol hyn ac amlygwyd y gwahanol haenau a fodolai o fewn cymdeithas.

¹⁷⁰ Eirian, *Garw*, t. 1.

¹⁷¹ Siôn Eirian, yn Baines, 'Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian', *Barn*, 29.

¹⁷² Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

Cyn y comisiynwyd Siôn Eirian gan Gwmni Theatr Bara Caws i ysgrifennu *Garw* ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr 2014, ni lwyfannwyd drama lwyfan Gymraeg o'i eiddo ers wyth mlynedd. Cafwyd y perfformiad cyntaf o'r ddrama yn Stiwdio Sepni yn theatr Y Ffwrnais, Llanelli cyn iddi deithio o amgylch Cymru. Y cast yn perfformio o dan gyfarwyddyd Betsan Llwyd oedd Rhys Parry-Jones, Eiry Thomas, Gwawr Loader a Siôn Ifan. Mae'r ddrama'n canolbwyntio ar fywyd teulu mewn pentref glofaol yn Nyffryn Aman yng nghanol y 1980au hyd at ddechrau'r 1990au. Ac yntau wedi ei fagu'n rhannol yn yr ardal honno yn ystod y 1960au, ar lethrau'r Mynydd Du, mewn cyfnod lle'r oedd y rhan helaethaf o'r gwŷr yn gweithio yn y pyllau glo, mae'n anochel fod y dramodydd wedi tynnu rhywfaint ar ei adnabyddiaeth ei hun o'r gymdeithas wrth gyfansoddi. Ac, wrth astudio'i yrfa, gellir gweld fod yr hyn a ddigwyddodd i'r gymdeithas honno wedi golygu llawer iddo:

Dwi'n cofio nôl yn y 90au trio ymchwilio i gyfres deledu oedd hi fod gyda David Lyn yn cynhyrchu – wnaeth ddim byd ddod o'r gyfres ond aethom ni allan – fi a 'nghyd awdur o Lundain o'r enw Ray Jenkins – allan i gwrdd â phobl oedd wedi bod yn rhan o hanes diweddar y meysydd glo felly. Achos cyfres am beth ddigwyddodd i'r diwydiant glo oedd David Lyn isie'i neud ... o'n i'n meddwl, mae 'na ddrama fan hyn yn rhywle am fywydau preifet pobl sy'n cael eu heffeithio gan y materion hyn.¹⁷³

Hefyd, ym 1987, cyd-ysgrifennodd Siôn Eirian a John Hefin ffilm am gyn-löwr yn chwilio am waith, *Dyddiau Bonner*. Stori am wrthdaro rhwng dau ddosbarth, dwy gymdeithas a dau fath o dranc ydoedd a cheir adleisiau o'r themâu hyn yn *Garw*. Yn fwy diweddar, rhoddodd y gyfres deledu, *Pen Talar*, a gydysgrifennwyd gan Siôn Eirian, hefyd sylw i gyfnod Streic y Glowyr.

Egyr y ddrama yng Ngorffennaf 1986, 'blwyddyn y Big Bang ym marchnadoedd arian Llundain',¹⁷⁴ ac oddeutu blwyddyn wedi i'r streic ddirwyn i ben. Fodd bynnag, ni fu Llew, neu Smiler Harries, y penteulu sydd bellach yn ddi-waith ers i bwll glo Mynydd Garw gau, yn rhan o'r streic honno gan mai pwll bychan o ran ei faint, pwll drifft, oedd pwll Mynydd Garw: 'Roedd pyllau fel 'na yn angof yn y frwydr fawr yn yr 80au. O'n nhw'n dal i fynd trwy'r streic achos mewn dwylo preifet o'n nhw.'¹⁷⁵ Fodd bynnag, erbyn hyn, y mae'r pwll hwnnw wedi cau hefyd oherwydd, wedi i'r pyllau mawrion gau, fe fewnforiwyd glo o Wlad Pwyl a Rwsia yn rhad gan ladd busnes y pyllau bychain preifat.

¹⁷³ Siôn Eirian, yn 'Sgwrs gyda Siôn Eirian a Betsan Llwyd ar raglen Nia Roberts', <<https://soundcloud.com/berwyn/sgwrs-gyda-Siôn-eirian-a-betsan-llwyd>>, (15/07/14). Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

¹⁷⁴ Siôn Eirian, 'Gair am Garw', *Garw* (Caernarfon, 2014).

¹⁷⁵ Siôn Eirian, yn 'Sgwrs gyda Siôn Eirian a Betsan Llwyd ar raglen Nia Roberts', <<https://soundcloud.com/berwyn/sgwrs-gyda-Siôn-eirian-a-betsan-llwyd>>.

‘[C]yn focsiwr, cyn-benteulu, cyn-bopeth’¹⁷⁶ yw Llew. Nid yw’n hapus gyda’r ffaith bod ei wraig, Sara, yn gweithio ar y slei am arian parod er mwyn cynnal rhywfaint ar y teulu. Mae’n gweithio fel glanhawraig i aelodau mwy breintiedig y gymdeithas, megis Bernard Rees, cyn-reolwr y pwll glo a’r un fu’n gyfrifol am ddiswyddo’r gweithwyr flwyddyn ynghynt. Y mae hefyd yn rhan o brosiect a redir yn yr ardal sy’n mynd â mamau ar dripiâu mewn bysiau mini i ddangos posibiliadau gwaith iddynt, gan nad oes gwaith i ddynion yr ardal mwyach. Y mae ganddynt ferch un ar bymtheg oed, Lowri, a chan ei thad feddwl y byd ohoni. Mae’n hynod amddiffynnol ohoni ac ofn ei cholli ac ni all ddioddef ei chariad, Gavin. Er na chyfarfyddwn ag ef yn ystod y ddrama, gwyddom ei fod yn gymeriad hynod annymunol, yn ferchetwr a chanddo agwedd ddi-hid tuag fywyd. Ond y mae Lowri yn ysu am ei rhyddid ac yn gwrthryfela yn erbyn dymuniadau ei thad ac yn parhau mewn perthynas â Gavin er nad yw’n ei hoffi cymaint â hynny mewn gwirionedd. Y mae, fodd bynnag, yn ymddiried yn ei mam ac mae ganddynt berthynas glòs. Y mae ei mam yn pwysleisio mor bwysig yw iddi wneud yn dda yn y coleg fel y bydd ganddi gymhwyster a sail ar gyfer gyrfa yn y dyfodol, rhywbeth nad yw Sara’n meddu arno. Yn wir, Sara yw’r un sy’n gorfod dal pen rheswm â’i gŵr a’i merch gan gadw’r ddysgl yn wastad rhyngddynt. Mae hi’n wraig gref sy’n cynnal ei theulu mewn sawl ffordd a dilynwn ei thaith hi lawn cymaint â thaith Llew yn ystod y ddrama sy’n codi’r cwestiwn: drama am bwy yw *Garw*? Caiff Llew addewid o waith ar safle adeiladu yn yr ardal cyn y Nadolig gan gyn-gydweithiwr iddo. Y mae’n llawn gobaith am y tro cyntaf ers misoedd lawer ac yn cynllunio am Nadolig heb ei ail. Ac, er nad yw Llew yn or-hoff o’r syniad gan mai Llafur yw eu plaid hwy, y mae Sara yn awyddus iddynt gynilo er mwyn prynu eu tŷ cyngor, syniad a gyflwynwyd gan lywodraeth Margaret Thatcher. Ond pan ddirwyna perthynas Lowri a Gavin i ben, daw’n hysbys fod cyfaill Llew wedi rhoi’r gwaith ar y safle i Gavin a’i ffrindiau gan eu bod yn rhatach i’w cyflogi oherwydd bod y Llywodraeth yn fodlon talu canran o’u cyflog. Y mae Llew yn ŵr balch ac iddo’i hunan-barch a cheisia ei orau i gynnal ei ysbryd er gwaethaf ei sefyllfa druenus, ond mae ei rôl fel y penteulu wedi ei disodli:

LLEW Ble ma tad yn ffitio miwn yn y byd ’ma ’te?¹⁷⁷

¹⁷⁶ Menna Baines, ‘Drama mewn llaw’, *Barn*, 618/619 (Gorffennaf/Awst 2014), 64.

¹⁷⁷ Eirian, *Garw*, t. 30.

Ni all beidio â rhamantu am y gorffennol pan oedd yn focsiwr heb ei ail ac yn ennill amryw gystadlaethau. Y mae'r disgrifiadau ohono'n ymladd ers talwm gan gael ei daro i'r llawr cyn codi'n ôl drachefn bob tro yn adlewyrchiad o'i sefyllfa bresennol.

Bum mlynedd yn ddiweddarach, erbyn 1991, y mae gan Brydain Brif Weinidog newydd, John Major, ond mae Llew yn parhau yn ddi-waith. Er ei fod yn dweud wrth Sara ei fod yn parhau i fynd i'r swyddfa waith yn ddyddiol, y mae hefyd yn galw yn y clwb llafur am beint bob prynhawn gan wario'u ceiniogau prin ar gwrw. Y mae gan Lowri gariad newydd erbyn hyn. 'Dyn ifanc modern iawn'¹⁷⁸ yw Jeremy sy'n dod o gefndir gweddol freintiedig a'i dad yn rheolwr gyda'r cwmni technegol Panasonic. Y mae hefyd yn chwarae rygbi i Abertawe ac yn hyfforddi i fod yn ddeintydd. Er ei fod yn gymeriad caredig iawn ac yn meddwl y byd o Lowri, nid yw Llew yn teimlo'n gyfforddus yn ei gwmni. Y mae ei bresenoldeb yn peri i Llew deimlo'n ddi-werth ac yntau wedi cael addysg dda a chanddo nifer o opsiynau. Teimla Llew'r angen i ddyrchafu ei hun gan gyfeirio at yr amodau gwaith hynod galed a pheryglus y bu'n rhaid iddo weithio ynddynt yn y pwll glo er mwyn cynnal ei deulu ac at ei ddawn arbennig fel bocsiwr pan oedd yn ifanc a'r cyhyrau a ddatblygodd o ganlyniad i hynny. Hola Llew Jeremy a oes yna waith ar gael yn y ffatri Panasonic ac, wedi iddo holi ei dad, dywed Jeremy fod gwaith ar gael yno. Ond gwaith ar gyfer merch ydyw. Y mae siomiant Llew yn amlwg wrth i Sara wirioni ar y cyfle ac edrycha ymlaen at fedru prynu'r tŷ wedi'r cwbl. Y mae wedi bod yn ddyhead gan Lowri erioed i agor ei chaffi ei hun, ac fe wireddir hynny pan ddatgana Jeremy eu bod yn mudo i ardal weddol foethus, Blackeney Point, a'i fod yntau wedi llwyddo i gael gwaith fel deintydd yn Wells-on-Sea. Ond mae gagendor anferth rhwng y bywyd hwn a bywyd Llew:

LOWRI	Ond nid 'na beth fydd y'n lle i obutu. Fydd y'n lle newydd i yn wahanol iawn i 'ny dad. Yn ...
LLEW	Beth?
LOWRI	<i>Upmarket ... Select ...</i>
LLEW	Swanc.
LOWRI	Swanc, ie, na fe ...
LLEW	Ar gyfer cwsmeried fel Doctor Leyton a'i wraig, rhieni Jeremy fan hyn
	...
LOWRI	Ie ...
LLEW	Bernard a Helen Rees, a cownsilors, a manejyrs banc ...
LOWRI	Ie ...

¹⁷⁸ Siôn Eirian, yn 'Sgwrs gyda Siôn Eirian a Betsan Llwyd ar raglen Nia Roberts', <<https://soundcloud.com/berwyn/sgwrs-gyda-Siôn-eirian-a-betsan-llwyd>>.

LLEW Ond ddim Llew Harries, na'i fêts o'r Clwb, a'i hen fytis o bwl
Mynydd Garw ...¹⁷⁹

Ceir cyffyrddiadau yn *Garw* sy'n ein hatgoffa o'r ddrama *A View From The Bridge* gan Arthur Miller a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Siôn Eirian ar gyfer Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn 2003, *Dros Bont Brooklyn*. Yn y ddrama honno, y mae teimladau Eddie tuag at ei nith, Catherine, y mae ef wedi ei magu fel ei ferch ei hun, yn rhai afiach o glòs. Pan ddechreua hi ganlyn â ffoadur, Rodolpho, teimla Eddie dan fygythiad a theimla Catherine yn llithro o'i afael. Ceir golygfa lle mae Eddie yn herio Rodolpho, mewn modd ymddangosiadol chwareus i ddechrau, i baffio ag ef yn ystafell fyw'r cartref. Ond gwyddom mai'r gwir reswm pam fod Eddie mor daer i baffio ag ef yw oherwydd ei fod yn credu mai dyna'r unig fantais sydd ganddo dros Rodolpho, bellach, ac felly y byddai'n fodd iddo'i danseilio. Ceir golygfa hynod debyg yn *Garw*, pan yw Llew yn herio Jeremy i baffio ag ef yng nghegin y cartref. Wedi dyfodiad Jeremy i fywyd ei ferch, teimla Llew yn ddi-werth a than fygythiad. Gŵyr yntau, fel Eddie, ei fod yn focsiwr llawer mwy profiadol na Jeremy. Er nad oes awgrym fod teimladau Llew tuag at Lowri yn rhai gwyrddroedig fel ag yn achos Eddie, efallai i'r olygfa hon o'r ddrama Americanaidd, lle mae'r cymeriadau fel anifeiliaid yn llythrennol ymladd am bŵer, statws, parch ac edmygedd gweddill y cymeriadau, gyfrannu rhywfaint tuag at gymeriadaeth *Garw*.

A hithau'n ddeng mlynedd ar hugain ers dechrau Streic y Glowyr, efallai yr ymddengys y ddrama *Garw* yn wahanol i weddill gweithiau Siôn Eirian, gan ei bod yn edrych yn ôl i'r gorffennol yn hytrach na bod elfen ohoni wedi ei gosod ym mhresennol cyfansoddi'r ddrama. Ond dywed Siôn Eirian fod i'r ddrama hon hefyd berthnasedd cyfoes:

Os nad wy'n teimlo fod gen' i rywbeth i'w ddweud am gyflwr cymdeithas neu dynoliaeth yn mha bynnag gyfnod, os yw e'n nôl mewn cyfnod yn y gorffennol mae'n rhaid fod e'n alegori am rywbeth ry'n ni'n gallu dysgu gwrs heddi ... Mae *Garw* yn ei gyfnod ond wrth gwrs beth mae'r cyfnod yna'n ddangos i ni wrth i ni edrych nôl a meddwl yw lle mae hadau y gymdeithas y'n ni ynddi heddi yn wleidyddol ac yn gymdeithasegol.¹⁸⁰

Dywed iddo'n fwriadol osod y ddrama flwyddyn wedi Streic y Glowyr ac i Llew, y prif gymeriad, beidio â chymryd rhan yn y streic, fel nad y streic a materion gwleidyddol oedd wrth galon y ddrama. Caniataodd hynny iddo cymryd golwg fwy adfyfyriol ar

¹⁷⁹ Eirian, *Garw*, t. 54.

¹⁸⁰ Cyfweiliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

ddigwyddiadau'r cyfnod hwnnw. Dywed nad oes dim newydd i'w ddweud am y streic ac y byddai canolbwyntio ar hynny wedi dyddio'r ddrama. Dyma arwydd o aeddfedrwydd y dramodydd a gellid tybio, pe byddai wedi ysgrifennu'r ddrama hon yn nes at ddechrau ei yrfa, y byddai wedi ei gosod yng nghanol bwrlwm gwleidyddol y streic gyda'r cymeriadau yn cymryd rhan weithredol yn y protestiadau:

Mae hi am y gymdeithas lofaol ond o'n i isie osgoi ei gwneud hi'n ddrama am y streic sy'n orgyfarwydd i ni erbyn hyn. Achos toeddwn i ddim isie iddi fod yn ddrama oedd yn delio 'da'r hen ystrydebau. Fel y'n ni'r Cymry, ni'n ffeindio arwyr a dihirod ym mhob sefyllfa – Thatcher ar un ochr a Macgregor ac wedyn y glowyr a'r undebwyr ar yr ochr arall. Toeddwn i ddim isio mynd i'r maes yna o gwbl. Ond mae yn ymhel â beth oedd effaith y streic ar y cymoedd diwydiannol yno.¹⁸¹

Ond er gwaethaf ymdrechion y dramodydd i ogwyddo oddi wrth drafodaeth uniongyrchol ar y streic, y mae Llew yn ddi-waith ac yn union yr un sefyllfa â phetai wedi bod yn rhan o'r streic ei hun. Cyfyd y cwestiwn, felly, pa mor wahanol fyddai'r ddrama mewn gwirionedd pe byddai'r streic wedi chwarae rhan fwy blaenllaw ym mywydau'r teulu. Ac er y dywed y dramodydd nad oes unrhyw beth newydd i'w ddweud am y streic, llwyddodd y ffilm *Pride* (2014) i arddangos gogwydd newydd ar y cyfnod a'r sefyllfa. A hithau ddeng mlynedd ar hugain ers dechrau Streic y Glowyr, amlyga'r ffilm y berthynas glòs a ddatblygodd rhwng trigolion ardal lofaol Onllwyn yn ne Cymru a charfan o ymgyrchwyr hoyw wrth iddynt gynnig cefnogaeth ymgyrchiol ac ariannol i'r streicwyr.

Canolbwynt *Garw* yw'r effaith gymdeithasol a ddaeth yn sgil y newidiadau gwleidyddol o gau'r pyllau glo, 'pwnc mwy cyffredinol na fu llawn cymaint o drafod arno mewn cyfrwng creadigol'.¹⁸² Y cymoedd ôl-ddiwydiannol a geir yma. Newidiwyd cydbwysedd o fewn cymdeithas wrth i rôl unigolion o fewn y teulu orfod newid. Yr oedd y gwŷr yn ofni colli eu hurddas wrth i'w gwragedd orfod mynd allan i weithio er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd gan nad oedd gwaith addas ar gyfer y dynion, hynny yw, y math o waith corfforol yr oeddent wedi arfer ag ef megis gwaith yn y gweithfeydd dur a glo, gwaith ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd neu waith adeiladu. Cyflëir y modd yr effeithiodd hynny ar aelwydydd ac, o ganlyniad, stori ddomestig a geir yma. Yn hynny o beth ymdebyga'r gwaith i ddramâu Meic Povey sy'n gosod y teulu a pherthynas unigolion o fewn y teulu yng nghanol y digwydd bob tro:

¹⁸¹ Siôn Eirian, yn 'Sgwrs gyda Siôn Eirian a Betsan Llwyd ar raglen Nia Roberts', <<https://soundcloud.com/berwyn/sgwrs-gyda-Siôn-eirian-a-betsan-llwyd>>.

¹⁸² Baines, 'Drama mewn llaw', *Barn*, 63.

Felly mae yna densiynau trwy'r aelwyd a thrwy'r ddrama sydd tu hwnt i beth oedd ar y llwyfan gwleidyddol ond mae e i gyd yn cael ei effeithio gan beth oedd yn digwydd i gymdeithas ar y pryd. Roedd e'n gyfnod o newid anferth i gymdeithas.¹⁸³

Teimlir i Siôn Eirian yn y ddrama hon, trwy ddangos effeithiau digwyddiadau gwleidyddol o bwys ar fywyd dyddiol teulu, yn hytrach na chanolbwyntio'n uniongyrchol ar wleidyddiaeth y sefyllfa, gyflwyno neges y gwaith mewn modd symlach, mwy dealladwy a llawer mwy perthnasol i gynulleidfa gyffredin. Trwy ganolbwyntio ar deulu, llwyddodd i ennyn mwy o gydymdeimlad y gynulleidfa a all uniaethu gyda sefyllfaedd domestig ond nid efallai gyda thrafodaethau gwleidyddol astrus. O ran ei chynnwys a'i strwythur, felly, gellid ystyried *Garw* fel drama fwyaf confensiynol Siôn Eirian, sy'n arddangos llawer o nodweddion y ddrama gegin draddodiadol: mae'r rhan helaeth o'r ddrama wedi ei lleoli o fewn pedair wal ystafell a'r stori yn cylchdroi o amgylch y teulu a gynhwysa'r tad, y fam a'r ferch a'i chariad sy'n rhoi cymorth i'r teulu. Gŵr y tŷ yw'r prif gymeriad ac y mae mewn sefyllfa o syrffed teuluol. Ceir sawl tro trwstan yn ystod y digwydd, wrth i'r prif gymeriad, wrth geisio adfer ei sefyllfa, fynd yn fwyfwy rhwystredig wrth i'w ymdrechion fynd yn ofer. Cyfunir hyn gyda stori garu yn cylchdroi o amgylch merch y prif gymeriad, a cheir diwedd glo taclus i'r ddrama.

Nid oedd cymaint o ofyn am waith llafur corfforol mwyach. Disodlwyd hynny gan waith mwy technolegol lle'r oedd angen hyfforddiant ac addysg ar ei gyfer, ac, ys dywed Lowri Cook yn ei hadolygiad o'r ddrama, '[a]nallu Llew i addasu i'r drefn newydd yw sylfaen ei drasiedi'.¹⁸⁴ Esgorwyd ar newidiadau cymdeithasol enfawr gyda mwy a mwy o ferched yn gweithio. Dywed y dramodydd mai 'cymdeithas ar groesffordd sy'n cael ei darlunio yn *Garw*':¹⁸⁵

SARA Bysedd bach. Bysedd bishi. Bysedd menyw chi'n gweld. 'Na'r dyfodol.¹⁸⁶

¹⁸³ Siôn Eirian, yn 'Sgwrs gyda Siôn Eirian a Betsan Llwyd ar raglen Nia Roberts', <<https://soundcloud.com/berwyn/sgwrs-gyda-Siôn-eirian-a-betsan-llwyd>>.

¹⁸⁴ Lowri Haf Cooke, 'Adolygiad Theatr: *Garw* (Theatr Bara Caws)', <<http://lowrihafcooke.wordpress.com/2014/10/08/adolygiad-theatr-garw-theatr-bara-caws/>>. Ymwelwyd â'r wefan 9 Hydref 2014.

¹⁸⁵ Baines, 'Drama mewn llaw', *Barn*, 63.

¹⁸⁶ Eirian, *Garw*, t. 1.

Yn wir, mae dwylo, a welir hefyd ar boster y cynhyrchiad, yn symbol o fewn y ddrama o'r newid hwn a fu yn gymdeithasol o fewn byd gwaith a'r gwahaniaeth rhwng dwylo geirwon a chryfion Llew a dwylo bychain, prysur Sara a rhai llyfn, meddal Jeremy:

SARA: ... Llaw lân ond gryf 'da fe. Rhaid i ddentist ga'l bysedd delicet. Mond gobeitho neith yr holl whare rygbi a'r ymarfer ddim newid 'ny. Winedd glân ... dynion ifenc heddi yn gofalu am bethe felna. Rywffordd dyw Llew byth felse fe wedi ca'l olion dwetha yr holl flynyddo'dd lawr twneli drifft Mynydd Garw ma's o dan 'i winedd.¹⁸⁷

Tynnir sylw at y newid cymdeithasol hwn a fu yn llyfr yr hanesydd asgell chwith, Eric Hobsbawm, *The Age of Extremes – 1914-1991* (1994), y bu Siôn Eirian yn ei ddarllen fel rhan o'i ymchwil i'r ddrama. Cyfeiria Eric Hobsbawm at y newid cymdeithasol hwn fel 'tip-over point'.¹⁸⁸ O ganlyniad i gau'r pyllau glo, daeth y newid cymdeithasol ynghynt yng Nghymru. Yn ei adolygiad o *Garw*, dywed Dafydd Llewelyn yr ystyrir Margaret Thatcher fel 'arch-elyn y cymunedau glofaol, yr un aeth ati'n gwbl ddi-drugaredd a di-gyfaddawd i gau'r pyllau glo'.¹⁸⁹ Ond awgryma Siôn Eirian y byddai'r newid cymdeithasol a ddaeth yn sgil cau'r pyllau glo wedi digwydd yng Nghymru beth bynnag yn hwyr neu'n hwyrach, fel y gwnaeth yng ngweddill gwledydd y gorllewin:

Rwy mor *fed-up* â'r ffordd mae y theatr Gymraeg yn gor-symyleiddio dadansoddiad peth, fel Thatcheriaeth oedd y peth drwg, oedd y bwgan, yn y 80au, bron fel 'sen ni'n ddigon diog i ddweud 'tae e ddim am Thatcheriaeth bydde Cymru wedi aros yn burach a bydde pawb mewn gwaith a 'sen ni ddim wedi etifeddu cymdeithas sydd wedi mynd ar chwâl – mi feiwn ni Thatcheriaeth a galw gwerthoedd Thatcheriaid y peth anghywir. Ond sumptom o rywbeth arall oedd Thatcheriaeth ei hunan.¹⁹⁰

Cynrychiolir y newid cymdeithasol hwn yn y ddrama gan gymeriad Jeremy, sy'n dod o gefndir mwy breintiedig na theulu Llew ac mae'n chwarae rhan allweddol yn y newid a ddigwydd o fewn cydbwysedd y teulu.

JERRY Ma gyda fi newydd itha sbesial. Fues i'n meddwl lot, ar ôl y'n sgwrs ni rai wthnose nôl.

¹⁸⁷ Eirian, *Garw*, t. 42.

¹⁸⁸ Baines, 'Drama mewn llaw', *Barn*, 64. Cyfeirir at hyn hefyd yn Siôn Eirian, 'Siôn Eirian yn trafod ei ddrama, *Garw*', <<http://theatrbaracaws.zenfolio.com/p689257122/h93439e5#h93439e5>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

¹⁸⁹ Llewelyn, 'Torri'r glo mân yn glapia ...', <<http://dafyddllewelyn.wordpress.com/2014/10/02/torrir-glo-man-yn-glapia/>>.

¹⁹⁰ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

SARA Ni wedi ca’l lot o sgwrsie.
 JERRY Am y nhad. Yn rheolwr personel yn ffatri Panasonic ... Fel wedes i o’r bla’n, mae e mewn lle handi, o ran gwbod pwy waith sy ar ga’l lan ’na. A’n gallu dylanwadu pan fydd angen.
 LLEW Paid gweud bod e wedi ffindio rwbeth ...
 JERRY Ffonodd e fi bore ma. Gyda’r newyddion da. Ma job yn mynd, fel *circuit tester*.
 LLEW A beth yn gwmws yw ’ny ’te...
 LOWRI Dad...
 JERRY Cyn i’r *sets* a’r *remotes* ga’l u paco, testo bod y panel *infra-red* yn gwithio ar bob *set* ... a’r *settings* i gyd yn gywir...
 LLEW Swno’n rhy rwydd ...
 LOWRI *Yn daer*
 Ond dad ...
 LLEW *Yn chwerthin*
 Ishte ar y nhin trw’r dydd yn whare ’da *remote control*. A ma dyn yn ca’l i dalu am neud ’na?
 LOWRI Na, ddim dyn.
 JERRY Dwy fenyw sy’n neud y gwaith. A ma un ohonyn nhw’n gadel mis nesa.
Ennyd
 Job i Sara yw e.
 SARA *Mewn sioc*
 Na! Fi?
 LOWRI Ie, ti mam.¹⁹¹

Y mae’r drysau, bellach, wedi’u cau ar aelodau gwrywaidd cenhedlaeth Llew a’r math o waith a gynrychiolir ganddynt. Ond mae’r drysau’n agor led y pen o flaen y genhedlaeth iau gyda holl bosibiliadau’r byd newydd o’u blaenau:

LLEW Mae’n neis i’r ddoi o chi bo gymint o ddewis ’da chi. Chi’n lwcus.¹⁹²

Er bod sefyllfa’r teulu yn un anodd o ganlyniad i gau’r pwll glo lleol, nid yw Siôn Eirian yn rhamantu o gwbl yn y ddrama am y diwydiant:

Mae ’na lot i’w ddweud bod amgylchiadau gwaith fel ’na ddim yn bod yn Ne Cymru bellach ac mae beth ddigwyddodd yng Nglofa’r Gleision wedi profi hynny. Tydyn nhw ddim yn ddiogel .. felly mi roedd ’na berygl i ni or-iro’r glowyr a’r diwydiant i gyd felly ac mae’r ddrama ’ma’n trio dangos realiti gwahanol iawn oedd ym mywydau’r bobl yma.¹⁹³

¹⁹¹ Eirian, *Garw*, tt. 55-7.

¹⁹² Eirian, *Garw*, t. 41.

¹⁹³ Siôn Eirian, yn ‘Sgwrs gyda Siôn Eirian a Betsan Llwyd ar raglen Nia Roberts’, <<https://soundcloud.com/berwyn/sgwrs-gyda-Siôn-eirian-a-betsan-llwyd>>.

Ategir hyn yng ngeiriau Llew wrth iddo gyfeirio at yr amodau gwaith yn y pwll:

LLEW Dy'n nhw ddim i gyd fel y pwlle mowr ti'n gweld yn y *clips* ar y teledu. Coliys yn cerdded yn rhesi trw rhyw barlwr o ogof, y lle'n ole da'u lampe nhw, a nhw'n rhannu jôc wrth fynd at 'u gwaith. Ma pwlle bach, pwlle cyntefig ar hyd y llethre 'ma fyd. Pwll drifft yn ddim byd ond twnel cyfyng ... rhyw ganllath miwn a ti ishws yn dy gwman ... erbyn y diwedd ti ar dy benlinie a prin lle i droi rownd. Mewn dwst a dŵr a'r graig bob ochor i ti yn sgathru'r cro'n, yn pwno'r briche a ysgwydde ... Fel cwtsh dan sta'r o dywyll ynghanol baw a dwst sy'n rhedeg i dy lyged di gyda'r whys, sy'n trochi pob modfedd o dy gro'n di. Props y welydd yn gwasgu'n agosach wrth i'r gwres a'r lleithder sugno dy egni di ... ti'n teimlo felset ti wedi dy gladdu'n fyw, a'r cwbl sy o dy fla'n di, trw'r dydd, bob dydd, yw'r wal ddu 'na, y wythien lo ... a ti'n gwbod gyda un ffrwydrad ne un cwmpad o'r graig mai marw nei di wedi dy wasgu'n erbyn honno, mewn bedd rhy ddwfw'n i neb ffindio a neb yn gallu rhoi marc i ddangos ble ma dy esgryn di'n gorwedd. Lawr fynna wy wedi byw a gwitho i roi bywyd teidi i Sara a Loli.¹⁹⁴

Y mae'r darlun hagr hwn a geir o waith y glowyr yn ein hatgoffa o'r ddrama dair act, *Cwm Glo* (1934) gan J. Kitchener Davies a ddaeth â'r dramodydd i amlygrwydd yn Eisteddfod Genedlaethol Castell Nedd, 1934. Fe'i hystyriwyd yn ddrama ddadleuol yn ei chyfnod gan iddi amlygu'r effeithiau cymdeithasol caled a ddaeth yn sgil y dirwasgiad yn hytrach na chreu darlun rhamantaidd, ystrydebol o fywyd y gweithiwr a oedd mor gyffredin o fewn llenyddiaeth Gymraeg hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Oherwydd hynny, nodwyd gan y beirniad fod y ddrama yn anaddas i'w pherfformio ac ataliwyd y wobr

Dywedodd Betsan Llwyd, cyfarwyddwraig *Garw*: 'Os ydi rhywun yn dilyn ei waith o [Siôn Eirian] fel dramodydd mae rhywun yn gallu gweld hefyd cymaint mae o'i hun wedi symud yn ei flaen ac wedi datblygu.'¹⁹⁵ Mae ganddo bellach yr aeddfedrwydd i ymdrin â thestunau mewn modd sensitif a chynnil gan ganolbwyntio ar y cymeriadau a'u sefyllfaedd yn hytrach na cheisio gwthio'i safbwyntiau ei hun yn ormodol ar y gynulleidfa trwy gyfrwng y cymeriadau. Fodd bynnag, er i Siôn Eirian ddweud iddo'n fwriadol osgoi canolbwyntio'n uniongyrchol ar themâu gwleidyddol yn ei ddramâu diweddaraf, efallai fod y profiad o ysgrifennu *Garw*, a chyffwrdd â maes gwleidyddol cythryblus, wedi ailgynnau'r fflam a losgai mor llachar yn ystod ei ieuenctid. Ymhen dwy flynedd, wedi etholiad y Cynulliad, y

¹⁹⁴ Eirian, *Garw*, tt. 66-7.

¹⁹⁵ Betsan Llwyd, yn 'Sgwrs gyda Siôn Eirian a Betsan Llwyd ar raglen Nia Roberts', <<https://soundcloud.com/berwyn/sgwrs-gyda-Siôn-eirian-a-betsan-llwyd>>.

mae'n fwriad ganddo ysgrifennu drama wleidyddol fwy uniongyrchol yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd yn y Cynulliad a phosibiliadau'r sefydliad:

Mae'n loes calon i fi bo ni wedi cael annibynniaeth rannol a bo ni'n gneud dim byd mwy dychmygus nawr nag o'n ni cyn 1997 pan gawsom ni ddatganoli.¹⁹⁶

Er y datblygiad a fu yn waith, y mae'n amlwg yn parhau i fod yn ddramodydd ymgyrchol sy'n mynd i'r afael â gwahanol faterion llosg boed y rheiny yn faterion llosg cymdeithasol neu wleidyddol.

¹⁹⁶ Cyfweiliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

3. Y Theatr Fel Cyfrwng

We turn to theatre all the time because
there's an artistic purity there, a cleansing of the soul¹⁹⁷

Ac yntau wedi troi ei law at nifer o wahanol gyfryngau llenyddol, canolbwyntio ar ei waith fel dramodydd ar gyfer y llwyfan a'r teledu yn hytrach nag fel awdur nofelau neu fardd a wnaeth Siôn Eirian, gan y gwyddai mai '[d]yma'r unig gyfryngau a all gynnal sgrifennwr amser llawn yng Nghymru'.¹⁹⁸ Ac, er y dywed y dramodydd fod manylder yr ysgrifennu a chyfyngiadau amser ysgrifennu ar gyfer y teledu yn gallu bod yn orthrymus ar brydiau, gweithiau ar gyfer y sgrin, yn hytrach nag ar gyfer y llwyfan, yw'r swmp helaethaf o'i gyfansoddiadau. Y mae wedi ysgrifennu'n helaeth ar gyfer S4C, sy'n eironig ar ryw olwg o ystyried mai ei fam, Jennie Eirian, oedd un o'r rhai a wrthwynebodd yn gyhoeddus grynhoi'r holl ddarpariaeth Gymraeg ar un sianel¹⁹⁹ a hefyd o ystyried beirniadaeth gynnar Siôn Eirian ar gynnwys rhaglenni'r sianel. Ond tynna'r dramodydd sylw bwriadol at yr eironi hwn yn *Elvis*, y *Blew a Fi*, gan anelu'r ergyd ato'i hun yn fwy nag at neb arall. Efallai ei bod yn haws ac yn ddiogelach mynegi safbwynt trwy gyfrwng cymeriad dychmygol:

- DAFYDD: ... Mi fuon nhw'n glyfar iawn drw ddefnyddio pres a'r cyfrynga poblogaidd i neud diwylliant a dadleuon yr ieuencid radical yn rhan o ddiwylliant y llwyth ... Ac mi gafodd miloedd o'r chwyldroadwyr ifanc jobsus yn y meysydd newydd ma. Sôn am BOOM Town Rats. Fi a chdi, da ni ynghanol y boom town yn fama.
- GWYDION: O'n i'n ama basat ti'n dechre ymosod ar y sianel. Troi a brathu'r llaw sy'n dy fwydo di rwan.
- DAFYDD: Nid sôn am honno'n benodol oeddwn i. Sôn am rai o'r bobl sy bellach yn rhan ohoni ella.²⁰⁰

Yn wir, Siôn Eirian, o'r tri dramodydd a drafodir yn y traethawd hwn, sydd wedi ysgrifennu'r nifer lleiaf o ddramâu llwyfan Cymraeg. Ond adlewyrchiad ydyw ef o sefyllfa dramodwyr Cymraeg yn gyffredinol yng Nghymru, gyda chanran lawer helaethach o sgrïptwyr proffesiynol yn gweithio ym maes teledu nag ym maes y theatr. Gellir priodoli hynny i'r ffaith mai ychydig iawn o dâl a delir i ddramodwyr llwyfan o gymharu â thâl

¹⁹⁷ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 68.

¹⁹⁸ Siôn Eirian, yn 'Rhoi Siôn dan goron ein Gŵyl', *Barddas*, 2.

¹⁹⁹ Dienw, 'Ffeithiol: Jennie', <http://www.s4c.co.uk/ffeithiol/c_jennie.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 19 Tachwedd 2014.

²⁰⁰ Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi*, tt. 91-2.

sgriptwyr teledu a bod y gwaith o ysgrifennu ar gyfer y sgrin, yn nhyb Siôn Eirian, yn waith ‘haws’.²⁰¹ Dywed, wedi i sgriptiwr ymglyfarwyddo â strwythur pennod o gyfres deledu neu ffilm, gellid cyplysu’r ffurf honno ar gyfer pob pennod neu bob ffilm yn y dyfodol. Y mae’r broses o ysgrifennu ar gyfer y llwyfan yn un llawer hwy:

Mae dyn yn tueddu i sgrifennu pethau bara menyn fwy i’r teledu – penodau o gyfresi neu benodau o *Bobol y Cwm* ... Dyw dyn ddim yn rhoi’r un *imput* artistig ag mae e’n gallu mewn, dywedwch, drama dair awr ar lwyfan, wrth gwrs.²⁰²

Dywed y dylai dramodydd gael digonedd o amser wrth gyfansoddi drama lwyfan er mwyn rhoi cyfle i’r gwaith ddatblygu a rhoi cyfle i’r awdur ‘ail-feddwl yn ei hamdden’.²⁰³

Wrth drafod y broses o gyfansoddi’r ddrama *Garw*, dywed Siôn Eirian ei fod wedi mwynhau’r profiad yn fawr, ac yntau heb ysgrifennu drama lwyfan Gymraeg ers wyth mlynedd. Un o’r rhesymau iddo fwynhau’r profiad gymaint oedd oherwydd bod ysgrifennu ar gyfer y llwyfan, a’r radio hefyd, yn caniatáu llawer mwy o ryddid i awdur a rheolaeth dros ei lais ei hun. Yn wir, fel Aled Jones Williams, y mae ysgrifennu ar gyfer y radio fel cyfrwng, yn ogystal â’r theatr, yn apelio ato ac mae wedi bod yn gynhyrchiol iawn yn hynny o beth, a throswyd ei nofel, *Bob yn y Ddinas*, hefyd ar gyfer y radio. Fodd bynnag, un agwedd hanfodol o lwyfannu drama lwyfan nad yw’n perthyn i’r broses o recordio drama radio yw’r cyfnod ymarfer. Dywed Siôn Eirian y byddai’n hoffi treulio amser yn ystod y cyfnod hwnnw gyda’r actorion a’r cyfarwyddwr er mwyn trafod gwahanol agweddau o’r ddrama gyda hwy a chred y dylai hynny fod yn rhan o rôl pobl dramodydd:

Dylid rhoi cyfle i’r dramodwyr hir-ymarhous fod yn rhan ganolog o’r broses o roi dramâu newydd ar lwyfan.²⁰⁴

Mewn cyfweliad gyda Nia Roberts ar Radio Cymru, dywedodd Siôn Eirian: ‘Mewn teledu a ffilm mae ’na gymaint o fewnbwn, sy’n air teledyddol iawn, oddi wrth olygyddion a chynhyrchwyr. Dwi’n aml iawn yn ffeindio bod eich drama chi yn troi yn rhywbeth gwahanol.’²⁰⁵ Y mae rôl yr awdur unigol yn lleihau wrth ysgrifennu ar gyfer y sgrin ac yn

²⁰¹ Siôn Eirian, ‘Chwilio Llwyfan’, *Barn*, 389 (Mehefin 1995), 34.

²⁰² Siôn Eirian, yn ‘Beti a’i Phobol’, *BBC Radio Cymru* (Mehefin 1991).

²⁰³ Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

²⁰⁴ Eirian, ‘Chwilio Llwyfan’, *Barn*, 389, 35.

²⁰⁵ Siôn Eirian, yn ‘Sgwrs gyda Siôn Eirian a Betsan Llwyd ar raglen Nia Roberts’, <<https://soundcloud.com/berwyn/sgwrs-gyda-Siôn-eirian-a-betsan-llwyd>>.

cael ei danseilio i ryw raddau gan y tîm cynhyrchu. Cyfeirir at y mater hwn yn y ddrama *Elvis, Y Blew a Fi*:

GWYDION: Tyrd ta. Dwi'n mynd i weithio'r shots allan ar gyfer yr olygfa newydd – efo dy help di. Wyt ti a fi'n mynd i helpu rhoi mymryn o gic yn niwedd campwaith y dramodydd ma. Mae o wrth i fodd efo'r syniad, twyt twts.

GWYDION A RHIAN YN MYND ALLAN. MAE DAFYDD ERBYN HYN YN FFYRNIG.

DAFYDD: Campwaith i ddiawl ... Twyll ... Brad ... Lle ma Paris. Lle ma Paris. Lle ma Paris. Lle ma'n sgript i?

WRTH SIARAD MAE'N DECHRAU RHWYGO'R FFILM ODDI AR SPWL Y PROJECTOR AC YN TYNNU LLATHENNI OHONO ALLAN A'I LAPIO'N WYLLT ROWND EI BEN A'I SGWYDDAU A'I FREICHIAU.²⁰⁶

Teimla Siôn Eirian fod dramodydd yn fwy rhydd i gyflwyno ei neges wrth gyfansoddi ar gyfer y llwyfan. Dywed hyn, nid yn unig oherwydd yr elfen olygyddol gref a berthyn i ysgrifennu ar gyfer y sgrin, ond oherwydd y rhan ganolog y chwaraea'r gynulleidfa mewn perfformiad theatr:

Yn y theatr mae 'da chi gynulleidfa gaeth. Maen' nhw wedi dod yno am eu bod nhw'n **dewis** gweld drama ry'ch chi wedi'i hysgrifennu ...maen' nhw'n mynd i eistedd yno am hyd y ddrama. Felly ry'ch chi ddim yn goffod brwydro gyda phob eiliad ar y llwyfan i gadw diddordeb yn wahanol i deledu ... Ac mae rhwydd hynt i rywun drafod yr hyn fyn e achos mae cynulleidfa theatr yn gynulleidfa fwy aeddfed yn ogystal â bod yn gynulleidfa fwy o'i gwirfodd.²⁰⁷

Dywed pan fo drama lwyfan yn llwyddo, fod y wefr yn llawer mwy nag ydyw pan fo gwaith teledu yn llwyddo ac mae o'r farn bod nifer o sgriptwyr teledu Cymraeg eraill, megis Meic Povey, Gareth Miles a Geraint Lewis, hefyd yn dychwelyd at y llwyfan dro ar ôl tro am yr un rheswm:

We turn to theatre all the time because there's an artistic purity there, a cleansing of the soul, a use of drama as a direct form ... it is simply to test yourself against yourself.²⁰⁸

Cred fod y teledu, oherwydd ei strwythur fformwleig, yn gyfrwng arwynebol iawn o ran ei greadigrwydd ond bod y theatr yn parhau'n amrwd ac yn arw. Dywedodd ei fod yn gyfrwng a

²⁰⁶ Eirian, *Elvis, Y Blew a Fi*, tt. 95-6.

²⁰⁷ Siôn Eirian, yn 'Beti a'i Phobol', *BBC Radio Cymru* (Mehfin 1991).

²⁰⁸ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 68.

oedd yn caniatáu iddo fynegi ‘[rh]yw angst neu ryw angerdd mewnol’²⁰⁹ mewn llawer mwy o ddyfnder:

Rwy’n meddwl mai’r ffaith fy mod i wedi troi fwyfwy at ddrama sy’n golygu fod y deunydd a fyddai’n mynd i mewn i gerddi yn cael ei roi mewn rhyw le llawer helaethach mewn dramâu.²¹⁰

Hawdd, felly, yw dod i’r casgliad mai’r llwyfan yw ‘[c]ariad mawr’²¹¹ Siôn Eirian. Cyfyd hyn y cwestiwn, beth felly sy’n gyfrifol am y ffaith nad yw wedi bod yn gynhyrchiol iawn o ran cyfansoddi ar gyfer y cyfrwng hwnnw.

Cred Siôn Eirian mai ysgrifennu ar gyfer y llwyfan yw’r ddisgyblaeth anoddaf o bob un:

I fi, sgrifennu ar gyfer y llwyfan yw’r ddisgyblaeth anoddaf o bob un. O bell ffordd ... Mae cael siap da ar ddrama llwyfan [*sic*] yn jobyn enbyd o anodd i fi ac fe alla i restru (ond wna i ddim enwi) mwy o fethiannau llwyfan i ngwaith nag o lwyddiannau.²¹²

Dywed fod ysgrifennu ar gyfer y llwyfan yn feistrolaeth anos ac yn mynd yn anos bob tro oherwydd fod cynifer o wahanol arddulliau theatrig posibl a’r ffaith nad oes canllawiau o ran ffurf: ‘Ar ôl deg [*sic*] mlynedd ar hugain o fasocitiaeth [*sic*] fe ddylwn i wybod yn well.’²¹³ Ond, wedi dweud hyn, dywed mai dyna’n union a’i dena at ysgrifennu ar gyfer y llwyfan, sef ‘[rh]yddid y broses breifat, greadigol, a’r gobraith bregus y galla i gael y ffurf a’r arddull i daro deuddeg y tro nesa’.²¹⁴ Wrth gyfansoddi, ceisia fabwysiadu ei arddull theatrig ei hun ac, erbyn hyn, cred ei fod yn weddol sicr o sut i ddweud stori ar lwyfan. Ond mewn cyfweliad â Menna Baines ym 1994, dywedodd y dramodydd nad oedd, yr adeg honno, yn nes at ganfod ei arddull theatrig ei hun ag ydoedd ddeng mlynedd ynghynt: ‘Mae theatr fel crafu i fi – dwi erioed wedi llwyddo i dorri trwodd at arddull rwy’n gyfforddus ynddi.’²¹⁵ Atega hyn mewn cyfweliad arall gyda Hazel Walford Davies, flwyddyn yn ddiweddarach:

The reason I fear the theatre more than any other medium – not that I approach any drama commission with sweaty palms and sleepless nights; it’s not that kind of

²⁰⁹ Siôn Eirian, yn Williams, ‘Tad Elvis a Bowen a Bob’, *Barn*, 14.

²¹⁰ Siôn Eirian, yn Williams, ‘Tad Elvis a Bowen a Bob’, *Barn*, 14.

²¹¹ Cyfaill i Siôn Eirian, yn ‘Nabod’, *BBC Radio Cymru* (2 Medi 1988).

²¹² Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

²¹³ Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

²¹⁴ Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

²¹⁵ Siôn Eirian, yn Baines, ‘Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian’, *Barn*, 28.

nightmare – is that, compared to film or TV and radio, I haven't quite got my anchor down in the style of the theatre. In some ways, it's hit or miss for me. I'm concerned enough to appreciate that, when it comes to film script or television script, it eases my way, I know what they want and feel I can deliver. When I get a theatre commission, it's 'Oh, hell, here we go again!' and 'Where the hell are we going?' It's frightening on that helter-skelter, on that big-dipper. With the best will in the world, you see the play in your head, but on stage what is it going to be like?²¹⁶

Dyweddod hefyd nad oedd yng Nghymru nac yn y Gymraeg yn y cyfnod hwnnw'r un awdur a feddai ar arddull theatrig a oedd yn gweithio nac yn gwthio'r cyfrwng yn ei flaen. Credai mai'r dramodydd a ddeuai 'agosaf at fod yn feistr ar ei grefft'²¹⁷ yn y cyfnod dan sylw oedd Meic Povey, ond ei fod yntau wedi creu arddull theatrig deledyddol iawn a ddeilliai o'r ffaith ei fod yn sgriptiwr teledu hynod gynhyrchiol.

Yn wir, er rhagoriaethau ac apêl cyfansoddi ar gyfer y llwyfan, dywed fod y profiad o wyllo ei waith yng nghanol cynulleidfa yn artaith iddo a byddai'n colli cwsng yn poeni y byddai'r gwaith yn fethiant. Awgrymir, felly, ei fod yn ansicr iawn ohono'i hun fel dramodydd. Efallai fod cyfieithu ac addasu gweithiau llenorion eraill yn lleihau rhywfaint o'r pwysau sydd ar ddramodydd:

os y'ch chi'n methu gyda drama [lwyfan] mae e'n brofiad *embarrassing* fel sydd wedi digwydd i fi fwy nag unwaith.²¹⁸

Mewn cyfweliad â Hazel Walford Davies yn y *New Welsh Review* ym 1995, cyfeiria Siôn Eirian at y profiad a gafodd o wyllo un o'i addasiadau ar gyfer cwmni Sherman, sef addasiad Cymreig o nofel Bram Stoker, *Dracula*, ym 1991. Oherwydd diffyg arian yn bennaf, ni lwyddwyd i wireddu'r elfennau technegol hanfodol o fewn y ddrama, ac o'r herwydd nid oedd y cynhyrchiad, o'i farn ef, yn llwyddiant. Fodd bynnag, dywed na wnaeth y profiad hwnnw godi ofn arno fel ag y gwnaeth y profiad o wyllo ei ddrama, *Elvis y Blew a Fi*. Siomiant fu'r ddrama honno hefyd i'r awdur ond dywed mai'r hyn a godai ofn arno fel dramodydd oedd y ffaith na wyddai ar y pryd pam na lwyddodd y ddrama:

Where theatre would scare me involves a different example. I'm thinking of a Welsh-language play I wrote, called *Elvis, y Blew a Fi*, written for the Newport National Eisteddfod. That didn't work out at all, and I didn't know why. At least with *Dracula*

²¹⁶ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 67.

²¹⁷ Siôn Eirian, yn Baines, 'Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian', *Barn*, 28.

²¹⁸ Siôn Eirian, yn 'Beti a'i Phobol', *BBC Radio Cymru* (Mehefin 1991).

I knew ... To write something, with you yourself not knowing why it's a failure, is just traumatic.²¹⁹

Fodd bynnag, wrth edrych yn ôl, gŵyr beth oedd y rheswm pam i'r ddrama, yn ei dyb ef, fethu. Y ffaith ei bod yn gref yn theatrig a oedd yn rhannol gyfrifol am lwyddiant *Wastad ar y Tu Fas*. Wrth gyfnasoddi *Elvis, Y Blew a Fi*, ceisiodd Siôn Eirian efelychu strwythur y ddrama flaenorol trwy gydredeg straeon o wahanol gyfnodau, strwythur y mae wedi ei ddefnyddio mewn amryw o'i ddramâu:

Dwi wastad wedi gweithio ar rywbeth deuol achos, fel arfer, yn hytrach na chyfnodau neu leoliad, yn aml iawn beth sy'n fy mhen i yw bo fi'n trio asio dau beth at ei gilydd i wneud synnwyr o rywbeth.²²⁰

Ond wrth gyfansoddi *Elvis, y Blew a Fi*, ac er mai Gruff Jones oedd cyfarwyddwr y ddrama hon fel ag yn achos *Wastad ar y Tu Fas*, teimlodd Siôn Eirian iddo 'lithro rhwng dau gyfrwng'.²²¹ Er ei fod yn ymwybodol ers yn gynnar iawn yn ei yrfa fod gwahaniaethau pendant rhwng gofynion ysgrifennu ar gyfer y teledu ac ysgrifennu ar gyfer y llwyfan a'i bod yn bwysig medru 'meistroli disgyblaethau'r ddau gyfrwng',²²² gadawodd i'w waith fel sgriptiwr teledu ddyllanwadu'n ormodol ar ei arddull gan beri i'w ddrama fod yn wan iawn yn theatrig. Parodd y neidio'n ôl a blaen rhwng cyfnodau, y tro hwn, i'r ddrama fod yn bytiog iawn, gan ymdebygu fwyfwy i strwythur teledyddol yn hytrach nag un theatrig:

A collage of impressions lacking a satisfactory dramatic backbone, and not aided by a convoluted time structure²²³

Wrth ysgrifennu'r ddrama, roedd yn chwilio am saethiadau camera i arddangos cymeriadau wrth iddynt fynd oddi ar y llwyfan:

Ro'n i wedi dod yn fwyfwy i sgrifennu ffilmiau a dramâu teledu, ac roeddwn i'n mynnu glynu at y fformat – os oedd golygfa'n ymestyn mwy na pedair neu bum munud, roeddwn i'n disgwyl iddi fynd yn anniddorol i'r gwylwr ... ry'ch chi wedyn yn llithro i mewn i'r drefn o drïo cwtogi golygfeydd. Mi es i ar goll rhwng dau gyfrwng yn *Elvis, y Blew a Fi*.²²⁴

²¹⁹ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 67.

²²⁰ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

²²¹ Siôn Eirian, yn Baines, 'Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian', *Barn*, 28.

²²² Siôn Eirian, yn 'Rhoi Siôn dan Goron ein Gŵyl', *Barddas*, 2.

²²³ Ros, 'New writing on the Welsh-language mainstage 1979-1995', yn Anna-Marie Taylor (ed.), *Staging Wales*, t. 21.

²²⁴ Siôn Eirian, yn Baines, 'Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian', *Barn*, 28.

Ac yn wir, mae'r ddrama yn eithaf pytiog o ganlyniad i'r neidio'n ôl a blaen rhwng golygfeydd a'r holl leoliadau amrywiol sydd ynddi. Ceir hefyd nifer o olygfeydd torfol, megis protestiadau ar strydoedd Llundain a Pharis, a fyddai'n rhwydd i'w cyfleu ar sgrin ond yn creu her i gyfarwyddwr llwyfan gyda chast o saith yn unig.

Wrth gyfansoddi drama lwyfan, rhaid sicrhau fod y gwaith yn theatrig, hynny yw, mai gwaith i'w berfformio'n fyw ydyw yn hytrach na'i fod yn bodoli ar sgrin neu mewn print yn unig. Golyga hyn fod gan yr elfennau 'byw' hynny mewn perfformiad sy'n chwarae ar ein gwahanol synhwyrâu – megis y set, yr effeithiau technegol, sain a goleuo, perfformiad yr actorion a'u gweithredoedd ar y llwyfan a'r gair llafar – ran ganolog ac annatod yn y cyfanwaith. Faint o bwys, felly, a rydd y llenor ar yr elfennau theatrig o fewn ei ddramâu lwyfan?

Dywed Siôn Eirian ei fod yn rhoi pwys aruthrol ar yr elfen theatrig a berthyn i'w ddramâu a dychwel at y clasuron Groegaidd a gweithiau Shakespeare yn aml gan ei fod yn hoff o'r confensiynau theatrig a berthyn iddynt. Gan gofio bod rhai o'i ddramâu wedi eu cyfansoddi'n wreiddiol ar gyfer y radio a'u bod hefyd yn cynnwys nifer helaeth o leoliadau, yn neidio'n ôl a blaen yn gronolegol ac yn cydreded straeon, nid dramâu i'w llwyfannu mewn arddull naturiolaid yw dramâu Siôn Eirian. Ni fyddai modd cyfleu'r cynifer o wahanol leoliadau sydd o fewn ei weithiau trwy ddefnyddio set naturiolaid sydd fwyaf addas ar gyfer llwyfan prosiwm. Dramâu ydynt sy'n gofyn am lwyfaniadau haniaethol, syml, moel a symbolaidd. Llwyfannwyd *Paradwys Waed*, er enghraifft, ar lwyfan bron yn gylch, megis talwrn ymladd teirw oherwydd bod rhannau o'r ddrama wedi ei gosod yng Nghatalonia a Maiorca. Dim ond hanner cant o bobl a allai wylïo'r ddrama ar un waith, ac o ganlyniad, roedd perthynas agos rhwng yr actorion a'r gynulleidfa. Yr un modd, pan lwyfannwyd *Garw* gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn 2014, hanner cant oedd yn y gynulleidfa bryd hynny hefyd gyda set foel a gynhwysai lethrau cysylltiol yn arwain i wahanol gyfeiriadau a gynrychiolai Mynydd Garw. Yn gefndir i hyn roedd gwythïen lo, yn gysgod dros yr holl ddigwydd:

Mae set sy'n symbolaidd neu'n syml wastad yn gwasanaethu'r ddrama'n well os ti'n sgwennu drama foel, fewnol, fel dwi'n tueddu i'w wneud ... yn y geirïe mae'r ddrama ... po fwyaf sy'n digwydd po leiaf ti isio ar lwyfan.²²⁵

²²⁵ Cyfweiliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

Wrth gadw'r llwyfaniadau o'r dramâu yn rhai gweddol syml a symbolaidd, y maent o'r herwydd yn fwy dibynnol ar yr elfen dechnegol, a'r mwyaf a ddigwydd o fewn drama y mwyaf technegol yw'r ddrama honno. Dywed Sian Summers am y llwyfaniad o *Elvis, Y Blew a Fi* ei bod yn 'uchelgeisiol yn weledol ... roedd hi'n abstract o ran siâp. PVC gwyn oedd o – y set i gyd, a be' roeddet ti'n gallu ei wneud oedd projectio ar y set'.²²⁶ Ar gyfer drama sy'n ymwneud â'r broses o saethu ffilm yn ogystal â gwleidyddiaeth y diwydiant teledu yng Nghymru, roedd cynnwys tafluniadau ar sgrin yn caniatáu i'r gynulleidfa brofi rhannau o'r ffilm a saethir yn ystod y ddrama wrth iddi ddatblygu. Ond fe'n tywysir yn ôl i ddyddiau cynnar y diwydiant cyfryngol hefyd. Ar ddechrau ac ar ddiwedd y ddrama y mae plentyn ifanc o ddiwedd y 1950au yn neidio trwy'r sianeli ar y teledu cyn aros wrth ddelwedd o Elvis yn canu a thaflunir y delweddau teledyddol hynny ar y sgrin. Ceir hefyd dafluniadau o'r brotest yn Grosvenor Square a'r protestio ym Mharis. Gellid dadlau bod cynnwys tafluniadau ar sgrin yn fodd o gynorthwyo cyfarwyddwr i gyfleu'r ystod o wahanol leoliadau a chyfnodau sydd yn y ddrama. Ond dadleua Siôn Eirian nad dyna'r achos. Dywed iddo gynnwys y dechneg hon yn unig er mwyn cyflwyno dimensiwn theatrig arall i'r llwyfaniad:

Dwi ddim isio i'r peth fod yn unffurf, statig. Ac os ti'n gallu dod ag elfenne eraill i mewn trwy lunie, delwedde, sgrin ... mae pethe fel'na yn torri ar naturoliaeth y llwyfaniad.²²⁷

Gwaith y cyfarwyddydd, y cynllunydd setiau a'r technegwyr fel rheol, yw gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r dulliau llwyfannu. Ond mae Siôn Eirian yn nodi rhai dulliau llwyfannu, megis elfennau technegol, yn rhan o'r sgriptiau. Yn ogystal â'r tafluniadau, y mae cerddoriaeth yn chwarae rhan allweddol o fewn ei weithiau ac yn cyfrannu haen theatrig ychwanegol i'r ddrama. Y mae'r caneuon a ddefnyddir yn atgyfnerthu cyd-destun hanesyddol y dramâu, yn enwedig gan fod rhai o'r gweithiau yn pontio gwahanol gyfnodau, a chyd-destun diwylliannol y dramâu, ond mae'r gerddoriaeth hefyd yn cynrychioli themâu'r gweithiau. Ar ddiwedd *Hedfan Drwy'r Machlud*, wedi i Dizzy gael ei threisio a'i llofruddio, clywir cerddoriaeth ddisgo a ddaw o'r parti ar y safle adeiladu yn gwrthseinio gyda cherddoriaeth o'r offeren. Yn *Cegin y Diafol*, y mae cerddoriaeth arw, werinaidd Enya a chân gan y grŵp pop Aqua, 'Cartoon Heroes', sy'n cyfeirio at fyd afreal y ddrama, i'w clywed yn ystod y ddrama. Yn *Garw*, cynhwyswyd caneuon poblogaidd o'r 1980au sy'n cyd-fynd â'r hyn a ddigwydd yn y ddrama, megis y gân 'Don't Leave Me This Way' gan y Communards

²²⁶ Cyfweliad gyda Sian Summers (29 Hydref 2014).

²²⁷ Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

wedi i berthynas Gavin a Lowri ddod i ben, a'r gân 'Holding Back the Years' gan Simply Red wedi monolog gan Llew yn hel atgofion am ddyddiau gwell ac am ei ddawn fel bocsiwr tan gamp. Diwedda'r ddrama gyda Llew a Sara yn dawnsio i gyfeiliant y gân 'Everything I Do I Do It For You' sy'n cynrychioli agwedd cymeriad Llew tuag at ei deulu. Clywir emynau yn chwarae ar ddechrau *Elvis, Y Blew a Fi* cyn torri i enghreifftiau o gerddoriaeth boblogaidd ddiwedd y 1950au a 1960au, megis caneuon Sassie Rees ac Elvis, a'r gerddoriaeth honno yn symbol o ddiwedd un ffordd o fyw a chwyldro'r genhedlaeth iau, sef un o brif themâu'r ddrama. Yn *Wastad ar y Tu Fas*, ceir enghraifft o gerddoriaeth eironig wrth i gymeriad Martin, sy'n gyflwynydd rhaglen radio, chwarae'r gân 'Disgwyl y Barbariaid' gan Geraint Jarman bob ochr i olygfa o Steffan, y gŵr ifanc hoyw, yn cael ei gam-drin gan un o'r swyddogion yn y gwersyll crynhoi. Cofier i Siôn Eirian ddefnyddio teitl y gân hon fel teitl i'w gerdd a ymdriniai â Chymal 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 ynglŷn â hyrwyddo hoywder.

Yn ogystal â'r gerddoriaeth, nodi Siôn Eirian nifer o effeithiau sain yn ei sgriptiau sy'n gymorth wrth gyfleu gwahanol leoliadau, megis cyhoeddiad mewn gorsaf drenau a hwter llong yn *Elvis, Y Blew a Fi*. Mae'r effeithiau sain hefyd yn atgyfnerthu themâu'r gweithiau, megis synau rhyfel yn *Paradwys Waed*, sŵn ffrwydradau yn *Elvis, Y Blew a Fi* a synau storm yn *Cegin y Diafol*. Techneg arall a ddefnyddir gan y dramodydd yw cynnwys trosleisiau. Dyma'r dull a ddefnyddir i gyflwyno cymalau Y Llais, a gynhwyswyd mewn cynifer o'r dramâu. Yn *Elvis, Y Blew a Fi* a *Garw* 'darlledir' nifer o'r trosleisiau trwy gyfrwng eitemau newyddion ar y radio neu'r teledu er mwyn sefydlu cyd-destun gwleidyddol y gweithiau sy'n gysgod i'r holl ddigwydd. Yn *Elvis, Y Blew a Fi*, clywir y ddarlledwraig newyddion yn adrodd am y rhyfel yn Fiet-nam, bwriad Tywysog Siarl i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth a hanes Muhammad Ali a phencampwriaethau bocsi'r byd. Yn *Garw*, clywir eitem newyddion am y farchnad arian yn Llundain ac yna, yn ddiweddarach yn y ddrama, eitem yn trafod problemau llywodraeth John Major, sy'n ein hysbysu ein bod wedi neidio rhai blynyddoedd mewn amser.

Y mae'r ffaith i Siôn Eirian nodi'r technegau uchod oll o fewn ei sgriptiau yn brawf ei fod yn rhoi ystyriaeth i'r llwyfaniadau o'r dramâu wrth gyfansoddi ac felly'n rhoi ystyriaeth i brofiad theatrig a safbwynt y gynulleidfa. Fodd bynnag, cydnabu nad yw'n meddwl yn ddelweddol nac yn gweld y gofod perfformio wrth gyfansoddi, yn wahanol iawn i Aled Jones Williams, sy'n nodi mai delwedd yw'r man cychwyn iddo ef gydag unrhwy ddrama. Dywed Siôn Eirian mai'r gair a lleisiau'r cymeriadau yw'r elfennau pwysicaf iddo ef a'i fod, nid yn gweld y cymeriadau yn llygad ei ddychymyg, ond yn hytrach, fel Meic Povey, yn eu clywed.

4. Ieithwedd

onid yw geiriau'n anos
na llawer cyfrwng arall?²²⁸

Llenor yw rhywun sy'n troi delweddau a phrofiadau yn eiriau. Mae'r dramodydd hefyd yn eu troi yn lleisiau a ffigurau mewn gofod. Ond dyna'r arfau bob tro ... geiriau, rhithmau a lleisiau ... a dy'ch chi byth yn peidio a dysgu sut i'w trin yn fwy effeithlon, yn fwy cynnil, yn fwy ergydol.²²⁹

Y mae Siôn Eirian o'r farn mai cyfrwng llenyddol yw drama a bod cyfansoddi drama lwyfan yn golygu 'saerño rhywbeth sy'n byw ar eiriau'n unig',²³⁰ ac yng nghyswllt drama dda ei bod yn werth 'troi at y testun yn ogystal a phrofi'r peth mewn perfformiad'.²³¹ Pan ofynnwyd iddo a fu'r ffaith iddo weithio rhywfaint fel actor o gymorth iddo fel dramodydd, fel y bu i Meic Povey ac Ed Thomas, dywedodd:

I don't think being an actor opened my eyes or ears to anything in terms of writing.²³²

Yn hytrach, efallai i'w ddawn fel bardd, sydd yn llwyr ddibynnol ar eiriau, ddylanwadu'n helaethach arno fel dramodydd na'i gymhwyster fel actor. Cydnabu ei fod yn ddramodydd geiriol iawn ac mai ei bennaf gwendid yw ei fod yn gorysgrifennu. Ac o astudio'i weithiau, gwelir ei fod yn hoff iawn o gynnwys monologau hirion o fewn y dramâu, fel Aled Jones Williams yntau, sydd hefyd yn ddramodydd hynod eiriol. Ceir sawl enghraifft o'r dechneg hon o fewn y gweithiau, megis yn *Wastad ar y Tu Fas*, *Elvis*, *Y Blew a Fi*, *Epa yn y Parlwr Cefn*, *Hedfan Drwy'r Machlud*, *Cegin y Diafol* a *Garw* hefyd:

Good direct address, monologues, and soliloquies can be very much the fabric of a play, as dramatically valid as any other dialogue ... First, let's define our terms. "Direct address" is perhaps the broadest of the three. It means just what it says, that a character is directly addressing the audience, as opposed to speaking to the other characters while we in the audience eavesdrop through the forth wall. Direct address can be of any length. Even a single-word aside to the audience is direct address.

"Monologue" is a slightly narrower term, though it too is quite flexible in meaning. A monologue is any extended speech within a play – in fact, "monologue"

²²⁸ Siôn Eirian, 'Geiriau', *Plant Gadara*, t. 13.

²²⁹ Siôn Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

²³⁰ Siôn Eirian, yn Baines, 'Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian', *Barn*, 28.

²³¹ Siôn Eirian, *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan*.

²³² Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 66.

and “speech” are often used interchangeably – but it isn’t necessarily direct address.²³³

Dywed Sion Eirian mai’r rheswm pam ei fod yn cynnwys y monologau yw er mwyn torri’r bedwaredd wal hon ac er mwyn atgoffa’r gynulleidfa nad drama deledu y maent yn ei gwyllo. Cydnabu fod cyfarch y gynulleidfa yn y modd hwn yn dechneg Frechtaidd. Roedd y dramodydd Bertolt Brecht (1898) yn byw yng nghyfnod cythryblus y rhyfeloedd byd a olygodd fod ganddo lais gwleidyddol cryf. Roedd Brecht yn meddu ar gysyniadau unigryw ynglŷn â’r ddrama fel cyfrwng ac roedd wedi ei ddylanwadu gan wahanol fathau o theatr gan gynnwys theatr Tsieineaidd. Ffurfiodd fath newydd o theatr a alwyd yn Theatr Epig a fu’n ddylanwadol iawn ar fyd y theatr. Roedd y theatr hon yn gwrthod arddull theatraidd ei ragflaenwyr, sef Naturoliaeth, ac yn gwrthwynebu’r angen i gyflwyno rhith o realaeth mewn dramâu. Yn hytrach, bwriad Brecht oedd gwneud i aelodau’r gynulleidfa feddwl a’u hatgoffa eu bod yn gwyllo theatr ac nid bywyd go iawn. Credai, os oedd cynulleidfa’n credu’r hyn oedd yn digwydd ar y llwyfan ac yn y cymeriadau, eu bod yn colli’r gallu i feddwl. Roedd eisiau i’w gynulleidfa feddwl yn wrthrychol a pheidio â chael eu tynnu i mewn yn emosiynol i’r digwydd. Y modd yr aethai ati i gyflawni hyn oedd trwy gyfrwng gwahanol dechnegau theatraidd.

Rhai o’r dulliau theatraidd hyn a ddefnyddiwyd oedd cynnwys storïwr a fyddai ar brydiau yn dweud beth oedd am ddigwydd cyn iddo ddigwydd fel nad oedd y gynulleidfa yn cael eu denu’n emosiynol i’r digwydd; roedd yr actorion ar brydiau yn ‘torri allan’ o’u cymeriadau i atgoffa’r gynulleidfa nad cymeriadau gwirioneddol oedd o’u blaenau. Byddent hefyd yn portreadu mwy nag un cymeriad yn ystod y ddrama ac weithiau byddai sawl actor yn portreadu’r un cymeriad; llefarwyd y cyfarwyddyd llwyfan er mwyn pellhau’r actor oddi wrth y cymeriad; byddai’r actorion yn cyfarch y gynulleidfa; caed defnydd o blacardiau gyda gwybodaeth am y stori neu deimladau’r cymeriadau arnynt a oedd yn dyfnhau dealltwriaeth y gynulleidfa am yr hyn oedd yn digwydd; cafwyd defnydd o ganeuon a cherddoriaeth o fewn perfformiadau a thechnegau llwyfannu a thechnegol syml iawn.

Essentially, what Brecht created, after long experiment, was a dramatic form in which men were shown in the process of producing themselves and their situations ... Brecht developed methods of writing, producing and acting which embodied a critical detachment ... Brecht’s methods varied, widely, but were consistent in their intention to show the action in the process of being made: that is to say, to confront an audience with a performance, a deliberate action in a theatre, often with the machinery of

²³³ Stuart Spencer, *The Playwright’s Guidebook* (New York, 2002), t. 258.

effects visible and with the passing of time and place conventionally indicated rather than assumed and recreated: a continual and explicit contrast with all those means to a suspension of disbelief before an illusion of reality.²³⁴

A Siôn Eirian, fel Brecht, yn ddramodydd gwleidyddol, disgwylir, efallai, iddo fod yn gryn ddylanwad ar Siôn Eirian, yn enwedig o ystyried iddo gyfieithu nifer o'i ddramâu. Ond dywed mai cyfarch y gynulleidfa yw'r unig dechneg gyffelyb rhyngddynt a bod y dramodydd Almaenig yn mynd gam ymhellach nag ef wrth i'r actorion gamu allan o'u cymeriadau yng nghwrs ei ddrama. Camu allan o'r sefyllfa yn unig a wna cymeriadau Siôn Eirian.

Mae cynnwys monologau yng nghwrs drama yn fodd hefyd i ddramodydd fedru ymdreiddio i seice cymeriadau gan gyfleu unrhyw wrthdaro mewnol sy'n bodoli o fewn y cymeriad. Fodd bynnag, yn y rhan helaethaf o fonologau Siôn Eirian, ac eithrio'r monologau a geir yn *Epa yn y Parlwr Cefn* sydd yn canolbwyntio mwy ar y cymeriadau yn hytrach na'r sefyllfa, yr hyn a wneir yw cyflwyno swmp o wybodaeth am destun, mewn ffordd gryno a chyflym. Nid ymddengys fod llawer o ymgais ar ran y dramodydd i guddio'r wybodaeth rhwng llinellau deialog a fyddai, efallai, yn broses lawer hwy ac yn gofyn am fwy o waith o ran y dramodydd, ond a fyddai yn llawer mwy real a theatrig. O fewn gweithiau sy'n trafod pynciau gwleidyddol, hanesyddol a chymdeithasol dwys a chymhleth, fel rhai Siôn Eirian, mae'n anorffod fod raid i ddramodydd gyflwyno rhywfaint o'r cefndir gwleidyddol a hanesyddol gan na ellir dibynnu'n llwyr ar amgyffrediad y gynulleidfa na'u gwybodaeth hwy am y maes na'r cyfnod dan sylw. Ond rhaid gofalu y gwneir hynny mewn modd cynnil a theatrig lle nad yw'r gynulleidfa yn ymwybodol ei bod yn cael ei llwytho â gwybodaeth, neu mae perygl i'r monologau ymdebygu i naratif llenyddol sy'n llenwi'r bylchau yn y digwydd. Ys dywed Dafydd Llewelyn yn ei adolygiad o *Garw*, 'gellid bod wedi hepgor ambell i ymson bregethwrol yn y testun'.²³⁵

LLEW

Ond gwa'd y cwilydd a'r casineb wrth ni orffod dadle da'r coliyrs erill o'r pwlle mowr bod y streic ddim i neud â ni. O'n ni ddim yn bwll NCB, a pwy wanie'th o'dd pump ne wech o fois ar shift yn twll tin y cwm, ar lethre'r Mynydd Garw yn mynd i neud i ddyfodol McGregor a Thatcher ... Dim gwan'ieth o gwbwl ... Withon ni trw'r streic. Geson ni air o ddiolch wrth Bernard Rees? Do fe ddiawl. A pan bennodd y streic dros flwyddyn nôl, geson ni ddim gwobor. Giodd y'n pwll ni o fewn wech mish. Achos o'dd y glo rhad o'dd yn dod miwn ar y llonge o Poland a llefydd erill yn lladd dyfodol y diwydiant i gyd, o'r pwlle

²³⁴ Raymond Williams, 'Bertolt Brecht', *Drama from Ibsen to Brecht* (London, 1971), t. 279.

²³⁵ Llewelyn, 'Torri'r glo mân yn glapia ...', <<http://dafyddllewelyn.wordpress.com/2014/10/02/torrir-glo-man-yn-glapia/>>.

dwfwn mwya i'r pwlle drifft lleia. O'n ni gyd ar y domen sgrap da'n gilydd.²³⁶

Techneg arall a ddefnyddir gan Siôn Eirian i'r un perwyl, sef i gyflwyno swmp o wybodaeth gefndirol, yw cuddio'r areithiau hirion o fewn llythyrau, anerchiadau neu erthyglau, fel y gwneir yn *Paradwys Waed*; o fewn darlith gyhoeddus hanesyddol, fel y gwneir yn *Wastad ar y Tu Fas*; o fewn llais gohebydd newyddion ar y radio yn *Elvis, Y Blew a Fi*; neu drwy gyfrwng dyfais 'Y Llais', a ddefnyddir yn *Elvis, Y Blew a Fi, Epa yn y Parlwr Cefn* a *Cegin y Diafol*.

Er bod technegau fel y rhai uchod yn gyffredin o fewn y gweithiau, y mae'r ieithwedd a ddefnyddir yn amrywio'n fawr. Ceir amrywiaeth o ran safon y Gymraeg, o ran tafodiaith, y defnydd o regfeydd, ac o ran naturioldeb ieithwedd y ddeialog, sydd, nid yn unig yn adlewyrchu natur y cymeriadau, ond hefyd yn atgyfnerthu themâu'r gweithiau.

Y mae Siôn Eirian yr un mor gyfforddus yn ysgrifennu yn y Gymraeg ag ydyw yn Saesneg ac mae canran uchel o'i waith fel sgriptiwr yn y Saesneg:

It's not a case of two caps on one head because those heads talk differently within each cranium ... I'm able to jump like a flea from one cap to another.²³⁷

Ond o fewn ei weithiau Cymraeg, ceir cymeriadau sy'n defnyddio llawer o eiriau Saesneg. Yr enghreifftiau amlycaf yw cymeriad Dizzy yn *Hedfan Drwy'r Machlud* a Pam a Sophie yn *Cegin y Diafol*. Y mae eu hiaith fratiog hwy yn bwrpasol er mwyn cyfleu eu cymeriadau arwynebol y dylanwadwyd arnynt gan ddiwylliant Eingl-Americanaidd. Mae hefyd yn mynegi'r thema o ddirywiad iaith ac anallu pobl i gyfathrebu oherwydd diffyg geirfa sy'n ganlyniad i ddylanwad technoleg fodern ar gymdeithas ac ar ddynoliaeth. Ond ceir cymeriadau o fewn gweithiau eraill o eiddo Siôn Eirian, lle nad mynegi'r thema fel yr uchod yw'r bwriad, sydd hefyd yn defnyddio llawer o eirfa Saesneg neu sy'n siarad Saesneg yn gyfan gwbl. Er nad drama lwyfan mohoni, mae'n werth ystyried y gyfres deledu *Bowen a'i Bartner* fel enghraifft. Yn y gyfres dditectif hon sydd wedi ei lleoli yng Nghaerdydd ac a ddarllledwyd ganol y 1980au, ceir amryw gymeriadau di-Gymraeg a rhaid felly i'r cymeriadau Cymraeg eu hiaith eu cyfarch yn Saesneg. Yr oedd Siôn Eirian yn un o'r awduron Cymraeg cyntaf i arbrofi gydag amlieithrwydd fel hyn. Ond beirniadwyd y gyfres am y gordefnydd o'r Saesneg a oedd ynddi gydag oddeutu chwarter pob golygfa yn

²³⁶ Eirian, *Garw*, t. 11.

²³⁷ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 67.

Saesneg, yn enwedig a hithau'n cael ei darlledu yn fuan wedi dyfodiad S4C. Cytuna Siôn Eirian gyda'r ddadl y dylid glynu'n gaeth at y Gymraeg mewn rhaglenni teledu ar S4C er mwyn amddiffyn y Gymraeg, ac yn arbennig felly mewn rhaglenni drama cyson megis operâu sebon a rhaglenni teledu i blant. Ganol y 1980au, mynegodd ddyhead i S4C gyflwyno rheolau cadarnach ynglŷn â'r defnydd o Saesneg ar y sianel fel sy'n bodoli erbyn hyn yn nogfen *Canllawiau Iaith* y sianel.²³⁸ Dywed fod eithriadau wrth gwrs, lle mae'r defnydd o'r Saesneg yn dderbyniol, megis mewn dramâu unigol sy'n ymwneud â themâu Cymreig, er enghraifft *Sul y Blodau* ac *Y Weithred* gan Meic Povey. Amddiffynna ei benderfyniad yntau i gynnwys Saesneg yn *Bowen a'i Bartner*, gan ei bod yn fwriad ganddo adlewyrchu realaeth a chreu darlun gonest o fywyd yn y ddinas amlddiwylliannol, a'r modd yr oedd yr heddlu yng Nghaerdydd yn gweithredu yn y cyfnod, sef trwy gyfrwng y Saesneg:

A pheth arall ynglŷn â *Bowen* yw'r gymysgedd ieithyddol sydd ynddi ... Dwi'n meddwl mai un o'r problemau mawr wrth iti osod rhywbeth yn y Gaerdydd go-iawn fel rwy'n ei galw hi yw hon: os wyt ti'n cael dy Rastas a dy Bengalis a dy Sieniaid yn y Gaerdydd go-iawn, mae'r bobol yna'n mynd i orfod siarad.²³⁹

Yn ogystal â hyn, nid ar gyfer S4C y crëwyd y gyfres yn wreiddiol ond ar gyfer y BBC, a hynny cyn dyfodiad y sianel Gymraeg.

Ac yntau'n ddramodydd a anwyd yn ystod y cyfnod pan ddaeth sensoriaeth brint a llwyfan i ben, a'r ffaith iddo gydnabod ei fod yn ceisio tynnu nyth cacwn yn ei ben trwy gyfrwng ei weithiau, nid yw'n syndod fod ieithwedd rhai o ddramâu Siôn Eirian yn cynnwys defnydd, helaeth ar brydiau, o regfeydd a geirfa rywiol. Erbyn heddiw, gyda'r defnydd o regfeydd mor gyffredin o fewn gweithiau llwyfan, prin iawn yw'r aelodau o gynulleidfa sy'n cynhyrfu wrth glywed iaith gref. Ond nid dyna'r achos yn ystod y blynyddoedd a fu, a pharodd ieithwedd ei weithiau beth anesmwythdra i gynulleidfaoedd. Mewn adolygiad o *Cegin y Diafol*, dywedodd Phil ap Iorwerth am y defnydd helaeth o regfeydd:

Dydw i ddim yn siwr a ellir cyfiawnhau hyn ac rwy'n tueddu i amau fod yr awdur yn bwriadu rhoi ysgytwad i'r bobl barchus fyddai'n arswydo clywed merched ifanc yn atalnodi pob brawddeg bron gyda llifeiriant o'r gair.²⁴⁰

²³⁸ 'Canllawiau Cydymffurfiaeth S4C: Canllawiau Iaith 11/12/08', <http://www.s4c.co.uk/production/c_guidelines.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 3 Tachwedd 2014.

²³⁹ Siôn Eirian, yn Williams, 'Tad Elvis a Bowen a Bob', *Barn*, 17.

²⁴⁰ ap Iorwerth, 'Swnio'n gymhleth? Drama fel'na oedd hi!', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/0102cegin.shtml>>.

Ond dywed nad er mwyn siocio cynulleidfa y cynhwysodd ieithwedd o'r fath yn ei weithiau, ond er mwyn creu adlewyrchiad gwirioneddol a thriw o'i gymeriadau gan gynnwys y modd y mynegant eu hunain:

Ynglŷn â'r iaith amrwd, gwedwch, defnyddio rhegfeydd neu iaith gwrs, os mai fel'na mae pobl yn siarad fydden i'n cyfiawnhau hynny a fydden i ddim yn trio ymddiheuro am gynnwys fel'na. Mewn rhai o'n nramâu i, ddim ym mhob un, ond mewn ambell un o'r dramâu llwyfan ac yn sicr yn *Marwolaeth yr Asyn o Fflint*, mi roedd yna regfeydd yn frith trwy'r ddeialog achos fel'na odd y cymeriadau yn mynegi eu hunain yn fy mhen i a fel'na fasa nhw'n mynegi eu hunain mewn bywyd go iawn.²⁴¹

Pan lwyfannwyd *Epa yn y Parlwr Cefn* am y tro cyntaf ym 1994, roedd y dramodydd yn disgwyl y byddai peth ymateb anffafriol i iaith y ddrama, er ei fod yn gobeithio na fyddai'n creu pwnc dadl. Cydnabu mai ieithwedd y ddrama hon oedd y fwyaf eithafol o'i holl weithiau bryd hynny, a pharha i fod felly: 'Mae yna gymeriadau yn y ddrama sy'n rhegi cyn hawdded ag y maen nhw'n anadlu'.²⁴² Nid oedd hynny'n broblem tra oedd wrthi'n cyfansoddi'r ddrama, ond bu raid i Siôn Eirian a'r cyfarwyddwr, Eryl Phillips, drafod y mater cyn teithio'r ddrama i ardaloedd megis Caerfyrddin, Tal-y-bont, Dolgellau a Bangor – ardaloedd a ystyrir ganddynt yn fwy traddodiadol a cheidwadol efallai. O'r herwydd, teimla Siôn Eirian fod cynnwys rhegfeydd mewn dramâu yn fater mwy dadleuol o fewn gweithiau Cymraeg nag o fewn gweithiau Saesneg, gan nad oes gweithiau Saesneg yn teithio i'r ardaloedd Cymreig, traddodiadol hynny:

BETH: Shit, shit , shit. Ma bywyd yn gallu dod i arfer da amode ddyle fod yn amhosib, ymhell o dan yr ice floes, pan bo rheidrwydd ar ... O ffyc, ffyc, ffyc. Os daw rhywun ata i, os bydd rhaid ... wy'n mynd i fod yn sych. Yn sownd o sych. Fydd e'n ffycin artaith. Fel ca'l dy repo ... Alla i ddim neud e ... Alla i ddim.²⁴³

Serch hyn, gan fod cymeriadau'r ddrama wedi eu selio ar buteiniaid gwirioneddol y bu Siôn Eirian yn cyfweld â hwy, roedd am gadw mor driw â phosibl iddynt ac i'w ffordd hwy o siarad gan adlewyrchu eu diffyg geirfa i fynegi eu teimladau a'u hanobaith. Dywed pe byddai wedi dynwared eu hieithwedd yn llythrennol y byddai rhegfeydd bob yn ail air:

²⁴¹ Siôn Eirian, yn 'Ffresgo', *BBC Radio Cymru* (3 Chwefror 1986).

²⁴² Siôn Eirian, yn Baines, 'Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian', *Barn*, 30.

²⁴³ Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn*, t. 8.

I felt exhausted because of the filth I'd put into that play ... But though I'd been with those prostitutes in a little house in Roath, in Donald Street, and though I wanted to correct them politically – 'You shouldn't talk in that way' – I then thought 'Who am I to say that?' That was their language in trade. Not using the language may be fine artistically, but it's far removed from the world that I really sat in on, and listened to.²⁴⁴

Ond nid yn gymaint y rhegfeydd a gythruddodd aelodau o'r gynulleidfa ond, yn hytrach, y gyfeiriadaeth rywiol ac agwedd ymddangosiadol ddi-hid y merched tuag at ryw; elfen, y tybir, a fyddai'n ddisgwyliedig mewn drama am dair putain:

Mae rhegfeydd rhywiol yn ddiddorol yn y cyd-destum [*sic*] yma, gan eu bod yn difrio [*sic*] rhannau rhywiol y corf [*sic*]. A mae eu defnydd yn ychwanegu at y naws o ddibrisio rhywioldeb.²⁴⁵

Ac mae'r ieithwedd amrwd, galed, ffaidd ar brydiau yn cyfleu'r isfyd y maent yn byw ac yn gweithio ynddo. Ond yr hyn a oedd yn bwysig i Siôn Eirian oedd, nid y rhegfeydd, ond yn hytrach, yr hyn a lefarwyd rhwng y geiriau hynny. Deillia'r ddrama o awydd Siôn Eirian i ysgrifennu cerdd am ferched cyffredin nad oedd ganddynt eirfa a dywed y dramodydd mai dyna mewn gwirionedd yw *Epa yn y Parlwr Cefn*, sef cerdd hir sy'n cynnwys llawer o ddigwydd. A cheir elfennau barddonol ynddi:

MARY: ... A'r amphetamines yn canu grwndi trw ngwythienne i, fel cadillacs bach arian ar y tarmac twyn. Ochor bella'r pool fydd bryncyn bach, a ffelt gwyrdd drosto fe, a ffloc bach o ddefed yn crwydro nôl a mlân, yn f'atgoffa i o gytre. A cwpwl o beilons bach plastic, yn ganhwylle ar y gacen. A tequila sunrise trw straws bob bore, i roi hwfrad dda i realiti'r dydd cyn dechre dim.²⁴⁶

Sylwer ar y trosiadau: 'A'r amphetamines yn canu grwndi', 'A tequila sunrise trw straws bob bore, i roi hwfrad dda i realiti'r dydd'; y gyffelybiaeth, 'fel cadillacs bach arian ar y tarmac twyn'; a'r disgrifiadau delweddol, 'Ochor bella'r pool fydd bryncyn bach, a ffelt gwyrdd drosto fe, a ffloc bach o ddefed yn crwydro nôl a mlân, yn f'atgoffa i o gytre. A cwpwl o beilons bach plastic'. Mae'r nodweddion barddonol hyn a berthyn i'r ddeialog yn ein hatgoffa o enghreifftiau cyffelyb o waith Meic Povey hefyd. Dyma enghraifft o ddawn Siôn Eirian i gydblythu ei amrywiol ddisgyblaethau llenyddol a'r rheswm pam y cyfeirir ato, fel ei gyd-

²⁴⁴ Siôn Eirian, yn Davies, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 69 -70

²⁴⁵ Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn* (ysgrif anghyhoeddedig).

²⁴⁶ Eirian, *Epa yn y Parlwr Cefn*, t. 15.

ddramodydd a chyd-brifardd, Aled Jones Williams, fel bardd llwyfan. Ystyrier y dyfyniad isod o'i eiddo sy'n trafod y grefft o lunio cerdd, dyfyniad y gellir ei briodoli i'r grefft o gyfansoddi drama:

Ond pan fo bardd wrthi'n 'gweithio' cerdd nid yr un yw ei grefft ef a chreffft y gwr [*sic*] sy'n cerfio doliau pren i'w gwerthu i ymwelwyr haf. Creu llestr a wna dawn a disgyblaeth eiriol y bardd, – llestr i ddal dehongliad ystyrllon. Siap a threfn y geiriau ar bapur sy'n rhoi i'r gerdd ei nodweddion arbennig fel cyfrwng dweud, ond y weledigaeth yn swm y geiriau sy'n cynhyrfu'r dychymyg a'r deall. Ac mae'r grefft yn hesb os nad yw hi'n fodd i drosglwyddo rhyw wirionedd neu wefr.²⁴⁷

Wrth chwilio am ddramodydd i lunio cyfieithiad Saesneg newydd o'r ddrama *Blodeuwedd*, roedd Ceri Sherlock yn chwilio am lenor a oedd yn fardd yn ogystal â bod yn ddramodydd. Ac yntau eisoes wedi cyfieithu'r ddrama fydryddol *Siwan* (1956), hefyd o eiddo Saunders Lewis, roedd Siôn Eirian yn ateb y gofynion. Nid oedd ei gyfieithiad, fodd bynnag, yn cadw mor gaeth at yr elfen fydryddol a berthyn i'r ddrama wreiddiol ag y gwnâi'r ddau gyfieithiadau blaenorol gan ddau fardd arall, Gwyn Thomas a'r Americanwr, Joseph Clancy, gan y teimlai ei bod yn bwysig cynnig cyfieithiad yr oedd yn bosibl ei lefaru'n rhwydd wrth lwyfannu perfformiad corfforol ar yr un pryd, ac roedd yn awyddus i ganolbwyntio ar y delweddau a'r emosiynau yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar geisio ailgyfleu'r ieithwedd:

O'n i'n gallu canolbwyntio wedyn ar sgrifennu pob araith fel cerdd fach, a thrio cadw at gyflythrenedd Saunders, at y ffordd mae e'n defnyddio sangiadau, at y delweddau cymhleth sydd gydag e o fyd antur, heb orfod cadw at wregys tynn y fydryddiaeth.²⁴⁸

Y mae dylanwad ei ddawn fel bardd i'w weld gryfaf ar ieithwedd y ddrama *Cegin y Diafol*. Dyma'r ddrama fwyaf absŵrdaidd ac arbrofol o ran y digwydd, natur y cymeriadau, ac o ran yr ieithwedd 'gyda iaith delynegol, farddonol ar y naill law, a deialog galed, amrwd ar y llaw arall'.²⁴⁹

GWYLAN: Wyt ti erioed wedi ffwcio angel Nimrod?

NIMROD: Dim angel, na. Sai'n credu.

GWYLAN: Ma ffwc efo angel yn ffwc ddi-amser weldi.

²⁴⁷ Siôn Eirian, yn 'Rhoi Siôn dan Goron ein Gŵyl', *Barddas*, 2.

²⁴⁸ Baines, 'Trosi Byd Blodeuwedd', *Barn*, 10.

²⁴⁹ Woodward, 'Technoleg Wybodaeth', *Barn*, 59.

WRTH SIARAD MAE HI'N TYNNU FFEDOG NIMROD AC YN DATOD EI DROWSUS. MAE'R DDAU'N DECHRAU CARU.

GWYLAN: Mi wnes i unwaith. Allan yn y gwres, draw 'mhell dros orwel amser. Mewn gwlad arall. Oedd yn felyn ac yn oren efo gwres. Ac yn suo efo tes. Mewn stafell dywyll, glòs. Efo corff oedd yn llaith efo chwys. Finne, wrth i ni garu, yn llyfu mwclis llaith oddi ar 'i dalcen o a'i wyneb o. Wrth i ni garu. A dyna ti be oedd melyster. Y sawr, y gwres a'r chwys yn gneud 'i gnawd caled o'n llithrig dan y nwylo i. Rhwydo'r haul, a sugno'r belen dân drwy ffrâm ffenest fach i stafell foel. Draw yn fannu y gadawes i amser ar ôl. Yr unig beth o'n i'n wisgo oedd oriawr. Llafn o ole o'r ffenestr fach yn dawnsio ar y wyneb gwydr.²⁵⁰

Ac eithrio'r ddrama uchod, y mae ieithwedd gweithiau llwyfan Cymraeg Siôn Eirian, gan gynnwys *Epa yn y Parlwr Cefn* a hefyd *Hedfan Drwy'r Machlud* a *Paradwys Waed* sy'n cynnwys ieithwedd synhwyrus a delweddol, os nad yn swnio'n real (hynny yw, nid efelychiad gwirioneddol o iaith bob dydd fel yr ymgeisiwyd amdano mewn dramâu naturiolaid), yn swnio'n gredadwy, a'r ddeialog yn llifo'n rhwydd ac yn swnio'n naturiol. Gall droi ei law at nifer o wahanol dafodieithoedd, weithiau o fewn yr un ddrama, a gwneud hynny mewn modd cwbl argyhoeddedig. Gellir tybio bod ei amgyffrediad eang o'r amrywiol dafodieithoedd yn deillio o'r ffaith iddo fudo nifer o weithiau – o Frynman i'r Wyddgrug, i Aberystwyth ac i Gaerdydd. Nid yw deialog *Cegin y Diafol*, fodd bynnag, yn swnio'n gredadwy a thybir bod hynny'n gwbl fwriadol o ran y dramodydd. Nid ydym mewn byd gwirioneddol, fel yr ydym yng ngweddill y dramâu, ond mewn byd haniaethol ac mae'r ieithwedd afreal yn cyfleu hynny. Er mwyn pwysleisio un o brif themâu'r ddrama, sef iaith a dirywiad iaith, tynnodd y dramodydd sylw bwriadol at yr ieithwedd gan gyflwyno dau begwn eithafol: ieithwedd hynod gywrain a blodeuog Nimrod, Gwylan a Greta, sef yr hyn sydd yn y fantol, a bratiaith eithafol Pam a Sophie, sy'n awgrymu'r hyn a all ddigwydd, os nad yw'n digwydd eisoes, i'r iaith. Nid yw'r ddeialog yn llifo'n rhwydd ychwaith, gan fod diffyg cyfathrebu rhwng y cymeriadau, sydd hefyd yn thema ganolog i'r ddrama.

Er y themâu dyfnion, dyma'r ddrama ysgafnaf o ran ei deialog o'r holl ddramâu, sydd efallai'n deillio o'r ffaith mai teipiau eithafol o gymeriadau a geir ynddi yn hytrach na chymeriadau credadwy o gig a gwaed. Y mae twpdra a materoliaeth Pam a Sophie a diniweidrwydd Nimrod yn creu naws ysgafn trwy gydol y ddrama ac yn chwa o awyr iach,

²⁵⁰ Eirian, *Cegin y Diafol*, t. 13.

wrth ystyried difrifoldeb y sefyllfaoedd ac angerdd diffuant y cymeriadau yng ngweddill dramâu Siôn Eirian:

SOPHIE: ... Theme nights. Nosweithi ...
PAM: Thema. Naughty nurses. Yn syrffio bwyd. I ddynion busnes cyfoethog, a –
ENGELHART: Ecsploetiaeth. Noeth.
PAM: Wel, hanner noeth. Sbiwch, ma rhain jyst about yn cyfro ...
MAE HI A SOPHIE YN GORFFEN NEWID I'R DILLAD NYRSYS.
ENGELHART: Pa fath o ddynion busnes cyfoethog. Rhai sy ...
SOPHIE: Yn dew ...
PAM: Yn hoffi drwlio ...
SOPHIE: Yn driflo fel babis. A rhoi tips mega mawr.
PAM: Hollol.
GWYLAN: Nosweithie thema, efo blydi nyrsys, yn fflachio'u tits a'u tine ...
SOPHIE: Dependo ar y tips wrth gwrs ...
PAM: Theme nights. Big thing dyddie yma.
SOPHIE: Yn bobman. Ma nhw yn, like, mega, ble wy'n dod o.²⁵¹

Mae defnyddio hiwmor i fynegi themâu dyfnion yn dechneg gyffredin gan Meic Povey ac Aled Jones Williams hwythau, ac mae'r defnydd o hiwmor yn chwarae rhan ganolog o fewn eu gweithiau er mwyn i ergyd y ddrama daro'n galetach. Ond naws lawer tywyllach a berthyn i weithiau Siôn Eirian, boed hynny'n weithiau llwyfan, yn gerddi neu'n weithiau ar gyfer y sgrin:

Dw i ddim yn foi digri' o gwbl, alla' i ddweud hynny heb wên ar fy wyneb.²⁵²

²⁵¹ Eirian, *Cegin y Diafol*, tt. 62-3.

²⁵² Siôn Eirian, yn Non Tudur, 'Clywed Clwyd ar y sgrîn', *Golwg*, 16/28 (25 Mawrth 2004), 19.

Pennod 3: Aled Jones Williams

1. Cyflwyniad

ffon wen fu geiriau i mi erioed
ar hyd balmantau blêr fy mywyd.¹

Ganed Aled Jones Williams ym 1956 ac fe'i magwyd yn Llanwnda ger Caernarfon, yn unig blentyn i'r Parchedig R. E. Williams a'i wraig, Megan. Wedi mynychu Ysgol Gynradd yn Bontnewydd ac yna Ysgol Dyffryn Nantlle, Pen-y-groes, ym 1977, graddiodd mewn Cymraeg o Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor cyn parhau â'i astudiaethau yng Ngholeg Diwinyddol Sant Mihangel, Llandaf a Phrifysgol Caerdydd cyn mynd yn gurad cynorthwyol ym mhlwyf Conwy. Ar 30 Mehefin 1979, fe'i hordeiniwyd yn offeiriad gyda'r Eglwys yng Nghymru ac wedi hyn bu'n gweithio fel person plwyf yn Llanrug a Chwm y Glo cyn dilyn ôl traed ei dad flynyddoedd ynghynt a chael galwad i Fachynlleth. Fodd bynnag, tra oedd ym Machynlleth, gorfu iddo roi'r gorau i'w swydd am gyfnod gan iddo gydnabod, ym 1987, fod ganddo broblem yfed. Treuliodd gyfnod o ddeuddeg wythnos mewn ysbyty meddwl yn Llundain cyn dychwelyd am gyfnod byr i Fachynlleth, ond buan y llethwyd ef gan alcoholiaeth. Gadawodd Aled Jones Williams yr Eglwys dros dro, a hynny o'i wirfodd, gan dreulio ychydig o amser yn ei gartref yn Llanwnda cyn iddo ganfod ei ffordd i ddinas Lerpwl, lle bu'n gweithio mewn cymuned o'r enw L'Arche. Dyma gymuned lle mae pobl yn cyd-fyw a rhai ohonynt â nam meddyliol. Ystyr L'Arche yw arch (llog), ac mae'r gymuned yn cynnig diogelwch i'r preswylwyr fel y gwnaeth arch Noa. Sylweddolodd Aled Jones Williams nad oedd ef yn ddim gwahanol i'r rhai a ofalai amdanynt gan mai ei alcoholiaeth oedd ei anabledd ef. Yno, am y tro cyntaf, y llwyddodd i adrodd stori ei daith bersonol ef â'i alcoholiaeth:

Rhwng 1987 a 2003 ni [*sic*] yfais ddiferyn o alcohol.

Fy aelodaeth o gymuned L'Arche, Lerpwl oedd yn gyfan gwbl gyfrifol am hyn. Yno y prifiais yn feddyliol ac yn ysbrydol.²

Erbyn 1993, bedair blynedd ar ôl iddo ddechrau gweithio yno, roedd wedi'i benodi'n gyfarwyddwr y gymuned:

¹ Aled Jones Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw* (Llanrwst, 2012), t. 47.

² Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 29.

Bûm yno am wyth mlynedd ac yno y gwnes i aeddfedu. Yno y cyfarfyddais i â 'ngwraig a phriodi. Yno hefyd y ganwyd dau o'r plant, Marc a Bethan ... Yn y gymuned y gwnes i ddarganfod gwerth therapi a seicdreiddio ... mi fedra i ddeud 'mod i'n wirioneddol yn caru Lerpwl.³

Bu'n ysgrifennu er pan oedd yn blentyn, yn dynwared llenorion megis Walter De La Mare a Gwenallt, ac yn ddiweddarach bu'n cyfrannu'n helaeth i'r *Llan*, newyddiadur yr Eglwys yng Nghymru. Yn wir, dywed ei fod yn wastad wedi teimlo gorfodaeth i ddweud rhywbeth a bod yna 'rywbeth am fynegi'⁴ yn ei hanfod. Awgryma ei fod yn rhywbeth obsesiynol ynddo a bod hynny'n deillio o'r ffaith ei fod yn berson sydd yn wastad wedi bod yn gaeth i'w obsesiynau:

Mae'n rhaid i mi ysgrifennu. Rhyw farciau geiriol ar 'waliau'r' byd nad wyf yn ei ddeall ond yn ei garu serch hynny. Ar sawl ystyr, ffon wen fu geiriau i mi erioed ar hyd balmantau blêr fy mywyd.⁵

Yn ystod ei gyfnod yn Lerpwl, gwelodd berfformiad o *On the Balcony* gan Alan Bleasdale a darganfyddodd 'bosibilrwydd drama'.⁶ Dywed, yn ogystal, na fyddai wedi ysgrifennu dim o ddifrif oni bai am ei alcoholiaeth ac oni bai am ei brofiadau yn y gymuned yn Lerpwl, yn arbennig felly gan nad oedd ganddo 'ddim byd i'w ddweud na ffordd i'w ddweud o'.⁷ Rhoddodd bywyd unigryw a Seisnig Lerpwl y pellter iddo 'oddi wrth y pethau a oedd yn cyfri'.⁸ Gellir cyffelybu hyn i brofiadau Meic Povey wrth iddo fudo i Gaerdydd a chael y pellter oddi wrth y bywyd gwledig, gogleddol a oedd mor gyfarwydd iddo.

Roedd yn fy ngalluogi fi wedyn i edrych arnyn nhw yn ddi-ofn, a dweud y gwir, ac yn hyderus, ac felly fod yna ryw wrthrychedd, ges i hyd i ryw wrthrychedd. Rŵan, pan 'da chi'n 'sgwennu, mae'n rhaid i chi gael y gwrthrychedd 'na, a mi ges i hyd i hwnnw yn Lerpwl, ac o fanno mae o wedi tasgu. Taswn i'n hapus yn yr Eglwys ac yng Nghymru, mae'n siŵr gen i na faswn i'n 'sgwennu dim.⁹

Ond ni ddaeth yr awen ato'n syth. Yn wir, celf a aeth â'i fryd pan gyrhaeddodd y ddinas gyntaf. Ond creda, wrth roi heibio'r geiriau am gyfnod, ei fod yna wedi eu darganfod

³ Aled Jones Williams, yn Huw Roberts, 'Dramodydd yr isfyd', *Barn*, 410 (Mawrth 1997), 27.

⁴ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

⁵ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 47.

⁶ Aled Jones Williams, 'Y ddinas sydd i ddod', *Barn*, 539/540 (Rhagfyr 2007 / Ionawr 2008), 18.

⁷ Aled Jones Williams, yn 'Coroni pryddest oedd filltiroedd ar y blaen'

<<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2002/maes/coroni.shtml>> Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁸ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

⁹ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

drachefn: ‘Felly rhywbeth mewn colli er mwyn cael.’¹⁰ Alcoholiaeth, colli gafael ar bwy ydoedd, llanast mewnol, uffern yr hunan, dinas fel Lerpwl a thref fel Caernarfon: dyma’r elfennau a’i cyflyrodd i ysgrifennu o ddifrif am y tro cyntaf. Un noson ddigwsg ym 1994, yn ystod blwyddyn olaf y teulu yn y ddinas, ysgrifennodd Aled Jones Williams ddrama a chael blas ar y profiad. Ysgrifennodd ddrama arall o dan y teitl *Y Dyn Llnau Bogs* (anghyhoeddedig), ac ymgeisiodd â hi yng nghystadleuaeth cyfansoddi drama hir Eisteddfod Genedlaethol Nedd a’r Cyffiniau, 1994. Daeth y ddrama i’r brig y flwyddyn honno: ‘Drama sâl ydyw, sâl iawn hefyd, ond yr oedd ennill yn ddigon i’r hannog i barhau i geisio ysgrifennu pethau gwell.’¹¹ Ac yn wir, nid *Y Dyn Llnau Bogs* oedd yr unig ddrama a lwyddodd i greu argraff ar feirniaid yr Eisteddfod Genedlaethol, gan iddo ddod yn ail agos iawn yn yr un gystadleuaeth ym Mro Colwyn ym 1995 gyda’r ddrama *Pêl Goch* (2006) a dod i’r brig unwaith eto, yng nghystadleuaeth y Ddrama Fer y tro hwn, yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr ym 1996 gyda’r ddrama *Cnawd* (anghyhoeddedig). Erbyn heddiw, mae wedi cyfansoddi cynifer â dwy ddrama lwyfan ar bymtheg yn ogystal â phedair nofel; ‘*Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun*’ (2001), *Ychydig Is na’r Angylion* (2006) a enwebwyd ar gyfer rhestr hir Llyfr y Flwyddyn yn 2007, *Yn hon bu afon unwiath* (2008) ac *Eneidiau* (2013), a’r hunangofiant crefyddol, *Oerfel Gaeaf Duw* (2002). Y mae hefyd yn awdur cyfrol o gerddi, *Y Cylchoedd Perffaith* (Caernarfon 2010), dwy bennod o hunangofiant, *Tuchan o flaen Duw* (2012), a sawl drama radio gan gynnwys *Pryd Fuo Kathleen Ferrier farw?* (Medi 2002), *Chwara Adra* (Tachwedd 2010), *Y Ferch yn y Peiriant* (Gorffennaf 2011), *Pen-blwydd Hapus Modron* (Mehefin 2012), *O ben y bont* (Medi 2012), *Efa ac Adda* (Hydref 2012) a *Sonata* (2013), yn ogystal â chyd-ysgrifennu’r gyfres deledu *Porthpenwaig* (2011) gyda Cefin Roberts.

Serch dyled Aled Jones Williams i ddinas Lerpwl, ym 1995, dychwelodd y teulu i Gymru. Yr oedd Susan, ei wraig, ac yntau yn colli blas ar eu gwaith yn y gymuned a sylweddolasant fod eu mab hynaf, Marc, yn Sais. Dychwelodd y llenor at yr Eglwys gan dderbyn galwad fel person plwyf i Borthmadog. Fodd bynnag, saith mlynedd yn ddiweddarach gorfu iddo dreulio cyfnod oddi cartref yng nghanolfan *rehab* Castle Craig yn ne’r Alban wedi iddo ddechrau yfed yn drwm unwaith eto. Erbyn heddiw, ac yntau bellach wedi ymadael â’r Eglwys yn gyfan gwbl gan roi’r gorau i’w offeiriadaeth ac yn gwneud ei fywoliaeth trwy ysgrifennu, dywed nad oedd dychwelyd i’w swydd fel person plwyf wedi ei

¹⁰ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

¹¹ Williams, ‘Alcoholiaeth’, *Tuchan o Flaen Duw*, t. 32-3.

gyfnod yn Lerpwl yn benderfyniad doeth mewn gwirionedd: ‘Fy unig reswm dros ailafael yn yr Eglwys oedd Cymreictod nid crefydd.’¹²

Adwaenir Aled Jones Williams bellach fel un o lenorion mwyaf nodedig Cymru – yn ddramodydd, nofelydd a Phrifardd a gipiodd y gipio’r Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi 2002 gyda’i bryddest ddadleuol, ‘Awelon’. Fodd bynnag, cyfrwng y ddrama yw ei gariad cyntaf a’i fwriad wrth gyfansoddi medd ef yw edrych i friw agored y ddynoliaeth, gan arddangos yr ‘ysfa am atebion cadarn mewn byd simsan’.¹³ Yn wir, ni ellir dadlau na lwyddodd ei weithiau, yn enwedig ei ddramâu cynharaf, i dorri tir newydd yn hanes y ddrama Gymraeg. Cais ei weithiau, gyda’r elfen gignoeth, dywyll ac aflonyddol a berthyn i’w cynnwys ac i’w hiaith, herio cynulleidfa ac ymestyn gorwelion yr hyn sy’n cael ei ddweud a’i wneud ar lwyfannau Cymru. Yn yr astudiaeth hon, canolbwyntir ar y dramâu llwyfan o eiddo’r dramodydd a gyfansoddwyd cyn 2012, sef (noder blwyddyn eu cyfansoddi):

- *Y Dyn Llnau Bogs* (1994);
- *Pêl Goch* (1995);
- *2* (1996/1997);
- *Cnawd* (1996) ;
- *Sundance* (1999);
- *Wal* (1999);
- *Fel Stafall* (1999);
- *Tiwlips* (2000);
- *Be’ o’dd enw ci Tintin?* (2000);
- *Ta-ra Teresa* (2002);
- *Lysh* (2004);
- *Iesu!* (2008);
- *Merched Eira* (2010);
- *Chwilys* (2010);
- *Dyn Eira* (2010).

¹² Williams, ‘Alcoholiaeth’, *Tuchan o Flaen Duw*, t. 33.

¹³ Dienw, ‘Aled Jones Williams’, <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/author_playlist.asp?author=Aled%20Jones%20Williams>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

2. Themâu

2.1 Crefydd a Gwleidyddiaeth

'Sa rhywun yn gofyn i mi be ydi crefydd,
'swn i'n deud ogla; ogla llyfr gweddi, ogla tamprwydd.¹⁴

Dyma'r arogleuon a brofodd Aled Jones Williams pan oedd yn fachgen un ar ddeg mlwydd oed ac yntau wedi dwyn allwedd Eglwys Llanwnda heb i'w dad sylwi. Yno, wrth yr allor, y teimlodd agosatrwydd, ffeindrwydd, tosturi, cynhesrwydd a chariad a dywed mai dyna'r unig 'brofiad crefyddol sylfaenol'¹⁵ a gafodd yn ei fywyd erioed:

Yn y bôn fy nealltwriaeth i o grefydd ydi *Teimlad*. Rhywbeth ydych chi'n ei *deimlo* a'r teimlad o drosgynoldeb, rhywbeth llawer mwy na fi a'r profiad hwnnw yn Eglwys Llanwnda.¹⁶

Yn wir, mae crefydd wedi bod yn rhan annatod o fywyd y llenor erioed. Ys dywed ei hun, bu'r Eglwys yn 'rhan o'r teulu a dweud y gwir, rhan o fy nodrefn mewnol i'.¹⁷ Fodd bynnag, wrth iddo aeddfedu, dechreuodd gwestiynu ei ffydd a'i grefydd:

Pan oeddwn i wedyn yn prifio ac yn mynd i mewn i'm ymennydd i roedd fy ymennydd i yn cwestiynu'n dragwyddol a dyna pam rydw i'n dweud mai ymennydd anffyddiol ydi o ond mae nghalon i'n dal i wybod rywbeth arall ... Mae gen i galon hollol grediniol a dydw i rioed wedi medru ... rhoi y meddwl yn y galon. Mae'r ddau ar hyn o bryd ar wahân.¹⁸

O ganlyniad i'r ddeuoliaeth hon a'r tensiwn mewnol hwn a fodolai o'i fewn, dywed Aled Jones Williams mai perthynas cas a chariad fu rhyngddo a'r Eglwys erioed. Dywed fod y berthynas 'wyntog'¹⁹ hon rhyngddo a'r Eglwys yn deillio'n rhannol o'i blentyndod a'r

¹⁴ Aled Jones Williams, yn 'Beti a'i phobl: Aled Jones Williams yn cael ei holi gan Beti George', *BBC Radio Cymru* (2 Tachwedd 2000).

¹⁵ Aled Jones Williams, yn 'Y Daith', *S4C* (1 Tachwedd 2009).

¹⁶ Aled Jones Williams, yn 'Aled Jones Williams yn gadael yr Eglwys', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/crefydd-straeon/tudalen/aledjw-gadael.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

¹⁷ Aled Jones Williams, yn 'Aled Jones Williams yn gadael yr Eglwys', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/crefydd-straeon/tudalen/aledjw-gadael.shtml>>.

¹⁸ Aled Jones Williams, yn 'Aled Jones Williams yn gadael yr Eglwys', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/crefydd-straeon/tudalen/aledjw-gadael.shtml>>.

¹⁹ Aled Jones Williams, yn 'Beti a'i phobl: Aled Jones Williams yn cael ei holi gan Beti George', *BBC Radio Cymru* (2 Tachwedd 2000).

gynddaredd a deimlai tuag at Offeiriad Esgobaeth Bangor am y modd dilornus y triniwyd ei dad oherwydd y nam a oedd ar ei lais. Yn ogystal â hynny, ni themlodd erioed yn gyfforddus o fewn y sefydliad na'i fod yn perthyn o ddifrif iddo ychwaith: 'Tydi 'mherthynas i â'r sefydliad Eglwysig 'rioed wedi bod yn berthynas hawdd. Dwi'n gweiddi lot tu mewn i'r sefydliad.'²⁰ Ond, yn 2009 bu un digwyddiad tyngedfennol a fyddai'n newid cwrs ei fywyd:

Euthum ar encil i Walsingham y mis Chwefror dilynol. I'r rhai na wŷr, canolfan Uchel Eglwysig iawn, iawn ydyw yn Swydd Norfolk. Er nad wyf yn un o'r Eingl Gatholigion (fel yr oedd Glasynys a'i enw yn yr hen gofrestr honno flynyddoedd yn ôl), hoffais rin Walsingham erioed ... Ond prif atynfa Walsingham y flwyddyn honno oedd arweinydd yr encil: Brian Thorne. Gŵr a fu am gyfnod yn athro cwnsela ym Mhrifysgol East Anglia ac awdur llyfrau da iawn ar y berthynas rhwng therapi a chrefydd. Ei thema oedd 'Yr hunan dilys'. Dychwelais o'r encil ar y dydd Sadwrn. Y bore Sul canlynol euthum yn ôl fy arfer yn gynnar iawn i Eglwys Sant Ioan, Porthmadog i drefnu 'pethau' ac yno yn y bore bach lledodd drosof yr ymwybyddiaeth uffernol nad oedd gennyf fi hunan dilys o gwbl. Yr oedd yn rhyw fath o 'droedigaeth' ddirfodol. Yfais ar gorn hynny. A daeth i fy rhan y llithriad mwyaf a gefais erioed a barodd bythefnos ond a deimlai fel dwy flynedd... Nid oedd ond un lle i mi fynd: yr Alban a Castle Craig ... Gwyddwn ar y trêrn y bore Llun hwnnw fod fy nghyfnod fel offeiriad mewn gofal plwyf yn yr Eglwys yng Nghymru ar ben. Am byth ... Yr oedd y cyfnodau rhwng llithriad a llithriad yn byrhau fel sy'n digwydd wrth gwrs ac roedd effeithiau alcohol yn cynyddu yn eu grymuster a'u nerth. Yr oedd fy ffydd yn shwrwd, mor shwrwd fel na allwn â dilysrwydd gario ymlaen â gweinidogaeth onest a didwyll.²¹

Daeth i gytundeb gyda'r Eglwys ei fod angen seibiant oddi wrth y sefydliad a rhoddwyd chwe mis iddo benderfynu a oedd am ddychwelyd ai peidio. Ond nid penderfyniad hawdd iddo oedd ymadael: 'Mae'r Eglwys fel rhyw groth, rhyw le saff. Ma' meddwl mynd o fan'na yn arswydus a deud y gwir.'²² Mewn sgwrs gyda John Roberts ar Radio Cymru,²³ nododd Aled Jones Williams resymau pam iddo benderfynu ymadael. Yn gyntaf, teimlai fod ei berthynas â'r Eglwys yn un ddinistriol a gwenwynig iawn ar brydiau ac yn amhosibl ei rhychwantu. Dywedodd 'nad ydyn nhw'n galw'r Eglwys yn fam Eglwys am ddim rheswm'²⁴ ac mae thema'r fam ddinistriol yn un amlwg iawn o fewn gweithiau'r llenor. Dywedodd hefyd ei fod yn ymadael ar sail iechyd gan ei bod yn bosibl i'w alcoholiaeth fedru magu egni

²⁰ Aled Jones Williams, yn 'Y Daith', *S4C* (1 Tachwedd 2009).

²¹ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 51-2.

²² Aled Jones Williams, yn 'Y Daith', *S4C* (1 Tachwedd 2009).

²³ Aled Jones Williams, yn 'Aled Jones Williams yn gadael yr Eglwys', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/crefydd-straeon/tudalen/aledjw-gadael.shtml>>.

²⁴ Aled Jones Williams, yn 'Y Daith', *S4C* (1 Tachwedd 2009).

o fewn y sefydliad Eglwysig: ‘Mae gen i ofn i’r sefydliad fy llarpio fi. Mae gen i ofn i’r alcoholiaeth fy llarpio fi.’²⁵

Cyhoeddwyd y gyfrol *Y Cylchoedd Perffaith* wedi i Aled Jones Williams ymadael â’r Eglwys. Fodd bynnag, wrth drafod y gerdd ‘Duw’ sy’n cynnwys ond yr un gair hwnnw, dywedodd ei hawdur, ‘Mae’n hawdd meddwl am honna fel dalen wag ond un o’r dylanwadau mwy a’rna i ydi arluniaeth Japan a China lle mae ’na chydig bach o baent ac wedyn mae’r gwynder yma. A be sy’n bwysig ydi’r gwynder yna ... a dyna ydi hwnna: y syniad o Dduw mor enfawr nad oes posib ei ddisgrifio fo ac nid gwynder ydi o ond popeth’.²⁶ Yn wir, er ei fod wedi troi ei gefn ar yr Eglwys ac nad yw bellach yn mynychu’r un gwasanaeth crefyddol, dywed nad yw wedi gadael yr offeiriadaeth mewn gwirionedd gan ei fod yn parhau i fod yn unigolyn crefyddol ond na all ganfod y grefydd honno o fewn y sefydliad Eglwysig. Y mae Duw yn parhau i chwarae rhan fawr yn ei fywyd. Ond, oherwydd digwyddiadau hanesyddol megis yr Holocaust a’r rhyfeloedd byd, dywed fod y Duw hollalluog, traddodiadol a gyflwynir i ni mewn gwasanaethau Cristnogol wedi peidio â bod ac mai Duw mewnol yw ei Dduw ef sy’n egluro pam y cyfeirir at ‘duw’ yn hytrach na ‘Duw’ yn ei weithiau. Iddo ef, llun neu drosiad yw Duw sy’n disgrifio rhai o’i brofiadau dyfnaf. Mae’r disgrifiad hwn yn ein hatgoffa o draddodiad Crynwriaeth sy’n draddodiad annogmatig nad yw’n rhoi pwys ar ddefod allanol:

Yn ei lythyr at *Golwg* dadleuai mai “metaffor” yw crefydd ac mai “delwedd” yw’r gair Cymraeg, Duw. “I fyd y dychymyg fel pob celfyddyd arall mae’r crefyddol yn perthyn ac nid i diriogaeth ffaith a gwyddor”.²⁷

Er ei fod, felly, yn parhau yn ‘Gristion yn ei galon’²⁸ ac yn credu mewn atgyfodiad, gan ei fod wedi profi hynny mewn sefyllfaoedd o anobaith llwyr, ceisiodd Aled Jones Williams gymorth gan grefyddau eraill wedi iddo ymadael â’r Eglwys a chanfu gysur yn rhai o ddysgeidiaethau Bwdiaeth:

Mae gen i ddiddordeb enfawr wedi bod erioed mewn Bwdiaeth er pan oeddwn i’n blentyn ... Y peth mawr ydw i’n gael o Fwdiaeth ar hyn o bryd ydi y gallu yma i

²⁵ Aled Jones Williams, yn ‘Y Daith’, *S4C* (1 Tachwedd 2009).

²⁶ Aled Jones Williams, yn ‘Wedi 7: Aled Jones Williams yn trafod y gyfrol *Y Cylchoedd Perffaith*’, *Tinopolis* (18 Hydref 2010).

²⁷ Dienw, ‘Argyfwng Crefydd’, *Cristion*, 142/143 (Hydref 2007), 11.

²⁸ Aled Jones Williams, yn ‘Aled Jones Williams yn gadael yr Eglwys’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/crefydd-straeon/tudalen/aledjw-gadael.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

fyfyrion ... mae hwnna i adict fel fi yn beth pwysig iawn. Tawelu'r meddwl ydi hwnna – ond i Gristnogaeth rydw i'n perthyn ... ac mae Cristnogaeth a'r Eglwys fel man geni enfawr arnaf i a fedra i mo'i wared o.

Felly byddai mynd at ryw grefydd arall dwi ddim yn credu'n bosibl ond mi fedrai gael pethau eill gyfoethogi mywyd i ar hyn o bryd oddi wrth grefyddau eraill.²⁹

Dywed ei fod yn fath o glytwaith crefyddol. Yn y gyfrol *Oerfel Gaeaf Duw*, sy'n '[r]hyw lun ar hunangofiant crefyddol'³⁰, dywed, yn ogystal â'i ddiddordeb mewn Bwdiaeth, iddo dreulio blwyddyn pan oedd yn Lerpwl gyda'r Crynwyr a'r flwyddyn ganlynol fe'i derbyniwyd yn aelod o'r Eglwys Gatholig Rufeinig. I un sydd bellach wedi ymwrthod â'r eglwys fel sefydliad, gellir deall y dynfa tuag at Grynwriaeth, ac yn hynny o beth ymdebyga i R. S. Thomas a oedd hefyd yn darllen llawer am y mudiad. Ond i un a fu hefyd yn berson plwyf gellir deall apêl Catholigiaeth hefyd, sydd, fel yr Eglwys yng Nghymru, yn rhoi pwys aruthrol ar ddefod o fewn eu gwasanaethau.

Amlygir yr elfen grefyddol gref hon a berthyn i'r llenor yn ei weithiau ac o'r herwydd, awgryma ei fod yn cael ei ystyried fel dramodydd hen-ffasiwn. Yn wir, mae ei ymdriniaeth o ddiwinyddiaeth ac athroniaeth bellach wedi dod yn rhan ddisgwyliedig o'i weithiau. Mae rhan helaeth o'r cerddi a geir yn *Y Cylchoedd Perffaith* yn trafod profiad y bardd o golli ffydd a symbolaidd iawn yw darlun Paul Gauguin, *Gweledigaeth o'r Bregeth*, o Jacob yn ymladd gyda'r Angel a geir ar glawr y gyfrol. Mae crefydd yn ganolog yn y nofel *Ychydig Is Na'r Angylion* hefyd 'a daliadau personol yr awdur efallai yn dod i'r wyneb'.³¹

Yn wir, er y gŵyr Aled Jones Williams 'nad pulpud yw theatr, nad lle i bropaganda ydi o; nid lle i efengylu chwaith',³² teimlodd, trwy gydol ei yrfa fel person plwyf, ei bod yn amhosibl iddo gadw'r Eglwys a'r theatr yn gwbl ar wahân:

Dwi'n teimlo'n hun weithiau yn llawer mwy crefyddol yn yr ystyr yr ydw i'n ei ddehongli o fewn y theatr nag ydw i tu fewn i eglwys. Oherwydd fy mod i'n medru holi'r cwestiynau iawn.³³

²⁹ Aled Jones Williams, yn 'Aled Jones Williams yn gadael yr Eglwys', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/crefydd-straeon/tudalen/aledjw-gadael.shtml>>.

³⁰ Aled Jones Williams, *Oerfel Gaeaf Duw* (Caernarfon, 2002), t. 3.

³¹ Huw Alun Foulkes, 'Ychydig Is Na'r Angylion: Ar daith ysgytwol gydag awdur pwerus', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/bro-angylion.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

³² Aled Jones Williams, yn Luned Emyr, 'Mynd i gyfeiriad arall', *Taliesin*, 128 (Haf 2006), 120.

³³ Aled Jones William, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Nic Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam: Chwech o ddramâu Aled Jones Williams* (Caernarfon, 2006), t. 10.

A dyna grisialu un o hanfodion theatr Aled Jones Williams:

Be leciwn i yw y byddai pobl ...[yn] medru cwestiynu rhywbeth os ydych chi'n grediniwr, Pam, neu os ydych chi'n anffyddiwr, Pam. Y Pam yna sy'n mynd i fod yn bwysig.³⁴

'[C]westiwn ydi crefydd iddo ef, nid cysur'.³⁵ Ni cheisiodd erioed gyflwyno atebion i unrhyw gwestiynau o fewn ei ddramâu nac yn ei bregethau ar y Sul ychwaith. Dywed nad oes ganddo ddiddordeb mewn atebion a chred na ddylai neb allu diffinio crefydd gan fod diffinio'n golygu 'cau petha allan, am nad ydyn nhw'n ffithio i'r disgrifiad'.³⁶

Diben pregethu i mi erioed oedd agor meddyliau pobl a rhoddi iddynt yr hawl i feddwl drostynt eu hunain. Hyd yn oed os oedd hynny ambell waith yn peri iddynt adael yr eglwys a phrifio mewn lle a meddylfryd gwahanol. Holi cwestiynau oedd fy awydd nid cyflwyno atebion.³⁷

Gall hynny fod yn brofiad rhwystredig i gynulleidfa oedd sy'n ysu am atebion cadarn mewn byd simsan. Ond ys dywed gymeriad Jona Fodca yn *Lysh*:

Jona: Mae yna ambell i gwestiwn sy'n rhy fawr i'r ateb.³⁸

Ategir geiriau Jona gan Mr Parry yn *Pryd fuo Kathleen Ferrier farw?* pan hola beth y mae wedi'i wneud i haeddu dioddef o Alzheimers:

MR PARRY: Dach chi yna, Docdor? Dach chi mor ddistaw â duw. Ond hwrach mai gwrando dach chi'ch dau. Gwrando. Ac yn falch uffernol nad ydych chi'n gorod rhoid atebion.³⁹

Dywed mai rhwystredigaeth a'i symbylodd i ysgrifennu'r ddrama *Iesu!* gan y teimlai fod rhywbeth yn farwaidd iawn yn y byd crefyddol Cymraeg a bod crefydd wedi dirywio'n fwy yng Nghymru nag mewn unlle arall, hyd nes bod pobl yn colli hanfod crefydd. Gwêl yr angen am drafodaethau diwinyddol ac ailddiffinio crefydd fel a wneir yng nghyswllt

³⁴ Aled Jones Williams, yn 'Y ferch Iesu', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/iesu-02.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

³⁵ Karen Owen, 'Credw mewn uwD', *Golwg*, 15/7 (17 Hydref 2002), 7.

³⁶ Aled Jones Williams, yn Karen Owen, 'Credw mewn uwD', *Golwg*, 7.

³⁷ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, tt. 38-9.

³⁸ Aled Jones Williams, *Lysh* (Caernarfon, 2004), t. 76.

³⁹ Aled Jones Williams, 'Pryd fuo Kathleen Ferrier farw?', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bys yn Stafell Mam*, t. 139

gwyddoniaeth a dywed fod cwestiynu dysgeidiaethau crefyddol yn rhan annatod o hynny. Daw nifer helaeth o gymeriadau ei ddramâu o gefndiroedd crefyddol, ond yn awr, hiraethant am y sicrwydd fod Duw yn bodoli, ‘gan eu bod yn medru cofio dyddiau diniwed o ffydd a gobaith’.⁴⁰ Cofier yma am rai o gymeriadau Saunders Lewis a fu trwy’r un profiad, megis Marc y Comiwnydd yn *Gymerwch Chi Sigaret?* (1956) a Dewi yn *Cymru Fydd* (1967). Yn wir, bu Saunders Lewis yntau drwy brofiad cyffelyb cyn iddo droi at Babyddiaeth. Y mae’r elfen hon o chwilio parhaus am ystyr neu arwyddocâd i fywyd yn rheswm arall pam y cred Aled Jones Williams ei fod, i lawer, yn awdur hen-ffasiwn:

ond mae ei gefndir yntau yn yr Eglwys yn caniatáu iddo bellter oddi wrth y profiad normatif crefyddol dosbarth canol Cymraeg a ddadansoddir mewn modd mor gignoeth. Mae Williams wedi ymneilltuo oddi wrth Ymneilltuaeth, ond mae’n bwrw golwg feirniadol dros y ffens o’i gorlan ei hun.⁴¹

Cynnyrch comisiwn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008 oedd y ddrama *Iesu!*, ac fe’i llwyfannwyd am y tro cyntaf yn Sherman Cymru gan Theatr Genedlaethol Cymr ar 5 Awst 2008 cyn mynd ar daith o amgylch theatrau Cymru. Cefin Roberts oedd yn gyfrifol am gyfarwyddo’r cast helaeth a oedd yn cynnwys Dafydd Emyr, Sioned Wyn, Dafydd Dafis, Llion Williams, Gareth ap Watkins, Llŷr Evans, Mathew Lloyd, Dorien Thomas, Fflur Medi Owen a oedd yn chwarae’r brif ran fel Iesu a chorws o fyfyrwyr o Ysgol Theatr, Cerdd a’r Cyfryngau, Coleg y Drindod, Caerfyrddin.

Gofynnodd Cefin Roberts o’r Theatr Genedlaethol i mi ysgrifennu drama. Hon fyddai *Iesu!* Byrlymodd y geiriau o’r mhen. Weithiau’n gawodydd tawel. Cofiaf i mi ysgrifennu un o ‘areithiau’ Peilat – ac yr oedd ganddo lawer! a gwyddwn mai *Peilat!* ydoedd ei gwir deitl – ar risiau’r Amgueddfa Brydeinig yn Llundain ... (...Ar Ynys Enlli y ‘gosodais’ *Iesu!* wrth ei gilydd.)⁴²

Dehongliad cyfoes yn hytrach nag addasiad cyfoes o’r hyn a geir yn y Beibl a gawn yn y ddrama. Cyflwynir Iesu i ni ond nid yr Iesu o Nasareth na Iesu Grist (ac yn ôl Aled Jones Williams, ‘mae yna wahaniaeth rhwng y ddau’⁴³) yw’r Iesu yn y ddrama ond, yn hytrach, bortread o Iesu fel merch ifanc. Lleolir y ddrama’n bennaf un ai yn nhlodi’r anialwch neu yn y ddinas filwrol, sy’n ein hatgoffa o sefyllfa’r Dwyrain Canol ar ôl

⁴⁰ Aled Jones Williams, yn ‘Cyfweliad gydag Aled Jones Williams’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 10.

⁴¹ Nic Ros, ‘Rhwng rheg a rhethreg’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, 20.

⁴² Williams, ‘Alcoholiaeth’, *Tuchan o Flaen Duw*, t. 49.

⁴³ Aled Jones Williams, ‘Rhyw lun ar ragair’, *Iesu!* (Llandysul, 2008), t. 5.

digwyddiadau 9/11. Yn gwbl nodweddiadol o Aled Jones Williams cyfyd nifer o gwestiynau ac fe herir sawl damcaniaeth Gristnogol.

Pam, felly, y penderfynodd bortreadu Iesu fel merch? Dywed Aled Jones Williams mai benywaidd fu'r Duwdod iddo ef erioed. Efallai bod cred Aled Jones Williams fod merched, o'i brofiad ef, yn gymeriadau cryfach na dynion yn rheswm dros hynny. O ganlyniad, nid teyrnas Dduw a geir yn y ddrama ond, yn hytrach, Gweriniaeth Mama. Ond roedd yn fwriad gan y dramodydd hefyd i '[f]alu'n rhacs y grefydd wrywaidd a ddatblygodd yn Gristionogaeth, gyda'r pwyslais ar Iesu y gwryw ... Mae ymhob crefydd amwysedd tuag at y benywaidd a'r rhywiol a byddai portreadu Iesu fel gwraig yn tansilio hynny'.⁴⁴ Dywed fod rhywbeth yn fenywaidd iawn yn y portread o Iesu'r efengylau 'hefo locsyn, llygid glas a gwallt hir melyn'⁴⁵ ac roedd ei bortreadu fel merch yn ddatblygiad naturiol o hynny.

Yn ddiamheuaeth, prif fwriad Aled Jones Williams wrth ysgrifennu'r ddrama hon oedd codi cwestiynau. Ond trwy wneud hynny, pair i'w gynulleidfa hefyd feddwl am eu crefydd eu hunain, gan roi caniatâd iddynt hwythau gwestiynu ac aildehongli heb deimlo'n euog am wneud hynny:

Mae 'na ryddhad mawr mewn gwybod nad yw Aled Jones Williams sy'n Ficer ... yn gallu ateb gyda dim mwy o sicrwydd na mi. Yr hyn sy'n rhyfeddol am Aled Jones Williams, fodd bynnag, yw ei fod o'n gwybod pa gwestiynau i'w gofyn, a'i fod o'n meiddio gwneud hynny ar lwyfan cenedlaethol. Efallai nad yw pawb yn sylweddoli cymaint anos a chymaint dewrach yw hynny na chynnig un ateb ac un gwirionedd a glynu wrtho fel gelen.⁴⁶

Roedd troi'r ddelwedd draddodiadol sy'n bodoli o Iesu ar ei phen trwy bortreadu Iesu fel merch yn un o'r technegau a ddefnyddiodd i geisio taflu'r gynulleidfa oddi ar ei hechel a pheri iddi holi o'r newydd, o safbwynt cwbl wahanol, pwy mae hi yn ei feddwl yw Iesu gan ei 'rhyddhau o afael dogmatig yr eglwys a sawl diwinydd':⁴⁷ 'Dwi'n gobeithio; fwy na siocio, gwneud i rywun feddwl ac mae gwneud i rywun feddwl yn bwysicach na rhoi sioc iddyn nhw'.⁴⁸ Yn wir, dyna a geir yn y ddrama: dehongliad newydd o'r ysgrythurau, dehongliad Aled Jones Williams o bwy yw ei Iesu ef:

⁴⁴ Aled Jones Williams, yn 'Iesu! – drama newydd',

<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/iesu.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁴⁵ Aled Jones Williams, *Iesu!* (Llandysul, 2008), t. 21.

⁴⁶ Gwenan Mared, 'Y Stori fwyaf?', *Barn*, 548 (Medi 2008), 36.

⁴⁷ Williams, 'Rhyw lun ar ragair', *Iesu!*, t. 5.

⁴⁸ Aled Jones Williams, yn 'Iesu! – drama newydd',

<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/iesu.shtml>>.

beth sydd ganddo chi yn y diwedd ydi dehongliad [ond] faswn i ddim mor rhyfygus a dweud ‘Yr Efengyl yn ôl Aled’ – ond i fod yn berffaith onest y dehongliad yma o sut yr ydwi i yn ymateb felly fy ymateb i ydi hwn.⁴⁹

Bu trafod brwd ar y ddrama, nid yn unig wedi iddi gael ei pherfformio ond cafwyd sesiynau trafod arni ledled Cymru cyn hynny. Dywed rhai mai dyma’r ddrama fwyaf dadleuol iddo’i hysgrifennu. Ond a yw mor chwyldroadol â hynny mewn gwirionedd? Pa mor newydd a gwahanol yw dehongliad Aled Jones Williams? Ys dywed Gwenan Mare, ‘Ydi, yn y cynhyrchiad hwn, mae Iesu yn ferch – och a gwae – ond a oedd hynny, mewn gwirionedd, yn ddigon i sawl un ei labelu’n gabledd’?⁵⁰

yn yr efengylau mae gennyh chi bedair stori a’r cwestiwn mawr oedd, a oeddwn i’n mynd i ddefnyddio’r geiriau oedd yna ynteu oeddwn i’n mynd i greu rhywbeth arall ac mi benderfynais ddilyn beth sydd yna ac ar un wedd trio creu efengyl arall.⁵¹

Y mae sawl llenor dros y canrifoedd wedi portreadu Iesu fel merch, ys dywed Aled Jones Williams ei hun: ‘Theologically there is nothing new in this ... The great medieval mystic Julian of Norwich wrote about God as a woman and feminists theology is flourishing.’⁵² Yn elfennol, yr un un Crist yw hi ag a gawn yn y Beibl; Crist sy’n arddangos ‘cariad diamod, cariad cyffredinol, cariad Cristnogol cyfarwydd’,⁵³ a’r cariad hwnnw sy’n ganolog i’w chymeriad. Nid yw rhywedd y Crist yn berthnasol o gwbl. “[Y] Gair a wnaethpwyd yn gnawd”, mae’r cnawd hwnnw’n gnawd benywaidd a gwrywaidd, ond bod yr eglwys – yn enwedig yr eglwys Brotestannaidd – wedi dewis hepgor y benywaidd.⁵⁴ Yn wir, ceir yn y ddrama ‘dalpau o ddysgeidiaeth y Crist traddodiadol. Mae damhegion a sawl golygfa arall heb eu newid fawr ddim’.⁵⁵ Yr un yw dysgeidiaeth Iesu’r ddrama â Iesu’r Beibl a’r un yw’r digwyddiadau yn eu hanfod: mae Jiwidas yn bradychu Iesu am arian ac o

⁴⁹ Aled Jones Williams, yn ‘Iesu! – drama newydd’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/iesu.shtml>>.

⁵⁰ Mare, ‘Y Stori fwyaf?’, *Barn*, 36.

⁵¹ Aled Jones Williams, yn ‘Iesu! – drama newydd’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/iesu.shtml>>.

⁵² Aled Jones Williams, yn Adam Somerset, ‘A vibrant, energising piece of theatre’, <http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?reviewID=1963>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

⁵³ Nic Ros, ‘Mil o ddehongliadau – caboledig nid cableddus’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2008/sites/ormaes/iau07/iesu-02.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

⁵⁴ Williams, ‘Rhyw lun ar ragair’, *Iesu!*, t. 5.

⁵⁵ Ros, ‘Mil o ddehongliadau – caboledig nid cableddus’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2008/sites/ormaes/iau07/iesu-02.shtml>>.

ganlyniad fe'i croeshoelir hi; ceir cyfeiriad at Iesu yn gwylltio yn y deml a cheir aralleiriad o rai o adnodau'r Beibl, 'Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd oherwydd eiddynt hwy yw'r weriniaeth',⁵⁶ yn ogystal â golygfa gofiadwy ble mae Iesu mewn clwb nos yn adrodd dameg y Mab Afradlon. Cymysgedd o'r Beiblaidd a'r bydol a gawn:

Oddna ddyn reit, reit, oddna ddyn a gyna fo dau mab oce *two sons* un mawr a un bach a dyma'r un bach yn deud wrth 'i hen go, hen go dwisio'r macs ti'n mynd i adal i fi yn dy *will* pan ti'n snyffio hi, dwisio fo wân.⁵⁷

Cynigia Aled Jones Williams ddehongliad amgen i ni o'r hyn a geir yn y Beibl, wedi'r cwbl, dehongliad o ddigwyddiadau yw'r hyn a geir yn y Beibl hefyd, y 'stori swyddogol'⁵⁸ ys dywed Jiwidas:

Jiwidas: Be ydy hanes ond stori'r concwerwr.⁵⁹

Yn ystod y ddrama, mae'r cymeriadau yn aml yn cyfeirio at y 'stori swyddogol' o'r hanes a geir yn y Beibl, hynny yw, yn trafod yr hyn sydd wedi digwydd yn y dyfodol. Dyna pam nodir ar ddechrau'r ddrama ei bod wedi'i gosod yn y modd gorffennol-presennol. Ond trwy wneud hynny, awgrymir nad llwyr wirionedd mo'r ysgrythurau gan i'r 'stori swyddogol' gael ei threfnu o flaen llaw ac felly bod lle i gwestiynu ac ailddiffinio. Gweler yr enghraifft isod o ddeialog rhwng Peilat a Iesu cyn iddi gael ei chroeshoelio, sy'n enghraifft o arddull hunanymwybodol, ôl-fodernaidd y dramodydd:

Peilat: Ond drycha! (**Mae'n agor cwpwrdd derw, hardd.**)

Dyma lun ohonot ti! Llun gan un o arlunwyr mwya'r byd. Michelangelo Buonarroti! Eidalwr, fel finna! Ond nad ydi o wedi'i eni eto! Llun o'r hen ddyddia, ychydig cyn iddo fo farw ... O! a gyda llaw, pan ddôn nhw i gofnodi'r cyfarfyddiad hwn rhyngon ni, fydd yna ddim arlliw o'r sgwrs hon yn y fersiwn brintiedig, freintiedig, swyddogol. Chdi fydd yn gwneud y siarad bron i gyd yn fan'no, athronydd. Rŵan 'ta! Well i'r bobl gael gwneud eu dewis, ia? Deud eu deud! (**Mae'n agor y ffenestri ac yn ymddangos i'r bobl sy'n gweiddi dano:**

Barabas! Barabas! Barabas!

Ond beth am Iesu!

(**Mae'n dangos Iesu iddynt**)

Y Bobl: *Croeshoelia hi! Croeshoelia hi! Croeshoelia hi!*

⁵⁶ Williams, *Iesu!*, t. 34.

⁵⁷ Williams, *Iesu!*, t. 34.

⁵⁸ Williams, *Iesu!*, t. 59.

⁵⁹ Williams, *Iesu!*, t. 45.

Peilat: Filwyr! Ewch â hi. Croeshoelie'r hi! O! a dowch â phowlennaid o ddŵr i mi. Yn y stori fel ag y bydd hi, dwi'n golchi nwylo ar y pwynt yma, tydw i ddim?⁶⁰

Cynigir sawl esboniad am sut y daeth nifer o'r straeon Beiblaidd i fodoli a'r portread o Iesu fel dyn yn hytrach nag fel merch. Ceir enghreifftiau yn ystod y ddrama lle mae Aled Jones Williams yn cynnig dehongliadau amgen o'r hanes i'r hyn sy'n gyfarwydd megis mai stori a grëwyd er mwyn rhoi gobaith i bobl yw hanes yr atgyfodiad ac na laddodd Jiwidas ei hun wedi'r croeshoeliad mewn gwirionedd, ond yn hytrach:

Jiwidas: 'N lladd i'n llenyddol ddaru nhw. Mi oedd yn raid i mi ffitio hefo'r adnodau, ti'n dalld. Cal 'n stwffio i staes hen broffwydoliaeth. Maes y gwaed a ballu. 'Dan ni'n ysgrythurau rŵan. Chdi a fi.⁶¹

Dyma'r elfen o'r ddrama a gythruddodd rai o'i chynulleidfa ac yn enwedig felly Gristnogion a oedd yn feirniadol iawn, nid yn unig o'r ddrama, ond o'i hawdur yn ogystal a oedd, ar y pryd, yn berson plwyf, am ffurfio dehongliadau a oedd, yn eu barn hwy, yn tanseilio'r hyn a geir yn y Beibl:

Mae rhagfarn a rhagdybiadau Aled Jones Williams wedi llwyddo i gymylu a chamddehongli'r portread a geir o'r Iesu yn yr efengylau Beiblaidd ... Mae'r ffordd y mae Aled Jones Williams yn camddehongli'n fwriadol yn arwain at gabledd, twyll a chyfeiliornix diesgus – ac yntau'n ficer cyflogedig yr Eglwys yng Nghymru!⁶²

Ond dywed y dramodydd nad at yr Eglwysi a'u haelodau yr anelodd y ddrama, ond at y bobl sydd y tu allan i'r Eglwys gan geisio ennyn eu diddordeb hwy yn y person a elwir yn Iesu. Dyma paham y portreadodd Aled Jones Williams Iesu fel person o gig a gwaed, person meidrol yn hytrach na pherson ysbrydol, goruwchnaturiol a phellgyrhaeddol. 'Mae hi'n reddfól o blaid y tlodion, yr òd a'r esgymun ac yn gwbl wrthawdurdod. Nid oes cyfaddawd ynddi. Eto ar brydiau mae hi'n crefu cwmpeini cnawd arall. Bregus a chadarn yw hi.'⁶³ Y mae'r Iesu hon yn ymddangos yn ansicr ar brydiau, yn mynegi ofn ac yn cwestiynu'i hun yn gyson:

⁶⁰ Williams, *Iesu!*, t. 52.

⁶¹ Williams, *Iesu!*, t. 62.

⁶² Meirion R. Thomas, 'Pa Iesu? Ymosod ar ddrama "anfoesol"', *Golwg*, 20/45 (31 Gorffennaf 2008), 36.

⁶³ Williams, 'Rhyw lun ar ragair', *Iesu!*, t. 5.

Iesu: Pwy? Pwy? Pwy ydw i? Pwy? Pwy mae nhw'n 'i ddeud ydw i?⁶⁴

Gwyddai Aled Jones Williams mai methiant fyddai unrhyw ymgais i bortreadu Iesu ‘gan fod y cymeriad yn rhwym o fod yn fwy na’r portread – ond boed iddo fod yn “fethiant” gwych, yn “fethiant” gonest!’⁶⁵ Adleisir ei eiriau yng ngeiriau olaf Jiwdas wrth Iesu yn y ddrama:

Jiwdas: Llwyddiant 'ta methiant oeddat ti?

Iesu: Methiant.

Jiwdas: Ond methiant gogoneddus!⁶⁶

Ceir adrannau hirion a dyrys iawn o’r ddrama lle mae’r dramodydd yn dueddol o athronyddu am grefydd a ffydd ac wrth ddarllen y sgript, gofynnant am ail a thrydydd darlleniad, rhywbeth nad yw’n bosibl wrth gwrs wrth wyllo perfformiad. Clywir llais y dramodydd yn glir yn yr adrannau hynny ac, o’r herwydd, perthyn elfen bregethwrol iddynt.

Dywed Aled Jones Williams na fyddai byth yn ysgrifennu drama sy’n seiliedig ar stori gyfarwydd neu hanesyn gwirioneddol fyth eto:

Blip ydi *Iesu!* i mi a dweud y gwir yn onest. Faswn i byth yn sgwennu ddim byd fel’na eto ...Yn ôl i’r personol, i’r elfen deuluol yna faswn i yn mynd ... Mi ofynnodd Arwel [Gruffydd] i mi pan roedd o’n gweithio efo’r Sherman os oedd gen i ddrama. Argol oes medda fi, mae gen i ddrama am y berthynas rhwng Lloyd George ac Earl Haig ... ac o’n i’n meddwl, w ia, *Iesu!* rhan dau ydi hwn. Fethais i sgwennu’r peth yn llwyr.⁶⁷

Fodd bynnag, nid *Iesu!* yw’r unig ddrama o’i eiddo sy’n codi cwestiynau ynglŷn â chrefydd ac am grefydd. Mae i’r ddrama *Ta-ra Teresa* neges led-Gristnogol yn ogystal. Yn wir, dywed Nic Ros mai hon oedd drama fwyaf Cristnogol Aled Jones Williams pan lwyfannwyd hi gyntaf yn 2002:

Trwy glymu’r pedwar cymeriad ynghyd, boed hynny mewn modd eithafol megis llosgach hyd yn oed, mynegir y neges Gristnogol ein bod ni oll, ar ddiwedd y dydd yn rhan o’r un ddynoliaeth.⁶⁸

⁶⁴ Williams, *Iesu!* (Llandysul, 2008), t. 15.

⁶⁵ Williams, ‘Rhyw lun ar ragair’, *Iesu!*, t. 5.

⁶⁶ Williams, *Iesu!*, t. 63.

⁶⁷ Cyfweiliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

⁶⁸ Ros, ‘Rhwng rhag a rhethreg’, yn Ros (gol.), *Disgwyl Bys yn Stafell Mam*, t. 33.

Ond nid Cristnogaeth, yng nghyswllt ffydd Babyddol Rufeinig sigledig Johnny neu Gapel Eirwen, yw'r unig ffydd yr ymdrinnir â hi yn y ddrama. Y mae 'neges Fwdiaidd ei naws yn y ddrama hefyd, sef fod yn rhaid i bob unigolyn gymryd cyfrifoldeb dros ei weithredodd ei hun a thros yr hyn ydyw'.⁶⁹ Try Robat Hefin at Fwdiaeth, fel y gwnaeth y dramodydd, gan nad oedd 'capal nac eglwys nac emyn na Beibl wedi golygu dim byd imi ers duw a wŷr pryd'.⁷⁰ Ac er y torrwyd llawer o'r elfennau Bwdiaidd o'r sript gan gyfarwyddwr y ddrama, Ian Rowlands, gan y credai eu bod yn 'rhy bregethwrol'⁷¹, y mae geiriau olaf Robat a geiriau olaf y ddrama, yn crisialu un o brif athrawiaethau'r gred honno:

ROBAT: Fod atgyfodiad ... Unrhyw fywyd newydd ... yn dibynnu ar farwolaeth. Ac mai nid diwedd ydy marwolaeth wedi'r cwbl. Ond drws.⁷²

Ac eithrio yn *Ta-ra Teresa*, Cristnogaeth ymneilltuol Gymreig yw'r grefydd sydd o dan y chwyddwydr yn bennaf yng ngweithiau Aled Jones Williams. Y mae amryw o'i gymeriadau fel petaent wedi colli unrhyw ffydd a oedd ganddynt ond eto, ar yr un pryd, ceisiant sicrwydd o fodolaeth Duw, un ai i'w feio am eu trallod neu yn y gobaith y cânt eu hachub o'u sefyllfaoedd truenus. Y mae cymeriad Llais 1 yn *Cnawd* bellach wedi chwerwi gyda chrefydd ac yntau'n cerdded strydoedd Caernarfon yn nhrymder nos:

Llais 1: Be' ydy' dy destun di at 'fory? ...Y? ... Feiddi di ofyn i'r pitsh pein sy'n saim o dina' ddoe: Lle ffwc ydy' fan hyn? ... Na! cadw di at grimala dy emyna' a rwmatic dy feibil.⁷³

Yr un modd, y mae Alji yn *Wal* yn dweud nad oedd Duw yn bresennol yn ei fywyd yntau pan oedd wirioneddol ei angen:

EDDY: A duw uwch 'n penna ni'n gwenu ... Ma' Duw yn bobman tydi o?
ALJI: W'th gwrs 'i fod o! ... Peth hawdd ydi bod yn bobman ... Anoddach ydy bod mewn un lle penodol ... Mewn lle brwnt, ffiidd, anghynnes, hyll ... Fel am dri mis solat yn gwatjad dy dad dy hun yn dadfeilio a'i frên o'n soeglyd fel cadach llawr wrth i dementia 'i holhti o'n ddarna mân ... Mond fi a Mam o'dd yn fanno ... Tra roedd duw yn 'i jolihoitian hi ym mhobman.⁷⁴

⁶⁹ Ros, 'Rhwng rheg a rethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 33.

⁷⁰ Aled Jones Williams, 'Ta-ra Teresa', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 161.

⁷¹ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 16.

⁷² Williams, 'Ta-ra Teresa', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 178.

⁷³ Aled Jones Williams, *Cnawd* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1996), t. 3.

⁷⁴ Aled Jones Williams, 'Wal', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 99.

A phan ofynna Eddy iddo a oes bywyd ar ôl marwolaeth, etyb Alji trwy ddweud: ‘Paid â holi cwestiyna ddoe ’nei di?’⁷⁵ cyn dyfynnu rhan o emyn Ann Griffiths. Ni all Patric yn *Tiwlips* ychwaith ddirnad y posibilrwydd o Dduw a bywyd tragwyddol o ystyried yr artaith y mae’n ei ddioddef:

PATRIC: Be ydy “Mynd at Iesu Grist”: darfod, peidio bod, drewi, madru, marw, twllwch oer-oer.⁷⁶

Mae y Gŵr yn *Pêl Goch*, sydd fel petai rhwng dau fyd, yn ysu am y sicrwydd o fodolaeth Duw a’r posibilrwydd o atgyfodiad wrth i’w amser yno ddod i ben, ‘ac mae adleisiau penodol o *Wrth Aros Godot*, Samuel Beckett, yn ei fethiant i weddio’.⁷⁷ Ond dywed y Wraig wrtho, yn fwriadol er mwyn dinistrio unrhyw lygedyn o obaith a oedd ganddo, na fydd unrhyw beth ond ‘gwacter lle roedd yna rywun unwaith’.⁷⁸ Cred Johnny yn *Ta-ra Teresa* mai Duw roddodd yr arwydd iddo fynd i Gymru gyda’r ferch ond pan sylweddola nad yw Cymru yr hyn a obeithiodd iddi fod, beio Duw a wna am ei arwain yno. Yr un modd, beio Duw a wna Tom yn *Fel Stafell*, yn gyntaf am gymryd Gwen oddi wrtho ac yn ail oherwydd mai eu trafodaethau am grefydd ac athrawiaethau crefydd ddaeth â Gwen a Martin at ei gilydd. Ac er bod Jona yn *Lysh* ar un llaw yn gwrthod y posibilrwydd o Dduw, y mae ar y law arall yn dyheu am ei fodolaeth:

Tei rhad!
Y pwn wyt yn y nidoedd.
Sach hudder pob menyw
Dued dy ffwrnais
Seler datws a phub
Syllu’n darn ar bob clefyd
Pero y ci hudda
Ein baba barddonol
A adda ein dadinioll
Swêl y smwddiwn ninnau ein dilladau
Ac – ac darwin i brofi aeth
Eithaf gwaed a ffagl a mwg.
Carys! Eiddon! Tom! A Teyrnon!
A’r gwall a’r hen nodiant

⁷⁵ Williams, ‘Wal’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 105.

⁷⁶ Aled Jones Williams, ‘Tiwlips’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 121.

⁷⁷ Nic Ros, ‘Bardd Sy’n Haeddu Llwyfan’, *Barn*, 422 (Mawrth 1998), 12.

⁷⁸ Aled Jones Williams, ‘Pêl Goch’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 45.

Ceir peth trafod ar grefydd yn *Chwilys* hefyd gyda ‘moment anghyfforddus pan waedda Dyn 2, “Dwi ddim yn credu mewn Duw” ... Ceir hefyd ambell sylw sinigaidd megis mai beth [*sic*] mae rhywun yn ei gredu’n gyhoeddus sy’n cyfri. Awgrymir felly nad yw’r credoau cyhoeddus a’r credoau mewnol yn aml yr un.’⁸⁰ A dyna’n union yr achos gyda chymeriadau *Y Dyn Llnau Bogs*. Er mai person (yn yr ystyr Eglwysig) yw cymeriad Dyn 3 a bod gweddill y cymeriadau hefyd, ar ryw gyfnod, wedi mynychu capel neu eglwys, nid ydynt yn fodlon cyfaddef nad yw’r drefn honno’n berthnasol i’w bywydau mwyach, ac eironig iawn yw’r sylw isod:

Y Dyn: Y Seintwar! ... Be’ mae o’n ’i feddwl ’lly?
Saib.
Dyn 2: Lle lle’r yda ni’n medru bod yn ni’n hunan yno fo ... Lle sâff ... fel eglw’s.⁸¹

Fel yn achos eu hawdur, er nad yw crefydd yn ei ffurf draddodiadol Gymreig yn berthnasol i fywydau’r cymeriadau mwyach, mewn sefyllfaedd argyfyngus, gwelir bod rhyw ffurf o Dduw yn parhau i fodoli:

Jona: Be wn
i bellach os oes yna dduw neu beidio.
Mae yna ambell i gwestiwn sy’n rhy
fawr i’r ateb. Oes? neu Nagoes?
Waeth i mi ddeis ‘oes’ ddim. Gan
fod y ddau ateb gyn wirionedd â’i
gilydd. A am fod yna rai pethau
sydd wedi digwydd i mi sy’n
amhosibl eu hesbonio heb o leiaf y
posibilrwydd o dduw. Mi setla-i felly
ar adael cadair wag yn fy nychymyg.⁸²

I gymeriadau eraill, y mae crefydd yn rhywbeth i guddio y tu ôl iddo ac fe’i ddefnyddir i greu’r argraff o barchusrwydd. Ond ffug yw parchusrwydd a chrefydd y cymeriadau hyn. Ystyrier cymeriad mam Sandra yn *Lysh* fel enghraifft:

⁷⁹ Williams, *Lysh*, t. 64.

⁸⁰ Non Meleri Hughes, ‘*Chwilys: Artaith bleserus*’, <<http://tuchwith.com/2010/03/adolygiad-o-chwilys-drama-newydd-aled-jones-williams-gan-non-meleri-hughes/>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

⁸¹ Aled Jones Williams, *Y Dyn Llnau Bogs* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1994), t. 19.

⁸² Williams, *Lysh*, t. 76.

Sandra: 'Duw Cariad Yw,' medda Mam o gledwch pitj-pein ei sêd yn y capal. A finna'n nabod y Basdad Brwnt oedd yn lojan yn ei hemosiyna hi⁸³

Neu gymeriad Yncl Jo yn *Tiwlips* a wrandawai ar recordiad o *Jesus Joy of Man's Desiring* tra'n gwylio sleidiau o ddynion yn cam-drin Patric.

Ar dudalen gefn y ddrama *Iesu!*, dywedir bod y 'ddrama heriol hon yn dad-grefyddu Iesu o Nasareth a'i thynnu o'r byd ysgyfala ymneilltuol Cymraeg, byd y llyfr hymns a'i beiblau duon, i ganol y byd modern – byd Herod a Pheilat, Caiaffas a Jiwdas.'⁸⁴ Os felly, a ellir dweud mai drama grefyddol yw *Iesu!*? Er bod y ddrama yn mynd i'r afael â chwestiynau crefyddol, nid crefydd mo'r thema ganolog ynddi:

Er na faswn i'n disgrifio *Iesu!* fel drama grefyddol fel y cyfryw y mae hi'n codi cwestiynau perthnasol ynglŷn â rôl crefydd uniongred, gan gynnwys fy nghrefydd fy hun, yn arbennig ar ôl Medi'r unfed ar ddeg.⁸⁵

Cred Aled Jones Williams fod angen ailddiffinio crefydd a hynny mewn byd o drais a rhyfel a grëwyd gan ein gwleidyddion, oherwydd, yn ei ôl ef, ni ellir dweud fod 'Duw yr un heddiw ag oedd o yn 1902'.⁸⁶ Yn wir, yng ngweithiau Aled Jones Williams, mae yna berthynas glòs rhwng crefydd a gwleidyddiaeth ac amlygir hynny'n bendant yn *Iesu!* gyda dyfyniadau o areithiau George W. Bush a Rumsfelt yn ymddangos ar y sgrin sy'n rhan o'r set. Gwleidyddion ein hoes ni a gawn yng nghymeriadau Caiaffas, Herod a Peilat yn y ddrama, gyda Peilat, yn y llwyfaniad o'r ddrama, yn 'annerch y dorf yn null gwleidyddion America'.⁸⁷ Yn wir, mor flaenllaw yw cymeriad y gwleidydd Peilat o fewn y ddrama, hyd nes dywed Aled Jones Williams y gellid bod wedi galw'r ddrama'n *Peilat* yn hytrach nag *Iesu!* gan mai canolbwyntio ar ei gymhellion ef y mae. Mae'r ddrama'n bwriadol atgoffa'r gynulleidfa o'r sefyllfa wleidyddol yn y Dwyrain Canol pan gyfansoddwyd y ddrama a rhan flaenllaw Prydain ac America yn y rhyfel yn Irac, megis yr olygfa pan dreisir Iesu 'gan filwyr hynod

⁸³ Williams, *Lysh*, t. 31.

⁸⁴ Williams, *Iesu!*, t. clawr ôl.

⁸⁵ Aled Jones Williams, yn 'Addo Profiad anghyfforddus: Dadl drama yn ei gweld', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2008/sites/ormaes/mawrth05/iesu.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁸⁶ Aled Jones Williams, yn 'Croma: eitem ar y gyfrol 'Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun'', *Cwmni Da* (22 Mehefin 2001).

⁸⁷ Lona Evans, 'Adolygiad o Iesu', *Cristion*, 151 (Gaeaf 2008), 22.

debyg i'r rhai sy'n gwasanaethu'r Gorllewin yn Irac a Bae Guantanamo'.⁸⁸ Ond cred Aled Jones Williams y golyga hyn fod y ddrama wedi dyddio llawer ers ei chyfansoddi. Un o brif themâu'r ddrama yw sut y mae gwleidyddion yn defnyddio crefydd, a dywed Peilat yn y ddrama ei bod yn bosib cyfiawnhau'r erchyllterau mwyaf trwy ddweud mai ewyllys Duw oedd yn gyfrifol. O ganlyniad, gall crefydd fod yn rym ac yn arf peryglus iawn i wleidyddion fel ef:

Peilat: Crefydd ydy'r ffenomen berycla ym meddiant y ddynoliaeth. Wyddoch chi hynny? Peryclach na thaflegryn niwcliar hyd yn oed. A wyddoch chi pam? Am na all rheswm, er trio – O! er trio'n glew [*sic*] ers canrifoedd bellach – am na all rheswm na'i rhwydo na'i rhwystro hi.⁸⁹

Yr un modd â *Iesu!* mae *Chwilys* hefyd yn archwilio'r themâu o grefydd a gwleidyddiaeth a'r cysylltiad cryf a geir rhyngddynt.

Perfformiwyd *Chwilys* am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent, 2010 gan Owen Arwyn a Martin Thomas ar ran Cwmni Theatr Tandem mewn cydweithrediad â Chwmni Theatr Bara Caws gyda Valmai Jones yn cyfarwyddo. Fe'i llwyfannwyd ar y cyd â'i 'chyfneither',⁹⁰ sef drama arall o eiddo'r dramodydd, *Merched Eira*, cyn iddi fynd ar daith yn annibynnol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Dau ddyn mewn fflat ac un ohonynt yn cerdded allan o gwprdd dillad oedd y ddelwedd a roddodd fodolaeth i *Chwilys*. Nid oes gan y ddau ddyn enwau personol dim ond Dyn 1 a Dyn 2. Llofrudd proffesiynol yw Dyn 2 sydd wedi'i anfon i lofruddio Dyn 1 am ei fod yn derfysgwr. Academydd, darlithydd prifysgol a phrifardd coronog yw Dyn 1 sydd ar ei ffordd i roi anerchiad mewn lansiad o gyfieithiad o gyfrol ddiweddaraf Igmor, *Abibi*, a gyfieithwyd ganddo i'r Gymraeg. Ceir elfen absŵrd i'r ddrama wrth i Dyn 2 gamu allan i'r llwyfan o'r cwpwrdd dillad. Y mae wedi'i wisgo'n hynod drwsiadus a chanddo liniadur, sy'n cynnwys manylion am fywyd Dyn 1, a chês sy'n cynnwys offer deintyddol y mae'n bygwth eu defnyddio er mwyn perswadio Dyn 1 i gyfaddef i'r cyhuddiad yn ei erbyn. Gweithredu'n ôl cyfarwyddyd rhyw awdurdod uwch y mae Dyn 2 a ffonia'r awdurdod hwnnw ar ddechrau'r ddrama i'w hysbysu fod y gwaith wedi'i wneud. Y mae diffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru* o'r gair *chwilys* yn amlygu'r bethynas rhwng crefydd a gwleidyddiaeth a

⁸⁸ Y Parchedig Aled Edwards, 'Gorfodi cwestiynau', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2008/sites/ormaes/mercher06/iesu-aled.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁸⁹ Aled Jones Williams, *Iesu!* (Llandysul, 2008), t. 43.

⁹⁰ Gwyn Griffiths, 'Deuawd Aled Jones Williams', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod/2010/safle/ormaes/bara-caws.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

geir yn y ddrama, sef ‘Llys eglwysig, diarhebol am ei greulonder a sefydlwyd yn y 13g. gan y Pab Innocent III dan reolaeth corff llywodraethol canolog yn Rhufain i atal heresiaïau ac i gosbi hereticaïd’.⁹¹ Ystyr arall i’r gair yw llys chwilio, a thrwy gydol y ddrama, yr hyn a wna Dyn 2 yw chwilio am dystiolaeth ym mywyd a gorffennol Dyn 1 a’i groesholi er mwyn cadarnhau mai terfysgwr ydyw. Y mae’n grediniol fod Dyn 1 wedi treulio amser ym Mhacistan, er bod Dyn 1 yn gwadu hynny, ac mae’r ffaith fod ganddo gopi o’r Corân ar ei silff lyfrau, iddo fod yn Sbaen adeg y bomio ym Madrid, ei fod wedi’i garcharu unwaith am brotestio dros yr iaith, ei fod mewn cariad gyda merch o’r enw Aminah sy’n hanu o Bacistan, ei fod wedi prynu hylif lliwio gwallt ddau ddiwrnod yn olynol a bod bag cefn yn yr ystafell, oll yn cael eu defnyddio i greu achos yn ei erbyn. Ac er iddo ef fynnu nad oes dystiolaeth yn ei erbyn, y mae llygedyn o amheuaeth yn cael ei greu ymysg y gynulleidfa am ei ddiniweidrwydd a sylweddolwn ‘mor hawdd yw ein dylanwadu’r naill ffordd neu’r llall ac mor anwadal yw ein daliadau’,⁹² ac ein bod ninnau hefyd o dan y chwyddwydr. Yn wir, nid yw ein cydymdeimlad yn cael ei anelu tuag at Ddyn 1 trwy gydol yr amser. Y mae Aled Jones Williams, fel Meic Povey yn achos Tom yn *Perthyn*, yn sicrhau bod rhywfaint o dosturi at bob un o gymeriadau ei ddramâu, hyd yn oed y rhai mwyaf atgas, megis Yncl Jo yn *Tiwlips*: ‘Yn wir, dyma awdur eofn yn ei driniaeth o bobl a’u problemau, gyda’r gallu i roi calon a chnawd ar gymeriadau mor ddryslyd â phaedoffiliaid hyd yn oed.’⁹³ Pan fo Dyn 2 yn siarad yn gariadus ar y ffôn gyda’i blant tra mae ei wraig yn yr ysbyty, gwelwn mai bod dynol yw yntau wedi’r cwbl, er ei waith fel llofrudd proffesiynol, a dywed mai er mwyn amddiffyn ei blant a’u cadw’n ddiogel y mae’n gwneud y gwaith.

Nodir yn y testun y dylai’r actorion ffeirio cymeriadau ar wahanol nosweithiau ac er y gwnaethpwyd hynny yn yr ymarferion, pan lwyfannwyd y ddrama, penderfynwyd y byddai’r actorion yn cadw at yr un cymeriad. Cynigiodd Aled Jones Williams ddau ddiweddglo posibl ar gyfer y ddrama hon gan roi’r dewis i’r actor a bortreadai Dyn 2 pa ddiweddglo i’w lwyfannu ar ddiwedd pob perfformiad a hynny heb wneud y penderfyniad o flaen llaw. Yn un diweddglo, saetha Dyn 2 yr academydd yn ei dalcen cyn ffonio’i fos i ddweud wrtho fod Dyn 1 wedi cyffesu ei fod yn derfysgwr ond ei fod yn gwybod nad ydoedd mewn gwirionedd. Yn yr ail ddiweddglo posibl, gorchuddia Dyn 2 ben Dyn 1 gyda mwgwd, anelu ei wn ato cyn troi’r gwn i’w gyfeiriad ei hun a chyflawni hunanladdiad. Fodd bynnag, pan deithiwyd y ddrama, penderfynwyd y byddai’r actorion yn perfformio’r ddau ddiweddglo ar ddiwedd pob

⁹¹ ‘Geiriadur Prifysgol Cymru’, <<http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>>.

⁹² Hughes, ‘Chwilys: Artaith bleserus’, <<http://tuchwith.com/2010/03/adolygiad-o-chwilys-drama-newydd-aled-jones-williams-gan-non-meleri-hughes>>.

⁹³ Ros, ‘Rhwng rheg a rethreg’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 32.

perfformiad, ond o ganlyniad roedd cryn amwysedd ymysg y gynulleidfa ynglŷn â'r diwedd glo.

Wrth ymdrin â gwleidyddiaeth yn y ddrama hon, yr un yw bwriad y dramodydd ag ydyw gyda'r thema crefydd: peri i gynulleidfa gwestiynu.

'Da ni mewn blwyddyn lecsiwn a dyma'r ddrama fwya gwleidyddol i mi ei sgwennu erioed, amwn i. A gobeithio y byddan nhw [y gynulleidfa] yn mynd o'ma'n meddwl yn ddyfnach am wleidyddiaeth ... teimlo mwy o gynddaredd gobeithio am yr hyn sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diwetha ... a meddwl go iawn am wleidyddiaeth.⁹⁴

Yn ôl Aled Jones Williams, mae'r ddrama hon yn 'adlewyrchu'r paranoia sy'n bodoli ledled y byd ynglŷn â therfysgwyr ac a gredwyd gan Lywodraeth Prydain er mwyn 'cyfiawnhau'r rhyfela yn Afghanistan ac Irac'.⁹⁵ Dywed fel y mae gwleidyddion yn honni mai ceisio sicrhau diogelwch y maent ond, eu bod trwy geisio gwneud hynny, yn ein peryglu fwyfwy. Roedd yn amlwg, ac efallai yn rhy amlwg ar brydiau, mai bwriad y dramodydd oedd plannu llygedyn o amheuaeth ym meddyliau'r gynulleidfa ynglŷn â diniweidrwydd Dyn 1 cyn mygu'r amheuaeth drachefn, dim ond i'w ailgynnau unwaith eto. Roedd yr adrannau hynny lle cafwyd cipolwg ar fywydau personol y cymeriadau yn arbennig o ddifyr ac yn chwarae ar ein hemosiynau ac yn chwa o awyr iach mewn drama mor wleidyddol drwm. Byddwn wedi croesawu gweld mwy o'r agwedd honno yng nghwrs y ddrama.

⁹⁴ Aled Jones Williams, yn 'Wedi 7: eitem ar y ddrama Chwilys', *Tinopolis* (24 Mawrth 2010).

⁹⁵ Barry Thomas, 'Cyffwrdd ym mêr esgryn y theatr', *Golwg*, 22/29 (Ebrill 2010), 28-9.

2.2 Alcoholiaeth

Yr wyf fi yn caru alcohol. Hi ... yw fy nghariad cyntaf.⁹⁶

Ac yntau yn trafod ei orddibyniaeth mor agored, y mae'n gwbl hysbys fod Aled Jones Williams yn alcoholig. Rhwng 2002 a 2009 treuliodd bedwar cyfnod ar wahân yng nghanolfan *rehab* Castle Craig yn ceisio cael cymorth i roi'r gorau i yfed a hynny wedi cyfnod o un mlynedd ar bymtheg o ymwrthod ag alcohol. Pwysleisia'r llenor nad oes yna fyth reswm dros aildechrau yfed, ond mai'r hyn 'sydd wedi ei anfon i yfed yn y gorffennol, meddai yw nerfusrwydd, diffyg hunanhyder, a methu â bod yn onest efo'i hun ac eraill'.⁹⁷ Yn nhyb rhai, yr ymateb negyddol a fu i'w bryddest fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi 2002, 'Awelon', gyda sawl bardd megis Twm Morys ac Alan Llwyd yn awgrymu nad oedd yn teilyngu'r goron, a barodd iddo 'droi yn ôl at y botel',⁹⁸ fel yr awgrymodd y llenor ei hun:

Yr oedd yn brofiad arbennig ar y pryd ... Ond wedi dweud hynny, roedd ochr arall o fod yn difaru fy mod i wedi trio ... yr ochr sy'n gwneud i bobl fel fi fy hun deimlo nad ydan ni'n da i ddim mewn gwirionedd ... Os oes yna gant o bobl yn dweud fod hwn yn dda iawn a bod deg o bobol yn dweud nad ydi hwn ddim gwerth – am y deg yna yr af i nid am y cant ac felly mi es i yn or sensitif.⁹⁹

Fodd bynnag, dywed Aled Jones Williams dro arall nad y feirniadaeth negyddol ar ei waith a barodd iddo aildechrau yfed, ond, yn hytrach, mai'r llwyddiant a ddaeth yn sgil y fuddugoliaeth honno yn Nhyddewi a barodd iddo aildechrau yfed:

Dydi alcoholig, nac unrhyw un efo gorddibyniaeth, ddim yn lecio llwyddiant. Mae'n rhaid i chi fod yn fethiant o hyd. Felly mae llwyddiant yn beth peryg iawn. Mae hon yn thema, gyda llaw – fod gan bobl â gorddibyniaethau feddwl isel iawn ohonyn nhw'u hunain.¹⁰⁰

⁹⁶ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 11.

⁹⁷ Karen Owen, 'Dewis Bywyd nid y Botel', *Golwg*, 16/36 (20 Mai 2004), 25.

⁹⁸ Dienw, 'Pryder ficer alcoholig', <http://www.bbc.co.uk/welsh/hi/nwesid_3870000/newsid_3876800/3876861.stm>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁹⁹ Aled Jones Williams, yn 'O goron i botel', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/423-aled.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

¹⁰⁰ Aled Jones Williams, yn Manon Wyn Williams, 'Holi Aled Jones Williams', yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXIX* (Dinbych 2010), t. 11.

Gellid dadlau ei bod yn eironig y gallai beirniadaeth o'r fath gael cymaint o effaith ar awdur sydd mor ddadleuol ac fel petai'n mynd ati'n fwriadol i gicio yn erbyn y tresi pan yw'n cyfansoddi. Ei nod yw ennyn ymateb a chodi cwestiynau, ys dywed Gwenan Mared:

Hyd y gwela i nid yw Aled Jones Williams yn awdur sy'n poeni'n ormodol am farn pobl eraill, mae ganddo'i gythreuliaid personol i ymladd â nhw a fawr o amser dros ben i ymboeni am gythraul yr adolygydd na'r sylwebydd.¹⁰¹

Yn wir, ychwanegolyn, mewn gwirionedd, oedd yr ymateb a fu i 'Awelon', gan i'r llenor gyfaddef yn ddiweddarach ei fod wedi ailddechrau yfed beth amser cyn yr Eisteddfod Genedlaethol: 'doedd a wnelo'r goron – yn berffaith onest – ddim byd â'r alcoholiaeth'.¹⁰² Dywed y llenor fod yn rhaid i rai pethau ddyfod at ei gilydd, er mwyn creu amodau sy'n ei gyflyru i ailddechrau yfed. Yr elfennau hynny yw ei berthynas â'i fam, ei berthynas â'r Eglwys, a rhywbeth yn ymwneud â'r teulu.

Cyn yr Eisteddfod yn 2002, hysbyswyd Aled Jones Williams ei fod yn dioddef o'r clefyd *hyperparathyroidism* ac y byddai angen llawdriniaeth. Dyma gyflwr lle mae'r chwarennau parathyroid yn cynhyrchu gormod o'r hormon parathyroid ac mae lefelau uchel o'r hormon hwn yn niweidiol i esgyrn:

Nid wyf yn delio'n dda iawn â salwch personol. Mae pob dos o annwyd yn rhagdybio cansar yn fy meddwl. Ond yr oedd gennyf hyder perffaith yn Ms. Wagstaffe hyd nes iddi ddweud wrthyf y gallasai wrth opyreitio ar fy ngwddf dorri un o'r llinynnau llais. 'Roedd hynny'n ddigon i mi. Pam?

Fel y gŵyr unrhyw un sydd wedi darllen *Rhaid i Ti Fyned y Daith Honno dy Hun*, nid oedd gan fy nhad lais o werth gydol ei weinidogaeth ... Mam oedd yr eilbeth. Ar ôl marwolaeth fy nhad ym 1997 daeth Mam i fyw gyda ni yn y ficerdy. Nid oedd cael Mam a fi o dan yr unto eto yn syniad da o gwbl!

A'r trydydd? Crefydd. Er gwaethaf profiadau L'Arche – yn fwy na thebyg yr oeddynt yn pylu – roedd fy ffydd yn gwegian ac amheuaeth yn tyfu ... Yr oedd pregethu weithiau ar y Sul yn brofiad affwysol i mi, yn enwedig pan oedd y darlleniadau yn rhai na fedrwn wneud pen na chynffon ohonynt ac na fedrwn chwarae triciau geiriol o'u cwmpas ... Felly, o roi'r tri pheth hyn efo'i gilydd daeth fy hen gariad i ddweud Helo!¹⁰³

Mae'r dramodydd, yn y datganiadau uchod o'i eiddo sy'n trafod yr hyn a barodd iddo ailddechrau yfed, yn gwrth-ddweud ei hun. Nid am y tro cyntaf felly y sylweddolir bod rhaid

¹⁰¹ Gwenan Mared, 'Lyshio', *Barn*, 501 (Hydref 2004), 55.

¹⁰² Aled Jones Williams, yn Williams, 'Holi Aled Jones Williams', yn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol* XXIX, t. 12.

¹⁰³ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, tt .36-39.

camu'n ofalus wrth werthuso dilysrwydd datganiadau o eiddo'r dramodydd. Y mae hefyd yn dueddol o gynnwys gosodiadau ysgubol, awdurdodol ar brydiau, gosodiadau *ex cathedra*, pan yw'n trafod ei waith a'i fywyd ac felly cyfyd y cwestiwn o ba mor ddibynadwy yw tystiolaeth yr awdur ei hun fel ffynhonnell ymchwil:

- M.W.W.: Rydych chi wedi gwneud gymaint o gyfweiliadau dros y blynyddoedd, yn do?
- A.J.W.: A dwi'n deud pethau gwahanol ym mhob un! Dwi'n sylweddoli hynny ... Efallai, yn y bôn, nad ydw i'n gwybod dim byd. Ac felly mi fydda' i'n meddwl 'o ia, hwnna ydi o' heddiw, echdoe hwyrach mai hwnna oedd o. Does gen i ddim patrwm neu gynllun ... ac wedyn mi fydda' i'n cofio o le lasa hwnna fod wedi dwad.¹⁰⁴

Ni ellir gwadu, fodd bynnag, na fedda Aled Jones Williams ar argyhoeddiadau cryfion iawn am beth yw hanfod bod yn alcoholig. Yn ei ôl ef, chwilio am ebargofiant mae pob alcoholig. Yfed oherwydd poen a wna, poen gwaelodol sy'n mynegi'i hun mewn gwahanol ffyrdd, megis diffyg hyder. Ceisio cael gwared â'r poen hwnnw y mae'r alcoholig. Dywed mai '[s]hort cut ydi alcoholiaeth bob amser'.¹⁰⁵ Fodd bynnag, nid yw'n hoff o ddefnyddio'r term 'alcoholiaeth'. Ni chreda fod y fath beth â'r afiechyd alcoholiaeth, ond yn hytrach unigolion alcoholig yn trio dod i delerau gyda'u perthynas ag alcohol. O ganlyniad, nid yw'n cyd-weld â daliadau'r mudiad *Alcoholic Anonymous*:

Y gwir yw nad wyf yn or-hoff o AA. Mudiad crefyddol ydyw yn ei 'hanfod'. Mae i'r cyfarfodydd siâp litwrgi pendant. Mae 'duw' yn rhan allweddol o'u 'cred'. Mae ganddynt 'ysgrythur' a elwir-ie! –Y Llyfr Mawr (*The Big Book*). Daw pob cyfarfod i ben â gweddi ... Mae hefyd yn 'efengylaidd' iawn ei naws gan honni os nad yw rhywun yn rhan o AA. yna y bydd ef neu hi bownd o 'syrthio' ... Wedi dweud hynny, os yw'n gweithio iddynt hwy yna boed felly. Ond nid yw at fy nant i. Arwydd o rywbeth dyfnach yw alcohol nid y broblem waelodol. Yn ôl AA alcohol ei hun yw'r broblem oherwydd mai 'afiechyd' yw alcoholiaeth. Rwy'n gwrthod hynny. Cuddio anniddigrwydd mwy y mae. Mwgwd ydyw ar wyneb rhywbeth llawer hyllach.¹⁰⁶

Dywed hefyd na all 'oddef am yn hir iawn storiâu pobl yn sôn am eu helbulon alcoholig',¹⁰⁷ sy'n elfen bwysig o'r mudiad. Ond, gan ystyried fod y ddrama *Lysh* yn adrodd stori tri alcoholic, mae'r sylw hwn o'i eiddo yn eironig iawn. Y mae alcohol wedi rheoli rhan helaeth

¹⁰⁴ Cyfweiliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

¹⁰⁵ Aled Jones Williams, yn Williams, 'Holi Aled Jones Williams', yn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol* XXIX, t. 10.

¹⁰⁶ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, tt. 49-50.

¹⁰⁷ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 50.

o fywyd Aled Jones Williams, cymaint felly, nes ei fod wedi neilltuo hanner cyntaf ei hunangofiant, *Tuchan o Flaen Duw* (2012), ar gyfer trafod ei berthynas ef ag alcohol ac mae nifer helaeth o'r cerddi yn ei gyfrol, *Y Cylchoedd Perffaith* (2010), hefyd yn cyfleu taith alcoholaidd y bardd, megis y cerddi 'Addewidion', 'Holi', 'Tybed', 'Yr Adict', 'Y bore wedyn', 'Alcoholic', 'Credo', 'Y syrcais (gorddibyniaeth)', 'C2H5OH', 'Gwadu', '4, Bryn Hafan (Gwella)' ac 'Alcoholiaeth':

Alcoholiaeth

Moment o ias
a degawdau'n datod.¹⁰⁸

Yn 2008, bedair blynedd wedi i'r teulu ddychwelyd i Gymru, ailddechreuodd Aled Jones Williams yfed. Treuliodd bythefnos yn Castle Craig ond gorfu iddo ddychwelyd oherwydd iddo golli ei fam. Ond ym mis Chwefror 2009 cafodd gyfnod o bythefnos o yfed yn drwm unwaith yn rhagor ac yn ei hunangofiant, ceir disgrifiad manwl a phoenus o'r profiad. Dyma'r tro diwethaf iddo fod o dan ddylanwad y ddiod gadarn. Y tro hwnnw, disgynnodd mor isel nes bygwth gwneud amdano'i hun. Yn y gyfrol, disgrifia sut y bu i'r newid yn ei feddylfryd am ei berthynas ag alcohol fod o gymorth iddi oresgyn ei orddibyniaeth:

Digon oedd digon. Roedd fy nghorff wedi cael digon. Rhywsut 'clywais' fy iau, fy arenau, fy stumog a'm llygaid yn 'siarad'. Yr oeddynt yn 'erfyn' arnaf roi'r gorau iddi. Nid oeddwn wedi teimlo hynny erioed o'r blaen.

Hwyrach i mi ar y trênon honno [*sic*] sylweddoli rhywbeth arall – er na fedrwn ar y pryd, mae'n debyg, fod wedi ei roi mewn geiriau – sef hyn: nad 'brwydro' yn erbyn alcohol oedd y peth o gwbl ond 'ildio' iddo. Cyfaddef fod hwn yn drech na fi; yn llawer, llawer mwy na fi ac y curai fi'n rhacs bob tro. Hwn oedd teyrn fy mywyd. Wrth 'frwydro' yn ei erbyn yr oeddwn rhywsut yn ei gryfhau a'i nerthu ar yr un pryd. Wrth 'ildio' iddo, cyfnerthu fy hun a wnawn. Yn yr 'ildio' nid yn y 'brwydro' yr oedd meddyginiaeth. Dyna baradocs gwellhad a gwella. Drwy ddirnad alcohol fel 'cyfaill' ac nid fel 'gelyn', collodd ei nerth. Peth od iawn i'w ddweud a'i wneud. Ond hynny oedd y 'tric'.¹⁰⁹

Mewn cyfweliad gyda Karen Owen ar ran *Golwg*, dywedodd Aled Jones Williams fod yna gysylltiad rhwng ei gyfnodau'n yfed a'r neges yn ei waith:

¹⁰⁸ Aled Jones Williams, 'Alcoholiaeth', *Y Cylchoedd Perffaith* (Caernarfon, 2010) t. 36.

¹⁰⁹ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, tt. 52-3.

Mae'r broses o greu bellach ynghlwm wrth fy hanes i. Y digwyddiad mwya' sylfaenol a ddaeth i'm rhan i 'rioed oedd canfod, neu'n hytrach orfod wynebu'r ffaith hollol ddiymwâd yn 1987, a minnau'n ddeg ar hugain oed, fy mod i'n alcoholig. Roeddwn i ar y pryd yn berson plwy' Machynlleth.¹¹⁰

Cyfaddefodd iddo fynd i gyflwr o alanas llwyr, 'llanast emosiynol ... llanast ysbrydol .. llanast meddyliol ... llanast corfforol'.¹¹¹ Ond creda'n gryf mai o'r tryblith hwn y daw creadigrwydd a mynegiant, ys dywed yn y gerdd 'Tybed?' o'r gyfrol *Y Cylchoedd Perffaith*:

Y cwbl a wn
yw fod tryblith
yn amod creadigaeth.¹¹²

Yn 2002, derbyniodd Aled Jones Williams gomisiwn gan Gwmni Theatr Bara Caws i gyfansoddi drama ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 2004. Hon fyddai'r drydedd ddrama o'i eiddo i gael ei llwyfannu gan y cwmni. Fodd bynnag, fel y dywedwyd eisoes, yr un flwyddyn, treuliodd Aled Jones Williams ddau gyfnod yng nghanolfan *rehab* Castle Craig. Dychwelodd yno'r ail dro am gyfnod o dri mis a hynny dridiau yn unig wedi iddo gyrraedd adref. Wedi i'r tri mis ddod i ben, ymadawodd â'r ganolfan ac aeth i aros gyda ffrindiau yn Lerpwl yn hytrach na dychwelyd adref yn syth. Roedd comisiwn Cwmni Theatr Bara Caws yn parhau i fodoli, ac, er iddo ysgrifennu pytiau ohoni tra oedd yn yr Alban, yno yn Lerpwl 'y daeth *Lysh* i fod'.¹¹³

Pwrpas ei hysgrifennu, ar wahân i wireddu'r comisiwn, oedd medru dweud, wrthyf fi fy hun yn bennaf: dwi'n ôl! Nid wyf yn meddwl ei bod yn ddrama arbennig o dda, ond petai yn mynd at hynny nid wyf yn meddwl fod unrhyw un o'm gweithiau yn arbennig o dda – wele! yr alcoholic yn siarad ... Ond teimlaf yn glòs iawn at *Lysh* a medrais ei chyflwyno i ddau o'm cyd-gleifion, Wilma annwyl a Hammy wyllt heb 'run dant yn ei ben, ac i ddau o'r therapyddion, Craig Logan a Murray Allen ... Daeth *Lysh* â fi hefyd yn ôl at gymuned y theatr. A 'cymuned' yw'r gair cywir.¹¹⁴

¹¹⁰ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr isfyd', *Barn*, 27.

¹¹¹ Aled Jones Williams, yn Williams, 'Holi Aled Jones Williams', yn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXIX*, t. 10.

¹¹² Aled Jones Williams, 'Tybed?', *Y Cylchoedd Perffaith*, t. 30.

¹¹³ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 47.

¹¹⁴ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 47.

Yn rhagair y ddrama, mae'r dramodydd yn gwbl agored ynglŷn â'r ffaith mai ei brofiadau ef yn yr Alban oedd y sail ar ei chyfer:

Mae hi'n ddiwedd Ionawr. Dair wythnos yn ôl fe ddois i allan o rehab yn yr Alban. Wedi bod yno – at ei gilydd – am bron i dri mis. Y llynedd daeth alcohol yn ôl i fy mywyd. Pam? Oherwydd i mi fod yn ddigon twp i anghofio fy mod i'n alcoholig. A be' ddigwyddodd wedyn? Llanasd. Uffern. A bron golli bob dim oedd yn werthfawr yn fy mywyd i ... Y syniad oedd gen i ar y pryd oedd tri dyn mewn ysbyty yn rhannu un gyfrinach. Daeth i fod mai tri alcoholic oedd y rheiny.¹¹⁵

Llwyfannwyd y ddrama yn yr Eisteddfod Genedlaethol cyn teithio o amgylch Cymru, gyda Maldwyn John, Phil Reid, Rhodri Meilir a Betsan Llwyd yn perfformio o dan gyfarwyddyd Valmai Jones.

Yn wahanol i strwythur cyffredin dramâu, ni cheir unrhyw uchafbwynt dramatig yn ystod y ddrama, sy'n nodwedd a berthyn i Theatr yr Absŵrd. Yr hyn a geir, yn hytrach, yw taith, taith tri dyn alcoholig sydd mewn canolfan *rehab* a hynny trwy gyfrwng monologau. Ac, er mai rheswm arall pam nad yw'r dramodydd yn arddel y term alcoholiaeth yw oherwydd na ellir ei ddiffinio gan ei fod yn brofiad cwbl wahanol i bob dioddefwr, yr un yw taith y tri gŵr yn y ddrama mewn gwirionedd. 'Mae gan pob [*sic*] alcoholig ei stori, mae pob stori'n wahanol, a phob stori'n debyg'.¹¹⁶

Sandra: Dyn yn cymryd drinc
 Drinc yn cymryd drinc
 Drinc yn cymryd y dyn.
 Dyna'r daith alcoholic.¹¹⁷

Mae'r cymeriadau yn wastad yn ceisio cyfiawnhau eu cyflwr, hyd nes na allant feddwl am fwy o 'resymau' drosto. 'Mae hunan-dwyll yn gymaint rhan o'r afiechyd.'¹¹⁸ Sylweddolant yn y pen draw nad yng ngwaelod y botel gyntaf na'r botel nesaf y mae'r atebion i broblemau bywyd. Mae gwraig yn y ddrama hefyd, Sandra, sy'n cymryd rôl y corws, a hi yw therapydd y tri alcoholig:

¹¹⁵ Aled Jones Williams, 'Rhagair', *Lysh*, t. 7.

¹¹⁶ Elin Wyn, 'Adolygiad o Lysh', <www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/lysh.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

¹¹⁷ Aled Jones Williams, *Lysh* (Caernarfon, 2004), t. 33.

¹¹⁸ Aled Jones Williams, yn Owen, 'Dewis Bywyd nid y Botel', *Golwg*, 24.

Alcohol yw'r gwenwyn melys sy'n cynnal a chaethiwo'r pedwar cymeriad, a datgymaliad o'u perthynas gymhleth a chreulon gyda'r gwenwyn hwnnw yw craidd y ddrama.¹¹⁹

Yn wir, agweddau ar yr un person mewn gwirionedd yw cymeriadau'r tri dyn. Dynion yn eu pedwardegau sy'n dod i delerau gyda'u gorddibyniaeth ydynt ill tri. Monodrama yw hi gyda'r cymeriadau yn cynrychioli gwahanol gyfnodau o'r cyflwr a gwahanol ymatebion iddo. Dyna Ifor, sydd 'yng ngorffennol bariau, clybiau a chyfrinachau'r alcoholig',¹²⁰ ac yn methu gweld ei salwch; Jona, sydd 'ym mhresennol cymhleth y clinig rehab',¹²¹ ac yn gallu gweld trwy'r salwch, ond yn cyfiawnhau ei alcoholiaeth; a'r dyn '[w]edi ei wisgo drwy'r adeg mewn siwt Santa Clôs'¹²² sydd 'ar goll yng ngorffennol pell plentyn na chafodd gariad mam',¹²³ ac nad yw'n dangos ei hun i'r byd mawr.

Er i'r dramodydd rannu profiadau cyffelyb i'r cymeriadau yn ystod cyfnod ei chyfansoddi, nid ystyriai'r ddrama fel ffurf o gatharsis, ond, yn hytrach, teimlodd ei bod yn rheidrwydd iddo ei hysgrifennu:

fel pob math o sgwennu, mae'r broses yn help i wneud rhywbeth yn glir. Mae hynna'n arbennig o wir yn achos alcoholics, a gofyn cwestiwn, pam hwn a lle hwn?¹²⁴

Teimlai'r llenor ei bod yn rheidrwydd arno addysgu cynulleidfaoedd am y cyflwr. Dywed mai:

un peth sylfaenol ydi – mae lot o bobl yn dweud hyn – nad ydi'r bobl yma yn newid. Wel *maen* nhw'n newid – mae pobl yn medru newid. Nid pethau statig ydyn nhw. Y peth mawr am *Lysh* ydi fod y person yn newid, felly, ac nid yn ymdrybaeddu yn y salwch.¹²⁵

Trwy gyfrwng cymeriad Sandra, y therapydd, gallai Aled Jones Williams gyflwyno gwybodaeth ffeithiol, wyddonol am y cyflwr a thrwy gyfrwng cymeriadau'r tri gŵr, gallai gyflwyno'r mewnwelediad o'r cyflwr o safbwynt y dioddefwr a sut y ceisia ddod i delerau â'i berthynas ag alcohol. Er mwyn gwneud hynny, trodd Aled Jones Williams 'ei du mewn

¹¹⁹ Dienw, 'Aled Jones Williams', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/author_playlist.asp?author=Aled%20Jones%20Williams>.

¹²⁰ Mared, 'Lyshio', *Barn*, 501, 54.

¹²¹ Mared, 'Lyshio', *Barn*, 501, 54.

¹²² Aled Jones Williams, 'Cymeriadau', *Lysh*, t. 13.

¹²³ Mared, 'Lyshio', *Barn*, 501, 54.

¹²⁴ Aled Jones Williams, yn Owen, 'Dewis Bywyd nid y Botel', *Golwg*, 25.

¹²⁵ Aled Jones Williams, yn Williams, 'Holi Aled Jones Williams', yn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol* XXIX, t. 13.

briwedig am allan mewn ymdrech i ... [g]yfleu'r profiad o fod yn alcoholig i'r gwyliwr, cyfleu artaith ac anobaith y cyflwr ... Digon amlwg bod mwy na chysgod tafod mewn boch o'r awdur yn y cymeriadau'.¹²⁶ Y mae'r dyfyniadau a geir ar ddechrau'r testun yn ddyfyniadau perthnasol i'r dramodydd ac yn crisialu ei deimladau ef fel alcoholig tuag at y cyflwr:

'Heaven's just an opened bottle in a demon's argent mitts
Smuggled to my unholy lips ...'

Barry MacSweeney¹²⁷

Yn y ddrama, ceisiodd gyfleu'r elfennau dinistriol hynny sydd y tu mewn i bobl, ond, serch hyn, mae yna elfennau eraill hefyd sy'n adeiladol ac yn caniatáu iachâd. Dewisodd yr enw Jona Fodca, er enghraifft, i gyfleu'r syniad fod y person y tu mewn i'r alcoholiaeth, y tu mewn i'r morfil yma fel petai, 'ond ei fod o'n dod allan o fan'no'.¹²⁸

Jona: Ond nid y fi sy'n gneud y llyncu.
Cael fy llyncu ydw-i. Gan forfil alcohol.¹²⁹

Yn wir, mae llais a safbwynt Aled Jones Williams i'w clywed yn gyson trwy gydol y ddrama:

Lysh, heb os ac am resymau pur amlwg, yw'r mwyaf personol o fy holl weithiau. I aralleirio T.H.Parry-Williams 'mae darnau ohonof ar wasgar hyd y ddrama'. Cynhwysa'r geiriau hyn.¹³⁰

Y mae llinellau megis:

Sandra: Afiechyd y teimladau ydi alcoholiaeth yn y bôn. Mewn geiriau eraill ni fedr alcoholig fyw hefo'i deimladau.¹³¹

yn adleisio llais y dramodydd ei hun: 'Afiechyd emosiynau ydi o'.¹³² Ond nid cyflwyno gwybodaeth am y cyflwr yn unig a wna'r ddrama; ys dywed y dramodydd ei hun, '[t]aswn i

¹²⁶ Dienw, 'Aled Jones Williams', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/author_playlist.asp?author=Aled%20Jones%20Williams>.

¹²⁷ Barry MacSweeney, dyfyniad ar ddechrau'r gyfrol yn Aled Jones Williams, *Lysh*, t. 5.

¹²⁸ Aled Jones Williams, yn Williams, 'Holi Aled Jones Williams', yn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXIX*, t. 13.

¹²⁹ Williams, *Lysh*, tt. 33-4.

¹³⁰ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 48.

¹³¹ Williams, *Lysh*, t. 18.

ddim ond yn sgwennu am y cyflwr, fasa hi ddim yn cynnig profiad theatrig. Trwy ganolbwyntio ar y cymeriadau a mynd y tu mewn i'w meddyliau nhw, dw i'n gobeithio y bydd hi'n gwneud hynny'.¹³³ Yn *Lysh*, fe dynnir y mwgwd hwnnw oddi ar wynebau'r cymeriadau a datgelir mai amgylchiadau bywyd o'r gorffennol a phersonoliaethau'r cymeriadau sydd wedi eu harwain at y cyflwr hwn mewn gwirionedd. Y mae Ifor yn treulio'r rhan helaethaf o'i amser yn yfed mewn tafarnau, ac yn deffro yn y boreau mewn gwelyau diarth. Gadawodd ei fam ef a'i dad pan oedd yn blentyn ac addawodd ddychwelyd i'r cartref i gasglu Ifor a mynd ag ef gyda hi, ond ni ddaeth. Y mae Ifor yn dal i ddisgwyl amdani. Darlithydd ydyw, ac arbeniga ar weithiau'r dramodydd Jonathan Watkin Elis, sef cymeriad Jona Fodca. Y mae Jona angen yfed er mwyn canfod creadigrwydd i ysgrifennu, ac felly, er mwyn cynnal bywoliaeth. Y mae plentyndod cymeriad Santa Clôs, fel Ifor, wedi ei greithio, gyda'i fam, a oedd hefyd yn alcoholig, yn ei fagu fel merch a'i alw'n Ceinwen ac yn cuddio'i dŵr cudd 'hyd y tŷ yn bobman'¹³⁴ hyd nes y canfyddodd ei mab y poteli. Nid yw Sandra heb ei chyfrinachau ychwaith. Daw ei gorffennol hithau i'w phoenyddio a chamdriniaeth ei mam ohoni wrth iddi ei beio am farwolaeth ei brawd bach a fu foddi. Y mae Sandra hefyd yn briod ag Ifor, ac yn ymwybodol o'i odineb, ac felly, trwyddi hi, cawn y profiad alcoholig o safbwynt y teulu. Eto i gyd, pwysleisia'r dramodydd na ellir dehongli gorffennol y cymeriadau fel rhesymau dros eu gorddibyniaeth:

Mae'n dangos be eill ddigwydd hefyd – a be' sy'n gwneud rhai pobol yn alcoholics .. achos nid y rhesymau sy'n gwneud hynny. Os fasa chi'n sbio ar resymau pobol dros droi at y botel, wel mi fasa pawb trwy'r byd yn cymryd alcohol neu heroin.¹³⁵

Mae'r sylw yma yn un diddorol o ystyried i'r dramodydd ei hun nodi mai oherwydd rhyw boen gwaelodol y mae pob alcoholig yn yfed.

Yn anad yr un ddrama arall, *Lysh* yw'r ddrama sy'n trafod y profiad o fod yn alcoholig yn fwyaf agored a dywed Aled Jones Williams fod elfennau ohono i'w gweld yn bendant yn y ddrama hon. Fodd bynnag, ceir cyfeiriadau at alcohol ac awgrymiadau o alcoholiaeth yn y rhan helaethaf o weithiau'r llenor. Mae Eddy yn y ddrama *Wal* yn yfed i leddfu ei nerfau. Yn *Y Dyn Llnau Bogs*, pan agorir drysau'r tai bach i ddatguddio'r cymeriadau, y mae cymeriad Dyn 3 yn eistedd yno'n drachtio o botel wisgi. Yn *Pêl Goch*, ceir is-gymeriad y Dyn Meddw sy'n ei saethu'i hun yn ei ben ar ddiwedd yr ail ddiwrnod ac roedd y Gŵr yn y ddrama hefyd

¹³² Aled Jones Williams, yn Owen, 'Dewis Bywyd nid y Botel', *Golwg*, 25.

¹³³ Aled Jones Williams, yn Owen, 'Dewis Bywyd nid y Botel', *Golwg*, 25.

¹³⁴ Williams, *Lysh*, t. 48.

¹³⁵ Aled Jones Williams, yn Owen, 'Dewis Bywyd nid y Botel', *Golwg*, 24.

wedi bod yn yfed cyn iddo daro Nest, merch fach ei wraig, gyda'i gar. Ac yna'r ddrama *Cnawd*:

Mae'r ddrama *Cnawd* – honno ydi'r un fwyaf cignoeth. Mae 'na ryw fryntni ... a'r ofn mawr oedd gen i, yr ofn sydd wedi bod gen i 'rioed, y byddwn i ryw ddiwrnod ar y stryd ... a hwnnw oedd fy ofn mwya fi.¹³⁶

Llwyfannwyd *Cnawd* gan gwmni Dalier Sylw yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala, 1997 wedi iddi ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Ddrama fer yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dinefwr, 1996, gyda'r tîm cyfarwyddo yn cynnwys Bethan Jones, Geinor Jones a Tim Baker a'r cast yn cynnwys Sara Harris Davies a Gwyn Vaughan Jones.

Nid yw'r actorion yn bresennol ar y llwyfan ar ddechrau'r ddrama ond clywn leisiau Llais 1 (llais dyn bron yn ddeugain oed) a Llais 2 (llais gwraig pedwar deg a dwy oed) yn cael eu chwarae ar ddau chwaraewr tapiau sydd ar y llwyfan. Y mae'r ddau gymeriad wedi'u lleoli ar y Maes yng Nghaernarfon, a dyma'r ail waith i Aled Jones Williams ddefnyddio'r lleoliad hwnnw fel lleoliad i ddrama. Yn hanner cyntaf y ddrama, monolog Llais 1 a gawn. Cynfilwr sy'n alcoholig ydyw yn crwydro strydoedd Caernarfon yn nhrymder nos yn ysu am y gwmniaeth a fu ganddo unwaith. Ceisia rhywfaint o gysur gan butain, er nad oes ganddo arian i'w thalu, ond nid yw hynny'n digoni dim o'i unigrwydd. Yn ail hanner y ddrama, cawn fonolog Llais 2 neu Tanya Tryweryn fel y galwa'i hun gyda'i chleiantiad sy'n ei ffonio i gael rhyw gyda hi dros y gwifrau. Y mae'n gweithio yn MacDonalds a chanddi fab, Adrian, sy'n fyfyrwr yn y coleg technegol. Y mae'n cael perthynas gyda gŵr priod dosbarth canol, Ceidiog, ond sylweddola ei bod wedi cael ei defnyddio ganddo ar hyd yr holl amser. Y mae blinderau bywyd wedi'i chaledu ac mae wedi chwerwi gyda dynion sydd ond wedi'i defnyddio fel darn o gnawd ar hyd y blynyddoedd. Ond mae hithau, fel Llais 1, yn ysu am deimlo cariad a chwmniaeth unwaith yn rhagor.

Er bod nifer o gymeriadau Aled Jones Williams yn dioddef o alcoholiaeth, nid dyna yw canolbwynt y dramâu, fodd bynnag, ac nid dramâu sy'n deillio o alcoholiaeth y cymeriadau ydynt. Yn hytrach, yr hyn a wnaeth Aled Jones Williams wrth gyfansoddi'r gweithiau uchod oedd ysgrifennu am deimladau yr oedd ef ei hun, fel alcoholig, yn gwrthod eu teimlo:

¹³⁶ Dienw, 'Y Sioe Gelf: Portread o'r Parch. Aled Jones Williams', *Cwmni Da* (19Awst 2002).

Gwadu

Sodrent botel o 'mlaen
ond yn fy nychymyg nid yw
'n bod. Mae'r bwrdd yn wag.
Medraf gerdded yn *syth*.¹³⁷

Ond mae'r ffaith ei fod yn alcoholig ei hun yn rhoi'r caniatâd iddo drafod y cyflwr mewn ffordd amrwd ac, ar adegau, mewn ffordd feirniadol iawn hefyd sy'n peri i ni gydymdeimlo mwy gyda theuluoedd yr alcoholiaid yn hytrach na chyda'r alcoholiaid eu hunain: 'Y mae pob alcoholic yn meddwl ei fod o mor ddiawledig o glyfar a phawb arall o'i gwmpas o mor dwp.'¹³⁸

Yr un un yw cymeriad Tom yn y ddrama *Fel Stafell* â chymeriad y tri alcoholig yn *Lysh*: '... efallai ar ôl craffu'n hir, bod modd canfod gwreiddiau dwy ddrama ynddi [*Fel Stafell*], y naill am alcoholiaeth a'r llall am wraig ac arni salwch angheuol.'¹³⁹ Ceir cyfeiriadau ar ddechrau ac ar ddiwedd y ddrama at arferion yfed Tom pan fo iselder, yr 'hen wactar'¹⁴⁰ yna, yn ei lethu. Ymdrech i ddianc yw ei yfed. Adleisir ei eiriau yng ngeiriau Ifor yn *Lysh*: y cyntaf yn cymharu yfed â phrofiad crefyddol, a'r ail yn ei gymharu ag addoli:

Tom: Mae'r hen wactar 'na yno' i heddiw ... Ti'n gwbod ... (MAE O'N TORRI GWYNT, TYNNU POTEI WISGI AR EI HANNER O'I BOCED) Y gwactar 'na ma' dybl sgotj yn medru'i gyrradd ... Am chydig ... A wedyn un arall ... Ac un arall ... Ac un arall ... W't ti'n byw o ddybl sgotj i dybl sgotj ... (MAE'N GWEIDDI) Nes yn diwadd do's 'na 'im digon o ffwcen sgotj i chdi ga'l ... (SYNFYFYRIO) Dybl sgotj ... Profiad crefyddol 'chan.¹⁴¹

Ifor: Fi ydy'r addolwr yng nghadeirlan fodca. A ma' meddwi yn union fel addoli. Mi w't ti'n teimlo tu draw i chdi dy hun ... yn rhwla arall ... hefo rhywun uwch ... yn llonydd ... llonydd ... fel gweddi. Y mae'r cyfrinwyr a'r meddw yn chwilio am yr un un peth ... rhywbeth uwch na chdi dy hun. Y mwy cariadus, hudolus, mawr.¹⁴²

Sylwer ar y tebygrwydd rhwng y dyfyniadau uchod a'r gerdd 'Credo' o eiddo'r dramodydd sy'n mynegi ei brofiadau personol ef fel alcoholig:

¹³⁷ Aled Jones, 'Gwadu', *Y Cylchoedd Perffaith*, t. 39.

¹³⁸ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 39.

¹³⁹ Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 23.

¹⁴⁰ Aled Jones Williams, 'Fel Stafell', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 72.

¹⁴¹ Williams, 'Fel Stafell', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 72.

¹⁴² Williams, *Lysh*, tt. 39-40.

Fy nuw, fy nghred,
yw alcohol.
Calcedon bellach cwrw
Antiffonau llond bag o boteli.
O!
Dymunaf anffyddiaeth
Byw.¹⁴³

¹⁴³ Aled Jones, 'Credo', *Y Cylchoedd Perffaith*, t. 35.

2.3 Portread o'r fam

Mae dynes yn fwy siarp na dyn.
Mi ddylsa ti fod wedi gwbod hynny... Petha thic ydi dynion.¹⁴⁴

Dywed Aled Jones Williams fod merched yn gryfach na dynion o'i brofiad ef, a deilliai hynny o'i fagwraeth gan fod presenoldeb ei dad o fewn y cartref yn wan oherwydd y nam a oedd ar ei lais. O ganlyniad, roedd presenoldeb a dylanwad ei fam, Megan Williams, yn amlwg iawn yn ystod ei fagwraeth. Cyflwynodd Aled Jones Williams y gyfrol *Y Cylchoedd Perffaith* er cof amdani ac mae'r cerddi cyntaf a geir yn y gyfrol yn cyfeirio at ei marwolaeth yn 2008. Fodd bynnag, cymaint oedd ei dylanwad arno, fel y cyfaddefa'r llenor fod cysylltiad anuniongyrchol rhwng ei berthynas â'i fam a'i gyfnodau yn yfed. Yr un modd, er bod rhaid pwysleisio nad adlewyrchiad o'i berthynas ef â'i fam a geir yng ngweithiau Aled Jones Williams o gwbl, y mae cymeriad y fam yn ei ddramâu yn chwarae rôl flaenllaw ym mywyd ei phlentyn. Ond yn ogystal â bod yn ddylanwad cryf o fewn y gweithiau, y mae cymeriad y fam hefyd yn ddylanwad dinistriol a chreulon iawn sy'n caethiwo'i phlentyn a chyfranna'n sylweddol at drallod ei hetifedd: 'Ca'l di'r Fam yn rong a mi gei di bob cythral o bob dim arall yn rong.'¹⁴⁵ Wrth drafod cymeriadau y Fam, cyfeiria Aled Jones Williams at stori Mabon fab Modron a'r Fam Fawr, y Fam Ddaear, 'sydd yn hael ond hefyd yn ddinistriol iawn'.¹⁴⁶ Cyfeirir at y stori hon yn chwedl Culhwch ac Olwen; un o'r tasgau y mae'n rhaid i Culhwch ei gyflawni er mwyn cael priodi Olwen yw canfod Modron a gipiwyd oddi ar ei fam pan oedd yn dri diwrnod oed:

Mae rhywbeth yn hwnna gen i o hyd, y ddelwedd o'r fam. A sut mae'r berthynas sylfaenol yna rhwng mam a phlentyn sydd yn medru lliwio gweddill oes y plentyn neu'n medru dinistrio hwnnw, a beth sydd yn rhaid i ti gael i wneud honno'n berthynas iach.¹⁴⁷

Ys dywed Sundance: 'Mam, sy'n magu ac yn mygu yn mygu ac yn magu'.¹⁴⁸

Llwyfannwyd y ddrama *Sundance* am y tro cyntaf gan Gwmni Bara Caws ym 1999. Hon oedd y ddrama gyntaf o eiddo Aled Jones Williams i deithio'n genedlaethol a daeth y

¹⁴⁴ Aled Jones Williams, 'Merched Eira', *Merched Eira a Chwilys* (Llanrwst, 2010), t. 44.

¹⁴⁵ Williams, *Lysh*, t. 73.

¹⁴⁶ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

¹⁴⁷ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bys yn Stafell Mam*, t. 15.

¹⁴⁸ Aled Jones Williams, 'Sundance', yn Ian Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain* (Llanrwst, 2002), t. 50.

daith i ben gyda pherfformiad yng Ngŵyl Genedlaethol y Theatr Wyddeleg yn Galway, Iwerddon. Jonathan Nefydd oedd yn portreadu cymeriad Sundance a'r cyfarwyddwr oedd Ian Rowlands. Ail-lwyfannwyd y ddrama chwe blynedd yn ddiweddarach yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005 gan Theatr Genedlaethol Cymru o dan gyfarwyddyd Cefin Roberts gydag Owen Arwyn yn perfformio, cyn iddi fynd ar daith ledled Cymru y flwyddyn ganlynol.

Enw'r cymeriad ydi 'Sundance', ac ar ddechrau'r ddrama mae'n gwylio ffilm gowbois tra'n gorwedd mewn bath, bath tebyg iawn i'r un rydan ni wedi gweld cowbois cŵl fel Clint ynddyn nhw. Mae yna gadair y tu ôl iddo, wedi ei gorchuddio gan ddefnydd gwyn, ac ar y dde, mae ffrog briodas wen, hir, hir a rhuban coch hirach fyth wedi ei glymu am y canol. Mae'r cwbl mewn cell gyda bariau trwm ar y drws.¹⁴⁹

Cymeriad diniwed yw Sundance yn yr ystyr bod elfen blentynnaidd iawn i'w gymeriad. Ymyla ar fod yn sgitsoffrenig gan fod sawl ochr i'w gymeriad a chlyw leisiau yn siarad ag ef. Y mae'r cymeriad wedi'i sylfaenu ar 'ddyn go-iawn yng Nghaernarfon oedd yn galw ei hun yn Sir Ivor'.¹⁵⁰ Unigolyn 'ydyw sy'n ceisio gwneud synnwyr o'r byd ac yn dehongli ei berthynas â'r byd mawr o'i gwmpas'.¹⁵¹ Mae'r ddrama, fel cynifer o weithiau eraill Aled Jones Williams megis *Pryd fuo Kathleen Ferrier farw?*, *Tiwlips*, *Merched Eira*, *Pêl Goch* a *Be odd enw ci Tintin?*, er wedi ei gosod yn y presennol, wedi'i 'gwreiddio yn y gorffennol'.¹⁵² Yn wir, y mae Sundance yn byw ei fywyd yn ei blentynod pan oedd ei fam yn fyw a hynny mewn 'ymgais i gadw'r byd real, poenus ymaith'.¹⁵³ 'Tydw i ddim isio tyfu, anti Janice. Dwi'n gwrthod tyfu fyny'.¹⁵⁴ Roedd ganddynt berthynas glôs iawn ac effeithiodd ei marwolaeth yn fawr arno ac mae ei hiraeth amdani'n annioddefol, cymaint felly nes mae realiti bywyd heb ei fam yn rhy boenus i'w oddef. Tra oedd ei fam yn gwaelu oherwydd cancr, aeth ei fodryb ag ef i'r sinema i weld ffilm gowbois. Byth ers hynny, mae wedi byw ym myd ffantasi y ffilmiau cowbois gan geisio 'osgoi realiti a phroblemau bywyd'¹⁵⁵:

Sundance: A mi es i i mewn i'r pictiws y pnawn Sadwrn hwnnw a dwi 'rioed 'di dŵad allan.¹⁵⁶

¹⁴⁹ Bethan Gwanas, 'Rhegi dy fam', *Barn*, 441 (Hydref 1999), 65.

¹⁵⁰ Aled Jones Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams' (ysgrif ar gyfer y modiwl Sgrriptio, Prifysgol Aberystwyth).

¹⁵¹ Jonathan Nefydd, 'Cyflwyno *Sundance*', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 26.

¹⁵² Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 31.

¹⁵³ Nic Ros, 'Rhagymadrodd: 'Siarad â'u Hunain'', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 18.

¹⁵⁴ Williams, 'Sundance', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 42.

¹⁵⁵ Nefydd, 'Cyflwyno *Sundance*', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 26.

¹⁵⁶ Williams, 'Sundance', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 45.

Yma, cafodd Aled Jones Williams y cyfle i archwilio un o'i hoffterau a ddeillia o'i blentyndod pan arferai dreulio prynhawniau Sadwrn yn gwyllo reslo a ffilmiau cowbois gyda'i nain:

Mae pethau eraill yn bwysig, a ffilmiau yn enwedig. Beth welais i gyntaf ydy'r peth. 'Westerns' bob amser, lle mae yna rywbeth hollol, hollol glir, rhwng da a drwg, er nad ydw i fy hun yn dilyn hwn chwaith.¹⁵⁷

Trwy gydol y ddrama, mae Sundance yn dyfynnu o wahanol ffilmiau ac yn siarad yn arddull cymeriadau'r cowbois. Yn wir, teyrnged o fath i ffilmiau cowbois yw'r ddrama. Ond pan nad yw Sundance ar goll ym myd y Westerns, nid yw'n fodlon derbyn realiti yr adeg honno ychwaith. Y mae'n cyfarch y gadair sydd ar y llwyfan fel pe bai'n siarad gyda'i fam sydd bellach yn oedrannus ac yn chwarae draffts â hi a gwneud croeseiriau. Mae'n 'ddyddiol yn mynd drwy'r un moshwns a'r un sgwrs gan ... [d]roi a throsi atgofion brwnt a dymunol o'i blentyndod'.¹⁵⁸ Mae'n hel atgofion am amseroedd yng nghwmni ei fam; yn mynd i ymweld â chyfeillion neu'n gorwedd ar ei gwely yn goglais ei gên pan oedd yn hi'n wael ei hiechyd: 'I mi, dyma brif thema *Sundance*: effaith mam ar blentyn, yn enwedig mam sydd yn marw.'¹⁵⁹ Yn wir, mae presenoldeb y fam ar y llwyfan trwy gydol yr amser gyda'i ffrog briodas yn goruchwyllo'r holl ddigwydd. Y mae'n amlwg fod perthynas agos iawn wedi bod rhwng y ddau a cheir awgrym yma o gymhlethdod Oedipus. Er bod Sundance yn ymwybodol, mewn gwirionedd, fod ei berthynas â'i fam yn dal i reoli'i fywyd: 'Ma' mam yn medru difetha resd o dy ffwcin oes di',¹⁶⁰ ni all wahaniaethu'n glir rhwng realiti a dychymyg ac o ganlyniad canfu ei hun mewn trafferthion enbyd.

Y mae'r cymhlethdod Oedipus hwn yn ein hatgoffa o gymeriad Patric yn yn y ddrama *Tiwlips*:

PATRIC: O's 'na streic bysus?

MAM: Ma gin i ofn ...

PATRIC: Mi o'dd 'i bronna hi yn gynnas fel tebotia wedi eu hanghofio ar fwr' ar ôl clirio pob dim arall ... A defnydd 'i choban hi mor ddiniwad â thî cosis ...

MAM: Gei di dwtjad ... Dw't ti ddim yn rhy fawr ...¹⁶¹

¹⁵⁷ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bys yn Stafell Mam*, t. 8.

¹⁵⁸ Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

¹⁵⁹ Gwanas, 'Rhegi dy fam', *Barn*, 66.

¹⁶⁰ Williams, 'Sundance', yn Ian Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 41

¹⁶¹ Williams, 'Tiwlips', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bys yn Stafell Mam*, t. 113.

Y mae ei berthynas ef gyda'i fam wedi bod yn gysgod parhaus dros fywyd Patric, yn ogystal, ac i raddau helaeth yr un cymeriad a gawn yn Patric ac yn Sundance:

Dwi'n meddwl fod plentyndod yn thema fawr ... Ond mae plentyndod yn garchar hefyd. Tydyn nhw ddim wedi medru dianc oddi wrtho fo ... Felly ti'n sôn hefyd mewn plentyndod am y pethau ciaidd a dyna pam dwi'n licio *Un Nos Ola Leuad*, oherwydd mae hi'n wirioneddol fynd i'r afael â'r pethau yma ... felly uffern plentyndod a'r strach yma i gyrraedd aeddfedrwydd.¹⁶²

Yn *Tiwlips*, canolbwyntia'r dramodydd ar y berthynas rhwng y mab a'r fam yn hytrach na'r berthynas rhwng y plentyn ac Yncl Jo, ei gamdriniwr, gan ei bod hithau lawn mor gyfrifol am drallod ei phlentyn:

Yncl Jo sy'n cyflawni'r drygioni, reit i wala – ond mae Mam yno yn gyson a'i dwylo dros ei chlustiau, yn ail-adrodd 'dwi'm isio gwybod, dwi'n isio gwybod, dwi'm isio gwybod', ac yn pendilio rhwng ei chariad afiach o agos at ei hogyn bach, a'i hatyniad at y rhesi dynion sy'n aros gyda hi – 'Wedi colli'r bys.'¹⁶³

Ceisia Patric ymddiried ynnddi ond nid yw'n fodlon cydnabod yr hyn sy'n digwydd i'w mab, ac awgrymir, yn yr adrannau lle mae Patric yn sôn am 'roi bwyall trwy ben ei fam neu roi ei hwyneb ar dân gyda Flymo, ei fod o'n llwyr ymwybodol o'i rhan hi yn ei gamdriniaeth.

PATRIC: Be ydy "Mam": gair sy'n methu'ch amddiffyn chi.¹⁶⁴

Er nad yw cyn gryfed ag yn y ddwy ddrama uchod, ceir awgrym o'r berthynas afiach o glôs hon rhwng mam a'i mab yn y ddrama, *Pryd Fuo Kathleen Ferrier farw?* hefyd. Wedi iddi ganfod fod ei gŵr yn cael perthynas gyda gwraig o'r enw Lisabeth, â'r fam i'r gwely at ei mab. Ond nid ei phresenoldeb yn ei fywyd yn gymaint â'i diffyg presenoldeb a effeithiodd fwyaf ar y plentyn yn y ddrama honno wrth i'w fam, un dydd, bicio allan am bum munud gan adael y bachgen gyda'i dad treisgar, ond ni ddychwelodd.

Yn wir, mae bryntni'r fam yn cael ei gyflwyno mewn sawl ffurf o fewn y dramâu. Dywed Robot Hefin yn *Ta-ra Teresa* fod ei fam yn 'ddynas mor gre',¹⁶⁵ ac er na phrofodd ef

¹⁶² Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 11.

¹⁶³ Meg Elis, 'Gwreiddyn y Drwg', <<http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=18>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

¹⁶⁴ Williams, 'Tiwlips', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 121.

¹⁶⁵ Williams, 'Ta-ra Teresa', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 153.

unrhyw gamdriniaeth gan ei fam fel y cymeriadau uchod, y mae Eirwen yn gyfrifol am ei gwmp yntau hefyd, gan mai ei godineb hi wrth gysgu gyda Johnny sy'n gyfrifol fod Robot, nid yn unig yn hanner Sais, ond wedi bod yn cael perthynas gydag Adrian ei hanner chwaer yn ddiarwybod iddo.

Y mae cymeriadau eraill, megis Sandra a Santa Clôs yn *Lysh*, hefyd wedi profi camdriniaeth feddyliol a chorfforol gan eu mamau. Beia mam Sandra ei merch am farwolaeth ei mab a diala arni trwy ei tharo. Roedd mam Santa Clôs, fel ei mab yn ddiweddarach, hefyd yn gaeth i alcohol a dywed y cymeriad yn y wisg goch a gwyn, fel yr arferai, pan oedd yn blentyn, ganfod 'dŵr cudd mam hyd y tŷ yn bobman'.¹⁶⁶ Dyma'r fam a wrthododd dderbyn ei phlentyn am ei fod yn fachgen, a'i orfodi i wisgo dillad merched ac ymddwyn fel merch, ac, felly, gellir dadlau ei bod hi'n rhannol gyfrifol am ei alcoholiaeth gan mai ymgais i ddianc oedd yfed iddo:

Santa Clôs: Rhywbeth i rywun arall ydy' cariad ... 'Paid!' Peltan! Pwniad! Pwsh! Na! – mawr yn powndian ar hyd 'y mywyd i. 'Dw't ti ddim digon da! Ti'n hyll! Ti'n hogyn!¹⁶⁷

Fe ddiodefodd cymeriadau Pauline ac Anna yn *Be odd enw ci Tintin?* gamdriniaeth dan law eu mamau hefyd. Cyfansoddwyd *Be odd enw ci Tintin?* yn 2000 ac fe'i llwyfannwyd gan Gwmni Bara Caws yn 2003 gyda'r cast yn cynnwys Bryn Fôn, Rhodri Meilir, Awen Wyn Williams a Gwen Ellis, a Hugh Thomas yn gyfrifol am y cyfarwyddo. Yn wahanol i weddill dramâu Aled Jones Williams, y mae'r ddrama wedi'i rhannu'n benodau ac i bob pennod ei theitl. Nodwedd arall sy'n ei gwahaniaethu oddi wrth weddill ei weithiau yw bod llinyn storiol gweddol bendant yn llifo trwy'r ddrama. Drama am lofruddiaeth hen wraig gan ei merch senl ganol oed, Anna, yw *Be o'dd enw ci Tintin?* a thasg Detective Constable Charles George, Detective Constable Pauline Schramme a Detective Inspector Jim Roberts yw datgelu gwirionedd y sefyllfa. Yn ôl ei hawdur, dyma'r ddrama dywyllaf iddo'i hysgrifennu. Y rheswm am hyn yw oherwydd ei fod wedi'i chyfansoddi yn y cyfnod pan oedd wedi aildechrau yfed, ac wrth ei darllen drachefn, gwêl yr awdur yr emosiynau a gysyllta â'r cyfnod hwnnw'n gysgod dros yr holl waith.

Mae'r ddrama'n cynnwys stori dditectif, llofruddiaeth, ychydig o awgrym o gariad a digon o gyfeiriadau at ryw. 'Ond o dan y symlder yna mae'r ddrama'n berwi ... o

¹⁶⁶ Williams, *Lysh*, t. 48.

¹⁶⁷ Williams, *Lysh*, t. 35.

rwystredigaethau, poenau seicolegol ac unigrwydd'.¹⁶⁸ Fel ym mhob drama gan Aled Jones Williams, mae *pawb* yn euog o rywbeth, ac unwaith eto, cawn ein harwain i fannau dyrys bywyd lle nad oes atebion hawdd.

Y gwagle a adawyd gan ymadawiad ei dad o'r cartref pan oedd yn chwe blwydd oed sydd wedi peri poendod i Charles dros y blynyddoedd ac wedi iddo dderbyn llythyr ganddo, mae rhwng dau feddwl a ddylai ei gyfarfod ai peidio. Gŵr gweddw yw Jim sydd wedi colli ei ffordd mewn bywyd byth ers i'w wraig, a oedd yn dioddef o'r clefyd M.S., benderfynu rhoi terfyn ar ei bywyd. Ar yr un noswaith, fe gornelodd yntau leidr ifanc mewn tŷ gwydr a'i guro i farwolaeth gan honni mai amddiffyn ei hun ydoedd.

Mae Anna Evans yn gymeriad dwfn, amlochrog a chymhleth iawn. Gwraig ganol oed, ymddangosiadol barchus ond eto rwystredig ydyw, sydd wedi'i chaethiwo mewn syrffed o orfod edrych ar ôl ei mam oedrannus, ffwdanus. Ei mam, a'r cof plentyn sydd ganddi am ddiffyg cariad mamol, a'r trais corfforol yw cysgod Anna. Mae'n ysu am gyffro a sylw a rhyddid oddi wrth ei mam, ac yn ceisio rhywfaint o gysur mewn pornograffi a llyfrau serch. Cymaint felly, hyd nes bod y straen yn mynd yn drech na hi, ac mewn eiliad o wylltineb, sydd wedi bod yn cronni ynddi ers blynyddoedd, mae'n tagu ei mam.

Ceir tebygrwydd yma rhwng cymeriad mam Anna a chymeriad mam Pauline Schramme, cymeriad arall yn y ddrama. Magwyd Pauline yng ngwlad Groeg lle roedd ei thad yn beiriannydd, ond parodd ymateb oeraidd a chreulon ei mam tuag ati wedi iddi ganfod ei thad wedi ei grogi'i hun ym 1983, iddi hithau hefyd fod yn gymeriad caled ar yr wyneb. Er nad yw'r ddwy fam yn bresennol yn y ddrama ('er mwyn sicrhau nad oes llawer o gydymdeimlad'¹⁶⁹ tuag atynt), ceir adleisiau o'u creulondeb trwy gyfrwng monologau eu merched:

ANNA: 'Cath o'r enw Anna!' medda chi mam. A ma'r enw Anna a'r beltan boeth, hegar yn croesi nghlud i ar yr un-un pryd ...¹⁷⁰

PAULINE: Yn feis 'i d'ylo ma' mam yn dal y mhen-i nes ma' 'na gric yn 'y ngwar i ... A dw-i isio cyfogi ... Sbia arno fo medda hi ... Sbia! ... Gwendid!¹⁷¹

¹⁶⁸ Jeremy Turner, 'Be' O'dd Enw Ci Tintin?', <www.gwales.com/reviews/?newsiz=200&tsid=1>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

¹⁶⁹ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bys yn Stafell Mam*, t. 18.

¹⁷⁰ Aled Jones Williams, *Be' o'dd enw ci Tintin?* (Caernarfon, 2003), t. 25.

¹⁷¹ Williams, *Be' o'dd enw ci Tintin?*, t. 40.

Y mae'n amlwg o ystyried yr enghreifftiau uchod, cymaint fu effaith a dylanwad y fam ar ei phlentyn, fod yr atgofion ohoni yn dod â gwendidau a diffyg hyder y cymeriadau i'r wyneb ac i effaith magwraeth ddidostur y cymeriadau chwarae rhan allweddol yn eu cwmp fel oedolion.

2.4 Portread o'r tad

'sna'm byd fatha cadw petha yn y teulu'¹⁷²

Er bod ffigwr y tad yn absennol ym mywyd sawl un o gymeriadau Aled Jones Williams, megis tad Sundance, Patric, Santa Clôs a Charlie yn *Be odd enw ci Tintin*, '[m]ae'r pellter rhwng tad a mab yn thema aml yng ngwaith Williams,'¹⁷³ a hynny oherwydd ysfa'r llenor i ddweud rhywbeth am berthynas tad a mab. Roedd hon yn thema eithaf poblogaidd pan gyhoeddwyd y nofel *'Rhaid y ti fyned y daith honno dy hun'* yn 2001 ac yn amlygu peth dylanwad Caryl Churchill ar Aled Jones Williams gyda'r thema o berthynas rhwng rhieni a'u plant yn codi dro ar ôl tro yn ei gweithiau. Dyma ddramodydd a ysgrifennai'n wleidyddol am bynciau llosg ail hanner olaf yr ugeinfed ganrif gan ddefnyddio technegau gwrth-naturiolaid.

Y mae'r nofel, *'Rhaid y ti fyned y daith honno dy hun'*, neu ddyddiadur fel y mae'n well gan ei hawdur ei galw, wedi'i chyflwyno er cof am dad Aled Jones Williams ac ynddi cyflwyna'r llenor ei berthynas â'i dad er pan oedd yn blentyn, i'r presennol a misoedd olaf bywyd ei dad, ac yntau'n gwaelu'n raddol o ganlyniad i'r cyflwr Alzheimers. Mae'n adrodd hanes ei blentyndod, a chyfleu sut brofiad oedd bod yn unig blentyn, yn fab i berson plwyf, ac, yn arbennig felly, y tensiwn a fodolai rhyngddo a'i dad, a ddeilliai o'r ffaith na allai ei dad fynegi ei hun yn rhwydd oherwydd bod nam ar ei lais:

Chwilio am y lleisia. Am y llais. Ond poen ydy llais i ni, yntê, Nhad?

Be sy'n bod ar lais dy dad?

Hwnnw oedd poen tŷ ni. Eich llais sgrwnsian-bag-o-greision-chi... Pawb yn meddwl fod cansar arnach chi. Cansar yn y gwddw.¹⁷⁴

Ceir disgrifiad arall o'r un profiad yn y gerdd 'Llais' o'r gyfrol *Y Cylchoedd Perffaith*, a ysgrifennodd er cof am ei dad. Marwnad saith deg o dudalennau ydyw *'Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun'* mewn gwirionedd. Ond nid marwnad i dad yr awdur yn unig, ond ei hen ewythr yn ogystal. Cafodd 'Yncl Bob 'Nhad' ei ladd yn y Rhyfel Mawr ddiwrnod wedi genedigaeth tad Aled Jones Williams, a chafodd ei enwi ar ei ôl. Teimla Aled Jones Williams fod yna rywbeth rhyfedd iawn yn hynny: 'mae o 'di cymryd enw dyn marw. Felly pwy a be

¹⁷² Williams, 'Pryd Fuo Kathleen Ferrier farw?', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 131.

¹⁷³ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 31.

¹⁷⁴ Aled Jones Williams, *'Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun'* (Caernarfon, 2001), t. 24.

ydi 'nhad?'.¹⁷⁵ Creda fod ei dad yn holi'r cwestiwn hwnnw iddo'i hun yn aml, sydd hefyd yn codi'r cwestiwn o beth yw hunaniaeth: 'Cwestiwn sy'n codi o hyd, mae'n siŵr gen i, yw pwy neu beth ydyn ni.'¹⁷⁶

Ceir cysylltiad cryf rhwng y nofel uchod, y bryddest 'Awelon' a'r ddrama radio *Pryd Fuo Kathleen Ferrier Farw?*, gan eu bod oll yn tarddu o'r un ffynhonnell, sef o dad Aled Jones Williams. Dywedodd y Prifardd ei hun wedi seremoni'r coroni yn Eisteddfod Genedlaethol Ty Ddewi, 2002, mai'r ofn a oedd ganddo'n blentyn fod rhyw afiechyd ar ei dad a'i hysbrydolodd i ysgrifennu'r gerdd: 'I had a child's fear of something happening, and that comes up from time to time.'¹⁷⁷ Yn wahanol i weddill cynnyrch Aled Jones Williams, yr hyn a wna yn y gweithiau uchod yw 'dathlu bywyd rhywun arall yn hytrach na dadansoddi ei wendidau ei hun'.¹⁷⁸

Mae cael y profiad o wyllo rhywun yn gwaelu o ganlyniad i ddementia, fel y bu rhaid iddo ef ei hun ei wneud, yn elfen sy'n codi'n gyson o fewn ei ddramâu. Mae nifer o'i gymeriadau wedi cael y profiad o fyw gyda dementia, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Dywed Alji yn *Wal* fel y bu ei fam ac ef yn gwyllo'i dad yn dadfeilio am dri mis o ganlyniad i ddementia, a phan ddychwel Patric yn *Tiwlips* adref ar diwedd y ddrama, dywed ei fam wrtho fod Yncl Jo bellach mewn cartref ac yn dioddef o ddementia ac iddo fynd i'w weld. Y mae cymeriad Mr Parry yn *Pryd Fuo Kathleen Ferrier Farw?*, nid yn unig wedi cael profiad anuniongyrchol o'r afiechyd wrth fynd i ymweld â'i dad mewn cartref ac yntau'n colli ei gof, ond yn awr yn wynebu profiad uniongyrchol o'r salwch yn ogystal.

Gwyrdroi un o elfennau cymeriadol mwyaf cyson ei waith a wna *Pryd Fuo Kathleen Ferrier farw?* Yn lle dyn sydd yn methu ag aeddfedu ac wedi aros yn blentyn yn emosiynol, mae gennym brif gymeriad sydd yn cael ei drin fel plentyn ond sydd â rheolaeth lwyf bron arno'i hun.¹⁷⁹

Monolog ar gyfer y radio yw *Pryd fuo Kathleen Ferrier Farw?* a berfformiwyd gyntaf gan John Ogwen a'i darlledu ym mis Mawrth 2002. Wyth mlynedd yn ddiweddarach, yn 2010, llwyfannodd Cwmni Theatr Bara Caws addasiad llwyfan gan Bryn Fôn a Martin Thomas o'r ddrama o dan y teitl, *Dyn Eira*, gyda Martin Thomas yn portreadu Mr Parry, prif

¹⁷⁵ Cyfweiliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

¹⁷⁶ Aled Jones Williams, yn Emyr, 'Mynd i gyfeiriad arall', *Taliesin*, 119.

¹⁷⁷ Dienw, 'Recovered alcoholic wins poetry crown',

<<http://www.icwales.icnetwork.co.uk/whatson/page.cfm?objectid=12093912&method=full&siteid=50082>>.

Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

¹⁷⁸ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 31.

¹⁷⁹ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 30.

gymeriad y ddrama. Teithwyd y ddrama ar y cyd â'r ddrama *Merched Eira*. Ac, fel gweddill monologau'r dramodydd, clywir lleisiau eraill o fewn y prif lais yn y ddrama. Er i'r dramodydd nodi¹⁸⁰ ei fod yn difaru caniatáu i'r ddrama gael ei llwyfannu gan mai drama radio ydyw ac felly na theimlai fod y llwyfaniad ohoni wedi llwyddo i'r un graddau â'r fersiwn radio, hon yw hoff ddrama Aled Jones Williams o'i eiddo.

MR PARRY: Docdor! Docdor! Fydd o fel cerddad i mewn i sdorm o eira? Nes bydd yr eira yn llenwi pob twll a chornol ohono i. A fi fydd y Dyn Eira ... Ond yn haul symol y gaea ma' 'i ymennydd o'n dadlath ... A'i deimlada fo'n dadmar ... A'i holl eiria fo'n meirioli yn 'i geg o ... Y Dyn Eira.¹⁸¹

Cyfeirio at y profiad o golli cof o ganlyniad i'r afiechyd Alzheimer a wna'r dyfyniad uchod gan Mr Parry, neu, yn hytrach, Dr Parry sydd, fel y bu ei dad o'i flaen, yn dioddef o'r afiechyd:

MR PARRY: "Mi o'dd o ar 'ch tad hefyd yn doedd?" medda'r Docdor wedi ca'l y gwaeth drosodd.

"Oedd," me' finna, "'sna'm byd fatha cadw petha yn y teulu yn nagoes, Docdor? Yr holl anghofio 'na."¹⁸²

Er mwyn profi ei gof, rhydd Mr Parry gwis iddo'i hun yn ddyddiol:

MR PARRY: Pwy aned yn Walton-le-Dale, Preston, Sir Gaerhirfryn?
... Kathleen Ferrier.¹⁸³

Yn ystod y ddrama, ceir plethwaith rhwng y presennol, gyda sgysiau rhwng Mr Parry a'i feddyg, ei nyrs, neu'r weithwraig gymdeithasol, ac atgofion o'r gorffennol: ceir adleisiau o sgysiau rhyngddo a'i dad pan oedd ef mewn cartref yn ogystal ag adleisiau o'i blentynoddo a'i fagwraeth weddol dlawd mewn tŷ cyngor yn fab i ddyn glo. Sigledig iawn oedd priodas ei fam a'i dad pan oedd yn blentyn gyda'r ddau ohonynt yn cael perthnasau cudd; ei dad gyda gwraig o'r enw Lisabeth a byddai ei fam yn mynd i dalu ei dyledion i PritchardbachShop wedi i'r siop gau ac yn mynd â'r bachgen gyda hi ar ei hymweliadau â thŷ ei chariad,

¹⁸⁰ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

¹⁸¹ Williams, 'Pryd Fuo Kathleen Ferrier farw?', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 138.

¹⁸² Williams, 'Pryd Fuo Kathleen Ferrier farw?', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 131.

¹⁸³ Williams, 'Pryd Fuo Kathleen Ferrier farw?', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 130.

Malcom. Ni fu perthynas dda rhwng y bachgen a'i dad, ychwaith, a oedd yn frwnt iawn tuag ato ar brydiau: pan ddarganfu'r bachgen Luger ei dad, a gadwodd fel '[t]rôffi'¹⁸⁴ wedi'r rhyfel, a dweud wrth ei athrawes yn yr ysgol a hithau'n hysbysu'r heddlu, rhoddodd y tad beltan iddo. Er nad oedd y fam yn dreisgar tuag ato, yr oedd hithau hefyd yn ei gam-drin gyda'i hagosatrwydd anarferol tuag at ei phlentyn. Yn wahanol i gymeriad Patric yn *Tiwlips* neu gymeriad Sundance, ni chafodd yr hyn a ddigwyddodd ym mhleutyndod y bachgen yn *Pryd fuo Kathleen Ferrier farw?* effaith andwyol arno, ac y mae, trwy gydol ei fywyd, wedi canfod dihangfa trwy wrando ar lais Kathleen Ferrier yn canu ar y radio. Ond un diwrnod, fe biciodd y fam allan am bum munud gan adael y bachgen gyda'i dad, ond ni ddychwelodd. A phan ymwelai'r bachgen â'i dad yn y cartref ac yntau'n hŷn ac yn colli'i gof, parhâi'r tad i ddisgwyl amdani.

Y mae'r ddrama hon, nid yn unig yn mynd i'r afael â'r profiad truenus o wyllo perthynas agos yn gwaelu o ganlyniad i Alzheimers fel a wna '*Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun*', ond hefyd yn canolbwyntio ar brofiad yr unigolyn sy'n gorfod wynebu'r dadfeiliad hwnnw a'r ofnau a'r cwestiynau sydd ynghlwm wrth hynny.

¹⁸⁴ Williams, 'Pryd Fuo Kathleen Ferrier farw?', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bys yn Stafell Mam*, t. 137.

2.5 Marwolaeth a Henaint

Mae marwolaeth O! mor hyblyg.¹⁸⁵

Dywedd Dafydd Elis Thomas fod ‘*Rhaid i ti fyned y daith honno dy hyn*’, ‘yn gyfrol hanfodol i bob un y mae marwolaeth yn rhan o’u bywyd’,¹⁸⁶ a’r daith y cyfeirir ati yn y teitl yw’r daith y mae’n rhaid i bob un ohonom ei gwneud, a hynny ar ein pennau ein hunain, sef taith marwolaeth. Yn wir, mae marwolaeth yn thema fawr arall yng ngweithiau Aled Jones Williams a cheir cyfeiriad ati ym mhob un o’i weithiau. O ganlyniad i waith ei dad fel person plwyf, mae marwolaeth wedi bod yn rhan annatod o’i fywyd erioed. Pan oedd yn blentyn, byddai’n chwarae ym mynwent eglwys ei dad, a phe byddai yna fedd agored dywed y byddai’n chwarae cuddio ynddo: ‘A mi fydda’r hogia’n gweiddi – ‘Sbia! Ma dy dad yn dod!’ A ch’n’ebrwn y tu ôl iddo fo!’¹⁸⁷ Yn ystod ei gyfnod fel person plwyf, dywed y llenor mai’r hyn a’i hysgogai i ysgrifennu oedd y bobl y deuai ar eu traws yn rhinwedd ei swydd, ‘sydd yn byw ac wedi byw am flynyddoedd efo rhyw boen gudd, rhan amlaf rhyw lun ar ddiodefaint a hefyd pobl sydd wrth gwrs yn wynebu marwolaeth, rhoi ohonyn nhw gyda rhyw heddwch mawr ond y rhan fwyaf yn methu dirnad y peth ac mae yna rw bath’¹⁸⁸ ynddo sydd wirioneddol eisiau mynegi hynny.

Yn y ddrama *Fel Stafell*, mae cymeriad y wraig yn sôn am farwolaeth fel ystafell:

mae o’n fetaffor gen i, mae’r stafell yn le [*sic*] pwysig oherwydd pa fath o stafell ydi hon. Ystafell fyw, beth sydd yn digwydd yn yr ystafell fyw yma?... felly mae “fel stafell” yn fetaffor.¹⁸⁹

Fel drama lwyfan y cyfansoddwyd *Fel Stafell*, ond gan Gwmni Bracan ar S4C Digidol ym 1999 y cafwyd y perfformiad cyntaf o’r sgript a hynny heb ei haddasu o un cyfrwng i’r llall. Roedd y cast yn cynnwys yr actorion Owen Garmon, Olwen Rees a Catrin Powell gyda Bethan Jones yn cyfarwyddo a Branwen Cennard yn cynhyrchu.

¹⁸⁵ Williams, ‘Merched Eira’, *Merched Eira a Chwyllys*, t. 34.

¹⁸⁶ Dafydd Elis Thomas, ‘*Rhaid i Ti Fyned y Daith Honno dy Hun*’, <<http://www.gwales.com/goto/review/cy/9781903314159/>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

¹⁸⁷ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

¹⁸⁸ Dienw, ‘Y Sioe Gelf: Portread o’r Parch. Aled Jones Williams’, *Cwmni Da* (19 Awst 2002).

¹⁸⁹ Aled Jones Williams, yn ‘Cyfweliad gydag Aled Jones Williams’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 12.

Trwy gydol y ddrama, y mae Tom, a arferai fod yn ddyn busnes gweddol barchus, yn eistedd wrth ochr gwely ei wraig, Gwen, mewn ysbyty a hithau'n marw o ganr. Monolog yw'r ddrama hon mewn gwirionedd hefyd, er bod cymeriad Gwen yn bresennol. Ond yn bresennol ym mhen Tom yn unig y mae. Y mae ef yn twyllo'i hun wrth beidio â derbyn bod yr afiechyd arni. Dysgwn am ei garwriaethau di-rif yn y gorffennol, ond serch hyn, y mae'n caru Gwen. Yn sicr, y mae ei hangen, ac ati hi y dychwelodd bob tro. Fodd bynnag, wedi marwolaeth ei wraig, pan ddaw Tom i wybod am fodolaeth Martin, 'companion'¹⁹⁰ Gwen a gyfarfu yn y dosbarth athroniaeth, brifir ef yn fawr. Nid yw'r berthynas rhwng Gwen a Martin yn un rywiol, ond y mae'r ffaith ei bod yn haws ac yn well gan ei wraig siarad gyda dyn arall na chydag ef, hynny yw, ei '[h]anffyddlondeb emosiynol neu ddeallusol',¹⁹¹ yn fwy o odineb yn llygaid Tom na'i garwriaethau niferus ef. Ceisia leddfu'i boen trwy yfed.

Fodd bynnag, nid ymdriniaeth sentimental, ddwys na hunandosturiol a gawn â marwolaeth yn ei ddramâu. Yn hytrach, mae ei ddefnydd o hiwmor tywyll ar ei gryfaf yma, ac yn peri i sefyllfa'r cymeriadau fod yn fwyfwy truenus ac ennyn mwy o dosturi. Ystyrier yr enghraifft yn *Lysh* pan yw cymeriad Santa Clôs yn disgrifio gweld ei fam wedi marw:

Santa Clôs: Mi fuo Mam farw ar ganol brawddeg.
Ond mi oedd hi'n baragraff llawn
cyn i mi sylweddoli hynny. Sôn am y
tywydd oeddwn i. Ma' hi'n ddwrnod
braf allan hiddiw, Mam. A ma' siŵr
bod Mam wedi mynd rhwng 'braf' ac
'allan'! ... Mam wedi'n gada'l ni ond heb symud
cam o'i lle. Peth fel'na ydy' marw ma
raid. Y mynd disymud 'na. Sôn am y
tywydd a mynwent yn llenwi. A
mi o'dd 'i cheg hi'n llydan ar agor.¹⁹²

Mae nifer o gymeriadau'r dramâu yn ceisio disgrifio marwolaeth ac yn holi sut brofiad yw marw yn ystod y gweithiau, fel a wna Aled Jones Williams ei hun yn y gerdd 'Ar lan bedd Mam', yn y gyfrol *Y Cylchoedd Perffaith*:

Beth yw marw? Gwybod
dim, ynta' gwybod y cyfan?¹⁹³

¹⁹⁰ Williams, 'Fel Stafell', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 80.

¹⁹¹ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 24

¹⁹² Williams, *Lysh*, tt. 72-3.

¹⁹³ Aled Jones Williams, 'Ar lan bedd Mam', *Y Cylchoedd Perffaith* (Caernarfon, 2010), t. 24.

Hola Gwen yn *Fel Stafell* a yw marwolaeth ‘run fath â bod mewn stafell a hitha’n dechra nosi’,¹⁹⁴ a cheir cymhariaeth debyg gan Sundance pan ddywed fod y nos yn dod â marwolaeth yn ei sgil. Er nad oes neb yn egluro wrtho, gŵyr Sundance fod ei fam yn marw a theimla’n ddig wrthi am ei adael. Nid yw eisiau i’w marwolaeth eu gwahanu a dywed ei fod yn deisyfu rhannu arch â hi:

Sundance: Marw!
 Gair fel gordd.
 Basdad o air,
 Gair â dim gwaelod iddo fo
 Di-ben-draw o air
 Di-ymyl o air
 Lliain bwr’ o air
 Yn ca’l ’i ysgwyd yn drws cefn
 A’ch holl fywyd chi’n disgyn ohono fo
 A gada’l ’i’ m byd
 Ar ôl ond gwynder gwag
 Sy’n serio’ch llygid chi.¹⁹⁵

Â’r ddwy ohonynt yn wynebu’r hyn sydd i ddod wedi marwolaeth, dywed Edna yn *Merched Eira* nad mewn clogyn llaes, du y daw marwolaeth bellach ond ‘mewn cot ffyr ... mewn tabledi; y dechnoleg mwyaf dyfeisgar a chlyfar. Mae marwolaeth O! mor hyblyg.’¹⁹⁶

Y mae’r marwolaethau yn dod mewn sawl ffurf yn y dramâu; marwolaeth sy’n deillio o waeledd iechyd fel yn yr achosion uchod; damweiniau sy’n peri i’r cymeriadau eu beio’u hunain, megis yn achos brawd Sandra yn *Lysh* a Nest yn *Pêl Goch*; llofruddiaeth megis yn achos Anna a Jim yn *Be odd enw i Tintin?*, a llofrudd proffesiynol yw swydd cymeriad Dyn 2 yn *Chwilys*; neu hunanladdiad fel tad Pauline a gwraig Jim yn *Beth oedd enw ci Tintin?*, Bob a Robat Hefin yn *Ta-ra Teresa* a Patric yn *Tiwlips*. Egyr *Tiwlips* gyda Patric yn disgrifio’r gwahanol fathau o ladd ac yn cymharu’r profiad gyda choginio teisen: ‘rhaid i chi gael defnyddiau sylfaenol-hanfodol yn y ddau weithgaredd’.¹⁹⁷ Yn ystod y ddrama, darllena ddiffiniad o’r gair ‘Thanatology’ o’r *Encyclopedia Britannica* a ddaw o’r gair Lladin am farwolaeth sy’n golygu’r astudiaeth o farwolaeth ond ar ddiwedd y ddrama, nid llofruddio ei fam nac Yncl Jo a wna Patric ond ei ladd ei hun. Marwolaeth perthynas agos, beth bynnag fo

¹⁹⁴ Williams, ‘Fel Stafell’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 78.

¹⁹⁵ Williams, ‘Sundance’, yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, tt. 45-6.

¹⁹⁶ Williams, ‘Merched Eira’, *Merched Eira a Chwilys*, t. 34.

¹⁹⁷ Williams, ‘Tiwlips’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 108.

sefyllfa'r farwolaeth honno, yw cyfrinach pob un o'r cymeriadau hyn. Dyna sy'n gysgod drostynt a pharha i effeithio ar bob agwedd o'u bywydau.

2.6 Geiriau

Dojan petha tu mewn i'r geiria¹⁹⁸

Yr hyn y ceisia Aled Jones Williams ei wneud yn ei ddramâu yw, trwy gyfrwng geiriau, ddarlunio profiad yn y gobaith y bydd y gynulleidfa neu'r darllenwyr yn medru uniaethu â'r profiad hwnnw. Mae'r llenor yn ymwybodol iawn, er pan oedd ef yn wael ei iechyd ei hun, o rym a hirhoedledd geiriau a mynegir hynny gan ei gymeriadau. Dywed y Wraig yn *Pêl Goch* nad ydynt yn ddim ond geiriau a dywed Edith yn *Merched Eira* ei bod eisiau cael ei chofio mewn geiriau gan y bydd geiriau yn parhau ar eu holau hwy. Dywed Aled Jones Williams fod llenyddiaeth yn fwy na phleser yn unig. Dywed '[f]od iaith yn medru mendio':¹⁹⁹

(*bandijis ydi geiria', 'nte, Mam?*)²⁰⁰

Ond '[m]ae iaith yn datgelu ac yn celu.'²⁰¹ Ai mendio ynteu cuddio'r briw yn unig a wna iaith mewn gwirionedd?

Fedri di ymddiried mewn iaith? Sut mae iaith, sut mae gair yn gallu cyfleu'r teimlad sydd y tu mewn i ti? Eto, mae'n rhaid i ti enwi'r teimlad, ond ydi hynny'n dal y teimlad?²⁰²

Yn wir, wrth ddarllen ei weithiau, y mae'n bur amlwg bod Aled Jones Williams erbyn hyn, wedi colli ffydd mewn iaith a geiriau. Daeth y sylweddoliad hwn iddo yn ystod un o'i gyfnodau yn y ganolfan *rehab* yn yr Alban:

Ni wn o gwbl beth a roddais i Tracy Williams, os rhoddais unrhyw beth, ond o'i blaen hi cyffyrddais â man o iachâd ynof fi fy hun. Gyda hi, sylweddolais i mi fod yn gaeth nid yn unig i alcohol ond hefyd i eiriau. Fel alcohol rhywbeth i guddied ynddynt oedd geiriau. Broc ydynt ar wyneb rhyw ddyfnder mawr. Rhugl oeddwn. Ond beth mewn gwirionedd a oeddwn i wedi ei fynegi erioed amdanaf fy hun, am 'dduw', am unrhyw beth? Fawr o ddim tu draw i'r ystrydebol, dirnadais. Yng ngŵydd y bobl di-eiriau hyn fe'm hagogwyd i leoedd dyfnach ynof fy hun, ac yn eraill Tracy hefyd a'm dysgodd i beidio ag ymddiried lawer mewn iaith. Ond onid oeddwn wedi gweld hyn

¹⁹⁸ Williams, 'Ta-ra Tera', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 154

¹⁹⁹ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

²⁰⁰ Aled Jones Williams, 'Y Bryddest', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi, 2002* (Llandybie, 2002), t. 58.

²⁰¹ Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

²⁰² Aled Jones Williams, yn Emyr, 'Mynd i gyfeiriad arall', *Taliesin*, 119.

o'r blaen yn gynnar yn fy mywyd, a hynny yn fy nhad: yr offeiriad na allai siarad yn iawn gan fynd drwy'r gwasanaethau mewn crygni parhaol, bron drwy gydol ei weinidogaeth, ac y cywilyddiais o'i herwydd a gorfod clywed eraill yn ei ddiffriō? Er bod y bobl hyn, Tracy, fy nhad, yn amlwg wedi eu darnio yr oeddynt rhywsut ar yr un pryd yn gyfan.²⁰³

Dywed Aled Jones Williams mai llyfr am iaith yw'r hunangofiant crefyddol, *Oerfel Gaeaf Duw*, mewn gwirionedd gan mai, yn ei dyb ef, iaith yw crefydd: 'Ffordd arbennig o siarad a dull neilltuol o drin geiriau ac o ysgrifennu yw crefydd'.²⁰⁴ Mae'r ffaith felly ei fod ef wedi colli ei ffydd yn yr eglwys fel sefydliad yn golygu ei fod wedi colli ffydd mewn geiriau yn ogystal, ac yn y gyfrol *Y Cylchoedd Perffaith*, ceir sawl cerdd yn trafod y profiad o golli ffydd, ond law yn llaw â hynny'n mae'n mynegi'r profiad o golli ffydd hefyd mewn iaith:

Ond nid mater o golli ffydd yn unig yw hi: mae'r bardd, sydd mor adnabyddus i ni Gymry fel llenor, yn amau nid yn unig rym y Gair ond grym geiriau fel cyfrwng i fynegi'r hyn y mae'n ei deimlo. Yn wir, bron y gellir dweud bod y bardd wedi colli ei hun, drwy anallu iaith i adrodd ei brofiad: "*lle mor unig/yw iaith weithiau ...*" ... Adleisir y thema hon gydol y gyfrol [*Y Cylchoedd Perffaith*] y llenor yn gwirioni gydag iaith, ac yna, yn yr un gwynt bron iawn, yn ymwybodol o'i hannigonolrwydd.²⁰⁵

Ystyrier y gerdd 'Y ddalen wen', 'Marchog iaith', 'bydd dyn ar drothwy'r hanner cant', fel enghreifftiau o fynegiant Aled Jones Williams o annigonolrwydd o iaith yn ogystal â'r gerdd a roddodd i'r gyfrol ei theitl:

Y Cylchoedd Perffaith

Ydw i yn ddigon gwirion
i feddwl fod geiria'
'n medru newid petha'?

Yndw! mae'n rhaid!

Eu taflu'n gerrig
i lyn llonydd
rhyw fudandod
a gwel

²⁰³ Williams, 'Alcoholaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 30-1.

²⁰⁴ Williams, *Oerfel Gaeaf Duw*, t. 9.

²⁰⁵ Janice Jones, 'Aled Jones Williams – adolygiad *Y Cylchoedd Perffaith*', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/adolygiadau/cylchoedd-perffaith.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

y cylchoedd perffaith
yn ymestyn hyd at ddistawrwydd
a'r aros wedyn hir
ar lan iaith.²⁰⁶

Y mae'r thema hon o amau grym mynegiant iaith, nid yn unig yn thema abswrdaidd – 'The Theatre of the Absurd ... tends toward a radical devaluation of language'²⁰⁷ – ond hefyd yn enghraifft arall o thema ôl-fodernaidd yng ngwaith y dramodydd. Roedd ôl-foderniaeth yn symudiad a oedd yn gogwyddo oddi wrth foderniaeth. Roedd moderniaeth yn symudiad a ddaeth i fodolaeth yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac a oedd yn ymgeisio am wreiddioldeb gan dorri traddodiadau. Roedd yn fudiad o oedd 'yn tarddu o gyfnod y Goleuad yn y ddeunawfed ganrif, gyda'r pwyslais ar reswm a rhesymoliaeth, ar ddyneiddiaeth a rhyddfrydiaeth'.²⁰⁸ Roedd ôl-foderniaeth felly yn ceisio torri drych realaeth gan gwestiynu gwerthoedd moderniaeth a mynd ati'n fwriadol i arddel cymysgfa o wahanol fathau o ffurfiau cynharach. Roedd moderniaeth yn fudiad a oedd yn credu yng ngrym iaith a bod iaith yn fodd o fynegi realiti. O ganlyniad, y mae'r thema o golli ffydd mewn iaith yn thema ôl-fodernaidd ac fe'i trafodir mewn erthygl gan John Rowlands:

Felly, un dehongliad o ôl-foderniaeth yw ei bod yn fudiad athronyddol gwrth-athronyddol sy'n ymwneud â gwreiddiau moderniaeth yng Ngoleuedigaeth y ddeunawfed ganrif, yn ymwrthod â'r syniad fod iaith yn gallu cael gafael ar y Gwir trwy reswm, ac yn wir yn amau'r holl gysyniad o Wirionedd trosgynnol.

Fe geir sylfaen theoretig i hyn oll yng ngwaith yr ôl-strwythurwyr Ffrengig, megis Barthes, Derrida a Foucault, er na fuasai pawb yn barod i gyplysu ôl-foderniaeth ag ôl-strwythuraeth chwaith. Jaques Derrida oedd arloeswr dadadeiladu, sef dull o feirniadu sy'n seiliedig ar y syniad fod iaith yn llithrigfa ddi-ben-draw nad yw byth yn datgelu ystyr bendant a diamwys. Twyll yw'r syniad fod iaith yn adlewyrchu realiti neu'n rhoi mynediad inni at ryw wirionedd y tu hwnt iddi hi ei hun.²⁰⁹

Dywed Aled Jones Williams mai ei anallu i ddibynnu ar iaith yw'r rheswm nad yw, medd ef, yn ddarllenwr mawr ei hun:

Ond o hyd, rwy'n gorfod gwthio fy hun i ddarllen nofel, gwingo trwy'r tudalennau cyntaf a mond setlo i lawr rhywle tua'r canol ...Ond nid y stori fel y cyfryw ydi'r peth ... ond y cyfuniad o eiriau, y gair pendant yma, yn hytrach na gair cyffelyb a fyddai

²⁰⁶ Aled Jones Williams, 'Y Cylchoedd Perffaith', *Y Cylchoedd Perffaith*, t. 100.

²⁰⁷ Martin Esslin, 'Introduction', *The Theatre of the Absurd* (London, 1962), t. 18.

²⁰⁸ John Rowlands, 'Chwarae â Chwedlau: Cip ar y nofel Gymraeg ôl-foderniaeth', *Y Traethodydd*, 151 (Ionawr 1996), 7.

²⁰⁹ Rowlands, 'Chwarae â Chwedlau', *Y Traethodydd*, 7.

wedi gwneud y tro. ... Peth fel yna ydyw darllen i mi. Fel petai llyfr yn rhyw fath o sbinglas i dynnu'n agos y 'Rhywbeth' yr ydw i wedi bod yn chwilio amdano gydol fy mhwm deg a thri o flynyddoedd. A geiriau felly'n wydrau tryloyw i 'weled y pell yn agos a phethau bychain yn fawr'. Ond siomiant yw geiriau, wrth gwrs. Yn ddrysau cloëdig yn amlach nag y maen nhw'n ffenestri. Ond beth yw dyn heb eiriau? A'r ymgodymu ag o ei hun mewn iaith? Anifail.²¹⁰

Ys dywed Sandra yn *Lysh*, 'tydy na distawrwydd na'i bardnar mudandod ddim yn ddewis i neb byw. Ma raid i mi drïo deud rwbath. Mentro geiria'.²¹¹ Y mae hithau, fel ei chrëwr, yn ymwybodol o ba mor dwyllodrus y gall geiriau fod: 'fod bob dim yn cario mwy nag un ystyr ... Y gallsai yr un-un gair o fewn yr un-un dwrnod newid ei ystyr yn llwyr ... Fedra hi ddim ymddiried mewn geiria. Tydi iaith byth yn saff'.²¹² Yn wir, mae'r cwestiwn o ba mor ddibynadwy yw geiriau a iaith yn thema gynyddol o fewn y dramâu:

Dwi'n dod yn fwy ymwybodol o'r thema yna yn be dwi'n neud, sef natur iaith ei hun, be sy'n bosibl ei ddweud, be sy'n amhosibl i'w ddweud, ac eto ar yr un pryd, rydach chi'n styc efo geiria ... be mae rhywun yn ei ddweud wrth siarad neu be mae o neu hi ddim yn ei ddweud. A dwi'n meddwl fod hynny'n un o'r themâu mawr gen' i.²¹³

Gall y sylwadau uchod fod yn eironig iawn o ystyried fod Aled Jones Williams yn ddramodydd mor eiriol. Ond efallai mai arwydd yw hynny o'i ymgais i geisio mynegiant i brofiadau. Y mae geiriau hefyd yn cael eu defnyddio i bwrpas neilltuol gan gymeriadau'r dramâu. Mae nifer o'r cymeriadau yn dianc y tu mewn i eiriau ac felly'n defnyddio geiriau i'w hamddiffyn eu hunain, beth bynnag fo'u sefyllfa ac, o ganlyniad, yn gaeth i eiriau. Y mae rhai yn cuddio y tu ôl i eiriau rhag gorfod wynebu gwirioneddau bywyd ac ymdebygant yn hynny o beth i gymeriadau Meic Povey sy'n cuddio y tu ôl i hiwmor eu geiriau. Mae eraill yn defnyddio geiriau fel arf, eto i amddiffyn eu hunain, trwy ddisodli cymeriadau treisgar neu orthrymus: 'Llofruddion ydy' geiria'.²¹⁴

Y mae cymeriadau Ifor yn *Lysh* a chymeriad Dyn 1 yn *Chwilys*, ill dau yn ddarlithwyr ac yn enghraifft o gymeriadau sydd yn cuddio y tu ôl i eiriau a defnyddia Ifor eiriau fel llen gyhoeddus i guddio'i alcoholiaeth y tu ôl iddi, tra mae cymeriad Jona Fodca, y dramodydd sy'n meddwl bod yn rhaid iddo yfed er mwyn ysgrifennu, yn chwarae gyda geiriau fel nad

²¹⁰ Aled Jones Williams, 'Llyfrgell', *Taliesin*, 140 (Haf 2010), 165.

²¹¹ Williams, *Lysh*, t. 31.

²¹² Williams, *Lysh*, tt. 30-1.

²¹³ Aled Jones Williams, yn 'Croma: eitem ar y ddrama Lysh', *Cwmni Da* (14 Gorffennaf 2004).

²¹⁴ Williams, *Cnawd*, t. 26.

yw'n gorfod trafod yr hyn sy'n digwydd iddo a chydabod y gwirionedd. Dyma gymeriadau sy'n creu byd trwy gyfrwng geiriau er mwyn eu hamddiffyn eu hunain:

Ni sy'n creu ein byd. A'n bydau. Drwy iaith yn bennaf. Fel Adda fe'n gwahoddir i enwi pethau. Yr enwi yna – yr ynganu – sy'n troi tryblith yn greadigaeth.²¹⁵

Y mae cymeriadau eraill, megis Alji ac Eddy yn *Wal*, hefyd yn llenwi'u hamser â geiriau er mwyn osgoi'r Mudandod hwnnw, sef trydydd cymeriad y ddrama. Yn hynny o beth, ymdebygent i Fladimir ac Estragon yn *Wrth aros Godot*, Samuel Beckett. Sylwer ar y siarad gwag parhaus rhwng Alji ac Eddy a rhaid 'chwilio am eu distawrwydd nhw lle mae nhw yn cuddied rhag y byd'.²¹⁶ Ni allant ddiodef eu distawrwydd eu hunain, gan mai yn y Mudandod hwn y mae eu marwolaeth. Mae geiriau yn gysur i Alji ac Eddy yn *Wal*, 'geiria fel tasa nhw'n dda-da yn dy geg di',²¹⁷ fel ag y maent i Tom yn *Fel Stafell* ac i Sundance yn ogystal:

Bardd yw Sundance sy'n ymfalchïo mewn geiriau sy'n fodd iddo greu'i realiti'i hun ... mae Sundance yn hollol ddibynnol ar eiriau, ac maen nhw'n gyfrwng mwynhad a chysur yn ogystal â phoen.²¹⁸

Defnyddia Sundance eiriau i gadarnhau ei fodolaeth gan mai geiriau yw ei unig gwmni a'i unig obaith: 'Os o's gin ti ddigon o eiria' mi fedri di neud i rw bath bara'.²¹⁹ Llenwa ei amser gyda gemau geiriol fel gwneud croeseiriau: 'Geiria sy'n 'nal i hefo'i gilydd... Fel sêffdi pins .. Naci, fel lastig bands ... Am 'y 'mod i'n medru deud petha dwi'n gw bod 'mod i yma'.²²⁰ Ei glyfrwch geiriol hefyd yw gwraidd hiwmor y ddrama. Ceisia Patric yn *Tiwlips* roi trefn ar ei fywyd yntau trwy gyfrwng geiriau: 'wrth reoli a thrin geiriau i'w troi'n llên mae'n gwneud synnwyr o'i fywyd'.²²¹ Ac mae ei hoffter yntau o drin geiriau, er i'w dad ei alw'n gadi-ffan am wneud hynny, yn cynnig dihangfa o'i sefyllfa deuluol fregus i Mr Parry, y plentyn, yn *Pryd fuo Kathleen Ferrier Farw?*:

MR PARRY: "Dad!" medda fi, "ma' gin i fwy o eiria na chi ..."

²¹⁵ Williams, *Oerfel Gaeaf Duw*, t. 15.

²¹⁶ Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

²¹⁷ Williams 'Wal', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 101.

²¹⁸ Ros, 'Rhagymadrodd: 'Siarad â'u Hunain'', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 17.

²¹⁹ Williams, 'Sundance', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 52.

²²⁰ Williams, 'Sundance', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, tt. 37-8.

²²¹ Ros, 'Rhwng rheg a rhyethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 27.

A dyma fi'n dengid o'i afael o i'r llofft²²²

Yn wir, er bod y cymeriadau uchod yn siarad yn ddi-baid, yn yr hyn nad yw'n cael ei ddweud y digwydd dramâu Aled Jones Williams, yr hyn a ddigwydd rhwng llinellau'r ddeialog:

Ers talwm, oedd gan nain gyllell fara, ac mi oedd hi'n rhoi min arni trwy ei gosod hi mewn lle arbennig rhwng dwy garreg ar noson ola' leuad. A myn dân ni, mi oedd yna fin arni erbyn y bora.

O'n i'n arfer gofyn iddi, sut mae o'n gweithio, nain? Ac oedd hi'n ateb trwy ddweud 'Shhh!' Ac yn yr 'Shhh' yna y mae'r peth i mi.²²³

Defnyddio geiriau fel arf y mae cymeriad Santa Clôs yn *Lysh* wedi'i wneud ar hyd ei oes. Dywed Aled Jones Williams nad oedd llyfrau yn rhan fawr o'i fywyd pan oedd yn blentyn, ychwaith, ond yn stydi ei dad roedd cwpwrdd mawr a silffoedd a oedd yn dal llyfrau crefyddol ei dad ac 'yno y bu darganfyddiad: dau eiriadur: Un Saesneg *Chambers* yn amddifad o un o'i gloriau ac un Cymraeg dan olygyddiaeth H. Meurig Evans mewn rhwymiad glas ac ar yr wyneb-ddalen y geiriau: "Anrheg i Bob gan ei Dad".²²⁴ A daeth Aled Jones Williams, fel Santa Clôs, yn 'ddarllenwr geiriaduron':²²⁵

Santa Clôs: Ond un 'Dolig mi gesh i'r gwn gora' gesh i 'rioed. Dicshynyri Susnag gin Anti Gracie. A mi gesh-i gadw fo. Oherwydd yn nhyb Mam rwbath i genod o'dd dicshynyris.²²⁶

Defnyddia'r cymeriad ei wybodaeth newydd o eiriau fel arf yn erbyn ei fam er mwyn ei thaflu oddi ar ei hechel ac ennyn pŵer iddo'i hun gan chwarae gemau meddyliol â hi wrth ei holi am ystyr geiriau Saesneg diarth:

Santa Clôs: Mi o'n i'n medru'i lladd hi hefo'i hanwybodaeth ei hun ... Oherwydd Cymraes thick odd Mam.²²⁷

Mewn gwirionedd, 'drama am eiriau yw hon [*Lysh*] i raddau helaeth, am y "conundrum" hwnnw sydd wedi drysu llenorion ers dechrau amser, sef sut mae cyfleu cymhlethdod emosiwn o fewn hualau iaith.'²²⁸

²²² Williams, 'Pryd fuo Kathleen Ferrier farw?', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 136

²²³ Aled Jones Williams, yn Owen, 'Credw mewn uwD', *Golwg*, 7.

²²⁴ Williams, 'Llyfrgell', *Taliesin*, 163.

²²⁵ Williams, 'Llyfrgell', *Taliesin*, 163.

²²⁶ Williams, *Lysh*, t. 43.

²²⁷ Williams, *Lysh*, t. 44.

Deuddeg cyfrol o'r *Encyclopedia Britannica*, a ddefnyddiwyd fel coesau bwrdd yng nghwt Yncl Jo, yw ffrindiau gorau Patric yn *Tiwlips* a defnyddia ei eirfa newydd i'r un pwrpas â Santa Clôs ac er mwyn ceisio 'lloches o'r hunllef byw'²²⁹:

PATRIC: Peth braf o'dd medru chwerthin am 'u penna nhw ... Tu mewn ... Yn ddirgel ... A'r Encyclopedia Britannica yn gloywi ac yn pefrio yn y gornel ... Yn llawn o wybodaeth beryglus.²³⁰

'Dojan petha tu mewn i'r geiria'²³¹ a wna cymeriadau Aled Jones Williams, ond buan y cyll y geiriau eu grym a cholli eu heffaith a diffygio. Sylweddola'r cymeriadau mai ffug yw'r cysur a geir y tu mewn i iaith, ys dywed Santa Clôs yn *Lysh*, eu bod '[f]el bocsar wedi tynnu ei fenyg [sic.]'.²³²

²²⁸ Mareid, 'Lyshio', *Barn*, t. 54.

²²⁹ Ros, 'Rhwng rheg a rthreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 27

²³⁰ Williams, 'Tiwlips' yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 116.

²³¹ Williams, 'Ta-ra Tera' yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 154

²³² Williams, *Lysh*, t. 51.

2.7 Cymreictod

Mi fyddwch chi farw o'r felan toc
yn hiraethu am Llywelyn²³³

Pan holir Aled Jones Williams am beth y mae ei ddramâu, ei ateb yw 'Dwn i ddim!',²³⁴ ond gŵyr fod arno awydd i ddweud rhai pethau. Ac un o'r pethau hynny yw codi cwestiynau ynglŷn â rôl yr iaith Gymraeg a beth, mewn gwirionedd, yw hunaniaeth genedlaethol a beth yw ystyr Cymreictod:

Cymreictod wedyn. A fy nghwestiwn mawr personol i erbyn hyn: A oes modd byw yn y Gymru Gymraeg a bod yn iach? Yn feddyliol-ysbrydol iach? Cwestiwn a'm trawodd yn ddiweddar wrth ddarlenn *Tywyll Heno*, Kate Roberts.²³⁵

Y mae *Ta-ra Teresa* yn 'ddrama fawr ar thema fawr'.²³⁶ Ar wahân i'r ddrama, 2 (anghyhoeddedig), o eiddo'r dramodydd, a ysgrifennodd ym 1996/1997 cyn iddi gael ei llwyfannu rai blynyddoedd yn ddiweddarach gan ddwy o fyfyrwyr Adran Cyfathrebu a'r Cyfryngau, Prifysgol Cymru Bangor, dyma unig ddrama ddwyieithog Aled Jones Williams. Llwyfannwyd *Ta-ra Teresa* gyntaf yn 2002 gan Gwmni Theatr Gwynedd a dyma'r ddrama ddwyieithog gyntaf i gael ei pherfformio yn Theatr Gwynedd, Bangor, er y dywed Nic Ros mai drama Gymraeg sy'n cynnwys Saesneg yw hi mewn gwirionedd. Roedd aelodau'r cast yn cynnwys Michael Atkinson, Rhian Cadwaladr, Owen Arwyn ac Elin Wmffras o dan gyfarwyddyd Ian Rowlands. Cafwyd llwyfaniad arall o'r ddrama flwyddyn yn ddiweddarach gan Lwyfan Gogledd Cymru gyda'r un cast a chyfarwyddwr ond gyda Tami Gwyn yn chwarae rhan Adrian y tro hwn: 'Gellir dweud mai archwilio'r berthynas rhwng hunaniaeth genedlaethol a hunaniaeth bersonol yr unigolyn yw man cychwyn y ddrama.'²³⁷

Lleolir y ddrama ym Mlaenau Ffestiniog, Lerpwl a Llandudno, ac edrydd hanes pedwar cymeriad: ffoadur economaidd yw Johnny 'sy'n gweld Cymru fel cyfnas wag a dechreuad newydd'²³⁸ iddo ef a'i ferch dair blwydd oed, Adrian, wedi i'w wraig, Teresa, ei adael. Muda i Flaenau Ffestiniog yn y gobaith o gael gwell bywyd. Fodd bynnag, ni lwyddodd i fagu gwreiddiau nac ymdoddi i'r gymdeithas fel y gwnaeth Adrian a gwêl Gymru

²³³ Williams, 'Pêl Goch', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 59.

²³⁴ Aled Jones Williams, 'Rhyw air', *Merched Eira a Chwilys* (Llanrwst, 2010), t. 6.

²³⁵ Williams, 'Rhyw air', *Merched Eira a Chwilys*, t. 7.

²³⁶ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 33.

²³⁷ Jerry Hunter, 'Mole Vama', *Barn*, 479/480 (Rhagfyr 2002 / Ionawr 2003), 82.

²³⁸ Nic Ros, 'A55 dwy ffordd', *Barn*, 479/480 (Rhagfyr 2002 / Ionawr 2003), 84.

a'r Gymraeg fel carchar. Cychwynnodd fusnes, ond ni fu'n llwyddiant am y rheswm – yn ei dyb ef o leiaf – na allai siarad Cymraeg. Ymgyrchydd brwd dros yr iaith yw Robat Hefin, mab i Bob ac Eirwen, a dyma'r cymeriad a barodd y mwyaf o broblem i Aled Jones Williams o'i holl gymeriadau: 'doeddwn i ddim yn hapus o gwbl efo Robert Hefin ... roedd gen i ryw ragfarn yn ei erbyn o, ac o'n i'n methu â chael gwared o'r rhagfarn.'²³⁹ Yr hyn a geir yn y ddrama yw pedwar gwahanol safbwynt ar nifer o ddigwyddiadau. Trwy gydol y ddrama, caiff Robat Hefin ei holi mewn cyfweiliad radio gyda Beti George ac edrycha'n ôl ar ei fywyd. Yn ystod ei blentyndod gorfu iddo fynd efo'i fam a'i dad i siopa i Lerpwl, ac wedi i'w dad ladd ei hun (er nad yw Robat yn fodlon cyfaddef ar goedd mai dyna a ddigwyddodd i'w dad), parhaodd i fynd yno gyda'i fam. Ar un o'r triapiau hynny y prynodd gopi o'r gyfrol *The Road to Wigan Pier*, llyfr am gomiwnyddiaeth, mewn siop lyfrau ail law a chyffrowyd ei feddwl gwleidyddol. Er bod yr iaith Gymraeg yn golygu popeth iddo, y mae, o dan yr wyneb, wedi syrffedu gyda phopeth traddodiadol Cymreig a Christnogol, yn 'Steddfod a Stomp a Thalwrn a Phrotestio',²⁴⁰ a gwêl hysbyseb am gyfarfod Bwdiaeth mewn siop lyfrau, lle mae Adrian yn gweithio, ac fe'i perswadir ganddi i fynd iddo. Y mae perthynas yn blaguro rhwng y ddau a threfna Eirwen barti i ddathlu eu dyweddiad. Yno y daw'r fam wyneb yn wyneb â gŵr y bu'n cael perthynas ag ef flynyddoedd ynghynt, Johnny: 'Dibynna Robat ar ei deimlad cryf o hunaniaeth fel sail ei ffydd wleidyddol, ond fel Oedipos yn y chwedl Roegaid, ni wŷr pwy ydyw.'²⁴¹ Datgelir mai Johnny yw tad Robat a olyga fod Adrian, ei ddyweddi, yn hanner chwaer iddo. Golyga hefyd ei fod, er ei genedlaetholdeb Cymreig, yn hanner Sais.

Efallai i gynulleidfaoedd ddisgwyl i Aled Jones Williams, mewn drama sy'n ymdrin â mewnlifiad, fynegi safbwynt y Cymry Cymraeg gorthrymedig dan law'r Saeson, ond nid dyna'r achos: 'nid condemnio gweithredodd a wna Aled Jones Williams ond ceisio deall cymhellion.'²⁴² Cynrychiolir y Cymry Cymraeg traddodiadol gan gymeriad gwannaf a lleiaf diddorol y ddrama, yr ystrydeb o ymgyrchydd cenedlaetholgar a berthyn i ddegawd ymgyrchol yr 1960au, Robat Hefin. Ar yr olwg gyntaf, y mae'n gymeriad o egwyddorion cryfion a etifeddodd gan ei dad, medd ef. Ond mae'r ffaith mai Sais yw hwnnw mewn gwirionedd, yn ogystal ag iddo ddweud mai Cymraes rugl o Flaenau Ffestiniog yw ei ddyweddi, Adrian, oherwydd bod ganddo gywilydd cyfaddef mai Saesnes o Lerpwl, yr un Lerpwl a fu'n gyfrifol am fodd Tryweryn, ydyw, yn awgrymu nad yw ei egwyddorion cyn

²³⁹ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweiliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 15.

²⁴⁰ Williams, 'Ta-ra Teresa', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 160.

²⁴¹ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 32.

²⁴² Ros, 'A55 dwy ffordd', *Barn*, 84.

gryfed ag y tybiem. Dywed ei fod yn caru'r Gymraeg a'i bod yn rhan annatod o Gymreictod, a dywed na all Saeson fyth ddirnad hynny. Fodd bynnag, gwendid pennaf Robot yw'r ffaith ei fod, fel Oedipos gynt, yn gwadu ei hunaniaeth ei hun ac, o'r herwydd, gellir ei ystyried yn arwr trasig y ddrama. Nid yn unig y mae wedi colli sicrwydd ei hunaniaeth genedlaethol ond ei hunaniaeth bersonol yn ogystal:

Fel yn nramâu Beckett, mae Aled Jones Williams yn dangos, er i ni geisio darganfod ein hunaniaeth drwy ein teuluoedd, iaith, cymdeithas, celfyddyd, a hyd yn oed ein ffantasiau, y gwir ydi ein bod ni gyd ar ein pen ein hunain.²⁴³

Cyfyd y cwestiwn o beth yn union yw cenedl. Beth sy'n peri i rywun fod yn Gymro neu'n Sais? Ys dywed Adrian:

Achos ma' damwain ydy pob dim ... Pa iaith ti'n siarad ... le ges di dy eni ... Pwy ydy dy rieni di ... Pa grefydd w't ti'n perthyn iddi hi ... Damwain.²⁴⁴

Un o'r troeon cyntaf y daeth Rabat Hefin yn ymwybodol o Gymreictod oedd pan syrthiodd ar ddarn o lechen pan oedd yn fychan, a'r llechen honno, a phopeth a oedd ynghlwm wrth ei hanes, yn symbol o orthrwm Seisnig. Y mae'r ddrama'n frith o gyfeiriadau at Dryweryn ac mae'r ffaith fod Johnny yn gwneud hwyl am ben y Cymry cyn wrineiddio i geg Robot tuag at ddiwedd y ddrama, gan roi dŵr Tryweryn yn ôl iddo, yn hynod symbolaidd. Ar yr olwg gyntaf, dyma'r thema Gymreig a geir yn y ddrama, sef mai gwlad dan orthrwm yw Cymru wedi bod ar hyd yr oesau a'r Gymraeg yn iaith sy'n cael ei rheibio gan y Saesneg. Ond wrth gloddio'n ddyfnach, sylwer i Aled Jones Williams fynegi gogwydd arall ar y thema, gogwydd y gellir ei diffinio fel un Gristnogol: 'Pam yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd a tithau heb sylwi ar y trawst sydd yn dy lygad dy hun?'²⁴⁵ Yr hyn a wna yw cymryd pwnc o bwys gwleidyddol a cheisio mynd y tu hwnt i ymatebion rhagweladwy gan ychwanegu cynhwysion annisgwyl at y pair a thrwy hynny sicrhau mwy o gymhlethdod emosiynol.

Man cychwyn y dadfeiliad yn *Ta-ra Teresa* yw'r ffaith i Eirwen, y Gymraes, 'hwrio ei hun i Sais'.²⁴⁶ Dyna sy'n gyfrifol am gwmp y cymeriadau; y berthynas losgachol rhwng

²⁴³ Gareth Evans 'Sundance by Aled Jones Williams', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Sundance&company=Bara%20Caws>.

²⁴⁴ Williams, 'Ta-ra Teresa', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 163.

²⁴⁵ Luc vi.41.

²⁴⁶ Nic Ros, 'Ta-ra Teresa – eto', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/03-teresa.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

Robat ac Adrian a'r ffaith bod Robat yn hanner Sais. Awgrymir, felly, mai'r Cymry Cymraeg sy'n gyfrifol am dynnu eu trallod yn eu pennau ei hunain, mewn gwirionedd, ond ei bod yn wastad wedi bod yn haws beio eraill: 'There's a moral duty to find someone to blame. Finding someone to blame will make life bearable'.²⁴⁷ Dyma thema sy'n ein hatgoffa o ddramâu megis *Terfyn* (anghyhoeddedig) a *Chwarae Plant* (anghyhoeddedig) gan Meic Povey ac un o ddramâu eraill Aled Jones Williams, 2, a oedd yn 'prototype i *Ta-ra Teresa*'.²⁴⁸ Yn y ddrama hon, daw Cymraes a Saesnes a fu'n rhannu'r un dyn ynghyd ar gyfer ei angladd. Y Gymraes, Anwen, oedd gwraig yr ymadawedig a'r Saesnes, Rachel, sy'n mellithio llwfrdra'r Cymry yn ystod y ddrama, oedd ei feistres:

Rachel: We are the mirror you look into. You hate yourselves by hating us who reflect you. Enemies are always ourselves out there killing us. Insisting on difference is only another way of saying 'I am frightened'.²⁴⁹

Yn wir, ni ellir llwytho'r bai i gyd ar y cymdogion dros Glawdd Offa am bob trallod a ddaw i ran y Cymry. Awgryma Aled Jones Williams yn ei weithiau ein bod fel cenedl yn byw yn y gorffennol: 'Mi fyddwch chi farw o'r felan toc yn hiraethu am Llywelyn'.²⁵⁰ Yn wir, cofio yw hanfod Cymreictod i Robat Hefin ac y mae ef yn ymgorfforiad o'r math hwnnw o Gymreictod sy'n ddi-asgwrn-cefn, yn cywilyddio yn niymadferthedd ei genedl ond eto'n gwneud dim ac yn hunandosturiol:

ROBAT HEFIN: Yr unig beth fedrwch chi 'i neud hefo llechen ydy carreg fedd²⁵¹

O ganlyniad, llwydda'r ffoadur o Sais, Johnny, i ennyn mwy o'n cydymdeimlad nag a wna Robat Hefin. Y mae'r Cymry'n ymdrybaeddu cymaint yn hunandosturi eu gorffennol caeth fel pan gynigir iddynt ryddid, y maent yn ei wrthod gan fod yr hunandosturi hwn wedi dod i'w diffinio fel cenedl:

Llais 1: Chwaral a chwarelwrs ... O! didyms ... O-bach iddyn-nhw yng nghawell amser.²⁵²

²⁴⁷ Williams, 'Ta-ra Teresa', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 173.

²⁴⁸ Cyfweiliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

²⁴⁹ Nic Ros yn dyfynnu o'r ddrama 2 yn 'Ta-ra Teresa – eto', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/03-teresa.shtml>>.

²⁵⁰ Williams, 'Pêl Goch', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 59.

²⁵¹ Williams, 'Ta-ra Teresa', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 165.

²⁵² Williams, *Cnawd*, t. 5.

Ystyrier y ddau gymeriad yn *Chwilys* fel enghraifft arall. Caiff Dyn 2 ‘ei reoli gan bŵer uwch, sef y Sais anhysbys ar ochr arall y ffôn, yn debyg i berthynas y Cynulliad â San Steffan ... Gorthrymwyd Dyn 1 i’r fath raddau fel na all gymryd y cam tuag at ryddid hyd yn oed pan roddir ef iddo ar blât, megis pleidlais ’79’.²⁵³

Yn ei weithiau, mae Aled Jones Williams yn mynd ati’n fwriadol i bortreadu meddylfryd y Cymry a’u diffyg hunanhyder mewn modd pathetig a hynod feirniadol mewn ymgais i beri i’w gynulleidfa gywilyddio. Efallai mai’r bwriad wrth wneud hynny yw ein cythruddo i weithredu ond a oes perygl iddo gael effaith gwbl groes ac i’r dramodydd ei hun gyfrannu at y diffyg hunanhyder hwn wrth fod mor feirniadol?

Ar ddechrau’r bennod hon, fe gyfeiriwyd at ddyfyniad gan Aled Jones Williams yn dweud na wyddai am beth y mae ei ddramâu, ond gyda’r negeseuon yn ei weithiau cyn amlyced â’r un a drafodwyd yn y bennod hon, yn ogystal â’r ffaith fod cynifer o themâu yn codi dro ar ôl tro yn ei weithiau, anodd yw credu nad yw’n eu harchwilio’n fwriadol. Os oes themâu neu negeseuon i’w canfod yn ei weithiau – ac fe amlygir yn yr astudiaeth hon mai dyna’r achos – y mae’n profi fod gan yr awdur agenda wrth fynd ati i gyfansoddi a’i fod felly yn ymwybodol o’r hyn y mae ei weithiau’n ymwneud ag ef. Pe na bai awdur yn gwybod am yr hyn y mae’n ei ysgrifennu, ni fyddai ganddo ddrama werth sôn amdani. Ond, o ystyried natur ddihyder y dramodydd, efallai mai gwyleidd-dra ar ei ran oedd yn gyfrifol am y sylw hwn wrth iddo geisio osgoi cymryd ei waith o ddifrif.

²⁵³ Hughes, ‘*Chwilys*: Artaith bleserus’, <<http://tuchwith.com/2010/03/adolygiad-o-chwilys-drama-newydd-aled-jones-williams-gan-non-meleri-hughes/>>.

2.8 Pynciau llog

Dwi wrth fy modd hefo'r 'di-chwaeth'.²⁵⁴

Y mae cryfder presenoldeb y thema o Gymreictod yn nifer o ddramâu Aled Jones Williams yn golygu y byddai agweddau hollbwysig o'r gweithiau hynny yn cael eu colli wrth eu cyfieithu gan eu bod yn trafod sefyllfaoedd sy'n berthnasol i Gymru ac i'r Cymry Cymraeg eu hiaith yn arbennig, A'r un modd gyda'r thema a drafodir yn yr adran hon yn ogystal, sef yr hyn sy'n llechu o dan wyneb Gymreictod dosbarth canol.

Gellir disgrifio gweithiau Aled Jones Williams fel rhai dadlennol. Y mae sawl agwedd o'i weithiau, beth bynnag fo'r cyfrwng, yn bwriadol ogwyddo tuag at y dadlennol. Dywedodd Eirwyn George mai 'er mwyn rhoi ysgytwad i'r cylchoedd llenyddol Cymraeg'²⁵⁵ y penderfynasant ddyfarnu pryddest Aled Jones Williams yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Goron yn 2002, a dywedodd Dafydd Llywelyn ei fod yn haeddu'r wobwr 'petai ond am y ffaith iddo ysgogi trafodaeth ac ysgwyd ychydig ar y sefydliad'.²⁵⁶ Yn wir, mae gweithiau Aled Jones Williams wedi rhoi sawl ysgytwad i'r cylchoedd llenyddol Cymraeg dros y blynyddoedd, gyda'i duedd i fynd i'r afael â phynciau llog megis trais, llogach, alcoholiaeth, pornograffi, rhyw gwyrdroedig a cham-drin rhywiol ac, o ganlyniad, fe'i hadwaenir fel 'ein prif annifyrrydd yn y theatr heddiw'.²⁵⁷ 'Diau mai'r elfen amlycaf sy'n awgrymu newydd-deb gwaith Aled Jones Williams yw aflonyddwch eithafol ei weledigaeth'.²⁵⁸

Dyma paham, 'ar yr olwg gyntaf, mae ei waith yn gynnyrch person ifanc'.²⁵⁹ Fodd bynnag, golygodd yr aflonyddwch eithafol hwn a'r ffaith na 'fu erioed yn un i barchu confensiwn'²⁶⁰ fod cwmnïau drama, ym mlynnyddoedd cynharaf ei yrfa fel dramodydd, yn gyndyn o lwyfannu ei weithiau. Ond ni pharodd hynny i'r dramodydd newid arddull ei weithiau. A bellach, mae cynulleidfaoedd wedi 'dod i arfer i ryw raddau â bydysawd gwyrdroedig Williams'²⁶¹ sydd erbyn hyn mor nodweddiadol ohono. Ond pwysleisia mai yng

²⁵⁴ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 11.

²⁵⁵ Dienw, 'Offeiriad yn cipio'r Goron', <www.bbc.co.uk/hi/english/newyddion/newsid2174000/2174423.stm>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

²⁵⁶ Dafydd Llywelyn, 'Prynwch Fuwch, rhag ofn', *Barn* 479/480 (Rhagfyr 2002 / Ionawr 2003), 86.

²⁵⁷ Elis, 'Gwreiddyn y Drwg' <<http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=18>>.

²⁵⁸ Roger Owen, 'Y dieithredig', *Barn*, 522/523 (Gorffennaf / Awst 2006), 94.

²⁵⁹ Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 17.

²⁶⁰ Llywelyn, 'Prynwch Fuwch, rhag ofn', *Barn*, 86.

²⁶¹ Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 18.

Nghymru yn unig yr ystyrir y pynciau hyn yn dabw: ‘Ac mae yna rai pethau tabw yng Nghymru. Dwi’n meddwl bod yr iaith Gymraeg yn dabw: chei di ddim chwerthin am yr iaith. Barddoniaeth hefyd.’²⁶² Dywed ei fod yn rhan o gyfnod llenyddol a gynhwysai ddramodwyr megis Sarah Kane (awdur *Blasted*, *Skin*, *Phaedra’s Love*, *Cleansed*, *Crave* a *4.48 Psychosis*), a’i fod wedi’i ddylanwadu gan yr ysgol lenyddol honno. Beirniadwyd gwaith Sarah Kane yn hallt gan y wasg am ei hymdriniaeth amrwd o bynciau tywyll megis poen ac artaith a’i defnydd o iaith gref. Yn wir, gwelir peth tebygrwydd rhwng cefndir Sarah Kane ac Aled Jones Williams. Magwyd Sarah Kane ar aelwyd Gristnogol Efengylaidd, ond, fel yr ymwrthododd Aled Jones Williams yn y man ag Eglwysyddiaeth, fe ymwrthododd hithau â’r daliadau hynny. Yn ystod ei bywyd, dioddefodd iselder dwys ond parhaodd i ysgrifennu a chyhoeddwyd pump o’i dramâu. Fodd bynnag, ym 1999, a hithau yn wyth ar hugain oed, cymerodd orddos o gyffuriau ac fe’i rhuthrwyd i’r ysbyty, ond yn ystod ei chyfnod yno, cyflawnodd hunanladdiad trwy ei chrogi’i hun. O sefyllfaoedd o anobaith llwyr y deillia creadigrwydd Aled Jones Williams yntau:

Mae e’n deall beth yw i fod reit lawr yna ac mae o’n ’sgwennu o lawr fan’na, achos yn fan’na nath e wynebu ei wir ddüwch ac mae ei ddramâu e’n adlewyrchu’r boen ac mae’n ailgynhyrchu’r boen yna i ni trwy ei waith e a thrwy hynny yn rhoi rhyw ffenestr ar y natur ddynol.²⁶³

Yn wir, ys awgrymir uchod, mae’r gorgyffwrdd sydd rhwng y ddau ddramodydd yn ymestyn ymhellach na chefnidir y ddau yn unig. Roedd Sarah Kane, fel y mae Aled Jones Williams, yn ddramodydd a oedd o dan ddylanwadau cyferbyniol Beckett a Shakespeare ac a ysgrifennai mewn ieithwedd farddonol, a’i dymuniad hithau pan oedd yn ifanc, fel Aled Jones Williams, oedd bod yn fardd. Wrth drafod ei gweithiau, dywedodd Aled Jones Williams:

Ma’ ’na rw bath yn brydferth iawn yn *Crave*. Ma’ ’na ryw fiwsig anhygoel yn perthyn i *Crave*.²⁶⁴

Er iddo weld llwyfaniad o bob un o’r gweithiau, y ddrama *Crave* (1998) a ddylanwadodd drymaf ar Aled Jones Williams a’i ysbrydoli i lwyfannu *Ta-ra Teresa* ar lwyfan gwag gyda phedwar cymeriad ar gadeiriau yn llefaru eu monologau. Yn y ddrama *Crave*, nid oes gan y

²⁶² Aled Jones Williams, yn ‘Cyfweliad gydag Aled Jones Williams’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 11.

²⁶³ Ian Rowlands, yn ‘Y Sioe Gelf: Portread o’r Parch. Aled Jones Williams’, *Cwmni Da* (19 Awst 2002).

²⁶⁴ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

cymeriadau enwau, dim ond A, B, M a C sydd hefyd yn ein hatgoffa o ddramâu Aled Jones Williams, megis *Dyn Llnau Bogs, Cnawd, Pêl Goch a Chwilys* lle na roddwyd enw personol i'r cymeriadau. Awgrymir mai gwahanol leisiau o fewn unigolyn yw cymeriadau'r ddrama *Crave*, megis yn *Lysh a Wal*. Y mae'r thema hefyd o ddadfeiliad yr unigolyn yn thema gyffredin rhyngddynt. Wrth drafod y ddrama *Blasted* gan Sarah Kane, dywed David Greig:

The final images are not unlike those moments in Beckett where the human impulse to connect is found surviving in the most bleak and crushing places ... the play's roots were ... in the Shakespearean anatomies of reduced men: Lear on the heath and Timon in his cave.²⁶⁵

Roedd yn ddramodydd a oedd yn arbrofi gyda'i chyfrwng ac yn bwriadol gicio yn erbyn y tresu gan ennyn ymateb ac fe'i hystyrir yn bennaf fel un o ddramodwyr mwyaf dadleuol ei chyfnod.

Ac wedyn y gair mawr hanfodol hwnnw i'r feirniadaeth Gymraeg, y gair 'di-chwaeth' wrth gwrs. Mae hwnnw'n dod i mewn yn aml, bod rhywbeth yn 'ddi-chwaeth'. Dwi wrth fy modd hefo'r 'di-chwaeth'.²⁶⁶

Daeth Aled Jones Williams yn ymwybodol o'r 'di-chwaeth' gyntaf pan oedd yn blentyn pan ganfyddodd y gyfrol *Lady Chatterley's Lover* (1928) wedi'i chuddio ar silff lyfrau ei dad: 'Darllenais o drosodd a throsodd, wedi fy llwyr gyfareddu ... [roedd] *Lady Chatterley's Lover* fel gwasgu weiran bigog yn dynn, dynn.'²⁶⁷ A chyda chyfeiriadau hynod amrwd a graffig at ryw, ysgarthu, salwch a thrais sy'n frith yn ei weithiau, nid oes amheuaeth nad yw'n llwyddo yn ei fwriad i fod yn ddi-chwaeth:

Llais 1: Ffwc laith hir 'wan yn erbyn wal castall amdani ... Ydy' dy ben ôl di'n gripiada' byw oddiwrt y cerrig ... a ma' 'r gwynt o'r môr yn trïo chwara' tiwn yn 'y nhwll dîn i ... Rhaid i mi ddwad yn go sydyn ma' gini ofn ... Dw-i'n colli min ... Ma' hi'n rhy oer... Adra ddyla' hen ddynas fel chdi fod ... Adra yn ail-fyw hira'th 'i chotsian sych grimp²⁶⁸

Ond pwysleisia nad siocio cynulleidfa yw ei fwriad wrth wneud hyn, ond yn hytrach, creu adwaith ac ennyn ymateb. Yn hynny o beth, mae'n awdur eofn yn ei ymdriniaeth o bynciau a

²⁶⁵ David Greig, 'Introduction', yn David Greig (int.), *Sarah Kane: Complete plays* (London, 2001), t. x.

²⁶⁶ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 11.

²⁶⁷ Williams, 'Llyfrgell', *Taliesin*, 164.

²⁶⁸ Williams, *Cnawd*, tt. 11-12.

chymeriadau sy'n buteiniaid, llofruddion, meddwon a phaedoffiliaid. Gan '[d]orri rhigol y cyfarwydd, saff,'²⁶⁹ mae'n rhoi caniatâd i lenorion eraill fod yn hyderus wrth ysgrifennu: 'Bod yn iawn i chi ddweud y pethau 'ma. Dyma sy'n bwysig.'²⁷⁰

Pan lwyfannwyd y perfformiad cyntaf o unrhyw ddrama o eiddo Aled Jones Williams, *Cnawd*, ym 1997, yr oedd ef ymysg y gynulleidfa ar y noson agoriadol, a synnodd wrth glywed ymateb cynulleidfa dosbarth canol Cymraeg i'w waith:

'Dydw i ddim wedi dod i'r Eisteddfod i wrando ar bornograffi.' A dyna fi'n meddwl, 'Nefoedd fawr, ydi hi fel hyn felly?' Roeddwn i'n ddigon nerfus wedyn, ac eto, doeddwn i ddim am sgrifennu i gynulleidfa. Dwi erioed wedi gwneud hynny, a wna i byth mo hynny. Gydag amser dwi'n meddwl, mi ddaeth pobl i arfer.²⁷¹

Ond mae'r rhesymau dros ei ymdriniaeth amrwd â phynciau llosg yn ddyfnach na cheisio adwaith yn unig. Pan oedd yn blentyn, gwelai ei dad yn arwain pobl i'r gyffesgell. Roedd yr elfen gyffesiadol honno'n ddirgelwch mawr iddo, a dyma un o'r prif resymau pam y troes at yr Eglwys Babyddol tra oedd yn Lerpwl:

Fe gyfeiriais at fy swydd i fel offeiriad plwyf, swydd sy'n sôn am ddaioni ac yn sôn am sancteiddrwydd. Mae 'na ochr arall i hynny bob amser – ochr dywyll dynoliaeth ... a dwi eisiau sôn am hynny. A dwi'n meddwl fod yna le mewn llenyddiaeth i fedru mynd i'r afael â'r pynciau yna.²⁷²

Cyfaddefa ei fod yn bwriadol geisio adweithio yn erbyn y 'norm' wrth ysgrifennu ac yn adweithio'n arbennig, felly, yn erbyn Ymneilltuaeth ac yn erbyn Cymreictod dosbarth canol. Mae'r defnydd o regfeydd a geir yn ei waith yno i'r un pwrpas, sef fel 'ymwrthodiad hunanymwybodol o addysg ac o gefndir ac o'r "pethe"'.²⁷³ Ei fwriad wrth ysgrifennu yw 'gwneud i bobl "ymdeimlo â'r sgrech, a'r isleisiau sydd yr ochr arall i'r gân yng Ngwlad y Gân"'²⁷⁴ gan arddangos y ddeuliaeth sy'n bodoli o fewn y Gymru Gymraeg, ddosbarth canol, ymneilltuol, ymddangosiadol barchus, a'i harddangos i'r union bobl a berthyn i'r garfan honno: y bobl a ddywed na "tydi pethau fel yna ddim yn digwydd yn fy nghymuned /

²⁶⁹ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr isfyd', *Barn*, 28.

²⁷⁰ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

²⁷¹ Aled Jones Williams, yn Emyr, 'Mynd i gyfeiriad arall', *Taliesin*, 24.

²⁷² Aled Jones Williams, yn Emyr, 'Mynd i gyfeiriad arall', *Taliesin*, 122.

²⁷³ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bys yn Stafell Mam*, t. 20.

²⁷⁴ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr isfyd', *Barn*, 27.

teulu / pentref / sefydliad i'’.²⁷⁵ Dyma thema o drafodwyd eisoes yng nghyswllt Meic Povey a Siôn Eiran:

O safbwynt eu cyfeiriadaeth at rai o obsesiynau'n hoes – megis trais rhywiol, canser, agnosticiaeth, difodiant yr iaith – maent oll yn gwbl nodweddiadol o'r Gymru gyfredol, ac o'r dosbarth cymdeithasol hwnnw sydd fwyaf cefnogol i'r theatr.²⁷⁶

Ys dywed Gareth Llŷr Evans: ‘Trwy gyfrwng geiriau, mae ganddo'r ddawn i gonsurio bydau lled-adnabyddus Cymraeg, rhyw rith ddynwaredol o fodolaeth ei gynulleidfa’.²⁷⁷ Gŵyr mai at y gynulleidfa hon, y ‘dosbarth canol’ Cymraeg, yr apelia ei ddramâu yn bennaf ond teimla ddyletswydd i fynd â'i dramâu at bobl o bob haen cymdeithasol. Dyma paham y mae wedi cydweithio llawer gyda Chwmni Theatr Bara Caws sy'n gwmni drama cymunedol. Ystyria theatr yn gyfrwng, sydd nid yn unig yn difyrru cynulleidfa, ond sydd hefyd â'r grym i newid eu bywydau. Dywed fod pobl yn naturiol ddeallus a bod modd eu hymestyn trwy gyfrwng drama. Dywed hefyd fod ganddo ofn y theatr ddosbarth canol, ‘y dramâu i bawb’.²⁷⁸

Dyn 1: Fuo fi yn y theatr neithiwr. Hamlet ... Jude Law fel Hamlet. Ta Hamlet oedd Jude Law dwa? Cwestiyna fela sy'n ddiddorol am y theatr yn de!
Dyn 2: Sdibe! Dwi'n cofio dro'n ôl weld cynhyrchiad o Godot. A thu allan be oeddna'n de ond trempyn – ych! o drempyn yn gachu ac yn gwrw i gyd – a mi ddath na blisman i'w symud o. Be' sani'n i neud heb blismyn! A thu mewn ar y llwyfan mi roedd 'na ddau designer tramps. 'Na ti uffar o jôc dda. Ha-ha! Glywai di'n deud! Ti'n hollol anghywir. Tydy'r theatr bellach ddim yn berygl i neb. Dyo'n newid neb. Mae'r avant-garde yn y diwedd bob amser yn troi'n mainstream. A'r dosbarth canol yno i gymeradwyo. Sa'm balls yn y geiria mwyach.²⁷⁹

Y mae cymeriad Ceidiog yn *Cnawd* yn ymgorfforiad o'r math hwn o Gymreictod dosbarth canol y ceisia Aled Jones Williams ei ddinoethi. Y mae ei wraig ac ef yn cynnal *dinner parties*, ânt ar eu gwyliau i Provence ac i ddosbarthiadau nos ar R. Williams Parry yn y brifysgol, ac mae eu merch, Heledd Medi, yn mynd i'r brifysgol yn Rhydychen. Ond mae Ceidiog yn cael perthynas gyda gwraig sy'n ei galw'i hun yn Tania Tryweryn ac yn gwneud

²⁷⁵ Elis, ‘Gwreiddyn y Drwg’, *Barn*, 63.

²⁷⁶ Owen, ‘Y dieithredig’, *Barn*, 93.

²⁷⁷ Gareth Llŷr Evans, ‘Rhagymadrodd’, yn Aled Jones Williams, *Pridd* (Caerfyrddin, 2013), t. 6.

²⁷⁸ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

²⁷⁹ Aled Jones Williams, ‘Chwilys’, *Merched Eira a Chwilys*, tt. 72-3.

ei bywoliaeth trwy gael rhyw dros y ffôn gyda dynion, ac ar ganol cyfathrach clyw Tania ‘ogla llyfr hums’²⁸⁰ arno.

Un ddyfais gysion a ddefnyddia Aled Jones Williams mewn ymgais i ‘dynnu’r menig gwynion oddi ar ddwylo Cymreig’,²⁸¹ yw dychanu y ‘Gymru ddosbarth canol gelfyddydol hunan bwysig’.²⁸²

“ma’ Ceidiog yn dotio ar R. Williams Parry ...” “Dda gin-i mo’no fo,” me’ fi ... “Mi fyddwn i ’di saethu’r ffwcin llwynog ’na’n gela’n o dan ’i drwyn o a throi’r untroed oediog ’na yn riu fath o lyci charm ar gadwyn aur ... “A Kate Roberts,” me’ hi ... “Mi ryda chi wrth ’ch bodd ’efo Kate Roberts yn dyda chi, Ceidiog ..” “O! Robys ydy’ s’nam’ hi,” me’ finna ... “Cêt twenty three o’dd ’i i ni ... chdi o’dd nymbyr twenty three ia Ceidiog? ... O! sori Kate Roberts sy’n sgwennu storis ’da chi’n ’i feddwl te ... storis am diciâu a llechi a phobl ’im yn gall a dim secs ... y Kate Roberts honno²⁸³

Ceir defnydd helaeth o ddychan yn y gyfrol *Ychydig Is na’r Angylion* hefyd. Ond mae’r ffaith fod y llenor yn cydnabod ei fod ef ei hun yn perthyn i’r union gymdeithas y mae’n ei dychanu, yn golygu ei fod yn anelu’r gwn ato’i hun yn ogystal:

A dyna un o’r m prif ddiddordebau llenyddol: yr hyn sy’n digwydd o dan wyneb y Cymry Cymraeg ‘ymneilltuol’, dosbarth canol. Gan gofio o hyd, wrth gwrs, mai un ohonynt hwy ydwyf fi.²⁸⁴

Daeth *Y Dyn Llnau Bogs* yn fuddugol yng nghystadleuaeth cyfansoddi drama hir yn Eisteddfod Genedlaethol Nedd a’r Cyffiniau, 1994. Hon oedd y ddrama gyntaf i Aled Jones Williams ei hysgrifennu a hynny pan oedd yn byw yn Lerpwl:

Ti’n gw’bod cerflun Lloyd George yng Nghaernarfon? Ma’ ’na doilet o dan hwnna does? A ma’ ’na bob math o betha’n mynd ymlaen yn fan ’no. Ac o’n i’n meddwl, ma’ hwn yn symbol o’r math yna o Gymreictod am w’n i.²⁸⁵

Y toiledau cyhoeddus hynny yng Nghaernarfon yw prif leoliad y ddrama. Y mae chwe chymeriad yn y ddrama: Y Dyn, Pardnar, Dyn 1, Dyn 2, Dyn 3, a Hŵr. Yn wahanol i

²⁸⁰ Williams, *Cnawd*, t. 34.

²⁸¹ Aled Jones Williams, yn Roberts, ‘Dramodydd yr isfyd’, *Barn*, 27.

²⁸² Dyfrig Jones, yn ‘Ychydig Is Na’r Angylion: Dewis nofel clwb darllen’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/714-angylion.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

²⁸³ Williams, *Cnawd*, t. 28.

²⁸⁴ Williams, ‘Alcoholiaeth’, *Tuchan o Flaen Duw*, t. 33.

²⁸⁵ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

ddramâu eraill Aled Jones Williams, mae'r ddrama hon wedi'i rhannu'n dair act a golygfeydd o fewn yr actau hynny. Hon hefyd yw'r unig ddrama o'i eiddo nad ydyw erioed wedi'i pherfformio. Efallai fod hynny i'w wneud â'r ffaith i'r beirniaid a'i dyfarnodd yn fuddugol nodi ei bod yn 'anorffenedig dros ben, weithiau'n anfoddfaol ac angen mwy o waith arni i gyrraedd ei llawn photensial cyffrous'.²⁸⁶

Drama yn llawn awgrymiadau ac amwysedd yw hon. Nid oes unrhyw beth yn cael ei gyflwyno mewn modd syml nac amlwg i'r gynulleidfa ac nid oes yma blot strwythedig, clir y gellir ei ddilyn yn weddol rwydd ychwaith. Mae'n gofyn am lawer o waith darllen rhwng llinellau'r ddeialog ac ail a thrydedd ddarllen y sgript, yn enwedig felly er mwyn dilyn pwy yw pwy a beth yw taith unigol pob cymeriad. Hon yn anad yr un arall yw'r ddrama fwyaf absŵrdaidd a'r ddrama fwyaf cymhleth i'w dilyn a'i dirnad o eiddo Aled Jones Williams.

Glanhau toiledau cyhoeddus yw gwaith Y Dyn, ac mae cymeriad sinistr o'r enw Pardnar yn ei gynorthwyo â'r gwaith. Yn ystod y ddrama, daw cyhoeddiadau ar y radio fod cyrff wedi'u canfod a cheir awgrymiadau mai Pardnar sy'n gyfrifol am y llofruddiaethau. Er nad yw'n dweud llawer, y mae gan Pardnar bŵer tawel dros Y Dyn a chwaraea emau meddyliol ag ef gan ei annog i edrych ar luniau o enethod ifanc a cheir awgrym mai dyma wendid a chysgod Y Dyn a'i fod wedi treulio amser dan glo yn y gorffennol o ganlyniad i hynny. Unwaith y mis, ar ddydd Mercher, daw y 'regiwlars' yno i'r tai bach: Dyn 1, Dyn 2 a Dyn 3. Dyna'r drefn ers pum mlynedd bellach. Gweithio mewn banc mae Dyn 1, ond gŵr ydyw sydd wedi'i gaethiwo mewn corff merch. Warden traffig yw Dyn 2. Y mae ef yn hoyw ac yn cael perthynas gyda Dyn 1. Ficer yw Dyn 3 sy'n alcoholig ac yn ystod y ddrama gofynna Dyn 1 a Dyn 2 iddo i'w priodi. Mae'r toiledau yn fan ddiogel i'r cymeriadau gael bod yn bwy ydynt mewn gwirionedd ac enwant ystafell yn y toiledau yn Seintwar. Yn yr ail act, mae'r cymeriadau mewn parti gwisg ffansi a gynhelir gan Wŷr y Castell. Nid oes neb erioed wedi'i gyfarfod ond dywed Y Dyn mai ef sydd wedi bod yn gyfrifol am reoli'r dref a chadw trefn erioed. Y mae Dyn 1 a Dyn 2, y naill wedi'i wisgo fel Ginger Rogers a'r llall fel Fred Astaire, yn dawnsio â'i gilydd. Y mae Dyn 3, sydd wedi'i wisgo fel Esgob yn eistedd gyda gwraig sydd wedi'i gwisgo fel lleian. Hon yw cymeriad yr Hŵr a welwn ar ddiwedd yr act gyntaf a cheir awgrym bod y ddau ohonynt yn wŷr a gwraig, ond mae'r berthynas yn amlwg ar ben a cheir awgrym mai'r rheswm am hynny yw oherwydd iddo ef ei gorfodi i gael erthyliad. Y mae hi'n gymeriad chwerw iawn ac wedi suro at ddynion. Erbyn diwedd y

²⁸⁶ Lindsay Evans, Gareth Miles, Edward Thomas, 'Drama hir ar unrhyw destun', yn W. J. Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Nedd a'r Cyffiniau, 1994* (Llandybïe, 1994), t. 151.

ddrama, rydym yn ôl yn y toiledau. Erbyn hyn, mae pob un o'r cymeriadau yn aelodau o dîm ffilmio ac awgrymir mai drama neu ffilm ar gyfer y teledu fu'r holl ddigwyddiadau blaenorol. Drama o fewn drama yw hon ac mae'r ffin rhwng dychymyg a realiti yn un denau ac amlygir hynny wrth i gymeriad Cynddylan (a fu'n portreadu Pardnar) drywanu'r Cyfarwyddwr (a fu'n portreadu Y Dyn) gyda chyllell. Saethir hyn i gyd gan y criw camera a'i daflunio ar sgrin cyn i'r camera droi i gyfeiriad y gynulleidfa. Daw'r ddrama i ben gyda'r gynulleidfa yn gwyllo hwy'u hunain ar y sgrin a chyfyd y cwestiwn a ydynt hwy yn rhan o ryw ddrama hefyd tybed.

Creu profiad ydi 'mwriad i a fydd, gobeithio, yn tynnu'r menyg [sic.] gwynion oddi ar y dwylo Cymraeg ac yn gwneud i bobl ymdeimlo â'r sgrech a'r is-leisiau sydd yr ochr arall i'r gân yng Ngwlad y Gân.²⁸⁷

Dyna'n union a wna'r ddrama *Tiwlips*, drama sy'n ymdrin â'r pwnc llosg, cam-drin plant:

Cymerwch yr olwg gyntaf ar y set ... soffa, dillad ar y lein, llenni lês, a blodau yn yr ardd. Rhes neis o diwlips, a'r adeilad diniwed hwnnw sydd mewn miloedd o erddi ac yn ddihangfa i lawer – cwt. Ond buan iawn y gwelwn y pydredd yng nghanol y blodyn.²⁸⁸

Fe'i llwyfannwyd yn y flwyddyn 2000 gan Gwmni Theatr Gwynedd gyda Maldwyn Jones, Valmai Jones a Merfyn Pierce Jones yn perfformio dan gyfarwyddyd Siân Summers:

Wnes i erioed benderfynu 'mod i'n mynd i ysgrifennu drama am gam-drin plant, dim ond digwydd dod i fod ddaru'r cam-drin. Wrth reswm, drama am gam-drin plentyn ydy hi ond hefyd beth sydd yn digwydd i rieni sydd yn methu â bod yn rhieni.²⁸⁹

Prif gymeriad y ddrama yw Patric, 'plentyn 40 oed'.²⁹⁰ Ar ddechrau'r ddrama, ceir monolog ganddo yn cyfeirio at y gwahanol fathau sydd o lofruddio a'r profiad o wneud hynny, ac yn ystod y ddrama, 'cawn weld yn ddigon clir y camau a'i gwnaeth fel y mae'.²⁹¹

²⁸⁷ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr Isfyd', *Barn*, 27-8.

²⁸⁸ Elis, 'Gwreiddyn y Drwg', *Barn*, 62.

²⁸⁹ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 31.

²⁹⁰ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 27.

²⁹¹ Elis, 'Gwreiddyn y Drwg', *Barn*, 63.

Cofio'n ôl i'w blentyndod yn y 1980au y mae Patric yn y ddrama; cofio am gamdriniaeth ei Yncl Jo ohono. 'Mae camweddau Yncl Jo yn erbyn Patric yn eithafol o erchyll'.²⁹² Un o'r dynion hynny sy'n '[d]isgwyl y bÿs yn stafell mam'²⁹³ Patric yw Yncl Jo a mynna chwarae British a German's gyda Patric yn y cwt yn ei alotment, er bod y bachgen yn anfoddog. Rhyw fath o bimp i Patric yw'r ewythr mewn gwirionedd, gyda rhes hir o gleientiaid yn disgwyl eu tro gyda'r bachgen, ac Yncl Jo, pan nad yw'n euog o gam-drin ei hun, yn ffilmio'r sesiynau ar gyfer ei fwynhad ei hun. Dywed wrth y bachgen fod yr hyn a wnâi iddo'n gwbl 'normal' a phe bai'n sgrechian na fyddai neb yn ei glywed ond y tiwlips ac na fyddent hwy'n dweud dim wrth neb. Mae mam Patric, trwy'r cwbl, yn cau ei llygaid a'i chlustiau i'r holl sefyllfa. Mae'n amlwg o ymddygiad Patric yn yr ysgol, wrth iddo roi ei ddwrn trwy ffenestr, ei fod yn erfyn am sylw, yn erfyn ar rywun i'w achub, ond ni ddealla neb ei gri. Ceisia Patric ddihangfa oddi wrth y gamdriniaeth trwy wisgo dillad ei fam a throi'n Alis, gan nad yw Yncl Jo'n hoff o enethod bach, dim ond bechgyn bach. Ond awgrymir bod Alis ymhen amser, fel mam Patric, yn dechrau hel dynion. Ar ddiwedd y ddrama, mae'r Patric deugain oed 'adra ar home visit'²⁹⁴ a dywed ei fam wrtho fod Yncl Jo yn dioddef o ddiementsia ac iddo fynd i ymweld ag ef. Â Patric yn ôl dymuniad ei fam â thusw o diwlips gydag ef. Daw'r ddrama i ben wrth i Patric dynnu gwn o'i fag a'i anelu at yr ewythr cyn troi'r gwn ato'i hun a saethu'i hun.

Y berthynas deuluol yw prif thema *Tiwlips*, yn hytrach felly na'r cam-drin, am na theimlai'r dramodydd y gallai ysgrifennu am bwnc nad oedd ganddo brofiad personol ohono'i hun. Dyma nodwedd felly sy'n gosod *Tiwlips* ar wahân i weddill ei weithiau. Oherwydd natur drom a mentrus ei thema, golyga nad oes lle ynddi i hiwmor, hyd yn oed hiwmor tywyll a heriol gweddill gweithia'r dramodydd: 'Mae 'na rywbeth am deuluoedd yn fan hyn. A tydyn nhw ddim yn grêt i gyd.'²⁹⁵ Dyma'r thema, 'a defnyddio teitl Syr O. M. Edwards, *Cartrefi Cymru*'.²⁹⁶ Bwriad Aled Jones Williams oedd dangos y gallai cartrefi dosbarth canol Cymreig, sy'n cael eu tra-dyrchafu, fod yn llefydd dinistriol: 'Mae o'n lle i feithrin, ond mae o'n lle hefyd sy'n caethiwo.'²⁹⁷ A dyma'r neges ysgytwol, dabwaidd a geir yn y ddrama, sef, o 'greu'r amgylchiadau iawn, fel a wneir yn nheulu Patric, yna mae yna ryw Yncl Jo yn sicr o ddod i'r fei'.²⁹⁸ O ganlyniad, ymdebyga'r ddrama hon i'r ddrama

²⁹² Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 26.

²⁹³ Williams, 'Tiwlips', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 113

²⁹⁴ Williams, 'Tiwlips', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 126

²⁹⁵ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

²⁹⁶ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008)..

²⁹⁷ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

²⁹⁸ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 26.

Perthyn gan Meic Povey, gan mai bwriad y ddau ddramodydd oedd ‘dangos mai mewn teuluoedd cyffredin Cymraeg y digwydd hyn’.²⁹⁹

Mae’r iaith Gymraeg, iaith y nefoedd yn ôl yr ystrydeb, ynddi’i hun yn bwnc tabŵ yng ngweithiau Aled Jones Williams. Mae nifer o gymeriadau’r dramâu yn dyrchafu’r Gymraeg gan ddweud mai iaith y pethau pur ydyw. Dim ond pethau hardd a fynegir gan y Gymraeg, ‘[b]arddoniaeth a ballu’.³⁰⁰ Yn *Pryd fuo Kathleen Ferrier farw?*, dywed y meddyg yn Saesneg wrth Mr Parry fod Alzheimers arno a diolcha Mr Parry iddo am wneud hynny:

“Mi fasa chi ’di bod rêl hen gena tasach hi ’di’i ddeud o’n Gymraeg.” Mae’r Susnag yn dda i rw bath withia. ’Nenwedig os ydach chi isio teimlo pelldar. A chadw hyd braich.³⁰¹

Yn *Wal*, dywed Alji wrth Eddy ei fod am ei arteithio’n Saesneg gan mai ‘Susnag ydy iaith y petha sy’n mynd yn rong yno’ ni’.³⁰² Dyma enghraifft arall o’r Cymry yn gwrthod derbyn cyfrifoldeb dros eu sefyllfa. Ys dywed Pardnar yn *Y Dyn Llnau Bogs*, ‘Saeson! Nhw sy’n g’neud pob dim’.³⁰³

Ond nid iaith ddiogel mo’r Gymraeg mewn gwirionedd. Gall fod yn iaith front a ffug yw’r cysur a geir ynddi, fel y gŵyr Patric yn *Tiwlips* yn iawn: ‘Iaith peryg o’dd Cymraeg ... Mamiath ... Iaith Mam! Iaith dan din ... Iaith clwydda’.³⁰⁴ Cymraeg hefyd oedd yr iaith a ddaeth â Robat Hefin ac Adrian ynghyd yn *Ta-ra Teresa* ac iaith priodas ei fam a’i dad, ond profodd yr iaith honno’n gyfrwng twyll a siom:

EIRWEN: (WRTH ROBAT) Be dduda i wrtha ti? Be dduda i?
ROBAT HEFIN: (O’R LLAWR) Dim byd fel arfer, Mam. Mond siarad ffwl sbîd. Siarad Cymraeg gloyw, cywir drwy gydol’ch priodas anghyfiaith chi.³⁰⁵

²⁹⁹ Ros, ‘Rhwng rheg a rhethreg’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 27.

³⁰⁰ Williams, ‘Wal’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 88.

³⁰¹ Williams, ‘Pryd fuo Kathleen Ferrier farw?’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 131.

³⁰² Williams, ‘Wal’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 88.

³⁰³ Williams, *Y Dyn Llnau Bogs*, t. 37.

³⁰⁴ Williams, ‘Tiwlips’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 120.

³⁰⁵ Williams, ‘Ta-ra Teresa’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 172.

2.9 Deuoliaeth: ‘Rhwng’

I bwy dwi’n perthyn?³⁰⁶

Y peth mawr i mi yw gwrando a dweud y gwir yn onest ... Pan oeddwn i’n blentyn ... mi fyddwn i’n gwrando, ac roedd ’na rywbeth yn y cyfuniad yna, o be fyddai pobl yn i ddweud weithiau, ac yn sydyn byddai hwnnw’n troi yn fôr o regfeydd ganddyn nhw. Ac roeddwn i’n meddwl fod y cyfuniad yna yn dweud peth myrdd am y cyflwr dynol – y prydferthwch, y gogoniant weithiau, ac eto ar yr un pryd, yr ing pan fyddan nhw’n cyffwrdd rhyw boen ynddyn nhw eu hunain.³⁰⁷

Ar wahân i’r ddeuoliaeth sy’n bodoli o fewn y gymdeithas ddosbarth canol Cymraeg, y mae deuoliaeth ynddi’i hun yn thema amlwg o fewn dramâu Aled Jones Williams. Amlygir y deuoliaeth hon sy’n bodoli ym mywydau’r cymeriadau gyda’r cysyniad fod y cymeriadau yn byw eu bywydau rhwng cyflyrau: ‘O glywed y lleisiau mi fydda i’n gweld bron yn syth lle maen nhw: rhyw leoedd rhwng dau fyd a rhwng dau olau’.³⁰⁸ Deuoliaethau eraill yw rhwng bywyd a marwolaeth megis yn *Fel Stafell*, rhwng ‘normalrwydd’ a gwallgofrwydd fel Sundance, rhwng caethiwed a rhyddid fel cymeriadau *Lysh*, rhwng plentyndod a henaint fel Mr Parry yn *Pryd fuo Kathleen Ferrier farw?* neu rhwng credu a methu credu megis y rhan fwyaf o gymeriadau’r dramâu. Rhwng Cymreictod/Cymraeg a Seisnigrwydd/Saesneg y mae cymeriadau *Ta-ra Teresa* a deilliai hynny o brofiad personol y dramodydd pan oedd yn ifanc wrth fynd, bod dydd Iau ar ôl y Pasg, ar fws Robin Huw i Lerpwl gyda’i rieni: ‘Wedi’r cyfan, roedd y daith i mewn iddi drwy dwannel, i lawr i’r ddaear, o’r golwg, symud o fama i fancw, croesi ffin, gadael Cymru ar ôl a dyfod i’r fei mewn golau gwahanol.’³⁰⁹ Y mae Aled Jones Williams wedi bod yn ymwybodol o’r ffiniau hyn sy’n bodoli o fewn bywyd ers pan oedd yn ŵr ifanc, ys dywed yn ei erthygl, ‘Y Ffin’, yn newyddiadur *Y Llan* ym 1980:

Yn ddyddiol, yn flynyddol yn wir drwy gydol oes byddwn yn croesi ryw ffin neu’i gilydd. Camu o gae dieithrwch dros y ffin i lannerch adnabyddiaeth, efallai; neidio dros ffin casineb, hwyrach, a glanio yn nolydd cariad, neu lusgo ein hunain ’does bosib, heibio i ffin anwybodaeth ac i dir dealltwriaeth. Pa sawl Cymro sydd drwy boeri ar bethau Cymru wedi croesi yn ei feddwl Glawdd Offa’r ffin rhwng ei famwlad a Lloegr gan droi ei hun o’i wirfodd yn Sais? Brau yw’r ffin meddent hwy wrthyf rhwng y call a’r ynyf. Mi dybiaf mai croesi ffiniau ydyw’r broses o dyfu: troedio heibio ffin plentyndod i lencyndod ac oddi yno wedyn i’r canol oed a’r henoed.

³⁰⁶ Williams, *Lysh*, t. 40.

³⁰⁷ Aled Jones Williams, yn Emyr, ‘Mynd i gyfeiriad arall’, *Taliesin*, 123.

³⁰⁸ Aled Jones Williams, yn Roberts, ‘Dramodydd yr Isfyd’, *Barn*, 27.

³⁰⁹ Williams ‘Y ddinas sydd i ddod’, *Barn*, 17.

Gwelwn natur, hithau, yn nhreigladd blwyddyn yn llamu ffiniau'r gwanwyn, haf, hydref, a gaeaf.³¹⁰

Dywed mai'r disgrifiad gorau o'r ddeuliaeth hon yw 'disgrifiad William Blake, "The marriage of heaven *and* hell". Nid "heaven *or* hell", ac nid "heaven and not hell".³¹¹ Hynny yw, mae'r deuoliaethau hyn yn dibynnu'n llwyr ar ei gilydd. Nid oes un i'w gael heb y llall. Y mae'r tywyllwch yn rhoi goleuni, a'r goleuni'n mynd yn ôl i'r tywyllwch. Ys dywed Jona yn *Lysh*:

Jona: Ac y mae'n rhyddid i bellach yn dibynnu ar fy nghaethiwed i. Fy ngollwng yn y carcharu. Oherwydd yn fy salwch i y mae fy iechyd.³¹²

A gwelir yn yr enghraifft isod o'r gerdd 'Awelon' y modd y mae'r llenor yn llwyddo i gyfleu, mewn modd syml a gweladwy, y ffin denau iawn honno sy'n bodoli rhwng y gwahanol gyflyrau, ac yn yr achos hwn, rhwng bywyd a marwolaeth:

Bywydmewnmarwolaethmarwolaethmewnbywyd			
Byw	mawr	marw	byw
Bywydmewnmarwolaethmarwolaethmewnbywyd			
Byw	mawr	marw	byw ³¹³

Derbyniodd *Pêl Goch* yr ail wobwr yng nghystadleuaeth cyfansoddi drama hir yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn, 1995.

Rhwng y byd hwn a'r byd nesaf y lleolir drama newydd Aled Jones Williams. Ni ellir ei alw yn burdan, oherwydd mae'n bur annhebyg yr aiff y cymeriadau yma i'r unlle ond uffern. Rhyw fath o ystafell aros artaith felly.³¹⁴

Yn ôl Aled Jones Williams, mewn 'hen eglwys neu gapel – yn y lle o dan y sêd fawr – neu 'fallai mewn hen bictiwr',³¹⁵ mae'r ystafell aros honno. Cafwyd llwyfaniad o'r ddrama ym mis Ionawr 1998 gan Gwmni Theatr Gwynedd yn Theatr Gwynedd, Bangor. Gwenno Elis Hodgkins a Dewi Rhys oedd y prif actorion o dan gyfarwyddyd Valmai Jones. Y mae'r sgript yn nodi presenoldeb sawl cymeriad arall: Gŵr 40 oed, Gwraig 40 oed, Y Dyn tua 30 oed,

³¹⁰ Aled Jones Williams, 'Y Ffin', *Y Llan* (29 Awst 1980), 1.

³¹¹ Cyfweiliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

³¹² Williams, *Lysh*, t. 76.

³¹³ Aled Jones Williams, 'Y Bryddest: Awelon', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi, 2002* (Llandybie, 2002), t. 61.

³¹⁴ Ros, 'Bardd Sy'n Haeddu Llwyfan', *Barn*, 12.

³¹⁵ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr Isfyd', *Barn*, 27.

Dyn arall, Dyn meddw, cyhoeddwr, merched dawnsio yn ogystal â lleisiau plant. Fodd bynnag, dim ond tri actor oedd yn perfformio yn y llwyfaniad o'r ddrama. Amser y ddrama yw tua diwedd y ganrif ond fel dramâu eraill y dramodydd, yn enwedig y rhai cynharaf, *Y Dyn Llŷnau Bogs* a *Cnawd*, nid oes gan y ddrama hon ychwaith strwythur cwbl bendant.

Mae dechrau'r ddrama yn ein hatgoffa o ddrama Huw Lloyd Edwards, *Pros Kairon* (1966) pan fo Martin, y cynrychiolydd o'r swyddfa, yn arwain Sadi a Mac i'r tŷ gwag ac addawant gadw'r lle mewn trefn. Y mae'r Dyn yn arwain y Gŵr a'r Wraig sy'n feichiog ar y llwyfan gan nodi eu bod wedi cyrraedd. Nid yw'n hysbys i'r gynulleidfa ym mhle y maent ond mae'r cymeriadau i aros yno am dridiau, ac felly mae'r ddrama wedi'i rhannu'n dair rhan. Gwisgant ddillad cysgu a chariai'r Gŵr gês a phob hyn a hyn yn ystod y ddrama, clywir llais o'r swyddfa a daw negeseuon trwy'r peiriant ffacs. Mae pob math o ddodrefn ar y llwyfan ac mae'n amlwg bod rhywun wedi bod yno o'u blaenau ac wedi gadael eitemau megis lluniau a thâp casét. Yn ystod y ddrama datgelir sut y mae cyfrinachau'r gorffennol wedi'u harwain i'r fan hon yn awr. Mae'n amlwg nad yw eu perthynas yn un iach: y mae'r Gŵr yn chwerw iawn am na all gael plant ac mae'r ddau ohonynt wedi bod yn anffyddlon yn ystod eu perthynas: 'Yn y pen draw, drama am ffydd a ffyddlondeb a pherthynas dau berson a'u gorffennol yw *Pêl Goch*.'³¹⁶ Yn ystod y ddrama, cyfeirir at Nest, merch y Wraig. Daw'n hysbys iddi gael ei tharo gan gar tra'n chwarae gyda'i phêl ond na ddaliwyd gyrrwr y car erioed. Cynrychiolir presenoldeb Nest ar y llwyfan trwy gydol y ddrama gan ei beic sy'n hongian o'r to a disgynna pêl goch ar y llwyfan ddwy waith yn ystod y ddrama. Tuag at y diwedd, sylweddolwn mai'r Gŵr a fu'n gyfrifol am ladd Nest: tra'n gyrru'n ei gar yng nghwmni gwraig arall a hithau'n ei bryfocio'n rhywiol a dweud wrtho am yrru'n gynt, y mae'n taro'r ferch a bownsia pêl goch ar fonet y car. Awgrymir bod y Wraig yn ymwybodol mai'r Gŵr oedd yn gyfrifol yr holl amser. Ar ddiwedd y ddrama daw Y Dyn ymlaen i nôl y Gŵr. Y mae ei amser ef yno wedi dod i ben ac wedi iddo ef ymadael, trywana'r Wraig ei hun a disgynna pêl goch allan ohoni.

Ar wahân i ambell gyfeiriad, nid yw alcoholiaeth yn chwarae rhan flaenllaw yn y ddrama hon, ond eto, dywed Aled Jones Williams mai byd alcoholig yw byd y ddau gymeriad. Dyma'r math o fyd y darganfyddodd ef trwy ei alcoholiaeth, ys dywed yn y gerdd 'C2 H5 OH':

Toddwr gwael fy neuoliaethau.

³¹⁶ Ros, 'Bardd Sy'n Haeddu Llwyfan', *Barn*, 12.

Mae'r ddrama'n disgrifio rhyw lun ar uffern bersonol y dramodydd; y teimlad o fod 'wedi croesi rhyw drothwy a rwyd ti'n meddwl dy fod ti yn rhywle, ond dwyt ti ddim, rwyd ti mewn rhywle hollol wahanol'.³¹⁸ A dyna pam y dywed, er nad yw'n or-hoff o gynnwys y ddrama, fod ei byd yn bwysig iddo:

Un gair y dylid ei briodoli i waith Aled Jones Williams yw 'rhwng'. Mae'r ffin yn denau rhwng y pegynau paradocsaidd, nid yw'r naill begwn yn cael y gorau ar y llall. Rhyngddynt mae bodlonrwydd arwynebol i'w ganfod, ac yno, yn rhywle, mae'r rhan fwyaf ohonom ni yn trigo, ond llwydda'r artist hwn i gyfleu'r ffrithiant sy'n digwydd pan ddaw'r pegynau i gyffwrdd â'i gilydd ac i grafu yn erbyn ei gilydd.³¹⁹

Cynhyrchwyd *Merched Eira* gan Gwmni Theatr Bara Caws ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Glynebwy, 2010, gyda Bryn Fôn yn cyfarwyddo a Gaynor Morgan Rees, Olwen Rees a Martin Thomas yn perfformio: 'An image emerged of two old women coming into a blizzard. As I listened to that initial image other pictures and words came into being.'³²⁰ Dyma ddrama sy'n 'mynd i'r afael â henaint, unigrwydd a brad cyfrinachau'.³²¹ Dwy hen wraig a gawn yn y ddrama, Edith ac Edna (er mai dau hen ŵr oeddynt yn wreiddiol), ac mae'r ddwy wedi syrffedu ar fywyd yn y cartref henoed ac wedi dianc oddi yno i dreulio amser mewn gwesty moethus yn yr haul. Ond wrth i'r ddwy ddod ymlaen ar y llwyfan i ganol lluwchfeydd o eira, sylweddolant eu bod yn y lle anghywir. Wrth edrych i'r pellter, gwêl un fwrlwm dinas tra gwêl y llall ddim ond dŵch a cheir awgrym mai trosiad yw'r ddrama o derfyn oes: 'y cyfnod hwnnw pan yw ailblentyndod yn llithro tua marwolaeth.'³²²

Mae'r ddwy'n arbennig o agos ac yn ffrindiau ers pan oeddent yn blant a cheir sawl awgrym o berthynas garwriaethol rhyngddynt. Ond datgelir, yn ystod y ddrama, sawl cyfrinach o'r gorffennol. Maent wedi arfer rhannu popeth, gan gynnwys Jac, gŵr Edna. Ni allai Edna gael plant ond bu Edith yn feichiog unwaith gyda phlentyn Jac ond collodd y

³¹⁷ Aled Jones Williams, 'C2H5OH', *Y Cylchoedd Perffaith*, t. 38.

³¹⁸ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 13.

³¹⁹ Meinir Eluned Jones, 'Dy Daith dy Hun', *Barn*, 482 (Mawrth 2003), 49.

³²⁰ Aled Jones Williams, yn 'Two plays by dramatist Aled Jones Williams for the price of one ticket', <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=3667>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

³²¹ Dienw, 'Merched Eira', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/straeon/merched-eira.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

³²² Griffiths, 'Deuawd Aled Jones Williams', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod/2010/safle/ormaes/bara-caws.shtml>>.

plentyn, ‘ac wedi cychwyn yr edliw mae pethau’n troi’n gas’.³²³ Mae’r ddwy, fodd bynnag, yn parhau i fod yn anwahanadwy ac yn ddibynnol ar ei gilydd:

Edith: Ddois di a ... a ... pethma? O! dwi ddim yn cofio ... O! (*igian criu*)

Edna: ’Na ti! ’Nati! ... Shisst! Fi ydi dy go’ di bellach ³²⁴

Ond wrth i Edna gyfeirio ati’n rhoi cymorth i Edith farw yn ôl ei dymuniad cyn lladd ei hun wrth gymryd cymysgedd o dabledi a chwisgi, sylweddolwn fod y ddwy eisoes wedi marw ac mai trosiad yw’r ddrama o fywyd wedi marwolaeth ac mai rhyw le neu gyflwr rhwng bywyd a marwolaeth yw lleoliad y ddrama.

Cyffelyba Aled Jones Williams y cyflwr hwn â’r Canol Llonydd y soniodd Morgan Llwyd amdano neu’r stad gydrwng fel y galwodd Gwyn Thomas hi yn *Duwiau’r Celtiaid* (1992), sef y symud Celtaidd parhaus rhwng y byd hwn a’r Na-Fyd neu’r Annwfn.

Yn wir, mae bywyd Aled Jones Williams ei hun, yn ogystal â bywydau ei gymeriadau, wedi bod yn llawn deuoliaethau. Gellir ystyried ei gyfnodau yn yfed ac yna’n ymwrthod ag alcohol fel un ddeuoliaeth yn ei fywyd, yn ogystal â’i ddaliadau crefyddol; ei ‘ffydd a’i anffydd’:³²⁵

Wedi’r cyfan, ficer Anglicanaidd oeddwn i! Y mae pwyslais Anglicaniaeth ar y *via media* – y ffordd ganol – rhwng ‘eithafion’ Catholigiaeth a Phrotestaniaeth, sy’n golygu y cyhuddir hi’n aml o beidio â bod yn nail beth na’r llall ac o fod yn niwlog ac felly o chwarae’n barhaus â geiriau. Hyn oedd ei hapêl erioed i mi.³²⁶

Roedd gwahanol ffiniau yn bresennol yn ei fywyd yn ystod ei blentyndod yn ogystal:

Fel mab y mans, roedd bywyd Aled Jones Williams yn ddeuoliaeth rhwng crwydro i atig uchel y tŷ lle’r oedd trugareddau’n cuddio; neu gael cip sydyn trwy’r trap-dôr a arweiniai i seler oer y lle. Roedd ef a’i deulu yn byw rhwng y ddau eitha’.³²⁷

Ond, y ffin bwysicaf a ganfu pan oedd yn blentyn oedd rhwng dweud a methu dweud. O ganlyniad, yr hyn y ceisia ei wneud yn ei ddramâu yw rhoi llais i bobl sydd, fel ag yr oedd ei dad, heb lais:

³²³ Griffiths, ‘Deuawd Aled Jones Williams’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod/2010/safle/ormaes/baracaws.shtml>>.

³²⁴ Williams, ‘Merched Eira’, *Merched Eira a Chwilys*, t. 21.

³²⁵ Williams, *Oerfel Gaeaf Duw*, t. 24.

³²⁶ Williams, ‘Alcoholiaeth’, *Tuchan o Flaen Duw*, t. 42.

³²⁷ Owen, ‘Credw mewn uwD’, *Golwg*, 7.

Pobl sy'n dal eu gafael ar bethau ond drwy groen eu dannedd, ar fin cael eu llyncu gan y nos a'u dawn nhw i fedru mynegi eu hunain bron â diffodd – rheiny ydi 'mhobl i.³²⁸

Wrth gyfeirio at ddiffyg llais ei dad, dywedodd: 'Fe ddaeth na bethau da allan o hwnna hefyd oherwydd fe roddodd llais fy Nhad i ar ochr, ar ymyl rhywbeth, ymyl gwan fel arfer, y moesol fel a'r fel, rhywun oedd yn dioddef mewn rhyw ffordd arbennig'.³²⁹

Yn ogystal â'r deuoliaethau hyn sy'n bodoli yn ei fywyd ef ac ym mywydau ei gymeriadau, cofier hefyd mai unig blentyn ydyw fel nifer o'i gymeriadau megis Patric, Sundance, Mr Parry, Santa Clôs, ac Anna Evans, ac felly ei fod yn wastad wedi bod ar ei ben ei hun:

It's important that she's [Anna Evans] an only child who has been kept at home by a mother who is in turn ashamed of her (Anna is a bastard) and dependent on her (Ann is her carer). She is so lonely now as she was as a child, picked on in the school yard, and she retains the child's capacity to make up stories in her head to divert herself.³³⁰

Golyga hyn mai un o bobl y ffin yw Aled Jones Williams, fel ei gymeriadau, sy'n byw ar yr ymylon. Ond, o ganlyniad, teimlai'r llenor a'i gymeriadau, nad ydynt yn perthyn i unrhyw beth:

Santa Clôs: Fel darn o dinsel 'Dolig sydd yn dal i hongian o gornel sdafell a hitha'n fis Mehefin chwilboeth. Fel-a 'dwi. Allan o le. Ddim yn perthyn. I bwy dwi'n perthyn?³³¹

Efallai mai dyma'r rheswm pan nad oes gan amryw o gymeriadau'r dramâu enwau, dim ond 'Dyn' neu 'Gwraig' neu 'Llais'. Ond, oherwydd nad ydynt yn perthyn i'r un garfan, cred Aled Jones Williams y gall y cymeriadau hyn ddweud mwy wrthym am y cyflwr dynol:

Dwi'n meddwl fod lles cymdeithas yn dibynnu, ar ddiwedd y dydd, ar sut mae hi'n trin pobl yr ymylon. A dwi'n meddwl fod gan bobl yr ymylon rwbath mawr iawn i'r

³²⁸ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr isfyd', *Barn*, 27.

³²⁹ Aled Jones Williams, yn 'Aled Jones Williams yn gadael yr Eglwys', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/crefydd-straeon/tudalen/aledjw-gadael.shtml>>.

³³⁰ Gwen Ellis, *The Confessions of Miss Evans*, <http://www.theatre-wales.co.uk/critical/critical_detail.asp?criticalID=143>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

³³¹ Williams, *Lysh*, t. 40.

roi i gymdeithas, er enghraifft, dinistrio'r syniad yma o 'normalrwydd' ... maen nhw'n ymestyn bywyd.³³²

Y mae Aled Jones Williams yn ei chael hi'n anodd perthyn i unrhyw blaid, boed blaid wleidyddol neu grefyddol: 'Dwi erioed wedi bod ar rhyw ffin ac felly y gŵr gwrthnysig yna. Yno y bydda i ylwch.'³³³ Ni theimlodd erioed ei fod yn perthyn i'r gorfforaeth o bersoniaid yr Eglwys yng Nghymru, er enghraifft, fel y cadarnhawyd yn ystod un o'r cyfnodau pan fu'n breswlydd yn Castle Craig:

Derbyniais lythyrau lu oddi wrth blwyfolion a ffrindiau ym Mhorthmadog. Ond dim gan gyd-offeiriaid Esgobaeth Bangor. Perthynas wael a fu gennyf erioed â chlerigion eraill. Nid oedd gennyf ffrindiau ymysg yr offeiriaid.³³⁴

Yr un modd, wedi iddo gael ei goroni yn Nhyddewi, dywedodd na theimlai ei fod yn perthyn i'r sefydliad barddol Cymraeg ychwaith, a'i fod yn teimlo'n wrthodedig ganddo, ond ei bod yn well ganddo fod felly. Ond ai ofn sydd y tu cefn i hyn, mewn gwirionedd, fel yr awgryma Sandra yn *Lysh* wrth Jona, sydd yn wastad yn bwriadol fynd yn groes i'r llif?

Sandra: Ofn perthyn. Ofn bod yn rhan o unrhyw beth boed deulu neu wlad neu ddaliadau.³³⁵

Ar un wedd, felly, yr un cymeriad sy'n llifo trwy amryw o'i weithiau: cymeriadau, dyn gan amlaf, sy'n byw yn ei orffennol neu yn ei blentyndod, heb sicrwydd, hunaniaeth na pherthyn, ac o'r herwydd na all fyw yn ei groen ei hun, fe'i harweinir yn y pen draw at broblemau seicolegol a bod yn gaeth i rywbeth, alcohol yn aml. Dyna Tom yn *Fel Stafell*; y meddwyn yn *Cnawd*; y gŵr yn *Pêl Goch*; Sundance; Patric yn *Tiwlips*; Alji ac Eddy yn *Wal*; Johnny Heneghan yn *Ta-ra Teresa*, y ddau blismon yn *Be o'dd enw ci Tintin?* a'r tri alcoholig yn *Lysh*. 'Gogoniant a fu yn eu pedwardegau'³³⁶ ydynt oll. Dyma'r 'archdeip gwrywaidd'³³⁷ y cyfeiria Gareth Llŷr Evans ato. Y cymeriadau hyn yw canolbwynt y dramâu i Aled Jones Williams. Y maent oll yn perthyn i'r un byd ac o ganlyniad ceir perthynas glòs

³³² Aled Jones Williams, yn 'Y Sioe Gelf: Portread o'r Parch. Aled Jones Williams', *Cwmni Da* (19 Awst 2002).

³³³ Aled Jones Williams, yn 'Prifardd nad yw'n un o'r gang!'

<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/021010aled.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

³³⁴ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 44.

³³⁵ Williams, *Lysh*, t. 62.

³³⁶ Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bys yn Stafell Mam*, t. 24.

³³⁷ Evans, 'Astudiaeth o'r Cysyniad o Theatr Ôl-Ddramataidd yng Nghyd-Destun Gwaith Cwmni Brith Gof a'i Ddilynwyr ac Aled Jones Williams', t. 127.

rhwng y gweithiau. Ategir hynny gan y cyfeiriadau cyson at archfarchnad Pepco a geir mewn amryw o'r dramâu:

drwy'r cyfanwaith y mae dirnad fy ngwaith nid drwy edrych ar ddramâu unigol.³³⁸

Dywed y dramodydd mai cyfrwng i gyfleu teimladau yw geiriau iddo a chyfleu emosiynau ei gymeriadau yw ei fwriad yn y dramâu yn hytrach na chyflwyno stori: 'Fuo gen i 'rioed stori'.³³⁹ Deillio'n naturiol o'r cymeriadau, a'r un math arbennig yma o gymeriad, a wna'r themâu.

Deudodd rhywun fod ganddo fo un nofel wedi'i hysgrifennu saith o weithiau, neu un ddrama mae o wedi'i hysgrifennu saith o weithiau. 'Swn i'n deud bod gen i, mae'n siŵr, un cymeriad. Dwi'n cofio mynd i'r ysgol fawr, Ysgol Dyffryn Nantlle. Wnes i ymddangos mewn trwsus bach. O'n i'n meddwl does yna neb arall mewn trwsus bach yn y lle yma, a dwi'n meddwl fod yna rywbeth yn fy mam nad oedd hi ddim am i mi dyfu fyny. Person sydd rhwng dau fyd, felly. Yr un cymeriad yna ydy o – lot ohono fo'n fi a lot ohono fo nid yn fi chwaith.³⁴⁰

Gan ystyried hynny, nid oes rhyfedd y teimla Aled Jones Williams yn fwy hyderus gyda'i gymeriadau na chydag unrhyw agwedd arall o'i weithiau. Ond fe gyfyd y cwestiwn o ba mor yw hunangofiannol yw cymeriadau a chynnwys gweithiau Aled Jones Williams mewn gwirionedd.

³³⁸ Williams, 'Rhyw air', *Merched Eira a Chwilys*, t. 7.

³³⁹ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

³⁴⁰ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 1.

2.10 Hunangofiannol?

Ac eto nid Myfi³⁴¹

Bu dylanwad W. S. Jones a Samuel Beckett ar ieithwedd Aled Jones Williams yn sylweddol a thrafodir hynny mewn mwy o fanylder yn y bennod ar ieithwedd y dramodydd. Ond bu eu dylanwad ar ei themâu lawn cyn gryfed hefyd. Yr hyn a geir yn nramâu'r tri ohonynt yw:

cymeriadau sy'n byw ar ymylon cymdeithas, y ddibyniaeth a'r hoffter sydd rhyngddynt ynghyd â'r atgasedd hefyd, crefydd a marwolaeth, anobaith, a'r emosiwn mwyaf gwallgof o'r cwbl – gobaith y daw eto dro ar fyd ... roedd yma hefyd yr amheuaeth nad yw iaith yn gallu cyfleu dim mewn gwirionedd.³⁴²

Fodd bynnag, er cryfder dylanwad y dramodwyr uchod, ynghyd â llenorion megis Sarah Kane, Caryl Churchill, Gwenlyn Parry, Brian Friel heb angofio Shakespeare a'i ddrama fawr, *King Lear*, dywed Aled Jones Williams mai'r dylanwad mwyaf arno o ddigon, fel y dywedodd Meic Povey amdano'i hun hefyd, yw ei brofiadau ef ei hun: 'Mae'r broses o greu erbyn hyn ynghlwm wrth fy hanes i'.³⁴³

Wrth astudio themâu gweithiau Aled Jones Williams, ynghyd â natur ei gymeriadau, y mae'n amlwg bod gorgyffwrdd rhwng profiadau personol y dramodydd a chynnwys ei weithiau. Er y dadleua nad oes yna fanifesto yn ei weithiau, y mae monolog Jona Fodca ar ddiwedd y ddrama *Lyshe*, yn crisialu hanfod theatr Aled Jones Williams ac nid oes amheuaeth fod llais yr awdur i'w glywed yn glir yma:

JONA: Be wn i bellach os oes yna dduw neu beidio. Mae yna ambell i gwestiwn sy'n rhy fawr i'w ateb. Oes? neu Nagoes? Waeth i mi ddewis 'oes' ddim. Gan fod y ddau ateb gyn wirionedd â'i gilydd. Ac am fod yna rai pethau sydd wedi digwydd i mi sy'n amhosibl eu hesbonio heb o leiaf y posibilrwydd o dduw. Mi setla-i felly ar adael cadair wag yn fy nychymyg. Ac y mae'n rhyddid i bellach yn dibynnu ar fy nghaethiwed i. Fy ngollwng yn y carcharu. Oherwydd yn fy salwch i y mae fy iechyd i. A dyna pam dwi'n rhydd i ddweud: Jona dw-i. A dw-i'n alcoholic.³⁴⁴

³⁴¹ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

³⁴² Gwenan Mared, 'Beckett a Bara Caws', <<http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=172>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

³⁴³ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr Isfyd', *Barn*, 27.

³⁴⁴ Williams, *Lyshe*, t. 76.

Ond ni olyga hynny, o reidrwydd, fod ei ddramâu yn rhai hunangofiannol, ond eu bod, yn hytrach, yn deillio o brofiadau personol a'r hyn a wna'r dramodydd yw troi'r profiadau hynny yn ddelweddau theatrig.

Nid bod yn hunangofiannol mo hyn ond chwilio profiad – cloddio'n fewnol – a throi'r profiad yna yn theatr. Ynof fi mae'r deunydd crai.³⁴⁵

Er mwyn cyfleu'r profiad alcoholig, er enghraifft, yn ei weithiau, megis yn *Lysh*, ni allai'r dramodydd ond cyfleu'r profiad o'i safbwynt ef ei hun. Ond eto, nid Aled Jones Williams mo'r un o'r cymeriadau:

Mae yna dinc metaffuglennol yn y dweud o bryd i'w gilydd, sydd yn ategu brwydr bersonol yr awdur gyda'i emosiynau ei hun ... Er bod y ddrama wedi deillio o brofiad yr awdur â'i salwch, nid drama hunangofiannol ydi hi, ond cipolwg o ymgiprys pedwar cymeriad gwahanol ag alcoholiaeth.³⁴⁶

Fodd bynnag, ar gyfer y llwyfaniad o'r ddrama, bu raid i Valmai Jones, y cyfarwyddydd, dorri llawer ar y sgript. Oherwydd i'r ddrama gael ei hysgrifennu yn ystod cyfnod anodd ym mywyd y dramodydd, teimlai'r gyfarwyddwraig fod y ddrama yn llawer rhy hir ac yn rhy feichus fel ag yr oedd.³⁴⁷

Dywed mai 'Ac eto nid Myfi'³⁴⁸ a geir yn y gweithiau, gan obeithio y byddent yn sefyll ar eu pennau eu hunain hebdo. Eto i gyd, cyfaddefa y ceir mwy o'r 'myfi na'r eto nid myfi'³⁴⁹ o fewn y dramâu. Dywedodd Ibsen fod drama yn ddrych o fywyd, ac yn ôl Aled Jones Williams yntau mae cyfansoddi 'fatha edrach mewn drych. A 'da chi'n gweld. Ond ma' 'na rw bath ciaidd iawn am y gweld 'ma. Fod geiriau fel drych'.³⁵⁰ Ceir adleisiau o'r cysyniad hwn mewn amryw o'i weithiau, beth bynnag fo'u cyfrwng, megis yn y cerddi 'Cymhelliad', 'Tybed?' a 'bydd dyn ar drothwy'r hanner cant':

bydd dyn ar drothwy'r hanner cant

³⁴⁵ Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

³⁴⁶ Angharad Elen, 'Dramâu Eisteddfod Casnewydd 2004', <http://www.theatre-wales.co.uk/critical/critical_detail.asp?criticalID=187>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

³⁴⁷ Cyfweiliad gyda Valmai Jones (2 Hydref 2013).

³⁴⁸ Cyfweiliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

³⁴⁹ Aled Jones Williams, yn 'Y Sioe Gelf: Portread o'r Parch. Aled Jones Williams', *Cwmni Da* (19 Awst 2002).

³⁵⁰ Cyfweiliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

yn dechra
tynnu amdano
yn y drych ciaidd ...
yn ei singlet a'i drôns ...³⁵¹

Fe'i clywir hefyd yng ngeiriau Sandra, y therapydd yn y ddrama *Lysh*:

Sandra: Be sy'n uffernol ydy nad oes yna ddiabiliaid allan yn fan' na yn ein rheoli ni. Mond ni ar ein pennau ein hunain. Mond fi yn edrych yn y drych.³⁵²

Er mai'r gwirionedd yn unig a adlewyrchir yn ôl yn y drych, cwestiwn a hola Aled Jones Williams iddo'i hun yn gyson yw faint yn union o'r gwir y mae wedi'i ddweud mewn gwirionedd yn ei weithiau. Dywed Alji yn *Wal* fod y 'rhan fwya o bobol yn sensro'u bywydau'u hunan'n³⁵³ a chyfaddefa Aled Jones Williams iddo 'sensro'i'³⁵⁴ fywyd a bywydau pobl eraill mewn amryw o'i ddramâu. Ond mae'r gair 'sensro' hwnnw yn cyfleu'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng hunangofiant a chyffes: 'Ac awdur cyffesiadol ydw i.'³⁵⁵ Ond yr hyn sy'n ddiddordol yw fod Aled Jones Williams, yn ogystal â chynnwys elfennau hunangofiannol yn ei ddramâu, hefyd yn dramateiddio ei fywyd, sy'n cymylu fwyfwy ar y llinell rhwng realiti a ffuglen. Ystyrier y naws ffuglennol, greadigol a berthyn i'r dyfyniad isod o'i hunangofiant:

Yr wyf fi yn caru alcohol. Hi – ac yr yr wyf o hyd wedi 'ei' ddirnad drwy'r benywaidd – yw fy nghariad cyntaf. Y mae'r berthynas rhyngom yn un ddifaol, yn un fewnol dreisgar, yn dwyllodrus ac yn y diwedd yn farwol. Ond fel gyda sawl perthynas gyffelyb, dychwelais ati bob tro.³⁵⁶

Fodd bynnag, i awdur sy'n archwilio cymaint ar themâu sy'n deillio o brofiadau personol yn ei weithiau, a oes yna berygl ei fod yn cloddio'n ormodol yn yr un fan ac o ganlyniad i'w sgrïptiau fod yn ailadroddus gan ailgyflwno yr un themâu dro ar ôl tro? Y mae cynulleidfa bellach, boed y gynulleidfa honno'n gwirioni ar ei gynnyrch neu beidio, wedi dod i arfer ag arddull a chynnwys gweithiau Aled Jones Williams ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl mewn drama o'i eiddo, ond ys dywed Meinir Eluned Jones, 'ni all yntau fynd yn ei

³⁵¹ Aled Jones Williams, 'bydd dyn ar drothwy'r hanner cant', *Y Cylchoedd Perffaith*, t. 106.

³⁵² Williams, *Lysh*, t. 56.

³⁵³ Williams, 'Wal', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 96.

³⁵⁴ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

³⁵⁵ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

³⁵⁶ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 11.

flaen lawer yn hwy gyda'r un hen gwestiynau, neu buan iawn y bydd y marmeit yn colli'i flas, a'r llenor yn colli ei apêl'.³⁵⁷ A bellach, mae'r dramodydd ei hun wedi nodi nad oes ganddo'r ysfâ i gyfansoddi drama lwyfan arall. Wrth iddo edrych yn ôl ar y ddrama *Pridd*, a lwyfannwyd gan Theatr Genedlaethol Cymru yn 2013, teimlai'r dramodydd fod 'rhywbeth wedi mynd'³⁵⁸ ac mai 'hwyl fawr i'r theatr'³⁵⁹ yw'r ddrama.

³⁵⁷ Meinir Eluned Jones, 'Ci Tintin', *Barn*, 489 (Hydref 2003), 59.

³⁵⁸ Darlith gan Aled Jones Williams a drefnwyd gan Gangen Bangor o Raddedigion Prifysgol Cymru (14 Tachwedd 2014).

³⁵⁹ Darlith gan Aled Jones Williams (14 Tachwedd 2014).

3. Cyfrwng ac Ieithwedd

Well gen i weld coeden ar lwyfan
na darllen disgrifiad ohoni mewn nofel³⁶⁰

Mae na rywbeth am farddoniaeth yng Nghymru – hwyrach ei fod o'n cael ei dra dyrchafu uwchben pob dim arall – y gerdd ydi'r peth, wedyn mae rhyddiaith yn dod wedyn ond Duw a'ch helpo chi os rydych chi'n sgwennu drama, mae hynny i lawr yn y gwter yn rhywle³⁶¹

Pam felly, er iddo honni yr ystyrir cyfrwng y ddrama fel *genre* israddol yng Nghymru, y dewisodd Aled Jones Williams y cyfrwng hwnnw fel ei brif ffurf lenyddol? Drama, yn ei eiriau ef, yw ei gariad cyntaf ac mae'r rhesymau dros hynny yn deillio o'i gefndir a'i fagwraeth:

Tua'r adeg yma y gwelais i ddrama go-iawn: *Fiddler on the Roof* a Topol yn actio. Nid gormod dweud i mi 'adnabod' rhywbeth yn ddwfn ynof fi fy hun pan welais i'r cynhyrchiad hwnnw. A nid yw'r 'adnabod' yna erioed wedi fy ngadael. Beth oedd yr 'adnabod'? Grym llwyfan wag sy'n gryfach i mi na thudalen wag; pobl yn eu cyrff yn gwrthdaro; iaith yn cael ei hynganu'n uchel – a rhywbeth i'w glywed yw iaith imi, nid i'w ddarllen. Pobl a'u hystumiau a'u hiaith yn creu byd arall o 'mlaen i oedd yn medru dweud pethau am fy mynd beunyddiol i ac, yn bwysicach, ei ddyfnhau.³⁶²

Yn ogystal â hyn, gyda'r Eglwys wedi bod yn rhan mor annatod o'i fywyd erioed, ac yntau wedi dilyn ôl troed ei dad a dod yn berson plwyf, gwêl Aled Jones Williams beth tebygrwydd rhwng y ddrama a'r Eglwys:

Drama ydi'r eglwys. Drama anhygoel o fawr a phrydferth ydi'r Cymun ... Does yna nunlla mor blentynnaidd a chi'aid ag eglwys neu gapel. Gweld pobl, clywed pobl, sylwi a dynwared ... dyna'r man cychwyn pan oeddwn i'n ddim o beth ...³⁶³

O ganlyniad, dywed fod cyfrwng y ddrama yn nes at ei anian nag unrhyw gyfrwng arall. Ymhelaetha ar y berthynas hon sy'n bodoli rhwng y ddrama a chrefydd gan ganolbwyntio ar

³⁶⁰ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr Isfyd', *Barn*, 28.

³⁶¹ Aled Jones Williams, yn 'Prifardd nad yw'n un o'r gang!',
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/021010aled.shtml>>.

³⁶² Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

³⁶³ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr isfyd', *Barn*, 28.

un agwedd o ddrama yn arbennig – cyfrwng y fonolog. Dywed mai monolog mewn gwirionedd yw pregeth:

y fonolog yw hanfod y ddrama ... cyfamod yw monolog rhwng yr actor (dyn/menyw) a'r gynulleidfa (ei gyffeswr/chyffeswr).

O'r eiliad mae'r gynulleidfa yn eistedd yn eu seddi, mae'r 'offeren' yn dechrau.³⁶⁴

Yn wir, mae amgylchiadau bywyd Aled Jones Williams wedi peri mai ym myd y fonolog y mae ei ddiddordeb ef. Nid yw'n amherthnasol mai fel unig blentyn y'i magwyd:

Mi 'rydw i'n teimlo'n unig!

“A!” medda chi! “Go brin!”

A hynny oherwydd fy mod i o bryd i bryd yn dirnad fy stad fel unig blentyn, heb na brawd na chwaer.

Siarad hefo fi'n hun rydwi wedi ei wneud gydol f'oes! 'Doedd yna neb i rannu 'pethau' y mae brawd a chwaer yn eu dweud wrth ei gilydd – yn enwedig yng nghyfnod llencyndod.

Pethau na fedra nhw fyth eu deud wrth eu rhieni ac er i mi greu ffrind o'r enw 'Colin' drwg 'Colin' oedd ei fod o'n debyg ryfeddol i mi gan gytuno â fy holl feddyliau.³⁶⁵

Yn deillio o amryw o themâu mawrion Aled Jones Williams, megis marwolaeth, cymeriad dinistriol y fam, ac alcoholiaeth, daw'r thema o unigrwydd i'r amlwg. Mae cymeriadau Aled Jones Williams oll wedi'u hysu gan unigrwydd – ystyrier cymeriadau *Cnawd*, *Lysh*, *Wal*, *Y Dyn Llnau Bogs*, *Sundance*, *Be odd enw ci Tintin* a Tom o'r ddrama *Fel Stafell* fel enghreifftiau: 'Canolbwynt emosiynol taith Tom yw ei sylweddoliad echrydus mai unigrwydd oedd ei hanes hyd yn oed pan fu'i wraig yn fyw'.³⁶⁶

Gydag unigrwydd yn thema mor gref yn ei waith, nid yw'n syndod mai symud tuag at leisiau unigol mewn anialwch y mae awen Williams.³⁶⁷

Y mae ffurf y fonolog yn caniatáu iddo gwestiynu, a dyna un o hanfodion dramâu Aled Jones Williams. Ni chynigir atebion yn ei weithiau – nid oes ganddo ddiddordeb yn yr atebion gan fod atebion, yn ei ôl ef, yn dod â phethau i derfyn. Ei fwriad bob tro yw codi cwestiynau:

³⁶⁴ Ian Rowlands, 'Cyflwyniad i'r gyfrol', yn Ian Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain* (Llanrwst, 2002), t. 11.

³⁶⁵ Aled Jones Williams, 'Brodyr i'w gilydd', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/crefydd-dweud/tudalen/100930.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

³⁶⁶ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 24.

³⁶⁷ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 34.

‘Marciau cwestiwn yn atseinio ym mudandod mawr yr awditoriwm yw dramâu Williams.’³⁶⁸ Ac mae arddull ei ieithwedd yn adlewyrchu hynny, gyda’i gymeriadau yn lluchio cwestiynau at ei gilydd yn ddi-baid, megis y ‘chwarae-tenis geiriol rhwng Alji ac Eddie’³⁶⁹ a geir yn y ddrama *Wal*, sy’n ein hatgoffa o ieithwedd dramâu Samuel Beckett:

EDDY: Lle awn ni o fama?
ALJI: Ni?
EDDY: Lle ei di o fama?
ALJI: Rwla arall.
EDDY: A finna ’efyd. Nei di ngholli fi?
ALJI: Ma’ siwr. Dwi ’di colli bob dim arall.
 Bacha byns fuo gin i rioed.
EDDY: I lle fyddwn ni’n mynd?
ALJI: Be ffwc wn i!
EDDY: Y meddwl am fynd sy’n ’y nghadw fi i fynd ...
 Sgin ti ryw eidia?
ALJI: Nagoes!
EDDY: Ryw inclin bach dybad?
ALJI: Be ti’n feddwl ydw i? ... Map?
 Directions? ... Plan? ...³⁷⁰

Comisiynwyd *Wal* ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Môn, 1999 ac fe’i perfformiwyd gan Gwmni Theatr Gwynedd gyda Maldwyn John a Merfyn Pierce Jones yn perfformio o dan gyfarwyddyd Valmai Jones, ac o’r holl ddramâu y bu’n gyfrifol am eu cyfarwyddo, dyma’r ddrama y cafodd Valmai Jones y mwyaf o foddhad o weithio arni. Sonwyd eisoes, gan fod nifer o ddramâu’r dramoddyd yn ymdrin ag achosion Cymreig, y byddai agwedd ganolog i’r i’r gweithiau yn cael ei golli wrth eu cyfieithu. Y ddrama hon, fodd bynnag, yw’r unig enghraifft, o ddrama o eiddo’r dramodydd y cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg ohoni gan George P. Owen. Gan nad yw presenoldeb y themâu Cymreig a geir mewn nifer o’r gweithiau eraill yn ganolog i’r ddrama hon, a’i bod yn canolbwyntio’n helaethach ar themâu abswrdaidd sy’n themâu oesol a rhyngwladol, y mae *Wal* yn ddrama fwy cyfieithadwy.

Y ddelwedd oedd dechreubwynt *Wal* i Aled Jones Williams, delwedd a ddaeth i’w ddychymyg tra oedd ar Ynys Enlli, delwedd o ddyn yn crafu wal ac yna dyn arall yn dod ato. Corporal Alji yw’r cymeriad sydd yno eisoes a daw Plain Eddy yno ato yn holi am y swydd a welodd yn cael ei hysbysebu ar ddarn o bapur yn siop y cigydd a gynigiai ‘[t]wenti-ffeif cwid

³⁶⁸ Ros, ‘Rhwng rhag a rhethreg’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 17.

³⁶⁹ Elis, ‘Gwreiddyn y Drwg’, *Barn*, 61.

³⁷⁰ Williams, ‘Wal’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 96.

rŵan a twenti-ffeif cwid letyr'.³⁷¹ Gŵr yn ei bedwardegau cynnar yw Alji sy'n byw yn ei 'orffennol agos fel milwr'.³⁷² Er y gall fod yn gymeriad tyner a sensitif iawn ar brydiau, gall hefyd fod yn frwnt iawn tuag at Eddy a cheir awgrym bod ei gyfnod fel milwr yn y Falklands, yn ogystal â'r ffaith iddo weld ei dad yn gwaelu o ganlyniad i ddementia, wedi'i chwerwi. Awgrymir hefyd fod gan Alji deimladau carwriaethol tuag at Eddy ond mae'r gwrthdaro sy'n bodoli o'i fewn yn golygu nad yw'n fodlon derbyn hynny, a chyfeiria ei atgasedd ato'i hun tuag at Eddy:

ALJI YN CYDIO YN EDDY AC YN DECHRAU DAWNSIO AG O. ALJI YN SYDYN YN LLUCHIO EDDY AR LAWR³⁷³

Y mae Eddy, sydd yn ei dridegau hwyr ac yn gwisgo dillad ail law, yn anwylach ac yn ddiniweitiach cymeriad o lawer nag Alji, a'i 'ben yng ngorffennol pell ei blentynod hapus'.³⁷⁴ Er i Alji geisio rhoi'r argraff mai ganddo efo mae'r llaw uchaf a'r cyfrifoldeb mwyaf, y mae, mewn gwirionedd, yn dibynnu'n fawr ar gwmnïaeth Eddy i'w gynnal, sy'n ein hatgoffa o berthynas y ddau gymeriad yn y ddrama *Y Cadfridog* gan Meic Povey.

Tra'n crafu'r wal, dônt ar draws gwahanol wrthrychau megis bag plastig, ambarél, llygad mewn pot jam a drych. Trosiad yw'r ddrama, mewn gwirionedd, a'r wal y mae'r ddau gymeriad yn ei chrafu yn symbol o gorneli eu hisymwybod, neu, yn hytrach, ei isymwybod, gan mai gwahanol agweddau ar yr un cymeriad yw'r ddau yn y bôn. Wedi gorffen eu gwaith am y dydd, cychwynna Eddy am adref, ond cyn iddo fynd, rhydd Alji £25 iddo am ei waith sy'n awgrymu mai Alji fu'n gyfrifol am hysbysebu'r swydd a hynny er mwyn cael cwmnïaeth. Yn wir, mae unigrwydd yn thema amlwg yn *Wal*.

EDDY: 'Sti be? 'Sa gneud hynna ar dy ben dy hun yn beth unig uffernol yn basa? ... Ma' hi'n bwysig rhannu'r unigrwydd yn tydi?³⁷⁵

Y mae'r ddau gymeriad yn dibynnu'n fawr ar ei gilydd, ac er y ceisia Alji roi'r argraff ei fod yn annibynnol, y mae ef angen Eddy lawn cymaint ag y mae Eddy ei angen ef:

ALJI: Dwi'm isio chdi, paid â ngadal i byth ...³⁷⁶

³⁷¹ Williams, 'Wal', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 86.

³⁷² Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 29.

³⁷³ Williams, 'Wal', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 96.

³⁷⁴ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 29.

³⁷⁵ Williams, 'Wal', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 99.

Mae '[c]yplau cyd-ddibynnol, fel *Pêl Goch* a *Fel Stafell*'³⁷⁷ a *Mercher Eira*, yn elfen gyson yng ngwaith Aled Jones Williams ac mae perthynas y cyplau hyn, yn ogystal ag ieithwedd y dramodydd, yn ein hatgoffa o gymeriadau Samuel Beckett, megis *Wrth Aros Godot* neu *Diweddgan*, 'gyda'r berthynas bartner sylfaenol'³⁷⁸:

ALJI: Neidia ar 'y nghefn i ta.
EDDY YN NEIDIO AR EI GEFN.
Y DDAU YN CERDDED ROWND A ROWND MEWN CYLCH
EDDY: Paid â stopio! ... Fera i ddim diodda cyrradd nunlla ...
ALJI: Ti 'di cyrradd nunlla flynyddodd yn ôl ...
EDDY: Gad ni fynd yn ôl i'r dechra ...
TROI ROWND.
CERDDED ROWND A ROWND MEWN CYLCH. STOPIO.
EDDY: Yn dy flaen ... 'Ipyn bach!
ALJI: Pam?
EDDY: Dim yn fama ddaru ni gychwyn. Yn fancw ...
ALJI YN MYND EI FLAEN YCHYDIG.
EDDY: Stop!
Nôl!
Stop!
Nôl!
Dacw'r man!
Stop!

Pan oedd yn dair ar ddeg oed, gwelodd Aled Jones Williams gynhyrchiad o *Waiting for Godot* (1953)³⁷⁹ yn Rhydychen, ac mae'r profiad hwnnw yn un o'r 'profiadau cynharaf sy'n aros yn ei gof'.³⁸⁰ Ac i un sy'n defnyddio cymaint ar gyfrwng y fonolog, mae'r ffaith iddo ddweud mai'r fonolog orau a gyfansoddwyd erioed yw monolog o eiddo Beckett, *Krapp's last Tape* (1958), a phetai'n cael mynd â thair drama yn unig gydag ef i ynys bellennig, y byddai *Diweddgan* o eiddo'r un dramodydd yn un ohonynt, yn profi cymaint yw ei edmygedd o'r hyn y gall ei 'wneud â iaith a'i ddynoliaeth enfawr o'.³⁸¹ Dywed iddo gael ei gyfareddu gan yr hyn nad oedd yn amlwg wrth wyllo'r cynhyrchiad a bod hynny'n rhannol gyfrifol paham nad yw byth yn dweud y stori gyflawn yn ei ddramâu a phaham bod amwyster yn bwysig iddo wrth ysgrifennu. Ond dywed mai dylanwad mawr arall arno fel dramodydd yw

³⁷⁶ Williams, 'Wal', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 100.

³⁷⁷ Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 289.

³⁷⁸ Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 289.

³⁷⁹ Cyfieithiad Saesneg Samuel Beckett o'i ddrama Ffrangeg, *En Attendant Godot* (1948).

³⁸⁰ Thomas, 'Cyffwrdd ym mêr esgryn y theatr', *Golwg*, 28.

³⁸¹ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr Isfyd', *Barn*, 28.

W. S. Jones ac yn arbennig felly ei ddeialog a'r ddrama *Y Dyn Swllt* (1963), ac mae'r dylanwad hwn yn nodwedd arall gyffredin rhyngddo a Meic Povey. Yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, 2006, cafwyd perfformiad o *Wrth Aros Beckett* gan Theatr Genedlaethol Cymru. Bwriad y cynhyrchiad oedd amlygu'r tebygrwydd a geir rhwng gweithiau Aled Jones Williams, Samuel Beckett a W. S. Jones. Perfformiwyd detholiadau o rai o'u gweithiau gan gynnwys *Bobi a Sami* (1988) gan W. S. Jones, *Wrth Aros Godot* sef cyfieithiad Saunders Lewis o ddrama Samuel Beckett a *Wal* gan Aled Jones Williams. Yn y dramâu hyn oll, canolbwyntir ar ddau gymeriad, dau ddyn, sy'n taflu geiriau at y naill a'r llall er mwyn gwastraffu amser. Ar ddechrau'r dramâu, ymddengys un cymeriad yn gryfach na'r llall. Mae Alji â'i draed mor sownd wrth y llawr â rhai Estragon (*Wrth Aros Godot*) a Bobi (*Bobi a Sami*), a naïfrwydd Eddy yn ei glosio at Fladimir a Sami. Mae'r gemau gwirion y maent yn eu chwarae, a'r taeru di-baid er mwyn gwastraffu amser, yn creu doniolwch, ac eto, maent yn dibynnu cymaint ar fodolaeth ei gilydd, ac awgrymir mai gwahanol agweddau ar un cymeriad a geir mewn gwirionedd.

Yn ogystal â'r ddau gymeriad, Alji a Eddy, ceir dau gymeriad arall yn y rhestr o gymeriadau ar flaen sgript *Wal*, sef y wal ei hun, sydd yn gysgod enfawr dros yr holl ddigwydd; 'mae yna rywbeth yn ofnadwy am y wal yma. Faset ti ddim isio bod wrth ymyl y wal yma o gwbl. Wal sy'n dy stopio di'.³⁸² A'r llall yw Mudandod. Ymddengys y mudandod hwn droeon yn ystod y ddrama ac amlyga unigrwydd y cymeriadau ar lwyfan mewn modd theatrig. Y disgrifiad o Fudandod ar ddechrau'r ddrama yw 'Y peth yna ar ôl i rywun farw'³⁸³ a dywed y dramodydd mai'r gwahaniaeth rhyngddo a thawelwch yw fod y Mudandod yn sgrechian.

Wrth oedi am ennyd gyda ffurf y fonolog, hanfodol yw cofio, fel y soniwyd eisoes, nad oedd gan dad Aled Jones Williams lais i'w fynegi'i hun, a rhaid ystyried beth oedd goblygiadau hynny ar y llenor pan oedd yn ifanc:

Mae 'na rywbeth wedi fy arwain i at y fonolog wedyn, mae'n siŵr gen i, oherwydd ychydig iawn o ddeialog fyddwn i'n ei glywed.³⁸⁴

Dramâu un cymeriad ar lwyfan, neu fonologau, yw'r dramâu *Sundance* a *Dyn Eira* (addasiad llwyfan o *Pryd Fuo Kathleen Ferrier Farw?*). 'Ond yn eu hanfod monologau ydy

³⁸² Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 15.

³⁸³ Williams, 'Wal', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 85.

³⁸⁴ Aled Jones Williams, yn Emyr, 'Mynd i gyfeiriad arall', *Taliesin*, 124-5.

holl weithiau Williams':³⁸⁵ er bod gweddill y dramâu yn cynnwys mwy nag un cymeriad, yr hyn a geir ynddynt hwythau yw cyfres o fonologau. Ystyrier y dramâu *Cnawd, Fel Stafell, Be' odd enw ci Tintin?* a *Ta-ra Teresa* fel enghreifftiau. Y mae pob un o'r cymeriadau yn adrodd eu stori bersonol trwy gyfrwng monologau. Ond o fewn monologau Aled Jones Williams, ceir llais sawl cymeriad. Y mae cymeriad Anna Evans yn *Be' odd enw ci Tintin?*, er enghraifft, yn dynwared llais ei mam yn ogystal â chymeriad Jack y ffotograffydd. Y mae cymeriad Sundance yn dynwared llais Anti Janice a Mr Parry yn *Dyn Eira* yn dynwared lleisiau ei rieni. Hynny yw, ceir gwahanol leisiau o fewn yr un llais: 'Ond nid un llais yw monolog ond lleisiau yn cyd-blethu ac yn gwrthdaro tu mewn i un cymeriad. Deialog mewnol yw monolog.'³⁸⁶ Deillia hyn, nid yn unig o ddynwarediadau mam yr awdur a oedd yn ei gyfareddu yn blentyn, hynny yw, y syniad o glywed lleisiau eraill o fewn ei llais hi. Ond deilliai hefyd o'i hoffter o dafleisiwr:

Ro'n i'n meddwl bod hynny'n ffantastig! ... o'n i'n lecio hynny, bod rhywun yn medru taflu ei lais, er mai ei lais o oedd o, ac eto'n swinio'n wahanol ... A dyma'r math o beth sy'n digwydd yn y dramâu mae'n siŵr. Y taflu llais yma, felly.³⁸⁷

Gall y gwahanol leisiau hyn o fewn yr un person greu gwrthdaro mewnol. Yn wir, ymlafnio â hwy eu hunain y mae cymeriadau Aled Jones Williams. 'Rhyw gecru mewnol rhwng y da a'r drwg, rhwng goleuni a thywyllwch, rhwng Duw a dim Duw',³⁸⁸ – rhwng y deuoliaethau hynny sy'n bodoli o fewn pob un o'i gymeriadau:

Ond os nad oes cymeriadau eraill i'w cael yn y dramâu hyn, o le y tardda'r gwrthdaro? ... mae ein cymeriadau yn brwydro gymaint â nhw'u hunain ag y maent ag eraill ... Rydym y tu mewn i bennau'r cymeriadau hyn, yn clustfeinio ar sgysiau a dadleuon gyda nhw'u hunain, gan gesio olrhain llwybr synhwyrol drwy'r anrhefn meddyliol.³⁸⁹

Nid yn unig y mae'r dramâu ac ynddynt fwy nag un cymeriad yn cynnwys nifer o fonologau, ond dywed y dramodydd mai monoddramâu yw'r gweithiau hyn hefyd mewn gwirionedd. Cynrychioli gwahanol leisiau o fewn yr un person y mae'r cymeriadau. Ystyrier cymeriadau Dyn 1 a Dyn 2 yn y ddrama *Chwilys* fel enghreifftiau:

³⁸⁵ Ros, 'Rhwng rheg a rhytheg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 21.

³⁸⁶ Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

³⁸⁷ Aled Jones Williams, yn Williams, 'Holi Aled Jones Williams', yn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXIX*, t. 20.

³⁸⁸ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

³⁸⁹ Ros, 'Rhagymadrodd: 'Siarad â'u Hunain'', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 13.

Ond nid perthynas ddu a gwyn am ddyn da a dyn drwg, fel yn *Westerns* hoff y dramodydd, mohoni. Plethir eu hemosiynau, eu gweithredoedd a'u cymhellion fel y gellir awgrymu mai dau [*sic*] ochr i un cymeriad ydynt, mewn gwirionedd.³⁹⁰

Y mae cymeriadu y dramâu *Wal* a *Lysh* hefyd yn dilyn yr un patrwm. Trwy ddefnyddio ieithwedd gyffelyb ar gyfer pob cymeriad yn y gweithiau, awgrymir mai gwahanol agweddau ar yr un cymeriad a geir ynddynt mewn gwirionedd. Enwau'r ddau gymeriad yn y ddrama *Wal* yw Corporal Alji a Plain Eddy. Ond o roi'u henwau ynghyd, ffurfir yr enw 'Aled', sy'n awgrymu eu bod yn cynrychioli rhyw agwedd o'r dramodydd. Yn arwyddocaol, cafodd Merfyn Pierce Jones a bortreadai gymeriad Eddy fenthyg esgidiau Aled Jones Williams ar gyfer y rhan. Felly'r hyn a geir yw dau gymeriad ond un person. Lleisiau mewnol gwrthgyferbyniol un person yn ceccru'n barhaus yw deialog y ddrama. 'Deialog ym mhen un dyn'.³⁹¹

ALJI: Amser panad ...
EDDY: Drop tŵls.
Y DDAU YN EIDTEDD Â'U CEFNAU AT Y WAL.
EDDY: Chdi 'ta fi?
MUDANDOD
EDDY: Chdi 'ta fi?
MUDANDOD
EDDY: Chdi 'ta fi?
MUDANDOD
ALJI: Meddylia am ffor arall o ddeud hynny nei di? Plîs ...
EDDY: Fi 'ta chdi?
ALJI: 'Na welliant! ... Smwythach ar y glust rwsud ...
EDDY: Fi 'ta chdi ... Gneud y te! ... Fi 'ta chdi ... Y te ... Y ffwcin te...
ALJI: Chdi ...
EDDY: Sgin i'm byd ... Nes i 'im meddwl ...
ALJI: Nes di ddim meddwl! ..
EDDY: (YN PWYNTIO'N SYTH O'I FLAEN) Ma' 'na socet lettric yn fanna
...
ALJI: Bron iawn yna felly, dydan ...
EDDY: Sgin ti 'im tecall mwn nag o's?
ALJI: 'Im arna i ... Nag o's? (YN TYNNU BAG TE O'I BOCED) Tî bag! ...
Ma' 'na un banad ar ôl yn'o fo ddudwn i.
EDDY: A faint o baneidia te ti 'di ga'l allan ohono fo'n barod ta? ...
ALJI: Chwech ...
EDDY: Ma' raid bo chdi di medru berwi teciall felly ...
ALJI: Do's 'na neb yn berwi teciall ... Berwi dŵr mewn teciall ma nhw ...

³⁹⁰ Hughes, 'Chwilys: Artaith bleserus', <<http://tuchwith.com/2010/03/adolygiad-o-chwilys-drama-newydd-aled-jones-williams-gan-non-meleri-hughes/>>.

³⁹¹ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 28.

EDDY: Ond sgynnon ni run ...
ALJI: 'Im be?
EDDY: Ffwcin teciall.³⁹²

Monodrama yw *Lysh* hefyd ac agweddau ar un person yw cymeriadau'r tri dyn yn y ddrama sy'n cynrychioli gwahanol gyfnodau o fewn alcoholiaeth a gwahanol ymatebion iddo.

Nid pawb, fodd bynnag, sy'n or-hoff o'r fonolog fel cyfrwng theatrig. Dyma farn Gwen Ellis, a bortreadai gymeriad Anna Evans yn y ddrama *Be odd enw ci Tintin?*, o'r cyfrwng:

To be honest, when I first read the play I was a little disconcerted by the structure: four characters with four secrets, three of which are revealed through monologue. The scenes with dialogue are well balanced and often funny and moving, but these monologues ... It's a personal thing, I guess, but I have never been over-fond of the monologue as a means of depicting a train of thought. I like them slightly more when they tell a story, but not much more.³⁹³

Y mae monologau yn caniatáu i awdur fedru rhoi gwybodaeth ar blât i'w gynulleidfa yn hytrach na gorfod canfod dull o ddatgelu yr un wybodaeth yn gyfrwys a chynnil rhwng llinellau deialog. Ac nid monologau byrion a geir yng ngweithiau Aled Jones Williams ychwaith. Y maen nhw'n fonologau hynod eiriol sy'n parhau am dudalennau ar y tro ac, o ganlyniad, gellir awgrymir bod yr adrannau hyn yn anghynnil. Yn ei hadolygiad o *Lysh*, dywed Angharad Elen:

Monologau swmpus a disgrifiadol sy'n rheoli'r rhan helaethaf o'r dweud, ac er mor hoff ydw i o'r arddull farddonol, goeth yma, i mi, doi'r ddrama yn wirioneddol fyw yn y pytau o ddeialog rhwng y cymeriadau. Teimlo oeddwn i efallai bod gormod o bwddin yn y monologau o bryd i'w gilydd, a bod yr awdur yn pentyrru delweddau, yn meddwi ar eiriau ar draul y ddrama rhwng y cymeriadau (er mor brydferth ac ingol y delweddau hynny). I mi, un o'r pethau sy'n ddifyr am y salwch dinistriol hwn, yw'r ffordd y mae'n effeithio ar y berthynas rhwng pobl, a hoffwn fod wedi gweld mwy o ymgom rhwng y cymeriadau â'i gilydd, er mwyn rhoi elfen mwy uniongyrchol i'r chwarae. Ond wedi dweud hynny, mae alcoholiaeth yn dueddol o fod yn gyflwr myfiol a mewnl iawn, a synnwn i ddim mai adlewyrchu hyn oedd prif fwriad yr awdur yn hyn o beth.³⁹⁴

³⁹² Williams, 'Wal' yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 92.

³⁹³ Ellis, 'The Confessions of Miss Evans', <http://www.theatre-wales.co.uk/critical/critical_detail.asp?criticalID=143>.

³⁹⁴ Elen, 'Dramâu Eisteddfod Casnewydd 2004', <http://www.theatre-wales.co.uk/critical/critical_detail.asp?criticalID=187>.

Yr un modd, y mae ail hanner *Iesu!* hefyd yn bregethwrol gydag areithiau hirion iawn, gan gymeriad Peilat yn arbennig. Yn yr achos hwn, efallai mai anodd oedd i un a oedd yn berson plwyf pan gyfansoddwyd y ddrama ymatal rhag traethu yn ormodol gyda thestun o'r fath a chlywir llais y dramodydd yn bur amlwg ar brydiau. Fodd bynnag, dywed Aled Jones Williams, er bod ei ddramâu yn rhai moesol yn ei dyb ef, ei fod yn ymwybodol o'r demtasiwn i 'bregethu' ac, o'r herwydd, yn bwriadol geisio osgoi hynny:

Ond mi fydda' i yn gwbod pan fydd rhai o'r cymeriadau 'ma yn pregethu, a ma' 'na rwbath yn fan 'na na tydi o'm yn wir. Dwi'n teimlo 'mod i wedi rhoi geiriau yng ngheg pobl.³⁹⁵

Ni ellir dadlau nad yw'r fonolog yn ffurf theatrig gydnabyddedig, ond, ys dywedir uchod, mae ymdriniaeth helaeth Aled Jones Williams o'r cyfrwng y peri nad yw'r cydbwysedd rhwng ei ddefnydd o fonolog a'i ddefnydd o ddeialog bob tro'n gyfartal. Ac er i'r dramodydd ddweud fod '[w]ell gen i weld coeden ar lwyfan na darllen disgrifiad ohoni mewn nofel, dyweder, neu gerdd!',³⁹⁶ y mae'r ffaith bod ei ddramâu yn cynnwys cynifer o fonologau hirion a chymalau disgrifiadol yn peri iddynt ymdebygu i naratif yn y person cyntaf a geir mewn cyfryngau megis nofelau a straeon byrion. A chan gofio bod Aled Jones Williams yn awdur nifer o nofelau yn ogystal, codir y cwestiwn a oes yna orgyffwrdd rhwng y gwahanol *genres* a arddelir gan y llenor.

Dywed Aled Jones Williams mai gweld delwedd, gan amlaf, yw'r man cychwyn iddo wrth fynd ati i gyfansoddi, ond ambell waith, dywed mai clywed cymeriad yn siarad ag ef yw'r dechreubwynt: 'Rhyw gymeriad sydd yna'n deud rhywbeth, ac os glywa i gymeriad yn siarad imi, fydda i'n gwbod fod yna bethau'n digwydd.'³⁹⁷ Bydd yna'n gwrando ar y llais hwnnw yn ei ben, llais yr actor Maldwyn John yn aml, am rai misoedd gan gofnodi'r hyn a glyw mewn llyfryn bach cyn mynd i ati i ysgrifennu o ddifrif. Yn wir, o astudio'i weithiau ac ystyried pa mor eiriol ydynt, ni ellir gwadu pwysigrwydd geiriau ac iaith, ac yn arbennig felly'r iaith lafar, i'r llenor (fel a drafodwyd eisoes yng nghyd-destun ei themâu). Nid yw hyn yn syndod o ystyried dynwarediadau ei fam yn ogystal â'r ffaith na allai ei dad ei fynegi'i hun yn foddhaol oherwydd y nam a oedd ar ei lais. Ond nid dyna'n unig sy'n gyfrifol am ei hoffer o iaith:

³⁹⁵ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

³⁹⁶ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr Isfyd', *Barn*, 28.

³⁹⁷ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 1.

A theledu – dyna ddylanwad mawr – a da! Teledu du a gwyn oedd ganddon ni. Ac mi greda i fod y du a'r gwyn yn gwneud i rywun sylwi mwy a gwrando mwy ar ystum llais a deialog dda.³⁹⁸

O ganlyniad i'r ffaith, felly, bod dramâu Aled Jones Williams yn hynod eiriol, gellir dadlau y byddent yn gweddu'n well i gyfrwng y radio yn hytrach na'r llwyfan. Dywed Nic Ros, yn ei adolygiad o *Ta-ra Teresa* mai '[h]awdd fyddai dod i'r casgliad mai drama radio a ysgrifennodd Aled Jones Williams yma'.³⁹⁹ Un gwahaniaeth sylfaenol, wrth gwrs, rhwng y radio a'r llwyfan fel cyfryngau theatrig, oherwydd nad oes yna elfen weledol ynghlwm wrth radio, yw bod rhaid i'r dramodydd drosglwyddo pob agwedd o'r ddrama i'w gynulleidfa trwy gyfrwng geiriau – y ddeialog, neu fonologau yng nghyswllt Aled Jones Williams. Yn y ddrama *Cnawd* mae'r dramodydd yn dibynnu'n llwyr ar yr elfen glywedol oherwydd, er mai drama llwyfan ydyw, nad yw'r atorion yn bresennol ar y llwyfan o gwbl, a chlywir eu lleisiau yn cael eu chwarae ar chwaraewr tapiâu. Y mae'r radio, felly, yn gyfrwng addas iawn i ddramodydd sydd wedi arfer creu '[d]arlun mewn geiriau',⁴⁰⁰ ac mae'n amlwg ei fod yn teimlo'n gyfforddus wrth ymdrin â'r maes:

Wnes i wirioneddol fwynhau y cyfrwng radio oherwydd roedd yn rhaid i mi weld pob dim trwy nghlust. Baswn i wedi licio gwneud lot mwy o waith trwy gyfrwng y radio ... oedd o'n fwy o sialens, oherwydd o'n i'n gorfod cau'n llygatau a sbio – a gweld trwy nghlust.⁴⁰¹

Bellach, y mae wedi cyfansoddi llawer mwy o weithiau ar gyfer y radio ac mae amryw o'r farn bod y gweithiau hynny yn rhagori ar ei weithiau llwyfan. Drama sy'n dod i'r brig wrth drafod ei weithiau yw'r ddrama radio *Pryd fuo Kathleen Ferrier farw* sydd wedi haddasu ar gyfer llwyfan o dan y teitl *Dyn Eira*, a dywed Aled Jones Williams mai dyma'r gwaith 'a ddoth â'r boddhad mwyaf i mi erioed, o ran ysgrifennu'.⁴⁰² Yn wir, i un sy'n gwirioni cymaint ar eiriau, 'mae'n syndod nad ysgrifennodd Williams ar gyfer y cyfrwng clywedol ynghynt. Dyma fforwm naturiol i fardd'.⁴⁰³

³⁹⁸ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr isfyd', *Barn*, 28

³⁹⁹ Ros, 'A55 Dwy Ffordd', *Barn*, 85.

⁴⁰⁰ Dienw, 'Clywed y Llais', *Golwg*, 14/47 (8 Awst 2002), 32.

⁴⁰¹ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, tt. 12-13.

⁴⁰² Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 12.

⁴⁰³ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 31.

Yn wir, wrth astudio'i gynnyrch – ei ddramâu, ei nofelau a'i farddoniaeth – gwelir bod peth tebygrwydd o ran arddull, strwythur ac ieithwedd gweithiau Aled Jones Williams a'u bod oll yn tueddu i ddilyn yr un patrwm. Nid yw'n ymwrthod â chyfrwng y fonolog o fewn ei weithiau rhyddiaith na'i farddoniaeth ychwaith. Y mae'r cyfrolau, '*Rhaid i ti fyned y Daith honno dy hun*' (2001) ac *Oerfel Gaeaf Duw* (2002) wedi'u hysgrifennu yn y person cyntaf, gan eu bod yn canolbwyntio ar brofiadau personol y dramodydd, ac ymdebygant yn fawr i gyfrwng y fonolog. O ganlyniad, mae'r gweithiau hyn yn cynnig eu hunain ar gyfer cael eu haddasu ar gyfer y llwyfan ac, yn 2003, llwyfannwyd addasiad o'r nofel, '*Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun*', gan Theatr Tandem gydag Owen Arwyn yn portreadu'r prif gymeriad o dan gyfarwyddyd Valmai Jones. Hi fu'n gyfrifol am addasu'r nofel ar gyfer y llwyfan gan dorri'r stori am hen ewythr Aled Jones Williams o'r sgrïpt derfynol. Dywed fod y gyfrol yn cynnig ei hun ar gyfer ei llwyfannu gan ei bod yn theatrig ac yn cynnwys emosiynau cryfion a oedd yn berthnasol i bawb yn y gynulleidfa.⁴⁰⁴ Yr un modd, ysgrifennwyd yr holl gerddi a geir yn y gyfrol, *Y Cylchoedd Perffaith*, hefyd yn y person cyntaf, ac ymdebygant i nifer o fonologau byrion. Monolog o fath, sef ymson gŵr mewn ystafell aros mewn ysbyty, a geir yn y bryddest, 'Awelon' – cymeriad arall sy'n ymlafnio ag ef ei hun:

Dwi'n meddwl, erbyn hyn, ei bod hi'n wir dweud na fedrwn i sgrifennu cerdd ar bapur – 'Dyma hi, cerdd, ylwch'. Mae'r math o farddoniaeth y bydda i'n ei sgrifennu yn dod i fod yn y gofod theatrig ... Y ddelwedd sy'n bwysig i mi, a dwi wedi deall barddoniaeth erioed fel rhywbeth sy'n ymwneud â delwedd, â llun. A dyna hanfod theatr i mi.⁴⁰⁵

Dyweddodd Einir Jones yn ei beirniadaeth o'r bryddest ei bod yn gerdd y dylid ei darllen yn uchel: 'gwelir fod rhythm y gerdd a'r symudiadau yn dibynnu ar atalnodi gofalus dros ben ... Lle mae angen gofod, ceir coma; lle mae angen arhosiad mwy, mae atalnod llawn, a lle mae gofyn am doriad ychydig hirach, fe geir llinell letraws (fel hyn '/') ... Yng nghanol hyn i gyd, cawn ddarnau cignoeth o hunanymholi a sgysiau tafodieithol'.⁴⁰⁶ Nid yw'n syndod, felly, i'r bryddest honno gael ei haddasu ar gyfer y llwyfan gan Gwmni Theatr Gwynedd a'i pherfformio gan Iwan Roberts o dan gyfarwyddyd Ian Rowlands yn 2003:

⁴⁰⁴ Cyfweliad gyda Valmai Jones (2 Hydref 2013).

⁴⁰⁵ Aled Jones Williams, yn Emyr, 'Mynd i gyfeiriad arall', *Taliesin*, 122.

⁴⁰⁶ Einir Jones, 'Pryddest neu ddilyniant o gerddi heb fod dros 200 llinell: Awelon', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi, 2002* (Llandybie, 2002), t. 56.

Erbyn hyn nid wyf yn credu mai Aled Jones Williams yw ei hunig 'awdur'. Mae 'awdur' arall iddi, sef, Iwan 'Iwcs' Roberts a berfformiodd y gerdd ar lwyfan ac ar y sgrin fach. Ond nid perfformio, deallais yn bur fuan wrth ei weld, yr oedd Iwcs ond ei chreu. Daeth ohono rywsut. Felly, o hyn ymlaen, 'Awelon' gan Aled Jones Williams ac Iwan 'Iwcs' Roberts!⁴⁰⁷

Ym mhattrwm y traddodiad barddol cyn belled yn ôl â gweithiau Aneirin, Taliesin, Cylch Heledd a Chylch Llywarch Hen a gweithiau Dafydd ap Gwilym, nid yw'r elfen theatraidd hon a berthyn i faddoniaeth Aled Jones Williams yn nodwedd ddieithr ym marddoniaeth Cymru nac ar lefel ryngwladol ychwaith, ys dywed Menna Elfyn, un o feirniaid y bryddest fuddugol:

Mae hi'n delynegol, mae ganddi naratif, ac mae yna elfen o ddrama ynddi hi. Dyna'r nodweddion sy'n ei chlymu hi â hen farddoniaeth Groeg.⁴⁰⁸

Celfyddyd lafar yw barddoniaeth i Aled Jones Williams. Gwêl ef fel cyfrwng cyhoeddus ac yn arbennig felly yng Nghymru gyda'r traddodiad cryf o dalymau sy'n bodoli. Dywed mai rhywbeth i'w glywed ar goedd ac nid i'w ddarllen yw'r gynghanedd hefyd:

Rhywbeth i'w chlywed yw iaith yn ôl Aled Jones Williams ... Mae'n gwbl hysbys i bawb mae'n siŵr gen i, mai addasiad o lyfr o'r un enw yw'r ddrama *Rhaid i Ti Fyned y Daith Honno dy Hun*, ac fe wŷr y rhan fwyaf i'w bryddest ddadleuol, 'Awelon', gymryd cam na chymerodd yr un bryddest arall erioed, mae'n debyg, wrth gael ei llwyfannu ar ffurf drama yn ddiweddar. Yn y traddodiad Cymraeg, rhywbeth i'w datgan yw llenyddiaeth. Ydy, mae'n bodoli hyd dragwyddoldeb yn farw mewn print, ond am ennyd fer, fe ddaw'n fyw. Ar y llwyfan, daw haniaeth yn ddiriaeth.⁴⁰⁹

O ganlyniad i'r meddylfryd hwn, y mae'r ieithwedd a gynhwysa Aled Jones Williams o fewn ei gerddi hefyd yn hynod lafar ac yn cynnwys tafodiaith naturiol y bardd. Yr un iaith a geir yn ei farddoniaeth ag yn ei ryddiaith a'i ddramâu:

Beth fydda i'n licio ydy sŵn geiriau a sŵn iaith lafar, pobl yn siarad; ar y cyfan rhywbeth i'w hynganu ydy iaith i mi, nid rhywbeth i'w darllen. Felly byd llafar ydy fy myd i nid byd llyfr.⁴¹⁰

⁴⁰⁷ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 35.

⁴⁰⁸ Menna Elfyn, 'Difaru Dim', *Golwg*, 15/47 (19 Medi 2002), 25.

⁴⁰⁹ Jones, 'Dy Daith dy Hun', *Barn*, 48-9.

⁴¹⁰ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 9.

Yn wir, mae ei ddefnydd o iaith lafar goeth yn nhafodiaith bro ei febyd yn Sir Gaernarfon bellach yn un o brif briodweddau ei weithiau. Y mae'r defnydd o ieithwedd Gymreig naturiol, llawr gwlad, yn hanfodol er mwyn creu portread cyflawn a gonest o'r math o gymeriadau yr ysgrifenna amdanynt. Ond cred Aled Jones Williams ei fod yn ddramodydd hen ffasiwn iawn yng nghyswllt ei iaith:

Hwyrach 'mod i'n teimlo'n hun yn hen ffasiwn erbyn rŵan, hen ffasiwn fy iaith, er enghraifft. Tydw i ddim yn fodlon cyfaddawdu ar yr iaith ... Fydda i'n meddwl weithiau na tydi rhain [y gynulleidfa a'r actorion] yn dallt y Gymraeg yma 'lly ... Fydda i'n meddwl weithia 'mod i'n ogleddol iawn – i Wynedd dwi'n perthyn ac mae'n apêl i i Gaerdydd, wel toes yna ddim apêl yna! Dwi'n meddwl weithiau 'mod i'n byw mewn Cymru a Chymraeg nad ydi o bellach yn bod ... mae 'Nghymru fi wedi'i grebachu ac mae'n apêl i'n gorffan ochr yma i Ddolgella.⁴¹¹

Y mae'n ddramodydd sy'n 'ymhyfrydu mewn iaith stryd'.⁴¹² Dyna paham y dywed y byddai elfen hanfodol yn cael ei cholli pe ceisid cyfieithu ei weithiau – yr elfen Gymreig honno sy'n rhan mor annatod o'i gymeriadau a'u sefyllfaoedd a phwysleisia bwysigrwydd cadw'n driw i'w gymeriadau. Yr un modd, y rheswm pam mae ei ddisgrifiadau, sy'n frith twy'i weithiau, mor drawiadol ac effeithiol yw oherwydd eu symllder. Cyffelyba ddelweddau a theimpladau cymhleth i bethau cyffredin, cwbl anghysylltiedig ond sydd eto'n berthnasol i bob un ohonom:

'I breichia hi'n 'y ngwagu fi fel taswn i'n diwb o dwthpesd ... A'i geiria hi fel sgwiji yn gwichian yn erbyn paen ffenasd ddubitj y nos.⁴¹³

Agwedd arall ar iaith lafar gweithiau Aled Jones Williams yw ei ddefnydd amlwg a chyson o regfeydd sydd bellach yn ei nodweddu fel awdur:

Credaf mai fi oedd Person mwyaf rhegillyd Esgobaeth Bangor. Fy awch am gadw fy unigolyddiaeth rhag cael ei draflyncu gan y sefydliad eglwysig oedd hynny, mae'n siŵr, oherwydd gwyddwn fod y sefydliad yn bwyta pobl yn fyw.⁴¹⁴

Fodd bynnag, bu peth beirniadu dros y blynyddoedd am amllder y defnydd o regfeydd yng ngwaith Aled Jones Williams. Mae sawl beirniad ac adolygydd wedi cyfeirio at yr hyn a

⁴¹¹ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

⁴¹² Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 17.

⁴¹³ Williams, 'Tiwlips', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 124.

⁴¹⁴ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, t. 32.

ymdebyga i ddibyniaeth Aled Jones Williams ar regfeydd, fel gwendid yn y ei ddawn fel dramodydd, a'i fod yn arwydd o ddiffyg geirfa:

Roedd llawer o regi yn y ddrama ac fe nododd cyfaill i mi, nad sy'n [sic] arddel Cristnogaeth gyda llaw, mae [sic] arwydd o sgript wan a rhwystredigaeth o dŷ'r [sic] dramodydd ydy gorfod troi at regi cymaint. Dwi ddim yn erbyn y defnydd o reg mewn llên, i ddweud y gwir dwi'n meddwl fod defnydd cynnil o reg mewn llen [sic] yn effeithiol dros ben i bortreadu'r gynnen a phechod sydd ynom ni gyd. Ond doedd dim cynildeb o gwbl yn nefnydd Aled o'r rheg ac oherwydd hynny roedd y defnydd o reg yn ddim byd mwy na dangos bod Aled yn Ficer rhwystredig sydd wedi a [sic] methu mynegi ei hun ac oherwydd hynny yn gorfod troi at reg yn yr un ffordd ag y mae plentyn bach yn gwaeddi [sic] a strancian pan nad yw'n cael ei ffordd ei hun.⁴¹⁵

Yn wir, cythruddwyd llawer gan yr hyn a ystyrient fel 'rhegfeydd di angen'⁴¹⁶ a gwelant ef fel ymgais ar ran y dramodydd i geisio bod yn ffasïynol. Perai bryder i rai megis y beirniad llenyddol John Gruffydd Jones a ddywedodd mewn sgwrs ar raglen Gwilym Owen⁴¹⁷ nad Aled Jones Williams yw'r unig lenor a deimlai'r angen i ddefnyddio iaith gref. Dywedodd ei bod yn drueni gweld cymaint o weithiau diweddar yn cynnwys 'iaith fudur' a bod a wnelo hyn â'r dirywiad crefyddol. Dywedodd fod cynnwys ambell reg yn dderbyniol, ond yr hyn sy'n peri poen meddwl iddo yw y gall pobl ifanc sy'n ymddiddori mewn ysgrifennu geisio dilyn esiampl llenorion sy'n cynnwys llawer o iaith anwedus yn eu gweithiau ac nad dyna'r ffordd i achub y Gymraeg:

Pobl ifanc yn gweld awduron yn cael canmoliaeth am iaith sydd yn hollol fudr – ac mae gen i ofn hynny ac mae gen i ofn hefyd ynglŷn ag ambell i ddrama lwyfan. Yr oedd yna bobl yn cerdded allan o ambell i beth eleni yn yr Eisteddfod Genedlaethol oherwydd yr iaith fras yma.⁴¹⁸

Ond ni pharodd y feirniadaeth hon i'r dramodydd ddiwygio cynnwys ei ieithwedd. Pan holwyd ef mewn cyfweliad gan Huw Roberts am ei ddefnydd o regfeydd, ei ymateb oedd:

Defnydd aml o'r gair 'ffwcin' sy' gynnoch chi mewn golwg wrth gwrs. Wel mae hwn yn air Cymraeg pwysig i nifer o bobl. I rai gair hyll ydi o, gair coman. Ond i eraill y

⁴¹⁵ Rhys Llwyd, 'Blog Rhys Llwyd: Iesu! Aled Jones Williams', <<http://rhysllwyd.blogspot.co.uk/2008/08/iesu-aled-jones-williams.html>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁴¹⁶ Thomas, 'Pa Iesu? Ymosod ar ddrama "anfoesol"', *Golwg*, 37.

⁴¹⁷ John Gruffydd Jones, yn 'Rhegi Llenyddol', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/rhegi.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁴¹⁸ John Gruffydd Jones, yn 'Rhegi Llenyddol', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/rhegi.shtml>>.

mae o'n rhan o'u mynegiant. Ac yn sicr yn y cymeriadau y bydda i yn clustfeinio arnyn nhw mae o'n rhan annatod o'u deud nhw.

Yng nghyfnod fy alcoholiaeth roedd y gair yn fy nefnydd i ohono yn mynegi fy nghynddaredd i, yn sôn am y mynd ar goll, ac ambell dro yn weddi o'r eigion du. Nid trio bod yn hip-gyfoed-street-cred yr ydw i wrth ddefnyddio'r gair. Yn y bôn – coeliwch neu beidio – trugaredd sy'n gwneud i mi ddefnyddio'r gair ... Mi wn am sawl un – a finnau yn eu plith – sydd yn ac sydd wedi siarad fel'na pan oedd rhyw dywyllwch mawr ar fin eu llyncu nhw. Fel y dywedais, yng Nghymru – yng Nghymru medda fi eto – mae o'n air Cymraeg pwysig, yn llawn mynegiant. Ambell dro yr unig air sydd wrth law. Ond fel y dywedwch, mae'r iaith yn cadw'r sgrïptiau rhag golau dydd ... Ambell dro mi fydda i'n gandryll am y peth, dro arall yn drist. Ond fel'na mae hi. Wna i byth sgwennu rhyw gomedi lipa hefo jôcs stêl neu ryw ddarn melodramatig am 'broblemau caru'. Mi sgwenna i be glywa i y cymeriadau – y bobl nerfus, ar goll, dlawd yn fy meddwl – yn ei ddeud wrtha fi. Ac os na welan nhw olau 'llwyfan' ... wel dyna ni ...⁴¹⁹

Dadl Aled Jones Williams yw fod yr ieithwedd a ddefnyddir mewn unrhyw gyfrwng llenyddol yn dibynnu'n llwyr ar natur y cymeriadu:

Ydw i'n gwbod beth dwi'n mynd i'w ddeud? Nac ydw. Pan fydda i wedi cael gafael ar beth mae'r cymeriad yn ei ddeud, mae hwnna a'r cymeriad yn un. Maen nhw'n deud beth maen nhw'n deud ac nid beth fyddwn i'n licio iddyn nhw ddeud.⁴²⁰

Mae'n ddyletswydd ar bob awdur i fod yn driw i'w gymeriadau. Os na lwydda llenor i wneud hynny y mae'n colli hygredd yn ei gymeriadau ac ynddo'i hun fel llenor. Yr opsiwn arall, wrth gwrs, yw ysgrifennu am y math o gymeriadau nad ydynt yn defnyddio iaith gref, ond pryder Aled Jones Williams yw y gallai hynny arwain at elitiaeth:

Ond disgrifiodd Aled Jones Williams Gymraeg "dderbyniol" a saff fel un sy'n apelio at y dosbarth canol yn unig. "Ond mae yna fath arall o Gymreictod a dwi'n meddwl bod yna rhyw densiynau rhwng y ddau ... Yr ydych chi eisiau ystod eang o sgrifennu yn y Gymraeg fel sydd yna yn Saesneg – does neb yn poeni am hyn yn Saesneg," meddai.⁴²¹

⁴¹⁹ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr isfyd', *Barn*, 29.

⁴²⁰ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 9.

⁴²¹ Dienw, 'Rhegi Llenyddol', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/rhegi.shtml>>.

Dywed hefyd ‘nad yw iaith anwedus o anghenraid yn arwydd o lyfr sâl mwy nad yw iaith lân yn arwydd o lyfr da’.⁴²² Nid yw’n syndod, felly, iddo amddiffyn nofel Dewi Prysor, *Brithyll* (2011), pan y’i beirniadwyd am ei defnydd o regfeydd, gan ddweud y dylai’r nofel hon ddisodli *Y Stafell Ddirgel* (1969) fel nofel osod i fyfyrwyr chweched dosbarth yn yr ysgolion uwchradd:

Fe fyddai hwnna yn ffantastig i’w roi ac fe fyddai hynny wedyn yn gofalu fod pobl ifanc yn cael llenyddiaeth fyw sydd yn siarad – ond mae’r rheini sy’n dewis yn chwarae’n saff ... Y gwirionedd plaen ydi – realiti y gymdeithas ydym ni’n byw ynddi hi, felna mae pobl ac felly mae’n rhaid i lenyddiaeth adlewyrchu hynny. Mae’n rhaid i lenyddiaeth hefyd drosgynnu hynny ... Os ydi plant yn gweld fod y Gymraeg yn rhyw iaith bur – a mae yna rhywbeth am gadw purdeb y Gymraeg, ond rhyw lol bots ydi hynny. Felly, rhowch o i’r plant. Mae plant yn gwybod hyn beth bynnag ... Os ydych hi eisiau adlewyrchu bywyd go iawn a ieithwedd a buchedd pobl go iawn mae’n rhaid ichi gynnwys o. Beth sy’n bwysig ydi fod llenyddiaeth yn adlewyrchu bywyd.⁴²³

A dyna’n union y dywed Meg Elis i Aled Jones Williams lwyddo i’w wneud yn ei ddrama *Wal*:

Mae’r rhegfeydd yn helpu, hefyd. Nid fel ieithwedd gyffredin heddiw, nac ychwaith fel un gair syfrdan o annisgwyl i’n siocio neu ein deffro. Mae defnydd Aled Jones-Williams o iaith yn fwy cymhleth na hynny, ac yn *Wal*, mae’r rhegfeydd yn diffinio’r cyd-destun a’r cymeriadau: mae byd yn frwnt ac yn arw, felly hefyd y bobl. Yna’n sydyn o ddflastod a gerwinder y geiriau aflan, daw fflach o ddealltwriaeth, neu o dynnerwch, a ninnau’n sylweddoli arwyddocâd y geiriau, ac ystyr ysbeidiau o dawelwch.⁴²⁴

Atega Meg Elis uchod eiriau’r feirniadaeth eisteddfodol a roddwyd ar *Y Dyn Llunau Bogs*: ‘ond mae’r iaith, sydd ar brydiadu’n eithafol o fasweddus, bob amser yn egniol ac yn theatrig, a weithiau’n delynegol’.⁴²⁵ Ai un o ddibenion y defnydd pwrpasol a chyson hwn o regfeydd gan Aled Jones Williams yw ceisio ychwaneg elfen o hiwmor i’r gweithiau? Yn enwedig o ystyried i’r dramodydd ei hun ddweud ei fod yn bwriadol geisio cynnwys elfen o hiwmor yn ei ddramâu:

⁴²² Aled Jones Williams, yn ‘Rhegi Llenydol’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/rhegi.shtml>>.

⁴²³ Aled Jones Williams, yn ‘Brithyll - i blant ysgol’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/646-prysor.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

⁴²⁴ Elis, ‘Gwreiddyn y Drwg’, *Barn*, 61.

⁴²⁵ Evans, Miles, Thomas, ‘Drama hir ar unrhyw destun’, yn Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Nedd a’r Cyffiniau*, 1994, t. 151.

Petai rhywun yn gofyn i mi pa fath o beth dwi'n ei sgrifennu, fy ateb, yn onest fyddai dweud comedi ... Ie, hiwmor tywyll ydi o, ond dyma'r math o hiwmor y bydda i'n ei hoffi.⁴²⁶

Yn wir, mae defnydd o regfeydd, o'u defnyddio'n gynnil ac yn grefftus, yn medru cyfrannu at hiwmor y gweithiau. Ystyrier yr enghraifft isod o *Cnawd*:

Llais 2: "Cawl asparagus sy' gen-i ar 'ch cyfar chi," me' hi ... "Hyfryd", me' rhiwin ... "O!" medda' 'wbath arall ... Finna'n disgw'l 'y nghyfla ... un ... dau ... tri ... pedwar ... 'wan, me' fi wrth-i 'n hun ... a medda fi ... "Ma' hwn yn ffwcyn lyfli ... Heinz , ia?"⁴²⁷

Ond wrth gynnwys gor-ddefnydd o regfeydd o fewn testun, maent yn colli eu heffaith – beth bynnag fo'r effaith honno ar y gynulleidfa. Ceir ambell gymal o fewn y gweithiau sy'n rhestru rhegfeydd un ar ôl y llall a chynhwysir nifer o regfeydd o fewn llinellau agoriadol rhai o'r dramâu sy'n awgrymu ymgais ar ran y llenor i geisio rhoi ergyd i'w gynulleidfa yn syth ar ddechrau'r profiad theatrig. Mae'n anodd credu bod Aled Jones Williams yn llenor mor anaeddfed a naif â hynny, yn enwedig gan ystyried bod clywed rhegfeydd mor gyfarwydd yn yr oes sydd ohoni, ond anodd yw dadlau i'r gwrthwyneb gydag adrannau megis:

GŴR: (Â HOLL FFYRNIGRWYDD EI FODOLAETH) FFWC!
FFWWWWWWWC ... FFWC ... FFWC
... FFWC ... FFWC FFWC FFWC
FFWWWWCIIIN ... EEEL
... FFWC ...
FFFFF WWWWWC
... FFWC ... FFWC ... FFWC
... FFWC ... FFWC ...
FFWC FFWC FFWC FFWC FFWC
FFWC FFWC FFWC FFWC FFWC
FF FF FF WC⁴²⁸

Yn y cymal uchod, y mae cymeriad y gŵr yn cael ei boenydio gan y ffaith mai ef oedd yn gyfrifol am ladd merch ei wraig. Ond beth, mewn gwirionedd, yw pwrpas, os oes pwrpas o gwbl, cynnwys pob rhag unigol? Yn wir, mae tueddiad i adrannau cyffelyb ymddangos yn hynod anghynnil. Tasg pob sgriptiwr yw sicrau bod pwrpas i bob gair o'u sgriptiau, ond, yn

⁴²⁶ Aled Jones Williams, yn Emyr, 'Mynd i gyfeiriad arall', *Taliesin*, 121.

⁴²⁷ Williams, *Cnawd*, t. 24.

⁴²⁸ Williams, 'Pêl Goch', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 49.

yr enghraifft uchod, a fyddai hepgor rhai o'r rhegfeydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth mewn gwirionedd? Efallai y byddai un rheg yn unig yn fwy trawiadol. Tasg hawdd iawn i unrhyw actor yw rhegi ac efallai y gellid dadlau y dylai'r dramodydd ddangos mwy o ymddiriedaeth yn ei actorion: eu tasg hwy yw cyfleu'r rheg heb orfod ei ddweud. Byddai hynny yn llawer mwy effeithiol. Cofier yma am eiriau John Gwilym Jones yn ei feirniadaeth ar gystadleuaeth y ddrama hir yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor 1975: 'Yr hyn oedd yn rhaid i mi geisio ei benderfynu oedd a yw'r iaith yn berthnasol i'r bwriad, ynteu yno er ei mwyn ei hun y mae.'⁴²⁹

Er i Aled Jones Williams bwysleisio pwysigrwydd bod yn driw i'w gymeriadau gan adael iddynt hwy siarad yn hytrach na'i fod ef yn rhoi geiriau yn eu genau, gall ieithwedd gyffelyb i'r uchod swnio'n hynod annaturiol, fel bod y dramodydd wedi gwneud ymgais fwriadol i gynnwys cynifer o regfeydd. Atega Aled Jones Williams eiriau Meg Elis uchod gan ddweud nad ei fwriad gyda'i ddewis o eirfa oedd i siocio'i gynulleifaoedd, ond, gan ystyried iddo nodi sawl tro ei fod yn 'adweithio lot i Ymneilltuaeth'⁴³⁰ a Chymreictod dosbarth canol ymddangosiadol barchus, ac mai dyma'r union ddsbarth cymdeithasol sy'n llenwi theatrau Cymru, anodd yw derbyn ei eiriau yn ddiamheuaeth. Credaf nad yw Lona Evans ymhell o'i lle, mewn gwirionedd, pan ddywed mai bwriad y rhegfeydd yng ngweithiau Aled Jones Williams yw er mwyn '[c]reu sioc i'r Cymry Cymraeg parchus traddodiadol',⁴³¹ yn enwedig, felly, o ystyried ei fod yn wastad wedi cicio yn erbyn y tresi mewn sawl agwedd o'i fywyd a'i waith. A rhaid cyfaddef ei fod wedi derbyn llawer o sylw ac adwaith yn sgil ei ddefnydd o iaith gref, ac yn enwedig felly ar ddechrau ei yrfa fel dramodydd ac yntau, ar y pryd, yn gweithio fel person plwyf. Erbyn hyn, fodd bynnag, y mae cynulleidfaoedd wedi arfer cymaint â'r rhegfeydd a'u hamlder yn ei weithiau, ac yn wir yng ngweithiau dramodwyr eraill hefyd megis Siôn Eirian a Meic Povey, fel eu bod yn ddisgwyliadwy ganddynt. O ganlyniad, y mae eu heffaith ar gynulleidfaoedd wedi pylu'n sylweddol.

Nodais uchod fod defnydd cynnil o regfeydd yn medru ychwanegu at ddoniolwch sefyllfaoedd. Fodd bynnag, nid yw'r rhegfeydd yn rheidrwydd yn y cyswllt yma – mae Aled Jones Williams yn ddramodydd llawer gwell na hynny. Y mae'r hiwmor yn ei ddramâu yn aml yn gyfrwys a deallus iawn:

⁴²⁹ John Gwilym Jones, 'Drama Hir: Beirniadaeth John Gwilym Jones', yn T. M. Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Dwyfor, 1975* (Llandysul, 1975), t. 142.

⁴³⁰ Aled Jones Williams, yn Williams, 'Holi Aled Jones Williams', yn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXIX*, t. 17.

⁴³¹ Evans, 'Adolygiad o Iesu', *Cristion*, 22.

Santa Clôs: Dwi 'di ca'l job, Mam, medda fi. Santa Clôs yn Nelson. Wir yr! 'Ydy hi'n permanent?' medda Mam.⁴³²

Er bod sefyllfaoedd ei ddramâu yn rhai dwys a difrifol, cynhwysa beth hiwmor er mwyn sicrhau nad yw'r gweithiau yn 'llithro i hunandosturi'.⁴³³ Llwydda i droi'r emosiwn ar ei ben gan beri i'w gynulleidfa fod eisiau chwerthin a hynny mewn sefyllfaoedd cwbl anaddas, ac o ganlyniad creïr y teimlad o anghyfforddusrwydd ymhlith y gynulleidfa, ac mae hynny yn gwbl fwriadol gan y dramodydd:

JIM: Multiple Sclerosis! Arglwydd!
be' ma' hynny'n 'i feddwl?
Fod chdi'n gorod ticio mwy nag un peth i ffeindio be'
sy'n bod arna chdi ...
M.S.! Wrth gwrs 'rawn ni i Marks and Spencers ...⁴³⁴

EDDY: Ti 'di heneiddio choelia i byth!
ALJI: Dwi'n meddwl fod cansar arna i ...
EDDY: Cwmpeini bach i chdi ...⁴³⁵

Nid comedi 'sydd yn "hahahahaha" bob munud'⁴³⁶ ydyw ei gomedi, ond y math o gomedi Iddewig, tywyll nad ydyw at ddant pawb: 'Dwi wedi licio hiwmor Iddewig erioed, sydd yn deud y pethau mwyaf digri yn y sefyllfaoedd mwyaf uffernol'.⁴³⁷ Os teimla fod y dweud yn rhy drwm ar brydiau, y mae'n torri ar ei draws gyda llinellau annisgwyl a doniol gan roi cyfle i'r gynulleidfa gael eu gwynt atynt cyn ei harwain ar 'feri-go-rownd o emosiynau':⁴³⁸

Roedd y gynulleidfa ar gyfer *Cnawd* ... ofn chwerthin gan fod y dweud mor giaidd o agos at yr asgwrn. Ychydig iawn o chwerthin a gafwyd o ganol cynulleidfa Eisteddfod draddodiadol a oedd wedi'u synnu, yn bennaf gan blethiad ieithyddol Williams o'r Beiblaidd a'r barbaraid.⁴³⁹

⁴³² Williams, *Lysh*, t. 51.

⁴³³ Ros, 'Rhwng rheg a rthreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 24.

⁴³⁴ Williams, *Be' o' dd enw ci Tintin?*, t. 43.

⁴³⁵ Williams, 'Wal', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 100.

⁴³⁶ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 8.

⁴³⁷ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 11.

⁴³⁸ Sharon Morgan, Elan Closs Stephens, Dewi Wyn Williams, 'Drama fer ar gyfer y llwyfan', yn W. J. Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a beirmiadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Dinefwr, 1996* (Llandybie, 1996), t. 146.

⁴³⁹ Ros, 'Rhwng rheg a rthreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, tt. 18-19.

Y mae'r elfen o ddeuoliaeth sydd yn bresennol yn themâu a chymeriadau Aled Jones Williams i'w gweld yn ei hiwmor yn ogystal. Cynhwysir yr elfen o hiwmor yn fwriadol fel techneg i ddwysáu'r difrifoldeb. 'Mae'n mynd o'r llon i'r lleddf fel sloth ar asid'⁴⁴⁰ a llwyddir i gyfleu themâu dwysaf bywyd mewn modd ysgafn ac eto'n emosiynol 'gyda'r chwerthin yn aml yn cynyddu i hysteria'.⁴⁴¹

Ni ellir creu astudiaeth gyflawn o ieithwedd Aled Jones Williams heb oedi am ennyd gyda'i farddoniaeth ac yn arbennig felly ar ei bryddest, 'Awelon'. Bu llawer o drafod ar y bryddest wedi iddi gael ei gwobrwyo yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi, 2002. Cymysg iawn fu'r ymateb iddi, gyda dwy garfan gref – un wedi gwirioni ar y gwaith a'r garfan arall yn gwbl unfryd nad oedd yn haeddiannol o'r goron.

Tybiai Alan Llwyd, oherwydd strwythur y gerdd a'i harddull 'farddonllyd'⁴⁴² gyda'r gor-ddefnydd o dechnegau megis y trosiad estynedig, mai tynnu coes a cheisio dychanu confensiynau barddonol Moderniaeth ac Ôl-foderniaeth oedd bwriad Aled Jones Williams wrth ei chyfansoddi, a dywedodd fod armryw o'r un farn ag ef. Yn ei dyb ef, cerdd hynod o hen-ffasiwn yw 'Awelon', gyda'r arddull llif yr ymwybod a'r ymsonau mewnol yn ei atgoffa o weithiau Joyce, Eliot ac *Un Nos Ola Leuad* – cyfrol y mae'r llenor wedi cydnabod sawl tro cymaint ei dylanwad arno:

Dyna reswm arall pam na allwn i weld unrhyw newydd-deb yn y gerdd fuddugol: dull cummings a ddefnyddir ynddi: yr atalnodi od, y bylchau rhwng geiriau, y priflythrennau yng nghanol geiriau ... Cymerodd y bardd buddugol ddau brynhawn i lunio'r bryddest meddai, a hawdd credu hynny. Gallai'r rhan fwyaf ohonom lunio'i chystal a'i gwell wrth olchi llestri.⁴⁴³

Ac, yn wir, cytuna Aled Jones Williams ei hun i ryw raddau gyda geiriau'r beirniad llenyddol gan ddweud 'na fyddai'r gerdd wedi cael ei hystyried mor arloesol y tu allan i Gymru'.⁴⁴⁴

Yn ei feirniadaeth ef o'r gerdd, â Twm Morys cyn belled â dweud nad bardd mo Aled Jones Williams gan fod y bryddest yn gogwyddo fwy at gyfrwng rhyddieithol nag at farddoniaeth, gyda'r elfen o iaith lafar ynghyd â strwythur y gerdd a'r defnydd anghyffredin o atalnodi a geir ynddi, yn sail i'r feirniadaeth hon:

⁴⁴⁰ Gwanas, 'Rhegi dy fam', *Barn*, 65.

⁴⁴¹ Ros, 'Rhwng rheg a rthreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 17.

⁴⁴² Alan Llwyd, 'Golygyddol [Pryddest fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi, 2002]', *Barddas*, 269 (Medi/Hydref/Tachwedd 2002), 5.

⁴⁴³ Llwyd, 'Golygyddol', *Barddas*, 5.

⁴⁴⁴ Aled Jones Williams, yn 'Prifardd nad yw'n un o'r gang!', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/021010aled.shtml>>.

Mae 'na lawer o bobol sy'n barddoni neu yn rhoi geiriau efo'i gilydd ond heb y grefft yn perthyn iddyn nhw, ac wedyn i rai ohonon ni nid bardoniaeth ydy o.

Mae Aled yn grefftwr efo geiriau ond dramodydd ydy o ac mae o wedi 'sgwennu pethau da iawn iawn.

Ond os ydy o'n dweud wrthon ni fod yr hyn y mae'n ei sgwennu yn farddoniaeth – wel dwi ddim yn cytuno.⁴⁴⁵

Onid y berthynas anghydfurfiol sy'n bodoli rhwng Aled Jones Williams a'r traddodiad barddol Cymraeg sy'n sail i'r datganiad uchod, mewn gwirionedd, ynteu a oes yna elfen o wirionedd yn y geiriau?

Nid oes amheuaeth, fodd bynnag, yn nhyb Menna Elfyn, un o'r beirniad a wobrwyoedd 'Awelon', nad cerdd yw'r gwaith, 'am ei bod yn mynnu cael ei darllen felly. Nid trefn llinellau o reidrwydd sy'n pennu bodolaeth cerdd, eithr fe'i ceir yn y rhythmau a'r orffwysfa; ym mhob gwant a *caesura*, ym mhob sain a saib; cywasgu'r gerdd mewn modd delweddol a gwirebol a rhoi iasau i'r darllynydd.'⁴⁴⁶ Ni chytuna Nic Ros ychwaith gyda honiadau'r Prifardd Twm Morys nad cerdd mo'r bryddest, gan ddweud bod barnau cyffelyb gan feirdd yn awgrymu bod y "sefydliad" barddonol mewn mwy o argyfwng hyd yn oed na'r llwyfan, gyda'r grymoedd ceidwadol yn prysur godi waliau yn erbyn mewnlifad enbyd y ffurfiau newydd a gynrychiolir gan *Awelon*'.⁴⁴⁷ Parha trwy ddweud na ddylid 'esgymuno *Awelon* o'r enwad ... ar sail technegol, oherwydd os nad ydy *Awelon* yn gerdd, nid yw *The Wasteland* gan T. S. Eliot chwaith'.⁴⁴⁸

Amddiffynnodd Aled Jones Williams 'ei hawl i arbrofi ac i arloesi gyda'r gerdd a anfonodd i'r gystadleuaeth yn Nhyddewi'.⁴⁴⁹ Dywed mai'r rheswm iddo gynnwys yr atalnodi anghyffredin oedd er mwyn peri i'r darllenwyr ddarllen y gerdd yn y modd y bwriadodd ef iddynt ei darllen. Cerdd am farwolaeth yw 'Awelon', a bwriad Aled Jones Williams yw adlewyrchu thema'r gerdd yn y modd y darllenir hi:

⁴⁴⁵ Twm Morys, yn 'Bardd yn beirniadu cerdd y Goron', <http://news.bbc.co.uk/hi/english/newyddion/newsid_2320000/2320889.stm>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁴⁴⁶ Elfyn, 'Pryddest neu ddilyniant o gerddi heb fod dros 200 llinell: *Awelon*', yn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi*, 2002, t. 47.

⁴⁴⁷ Nic Ros, 'Awelon yn y theatr', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/03-awelon.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁴⁴⁸ Ros, 'Awelon yn y theatr', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/03-awelon.shtml>>.

⁴⁴⁹ Dienw, 'Prifardd nad yw'n un o'r gang!', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/021010aled.shtml>>.

A dyma esbonio'r atalnodi. Nid brawddeg'u'n deidi y mae rhywun sy'n marw neu dan ei ddedfryd. Ond ymladd am ei gwynt [*sic*] geiriol. Oedi ac ailgychwyn aml aml. Holtti brawddeg. Dod â hi i ben ar ôl un gair.⁴⁵⁰

Fodd bynnag, yn y gyfrol, *Y Cylchoedd Perffaith*, ceir enghreifftiau o gerddi sy'n ymestyn yr hyn a olygir wrth arbrofi. Ystyrier yr enghraifft isod o gerdd sy'n cynnwys ond un gair ar frig y ddalen:

Duw⁴⁵¹

Y mae enghraifft o'r fath yn deuddol o gefnogi datganiad Twm Morys. A ellir, mewn gwirionedd, cyfiawnhau galw'r enghraifft hon yn 'gerdd'? Gellir dadlau mai pwrpas cynnwys ond yr un gair hwn yw er mwyn ennyn ymateb cwbl unigryw gan bob darlennydd: 'Ac felly bod y gair Duw, naill ai yn air llanw neu yn air gwag, neu yn air sy'n gyforiog o ystyr. Ac weithiau mae o'r cwbl ohonyn nhw – y rheini i gyd.'⁴⁵² Dyna yw gogoniant cerddi, sef eu bod yn llwyddo i ennyn gwahanol ymatebion. Ac onid hynny, mewn gwirionedd, yw hanfod barddoniaeth sef y bethynas rhwng y testun a phob unigolyn? Ai ar ôl iddi dderbyn ymateb darlennydd y mae cerdd yn orffenedig? O gymryd agwedd agored gyffelyb at y gwaith, y mae ymdriniaeth Aled Jones Williams â'r cyfrwng yn fentrus. Ond beth sy'n peri mai cerdd, yn hytrach na darn o ryddiaith neu ddrama, yw'r gwaith? I'r rhai mwy ceidwadol eu barn, onid oes rhaid i gerdd, er mwyn bod yn haeddiannol o'r teitl hwnnw, feddu ar grefft, ac onid camp beirdd yw cyfosod geiriau ynghyd yn gywrain o fewn y grefft honno? Bu grym traddodiad yn gryfach yn achos barddoniaeth Gymraeg na'r un *genre* arall ac o ganlyniad mae cyfrwng y ddrama, sy'n gyfrwng llawer ieuengach, yn cynnig mwy o ryddid a chyfle i arbrofi.

Wrth astudio gweddill y gweithiau a geir yn y gyfrol *Y Cylchoedd Perffaith*, rhaid cydnabod bod barddoniaeth Aled Jones Williams yn edrych a swnio'n gyffelyb i'w weithiau rhyddiaith a chydabu Einir Jones fod 'Awelon', ar yr olwg gyntaf, yn edrych fel rhyddiaith. Yn wir, mae llif ei gerddi yn darllen bron fel rhyddiaith lafar ac yn cynnwys mwy nag un llais. Dyma'r math o ryddiaith lafar farddonol a ganfyddir yng ngweithiau rhyddieithol y llenor:

'Tasa rhywun yn dŵad

⁴⁵⁰ Aled Jones Williams, 'Nodiadau', *Y Cylchoedd Perffaith* (Caernarfon 2010), t. 111.

⁴⁵¹ Aled Jones Williams, 'Duw', *Y Cylchoedd Perffaith*, t. 102.

⁴⁵² Aled Jones Williams, yn Williams, 'Holi Aled Jones Williams', yn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol* XXIX, t. 19.

un bora neu ganol pnawn
hefo'r dystiolaeth derfynol
yn llipa
yn ei law:
Drycha! fe ddywedai
gan edrych yn syber arna i,
Tydy o ddim yn bod wedi'r cwbl.
*'Does 'na neb yno. Sori!*⁴⁵³

Ac yn wir, cyfaddefodd Aled Jones Williams ei hun fod tebygrwydd rhwng ei wahanol genres:

Although the poem's disjointed style struck some as radical, he says it's keeping with the rest of his work.

"Language seems to break up inside me," he said.⁴⁵⁴

Yma, unwaith yn rhagor, gwelwn ddylanwad gwaith Samuel Beckett ar Aled Jones Williams. Wrth astudio'i ddramâu, y mae dylanwad cynnych y Gwyddel ar y Cymro yn amlwg. Ond wrth drafod ei ddylanwadau, dywed Aled Jones Williams i Beckett, 'yr ysgrifenydd cerddi prô (yn ei ryddiaithfarddoniaeth)',⁴⁵⁵ fod yn ddylanwad sylweddol arno yn ogystal. 'Llyfrau fel *Ill Seen Ill Said; Worstword Ho; Texts For Nothing*.'⁴⁵⁶ Oni ellid defnyddio'r un term – rhyddiaithfarddoniaeth – i ddisgrifio barddoniaeth Aled Jones Williams yntau?

Gwelir y ddeuliaeth honno sy'n bodoli yn themâu, cymeriadau ac ym mywyd yr awdur hefyd yn ei ieithwedd: 'iaith aruthrol o gyfoethog, a'r cyfoeth hwnnw yn cynnwys arian mân iaith bob dydd yn ogystal ag aur gloyw'r prifardd ar ei orau.'⁴⁵⁷ Cyfaddefa Aled Jones Williams ei fod wedi dyheu am fod yn fardd ers pan oedd yn blentyn, a'i fod, pan oedd yn ei arddegau, yn dynwared gweithiau Walter de la Mare a Gwenallt. Adlewyrchir yr elfen faddonol hon a berthyn iddo yn ei ddramâu yn ogystal.

Wrth gyfeirio at ei ddylanwadau ym myd llenyddiaeth a theatr, cydnabu Aled Jones Williams ddylanwad Shakespeare arno. Nid yw'n syndod, felly, iddo enwi *King Lear* (1603-06) fel un o'i hoff ddramâu:

⁴⁵³ Aled Jones Williams, 'Tebygolrwydd', *Y Cylchoedd Perffaith*, t. 91

⁴⁵⁴ Dienw, 'Recovered alcoholic wins poetry crown', <www.daliftyapi.com/2002/.../i-submitted-some-of-my-poetry-for.html>.

⁴⁵⁵ Aled Jones Williams, 'Sgwennu'r Ffin', *A470: whats on in literary Wales = beth sy' mlaen yn llên Cymru*, 22 (Ionawr/Chwefror/Mawrth 2003), 4.

⁴⁵⁶ Williams, 'Sgwennu'r Ffin', *A470: whats on in literary Wales = beth sy' mlaen yn llên Cymru*, 4.

⁴⁵⁷ R. Arwel Jones, 'Ychydig Is Na'r Angylion', <<http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781904845478>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

Mae yna rai gweithiau sydd wedi cyrraedd lle creiddiol ynof fi. Yn bennaf King Lear ... Lear yw'r ddrama 'fawr' imi a byddaf yn gwneud yn siŵr fy mod yn gweld pob cynhyrchiad o fewn fy nghyrraedd. Mae hi'n sôn am ddyn yn cyrraedd lle o noethni emosynol ac ysbrydol – a phobl yn cyrraedd noethni yw un o fy mhrif themâu.⁴⁵⁸

Yn wir, wrth gymryd cipolwg yn unig ar ddramâu Aled Jones Williams, gellir gweld dylanwad y dramodydd Saesneg yn amlwg arno. Cyfres o gerddi yw'r hyn a geir yn nramâu Shakespeare gyda phob llinell wedi'i strwythuro a'i gosod yn bwrpasol i greu patrwm arbennig. Y mae gweithiau'r Cymro yn dilyn yr un patrwm. Er mai sgrïptiau i'w darllen ar goedd yw ei weithiau yntau hefyd, y mae'r dramodydd wedi gosod y geiriau mewn patrwm arbennig ar y ddalen, megis mewn cerdd:

Sandra: Effeithiau megis
y cryndod yn y dwylo
y chwydu ben-bora'
y chwysu ganol nos
y düwch mewdol sy'n dduach na'r
nos ei hun
y morgrug neu'r llygod mawr
neu'r seirff
sy'n crwydro ei holl gorff i gyd.
Y mae i'r alcoholic ddau ddewis
Mendio
neu
Marw⁴⁵⁹

Ond nid strwythur y dramâu yw'r unig agwedd sy'n arddangos dylanwad ei ddawn farddol. Yn gyfatebol i'r iaith lafar a geir yng ngherddi Aled Jones Williams a'r natur ryddieithol a berthyn iddynt, ceir llawer o gyffyrddiadau barddonol yn naratif ei ryddiaith ac yn ieithwedd ei ddramâu. Disgrifiwyd y nofel '*Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun*' gan Glyn Evans, er enghraifft, fel '[c]yfrwl farddonol'.⁴⁶⁰ Ac wrth drafod ei waith fel dramodydd, dywed Jeremy Turner:

Mae 'na sôn nad yw dramâu barddonol yn berthnasol i'r oes sydd ohoni. Mae drama Aled Jones Williams yn gwrthbrofi hyn.⁴⁶¹

⁴⁵⁸ Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

⁴⁵⁹ Williams, *Lysh*, t. 19.

⁴⁶⁰ Glyn Evans, 'Swyn geiriau a chyfaredd lluniau', <www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/010712aled.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁴⁶¹ Turner, 'Be' O'dd Enw Ci Tintin?', <<http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9780954039837>>.

Er ei ddawn neilltuol i gofnodi iaith lafar nid yw Aled Jones Williams yn 'ysgrifennu'n naturiol o gwbl'.⁴⁶²

Cyn i mi fedru gyrru car mi oeddwn i'n arfer trafelio ar fws i bobman. A be o'n i'n lecio'i wneud oedd clustfeindio ar sgysiau. Rhythmau yr iaith lafar sydd mor angenrheidiol i ddramodydd ...Ond nid copio iaith a phobl pob dydd yda chi. Nid atgynhyrchu ond creu. Mae iaith drama yn wahanol i iaith bob dydd. Swnio'n debyg yn unig y mae hi! Llenyddiaeth ydy drama nid cofnod verbatim o fywyd beunyddiol ... Dywedodd sawl un am fy nramâu i – 'Tydi pobol ddim yn siarad felna!' Wel! Wrth gwrs nad ydyn nhw ddim – iaith llenyddiaeth ydy fy iaith i ond fy mod i wedi dysgu pethau hanfodol oddi wrth yr iaith lafar.⁴⁶³

Yn wir, nid bwriad y Aled Jones Williams yw ceisio ail-greu realiti o fewn unrhyw agwedd o'i weithiau. Y mae hyd yn oed lleoliadau ei ddramâu yn haniaethol – lleolir *Fel Stafell*, er enghraifft, o fewn enaid Tom, ei phrif gymeriad, ac er mai canolfan *rehab* yw prif leoliad *Lysh*, digwydd y ddrama y 'tu mewn i bob un o'r cymeriadau',⁴⁶⁴ ac fe'n hatgoffir ni unwaith yn rhagor o weithiau Sarah Kane:

Erbyn drama olaf Kane, *4.48 Psychosis*, ni cheir cymaint â diffiniad o ba actor sy'n dweud pa linell, na chwaith syniad o faint o actorion a ddylai fod ar y llwyfan. I'r cyfeiriad haniaethol yma, efallai, y mae awen Williams yn ei arwain.⁴⁶⁵

Mae cynnwys dramâu Aled Jones Williams, a'i fonologau yn arbennig, mor ddisgrifiadol fel y gellir dadansoddi pob brawddeg megis gyda cherdd a chanfod ynddynt nifer o wahanol dechnegau llenyddol. Naratif ddisgrifiadol yw ei fonologau mewn gwirionedd, wedi'u ffurfio o drosiadau, cyffelybiaethau a chyfeiriadau synhwyrus, y naill ar ôl y llall, a'r cyfan yn cydweithio i lunio delweddau byw a chofiadwy. Ni all ei gynulleidfa oedi ar un disgrifiad rhag colli'r nesaf. O ganlyniad, 'ni ellir byrffyrrio na dyfalu ystyr sgrïpt gan Aled Jones Williams gan ei fod mor goeth, mor gyfoethog ei Gymraeg'.⁴⁶⁶

Rhydd sylw i fanylion a ymddengys ar yr olwg gyntaf yn amherthnasol, ond sydd â haenau symbolaidd dyfnach iddynt. Mae'r manylion hyn yn allweddol wrth greu delweddau cyflawn sy'n peri i'w gynulleidfa fyw'r profiadau trwy lygaid y cymeriadau.

⁴⁶² Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 26.

⁴⁶³ Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

⁴⁶⁴ Aled Jones Williams, 'Rhai nodiadau a eill fod o gymorth i atorion a chyfarwyddydd', *Lysh*, t. 11.

⁴⁶⁵ Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 34.

⁴⁶⁶ Ros, 'Mil o ddechongliadau – caboledig nid cableddus',
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2008/sites/ormaes/iau07/iesu-02.shtml>>.

MR PARRY: “Dach chi ddim i fod, Mam,” medda fi ...
 “Ma ’na lot o betha nad ydan ni i fod i’w gwneud nhw,”
 medda hi.
 A nhynnu fi ati hi.
 “Ty’ d i gesail Mam.”
 “Pwy ’dy Lisabeth?” medda finna.
 Ac un o ddronsys y tjesd-o-drôrs yn hongian yn y
 dŵch fel ceg yn sgrechian.
 “Shtt ...” medda Mam ...
 “Anghofia fo!” fydda Nhad yn ’i ddeud yn y bora.
 A rhoid clec i’r papur newydd i’w sythu fo. A chlec arall
 i’r wŷy ...”⁴⁶⁷

Tra’n cyfeirio at ei ddawn i greu delweddau cofiadwy, ni ellir peidio â chyfeirio at ddylanwad awdur Cymraeg arall ar Aled Jones Williams fel llenor.

Propagandydd Piwritanaidd a oedd yn byw yn yr ail ganrif ar bymtheg oedd y cyfrinydd Morgan Llwyd a oedd yn gefnogwr brwd a selog i Blaid y Bumed Frenhiniaeth. Credai fod arno ddyletswydd ysbrydol i genhadu ymhlith ei gyd-Gymry a hynny ar lafar ac yn ysgrifenedig ac ystyrir ei gyfrol, *Llyfr y Tri Aderyn*, ymhlith y gorau o’i weithiau a chydabu Aled Jones Williams i’r gyfrol hon wneud argraff arbennig arno. Roedd hoffter Morgan Llwyd o feddwl mewn delweddau (neu *trope* fyddai’r term a ddefnyddid gan Llwyd) yn nodweddiadol ohono fel llenor. Roedd fel pe bai’n meddwl, yn teimlo ac yn rhesymu drwy gyfrwng delweddau ac mae ei lythyrau yn ogystal â’i lyfrau cyhoeddedig yn profi hyn: ‘...ni fedrai Morgan Llwyd ymddihatra o’r arfer o ddefnyddio delweddau dyrys’.⁴⁶⁸

Yn ogystal â’i ‘ddelweddau dyrys’⁴⁶⁹ yr oedd wrth ei fodd yn chwarae ar eiriau a rhythmau iaith, nodwedd arall a briodolir i Aled Jones Williams. I Llwyd, yr oedd i liw a sŵn geiriau a’r ffordd yr ymdeimlai â rhythmau rhyddiaith arwyddocâd ysbrydol. Sylwer ar y rhwydwaith o ledodlau mewnol cynnil yma:

Colomen: Nid yw llyfrau a llythrennau ond fel gwellt.⁴⁷⁰

Sylwer ar blethwaith cywrain y seiniau yma a’r ‘rhythmau rhyddregol cyfareddol’.⁴⁷¹ Y mae’n amlwg ei fod yn ddarn o ryddiaith sydd wedi’i batrymu’n grefftus. Ceir tebygrwydd hefyd rhwng ieithwedd y ddau lenor. Gwelir dylanwad yr hen draddodiad barddol Cymraeg

⁴⁶⁷ Williams ‘Pryd fuo Kathleen Ferrier farw?’, yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 132.

⁴⁶⁸ M. Wynn Thomas, *Morgan Llwyd, ei gyfeillion a’i gyfnod* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1991) t. 60

⁴⁶⁹ Thomas, *Morgan Llwyd, ei gyfeillion a’i gyfnod*, t. 60

⁴⁷⁰ M. Wynn Thomas (gol.), *Morgan Llwyd: Llyfr y Tri Aderyn*, (Caerdydd, 1988) t. 95

⁴⁷¹ Goronwy Wyn Owen, *Morgan Llwyd* (Caernarfon, 1992) t. 65

ar ysgrifennu Llwyd, gyda'r rhyddiaith ffurfiol lafar yn gymysg â barddoniaeth gynganeddol. Yn wir, fel Aled Jones Williams, y mae dylanwad tafodiaith bro ei febyd yn amlwg ar ieithwedd ei weithiau, sef tafodiaith ardal Maentwrog yn Ardudwy.

Wrth dynnu tuag at derfyn y llyfr, teimlodd Morgan Llwyd ei bod yn ofynnol iddo gynnig gair cysurlon o brofiad personol, a thrwy big yr aderyn, ddarlun o'i gyflwr ef ei hun i'w ddarllenlydd. Yr un modd, cyfaddefa Aled Jones Williams yntau fod popeth yr ysgrifenna'n deillio o brofiad personol. Mae delweddau Morgan Llwyd, ei gymariaethau, gwychder ei Gymraeg a'r ffaith nad oedd yn uniongred, oll wedi cael argraff sylweddol ar Aled Jones Williams a chymaint yw ei ddylanwad arno fel iddo nid yn unig ddweud petai'n cael dewis bod yn rhan o ddigwyddiad hanesyddol mai y Rhyfel Cartref adeg Morgan Llwyd a Cromwell fyddai hwnnw, ond iddo hefyd fenthg dyfyniadau o'i eiddo yn deitlau cyfeiriadol i'r cyfrolau, '*Rhaid i ti fyned y Daith honno dy hun*', '*Oerfel Gaeaf Duw*', a'i ddwy bennod o hunangofiant, '*Tuchan o Flaen Duw*', a oedd yn deitl addas iawn i un wedi colli ei ffydd.

Y dechneg lenyddol fwyaf nodweddiadol o Aled Jones Williams fel awdur yw ei ddefnydd cyson o drosiadau trawiadol ac yn arbennig, felly, trosiadau estynedig:

Jona Fodca: A ma'r
 holl ganeuon yn jiwebocs dy gof di yn
 byscio ar draws ei gilydd yn sybwê
 dy ymennydd di.⁴⁷²

Mae ganddo allu arbennig i gyplysu ansoddeiriau cwbl wrthgyferbyniol a llwydda i '[w]eu trosiadau cwbl amherthynol at ei gilydd yn llwyddiannus',⁴⁷³ megis 'Y lleuad yn farc potal lefrith ar sdepan drws y nos'.⁴⁷⁴ Gwna gymariaethau sylfaenol gyda phethau cwbl ddi-nod a chyffredin er mwyn mynegi cymhlethdodau mawrion ym mywydau ei gymeriadau. Mae ei ddisgrifiadau yn fwriadol yn dwyllodrus o syml ac ymddangosiadol ddiymdrech fel ei bod yn bosibl i bob un ohonom eu dirnad. Dyma un enghraifft o'r ddrama *Lysh*:

Santa Clôs: Fel darn o dinsel 'Dolig sydd dal i hongian o gornel sdafell a hitha'n fis Mehefin chwilboeth. Fel-a 'dwi. Allan o le. Ddim yn perthyn.⁴⁷⁵

⁴⁷² Williams, *Lysh*, t. 71

⁴⁷³ Jones, 'Ci Tintin', *Barn*, 58.

⁴⁷⁴ Williams 'Pryd fuo Kathleen Ferrier farw?', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 132

⁴⁷⁵ Williams, *Lysh*, t. 40.

Hawdd y gellid meddwl fod yr awdur yn cyfeirio'r dyfyniad isod gan gymeriad Ceffas o'r ddrama *Iesu!* tuag ato'i hun:

Ceffas: Yn bysgotwr dynion! Ffycin hel! Be mae hynny'n ei feddwl 'lly? ...
Ma gin ti ffor' òd hefo geiria. Ti'n rhoid y *combinations* mwy gwirion
hefo'i gilydd.⁴⁷⁶

Ys dywed Gwenan Mared:

A gellid gweld o'r dyfyniad hwn sut y mae'r efengylau yn apelio at y llenor yn Aled Jones Williams. Wrth gwrs, mae damhegion yn perthyn yn agos iawn i fyd y metaffor a throsiad, a swynir Aled Jones Williams gan hynny.⁴⁷⁷

Y mae Aled Jones Williams yn un o'r dramodwyr Cymraeg mwyaf synhwyrus. Y mae'r math hwn o ieithwedd flodeuog a disgrifiadol yn fwy cyffredin fodd bynnag o fewn cyfryngau eraill megis barddoniaeth neu ryddiaith (straeon byrion, nofelau ac yn y blaen) yn hytrach felly na'r ddrama. Ond y mae holl weithiau'r llenor, beth bynnag fo'r cyfrwng, yn dueddol o rannu'r un arddull. Ond a yw'n ofynnol i lenor, wrth newid ei gyfrwng, newid ei ieithwedd er mwyn gwneud cyfiawnder â holl bosibiliadau'r cyfrwng hwnnw?

Pan fydda' i'n trio ysgrifennu cerddi maen nhw'n troi allan yn farddonllyd ar y cyfan, ond pan fydda' i'n ysgrifennu drama dwi'n meddwl weithiau bod yna rai darnau o'r ddrama sydd yn farddoniaeth, oherwydd mod i ddim yn trio ysgrifennu barddoniaeth bryd hynny.⁴⁷⁸

Yn ei adolygiad o'r ddrama *Ta-ra Teresa*, dywed Nic Ros, mai 'ymgais deg i greu theatr o farddoniaeth a geir'.⁴⁷⁹ Dywed hefyd mai cerdd ddramatig yw'r ddrama a'i bod 'yn arwydd o'r ffordd y mae awen Williams yn ei arwain fel Beckett at lwyfan a chysyniad syml, barddonol. Mae'n arwyddocaol iawn mai "cerdd ar gyfer y theatr" yw ei ddisgrifiad ei hun o'i ddrama ddiweddaraf *Lysh*⁴⁸⁰ hefyd.

Mae'r eflen farddonol hon a berthyn i'w ddramâu, ynghyd â chynnwys athronyddol y monologau yn peri bod yna 'elfennau affwysol o anodd i'w deall a'u gwyllo'.⁴⁸¹ Yn ogystal â

⁴⁷⁶ Williams, *Iesu!*, t. 22.

⁴⁷⁷ Mared, 'Y Stori fwyaf?', *Barn*, 37-8.

⁴⁷⁸ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 9.

⁴⁷⁹ Ros, 'A55 Dwy Ffordd', *Barn*, 85.

⁴⁸⁰ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 21.

⁴⁸¹ Mared, 'Y Stori fwyaf?', *Barn*, 37.

hyn, mae tueddiad ambell dro i'r awdur ymgolli'n ormodol yn yr ysgrifennu synhwyrus a cheir cyffyrddiad sy'n ymylu ar fod yn farddonllyd. Ystyrier yr enghraifft isod:

SUNDANCE: Sud beth ydi bod yn chdi ta? Ydio 'run fath â bod yn gychwyn afon? ... Ar y dechra' twllwch ... twllwch sy'n mygu ... A phwysa'r creigia yn y mygu du yn bell, bell o dan y ddaear ... Ac yn sydyn ... yn fan'no ... y mymryn lleia lleia o leithdar yn digwydd ... jysd digwydd ... smotyn o wlybania'th rhwng y twllwch a'r pwysa' ... A ma'r lleithdar fel 'tai o'n dechra' anadlu ... chwyddo o'i du mewn am allan ... rhyw gryndod bychan o'i grombil bach o ... Ac yna ryw symudiad gloyw tu mewn i fol y düwch ... A'r lleithdar gloyw llawn anadl yn prifio ac yn perfio ... Mae o'n mela ochr craig yn y düwch ac yn medru tynnu'r pridd oddi amdano ... dadwisgo'r düwch ... nes rhoi genedigaeth iddo fo'i hun yn ffrwd o ddŵr ... fel ysfa yn byrlymu i'r wyneb ... yn llifo fel siarad ... peth fela ydy bod yn chdi? Fel cychwyn afon?⁴⁸²

Cynhwysa ddefnydd helaeth o gyfeiriadau at amrywiol bynciau sydd o ddiddordeb iddo hefyd o fewn y gweithiau, megis gwleidyddiaeth, gwahanol grefyddau, ffilmiau cowbois, llenyddiaeth a diwylliant Gymraeg, cerddoriaeth ryngwladol a chelf:

Dyn 2: Ond dwi'n sylwi hefyd fod gin ti un o luniau Matisse! Pam?
Dyn 1: Print o un o luniau Matisse! Copi! Os na fedrai fforddio Kyffin siwr dduw fedrai 'm forddio Matisse.⁴⁸³

Yn wir, wrth ddarllen ei nofelau a'i faddoniaeth yn ogystal â'i sgriptiau, rhaid yw ail-ddarllen sawl adran er mwyn cael dealltwriaeth lawn ohonynt, ys dywed Nic Ros am 'Awelon':

Mae'n gerdd sydd angen ei darllen drosodd a throsodd, yn rhannol oherwydd dwysder yr iaith, ac yn rhannol oherwydd bod y diwyg ysgrifenedig yn gymorth i ddeall ymhle yn union yn ymwybyddiaeth ein cymeriad yr ydym.⁴⁸⁴

Nid yw hyn yn peri problem yng nghyswllt barddoniaeth a nofelau, wrth gwrs, er y gallai amharu rhyw gymaint ar lif y gwaith. Gall darllynydd ddarllen y gwaith cymaint o weithiau ag y mynn. Fodd bynnag, un cyfle yn unig a gaiff cynulleidfa i dreulio'r geiriau ac mae perygl iddynt gael eu boddi yn y llif barddonol gan adael y theatr heb fedru treulio na gwerthfawrogi yr ieithwedd a lefarwyd. Cynhwysir cymaint o gyfeiriadau ar brydiau, hyd nes

⁴⁸² Williams, 'Sundance', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 38.

⁴⁸³ Williams, 'Chwilys', *Merched Eira a Chwilys*, t. 78.

⁴⁸⁴ Ros, 'Awelon yn y theatr', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/03-awelon.shtml>>.

ei fod yn ennyn sylw'r darllenydd/gwyliwr yn ormodol ac fe dorrir y rhith wrth i rywun ddod yn ymwybodol mai'r dramodydd sydd y tu cefn i'r geiriau mewn gwirionedd yn arddangos ei wybodaeth helaeth o amrywiol bynciau. Yn wir, er nad ail-greu realaeth yw nod ei weithiau, ceir awgrym bod Aled Jones Williams ei hun yn ymwybodol nad yw'r elfen ddisgrifiadol, farddonol hon a berthyn i'w ddramâu yn driw i natur ei gymeriadau bob amser. Pan fydd y cymeriadau hynny i'w gweld yn ymgolli, ar brydiau, yn y monologau disgrifiadol, cynhwysa'r awdur linellau megis 'O'dda chdi'n licio hynna?'⁴⁸⁵ sawl tro ar ddiwedd y cymalau fel dyfais i dorri ar draws y faddoniaeth gan ddychwelyd y cymeriadau a'r gynulleidfa yn ôl i wirionedd hagr y sefyllfa:

SUNDANCE: Sbia! Sbâr eira yn hongian ar ochr yr Wyddfa fel paent yn plicio ...
Ti'n 'y nghlywad i? ... O'dda chdi'n licio hynna? ... Sbâr eira!⁴⁸⁶

SUNDANCE: Yli! Gola Niwbwch fel breichled am arddwn y nos ... Ti'n licio
hwanna? ... Fel breichled am arddwn y nos.⁴⁸⁷

Trwy gynnwys brawddegau cyffelyb, ceisia roi'r argraff bod y cymeriadau yn ymwybodol fod y dweud yn gwbl annaturiol ar eu rhan.

Nid pawb, fodd bynnag, sydd o'r farn bod rhaid wrth lawn ddealltwriaeth o'r hyn a glywir er mwyn gwerthfawrogi camp y llenor a chyfaddefa'r dramodydd ei hun fod yr amwysedd a berthyn i'w weithiau yn fwriadol gan y gall wahodd gwahanol ddehongliadau o'r testun: 'Dwi ddim am honni fy mod i'n deall ei gyfeiriadau bob tro, a does gen i ddim cywilydd cyfaddef hynny, ond mi allaf wirioni ar y ffordd y mae'n trin geiriau.'⁴⁸⁸

Ysgrifenna Aled Jones Williams yn ymddangosiadol ffwrdd-â-hi, yn naturiol, yn llafar ac amrwd yn aml, ond o fewn yr un cymal gall gynnwys llinellau '[c]lasurol a chyfrin'⁴⁸⁹ sy'n hardd a hynod farddonol:

Un o brif gryfderau dramâu Aled Jones Williams, er gwaethaf yr holl drais ac iaith sydd yn aml yn hyll, yw bod yna gymaint o harddwch ynddynt, ac mae'r cyferbyniadau enfawr rhwng y ddau yn pwysleisio'r ddau begwn⁴⁹⁰

⁴⁸⁵ Williams, 'Sundance', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 37.

⁴⁸⁶ Williams, 'Sundance', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 37.

⁴⁸⁷ Williams, 'Sundance', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 44.

⁴⁸⁸ Jones, 'Ci Tintin', *Barn*, 58.

⁴⁸⁹ Jones, 'Aled Jones Williams – Adolygiad Y Cylchoedd Perffaith', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/adolygiadau/cylchoedd-perffaith.shtml>>.

⁴⁹⁰ Evans, 'Sundance by Aled Jones Williams', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Sundance&company=Bara%20Caws>.

Y mae'r plethiad hwn rhwng y llafar amrwd a'r barddonol hardd yn ei weithiau bellach yn nodweddiadol ohono fel awdur. Mae ei holl gynnyrch, ei ddramâu, ei nofelau a'i gerddi, yn gymysgfa o farddoniaeth lafar a dramatig sy'n seiliedig ar gyfrwng y fonolog a dyma paham y'i hadwaenir gan gynifer o feirniaid llenyddol ac adolygwyr fel 'bardd llwyfan mwyaf'⁴⁹¹ Cymru. Yn wir, cyfaddefodd ei hun, pan ofynnwyd iddo gan Nic Ros ai bardd ynteu dramodydd ydoedd, ei fod '[r]hywle yn y canol am wn i'.⁴⁹² Gellir priodoli'r dyfyniad isod am *Ychydig Is na'r Angylion* i unrhyw un o gyfansoddiadau'r llenor:

daw'r holl elfennau ynghyd a chredaf y ceir yma nid yn unig naratif a deialog yn rhedeg yn esmwyth ond nodweddion theatriadd a chyffyrddiadau barddonol ... y pontio cyson rhwng elfennau dramatig, barddonol a storiol.⁴⁹³

Â Gareth Llŷr Evans gyn belled ag awgrymu nad dramodydd mo Aled Jones Williams mewn gwirionedd gan mai cerddi i'w llwyfannu yw ei weithiau yn hytrach na dramâu:

Ond nid dramodydd ydyw. Nid dramâu fel y cyfryw a ddaw o'i law. Nid yw ei weithiau llwyfan yn ymlynu at strwythurau dramatig, ac er bod ynddynt droadau 'dramataidd' achlysurol, eilradd yw'r rheini ar gyfer gyriant gweledigaeth yr awdur. Nid cymeriadau crwn sy'n llenwi'r llwyfan, ond fe'i poblogir gan ffigyrau bregus ac anorffenedig. Anaml cynigir diweddglo cysurus trwy gatharis, a hynny am nad yw ei theatr wedi'i strwythuro yn ôl tensiynau dramataidd traddodiadol.⁴⁹⁴

Yn wir, y cymeriadau, yn hytrach na'r cynnwys, yw canolbwynt y gweithiau a theimlir mai eilbeth yw unrhyw adeiladwaith o ran y cynnwys, hynny yw, pe ceir unrhyw adeiladwaith o gwbl. Gellir priodoli hynny i'r ffaith mai o fewn yr unigolion yn hytrach na rhwng cymeriadau y mae tensiynau dramataidd y dramodydd i'w canfod gan amlaf ac ni lwydda'r cymeriadau bob tro i chwalu'r tensiynau hynny erbyn diwedd y ddrama. Cyfeiria Gareth Llŷr Evans at weithiau Aled Jones Williams fel rhai ôl-ddramatiadd ac felly na ellir eu hystyried fel dramâu, yng nghysyniad traddodiadol y term o fewn y theatr a'r theatr Gymraeg. Cyfeirwyd eisoes yn yr astudiaeth hon at rai o themâu ôl-fodernaidd y dramodydd, ond yng

⁴⁹¹ Ros, 'Awelon yn y theatr', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/03-awelon.shtml>>.

⁴⁹² Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 9.

⁴⁹³ Huw Alun Foulkes, 'Ychydig Is Na'r Angylion: Ar daith ysgytwol gydag awdur pwerus', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/bro-angylion.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

⁴⁹⁴ Evans, 'Rhagymadrodd', yn Williams, *Pridd*, t. 6.

nghyswllt theatr, cyfeiria Gareth Llŷr Evans at yr ôl-ddramataidd. Ystyr hyn yw gweithiau nad ydynt yn meddu ar ‘gysyniadau theatr ddramataidd’.⁴⁹⁵

Rhaid pwysleisio o’r dechrau nad yw’r ôl-ddramataidd o reidrwydd yn dilyn cyfnod o ddramâu ‘confensiynol’ a naturiolaid. Mae hyn yn arwyddocaol ... gan fod rhan helaeth o’r corff dramataidd Cymreig cynnar ... yn ddiamod yn weithiau hynod o draddodiadol: yn ddramâu testunol, naturiolaid yn eu hamcan, ac yn aml heb amlygu unrhyw ymwybyddiaeth wrthrychol o’u hunain fel digwyddiad a lluniad estheteg.⁴⁹⁶

Fodd bynnag, y mae ef o’r farn i’r gweithiau gael eu llwyfannu yn unol â chysyniadau’r theatr ddramataidd ac o’r herwydd na chafwyd ‘ymdriniaeth briodol o’r gweithiau’⁴⁹⁷ hyd yma. Efallai fod hyn yn sail i sylw Aled Jones Williams pan ddywedodd na fu’n gwbl fodlon ar yr un llwyfaniad o’i waith.⁴⁹⁸

Yn bendant, mae Aled Jones Williams wedi ‘[c]odi pontydd rhwng gwahanol genres llenyddiaeth Gymraeg’,⁴⁹⁹ ys dywed Catrin Beard: ‘ffiniau mewn bywyd ydi prif thema ei waith ac yn aml mi fydd o’n cymylu’r ffiniau rhwng gwahanol genres llenyddol’.⁵⁰⁰ O’r tri dramodydd y canolbwyntir arnynt yn y traethawd hwn, Aled Jones Williams yw’r mwyaf heriol ac amrywiol ei agwedd at iaith lenyddol. Ond nid gwaith hawdd yw gwahanaethu’n glir a thynnu llinell bendant rhwng arddull ei ryddiaith, ei farddoniaeth a’i ddramâu ac mae ei ddefnydd o’r un technegau llenyddol o fewn y gwahanol gyfryngau yn gwneud y gwaith hwnnw’n anos, ys dywed Dyfrig Jones yn ei adolygiad o *Ychydig Is na’r Angylion*:

ar adegau eraill roeddwn yn teimlo ei fod yn sgwennu gormod yn arddull ei ddramâu lle mae atgofion digon dinod [*sic*] o orffennol yn cael eu hailadrodd ac yn adeiladu ac adeiladu.⁵⁰¹

Beth, felly, sy’n gwahaniaethu ei ddramâu oddi wrth weddill ei weithiau llenyddol ac yn peri mai dramâu, neu weithiau i’w perfformio, ydynt ac nid nofel neu stori fer ar lwyfan? Er

⁴⁹⁵ Evans, ‘Astudiaeth o’r Cysyniad o Theatr Ôl-Ddramataidd yng Nghyd-Destun Gwaith Cwmni Brith Gof a’i Ddilynwyr ac Aled Jones Williams’, t. 120.

⁴⁹⁶ Evans, ‘Astudiaeth o’r Cysyniad o Theatr Ôl-Ddramataidd yng Nghyd-Destun Gwaith Cwmni Brith Gof a’i Ddilynwyr ac Aled Jones Williams’, t. 37.

⁴⁹⁷ Evans, ‘Astudiaeth o’r Cysyniad o Theatr Ôl-Ddramataidd yng Nghyd-Destun Gwaith Cwmni Brith Gof a’i Ddilynwyr ac Aled Jones Williams’, t. 120.

⁴⁹⁸ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

⁴⁹⁹ Jones, ‘Dy Daith dy Hun’, *Barn*, 49.

⁵⁰⁰ Catrin Beard, yn ‘Y Sioe Gelf: Awelon’, *Cwmni Da* (16 Chwefror 2003).

⁵⁰¹ Dyfrig Jones, yn ‘Ychydig Is Na’r Angylion: Dewis nofel clwb darllen’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/714-angylion.shtml>>.

mwyn canfod hynny, rhaid ystyried pa mor theatrig yw gweithiau llwyfan Aled Jones Williams.

4. Yr elfen theatrig

Delwedd ar lwyfan yw drama ...
Nid geiriau sy'n gwneud drama ond y ddelwedd.⁵⁰²

Dywed Aled Jones Williams fod y cyfrwng a ddewisa wrth ysgrifennu yn dibynnu ar natur y pwnc a'i fwriad ef fel awdur. Tra'n ysgrifennu'r nofel '*Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun*', a addaswyd yn ddiweddarach ar gyfer y llwyfan, roedd yn fwriad gan yr awdur ddweud rhywbeth am ei dad a'i berthynas â'i dad a hynny mewn modd cyhoeddus, oherwydd: "On i isio deud rhai pethau. O'dd lot o Bersoniaid Esgobaeth Bangor yn deud petha' digon milain am fy Nhad. A mi benderfynais i 'sgwennu'r llyfr 'ma fel dial arnyn nhw. Felly ar sawl ystyr mae yna resymau digon annheilwng dros 'sgwennu'r llyfr.'⁵⁰³ Yr un modd, dywedodd mai dim ond nofel fyddai *Ychydig Is na'r Angylion* wedi gallu bod: 'yn sicr roedd y pwnc yn benthyca ei hun i'r cyfrwng, yn enwedig gan fod cymaint o gymeriadau ynddi ... Mi wnes i fwynhau cyfrwng y nofel, y gynfas fawr ... Mae ysgrifennu nofel yn brofiad mwy preifat na sgwennu drama lwyfan rhywsut. Mae rhywun yn gallu mynd i'w gornel i sgwennu ac ar y pryd roeddwn i'n teimlo'n fwy diogel yn y fan honno'.⁵⁰⁴ Tra'n trafod ei gyfrol *Y Cylchoedd Perffaith*, dywedodd fod ysgrifennu cerddi yn brofiad llawer mwy personol nag ysgrifennu drama: 'os dwi isio mynd mewn i fi fy hun, cerdd. Ond os dwi isio rwbath mwy cyhoeddus, drama.'⁵⁰⁵ Y mae'r bryddest 'Awelon', yn eithriad wrth gwrs, gan i'r llenor bwysleisio mai gwaith i'w darllen yn fwy na'i chlywed ydyw:

A dyna yw 'Awelon': *collage* wedi ei ffurfio allan o deilchion – teilchion meddyliau. Nid oes gyswllt fel y cyfryw rhyngddynt ond o'u cyfosod creant batrwm. Y mae hi gymaint i'r llygaid ag yw hi i'r glust: i'w darllen a'i gweld ... A hwyrach, wrth i mi ei hysgrifennu, i mi dynnu o fy isymwybod oblygiadau llinellau Czeslaw Milosz yn ei gerdd – yn y cyfieithiad Saesneg – '*Secretaries*': '*Beginning a phrase in the middle/Or ending it with a comma.*' Digwyddodd yr atalnodi sydd ynddi o'i 'wirfodd'. Nid euthum ati'n 'fwriadol' i wneud hynny. Rwyf fi'n hoff o edrych ar atalnod ac atalnod llawn a marc cwestiwn a chromfachau. Maent yn bethau esthetig iawn yn fy narfelydd i!⁵⁰⁶

⁵⁰² Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

⁵⁰³ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

⁵⁰⁴ Aled Jones Williams, yn 'Ychydig Is Na'r Angylion',

<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/645-angylion.shtml>.

⁵⁰⁵ Aled Jones Williams, yn 'Wedi 7: Aled Jones Williams yn trafod y gyfrol *Y Cylchoedd Perffaith*', *Tinopolis* (18 Hydref 2010).

⁵⁰⁶ Williams, 'Alcoholiaeth', *Tuchan o Flaen Duw*, tt. 34-5.

Bardd ac awdur rhyddiaith o Wlad Pwyl a aned ym 1911 oedd Czeslaw Milosz, a chydabu Aled Jones Williams ddylanwad cerdd o'i eiddo arno tra'n ysgrifennu'r dramâu *Merched Eira* a *Chwilys* hefyd, gan y gwêl ei hun fel cofnodwr yn hytrach nag fel 'ysgrifennwr gwreiddiol'.⁵⁰⁷ Yr hyn a wna, medd ef, yw cofnodi'r delweddau sy'n dod iddo a chofnodi'r hyn a ddywed ei gymeriadau wrtho. Cytuna Nic Ros â'r sylw uchod gan ddweud bod 'Awelon' yn gryfach o lawer fel cerdd gan nad 'monolog ddramatig yw Awelon',⁵⁰⁸ ac, o ganlyniad, dywed (er i'r perfformiad ffilm ohoni a ddarllledwyd gan Cwmni Da ar raglen *Y Sioe Gelf* fod yn fwy llwyddiannus) nad oedd y perfformiad llwyfan ohoni, mwy nag yr oedd y llwyfaniad o '*Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun*', yn llwyddiant: 'petai'r llwyfan yn gyfrwng naturiol i'r rhain, byddai Aled Jones Williams wedi'u hysgrifennu felly.'⁵⁰⁹ Efallai, gan fod *Awelon* a '*Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun*' wedi'u haddasu o gyfryngau sy'n dibynnu'n llwyr ar yr elfen eiriol, y gellir awgrymu, mai'r dewis naturiol os am eu haddasu, fyddai ar gyfer y radio.

Cerdd ag elfennau dramatig iddi ond nid darn o theatr yw *Awelon*. Mae yna sefyllfa ddramatig yn sail iddi, gydag atgofion y claf yn dwyn i gof Krapp's Last Tape, monolog Beckett ... Yn sicr mae'r *sefyllfa* yn cynnig ei hun i'r llwyfan, ond mae *Awelon* wedi'i hysgrifennu i'w darllen.⁵¹⁰

Yn wir, dywed Aled Jones Williams y ceir gwahaniaethau amlwg rhwng arddull ei wahanol gyfryngau. Y mae'r broses o ddarllen cerdd neu nofel yn broses gyflawn, hynny yw, dyna yw pen y daith i'r gweithiau hynny. Y mae darllen sgript yn broses gwbl wahanol. Nid yw sgript byth yn orffenedig hyd nes y mae'n cael ei pherfformio a'i throsglwyddo i gynulleidfa a dyna paham y pwysleisia Aled Jones Williams mai sgriptiau ac nid dramâu a gyfansodda, gan mai ar llwyfan y daw'r ddrama i fodolaeth: 'sgriptiau sydd gen i ac nid dramâu ... cymuned greadigol ydi drama rhwng awdur a'i sgript, actorion a'u doniau, cyfarwyddwraig a'i dychymyg'.⁵¹¹ Atega Ian Rowlands ei eiriau gan ddweud:

Nid yw'r ddrama'n digwydd rhwng yr actorion ar y llwyfan, mae'r ddrama rhwng yr actor a'r gynulleidfa, ac mae rôl y ddwy garfan yr un mor bwysig â'i gilydd yn y perfformiad.⁵¹²

⁵⁰⁷ Williams, 'Rhyw air', *Merched Eira a Chwilys*, t. 6.

⁵⁰⁸ Ros, 'Awelon yn y theatr', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/03-awelon.shtml>>.

⁵⁰⁹ Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwyl Bys yn Stafell Mam*, t. 31.

⁵¹⁰ Ros, 'Awelon yn y theatr', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/03-awelon.shtml>>.

⁵¹¹ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr Isfyd', *Barn*, 28.

⁵¹² Rowlands, 'Cyflwyniad i'r gyfrol', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 11.

Noda'r dramodydd hefyd y gwahaniaethau sylfaenol rhwng monolog ac ymson gan ddweud bod ymson yn llawer byrrach na monolog ac y ceir sawl haen a sawl llais o fewn monolog gyda rhyw argyfwng yn perthyn i'r cymeriad. Nid oes unrhyw strwythur taclus yn perthyn i fonolog. Nid yw'n 'dechrau yn A, cyrraedd B a mynd i C'.⁵¹³ A dyna paham mai monologau ac nid ymsonau yw ei weithiau gan nad oes plot strwythedig yn perthyn iddynt: 'Gwantan ddifrifol ydw i ar blot. Dyna pam fedrwn i'm gneud teledu o fath yn y byd.'⁵¹⁴ Ac yn wir, bu'r ddrama gyfres *Porthpenwaig* (2011), a gyd-ysgrifennodd â Cefin Roberts, yn brawf o hynny. Yn wahanol i gymeriadau ei ddramâu llwyfan, roedd rhai o gymeriadau'r gyfres yn rhai ystrydebol, anniddorol a'r llinellau storïol yn wan a diddyfnder.

Dywed Aled Jones Williams nad oes ganddo ddim byd mawr i'w ddweud ond ei fod yn hoffi sŵn y dweud.⁵¹⁵ Dywed fod angen meddylfryd cwbl wahanol wrth fynd ati i ysgrifennu dramâu na'r meddylfryd sydd ei angen wrth ysgrifennu nofel neu gerdd er mwyn sicrhau mai gweithiau theatrig ydynt. Cred fod meddwl yn theatrig wrth gyfansoddi yn allweddol i unrhyw ddramodydd a chynghora sgriptwyr newydd i ddychmygu llwyfan gwag yn eu meddyliau trwy gydol y broses o greu. Yn wir, mae dychymyg gweledol yn hollbwysig iddo wrth gyfansoddi'i sgriptiau. Dywed mai delwedd yw drama iddo ef a bod i bob drama ddelwedd ganolog ac er y cyfansoddir y gweithiau ym mhresennol y dramodydd, y mae'r ddelwedd, yn aml, yn deillio o'r gorffennol. Gŵyr, pe deuai delwedd iddo, fod drama i'w chanfod yno gan mai o'r llun y daw egin stori: 'Loes i mi yw gorfod edrych ar ddalen wag o bapur. O weld llwyfan gwag geill pethau fod yn dra gwahanol'.⁵¹⁶ O ganlyniad i'w ddiddordeb mewn celf, gwêl debygrwydd, yn hyn o beth, rhwng gwaith arlunydd a gwaith dramodydd. Dywedodd yr artist Paul Klee, a fu hefyd yn gweithio ym myd y theatr yn cynllunio setiau, mai'r hyn a wnâi oedd 'mynd â llinell am dro', a dyna, yn nhyb Aled Jones Williams, a wna yntau hefyd:

Gweld rhywun yn gwneud rhywbeth fel arfer ydy'r man cychwyn i mi. Gweld drwy fy nychymyg! Mi welais i un dyn yn crafu wal a un arall yn y man yn ymuno ag o ymhell cyn i mi glywed yr un gair o *Wal*. Gwelais Sundance ar ei gwrcwd wrth ymyl silffoedd te mewn archfarchnad cyn i mi ddod i'w adnabod drwy ei iaith.⁵¹⁷

⁵¹³ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

⁵¹⁴ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

⁵¹⁵ Darlith gan Aled Jones Williams (14 Tachwedd 2014).

⁵¹⁶ Williams, 'Rhyw air', *Merched Eira a Chwilys*, t. 6.

⁵¹⁷ Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

Er bod lle canolog i'r gair llafar o fewn drama fel cyfrwng – elfen y trafodir ei phwysigrwydd yn y bennod ar ieithwedd y dramodydd – cyfrwng gweledol yw theatr, ac felly nid yw iaith lafar yn elfen hanfodol o fewn perfformiad a gall drama fodoli heb bresenoldeb unrhyw iaith gan fod ffyrdd eraill, gweledol, o gyfleu'r cynnwys, yr emosiwn a'r berthynas rhwng y cymeriadau. Yn ei gyfrol, *Saunders y Dramodydd* (2013), tynna Tudur Hallam sylw at eiriau'r gyfarwyddwraig a'r dramodydd, Iola Ynyr, mewn sgwrs gyda Non Tudur ar ran y cylchgrawn *Golwg*: 'Nid y geiriau sy'n tra-arglwyddiaethu ond y briodas rhwng y gerddoriaeth, set, gwisgoedd, coreograffi, delweddu ar lwyfan'.⁵¹⁸ Dangos er mwyn cyfleu yr hyn sy'n digwydd a wna dramodydd llwyfan yn hytrach na dweud, ys dywed ei hun, 'gweld drama ydach chi a darllen llyfr'. Dywed hefyd fod theatr yn rhywbeth corfforol ac felly fod angen ysgrifennu'n gorfforol. Gall tawelwch ar lwyfan fod yn llawer mwy effeithiol wrth gyfleu emosiwn gan y gall actor, trwy ystum, ddweud mwy nag y gall geiriau ac mae Aled Jones Williams yn llwyr ymwybodol o hynny:

Oherwydd hanfod ysgrifennu ar gyfer y theatr yw troi geiriau yn bethau gweladwy ... Dysgu drwy weld y mae'r dramodydd: gweld geiriau yn cael eu hymgnawdoli tu mewn i actor, gweld symudiadau, gweld set ... Delwedd ar lwyfan yw drama. Rhan o'r ddelwedd yw'r geiriau. Nid geiriau sy'n gwneud drama ond y ddelwedd.⁵¹⁹

Yn wir, dywed '[o]s nad oes llun, ddaw ddim geiriau'⁵²⁰ ac mai '[e]ilbeth yw iaith'⁵²¹ iddo ac wrth roi cynghorion i eraill am y broses o ysgrifennu dramâu rhydd bwyslais ar 'sgwennu llai yn lle sgwennu mwy'.⁵²² Rhaid cyfaddef bod y sylwadau uchod yn rhai eironig iawn o ystyried mai Aled Jones Williams yw un o'r dramodydd cyfoes mwyaf geiriol yn y Gymraeg a'i fod yn rhoi lle mor ganolog i iaith a'r thema o eiriau o fewn ei weithiau. Ond y mae ef ei hun yn cydnabod hynny:

Os ydach chi'n meddwl am sgwennu drama, dw i'n meddwl mai'r peth gwaetha' allwch chi ei wneud ydi sgwennu ... mae lot o ddramodwyr yn sgwennu gormod. Dw i'n sgwennu gormod.⁵²³

Serch hynny, o astudio'i weithiau, ni ellir dadlau nad yw dramâu Aled Jones Williams yn weithiau theatrig. Fel y dywedwyd eisoes, yr hyn a *welodd* yn y perfformiadau hynny o

⁵¹⁸ Iola Ynyr, yn Non Tudur, 'Grym y Gair "ar goll"?', *Golwg*, 24/35 (10 Mai 2012), t. 11.

⁵¹⁹ Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

⁵²⁰ Aled Jones Williams, yn Thomas, 'Cyffwrdd ym mêr esgyrn y theatr', *Golwg*, 28.

⁵²¹ Williams, 'Rhyw air', *Merched Eira a Chwilys*, t. 6.

⁵²² Dyfyniad gan y dramodydd mewn gweithdy sgriptio yn Tŷ Golchi, Bangor (26 Ionawr 2013).

⁵²³ Non Tudur, 'Annog mwy o bobl i greu dramâu gwreiddiol', *Golwg*, 25/4 (27 Medi 2012), 23.

Fiddler on the Roof ac *Waiting for Godot* a welodd pan yn blentyn a gafodd effaith arno, felly gŵyr o'r gorau mai cyfrwng gweledol yw drama: 'deuthum i ddeall mai dirnad pethau drwy luniau yr wyf fi yn y bôn ac nid drwy syniadau.'⁵²⁴ Dywed Ian Rowlands ei fod, oherwydd ei ddefnydd o'r ddelwedd theatrig, yn etifedd i Beckett ac, yn wir, cyfaddefa Aled Jones Williams mai un o'r rhesymau pam y dychwela at Beckett, a hefyd y ddrama *King Lear*, dro ar ôl tro yw i'w helpu i ddirnad beth yw hanfodion theatr a'r daith theatrig: 'Theatr Beckett sy'n fy nghyfareddu – y sefyllfaoedd y mae'n eu creu – pobl mewn biniau, dim ond ceg ar lwyfan, gwraig yn cerdded nôl a blaen, nôl a blaen'.⁵²⁵

Yn y ddwy ddrama *Tiwlips* a *Wal*, mae Aled Jones Williams wedi defnyddio'r ddelwedd ganolog, nid yn unig fel teitl i'w weithiau, ond maent hefyd yn chwarae rhan allweddol o fewn y dramâu, fel math o gymeriad ychwanegol. Y mae'n meddwl yn weledol trwy gydol y sgriptiau ac mae hynny, yn ogystal â'r ffaith iddo gynnwys canllawiau o ran ynganiad ei ddeialog a seibiadau pwrpasol o fewn y sgriptiau sy'n cadarnhau ei sylwadau ei fod yn clywed y cymeriadau yn siarad ag ef, yn profi mai dramodydd ydyw ac nid awdur rhyddiaith.

Rhydd sylw manwl i estheteg y setiau a'r cymeriadau o ran gwisg ac ystum gan sylweddoli effaith hynny ar gynulleidfa cyn yr yngenir yr un gair. O ganlyniad mae ei weithiau yn weledol ddiddorol. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei blesio bob amser gan y cynhyrchiadau o'i ddramâu gan na lwyddir i gyfleu'r ddelwedd ganolog sy'n rhan annatod iddo o'r cyfanwaith:

dwi'n cofio gweld y wal am y tro cyntaf erioed ac yn meddwl 'Arglwydd naci, nid wal fel hyn ydy hi'. Mae o'n fwy na hon, mae yna rywbeth yn ofnadwy am y wal yma.⁵²⁶

Dywedd Valmai Jones y gyfarwyddwraig na newidiwyd yr un gair o *Wal* yn ystod y cyfnod ymarfer a dywed yn gyffredinol am y sgriptiau y bu'n gweithio arnynt mai'r fersiwn cyntaf a dderbyniodd gan y dramodydd oedd y fersiwn derfynol, ac eithrio'r ddrama *Lysh*.⁵²⁷ Atega Aled Jones Williams hyn gan ddweud nad yw'n arfer ganddo ailysgrifennu unrhyw beth.⁵²⁸ Y mae hyn yn nodwedd anarferol, yn enwedig o i un a ddywed mai 'cymuned

⁵²⁴ Williams, 'Y Llyfrgell', *Taliesin*, 166.

⁵²⁵ Williams, 'Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams'.

⁵²⁶ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 14.

⁵²⁷ Cyfweliad gyda Valmai Jones (2 Hydref 2013).

⁵²⁸ Darlith gan Aled Jones Williams (14 Tachwedd 2014).

greadigol⁵²⁹ yw drama, sy'n golygu bod y cyfarwyddyd a'r actorion yn ogystal â'r dramodydd yn rhan o'r broses greadigol. Y mae cydweithio gyda chyfarwyddwr yn ystod y broses o ailddrafftio yn rhan annatod o'r broses greu fel rheol. Onid yw'n fanteisiol, nid yn unig i'r dramodydd ond hefyd i'r testun, dderbyn adborth gwrthrychol i'r gwaith, megis yn achos Meic Povey a Bethan Jones? Fodd bynnag, yn y llwyfaniad o *Wal*, fe ychwanegodd y gyfarwyddwraig fod y cymeriadau yn tynnu cath o'r wal yn ystod y ddrama, ond ni nodwyd hynny yn y sgript wreiddiol.

Y mae'n bwysig nodi yma na olygwyd yr un o'r sgriptiau yn unol â'r llwyfaniadau o'r dramâu cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Pan gyfeirir felly at y llwyfaniad o'r gweithiau, oni nodir yn wahanol, cyfeirir at yr hyn a nodwyd yn y testunau sef bwriad gwreiddiol y dramodydd ar gyfer y llwyfaniad o'r dramâu ac nid yr hyn a gyflwynwyd yn y cynhyrchiadau. Wrth astudio'r sgriptiau felly, gellir gweld gweledigaeth Aled Jones Williams ar gyfer y cyfanweithiau.

Fodd bynnag, o wneud hynny, gwelir bod y gweithiau yn brysur iawn yn weledol gyda phob math o wrthrychau ar y llwyfan, gan gynnwys car yn *Iesu!* a *Pêl Goch* a bath ar y llwyfan yn *Sundance*. Ceir gwrthrychau hefyd yn hongian o'r nenfwd megis rhaff (*Lysh*), beic (*Pêl Goch*), fframiau (*Pêl Goch*), croes (*Iesu!*), byrddau llawn bwyd (*Ta-ra Teresa*) a theganau plant (*Tiwlips*). Mae'r prysurdeb hwn o ran set yn arbennig o wir am y dramâu cynharaf a gyfansoddwyd. Dywedwyd yn y feirniadaeth ar *Pêl Goch*: 'Mae popeth yn y ddrama hon ond sinc y gegin, a dydy honno ddim ymhell'.⁵³⁰

Y set

Yn weddol agos i flaen y llwyfan ac yn ganolog i'r set gyfan gwelir dwy rewgell fawr (mor fawr ag sydd bosib) ychydig ar wahân i'w gilydd. Dylai drws y naill agor i'r chwith a drws y llall i'r dde.

O'u mewn y mae golau glas ffloresant a pheth myrdd o duniau bwyd a jariau bwyd. I'r chwith o'r rhewgell gyntaf gryn bellter i ffwrdd yn agos i flaen y llwyfan y mae peiriant ffacs wedi ei gosod ar golofn euraidd o faint taldra "dyn cyffredin" neu "ddynes gyffredin". Wrth odre'r golofn mae corn galw. Yn lled agos i'r golofn y mae hefyd ddwy droli siopio archfarchnad. I'r dde o'r ail rewgell yn ddigon pell i ffwrdd y mae teledu ymlaen drwy gydol *Dwrnod Cynta* lle gwelir hysbysebion am bob mathau o nwyddau. Wrth ochr y teledu y mae dwy gadair. Yn eistedd ar un o'r cadeiriau y mae mannequin noeth sy'n waed i gyd.

⁵²⁹ Aled Jones Williams, yn Roberts, 'Dramodydd yr Isfyd', *Barn*, 28.

⁵³⁰ Huw Roberts, Carys Ll. Edwards, Graham Laker, 'Drama lwyfan o leiaf un awr a hanner o hyd', yn J. Elwyn Hughes (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Colwyn, 1995* (Llandybïe, 1996), t. 20.

Y tu ôl i hyn i gyd blith-draphlith, bendramwnwgl y mae dodrefn ac offer swyddfa o bob math: cypyrddau, cypyrddau ffeilio, desgiau, byrddau, loceri, hysbysfyrddau, cyfrifiaduron, teipiaduron ag ati. Eto y mae yma dref sy'n golygu fod y cymeriadau'n medru symud yn rhwydd o gwmpas y geriach, cuddied yn eu plith, mynd ar goll, ac esgyn i ben y loceri a'r cypyrddau. Wal breeze blocks llwyd yw cefn y llwyfan. Yn uchel i fyny'r wal y mae sgrin ffilm. Uwchben y sgrin y mae ffenestr wydr, sgwâr. Gwelwn drwy'r ffenestr feicroffon mawr, du a golau oren ffyrnig sy'n boen i'r llygad ...⁵³¹

Gellir dadlau mai symbol o lanast mewdol ei gymeriadau a diffyg trefn eu bywydau yw'r llanast a welir ar y llwyfan. Fodd bynnag, dyna un wedd negyddol efallai ar gyfarwyddyd llwyfannu Aled Jones Williams, sef, er mor ddiddorol yw'r setiau yn weledol, eu bod o'r herwydd yn tynnu sylw'n ormodol ar brydiau oddi wrth y cymeriadau a'r ddeialog/fonolog sy'n gofyn am ganolbwyntio'n llwyr oherwydd natur yr ieithwedd. Efallai i Valmai Jones, cyfarwyddyd *Pêl Goch*, sylweddoli hyn ac iddi, o'r herwydd, hepgor y set gymhleth a nodir yn y testun:

O'r llwyfaniad cyntaf, gwelir yr anawsterau ddaw yn amlwg wrth droi gweledigaeth yr awdur yn y testun i gynhyrchiad llwyfan ymarferol.⁵³²

Yn ei sgriptiau, noda Aled Jones Williams gyfarwyddiadau llwyfan hynod fanwl i actorion hefyd. Ceir rhai adrannau lle nad oes deialog o gwbl dim ond symudiad, megis y meim yn *Pêl Goch* ac amryw o gymalau hirion yn *Wal* lle rhoddir y cyfan o'r sylw ar y gweithredoedd corfforol:

Y DDAU YN CRAFTU WAL.
ALJI YN CANFOD DARN O DDRYCH YN Y WAL.
ALJI YN SBIO'N HIR I'R DRYCH.
EDDY YN SYMUD AT ALJI.
Y DDAU YN TROI I SBIO AR EI GILYDD.
ALJI YN TYNNU'R DRYCH O'R WAL.
EI DDAL O FLAEN EI WYNEB.
EDDY YN EDRYCH I'R DRYCH –
GWYNEB EDDY OND CORFF ALJI.
ALJI YN SYMUD YCHYDIG I'R CHWITH.
EDDY YN EI DDILYN.
ALJI YN SYMUD YCHYDIG I'R DDE.

⁵³¹ Williams, 'Pêl Goch', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 38.

⁵³² Evans, 'Astudiaeth o'r Cysyniad o Theatr Ôl-Ddramataidd yng Nghyd-Destun Gwaith Cwmni Brith Gof a'i Ddilynwyr ac Aled Jones Williams', t. 126.

EDDY YN EI DDILYN.
 ALJI YN SYMUD Y DRYCH YN ARAF I LAWR EI GORFF.
 MAE'N AROS AR EI BIDLAN.
 EDDY YN MYND AR EI LINIAU.
 SBIO'N HIR YN Y DRYCH.
 ALJI YN DDIFYNEGIANT TRWY'R ADEG.
 EDDY YN CYMRYD Y DRYCH ODDI WRTH ALJI A'I OSOD AR EI FRON.
 ALJI YN GOSOD EI LAW YN AGOS IAWN I'R DRYCH.
 EDDY YN SYMUD Y DRYCH HWNT AC YMA AR HYD EI GORFF EI HUN.
 ALJI YN DILYN TAITH Y DRYCH Â'I LAW.
 EDDY YN STOPIO'R CRYCH AR EI GALON.
 ALJI YN CAU AC AGOR EI DDWRN YN ARAF, YSGAFN A THYNER.⁵³³

Ond dywed y dramodydd y cynhwysa lai a llai o gyfarwyddyd i actor yn ei weithiau diweddaraf nag a wnâi yn ei weithiau cynharaf gan gydnabod hawl yr actor i ddehongliad ac i gyfleu. Awgryma hyn aeddfedrwydd ar ran y dramodydd wrth iddo ddod yn fwy ymwybodol o ofynion y cyfrwng.

Mae'r ddrama *Ta-ra Teresa* yn eithriad. Yn wahanol iawn i nifer helaeth o'i ddramâu, nid delwedd oedd dechreubwynt *Ta-ra Teresa*, ond, yn hytrach, gwagedd a bwriad y dramodydd, gan gofio dylanwad y ddrama *Crave* gan Sarah Kane arno, oedd i ddefnyddio llwyfan gwag gyda dim ond pedair cadair arno. Byddai hyn yn caniatáu i gynulleidfa ganolbwyntio'n llwyr ar yr hyn a leferir heb unrhyw beth i dynnu eu sylw. Fodd bynnag, yn y llwyfaniad cyntaf o'r ddrama a oedd o dan gyfarwyddyd Ian Rowlands, ni ddilynwyd y cyfarwyddyd a chafwyd set a gynhwysai 'ffrogiau'n disgyn o'r to, manecins yn ymddangos o'r ochrau, a'r waliau yn dylifo â thestun a delwedd.'⁵³⁴ Roedd hyn, ym marn Nic Ros, er yn '[c]ynnig profiad theatrig dros ben',⁵³⁵ yn ormod o gowdal ac awgryma ei fod yn dangos diffyg ymddiriedaeth yn y testun:

canfyddais fy hun yn ysu am lonyddwch i gael canolbwyntio ar eiriau ysblennydd yr awdur.⁵³⁶

Serch hyn, erbyn yr ail lwyfaniad ohoni, a oedd hefyd o dan gyfarwyddyd Ian Rowlands, dywed Nic Ros 'nad ychwanegiad ffasiynol mo'r dechnoleg, ond un o greiddiau'r perfformiad.'⁵³⁷

⁵³³ Williams, 'Wal', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 100.

⁵³⁴ Ros, 'A55 Dwy Ffordd', *Barn*, 85.

⁵³⁵ Ros, 'A55 Dwy Ffordd', *Barn*, 85.

⁵³⁶ Ros, 'A55 Dwy Ffordd', *Barn*, 85.

⁵³⁷ Ros, 'Ta-ra Teresa – eto', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/03-teresa.shtml>>.

Rhydd Aled Jones Williams ystyriaeth i waith yr actorion i bortreadu ei gymeriadau ac mewn amryw o'r sgriptiau cynhwysa nodiadau o allai fod o gymorth i actorion ddeall beth yw cymhelliad y cymeriadau a fyddai yn cryfhau eu perfformiad. Techneg arall a ddefnyddia i sicrhau gwir ddealltwriaeth yr actorion o'r cymeriadau ac a ddefnyddiodd mewn dwy o'i ddramâu, *Merched Eira* a *Chwilys*, yw fod yr actorion yn ffeirio rhannau ar wahanol nosweithiau.

Y mae Aled Jones Williams yn ymwybodol o ofynion llwyfannu a'r hyn sy'n ymarferol bosibl i gwmnïau tra'n cyfansoddi. Dywed, er enghraifft, na chynhwysodd olygfa'r croeshoeliad yn y ddrama *Iesu!* gan y byddai unrhyw ymgais i wneud hynny wedi bod yn 'joc'.⁵³⁸ Fodd bynnag, nid yw'n cyfyngu'i hun o gwbl yn hynny o beth ac ymestynna'r hyn y gellir ei gyflawni ar lwyfan gan ddefnyddio'r cyfrwng i'w lawn botensial. Un elfen o hyn yw ei ddefnydd o lwyfannu symbolaidd. Er na ddangosodd Iesu yn cael ei chroeshoelio, yr hyn a wnaeth oedd cyfleu hynny yn symbolaidd:

Oherwydd mai dynas oedd hi, be' fyddai'r peth gwaethaf fedrai ddigwydd? Beth fyddai croeshoeliad gwraig? ... cael dy dreisio. Tydi croeshoeliad ddim yn beth cyfoes.⁵³⁹

Yn wir, mae'r elfennau symbolaidd yn chwarae rhan flaenllaw iawn ym mhob agwedd o'r gweithiau. Fe'u cynhwysir, nid yn unig i gefnogi'r prif themâu ond hefyd i adlewyrchu cyflwr ysbrydol y cymeriadau. Drama symbolaidd yw *Ta-ra Teresa*. Nid yn unig mae'r cynnwys yn symbolaidd, gyda marwolaeth Robat Hefin, y cenedlaetholwr sy'n frwd dros y Gymraeg ar ddiwedd y ddrama, ond mae'r llwyfaniad hefyd yn symbolaidd gyda'r arch agored sy'n bresennol ar y llwyfan tua'r ddiwedd. Gellir dadlau mai symbol o'r Gymru Gymraeg oedd y llwyfan gwag a nodwyd yn y testun. Yn y ddrama *Sundance*, mae ffrog briodas y fam ar y llwyfan trwy gydol y digwydd. Y mae'r ffrog yn symbol, nid yn unig o bresenoldeb y fam ym mywyd Sundance, ond hefyd o natur gymhleth eu perthynas. Yn y ddrama *Cnawd*, mae llechen yn pendilio uwchben y llwyfan, a'r llechen yn symbol o'r hyn sydd o dan wyneb Cymreictod dosbarth canol sef un o brif themâu'r ddrama. Yn *Pêl Goch*, mae'r llanast sydd ar y llwyfan yn symbol o'r llanast ym mywydau'r cymeriadau. Ac yn *Lysh*, er bod set y cynhyrchiad o'r ddrama yn llawer mwy minimalaidd, nodir yn y testun gwreiddiol fod teganau plant ar hyd y lle ym mhob man sy'n symbol o sut mae plentyndod y cymeriadau wedi llywio'u dyfodol a'u harwain i'w sefyllfaoedd presennol ac yn parhau i'w

⁵³⁸ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

⁵³⁹ Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

poenydio. Mae nifer o setiau'r dramâu hefyd yn cynnwys drychau, megis y dramâu *Y Dyn Llnau Bogs*, *Wal*, *Sundance*, *Lysh*, a *Chwilys*. Yn ystod y dramâu, mae'r cymeriadau yn edrych arnyn nhw eu hunain yn y drych a chofier yma y cysyniad o'r drych a geir o fewn themâu Aled Jones Williams. Yn ogystal â'r drychau, y mae ei ddefnydd o fodelau (*mannequins*) a rhannau o fodelau yn ymddangos droeon o fewn y gweithiau fel yn *Y Dyn Llnau Bogs*, *Pêl Goch*, *Cnawd* a *Iesu!*. Deillai'r ddelwedd hon, a gynhwysir fel symbol o ddadfeiliad dynol y cymeriadau, o blentyndod y dramodydd pan â'i gyda'i fam i siopa i Gaernarfon a gweld y modelau yn ffenestr siop Nelson; rhai heb ddillad, rhai heb freichiau a rhai heb bennau.

Mae ei ddefnydd o dechnegau aml-gyfyngol yn dangos ei fod yn ddramodydd sy'n ymwybodol o holl bosibiliadau y theatr fel cyfrwng ac am eu defnyddio i'w llawn potensial er mwyn cryfhau'r cyfanwaith a chreu profiad synhwyrus i'w gynulleidfa ar sawl lefel. Cedwir yn driw i'r elfen symbolaethol a berthyn i'w waith yn yr elfen dechnegol yn ogystal. Y mae ei ddefnydd o effeithau sain a cherddoriaeth symbolaidd ac eironig ym mhob un o'r gweithiau yn enghraifft o hyn. Gyda'i ddiddordeb byw mewn cerddoriaeth, sylweddola'r dramodydd bŵer y cyfrwng i greu naws mewn modd na all geiriau ac awgryma gerddoriaeth a chaneuon penodol i'w chwarae o fewn y gweithiau megis *Jesus Joy of Man's Desiring* yn *Tiwlips*, cerddoriaeth jazz yn *Y Dyn Llnau Bogs*, cerddoriaeth glasurol yn *Chwilys*, cerddoriaeth werin draddodiadol yn *Ta-ra Teresa*, ceir trac sain pwrpasol i gyd-fynd â'r ddrama *Lysh* gyda chaneuon penodol arni a chwaraeir ar y jiwcbocs sydd ar y llwyfan, ac yn y ddrama *Be odd enw i Tintin?* nodir bod sacsaffonydd yn chwarae'n fyw ar y llwyfan trwy gydol y ddrama.

Ceir canllawiau manwl yn y testunau ynglŷn â'r effeithiau goleuo hefyd sy'n amrywio o ran y gwahanol fathau o oleuo, o ran lliw a chryfder. Defnyddir yr effeithiau goleuo i'r un pwrpas â'r gerddoriaeth sef i gefnogi'r themâu, a chreu naws a hefyd i symbylu emosiynau'r cymeriadau. Defnyddir goleuo pwrpasol hefyd i greu cysgodion ar y llwyfan megis yn *Tiwlips* a *Cnawd* a chofier mai'r hyn a ddigwydd yn y cysgodion sydd o ddiddordeb i Aled Jones Williams; yno mae ei gymeriadau ef yn byw.

Techneg arall a gynhwysir yn aml o fewn y dramâu, megis *Y Dyn Llnau Bogs*, *Pêl Goch*, *Sundance*, *Lysh*, *Tiwlips* a *Iesu!* yw'r defnydd o sgrin a thaflunydd. Gall yr hyn a daflunnir ar y sgriniau, nid yn unig atgyfnerthu cynnwys y ddrama, fel a wna'r dangosiad o'r ffilm cowbois *High Plains Drifter* yn *Sundance*, ond hefyd symboleiddio'r themâu. Yn y ddrama *Lysh*, chwaraeir cymal o'r ffilm *Moby Dick* lle'r ymddengys y morfil. Cofier yma am gymeriad Jona yn y ddrama sydd wedi'i lyncu o fewn yr alcoholiaeth, o fewn y morfil, ond

mae gobaith iddo gael ei ryddhau o'i sefyllfa druenus. Yn *Pêl Goch*, taflunnir llun o lechi, sydd, unwaith eto, yn symboleiddio Cymreictod dosbarth canol ymddangosiadol barchus.

Y mae gweithredoedd realistig y cymeriadau o fewn y dramâu hefyd yn symbolaidd. Mae'r weithred pan fo Johnny yn wrineiddio i geg Robot ar ddiwedd y ddrama *Ta-ra Teresa* gan roi dŵr Tryweryn yn ôl iddo yn symbol o'r ffordd y mae Lloegr wedi ecsbloetio Cymru. Yn *Pêl Goch*, y mae cymeriad y Gŵr yn llowcio bwyd: nid yn unig y mae ar lwgu yn gorfforol ond hefyd yn llwgu'n ysbrydol. Yr un modd ar ddiwedd y ddrama pan welir ef ar y sgrin yn rhedeg yn noeth sy'n symbol o'i noethni emosiynol ac ysbrydol.

Megis gweithredoedd y cymeriadau, y mae lleoliadau y dramâu hefyd yn gweithio ar wahanol lefelau, yn leoliadau gwrioneddol ond hefyd yn symbolaidd, ys dywed Valmai Jones:

Mae yna eglurhad naturiolaid i lot o'r elfennau absŵrd a symbolaidd.⁵⁴⁰

Fe'n hagoffir yma o weithiau Gwenlyn Parry megis y ddrama *Y Tŵr* (1978), gyda'r lleoliad yn symbol o fywyd a'r cymeriadau'n heneiddio wrth iddynt ddringo'n uwch i fyny'r tŵr. Mae'r elfen symbolaidd gref hon a berthyn i'w waith, yn ogystal â'r pwyslais a rydd y dramodydd ar amwyster bwriadol o fewn y gweithiau, yn golygu bod agweddau haniaethol yn perthyn i ddramâu Aled Jones Williams. Yn wir, 'nid oes pwyslais ar realiti diriaethol y gofod'⁵⁴¹ na'r digwydd ac o ganlyniad, mae'r gweithiau yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddehongliadau:

Gwahanol iawn yw *œuvre* Williams i waith Povey, er enghraifft, lle mai un ffordd yn unig o'i lwyfannu a hynny mewn ffordd finimal ac episodig. Mae natur farddonol gwaith Williams, ar y llaw arall, yn gwahodd dehongliadau gwahanol⁵⁴²

Ategir geiriau Nic Ros uchod gan Gareth Llŷr Evans yn ei drafodaeth ar weithiau Aled Jones Williams yn ei draethawd doethuriaeth ar y theatr ôl-ddramataidd:

Bron yn ddieithriad, nid oes unrhyw ymdrech i greu darlun gwir ddynewaredol o'r byd tu hwnt i'r digwyddiad theatraidd. Mae ynddynt ymwybyddiaeth glir o'r testun a'r perfformiad fel digwyddiad esthetig ac fel creadigaethau celfyddydol; ymwybyddiaeth sydd yn absennol ym mwyafrif o ddramâu llwyfan Cymraeg Meic

⁵⁴⁰ Cyfweiliad gyda Valmai Jones (2 Hydref 2013).

⁵⁴¹ Ros, 'Rhagymadrodd: 'Siarad â'u Hunain'', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 19.

⁵⁴² Ros, 'Rhwng rheg a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 19.

Povey. Nid yw hyn yn eu condemnio fel gweithiau theatraidd israddol mewn unrhyw ffordd, ond credaf yn syml eu bod yn perthyn i draddodiad ac i arferiad theatraidd gwahanol.⁵⁴³

O ran y disgrifiad o set y ddrama *Fel Stafell*, sy'n cynnwys gwely ysbyty, offer drip a loceri, ymddengys ei bod wedi'i lleoli mewn ysbyty ond nodir mai o fewn enaid Tom y digwydd y ddrama mewn gwirionedd megis y ddrama *Diweddgan* gan Beckett sydd hefyd wedi'i lleoli ym mhen un person. Cyflwr yn unig yw'r set sy'n symboleiddio ysbryd ac enaid y cymeriadau. 'Mae'r gofod llwyfan hefyd â'i amwysedd statws o ran realiti ... ynghlwm wrth y teitl'.⁵⁴⁴ Yr un modd gyda *Merched Eira* a *Pêl Goch*, sydd wedi'u lleoli rhwng dau fyd a'r ddrama *Lysh* sydd, er wedi'i lleoli'n bennaf mewn canolfan *rehab*, yn digwydd y 'tu mewn i bob un o'r cymeriadau'.⁵⁴⁵

Yn ogystal â'r lleoliadau, ceir nifer o weithredoedd o fewn y dramâu hefyd sy'n cynnig her i gyfarwyddydd gan nad ydynt yn weithredoedd sydd i'w dehongli'n llythrennol ond yn hytrach yn haniaethol. Yn y ddrama *Pêl Goch*, er enghraifft, mae cyfarwyddyd i gymeriad y Wraig dorri ei bys i ffwrdd ac ar ddiwedd y ddrama, trywana'i hun a disgynta pêl goch o'i hymysgaroedd. Ar ddiwedd *Tiwlips*, pan dry Yncl Jo i wynebu'r gynulleidfa am y tro cyntaf, nid oes ganddo wyneb dim ond dŵch sy'n cadarnhau'r thema mai 'diwyneb a chyffredin yw'r rhan helaeth o baedoffiliaid'.⁵⁴⁶ Yn y ddrama *Wal*, mae cymeriad Alji yn canfod pot jam ac ynddo lygad ac mae cyfarwyddyd ei fod i fwyta'r llygad gan roi llygad arall yn ei lle. Ar ddechrau *Merched Eira*, nodir bod lluwchfeydd ym mhob man. Y mae'r Gŵr yn *Pêl Goch* i wrineiddio ar y llwyfan a chymeriad Iesu i ysgarthu tra'n cyfarch y gynulleidfa. Y mae golygfa treisio Iesu hefyd yn gofyn am ddehongliad crefftus gan gyfarwyddydd ac actor.

O ganlyniad i'r elfen haniaethol hon a berthyn i'r gweithiau, gweddant yn well ar gyfer y theatr fel cyfrwng sy'n gyfrwng llawn posibiliadau o ran cyfleu a dehongli symbolaidd o gymharu â theledu a rydd fwy o bwyslais ar y diriaethol a'r real. Yn wir, er ei fod yn cydnabod dylanwad y teledu arno pan oedd yn blentyn, dywed Aled Jones Williams fod teledu a 'sgwennu i deledu yn ddamniol i sgwennu i theatr',⁵⁴⁷ ac mae ei ymwybyddiaeth o ofynion y gwahanol gyfryngau yn ei osod ar wahân i nifer o sriptwyr cyfoes eraill:

⁵⁴³ Evans, 'Astudiaeth o'r Cysyniad o Theatr Ôl-Ddramataidd yng Nghyd-Destun Gwaith Cwmni Brith Gof a'i Ddilynwyr ac Aled Jones Williams', t. 150.

⁵⁴⁴ Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 25.

⁵⁴⁵ Williams, *Lysh*, t. 11.

⁵⁴⁶ Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, t. 26.

⁵⁴⁷ Tudur, 'Annog mwy o bobl i greu dramâu gwreiddiol', *Golwg*, 23.

mae ei dechneg theatraidd yn wahanol i nifer helaeth o'r dramodwyr Cymraeg cyfoes eraill, yn enwedig y rheini a ddewisodd ennill bywoliaeth trwy ysgrifennu ar gyfer y teledu. O'i gymharu â hwynt, mae ei ddramâu yn gynhenid theatraidd, a heb eu dylanwadu gan arferion a chonfensiynau'r ddrama-gyfres wythnosol ... Yn ail, mae ei waith yn gignoeth o safbwynt ieithwedd a chynnwys, mae'n feiddgar a herfeiddiol, ac fe'i disgrifir yn aml fel 'dramodydd 'dadleuol' ... sy'n awgrymu rhyw elfen o newydd-deb ... yn wir, mae'r dramâu, yn fwy nag odid unrhyw gynnyrch cyfoes arall yn y Gymraeg, yn mynnu llwyfan a chynulleidfa i'w chwblhau ... Yn olaf, rhaid cydnabod hefyd bod menter eofn a chreffft theatraidd digamsiynol ei waith yn arbennig ynddo'i hun.⁵⁴⁸

Y mae Aled Jones Williams yn hoff o herio cyfarwyddwyr i ddehongli yr elfennau haniaethol hyn. Ni ddisgwyliai iddynt realeiddio'r delweddau a'u cyfleu'n llythrennol gan y byddai unrhyw ymgais i wneud hynny yn fethiant. Dygir i gof yma weithiau Sarah Kane a oedd, fel Aled Jones Williams, yn ysgrifennu'n haniaethol. O fewn ei dramâu, ceir cyfarwyddyd llwyfan megis bod angen i lygod mawr gario traed un cymeriad oddi ar y llwyfan neu fod blodyn haul yn byrstio trwy ganol y llwyfan. Dywedodd hi 'mai celfyddyd, nid realiti, a geir ar unrhyw lwyfan. Gyda gwaith unrhyw ddramodydd, hawdd yw ildio'r demtasiwn i ddehongli'n or-lythrennol a chydag ysgrifenyddwr mor haniaethol â Williams mae'r demtasiwn hyd yn oed yn fyw.'⁵⁴⁹ Bron na ellir cymhwysu'r geiriau hyn am theatr Sarah Kane air am air at theatr Aled Jones Williams:

it would be natural for the reader to question the practicality of staging the work. This is a question that goes to the heart of Kane's writing. Every one of her plays asks the director to make radical staging decisions ... In a Kane play the author makes demands but she does not provide solutions.

Kane believed passionately that if it was possible to imagine something, it was possible to represent it. By demanding an interventionist and radical approach from her directors she was forcing them to go to their limits of their theatrical imagination, forcing them into poetic and expressionist solutions. Her stage imagery poses no problems for theatre per se, only for a theatre tied to journalistic naturalism. Nothing in a Kane play is any more bizarre than Shakespeare's direction at the end of *A Winter's Tale* 'The statue comes to life.'⁵⁵⁰

Agwedd arall o'r cyfanwaith theatrig, wrth gwrs, yw cyfraniad y gynulleidfa ac mae Aled Jones Williams yn ddramodydd sy'n ymwybodol o'r rhan allweddol y mae'r gynulleidfa'n ei

⁵⁴⁸ Owen, 'Y Dieithredig', *Barn*, 92-3.

⁵⁴⁹ Ros, 'Rhwng rhag a rhethreg', yn Ros (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam*, tt. 22-3.

⁵⁵⁰ David Greig, 'Introduction', yn David Greig (int.), *Sarah Kane: Complete plays* (London, 2001), tt. xii-xiii.

chwarae o fewn y broses greadigol o droi sgript yn ddrama. Mae'n ymwybodol hefyd, er y dywed nad yw'n ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa, fod ganddo ddyletswydd fel dramodydd i gyflwyno profiad theatrig i gynulleidfa, a cheisia, mewn amrywiol ffyrdd, i'w tynnu'n rhan o'r ddrama. Ceir yr ymdrech amlycaf i wneud hyn yn y sgript gyntaf a ysgrifennodd, *Y Dyn Llnau Bogs*, pan ddaw cymeriad Dyn 3 ar y llwyfan o blith y gynulleidfa ac ar ddiwedd y ddrama fe dry'r camera i gyfeiriad y gynulleidfa a thafllunnir y ddelwedd ar sgrin, mewn ymgais i orfodi'r gynulleidfa ystyried y ddrama a'i themâu o'u safbwyntiau eu hunain. Y mae gwneud i gynulleidfa anesmwytho fel hyn a chwestiynu agweddau o'u bywydau eu hunain yn fwriad gan Aled Jones Williams fel dramodydd. Yn y llwyfaniad o *Pêl Goch* yn ogystal, er na nodir hyn yn y sgript wreiddiol, roedd y gynulleidfa yn eistedd ar y llwyfan gyda'r actorion a hynny'n creu profiad theatrig llawer mwy personol:

Er ei bod wedi'i llwyfannu ar lwyfan Theatr Gwynedd, ni wnaethpwyd unrhyw ddefnydd o'r awditoriwm: lleolwyd y perfformiad a'r gynulleidfa ar y llwyfan gyda'r llenni ynghau, gan gyfyngu ar ehanger [*sic*] y gofod a ddisgrifir gan y dramodydd yn y testun.⁵⁵¹

Y mae Aled Jones Williams yn ddramodydd sy'n amlwg yn eofn o ran mentro ac arbrofi gyda'i gyfrwng gan geisio gwthio ffiniau yr hyn y gellir ei wneud a'i gyfleu ar lwyfan, boed hynny'n diweddu'n llwyddiannus neu beidio. Y mae'r ddrama *Cnawd* yn enghraifft berffaith o hyn gyda phenderfyniad y dramodydd i beidio â chynnwys actorion yn bresennol ar y llwyfan ond, yn hytrach, gynnwys dau recordydd tâp i chwarae recordiad o leisiau'r cymeriadau. Nid yw'n syndod i ddramodydd mor eiriol sy'n mwynhau ysgrifennu ar gyfer y radio fel cyfrwng ond sydd hefyd yn meddwl yn ddelweddol yn theatrig arbrofi yn y modd hwn. Ond a ellir ystyried y cynhyrchiad yn berfformiad byw neu beidio? Er bod y profiad o safbwynt y gynulleidfa yn un byw nid yw'r perfformiad o ran yr actorion felly ac o ganlyniad a yw'r ddrama'n deilwng o'i labelu'n ddrama lwyfan? Ys dywedir ym meirniadaeth y ddrama:

Hefyd, mae yna un broblem fawr. Ar hyn o bryd, byddai'r dull a argymhellir ar gyfer llwyfannu'r ddrama yn fwy addas ar gyfer drama radio. Dylai *Dem bones* edrych yn ofalus ar oblygiadau ei ddull o lwyfannu o ran cynnal diddordeb cynulleidfa theatr.⁵⁵²

⁵⁵¹ Evans, 'Astudiaeth o'r Cysyniad o Theatr Ôl-Ddramataidd yng Nghyd-Destun Gwaith Cwmni Brith Gof a'i Ddilynwyr ac Aled Jones Williams', t. 126.

⁵⁵² Morgan, Stephens, Williams, 'Drama fer ar gyfer y llwyfan', yn Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Dinefwr, 1996*, t. 146.

Dywed Aled Jones Williams:

Dwi'n meddwl i fod yn ddramodydd go iawn, mae'n rhaid i chi fod yn actor ar yr un pryd. Dwi wedi meddwl erioed mai'r dramodwyr gorau ydy'r rhai sydd wedi bod yn actorion hefyd. Dwi yn meddwl hynny oherwydd bod yna ryw ddealltwriaeth o'r cyfrwng reit o'i du fewn, a dwi erioed wedi actio'n broffesiynol.⁵⁵³

Ac yn wir, dywed Meic Povey, sydd wedi ennill ei fywoliaeth yn rhannol fel actor, fod y cefndir hwnnw fel perfformiwr wedi bod o gymorth iddo wrth ysgrifennu. Ond, fel yr awgryma Aled Jones Williams ei hun, onid math o berfformiad yw gwasanaeth Eglwysig?

O astudio sgrïptiau Aled Jones Williams, ni ellir dadlau gyda geiriau Bethan Gwanas pan ddywed fod Aled Jones Williams yn 'rhywun sy'n deall ei gyfrwng',⁵⁵⁴ ac atega Valmai Jones hyn gan ddweud fod 'y sgrïptiau yn theatrig ar bapur hyd yn oed'.⁵⁵⁵ Rhydd ystyriaeth fanwl i bob elfen o lwyfannu trwy gydol y dramâu a gwna lawn ddefnydd o'r gofod theatrig fel bo'r gweithiau'n weledol drawiadol. Yn eu beirniadaeth ar *Y Dyn Llnau Bogs*, dywedodd y beirniaid i'r ddrama gael ei gwobrwyo 'ar sail pa ddrama a'n darbwyllodd ni mai ei chynefin naturiol yw'r llwyfan ac nid rhwng cloriau llyfr neu y tu mewn i stiwdio deledu. Yr unig ddrama a lwyddodd i wneud hynny oedd 'Y Dyn Llnau Bogs' ... Mae'n ddrama wreiddiol, yn llawn egni ac yn meddu ar ddyfeisgarwch theatrig pur.'⁵⁵⁶ Y mae'n amlwg, felly, o gyfnod buan iawn yn ei yrfa fel dramodydd, fod beirniaid ac actorion yn gytûn fod Aled Jones Williams yn ddramodydd sy'n meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'i gyfrwng, ac yn parhau i fod felly:

Ma' Aled yn amlwg yn ddramodydd o bwys, sydd yn adnabod a deall ei gyfrwng i'r dim, a thrwy hyn wedi creu gweithiau hynod theatrig a chyffrous.⁵⁵⁷

⁵⁵³ Aled Jones Williams, yn 'Cyfweliad gydag Aled Jones Williams', yn Ros (gol.), *Disgwl Bÿs yn Stafell Mam*, t. 9.

⁵⁵⁴ Gwanas, 'Rhegi dy fam', *Barn*, 66.

⁵⁵⁵ Cyfweliad gyda Valmai Jones (2 Hydref 2013).

⁵⁵⁶ Evans, Miles, Thomas, 'Drama hir ar unrhyw destun', yn Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Nedd a'r Cyffiniau, 1994*, t. 151.

⁵⁵⁷ Nefydd, 'Cyflwyno *Sundance*', yn Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain*, t. 29.

Clo

Er bod sbardun cychwynnol Meic Povey, Siôn Eirian ac Aled Jones Williams wrth fynd ati i gyfansoddi yn amrywio o atgofion ieuenctid i'r awydd i lunio thesis gwleidyddol, i weld delwedd ar lwyfan, gwelir o'r astudiaeth hon fod llwybrau'r tri, o ran eu themâu, yn arwain i'r un cyfeiriad. Y maent yn ddramodwyr sydd wedi mynd i'r afael â phynciau llosg dadleuol a hynny yn gwbl fwriadol trwy gydol eu gyrfaoedd, er bod y tri o'r farn mai ond yng Nghymru yr ystyrir y pynciau hynny fel rhai llosg. Dadleuant mai diben eu hymdriniaeth â phynciau o'r fath yw, nid er mwyn siocio cynulleidfaoedd, ond er mwyn arddangos rhagrith honedig y 'dosbarth canol capelyddol draddodiadol Gymreig' – thema nodedig yng ngweithiau'r tri ohonynt – a'i arddangos i'r union bobl sy'n perthyn i'r garfan honno, sef canran uchel o fynychwyr y theatr Gymraeg. Hwyl sydd dan y lach yn aml yng ngweithiau'r dramodwyr ac yng nghyswllt materion gwleidyddol Cymreig, cânt eu beio am dynnu eu trallod eu hunain am eu pennau. Ond anela'r dramodwyr y gwn lawn cymaint atynt eu hunain yn ogystal gan eu bod hwythau hefyd yn perthyn i'r un garfan. Yn ogystal â hyn, diddorol yw sylwi, er mai astudiaeth o weithiau tri dramodydd gwrywaidd a geir yma, mai cymeriadau benywaidd y dramâu yw'r cymeriadau cryfaf mewn gwirionedd. Portread gwan a beirniadol iawn a gawn o wrywod, ac yn enwedig gwrywod sy'n perthyn i'r 'dosbarth canol Cymreig', fel y dramodwyr eu hunain. A geir felly elfen o hunanfeirniadaeth o fewn y gweithiau sy'n amlygu rhyw dyndra cyffredin, rhyw gywilydd neu euogrwydd sy'n bodoli o fewn y tri ohonynt?

Er yr uchod, rhaid cydnabod, fodd bynnag, bod technegau theatraidd Meic Povey, Siôn Eirian ac Aled Jones Williams yn amrywiol. Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw y gellir priodoli'r technegau hynny, yn ogystal â tharddiad y themâu yr ymdriniant â hwy, i ddylanwad cefndir a magwraeth y dramodwyr: Ac yntau'n un o ddeg o blant, rhydd Meic Povey bwyslais ar effeithiau gwahanol faterion llosg ar yr uned deuluol ac ymateb gwahanol aelodau o'r teulu pan y'i gosodir dan bwysau ac mae ei gryfder i'w weld yn ei ddeialog. Fel unig blentyn, gyda chyfrwng y fonolog y mae Aled Jones Williams fwyaf cyfforddus, ac fel un sydd wedi dioddef o ganlyniad i fod yn gaeth i alcohol, yn nhensiynau mewnol yr unigolyn y mae diddordeb ef. Ac fel mab i ymgeisydd seneddol ac fel unigolyn a fu'n weithredol iawn yn wleidyddol yn ystod ei ieuenctid, effeithiau materion gwleidyddol ar y lleiafrif mewn cymdeithas sy'n hawlio sylw Siôn Eirian, a gwelir ei ysfa i addysgu cynulleidfaoedd am faterion gwleidyddol a chymdeithasol o bwys yn areithiau angerddol ei gymeriadau.

O astudio gweledigaeth theatrig y dramodwyr yn yr hyn a nodir yn y testunau yn unig gan ddiystyru'r llwyfaniadau ohonynt, gellir dadlau mai gweithiau Aled Jones Williams yw'r rhai mwyaf arbrofol yn theatrig ac o ran yr ieithwedd a ddefnyddir a'i gynnyrch yn cynnwys elfennau o'r ôl-ddramataidd. Gellir priodoli hynny i'r ffaith i Meic Povey a Siôn Eirian wneud eu bara menyn yn bennaf drwy ysgrifennu ar gyfer y sgrin, a'r ddau ohonynt wedi gweithio dan adain Gwenlyn Parry. Dyma gyfrwng sydd, nid yn unig yn arddel ieithwedd naturiol, ond yn dilyn strwythur penodol o ran cynnwys ac arddull a gellir gweld dylanwad y cefndir hwnnw ar dechnegau llwyfan y ddau a hwythau'n parhau i ysgrifennu gweithiau dramataidd confensiynol, er na olyga hynny bod rhai o'r gweithia hynny'n rhai lled arbrofol.

Teimla'r dramodwyr hyn ryw ysfa gynhenid i ysgrifennu ac mae'r tri ohonynt wedi meistrolï mwy nag un *genre*. Diddorol felly yw ymdriniaeth y tri o 'eiriau'. Y mae cymeriadau Meic Povey ac Aled Jones Williams yn defnyddio geiriau fel arf i amddiffyn eu hunain a chuddio y tu ôl iddynt. Ond, fel y cenfydd gymeriadau Siôn Eirian yn y pen draw, y mae iaith hefyd yn ddiffygiol a ffug yw'r cysur a geir ynddi. Ac i dri dramodydd mor eiriol eu sgriptiau, y mae'r nodwedd hon yn bur eironig. Gellir priodoli'r dyfyniad isod a gyfeirir at Aled Jones Williams i'r ddau ddramodydd arall yn ogystal:

Mae'r ffaith ei fod, serch hynny, yn mynegi ei hun trwy gyfrwng geiriau yn arwyddocaol ... Mae'r tensiwn â'r paradocs hwn yn ganolog ac yn treiddio drwy'r gweithiau.¹

A hwythau, bellach, wedi cyfansoddi cynifer â deugain ac un o ddramâu llwyfan Cymraeg rhyngddynt, ni ellir gwadu cyfraniad sylweddol Meic Povey, Siôn Eirian ac Aled Jones Williams i'r ddrama lwyfan Gymraeg, traddodiad a'i wreiddiau ond yn estyn gyn belled yn ôl â diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac iddynt fanteisio ar fod yn rhan o oes aur y traddodiad hwnnw gyda dyfodiad y cwmnïau theatr Cymraeg proffesiynol cyntaf. Y maent hwythau yn eu tro wedi cyfoethogi'r arlwy ar gyfer cwmnïau drama Cymru a thrwy hynny wedi cyfrannu at ddarparu gwaith i genhedlaeth o actorion trwy gyfrwng y Gymraeg. Cofier hefyd i Theatr Genedlaethol Cymru lwyfannu gweithiau o eiddo'r tri ohonynt (addasiad o *Cysgod y Cryman* yn achos Siôn Eirian), sy'n awgrymu'r bri a roddir iddynt fel dramodwyr. A hwythau bellach yn rhan o genhedlaeth hyn o ddramodwyr Cymraeg, y mae'n bur debygol y gwelir to newydd o ddramodwyr yn datblygu i ddilyn ôl eu traed.

¹ Evans, 'Astudiaeth o'r Cysyniad o Theatr Ôl-Ddramataidd yng Nghyd-Destun Gwaith Cwmni Brith Gof a'i Ddilynwyr ac Aled Jones Williams', t. 131.

Llyfryddiaeth Gyffredinol

BARTHES, Roland (Richard Howard cyf.), *The Death of The Author* (1967),
<http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=2&ved=0CCoQFjABahUKEwi41fnckeXHAhUHjNsKHdBQDsQ&url=http%3A%2F%2Fwww.tbook.constantvzw.org%2Fwpcontent%2Fdeath_authorbarthes.pdf&usg=AFQjCNHvCdt6FMTe5pA6BtP7ChYusv5MpA&bvm=bv.102022582,d.d24>, t. 6. (Ymwelwyd â'r wefan 7 Medi 2015)

BILLINGTON, Michael, *Harold Pinter* (London, 1996).

HALLAM, Tudur, 'Eilunyddiaeth', *Tu Chwith*, 17 (Haf 2002).

MARKS, Rhiannon, 'Yr Ohebiaeth: Llythyr 1', *Pe Gallwn , Mi Luniwn Lythyr* (Caerddydd, 2013).

Llyfryddiaeth: Meic Povey

Llyfryddiaeth Graidd:

POVEY, Meic, *Y Cadfridog* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1974).

----- *Terfyn* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1978).

----- *Chwara Plant* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1983).

----- *Gyda Llaw* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1985).

----- *Gwaed Oer* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1992).

----- *Perthyn* (Llanrwst, 1995).

----- *Wyneb yn Wyneb* (Caerdydd, 1995).

----- *Fel Anifail* (Caerdydd, 1997).

----- *Tair* (Caerdydd, 1999).

----- *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi* (Llanrwst, 2000).

----- *Diwedd y Byd ac Yr Hen Blant* (Caerdydd, 2000).

----- *Bonansa* (Caerdydd, 2001).

----- *Sylw* (Caerdydd, 2003).

----- *Hen Bobl Mewn Ceir* (Caerdydd, 2006).

----- *Tyner yw'r Lleuad Heno* (Llandysul, 2009).

Llyfryddiaeth Feirniadol:

BAINES, Menna, 'Cloddio Haenau'r Co', *Barn*, 407/408 (Rhagfyr 1996 / Ionawr 1997), 88-9.

----- 'Holi Wil Sam – Mecanicia a llenyddu', *Barn*, 371/372 (Rhagfyr 1993 / Ionawr 1994), 68-71.

----- 'Pethau Poveyaidd',
<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=166:pethau-poveyaidd&catid=68:hydref&Itemid=293>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

CASH, Justin, 'Farce', *The Drama Teacher* <<http://www.thedramateacher.com/farce/>>. Ymwelwyd â'r wefan 7 Medi 2015.

DAFYDD, Marged, 'Mae 'na fwy o regi ar iard ysgol', *Y Cymro* (14 Mawrth 1978), 6.

DAVIES, Anna Michelle, 'Astudiaeth o ddramâu teledu unigol Meic Povey' (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru Bangor, 2007).

----- 'Holi Meic Povey', yn WILIAMS, Gerwyn (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, XXVIII (Llandysul, 2009), tt. 9-20.

DAVIES, Catrin, 'Y Ddrama Gomisiwn – Deialog anghynnil sy'n methu cyrraedd emosiynau'r cymeriadau', *Y Cymro* (19 Awst 1987), 7.

DAVIES, Jennie Eirian, "'Y Gynulleidfa Gymraeg'", *Y Faner* (3 Ebrill 1981), 2.

DIENW, 'Abuse and lust set to pull crowds', *Caernarfon Herald*, (25 Medi 1992), 25.

----- 'Act Gyntaf', <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=964>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- 'Actor playwright Meic Povey tells all', <<http://www.walesonline.co.uk/showbiz-and-lifestyle/books/news/2010/08/07/actor-playwright-meic-povey-tells-all-91466-27014549/>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- 'Adolygiad o Wyneb yn Wyneb', *Nene – papur bro Rhosllannerchrugog, Ponciau, Penycae a Johnstown*, 2 (30 Mawrth 1993), 5.

----- 'Am Helyntion Priodas', *Y Cymro* (8 Mai 1979), 8.

----- 'Ar y mynydd gyda Meic', <<http://www.walesonline.co.uk/showbiz-and-lifestyle/cymraeg/erthyglau/2009/09/26/ar-y-mynydd-gyda-meic-91466-24779456/>> (26 Medi 2009). Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- 'Archif Sioeau Dalier Sylw: Bonansa', <<http://www.users.globalnet.co.uk/~dalsylw/archif/bonansa.htm>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- 'Archif Sioeau Dalier Sylw: Fel Anifail', <<http://www.users.globalnet.co.uk/~dalsylw/archif/anifail.htm>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- 'Archif Sioeau Dalier Sylw: Tair', <<http://www.users.globalnet.co.uk/~dalsylw/archif/tair.htm>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- 'Archif Sioeau Dalier Sylw: Wyneb yn Wyneb', <<http://www.users.globalnet.co.uk/~dalsylw/archif/wyneb.htm>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

- ‘Cip ar y Dyfodol gan Bara Caws’, *Y Cymro* (29 Tachwedd 1983), 11.
- ‘Cofiant y Cymro Olaf’, *Y Cymro* (24 Ebrill 1979), 8.
- ‘Cwrdd â’r awdur toreithiog: Drama rymus gan Meic Povey’, *Y Cymro* (29 Medi 1999), 14.
- ‘Cychwyn oedd yn plesio’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=981>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.
- ‘Cyfweliad gyda Meic Povey – Rhaglen Dewi Llwyd’, <<http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/dewillwyd/pages/meicpovey.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012. Trac sain.
- ‘Dadorchuddio rhagrith yng nghefn gwlad’, *Y Cymro* (24 Chwefror 1993), 7.
- ‘Dawn dweud yn dod o’r galon’, <<http://www.thefreelibrary.com/Dawn+dweud+yn+dod+o'r+galon%3B+Wrth+inni+edrych+ymlaen+at+groesawu...-a0122509891>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.
- ‘Dim drama heb densiwn’, *Y Cymro* (6 Ionawr 1999), 15.
- ‘Diwedd y Byd yr hen blant’, <http://palasprint.com/siopa/product_info.php?manufacturers_id=2298&products_id=9764>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.
- ‘Drama yn holi am salwch meddwl’, *Y Cymro* (5 Ebrill 1995), 7.
- ‘First Act’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=963>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.
- “‘Happy Days Bois Bach!’”, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=1949>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.
- ‘Hwb: Dysgu Digidol i Gymru’, <<http://www.ngfl-cymru.org.uk/echelgais/elwa/content.asp?lo=1.3.2.8.1>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.
- ‘Launch of Sylw – Meic Povey’s new Welsh drama’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=507>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.
- ‘Llwyfan Newydd i Ddramâu Arloesol’, <<http://www.thefreelibrary.com/Llwyfan+newydd+i+ddramxu+arloesol.-a078776396>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.
- ‘Meic Povey’, <<http://www.doollee.com/PlaywrightsP/povey-meic.html>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Meic Povey’, <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/author_playlist.asp?author=Meic%20Povey>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Meic Povey directs Tyner yw’r Lleuad Heno’, <<http://www.walesonline.co.uk/showbiz-and-lifestyle/arts-in-wales/2009/10/09/meic-povey-directs-tyner-yw-r-lleuad-heno-the-moon-is-tender-tonight-91466-24886346/>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Meic Povey on Hen Bobl Mewn Ceir’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=1982>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Meic Povey – taith Tyner Yw’r Lleuad Heno’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/straeon/povey-09.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Meical Povey’, *Y Ddraenen*, 20 (Awst 1996), 16-17.

----- ‘Michael Povey: Pam cefnu ar Theatr yr Ymylon?’, *Y Faner* (2 Chwefror 1979), 7.

----- ‘Mike Povey directs his latest play’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=3268>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Performance Art – Tyner yw’r Lleuad Heno’, <<http://www.taliesinartscentre.co.uk/performances.php?id=13>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Povey’n cyfarwyddo Povey’, *Golwg*, 22/5 (1 Hydref 2009), 26.

----- ‘Povey Play / Povey’n Parablu’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=3220>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Profi’r byd o bell fel hen bobl mewn ceir’, <<http://www.thefreelibrary.com/Profi'r+byd+o+bell+fel+hen+bobl+mewn+ceir.-a0153599753>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Pwy sy’n Wallgo’?’, *Barn*, 386 (Mawrth 1995), 26.

----- ‘Python star and writer honoured’, <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/south_east/4638395.stm>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Royal College Publishes New Welsh Drama’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=508>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Tair gan Meic Povey’, <<http://openlibrary.org/books/OL18916504M/Tair>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘The Meic Povey Interview’, <<http://www.minder.org/jones/jones.htm>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Theatr Lawn i’r Cwmni Newydd’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=975>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Theatr Mwldan listings, 2009-10’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=3302>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Tyner yw’r Lleuad Heno’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=3269>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Y cyw dramodydd – Meic Povey’, *Barn*, 570/571 (Gorffennaf/Awst 2010), 76-8.

----- ‘Ymateb Gareth William Jones, Gareth Miles, Roger Owen i Tyner yw’r Lleuad Heno’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/adolygiadau/povey-tyner-gwilym.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Yn ôl i’w Ynys ei Hun: gwaith a bywyd Michael Povey’, *Golwg*, 4/23 (20 Chwefror 1992), 20-1.

----- ‘Yr Athro Ioan Williams yn ymateb i’r sylwadau a wnaed ar ‘Wythnos Gwilym Owen’’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/adolygiadau/povey-tyner-gwilym.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

-----<<http://www.aberystwythartscentre.co.uk/documents/TynerYwrLleuadHeno>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://www.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_4630000/newsid_4638700/4638737.stm>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <<http://www.celfcymru.com/?p=899&language=cy>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <<http://www.dailypost.co.uk/leisure/entertainment-news/2009/09/25/meic-povey-tours-wales-55578-24778927/>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=0FAB477B6B1A2F1D&p_docnum=44&p_queryname=15>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=0FAFF32C11EA9047&p_docnum=43&p_queryname=15>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=

0F54B3394CDB3608&p_docnum=48&p_queryname=15>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=11B2DBDF1670CFE0&p_docnum=27&p_queryname=15>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=12AE71C3024738B0&p_docnum=18&p_queryname=22>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=12AF1E61F1923B38&p_docnum=17&p_queryname=22>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=12B068CF06B83318&p_docnum=17&p_queryname=15>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=12B5761B2494A790&p_docnum=13&p_queryname=15>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=130E579311F8B540&p_docnum=8&p_queryname=13>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=130F59046612F6A8&p_docnum=9&p_queryname=21>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=131792274DF9CA10&p_docnum=5&p_queryname=12>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://infoweb.newsbank.com/iw-search/we/InfoWeb?p_product=WLSNB&p_theme=aggregated5&p_action=doc&p_docid=132EA47718AC19E0&p_docnum=4&p_queryname=11>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_?details.asp?offset=1601&reviewID=686>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- <<http://www.ynyffram.org/biographies/1995>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

DUNNE, Wil, *The Dramatic Writer's Companion: Tools to Develop Characters, Cause Scenes and Build Stories* (Chicago, 2009).

EIRIAN, Siôn, 'Jobsus Sgwennu Michael Povey', *Curiad*, 2 (Gaeaf 1978/1979), 16-17.

----- 'Trwy lygaid plant', *Barn*, 369 (Hydref 1993), 27.

----- 'Y Cadfridog', *Y Faner* (5 Mai 1978), 12.

ELIS, Meg, 'Chwarae Saff – a Da', *Barn*, 392 (Medi 1995), 28-30.

ENGLAND, Iwan, 'Dwy ochr i'r un geiniog: Portread o Meic Povey', *Golwg*, 10/51 (3 Medi 1998), 26.

EPHRAIM, Nona Wyn, 'Ac eto, fel pawb', *Golwg*, 7/32 (20 Ebrill 1995), 22-3.

EVANS, Glyn, 'Meical Povey – adolygiad o'i hunangofiant', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/adolygiadau/povey.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

ESSLIN, Martin, 'Language and Silence', *Pinter: A Study of His Plays* (London, 1970).

----- *The Theatre of the Absurd* (London, 1962).

GLYN, Eifion, 'Beth yw pwynt 'Y Cadfridog'? ... beth yw'r ots, mae'n ddifyr!', *Y Cymro* (14 Mawrth 1978), 9.

GOWER, Jon, 'Yn Debyg Iawn i Ti a Fi', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/04-yn-debyg-jon.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- 'Yn Debyg Iawn i Ti a Fi', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Yn%20debyg%20iawn%20i%20ti%20a%20Fi&company=Bara%20Caws>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

GREENE, David H., STEPHENS, Edward M., 'The Aran Islands', *J. M. Synge 1871-1909: Revised Edition* (New York, 1989).

GRIFFITHS, Gwyn, 'Life of Ryan – and Ronnie: Rhwng Dau', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/ryan.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Rhwng dau’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/ryan.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

GRIFFITHS, Paul, ‘Adolygiadau Theatr’,
<<http://paulpesda.blogspot.com/2010/04/llwyth.html>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Colofn Paul Griffiths yn Y Cymro’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=2128>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

HARRIS, Simon, ‘Sgript Cymru at the Traverse Theatre, Edinburgh.’, <http://www.theatre-wales.co.uk/critical/critical_detail.asp?criticalID=19>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

HUGHES, Gwenno, ‘Astudiaeth o ddramâu Meic Povey: er 1985’ (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru Bangor, 1985).

----- *Perthyn: astudiaeth Gwenno Hughes o ddrama Meic Povey* (Cricieth, 2000).

HUGHES, Vaughan, ‘Y chwerthin sydd mor drist’,
<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=132:y-chwerthin-sydd-mor-drist&catid=62:mai&Itemid=287>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

INNES, C. D. (gol.), *A Sourcebook on Naturalist Theatre* (London, 2000).

IORWERTH, Dylan, ‘Chwarae Plant?’, *Golwg*, 6/4 (23 Medi 1993), 22-3.

----- ‘Gwefreiddiol’, *Y Cymro* (8 Mai 1979), 8.

----- ‘Lot Gormod? Drama am chwarae’n troi’n chwerw ...’, *Golwg*, 9/20 (30 Ionawr 1997), 16.

ISLWYN, Aled, ‘Ffraeo a phryfocio’, *Barn*, 429 (Hydref 1998), 12-13.

----- ‘Gwasgu cymaint o boen i cyn lleied o amser’, *Y Cymro* (24 Mawrth 1993), 7.

----- ‘Lleisiau ac Adleisiau’, *Barn*, 388 (Mai 1995), 35.

JONES, Aran, ‘Owain Mindwr’, *Barn*, 503/4 (Rhagfyr 2004 / Ionawr 2005), 101-2.

JONES, Bethan, ‘Cyflwyniad’, yn POVEY, Meic, *Yn Debyg Iawn i Ti a Fi*, (Llanrwst, 2000), tt. 9-10

JONES, Catrin, ‘Perthynas Waharddedig’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/020914perthyn.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

JONES, Dafydd Arthur, ‘Priodas Anghymarus’, *Barn*, 351 (Ebrill 1992), 45-6.

JONES, Dyfrig, 'Yn Debyg Iawn i Ti a Fi', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Yn%20debyg%20iawn%20i%20ti%20a%20Fi&company=Bara%20Caws>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

JONES, Gareth William, 'Cam Ymlaen', *Barn*, 386 (Mawrth 1995), 37.

----- 'Holi Meic Povey', POVEY, Meic, *Perthyn* (Llanrwst, 1995), tt. 9-11.

JONES, John Gwilym, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Ddrama Hir', yn BASSETT, T. M. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, 1975* (Llandysul, 1975), tt.141-3.

JONES, Lois Gwenllian, 'Adolygiad o Tyner Yw'r Lleuad Heno gan Meic Povey', <<http://www.gairrhydd.com/features/taf-od/905/adolygiad-o-tyner-yw-r-lleuad-heno-gan-meic-povey>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

JONES, Robert-Henri, 'Meddyliau duon wedi angladd', *Y Cymro* (19 Ebrill 1995), 7.

JONES, Meleri Wyn, 'Mwy na Chwarae Plant', *Golwg*, 6/7 (14 Hydref 1993), 22.

JONES, Nia Wyn, 'Tensiwn rhwng Tair', *Golwg*, 10/46 (30 Gorffennaf 1998), 24.

JONES, W. S., *Pum Drama Fer* (Aberystwyth, 1963).

JONES, William Gwyn, 'Adlewyrchiad, nid pregeth', *Barn*, 363 (Ebrill 1993), 40-1.

LEWIS, Lisa, 'Cymeriadau Cyflawn mewn Gwaed Oer', *Golwg*, 5/5 (1 Hydref 1992), 22.

LEWIS, William R., *John Gwilym Jones* (Cardiff, 1994).

LLYWELYN, Dafydd, 'Cyfri mawrion fesul deg', *Barn*, 443/444 (Ionawr 2000), 100-3.

----- 'Dafydd Llewelyn yn holi Meic Povey', <http://www.theatre-wales.co.uk/features/features_detail.asp?profilesID=41>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- 'Effeithiolrwydd Syml', *Barn*, 527/528 (Rhagfyr 2006 / Ionawr 2007), 80-2.

----- 'Hen Bobl Mewn Ceir: Skoda ynteu Ferrari?', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/henbobol.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- 'Speaking Two Spokes', *New Welsh Review*, 60 (Summer 2003), 51-7.

----- 'Yn Debyg Iawn i Ti a Becks', *Barn*, 498/499 (Gorffennaf/Awst 2004), 87-9.

MAIR, Elin, 'Dramâu Bro Madog', *Y Faner* (28 Awst 1987), 6.

MILES, Gareth, 'Dramâu a'u Hawduron', <<http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=39>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Pobl Gyffredin’, *Barn* 515/516 (Rhagfyr 2005 / Ionawr 2006), 100-2.
MORGAN, Elin Llwyd, ‘Adolygiad o Tyner Yw’r Lleuad Heno gan Meic Povey’,
<<http://www.gairrhydd.com/features/taf-od/905/adolygiad-o-tyner-yw-r-lleuad-heno-gan-meic-povey>>.
Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

OGWEN, John, ‘Rhai o Theatrau Newydd Cymru’, yn JONES, Dafydd Glyn, JONES, John Ellis (goln.), *Llwyfannau* (Caernarfon, 1981), tt. 64-8.

OWEN, Roger, ‘Teyrn yw’r Lleuad’, *Barn*, 562 (Tachwedd 2009), 34-5.

----- ‘Theatr y Gegin a Cwmni’r Gegin, Cricieth’, yn DAVIES, Hazel Walford (gol.), *Llwyfannau Lleol* (Llandysul, 2000), tt. 95-125.

OWEN, Roger, JONES, Dedwydd, ROBERTS, Huw, JONES, Bethan, ‘Theatr Genedlaethol’, *Barn*, 389 (Mehefin 1995), 33.

PARRY, Gwenlyn, ‘Rhagymadrodd’, yn POVEY, Meic, *Perthyn* (Llanrwst, 1995), tt. 13-12.

PARRY-WILLIAMS, T. H., ‘Moelni’, *Detholiad o Gerddi* (Llandysul, 1972), t. 34.

POVEY, Meic, ‘Cyhuddo’r Doctor o dlodi drama Cymru’, *Golwg*, 20/24 (8 Mai 2008), 6.

----- ‘Fforwm: Argyfwng y ddrama lwyfan’, *Taliesin*, 105/106 (Gwanwyn/Haf 1999), 16-17.

----- *Nesa Peth i Ddim – Hunangofiant Meic Povey* (Llanrwst, 2010).

----- ‘Os Mêts: Michael Povey ac ysbrydolwr a ffrind’, *Golwg*, 4/11 (14 Tachwedd 1991), 8.

----- ‘Rhagair’, *Hen Bobl Mewn Ceir* (Caerdydd, 2006), t. xi.

----- ‘Rhagair’, *Tyner yw’r Lleuad Heno* (Llandysul, 2009), tt. 5-6.

----- ‘Rhagair’, *Wyneb yn Wyneb* (Caerdydd, 1995), t. 5.

----- ‘Ysgrifau Dramodwyr: Meic Povey’ (ysgrif ar gyfer y modiwl Sgriptio, Prifysgol Aberystwyth).

POVEY, Meical, JONES, Rhydderch T., LEWIS, Williams R., ‘Beirniadaeth ar Gystadleuaeth y Ddrama Hir’, yn HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog, 1987* (Llandysul, 1987), tt. 134-7.

PRICE, Rhian, ‘Pan ymwelodd Ingrid Bergman ...’, *Golwg*, 15/33 (1 Mai 2003), 22-3.

RABY, Peter (gol.), *The Cambridge Companion to Harol Pinter: Second edition* (Cambridge, 2009).

REYNOLDS, Elinor Wyn, ‘Tebyg at ei Debyg’, *Y Ddraenen*, 10 (11 Mai 1995), 15.

ROBERTS, Andy, 'Life of Ryan... and Ronnie',
<<http://www.bbc.co.uk/wales/southeast/sites/entertainment/pages/lifeofryanandronnie.shtml>>
, Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

ROBERTS, Bob, 'Terfyn', *Y Faner* (1 Mehefin 1979), 9.

ROBERTS, Gwenan Mared, 'Dwy ddrama, un act', *Barn*, 453 (Hydref 2000), 54-5.

----- 'Trasiedi a Chomedi', *Barn* 515/516 (Rhagfyr 2005 / Ionawr 2006), 88-91.

----- 'Y Chwarae Sy'n Bwysig', *Barn*, 410 (Mawrth 1997), 37.

----- 'Y Ddrama Gomisiwn', *Barn*, 426/427 (Gorffennaf/Awst 1998), 10-11.

ROBERTS, Huw, 'Pedair Drama o'r Brifddinas', *Barn*, 394 (Tachwedd 1995), 35-6.

----- 'Rhagymadrodd', yn POVEY, Meic, *Perthyn* (Llanrwst, 1995), tt. 7-8.

ROBERTS, Iorwerth, 'Pain and guilt of a dark secret', *Daily Post* (19 February 1996).

ROBERTS, Lliwen, 'Adolygiad o Tyner yw'r Lleud Heno',
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/adolygiadau/povey-tyner-02.shtml>>.
Ymwelwyd â'r wefan 5 Ebrill 2012.

ROS, Nic, 'Chwerthin anaddas', *Barn*, 477 (Hydref 2002), 50-1.

ROWLDANS, John, *John Gwilym Jones* (Caernarfon, 1988).

SMITH, James L., *28 Melodrama* (London, 1971).

SPENCER, Stuart, *The Playwright's Guidebook* (New York, 2002).

STYAN, J. L. (addasiad GLYN, Annes), *Y Ddrama Gyfoes: Damcaniaethau ac Arferion: Symbolaeth, Swrealaeth a'r Abswrd* (Llandysul, 2007).

TOMOS, Nia Wynn, 'Cyfeiriadau newydd yn y ddrama Gymraeg c. 1950-1980, gyda sylw arbennig i weithiau Huw Lloyd Edwards, W. S. Jones a Gwenlyn Parry' (Traethawd M.A., Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1983).

TOMOS, Robyn a GWYN, Robin, 'Gofal yn y Gymuned?', *Golwg*, 7/30 (Ebrill 1995), 17-19.

TOMOS, Rhiannon, 'Roeddwn innau yno', *Golwg*, 7/32 (20 Ebrill 1995), 23.

----- 'Pobl, nid sbesimens', *Barn*, 358 (Tachwedd 1992), 18-19.

TUDUR, Non, 'Ni allaf ddianc rhag hon – Meic Povey “ddim yn arafu”', *Golwg*, 21/49 (20 Awst 2009), 24-5.

----- ‘Povey a drama’r De’, *Golwg*, 19/6 (12 Hydref 2006), 26.

----- ‘Tristwch Ryan a Ronnie’, *Golwg*, 17/39 (9 Mehefin 2005), 17.

----- ‘Y ddrama galed i’w gwyllo’, *Golwg*, 19/9 (2 Tachwedd 2006), 25.

WHELDON, Gwyn, ‘Y Ddrama Gomisiwn’, *Barn*, 296 (Medi 1987), 340.

WILLIAMS, Gerwyn, ‘Dyn y Deryn sy’n Perthyn i’r Cadfridog’, *Barn*, 318/319 (Gorffennaf/Awst 1989), 19-22.

WILLIAMS, J. Ellis, *Tri dramaydd cyfoes: Saunders Lewis, John Gwilym Jones, Huw Lloyd Edwards* (Dinbych, 1961).

WILLIAMS, Mererid, ‘Dechrau’r Diwedd’, *Barn*, 370 (Tachwedd 1993), 27-8.

WILLIAMS, Rhodri, ‘Perfformiad Y Cadfridog’, *Barn*, 184 (Mai 1978), 187.

WILLIAMS, Sioned, ‘Drama’n siomi mewn cynhyrchiad sy’n plesio’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/adolygiadau/povey-tyner.shtml>>.
Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

----- ‘Y Theatr Gymraeg yn y Glorian’,
<http://www.cylchgrawnbarn.com/index.php?option=com_content&view=article&id=181:y-theatr-gymraeg-yn-y-glorian&catid=70:rhagfyr&Itemid=295>. Ymwelwyd â’r wefan 5 Ebrill 2012.

WYN, Hefin, ‘Ceisio sgwennu i ddiddanu, heb fod yn uchel ael’, *Y Cymro* (28 Chwefror 1978), 8.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Casgliad Papurau Meic Povey 1966-2008:

3. Astudiaeth o waith Meic Povey, 1988-99:

3/1. RHISIART, Sian, ‘Agweddau ar waith Michael Povey’ (Traethawd Hir Prifysgol Cymru Bangor, 1988).

3/2. WRIGHT, Shan, ‘Y Chwalfa Deuluol yng ngwaith Michael Povey ers 1985’ (Traethawd Adran y Gymraeg Brifysgol Cymru Bangor, 1990).

3/3. JONES, Manon Elis, ‘Gweld Llais a Chlywed Llun’ (Traethawd Hir B.A. Anghyhoeddedig Adran y Gymraeg Prifysgol Cymru Bangor, 1997).

4. Deunydd Printiedig 1968-2007 (yn cynnwys):

CROCKETT, Kate, ‘Bonansa! yn taro’r jacpot’.

DAFYDD, Marged, ‘Iaith Bob Dydd?’.

DIENW, 'Actor ifanc, aflonydd'.

----- 'Am Helyntion Priodas'.

----- 'Camp Michael'.

----- 'Dawn dweud yn dod o'r galon'.

----- 'Diwedd y Byd ... eto'.

----- 'Diwedd y Gân', *Wales Review*.

----- 'Extraordinary problems of an 'ordinary' family'.

----- 'Life after Arfur'.

----- 'Neges sy'n argyhoeddi'.

----- 'Pigion'.

----- 'Y Prentis Cyntaf', *Y Cymro* (1968).

----- 'Writer Meic tried hand at directing latest play'.

EDWARDS, Emyr, 'Wynebu'r Gwir'.

ENGLAND, Iwan, 'Iwan England a'r dramâu'.

GRIFFITH, Non, 'Drama'n llawn o wirioneddau hyll'.

GRIFFITHS, Gwyn, 'Corwynt loteri yn chwa o awyr iach'.

IORWERTH, Dylan, 'Drama gignoeth o onest'.

----- 'Welsh drama milestone'.

ISLWYN, Aled, 'Wynebu anobaith a thristwch o gwmpas y bwrdd'.

JONES, Tudur Huws, 'Colled i'r sawl na welodd y gampwaith hon'.

JONES-WILLIAMS, Mari, 'Gosod llwybr ac yna dilyn y lleisiau i'r llwyfan'.

LEWIS, Gwenllian Pierce, 'Yr Enwog Michael Povey'.

MARED, Gwenan, 'Syniadau cynnil ond cyfoeth o chwerthin'.

OWEN, George, 'Heb deitl heb ddrama'.

PARRY, Ian, 'Theatrical taboo broken in fine style'.

POVEY, Michael, 'Stori Serch'.

PRICE, Karen, 'Arts and Media Correspondent'.

PRICE, Rhian, 'Pawb Eisiau Sylw'.

ROBERTS, Iorwerth, 'Pain and guilt of a dark secret', *Daily Post* (19 Chwefror 1996).

WILLIAMS, Arthur, 'Tension in the home'.

Deunydd Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru:

'Dim ond Celf', *BBC* (14 Chwefror 1996).

'Sioe Gelf', *Cwmni Da* (28 Chwefror 1997).

'Cerddoriaeth a sgwrsio yng nghwmni Shan Cothi', *BBC Radio Cymru* (14 Ionawr 1998).

'Wedi 6', *Agenda* (5 Medi 2002).

'Ffatri Freuddwydion: Dyddiadur Theatr Bryn Fôn', *S4C, S4C 1 Digidol* (21 Medi 2004).

'P'nawn Da', *Agenda/Tinopolis* (21 Ionawr 2005).

'Sioe Gelf', *Cwmni Da* (12 Hydref 2005).

'Sioe Gelf', *Cwmni Da* (01 Ebrill 2009).

'Sioe Gelf', *Cwmni Da* (07 Ebrill 2009).

Cyfweliadau:

Cyfweliad gyda Meic Povey (13 Ionawr 2012).

Cyfweliad gyda Hazel Walford Davies (24 Ionawr 2012).

Cyfweliad gyda'r gyfarwyddwraig Bethan Jones (27 Chwefror 2012).

Gohebiaeth:

E-bost gan Meic Povey (10 Rhagfyr 2014).

Llyfryddiaeth: Siôn Eirian

Llyfryddiaeth Graidd:

EIRIAN, Siôn, *Wastad ar y Tu Fas* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1986).

----- *Elvis, Y Blew a Fi* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1988).

----- *Epa yn y Parlwr Cefn* (Aberystwyth, 1995).

----- *Paradwys Waed* (Caernarfon, 2000).

----- *Cegin y Diafol* (Caerdydd, 2001).

----- *Hedfan Drwy'r Machlud* (teipysgrif anghyhoeddedig, 2006).

----- *Garw* (Caernarfon, 2014).

Llyfryddiaeth Feirniadol:

ADAMS, David, 'Dracula by Siôn Eirian', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Dracula&company=Sherman%20Theatre%20Company>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- 'State of play at the stage door', <http://www.theatre-wales.co.uk/critical/critical_detail.asp?criticalID=155>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

AP IORWERTH, Phil, 'Swnio'n gymhleth? Drama fel'na oedd hi!', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/0102cegin.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

AYCKBOURN, Alan, 'How to Write a Play?', *The Telegraph*, <<http://www.telegraph.co.uk/culture/theatre/drama/3581622/How-to-write-a-play.html>>. Ymwelwyd â'r wefan 7 Medi 2015.

BAINES, Menna, 'Ceisio Paradwys yn y Swt a Sbaen', *Barn*, 450/451 (Gorffennaf/Awst 2000), 104-6.

----- 'Drama mewn llaw', *Barn*, 618/619 (Gorffennaf/Awst 2014), 63-4.

----- 'Drama Parlwr Cefn: Holi Siôn Eirian', *Barn*, 380 (Medi 1994), 28-30.

----- 'Trosi Byd Blodeuwedd', *Barn*, 357 (Hydref 1992), 8-10.

BLANDFORD, Steve, 'Situation Desperate but not Hopeless', <http://www.theatre-wales.co.uk/critical/critical_detail.asp?criticalID=222>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

CAMPBELL-MOORE, Roy, 'Dracula by Siôn Eirian', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Dracula&company=Sherman%20Theatre%20Company>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

COOKE, Lowri Haf, 'Adolygiad Theatr: Garw (Theatr Bara Caws)', <<http://lowrihafcooke.wordpress.com/2014/10/08/adolygiad-theatr-garw-theatr-bara-caws/>>. Ymwelwyd â'r wefan 9 Hydref 2014.

DAVIES, Hazel Walford, 'The dialect of dialogue', *New Welsh Review*, 8/29 (1995), 64-70.

DAVIES, Hazel Walford, 'Siôn Eirian', yn DAVIES, Hazel Walford (ed.) *Now you're Talking: contemporary Welsh dramatists in conversation with Hazel Walford Davies* (Cardigan, 2005), tt. 55-72.

DIENW, 'Canllawiau Cydymffurfiaeth S4C: Canllawiau Iaith 11/12/08', <http://www.s4c.co.uk/production/c_guidelines.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 3 Tachwedd 2014.

----- 'Coroni Siôn Eirian yn 1978', <http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod/2011/media/tudalen/archif_Siôneirian.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- 'Cysgod y Cryman – her yr addasu', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/cryman-Siôn.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- 'Dalier Sylw', <http://www.theatre-wales.co.uk/companies/company_details.asp?ID=51>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- 'Epa yn y Parlwr Cefn', <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=1149>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- 'Filmography', <<http://www.imdb.com/name/nm0251899/>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- 'Ffeithiol: Jennie', <http://www.s4c.co.uk/ffeithiol/c_jennie.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 19 Tachwedd 2014.

----- 'Gwenlyn Parry – y dramâu', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/pobl/gwenlyn-dramau.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- 'Gwybodaeth Lyfryddol: Cegin y Diafol', <http://www.gwales.com/goto/biblio/cy/9781856446303/?sesSiôn_timeout=1>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- 'Môr Tawel', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/0103samwel.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- ‘Nia Ben Aur by Siôn Eirian’, <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Nia%20Ben%20Aur&company=Theatr%20Ona%20n'Og>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- ‘Rhestr Awduron Cymru: Siôn Eirian’, <<http://www.literaturewales.org/rhestr-awduron/i/129875/>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- ‘Rhoi Siôn dan Goron ein Gŵyl’, *Barddas*, 22 (Medi 1978), 1-2.

----- ‘Sion Eirian’, <<http://www.echelgais.org.uk/elwa/content.asp?lo=1.6.3.5.1>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- ‘Siôn Eirian’,
<http://www.theatre-wales.co.uk/plays/author_playlist.asp?author=Siôn%20Eirian>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

EIRIAN, Siôn, ‘Argyfwng y Ddrama Lwyfan’, *Taliesin*, 105/106 (Gwanwyn/Haf 1999), 23-4.

----- *Bob yn y Dinas* (Llandysul, 1979).

----- ‘Chwilio Llwyfan’, *Barn*, 389 (Mehefin 1995), 34-5.

----- *Epa yn y Parlwr Cefn* (ysgrif anghyhoeddedig o law'r dramodydd).

----- ‘Hon yw fy stafell i’, *Barn*, 560 (Medi 2009), 21.

----- *Plant Gadara* (Llandysul, 1975).

----- ‘Profiadau Llencyndod’ yn NICHOLAS, W. Rhys (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978* (Llandysul, 1978), tt. 28-36.

----- ‘Rhagair’, *Epa yn y Parlwr Cefn* (Aberystwyth, 1995), t. 4.

----- Rhaglen cynhyrchiad cwmni Hwyl a Fflag o *Elvis, Y Blew a Fi*.

----- *Rhyddiaith y Goron: Stori Fer-Hir, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru* (Aberystwyth, 1971).

----- *Sgrifennu ar gyfer y llwyfan* (ysgrif ar gyfer y modiwl Sgriptio, Prifysgol Aberystwyth).

----- ‘Siôn Eirian yn trafod ei ddrama, *Garw*’,
<<http://theatrbaracaws.zenfolio.com/p689257122/h93439e5#h93439e5>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014. Trac sain.

----- ‘Tywysog Tywyllwch’, *Golwg*, 4/8 (24 Hydref 1991), 22-3.

----- ‘Undeb yr Ysgrifenywyr’, *Llais Llyfrau* (Haf 1990), 6-7.

EIRIAN, Siôn a LLWYD, Betsan, ‘Sgwrs gyda Siôn Eirian a Betsan Llwyd ar raglen Nia Roberts’, <<https://soundcloud.com/berwyn/sgwrs-gyda-Siôn-eirian-a-betsan-llwyd>>, (15/07/14). Ymwelwyd â’r wefan 14 Awst 2014. Trac sain.

ERFYL, Gwyn (gol.), *Cyfrwl Deyrnged Jennie Eirian* (Caernarfon, 1985).

GIBBARD, Alun, ‘Sgrifennu Sgript Mewn Pwll Glo’, *Golwg*, 27/4 (25 Medi 2014), 18-19.

GOWER, John, ‘Llwyfan Rhwng Cloriau’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=119>>. Ymwelwyd â’r wefan 14 Awst 2014.

GRIFFITHS, Paul, ‘Cysgod y Cryman – barn arall’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/cryman-paul.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 14 Awst 2014.

HOPKIN, Rhys, ‘A production of the highest standard: Cysgod y Cryman’, <http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?reviewID=1531>. Ymwelwyd â’r wefan 14 Awst 2014.

HOWELLS, Gaenor, ‘Drama at College’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=508>>. Ymwelwyd â’r wefan 14 Awst 2014.

ISLWYN, Aled (gol.), *A Sydd am Afal* (Caernarfon, 1989).

JOHNSTON, Lowri, ‘Hedfan Drwy’r Machlud: Gwerthu gwin y meirw’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/hedfan.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 14 Awst 2014.

JONES, Eifion Lloyd, ‘Adolygiad o *Garw* ar raglen Dewi Llwyd, Radio Cymru’, <<https://soundcloud.com/berwyn/dewi-llwyd-eifion-lloyd-jones>>, (28/09/14). Trac sain.

----- ‘Cysgod y Cryman: Cysgod y gwreiddiol yn rhy gryf?’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/cryman.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 14 Awst 2014.

JONES, Tudur Huws, ‘Pwerus ac adloniadol yr un pryd’, *Daily Post* (24 Medi 2014), 28.

KELLIGAN, Michael, ‘Dracula by Siôn Eirian’, <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Dracula&company=Sherman%20Theatre%20Company>. Ymwelwyd â’r wefan 14 Awst 2014.

----- ‘Hedfan Drwy’r Machlud’, <http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?reviewID=1229>. Ymwelwyd â’r wefan 14 Awst 2014.

LARKIN, Philip, ‘This Be The Verse’, yn Anthony Thwaite (ed.), *Collected Poems* (London, 1990) t. 180.

LEWIS, Heledd Gwyn, 'Beti George a Heledd Gwyn Lewis yn trafod *Garw* gan Siôn Eirian ar raglen Tocyn Wythnos', <<https://soundcloud.com/berwyn/tocyn-wythnos-07-08-14-beti-george-a-heledd-gwyn-lewis>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014. Trac sain.

LEWIS, Saunders, 'Llythyr ynghylch Catholigiaeth', *Y Llenor* (Haf 1927), 72-77.

----- 'Siwan', *Siwan a Cherddi Eraill* (Llandybïe, 1982), t. 33-88.

LOADER, Gwawr, 'Gwawr Loader yn trafod y ddrama, *Garw*, ar raglen C2 Radio Cymru, <<https://soundcloud.com/berwyn/gwawr-loader-c2-29-07-14>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014. Trac sain.

LLEWELYN, Dafydd, 'Torri'r glo mân yn glapia ...', <<http://dafyddllewelyn.wordpress.com/2014/10/02/torrir-glo-man-yn-glapia/>>. Ymwelwyd â'r wefan 5 Hydref 2014.

----- 'Yr ifanc a wŷr', *Barn*, 519 (Ebrill 2006), 52-3.

OWEN, Gruffudd, 'Prifwyl ddramatig', *Barn*, 620 (Medi 2014), 27-8.

PARRY-JONES, Rhys, 'Sgwrs rhwng Rhys Parry-Jones a Shan Cothi ar raglen Bore Cothi', <<https://soundcloud.com/berwyn/rhys-parry-jones-bore-cothi>>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014. Trac sain.

ROS, Nic, 'New writing on the Welsh-language mainstage 1979-1995', yn Anna-Marie Taylor (ed.), *Staging Wales* (Cardiff, 1997), tt. 18-32.

ROWLANDS, Dafydd, THOMAS, Gwyn, LLYWELYN-WILLIAMS, Alun, 'Beirniadaeth Cystadleuaeth cerdd hir neu ddilyniant o gerddi yn portreadu llencyndod', yn NICHOLAS, W. Rhys (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 1978* (Llandysul, 1978), tt. 16-27.

SCOTT, Cathryn, 'Epa yn y Parlwr Cefn', <http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?offset=1924&reviewID=869>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

SPENCER, Stuart, *The Playwright's Guidebook* (New York, 2002).

THOMAS, Gwyn, '“Agro” (Siôn Eirian)', *Dadansoddi 14* (Llandysul, 1984), tt. 106 -10.

TUDUR, Non, 'Clywed Clwyd ar y sgrîn', *Golwg*, 16/28 (25 Mawrth 2004), 19.

WILIAMS, Gerwyn, 'Epil Blin y Mans', *Taliesin*, 88 (1994), 41-51.

----- 'Tad Elvis a Bowen a Bob', *Barn*, 307 (Awst 1988), 14-19.

WILLIAMS, Bethan, 'Garw', <http://ffrwti.com/bethan_wil/1413308414>. Ymwelwyd â'r wefan 21 Hydref 2014.

WILLIAMS, Raymond, *Drama from Ibsen to Brecht* (London, 1971).

WILLIAMS, Waldo, 'O Bridd', *Dail Pren* (Aberystwyth, 1956), tt. 84-5.

WOODWARD, Kate, 'Cegin y Diafol', <http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?offset=2700&reviewID=18>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- 'Hedfan Drwy'r Machlud', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Hedfan%20Drwy%92r%20Machlud&company=Royal%20Welsh%20College%20of%20Music%20and%20Drama>. Ymwelwyd â'r wefan 14 Awst 2014.

----- 'Technoleg Wybodaeth', *Barn*, 458 (Mawrth 2001), 58-60.

Deunydd Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru:

'Ffresgo', *BBC Radio Cymru* (3 Chwefror 1986).

'Arolwg', *HTV Cymru* (24 Mawrth 1986).

'Nabod', *BBC Radio Cymru* (2 Medi 1988).

'Beti a'i Phobol', *BBC Radio Cymru* (Mehefin 1991).

'Pridd a Gwaed', *BBC Radio Cymru* (5 Medi 1999).

Cyfweliadau:

Cyfweliad gyda Siôn Eirian (15 Medi 2014).

Cyfweliad gyda Siân Summers (29 Hydref 2014).

Gohebiaeth:

E-bost gan Siôn Eirian (4 Medi 2015).

DAVIES, Branwen, 'Cegin y Diafol' (5 Mehefin 2014).

GRUFFYDD, Arwel, 'Hedfan Drwy'r Machlud' (15 Medi 2014).

Llyfryddiaeth: Aled Jones Williams

Llyfryddiaeth Graidd:

ROS, Nic (gol.), *Disgwl Bys yn Stafell Mam: Chwech o ddramâu Aled Jones Williams* (Caernarfon, 2006).

ROWLANDS, Ian (gol.), *Llais un yn Llefain* (Llanrwst, 2002).

WILLIAMS, Aled Jones, *Y Dyn Llnau Bogs* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1994).

----- *Cnawd* (teipysgrif anghyhoeddedig, 1996).

----- *Be' o' dd enw ci Tintin?* (Caernarfon, 2003).

----- *Lysh* (Caernarfon, 2004).

----- *Iesu!* (Llandysul, 2008).

----- *Merched Eira a Chwilys* (Llanrwst, 2010).

Llyfryddiaeth Feirniadol:

AP GWILYM, Gwyn, 'Y Gwych a'r Gwachul', *Barddas* (Medi/Hydref/Tachwedd 2002), 70-1.

BIANCHI, Tony, 'Cloriannu cerdd y goron', *Taliesin*, 117 (Gaeaf 2002), 37-61.

CHRÍOST, Diarmait Mac Giolla, 'Sundance: Yn y tawelwch', <www.bbc.co.uk/cymru/theatr/adolygiadau/sundance-adol.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

DIENW, 'Adnabod Awdur: Aled Jones Williams', <www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/awdur/010712aled.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

----- 'Addo profiad anghyfforddus: Dadl drama cyn ei gweld', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2008/sites/ormaes/mawrth05/iesu.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

----- 'Aled Jones Williams', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/author_playlist.asp?author=Aled%20Jones%20Williams>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

----- 'Aled Jones Williams byth am dywyllu'r eglwys eto', *Y Cymro* (27 Gorffennaf 2012), 7.

----- 'Aled Jones Williams – Merched Eira', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/adolygiadau/merched-eira-medi.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

- ‘Aled Jones Williams yn gadael yr Eglwys’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/crefydd-straeon/tudalen/aledjw-gadael.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Argyfwng crefydd: Galw am dynnu meddyliau ‘drwy ddrain a mieri hunan dwyll’’,<
<http://www.bbc.co.uk/cymru/crefydd/safle/straeon/pages/fffwndamental.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Bardd yn beirniadu cerdd y Goron’,
<http://news.bbc.co.uk/hi/english/newyddion/newsid_2320000/2320889.stm>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Beckett yn y Steddfod’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/beckett.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Brithyll – i blant ysgol’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/646-prysor.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Bwrw Golwg’,
<<http://www.bbc.co.uk/mediaselector/check/cymru/radiocymru/media/aledjw?size=au&nbram=1&bgc=C0C0C0&lang=cy>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Bwrw Golwg’,
<<http://www.bbc.co.uk/mediaselector/check/cymru/radiocymru/media/iesu-ajw?size=au&nbram=1&bgc=C0C0C0&lang=cy>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Bwrw Golwg’,
<<http://www.bbc.co.uk/mediaselector/check/cymru/radiocymru/media/iesu-barn?size=au&nbram=1&bgc=C0C0C0&lang=cy>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Clywed y Llais’, *Golwg*, 14/47 (8 Awst 2002), 33.
- ‘Coroni prydddest oedd filltiroedd ar y blaen’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2002/maes/coroni.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Chwilys ar daith’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/straeon/chwilys.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Difaru Dim’, *Golwg*, 15/47 (19 Medi 2002), 25.
- ‘Discovering Another World / Darganfod Byd Arall’, <http://gorsedd-arberth.blogspot.co.uk/2010_10_01_archive.html>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Geiriadur Prifysgol Cymru’, <<http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>>.

----- ‘Gwilym Owen yn holi Aled Jones Williams’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/021010aled.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan
10 Medi 2013.

----- ‘Hen Ddrama Newydd Aled Jones Williams’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=1261>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Iesu: Aled Jones Williams’, *Y Faner Newydd*, 45 (Hydref 2008), 15.

----- ‘Iesu! – barn y beirniaid’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/iesux.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan
10 Medi 2013.

----- ‘Iesu! – drama newydd’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/iesu.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10
Medi 2013.

----- ‘Jesus!’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=2707>>.
Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Jesus!’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=2761>>.
Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Lysh yng Nghasnewydd’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2004/cefnidir/lysh.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi
2013.

----- ‘Merched Eira’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/straeon/merched-eira.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Merched Eira’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=3586>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘O goron i botel’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/423-aled.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘O’r silff lyfrau’, *Y Ffynnon* (Medi 2012), 35.

----- ‘Offeiriad yn cipio'r Goron’,
<http://news.bbc.co.uk/hi/english/newyddion/newsid_2174000/2174423.stm>. Ymwelwyd â’r
wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Prifardd nad yw’n un o’r gang!’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/021010aled.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan
10 Medi 2013.

----- ‘Pryder ficer alcoholig’,
<http://www.bbc.co.uk/welsh/hi/nwesid_3870000/newsid_3876800/3876861.stm>.
Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

- ‘Recovered alcoholic wins poetry crown’,
<<http://www.icwales.icnetwork.co.uk/whatson/page.cfm?objectid=12093912&method=full&siteid=50082>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Rhegi llenyddol: Beirniad a llenor yn peltio iaith anwedus’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/rhegi.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Rhestr Awduron Cymru’, <<http://www.llenyddiaethcymru.org/rhestr-o-awduron/i/130084/desc/williams-aled-jones/>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Sundance ar daith: Cowbois yn y meddwl’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/sundance.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Sundance – Theatr Genedlaethol Cymru’, <<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=1670>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Ta-Ra Teresa by Aled Jones Williams’, <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Ta-Ra%20Teresa&company=Cwmni%20Theatr%20Gwynedd>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Two Plays by dramatist Aled Jones Williams for the price of one ticket’,
<<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=3667>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Theatr Bara Caws yn llwyfannu’r ddrama gomisiwn am y tro cyntaf erioed’,
<<http://www.theatre-wales.co.uk/news/newsdetail.asp?newsID=1067>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Wythnos Gwilym Owen’,
<<http://www.bbc.co.uk/mediaselector/check/cymru/radiocymru/media/aledjw1?size=au&nbram=1&bgc=C0C0C0&lang=cy>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Wythnos Gwilym Owen’,
<<http://www.bbc.co.uk/mediaselector/check/cymru/radiocymru/media/rhegi?size=au&nbram=1&bgc=C0C0C0&lang=cy>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Y ferch Iesu’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/iesu-02.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Ychydig Is Na’r Angylion’,
<www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/645-angylion.shtml>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.
- ‘Ychydig Is Na’r Angylion: Dewis nofel clwb darllen’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/714-angylion.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Ychydig Is Na’r Angylion: Siop dan ei sang ar gyfer cyhoeddi nofel’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/645-angylion.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Yr Efengyl yn ôl Luc’, *Y Beibl Cymraeg Newydd* (Swindon, 1988).

----- <www.academi.org/rhestr-o-awduron/i/130084/>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- <www.bbc.co.uk/hi/english/newyddion/newsid2174000/2174423.stm>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- <<http://www.gomer.co.uk/gomer/cy/gomer.ViewAuthor/authorBio/1347>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- <[www.theatre-wales.co.uk/plays/review-archive.asp?playname=Tara-Ra%20Teresa&company=Cwmni%20Theatr&20Gwynedd](http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review-archive.asp?playname=Tara%20Teresa&company=Cwmni%20Theatr&20Gwynedd)>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

DROMGOOLE, Dominic, ‘Sarah Kane’, yn *The Full Room: An A-Z of Contemporary Playwriting* (London, 2000), tt. 161-5.

EDGAR, Iwan, ‘Adolygiad o Chwilys’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/adolygiadau/chwilys.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

EDWARDS, Y Parchedig Aled, ‘Iesu! – adolygiad’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2008/sites/ormaes/mercher06/iesu-aled.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

ELEN, Angharad, ‘Adolygiad radio rhaglen Dewi Llwyd’,
<<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/theatr/adolygiadau/chwilys.shtml>>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Dramâu Eisteddfod Casnewydd 2004’, <http://www.theatre-wales.co.uk/critical/critical_detail.asp?criticalID=187>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

ELFYN, Menna Elfyn, ‘Difaru Dim’, *Golwg*, 15/47 (19 Medi 2002), 25.

----- ‘Pryddest neu ddilyniant o gerddi heb fod dros 200 llinell: Awelon’ yn HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi, 2002* (Llandybie, 2002), tt. 39-48.

ELIS, Meg, ‘Gwreiddyn y Drwg’, *Barn*, 458 (Mawrth 2001), 61-3.

ELLIS, Gwen, ‘The Confessions of Miss Evans’, <www.theatre-wales.co.uk/critical_detail.asp?criticalID=143>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

EMYR, Luned, ‘Mynd i Gyfeiriad Arall’, *Taliesin*, 128 (Haf 2006), 119-26.

ESSLIN, Martin, *The Theatre of the Absurd* (London, 1962).

EVANS, Gareth, 'Sundance by Aled Jones Williams', <http://www.theatre-wales.co.uk/plays/review_archive.asp?playname=Sundance&company=Bara%20Caws>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

EVANS, Gareth Llŷr, 'Astudiaeth o'r Cysyniad o Theatr Ôl-Ddramataidd yng Nghyd-Destun Gwaith Cwmni Brith Gof a'i Ddilynwyr ac Aled Jones Williams' (Traethawd Ph.D., Prifysgol Aberystwyth, 2012).

----- 'Rhagymadrodd', yn WILLIAMS, Aled Jones, *Pridd* (Caerfyrddin, 2013), tt. 6-8.

EVANS, Glyn, 'Swyn geiriau a chyfaredd lluniau', <www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/straeon/010712aled.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

EVANS, Lindsay, MILES, Gareth, THOMAS, Edward, 'Drama hir ar unrhyw destun', yn JONES, W. J. (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Nedd a'r Cyffiniau, 1994* (Llandybie, 1994), tt. 150-1.

EVANS, Lona, 'Adolygiad o Iesu', *Cristion*, 151 (Gaeaf 2008), 22.

FOULKES, Huw Alun, 'Ychydig Is Na'r Angylion: Ar daith ysgytwol gydag awdur pwerus', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/bro-angylion.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

GEORGE, Eirwyn, 'Pryddest neu ddilyniant o gerddi heb fod dros 200 llinell: Awelon', yn HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi, 2002* (Llandybie, 2002), tt. 31-9.

GREIG, David (int.), *Sarah Kane: Complete plays* (London, 2001).

GRIFFITHS, Gwyn, 'Deuawd Aled Jones Williams', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod/2010/safle/ormaes/bara-caws.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

GWANAS, Bethan, 'Rhegi dy fam', *Barn*, 441 (Hydref 1999), 65-6.

HALLAM, Tudur, *Saunders y Dramodydd* (Caernarfon, 2013).

HUGHES, Non Meleri, 'Chwilys: Artaith bleserus', <<http://tuchwith.com/2010/03/adolygiad-o-chwilys-drama-newydd-aled-jones-williams-gan-non-meleri-hughes/>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

HUNTER, Jerry, 'Mole Vama', *Barn*, 479/480 (Rhagfyr 2002 / Ionawr 2003), 80-3.

HUWS, Martin, 'Yn Hon Bu Afon Unwaith: 'Nofel fer – nofel fawr'', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau/adolygiadau/849-aled.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

JONES, Einir, 'Pryddest neu ddilyniant o gerddi heb fod dros 200 llinell: Awelon' yn HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi, 2002* (Llandybïe, 2002), tt. 48-57.

JONES, Janice, 'Aled Jones Williams – adolygiad Y Cylchoedd Perffaith', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/adolygiadau/cylchoedd-perffaith.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

JONES, John Gwilym, 'Drama Hir: Beirniadaeth John Gwilym Jones' yn BASSETT, T. M. (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Dwyfor, 1975* (Llandysul, 1975), tt. 139-43.

JONES, Meinir Eluned, 'Ci Tintin', *Barn*, 489 (Hydref 2003), 58-9.

----- 'Dy Daith dy Hun', *Barn*, 482 (Mawrth 2003), 48-9.

JONES, R. Arwel, 'Ychydig Is Na'r Angylion', <<http://www.gwales.com/goto/review/cy/9781904845478>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

LLWYD, Alan, 'Golygyddol [Pryddest fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi, 2002]', *Barddas*, 269 (Medi/Hydref/Tachwedd 2002), 4-5.

LLWYD, Rhys, 'Blog Rhys Llwyd: Iesu! Aled Jones Williams', <<http://rhysllwyd.blogspot.co.uk/2008/08/iesu-aled-jones-williams.html>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

LLYWELYN, Dafydd, 'Prynwch Fuwch, rhag ofn', *Barn*, 479/480 (Rhagfyr 2002 / Ionawr 2003), 86-7.

MARED, Gwenan, 'Beckett a Bara Caws', <<http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=172>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

----- 'Lyshio', *Barn*, 501 (Hydref 2004), 54-5.

----- 'Y Stori fwyaf?', *Barn*, 548 (Medi 2008), 36-8.

MILES, Gareth, 'Colofn Gareth Miles – Theatr Genedlaethol Cymru', <<http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=31>>.

MORGAN, Sharon, STEPHENS, Elan Closs, WILLIAMS, Dewi Wyn, 'Drama fer ar gyfer y llwyfan', yn JONES, W. J. (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Dinefwr, 1996* (Llandybïe, 1996), tt. 144-6.

NEFYDD, Jonathan, 'Cyflwyno *Sundance*' yn Ian Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain* (Llanrwst, 2002), tt. 26-9.

OWEN, Goronwy Wyn, *Morgan Llwyd* (Caernarfon, 1992).

OWEN, Karen, 'Credw mewn uwD', *Golwg*, 15/7 (17 Hydref 2002), 7.

----- ‘Dewis Bywyd nid y Botel’, *Golwg*, 16/36 (20 Mai 2004), 24-5.

OWEN, Roger, ‘Hunllef Effro’, *Barn*, 568 (Mai 2010), 48-9.

-----, ‘Y Dieithredig’, *Barn*, 522/523 (Gorffennaf / Awst 2006), 91-4.

PARRY, Norman Clos, ‘Ein barn am y bryddest’, *Barddas*, 269 (Medi/Hydref/Tachwedd 2002), 34-40.

POWELL, Nia, ‘Awelon’, <www.cynghanedd.com/awelon/>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

ROBERTS, Huw, ‘Dramodydd yr Isfyd’, *Barn*, 410 (Mawrth 1997), 27-9.

ROBERTS, Huw, EDWARDS, Carys Ll., LAKER, Graham, ‘Drama lwyfan o leiaf un awr a hanner o hyd’, yn HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Bro Colwyn, 1995* (Llandybïe, 1995), tt. 19-21.

ROS, Nic, ‘A55 Dwy Ffordd’, *Barn*, 479/480 (Rhagfyr 2002 / Ionawr 2003), 84-5.

ROS, Nic, ‘Awelon yn y theatr’, <www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/03-awelon.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Bardd Sy’n Haeddu Llwyfan’, *Barn*, 422 (Mawrth 1998), 12-13.

----- ‘Mil o ddehongliadau – caboledig nid cableddus’, <<http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2008/sites/ormaes/iau07/iesu-02.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Ta-Ra Teresa – eto’, <www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatre/03-teresa.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Cyfweliad gydag Aled Jones Williams’, yn Nic Ros (gol.), *Disgwyl Bÿs yn Stafell Mam: Chwech o ddramâu Aled Jones Williams* (Caernarfon, 2006), tt. 7-16.

----- ‘Rhagymadrodd: ‘Siarad â’u Hunain’’, yn Ian Rowlands (gol.), *Llais un yn Llefain* (Llanrwst, 2002), tt. 13-22.

----- ‘Rhwng rheg a rhexreg’, yn Nic Ros (gol.) *Disgwyl Bÿs yn Stafell Mam: Chwech o ddramâu Aled Jones Williams* (Caernarfon, 2006), tt. 17-35.

ROWLANDS, Ian (gol.), ‘Cyflwyniad i’r gyfrol’, *Llais un yn Llefain* (Llanrwst, 2002), tt.9-12.

ROWLANDS, John, ‘Chwarae â Chwedlau: Cip ar y nofel Gymraeg ôl-foderniadd’, *Y Traethodydd*, 151 (Ionawr 1996), 5-24.

SOMERSET, Adam, ‘A vibrant, energising piece of theatre’, <http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?reviewID=1963>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

THOMAS, Barry, 'Cyffwrdd ym mêr esgryn y theatr', *Golwg*, 22/29 (Ebrill 2010), 28-9.

THOMAS, Dafydd Elis, "‘Rhaid i Ti Fyned y Daith Honno dy Hun’", <<http://www.gwales.com/goto/review/cy/9781903314159/>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

THOMAS, Gwyn, 'Annwn', *Duwiau'r Celtiaid* (Llanrwst, 1992), tt. 66-8.

THOMAS, Meirion R., 'Pa Iesu? Ymosod ar ddrama "anfoesol"', *Golwg*, 20/45 (31 Gorffennaf 2008), 36-7.

THOMAS, M. Wynn, *Morgan Llwyd, ei gyfeillion a'i gyfnod* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1991).

THOMAS, M. Wynn (gol.), *Morgan Llwyd: Llyfr y Tri Aderyn* (Caerdydd, 1988).

TREWYN, Hywel, 'Porthmadog priest portrays Jesus as a woman', <<http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/2008/07/16/porthmadog-priest-portrays-jesus-as-a-woman-55578-21348161/>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

TUDUR, Non, 'Annog mwy o bobl i greu dramâu gwreiddiol', *Golwg*, 25/4 (27 Medi 2012), 23.

----- 'Grym y Gair "ar goll"?'', *Golwg*, 24/35 (10 Mai 2012), 10-11.

TURNER, Jeremy, 'Be' O'dd Enw Ci Tintin?', <<http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9780954039837/>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

WHELDON, Gwyn, WILLIAMS, Megan Lloyd, DAVIES, Meirion Lloyd, HUGHES, Lowri, LEWIS, William R., 'Holi am 'Iesu'', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/iesu-03.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

WILLIAMS, Aled Jones, 'Argyfwng Crefydd/Aled Jones Williams yn herio eglwysi Cymru!', *Cristion*, 142/143 (Hydref 2007), 11.

----- 'Awdurdod yr Eglwys', *Barn*, 551/552 (Rhagfyr 2008 / Ionawr 2009), 22-3.

----- 'Brodyr i'w gilydd', <<http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/crefydd-dweud/tudalen/100930.shtml>>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

----- Darlith gan Aled Jones Williams a drefnwyd gan Gangen Bangor o Raddedigion Prifysgol Cymru (14 Tachwedd 2014).

----- 'Datganoli neu ddatgymalu', *Y Llan* (23 Chwefror 1979), 1 + 7.

----- 'Dynes Mewn Coleg Wen – Ych a Fi!', *Y Llan* (12 Mai 1978), 1-2.

- *Eneidiau* (Llanrwst, 2013).
- Gweithdy sgrïptio yn Tŷ Golchi, Bangor (26 Ionawr 2013).
- ‘Hysbysebu am Offeiriaid?’, *Y Llan* (8 Gorffennaf 1977), 4.
- ‘Llyfrgell’, *Taliesin*, 140 (Haf 2010), 163-7.
- *Oerfel Gaeaf Duw* (Caernarfon, 2002).
- *Pridd* (Caerfyrddin, 2013).
- ‘*Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun*’ (Caernarfon, 2001).
- ‘Rhagair’, *Lysh* (Caernarfon, 2004), t. 7.
- ‘Rhyw air’, *Merched Eira a Chwilys* (Llanrwst, 2010). tt. 6-7.
- ‘Rhyw lun ar ragair’, *Iesu!* (Llandysul, 2008), tt. 5-6.
- ‘Sgwennu’r Ffin’, *A470: whats on in literary Wales = beth sy’ mlaen yn llên Cymru*, 22 (Ionawr/Chwefror/Mawrth 2003), 4.
- *Tuchan o Flaen Duw* (Llanrwst, 2012).
- ‘Y Bryddest’ yn HUGHES, J. Elwyn (gol.), *Cyfansoddiadau a beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tyddewi, 2002* (Llandybie, 2002), tt. 58-61.
- *Y Cylchoedd Perffaith* (Caernarfon, 2010).
- ‘Y ddinas sydd i ddod’, *Barn*, 539/540 (Rhagfyr 2007 / Ionawr 2008), 16-18.
- ‘Y Ffin’, *Y Llan* (29 Awst 1980), 1 + 8.
- *Ychydig Is Na’r Angylion* (Caernarfon, 2006).
- ‘Ynglŷn â’r Goron’, *Barddas* (Rhagfyr 2002 / Ionawr 2003), 43-4.
- *Yn hon bu afon unwaith* (Caernarfon, 2008).
- ‘Ysgrifau Dramodwyr: Aled Jones Williams’ (ysgrif ar gyfer y modiwl Sgrïptio, Prifysgol Aberystwyth).

WILLIAMS, Manon Wyn, ‘Holi Aled Jones Williams’, yn Gerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXIX* (Dinbych 2010), t. 11.

WYN, Elin, ‘Adolygiad: ‘Lysh’ y ddrama gomisiwn’, <http://www.bbc.co.uk/cymru/eisteddfod2004/maes/adolygiad_lysh.shtml>. Ymwelwyd â’r wefan 10 Medi 2013.

----- ‘Lysh gan Aled Jones Williams’,
<www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/theatr/adolygiadau/lysh.shtml>. Ymwelwyd â'r wefan 10 Medi 2013.

Deunydd Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru:

‘Troeon: Portread o Aled Jones Williams, gŵr sy'n dychwelyd i Borthmadog ar ôl byw yn Lerpwl’, *S4C* (4 Mai 1995).

‘Croma: Adolygiad o'r ddrama Sundance’, *Cwmni Da* (15 Hydref 1999).

‘Beti a'i phobl: Aled Jones Williams yn cael ei holi gan Beti George’, *BBC Radio Cymru* (2 Tachwedd 2000).

‘Croma: eitem ar y gyfrol ‘*Rhaid i ti fyned y daith honno dy hun*’’, *Cwmni Da* (22 Mehefin 2001).

‘Y Sioe Gelf: Portread o'r Parch. Aled Jones Williams’, *Cwmni Da* (19 Awst 2002).

‘Croma: eitem ar y gyfrol Oerfel Gaeaf Duw’, *Cwmni Da* (15 Tachwedd 2002).

‘Y Sioe Gelf: Awelon’, *Cwmni Da* (16 Chwefror 2003).

‘Croma: eitem ar y ddrama Lysh’, *Cwmni Da* (14 Gorffennaf 2004).

‘Y Daith’, *S4C* (1 Tachwedd 2009).

‘Wedi 7: eitem ar y ddrama Chwilys’, *Tinopolis* (24 Mawrth 2010).

‘Wedi 7: Aled Jones Williams yn trafod y gyfrol Y Cylchoedd Perffaith’, *Tinopolis* (18 Hydref 2010).

Cyfweliadau:

Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (7 Ebrill 2008).

Cyfweliad gydag Aled Jones Williams (23 Medi 2013).

Cyfweliad gyda Valmai Jones (2 Hydref 2013).

Atodiad: Meic Povey

Enw'r ddrama	Dyddiad llwyfannu	Cwmni Llwyfannu	Cyfarwyddydd	Actorion
<i>Y Cadfridog</i>	1978	Theatr yr Ymylon	Meredith Edwards	Stewart Jones Ian Saynor
<i>Terfyn</i>	1978	Theatr yr Ymylon	Gruffydd Jones	Mei Jones Elliw Haf
<i>Chwara Plant</i>	1983	Cwmni Theatr Bara Caws	Mei Jones	Elliw Haf Elfed Dafis Beryl Williams Stewart Jones
<i>Gyda Llaw</i>	1985	Cwmni Whare Teg	William Thomas	Christine Pritchard Ernest Evans Dafydd Hywel Siwan Jones
<i>Perthyn</i>	1986-7	Cwmni Whare Teg	David Lyn	Ian Saynor Olwen Rees Ifan Huw Dafydd Nia Edwards
	2002	Cwmni Mega	Dafydd Hywel	Bryn Fôn Sue Roderick Iola Hughes Christine Pritchard
<i>Gwaed Oer</i>	1992	Cwmni Whare Teg	Dafydd Hywel	Bryn Fon Sue Roderick Eric Wyn Dafydd Emyr Lowri Mererid
<i>Wyneb yn Wyneb</i>	1993	Dalier Sylw	Bethan Jones	Olwen Rees Dafydd Dafis Danny Greham
<i>Diwedd y Byd</i>	1993	Cwmni Theatr Bara Caws	Meic Povey	Maldwyn John Merfyn Pierce Jones Sian James Catherine Aran
	2000	Sgript Cymru	Siân Summers	Gwenno Elis Hodgkins Betsan Llwyd Dafydd Dafis Maldwyn John
<i>Yn Debyg Iawn i Ti a Fi</i>	1995	Cwmni Theatr Bara Caws	Meic Povey	Merfyn Pierce Jones Gwenno Hodgkins Maldwyn John Catherine Aron Glyn Pritchard

	2004	Theatr Genedlaethol Cymru	Cefin Roberts	Gwenno Hodgkins Bryn Fon Siw Hughes
<i>Fel Anifail</i>	1995	Dalier Sylw	Bethan Jones	Christine Pritchard Owen Garmon
<i>Bonansa!</i>	1996	Dalier Sylw	Meic Povey	Maldwyn John Merfyn Pierce Jones Gwenno Hodgkins Anwen Carlisle Morgan Hopkins
<i>Tair</i>	1998	Dalier Sylw	Bethan Jones	Lisabeth Miles Betsan Llwyd Catrin Powell
<i>Yr Hen Blant</i>	2000	Sgript Cymru	Bethan Jones	Gwenno Elis Hodgkins Betsan Llwyd Dafydd Dafis Maldwyn John
<i>Sylw</i>	2002	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	Eryl Huw Phillips	Gareth John Bale Heledd Baskerville Gemma Rhys Jones Gareth Pierce Huw Rhys Dylan Williams
<i>Hen Bobl Mewn Ceir</i>	2006	Sgript Cymru	Elen Bowman	Alun ap Brinley Eiry Hughes
<i>Tyner yw'r Lleuad Heno</i>	2009	Theatr Genedlaethol Cymru	Meic Povey	Owen Arwyn Ffion Dafis Owen Garmon Arwyn Jones Merfyn Pierce Jones Tonya Smith Buddug Povey
<i>Man Gwyn Man Draw</i>	2013	Theatr Genedlaethol Cymru, Sherman Cymru Living Pictures	Ffion Haf Jones	Owen Arwyn Lisa Jen Brown

Atodiad: Siôn Eirian

Enw'r ddrama	Dyddiad Llwyfannu	Cwmni Llwyfannu	Cyfarwyddydd	Actorion
<i>Wastad ar y Tu Fas</i>	1986	Cwmni Theatr Hwyl a Fflag	Gruffydd Jones	Wyn Bowen Harries Dafydd Dafis Mei Jones Dewi Rhys Sioned Mair
<i>Elvis, Y Blew a Fi</i>	1988	Cwmni Theatr Hwyl a Fflag	Guffydd Jones	Edward Thomas Dafydd Dafis Gwen Ellis Siân Summers Nia Edwards Ian Saynor
<i>Epa yn y Parlwr Cefn</i>	1994	Dalier Sylw	Eryl Phillips	Siân Rivers Maria Pride Medi Evans Steffan Rhodri
	2004	Cwmni Theatr 3D	Gareth John Bale	Catrin Wyn Jones Nia Wyn Jones Hannah Wynn Jones Trystan ab Ifan
<i>Paradwys Waed</i>	2000	Cwmni Theatr Bara Caws	Ian Rowlands	Alys Thomas Dafydd Dafis Betsan Llwyd Dyfrig Evans Dyfan Roberts
<i>Hedfan Drwy'r Machlud</i>		Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	Arwel Gruffydd	Catrin Morgan Nadine Beaton Catherine Evans Ffion Williams Elen Rhys Siân Alwen
<i>Cegin y Diafol</i>	2001	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	Tim Barker	Catrin Mara Elen Gwynne Kate Jarman Aled Pugh Branwen Davies
<i>Garw</i>	2014	Cwmni Theatr Bara Caws	Betsan Llwyd	Eiry Thomas Rhys Parry Jones Gwawr Loader Siôn Ifan

Atodiad: Aled Jones Williams

Enw'r ddrama	Dyddiad llwyfannu	Cwmni Llwyfannu	Cyfarwyddydd	Actorion
<i>Dyn Llnau Bogs</i>	-	-	-	-
<i>Cnawd</i>	1997	Dalier Sylw	Bethan Jones, Geinor Jones Tim Baker	Sara Harris Davie Gwyn Vaughan Jones
<i>Pêl Goch</i>	1998	Cwmni Theatr Gwynedd	Valmai Jones	Gwenno Elis Hodgkins Dewi Rhys
<i>Fel Stafell</i>	1999 (teledu)	Cwmni Bracan	Bethan Jones yn cyfarwyddo Branwen Cennard yn cynhyrchu	Owen Garmon Olwen Rees Catrin Powell
<i>Wal</i>	1999	Cwmni Theatr Gwynedd	Valmai Jones	Maldwyn John Merfyn Pierce Jones
<i>Sundance</i>	1999 2005	Cwmni Theatr Bara Caws Theatr Genedlaethol Cymru	Ian Rowlands Cefin Roberts	Jonathan Nefydd Owen Arwyn
<i>Tiwlips</i>	2000	Cwmni Theatr Gwynedd	Siân Summers	Maldwyn Jones Valmai Jones Merfyn Piere Jones
<i>Ta-Ra Teresa</i>	2002 2003	Cwmni Theatr Gwynedd Llwyfan Gogledd Cymru	Ian Rowlands Ian Rowlands	Michael Atkinson Rhian Cadwaladr Owen Arwyn Elin Wmffras Michael Atkinson Rhian Cadwaladr Owen Arwyn Tami Gwyn
<i>Be Odd Enw Ci Tintin?</i>	2003	Cwmni Theatr Bara Caws	Hugh Thomas	Bryn Fôn Rhodri Meilir Awen Wyn Williams Gwen Ellis
<i>Lysh</i>	2004	Cwmni Theatr Bara Caws	Valmai Jones	Maldwyn John Phil Reid Rhodri Meilir Betsan Llwyd
2	2005	Adran Cyfathrebu a'r Cyfryngau Prifysgol Bangor	Ann Wyn Barker	Ann Wyn Barker Lois Cernyw
<i>Iesu!</i>	2008	Theatr Genedlaethol	Cefin Roberts	Dafydd Emyr Sioned Wyn

		Cymru		Dafydd Dafis Llion Williams Gareth ap Watkins Llŷr Evans Mathew Lloyd Dorien Thomas Fflur Medi Owen Myfyrwyr o Ysgol Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau, Coleg y Drindod, Caerfyrddin
<i>Merched Eira</i>	2010	Cwmni Theatr Bara Caws	Bryn Fôn	Gaynor Morgan Rees Olwen Rees Martin Thomas
<i>Chwilys</i>	2010	Theatr Tandem	Valmai Jones	Owain Arwyn Martin Thomas
<i>Dyn Eira</i>	2010	Cwmni Theatr Bara Caws	Bryn Fôn	Martin Thomas
<i>Pridd</i>	2013	Theatr Genedlaethol Cymru	Sara Lloyd	Owen Arwyn
<i>Anweledig</i>	2013-14	Cwmni Frân Wen	Iola Ynyr	Ffion Dafis